



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:


- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


Cell 5122.2.30







4



J. Harvey


Rev. James Harvey, A. M.

MYFYRDODAU
AC
YSTYRIAETHAU.
GAN
Y Parch S^r. Harvey, A. M.



LLUNDAIN.

Cyhoeddwyd gan H. Fisher, Son, & C^o 38, Newgate Street.



MYFYRDODAU

AC

YSTYRIAETHAU:

YN CYNNWYS

MYFYRDODAU YMHLITH Y BEDDAU, ADFFYRIADAU AR ARDD FLODAU, TRAETHAWD AR GREEDIGAETH,	YSTYRIAETHAU AR Y NOS, YSTYRIAETHAU AR Y NEFOEDD SER- ENOG, A GAUAF-DRAITH.
--	---

GAN Y

PARCH. JAMES HERVEY, A.M.

GYNT PERIGLOR WESTON FAVEL, SWYDD NORTHAMPTON.

GYDA

CHOFIANT YR AWDWR,

GAN Y PARCH. D. M'NICOL.

Y CYFAN WEDI EI CYMREIGIO GAN


D. WILLIAMS, MERTHYR TYDFIL.

LLUNDAIN:

**ARGRAFFWYD GAN FISHER, SON, & JACKSON,
38, NEWGATE-STREET.**

1828.

Celt 5122.2.30



water

COFIANT BYWYD

Y PARCH. JAMES HERVEY, A.M.

WEDI EI GASOLU GAN

Y PARCH. DAVID M'NICOL.

PAN fyddo ysgrifeniadau awdwr, gyda sêl a dawn mawr, yn canmawl rhai o'r dyledswyddau moesol a chrefyddol mwyaf pwysig; nid yw yn rhan annifyr o fyfyrddod y natur ddynol, nac ychwaith yn ffordd anfuddiol i ychwanegu grym at yr egwyddorion hyny, i olrhain pa un a oedd ei fywyd a'i gymmeriad, mewn gwirionedd, yn cyfateb i ddyben profsedig ei athrawiaethau. Ar y golygiad hwn, geill yr anghraifft dan ein sylw herio yr ymchwil fanylaf a mwyaf diduedd: mae hefyd yn dangos y dull ymha un y dygodd syniadau y dyn eu heffeithiau gweledig oddi amgylch, ac yn nodi rhanau hanfodol eu tueddrwydd yn ffurfiad Cristion rhagorol, a gweinidog defnyddiol o'r efengyl. Mewn cymhariaeth i'r fantais a ddeillia oddiwrth yr olwg hon ar y testyn, nid yw yr hyfrydwch o chwilio helynt athrylith, ond bychan a distadl; ond pan fyddo'r ddau wedi eu huno, mwynhawn hyfrydwch dedwyddaf adfyfyriad, a theimlwn nerth siampl yn ei awdurdod uchaf.

JAMES HERVEY, ysgrifenydd enwog a duwinydd, a anwyd Chwefror 26, 1713, yn Hardington, gerllaw Northampton. Mab oedd efe i offeiriad yr hwn a ddaliai bersonaethau Weston-Favel a Colingtree, ill dwoeddd yn y gymmydogaeth hono. Am hanes y

bonheddig hwn ni wyddys ond ychydig. Ymddengys, pa fodd bynag, fod ei hynafiaid yn dra chyfrifol. Yr oedd un o honynt yn farnwr; a buasai un arall yn aelod o'r senedd dros dref Northampton; a buasai tadogaeth y personaethau uchod dros flynyddau lawer yn meddiant y teulu.

Parhaodd gwrthddrych yr hanes hyn dan addysg ei fam nes oedd efe yn saith mlwydd oed, pryd y cafodd ei anfon i ysgol rydd ieithadurol Northampton. Yn y sefyllfa hon yr arosodd efe dros ddeng mlynedd; ymha amser y dysgodd efe y ieithoedd Lladin a Groeg, heb hynodi ei hun mewn dim namyn yn ei fedrusrwydd yn chwaryddiaethau cyffredin ieuengctyd.

Mynych yr ymddangosodd y talentau dysclaeriaf mewn dynion nad oeddynt ar y cyntaf mewn un modd yn obeithlawn. Yn achos Mr. Hervey, dywedir i hyn godi oddiar wangeloniadau ei athraw, yr hwn oedd yn meddu y gwendid atgas o attal cynnydd ei ysgolheigion, rhag iddynt fyned tu hwnt i hurtrwydd ei fab ei hun. Ond er hyn, yr oedd cyflensderau Mr. Hervey i ddysgu ar y cyfan yn fanteisiol. Rhaid priodoli ei gynnydd bychan yn ei fyfyrddodau boreuol, nid i ddiffyg athrylith neu annogaeth, eithr yn benaf i ddiffyg ymroad: efe a allai ddysgu yr hyn a hoffai; ac nid hyd onid oedd efe wedi bod amryw flynyddoedd yn y brif ysgol, a'i feddwl wedi ei droi yn ddirifol, yr ymosododd efe ar ei fyfyrddodau gyda llawer o lwyddiant. Mae'r amgylchiad hwn yn galw am sylw pob myfyriwr. Dichon galluoedd cynhenid y planhigyn fod yn ddianaf ac yn dda, etto sychder parhaus a rwystra eu gweithrediad; ond disgyned y gawod, a rhyfedd fydd y cyfnewidiad!

Yn 1731, efe a adawodd yr ysgol, ac a aeth i Goleg Lincoln, Rhydychen. Yma ei athrawon oeddynt, y Parch. Mr. Hutchins, ar ol hyn pen y tŷ hwnw, a Mr. John Wesley, pryd hyny yn gyfaill o'r Coleg.

Ymben o gylch dwy flynedd ar ol hyn, Mr. Wesley, ynghyd â'r Mrd. Morgan, Ingham, a Whitefield, cydfyfyrrwyr â Mr. Hervey, a amlygasant argraffiadau crefyddol tra dyfnion. Y bonheddigion hyn a gyfeillachent ynghyd yn rheolaidd, i gynnorthwyo eu gilydd mewn duwioldeb a llenyddiaeth; pryd, ar gynnygiad Mr. Wesley, y cafodd ein hawdwr ei dderbyn i'w rhifedi. Yr oedd eu daliadau duwinyddol heb eu sefydlu etto; ond cynlluniau eu sêl dros ddefnyddioldeb, eu gweithredoedd dirgel o dduwioldeb, a'u myfyrdodau llenyddol, oeddynt yn drefnus i'r radd uchaf, ac a gedwid yn fanwl. Yn y cyfamser, Mr. Hervey a gyrhaeddodd lawer o wybodaeth ynghylch meddwl yr ysgrythyr, ac a gwmpodd mewn cariad ag ysgrifeniadau L'Pluche, Dr. Derham, a Mr. Ray. Efe a ddarllenodd yr awdwyr hyn yn fanwl; ac efe a gasglodd o honynt nid yn unig lawer o wybodaeth yn egwyddorion a gwirioneddau athronyddiaeth naturiol; eithr dysgodd hefyd gyssylltu crefydd â holl destynau ei fyfyrdod.

Yn 1733, efe a dderbyniodd oddiwrth Mr. Wesley addysgiadau yn y iaith Hebraeg. Gofdiai Mr. Hervey fod myfyrio yr Hebraeg, iaith yr hon yr arweinasid ef, oddiar dystiolaeth beirniaid, i gredu, sydd mor hynod am syllder ei ffurfiad ac am rym a godidogrwydd ei hystyr, ymron cael ei lwyr esgeuluso yn y prif-ysgolion dysgedig; a chan ystyried hyn yn rhwystr neillduol i gynnydd gwybodaeth dduwinyddol, fel mai priodol

ddealldwriaeth o'r ysgrythyrau Hebraeg yn gymhorth nid bychan i fyfyrïo'r *Testament Newydd*, efe a ben-derfynodd fynu y cynnorthwy hyn i'w swydd fwriadol fel gweinidog gair Duw. Ar y cyntaf digalonwyd ef, ond efe a lwyddodd yn y diwedd; ac er na chafodd erioed ei ystyried yn y radd uchaf o ysgolheigion a beirniaid, etto mae ei nodiadau achlysurol ar y testynau Hebraeg yn dangos yn eglur werthfawrogrwydd y fath wybodaeth.*

Ar y pen hwn efe a ysgrifennodd ar ol llaw at Mr. Wesley yn y geiriau bonheddigaid a diolchgar canlynol:—"Yr wyf yn diolch i chwi yn galonog, megis am eich holl hynawederau, felly yn neillduol am ddysgu Hebraeg i mi. Yr wyf yn coleddu (yn ol eich cynghor) y myfyrdod hwn drachefn. Ni allaf byth anghofio y cyfaill haelionus a thyner-galon hwnw o Lincoln, yr hwn a ymostyngodd i gymmeryd y fath sylw tosturiol o dan-raddolwr tlawd, yr hwn a ddiystyrid agos gan bawb, ac nid oedd neb yn gofalu am fy enaid."†

Yn 1736, efe a adawodd y brif-ygol, heb gymmeryd ond yn unig y radd o Wryf yn y Celfyddydau, er o bum mlynedd o arosiad. Yn Medi, y flwyddyn hon, efe a dderbyniodd urdd Diacon gan Dr. Potter, pryd hyny Esgob Rhydychen, ac a gymmerth guradaeth Dummer, yn Hampshire, lle yr arosodd ynghylch deuddeg mis. Yn fuan ar ol hyn, gwahoddwyd ef i Stoke-Abbey, yn Nyfneint, tŷ hardd Mr. Orchard, bonheddig o rinwedd a duwioldeb mawr, yr hwn a

* Y rhai, fel Mr. Hervey, a fynent ddyfal-barhau yn y myfyrdod dwyfol hwn, a allant gael y cefnogiad mwyaf mewn traethawd bychan a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a elwir, *Motives to the Study of Hebrew*, (Annogaethau i fyfyrïo Hebraeg,) gan ddiweddar Esgob Tŷ-Ddewi.

† Gwel *Life of Wesley*, gan Coke a Moore.

fuasai yn gydnabyddus â Mr. Hervey pan yn y coleg. Yma y treuliodd efe amryw fisoedd; ac ar ddymuniad neillduol ei gyfaill, a safodd yn dad-bedydd i'w fab, Paul Orchard, Ysw. yn ddiweddar aelod o'r senedd dros Colington, yn Ngherniw, i'r hwn y cyflwynodd efe yr ail gyfrol o'i *Fyfyrdodau*. Tra yn Stoke-Abbey, efe a ffurfiodd gyfeillgarwch ag offeiriad cymmydogol, y Parch. Mr. Thompson, ficer St. Gennys, Cerniw. At ferch y bonheddig hwn y llettyai efe anwyldeb tyner, yr hwn, mae yn ymddangos, a fu yn aflwyddiannus, a'r hyn oedd y prif gymhelliad iddo dderbyn curadaeth Bideford, tref arforol ynghylch pedair mill-dir ar ddeg o Stoke-Abbey.

Ynghylch yr amser hwn cymmerth cyfnewidiad pwysig le yn syniadau crefyddol Mr. Hervey. Oddi wrth ysgrifeniadau amryw Galfiniaid duwiol, efe a ddechreuodd weled yn ddyladwy pwysfawrogrwydd marwolaeth Crist fel iawn dros bechaduriaid. Efe a welodd hefyd yr angenrheidrwydd am y ffydd hõno o weithrediad yr Ysbryd Glân, fel unig gyfrwng cyfiawnhad trwy'r iawn hwnw. Efe a ymwadodd yn awr â'i gyfiawnder ei hun, ac a ffodd at drugaredd Duw heb weithredoedd y ddeddf. Y canlyniad oedd, efe a brofodd Dduw yn dda, ac o'r amser hwnw allan a fu yn ddiffynnydd profsedig sancteiddrwydd efengylaidd.

Megis y derbyniodd efe ymblith y Calfiniaid gymmaint o oleuni gwerthfawr ynghylch ffordd iachawdwriaeth, yr oedd yn naturiol iddo ar fyr fabwysiadu eu holl gyfundrefn. Yr oedd ganddo ef hawl i wneuthur hyn, ar argyhoeddiad ei feddwl ei hun; tra mae gan ereill hawl hefyd i farnu, iddo yn y cyfnewidiad fabwysiadu rhai camsyniadau pwysig.

Parhaodd Mr. Hervey yn Bideford bum mlynedd. Yma y cynlluniodd, ac y cyflawnodd mewn rhan, ei *Fyfyrdodau a'i Ystyriaethau*. Yr *Adfyfyriadau ar Ardd Flodau*, a gyfansoddwyd fwyaf yn haf-fod gardd hyfryd berthynol i'r teulu gyda pha un y trigai.

Pregethai ddwywaith bob sabbath, ac ar y dyddiau Mercher a Gwener cymmerai achlysur i ddeongli y llith cyntaf neu'r ail, oddi eithr pan fyddai yn egwyddori y plant, pryd hyny efe a gyfyngai ei hun at eglurhad cynnefin ar Holwyddoreg yr Eglwys. Y gweddill o'i amser a gyflwynai efe i fyfyrdod ac ymddiddan.

Efe a ffurfiodd gymdeithas grefyddol yn Bideford, yr hon a barhaodd uwchlaw deugain mlynedd ar ol ei ymadawiad â'r lle; prawf cadarn o ddoethineb yr egwyddorion ar y rhai y sylfaenasid hi, ac o'r parch mawr a delid i'w goffadwriaeth.

Ei gydnabod oeddynt etholedig. Ymblith ei gyfeillion neillduol yr oedd gwr ieuangc o'r enw Donn, mab cleric y plwyf, a rhifyddegwr tra rhagorol. Oddi wrtho ef casglodd Mr. Hervey wybodaeth gyfrifol mewn seryddiaeth. Efe a fu farw yn bedair ar hugain oed. Ei bregeth angladd a draddodwyd gan Mr. Hervey, yr hwn a lefarodd ar yr achlysur yn y modd mwyaf serchoglawn.

A'r hen Beriglor yn marw, yn 1742, cwmpodd y bersoniaeth i fonheddig yr hwn a fuasai gynt yn Broffeswr Prydyddiaeth yn Rhydychen, egwyddorion a thueddfryd yr hwn oeddynt yn llwyr elynol i dduw-ioldeb a phoblogrwydd y Curad. Y canlyniad oedd, cafodd Mr. Hervey ei droi ymaith; a chynnygiad a wnaed gan y plwyfolion, i dalu ei holl gyflog trwy

gasgliadau gwirfodd, a wrthodwyd gan y Periglor newydd gyda chwerwder. O Bidford symmudodd Mr. Hervey i fod yn Gurad i'w dad, yn Weston-Favel.

Yn 1746, efe a gyhoeddodd, mewn un gyfrol, ei *Fysfyrdodau ymhlith y Beddau*, ei *Adfysfyriadau ar Ardd Flodau*, a *Thraethawd ar Grëedigaeth*. Efe a gyflwynodd y gwaith hwn i Miss R— T—, y fonheddiges a grybwyllwyd yn barod. Yn fuan ar ol cyhoeddiad ei lyfr, efe a ysgrifennodd lythyr at Mr. Thompson, o'r hwn mae yr hyn a ganlyn yn rhan:—

“ Mae fy ngwaith bychan a elwir *Myfyrddodau ymhlith y Beddau*, ac *Adfysfyriadau ar Ardd Flodau*, wedi ei gyhoeddi er ys ychydig amser. Mi a gymmerais fy rhyddid i'w gyflwyno i Miss R— T—; a phe buaswn yn agos, neu pe buasai genyf gyfleusdra i'w drosglwyddo, dymunaswn ar Miss C— T— i dderbyn un o'r llyfrau. Mae'r peth, yr wyf yn clywed, yn cael derbyniad gyda'r cyffredin, uwchlaw dim a allaswn ei ddysgwyl. Mr. Richardson, awdwr Pamela, yw fy argraffydd; mae 750 o'r llyfrau wedi eu gwerthu: mae yr argraffydd a'r ysgrifennwr yn gyd-anturwyr gyda golwg ar yr elw, os dygwydd dim oddiwrth y gwerthiad. Os ar ryw hamdden, y damweinia i chwi dafu golwg dros y llinellau, nodwch, anwyl syr, eu beiau, diwygiwch eu hanmhrïodoldeb, a gwellhewch hwynt i fwy o dlysi, pe byddai digwydd fod galwad am ail argraffiad. O na thueddent, mewn rhyw radd, i ddeffroi y darllenwyr i ystyriaeth ddifrifol o'u sefyllfa dragwyddol, a thywys eu meddyliau at Graig yr oesoedd, gobaith terfynau y ddaear! Dan ddyllanwadau dedwydd gras, O na atebent y dyben dymunol hwn; neu ynte cyfranogent dyngهد sothach llenyddol, ac ysguber hwynt i angof hollol!”

Bu derbyniad y *Myfyrddodau* a'r *Adfysfyriadau* y cyfryw, ag i gefnogi yr awdwr i gyhoeddi, y flwydddyn nesaf, ail gyfrol, yn cynnwys *Ystyriaethau ar y Nos*, ac ar y *Nefoedd Serenog*, a *Gauaf-Draith*.

Ar farwolaeth ei dad, yn Mai, 1752, canlynodd Mr. Hervey i bersonacthau y teulu, y rhai, ill dwyoedd ynghyd, nid oeddynt werth mwy ná chant a thrugain

yn y flwyddyn. Etto gydag anhawedra y llwyddwyd gydag ef i fod yn aml-eglwys. Yn y diwedd, pan oedd Colingtree ar fyned i hawl yr Esgob, taerni, yn hytrach nâ rhesymau, ei gyfeillion, a lwyddasant gydag ef i ofyn am sefydliad gan ei arglwydd esgob; ar yr achlysur hwn efe a wnaeth ymesgusiad gwan i'w arglwyddiaeth, gan ddywedyd, "Fod yr hyn oedd efe yn ei wneuthur, i foddloni ei fam a'i chwaer, ac nid i'w foddhau ei hun." Fel cymhwysiad i ddal y ddwy bersoniaeth, efe a gymmerth y radd o Athraw yn y Cefyddydau o *Clare Hall*, Caergrawnt.

Ei gyhoeddiad nesaf ydoedd, *Sylwadau ar Lythyron Arglwydd Bolingbroke ar Fysyriad a Defnydd Hanesyddiaeth; mewn Llythyr at Foneddiges o Uchelradd*. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ystyried yn gyffredin yn gyflawniad calonog a chywrain iawn. Gallasai testynau y ddadl osod galluoedd beirniadol mwy dyn i brawfllym; etto trwy ddiwydrwydd ei ymchwiliadau, ac uniondeb ei sylwadau, daeth Mr. Hervey o'r maes gyda chlod, fel diffynydd gwasanaethgar yn achos gwir grefydd. Cynnygasai Arglwydd Bolingbroke ddirymu a gwatwar prophwydoliaeth Noa. Ar y pen hwn gwrthbrofodd Mr. Hervey ei arglwyddiaeth, trwy eglurhad cyson iawn ar anhawederau y gyfran.

Traddododd Mr. Hervey y bregeth ar ymweliad Archdiacon Northampton, yn 1753, yr hon a gyhoeddwyd yr un flwyddyn er budd plentyn gorthrymedig, dan yr enw *Croes Crist yn Ogoniant y Cristion*. Mae y bregeth hon yn gwneuthur parch mawr i gymmeriad a theimladau yr awdwr, ond nid yw yn dangos dim talentau anghyffredin yn ei alwad fel pregethwr.—

Mewn cymhariaeth i bregeth glodfawr M'Laurin o Glasgow ar yr un pwngc, mae yn diflanu, ac yn myned i anghof. Efe a gyhoeddodd, gwedi hyny, amryw bregethau heb fod yn fwy hynod nâ'r flaenaf yn y fath hyny o ysgrifenu.* Etto fel pregethwr yn yr areithfa, yr oedd yn hyawdl. Yr oedd ei annerchiad yn wresog, heb fod yn goegaidd. Ymdrechai lefaru at ddeall y tlodion, eithr torrai rhysedd ei ddychymmyg weithiau dros ben pob attaliad. Ei gyfaill mwyaf cydnabyddus, Dr. Stonhouse, mewn llythyr at Mr. Stedman, a ddywed,

“O barth eich ymfyniad ynghylch dull Mr. Hervey o bregethu, yr wyf yn cofio, ei fod yn pregethu heb nodau, namyn dalen fechan o bapur, ar yr hon yr ysgrifenasid, mewn byr-ysgrif, penau cyffredinol, a rhai pethau pennodol, yn ei bregeth, ar ba un yr edrychai efe weithiau, ac weithiau nis gwnai. Yr oedd efe yn rheolaidd yn ei ddull; nid oedd efb yn faith iawn; o ddeg munud ar hugain i ddeugain oedd ei amser arferol, anfynych yn hwy.”

Prif waith Mr. Hervey fel awdwr, yw *Theron ac Aspasio; neu Res o Gynnadleddau ar Byngciau arweiniol yr Efengyl, ond yn benaf ar yr Athrawiaeth o Iachawdwriaeth trwy Gyfrifiad o Gyfiawnder y Gwaredwr*. Mae ein hawdwr yn ymdrechu profi y gyfundrefn hon o brynedigaeth trwy amrywiaeth o resymau. Rhaid cyfaddef, hyd yn oed gan y rhai nad ydynt yn cyttuno ag ef yn ei gasgliadau, ei fod yn gosod allan ddiwydrwydd, dysgeidiaeth, a chywreindrwydd mawr yn y llyfr hwn. Mae gweithredoedd natur, a chyfrolau hanesyddiaeth, yn ei gynnysgaeddu

* Cyfieithwyd i'r Gymraeg tair pregeth o eiddo Mr. Hervey; y rhai a draddodwyd ganddo ef ar ddyddiau gwyl ac ymryd cyffredinol; yn cynnwys “*Yr amser o berygl, a'r moddion o ddiogelwch, ynghyd â ffordd sancteiddrwydd.*” Pwy a'u cyfieithodd nis gwn: argraffwyd hwynt yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1760, gan Efan Powel.

Cyfieithydd.

A hysbysiaeth bwysig, yr hon a wisgodd efe yn y fath barddwch, fel ag i wneuthur ei lyfr yn gymmeradwy i'r pentwr o ddarllenwyr. Ond darllenir y gwaith yn fynych yn fwy er mwyn amrywiaeth defnyddiol ei fater, a phrydferthwch ei feirniadaeth gyffredinol, nag ar gyfrif un argyhoeddiad ar y pwngc mewn dadl. Nid oedd Mr. Hervey mewn un modd yn rhesymwr dwfn,* ond yma yr oedd efe yn sefyll ar dir anniffynadwy. Y canlyniad oedd, ymosodwyd arno yn fuan gan amryw ysgrifenywyr, ymhlith y rhai yr oedd Mr. Sandeman, o Edinburgh, a Mr. Belamy, o Loegr Newydd.

Ond y brif ddadleuaeth a godwyd ar yr achlysur hyn, oedd yr un yn yr hon yr oedd Mr. John Wesley â'r llaw flaenaf.

Mr. Hervey, gan fod yn ofalus iawn yn nghyfansoddiad ei gynnadleddau, a ymgynghorai yn fynych â'i gyfeillion wrth ddwyn y gwaith ymlaen; ymhlith y rhai yr oedd Dr. Dodridge, Whitefield, Pearsal, Ryland, Cudworth, ac ereill. Gyda'r un bwriad yr anfonodd efe ran o'r gwaith, mewn llaw-ysgrifen, at Mr. Wesley,

* Pa beth bynag a deilynga y bywgraffydd hwn ei ddywedyd am alluoedd Mr. Hervey, y tir anniffynadwy y safai efe arno, a dybèn y rhan amlaf wrth ddarllen ei ysgrifeniadau, mi a fynwn i'r darlennydd Cymreig gadw yn ei gof, wrth ddarllen ei nodiadau, fod Theron ac Aspasio yn cael ei ystyried, ymhlith y Calfiniaid, fel yn cynnwys athrawiaeth iachus, ac yn un o'r diffyniadau goreu o wirioneddau yr efengyl. Mae miloedd yn ei ddarllen, nid er mwyn *amrywiaeth defnyddiol ei fater*, a *phrydferthwch ei feirniadaeth gyffredinol yn unig*, eithr yn benaf er mwyn y gwirioneddau a gynnwysir, a eglurheir, ac a ddiffynir, mor oleu a chadarn ynddo. Y Parch. J. Brown a ddywed am y llyfr mewn dadl fel hyn, "Yn ei gynnadleddau mae efe (Mr. Hervey) yn dangos medrusrwydd mawr fel duwinydd ysgrhythrol, yn diffyn y gwirionedd trwy resymau cedyrn, ac yn ateb gwrthddadleuon cryfaf gwrthwynebwyr yn y modd mwyaf hyfedr. Fe allai, na fendithiwyd y byd erioed ag eglurhad mor oleu a chywir ar yr athrawiaeth odidog o gyfiawnhad trwy ffydd yn yr Arglwydd ein cyfiawnder, ag yn Theron ac Aspasio."—Gwel *Brown's Memoirs of Hervey*, 2d ed. p. 342.

Cyfeithydd.

gan ddymuno arno nodi yr hyn a allasai fod yn wallus ynddo, a'i ddiwygio. Mr. Wesley a ychwanegodd rai pethau, a dynodd ereill ymaith, ac a gyfnewidiodd lawer iawn. Anfoddlonodd Mr. Hervey, a therfynodd yr ohebiaeth rhyngddynt. Ymhen amser, cyhoeddodd Mr. Wesley ei *Ddiogelydd yn erbyn Tybiau ansefydlog mewn Crefydd*, at ba un yr ychwanegodd efe y nodiadau a wnaethai efe ar *Theron ac Aspasio*. Dygodd hyn allan Un Llythyr ar ddeg mewn ymddiffyniad i Aspasio, y rhai a gyhoeddwyd ar ol marwolaeth eu hawdwr. Mr. Wesley a'i bleidwyr a gyhuddant Mr. Hervey o lymdra gormodol a dywediadau celyd yn y llythyron hyn: ac nid ychydig o ddadleu sydd wedi bod yn eu cylch, pa un ai Mr. Hervey oedd eu hawdwr. Rhoddir yma ger bron y darlennydd eiriau ei frawd ar y pen hwn:—

“Pan anfonwyd am danaf i Weston, yn Rhagfyr, 1758, yn nymhor olaf anhwydebydd fy mrawd, myfi a ofynais iddo, (y prydnawn cyn iddo farw,) Pa beth a fynai efe ei wneuthur o'i Lythyron at Mr. Wesley, pa un a fynai efe iddynt gael eu cyhoeddi ar ol ei farwolaeth? Efe a atebodd na fynai mewn un modd; gan nad oedd efe wedi darparu ond ynghylch eu hanner mewn llaw ddeg i'r wasg; ond gan fod y diwygiadau a'r cyfnewidiadau yn y rhan olaf mewn byr-ysgrif, y buasai yn anhawdd eu deall, yn enwedig gan fod peth o'r fyr-ysgrif yn ffurf o'i eiddo ei hun, ac nas gallasai ereill wneuthur dim o honi; am hyny, eb efe, gan fod y gwaith heb ei orphen, yr wyf yn deisyf arnoch beidio meddwl rhagor yn ei gylch. Gan mai hyn oedd ei orchymyn olaf yughylych y llythyron hyn, myfi a fernais yn addas ufuddhau iddo; ac am hynny gwrthsefais ddymuniadau taerion ei gyfeillion, y rhai a nodent o ba wasanaeth y gallent fod, i symmud rhagfarn ddisail yn erbyn ysgrifeniadau fy mrawd, yn gystal a'u defnyddioldeb yn gyffredinol, gan eu bod yn cynnwys y fath ddiffyniad meistrolaidd o'r gwirionedd yn yr Iesu. Ond er cymmaint fy mharch i'r personau a erfynient arnaf eu cyhoeddi, ni fynasw'n argraffu y llythyron, ac ni ymddangosasant byth yn gyhoeddus, trwy fy nghaniattad i, oni buasai i argraffiad lledradaidd o honynt gael ei gyhoeddi yn ddiweddar, a fy mod yn credu y canlyn-

asid ef gan ragor. Gan mai fel hyn mae'r mater yn sefyll, yr ydwyf yn barnu mai fy nyledswydd yw cyhoeddi argraffiad mor gywir ag allaf. I'r dyben hwn myfi a elwais gyfaill i'm cynnorthwyo, a thrwy hyny yr wyf yn gosod ger bron y darllenydd cyhoeddiad mor berffaith o'r llythron hyn ag ellir wneuthur, o'r llaw-yagrif wreiddiol yn fy meddiant."

Ar ol ymdrechu dros flynyddoedd lawer â darfod-edigaeth, dechreuodd Mr. Hervey waethu tua diwedd 1758. Y Sabbath cyntaf yn Rhagfyr, ar ol y brydnawnol weddi, gafaelodd yr wrwst ynddo, gyda pheswch diattal, yr hwn a barhaodd trwy'r nos, ac ar y 15fed dechreuodd gael ei ffino gan boen yn ei ochr.

Efe a deimlai angeu yn awr yn agoshau yn gyflym; ac, fel yr hyglod Archesgob Usher, galarai yn deimladwy iawn am ei bechodau o esgeulnsdod. Wrth ei Gurad, Mr. Madock, dywedai—"Gymmaint wnaeth Crist dros of fi, a leied wnaethum i dros Iachawdwr mor gariadlawn! Os pregethais unwaith yr wythnos, yr oedd hyny, o'r diwedd, yn faich i mi. Ni ymwelais â phobl fy mhlwyf fel y dylaswn wneuthur, gan bregethu felly o dŷ i dŷ. Ni ddefnyddiais bob cyfleusdra i lefaru dros Grist." Ond er iddo lefaru hyn gyda dagrau, efe a ychwanegodd, "Na feddyliwch fod arnaf ofn marw; yr wyf yn sicrhau i chwi nad oes. Mi a wn beth a wnaeth fy Iachawdwr dros of, ac y mae arnaf hiraeth am fyned."

Ar yr ugeinfed ymwelodd ei gyfaill mawr, Dr. Stonhouse, ag ef, yr hwn yn fuan a ddywedodd ei fod yn annichonadwy iddo fyw uwchlaw dau neu dri diwrnod. Llefarai y Doctor am gysuron dyn da yn wyneb angeu. Attebai Mr. Hervey, "Gwir, Doctor, gwir; mae yr unig drysorau gwerthfawr yn y nef. Pa les i mi, yn awr, fyddai bod yn Archesgob Caergaint? Ni ddangosai clefyd ddim anrhydedd i'm meitr. Mae'r prelad

hwnw (Dr. Secker) nid yn unig yn fawr, ond yr ydwyf yn clywed fod crefydd, mewn gwirionedd, yn agos at ei galon. Etto, ei ddaioni, ac nid ei fawredd, a fydd o les iddo ar ol llaw. Mae yr efengyl yn cael ei chynnyg i mi, offeiriad gwledig tlawd, yn gystal ag i'w ras. Nid yw Crist yn gwneuthur un gwahaniaeth rhyngom. O! paham, ynte, mae gweinidogion yn esgeuluso gofal y fath Iachawdwr tirion, yn gwenieitho i'r mawrion, ac yn hela am ddyrchafiad bydol gyda'r fath awyddfryd, er gwaradwydd i'n hurdd? Dyma'r pethau, Doctor, ac nid ein tlodi, neu ein hanenwogrwydd, sydd yn gwneuthur yr offeiriaid yn wir ddirmygus yngolwg y bydolion. Nid rhyfedd fod gwasanaeth ein heglwys, mae gofid arnaf i ddywedyd, wedi myned y fath beth difywyd a ffurfiol; gan ei fod, och! yn cael ei gyflawni yn rhy gyffredin gan rai meirw i dduwioldeb yn eu holl ymarweddiad, difaterwch y rhai am grefydd, a'u hymddygiad bydolfrydig, a ddengys leied o barch maent yn dalu i athrawiaethau yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt."

Ar y 25ain galwodd ei Gurad i'w weled ef, a chafodd ef yn eistedd mewn cadair, gan fod yn analluog i orwedd ar y gwely. Efe a ddyoddefasai lawer yn ei feddwl. "Syr," eb efe, "ni allaf ymddiddan â chwi heddyw." A chan osod ei law ar ei fynwes, efe a ychwanegodd, "O! ni wyddoch chwi ddim y fath ymdrech galed a gefais." Ymddangosai mai ymdrech ydoedd a godasai oddiar attaliad, i ryw radd, o wenau y nef.

Ymwelodd Dr. Stonhouse â Mr. Hervey o gylch tair awr cyn iddo farw. Y Doctor, gan sylwi gyda pha anhawsder yr oedd efe yn llefaru, a chan gael, oddiwrth guriad ei galon, fod ei ddiwedd ef yn agos iawn, a

ddeisyfodd arno arbed ei hun. “Na, Doctor, na,” eb efe, “yr ydych yn dywedyd wrthyf nad oes genyf ond ychydig funudau i fyw: O! gadewch i mi eu treulio i addoli ein Gwardwr mawr.” Yna efe a ddywedodd, “Er i'm cnawd a'm calon ballu, etto Duw yw nerth fy nghalon, a'm rhan yn dragywydd.” Pan oedd y Doctor yn cymmeryd ei gennad olaf, diolchodd Mr. Hervey yn fawr iddo am ei ymweliadau; a chan sefyll ychydig, (a loesion marwolaeth arno y pryd hyny,) efe a ddywedodd, “Yn awr, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air *sancteiddiaf* a *dyddanusaf*, canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth werthfawr. Dyma, Doctor, dyma fy meddyglyn. Pa beth yw un meddyglyn a roddir i gynnal y trangcedig mewn cymbariaeth i hwnw a gyfyd oddiar yr addewidion o iachawdwriaeth trwy Grist! Hyn, hyn yw fy nghynnal-iaeth.” O gyloch tri o'r gloch efe a ddywedodd, “Y MAE'R YMDRECH FAWR DROSODD. Yn awr y mae pob peth ar ben.” Yna efe a ddywedodd ychydig weithiau, “Iachawdwriaeth werthfawr!” ac yn fuan efe a drengodd yn araf. Cymmerodd hyn le ar ddydd Nadolig, 1758.

Claddwyd ef dan fwrdd yr allor yn eglwys Weston-Favel, a hebryngwyd ei gladdedigaeth gan dyrfa liosog o blwyfolion, cyfeillion, a pherthynasau wylofus.

Ysgrifeniadau Mr. Hervey a gawsant dderbyniad mawr iawn, a gwneir cyfrif uchel o honynt, nid yn unig yn y byd crefyddol, ond gan lawer a'u darllenant yn benaf er mwyn amrywiaeth eu haddysg, a'r deniadau godidog a berthynant i'w ddull. Cyfieithwyd *Theron ac Aspasio*, ynghyd â'i *Nodiadau ar Arglwydd Boling-*

broke, i'r Ellmynaeg, ac y maent yn dra adnabyddus, ac mewn parch mawr, yn yr Is-wledydd. Cyfieithwyd y blaenaf gan y bonheddig ardderchog hwnw, Mynheer Cornelius Van Brem, a throwyd ei *Fyfyrdodau* i farddoniaeth ddiodl gan Mr. Newcome, prydydd rhagorol.

Dr. Witherspoon, yn ddiweddar o Goleg Princeton, barnwr craff o deilyngdod, ac heb fod yn wenieithwr, a annerchodd Mr. Hervey yn y geiriau canlynol:—

“Yr ydych chi, syr, yn un o'r ychydig dedwydd hyny, y rhai a fuaent yn foddllawn i gyssegru y talentau naturiol godidoccaf i wasanaeth Crist a'i efengyl, heb fod a chywilydd arnynt o'i groes ef. Chwi a fuoch yn alluog i dynu sylw ar rai pyngciau oddiwrth lawer, na roddasent ef i neb arall. Myfi a'ch annerchais â hwn,* fel tystiolaeth o'm parch i'ch ysgrifeniadau rhagorol a defnyddiol.”

Ar gynnygiad Iarll Dartmouth, y Fonheddiges Frances Shirley, ac ereill, cyflwynwyd gwaith Mr. Hervey i Dywysog a Thywysoges Cymru, rhieni ei ddiweddar Fawrhydi Sior III. y rhai, yn mhresenoldeb amryw bersonau ardderchog, a'u derbyniasant mewn modd tra gostyngedig.

Yn ei ieuengctyd, fel y gellid dysgwyl oddiwrth natur ei feddwl a'i fyfyrdodau, yr oedd Mr. Hervey yn meddu dawn rhagorol at brydyddiaeth; ond efe a roddodd heibio ei goleddu yn fuan, rhag iddo fod yn ymborth i falchder a gwagedd ei galon. Megis oddi wrth archwaeth, a chydabyddiaeth gymhedrol â phrydyddiaeth awdurol, yr oedd efe yn alluog i farnu cymmeriad cyffredin y cyfryw fath o ysgrifeniadau; felly, pan ychwanegir y teimlad moesol manylaf at y cymhwysderau hyn, gellir ei ystyried fel beirniad o gryn awdurdod o barth tuedd y cyfryw ysgrifeniadau ar y galon. Gwelir hyn yn y feirniadaeth dduwiol a ganlyn

* Tracthawd a gyflwynodd efe i Mr. Hervey.

ar *Frenhines y Tylwyth teg*, gan Spencer. Ynghylch yr ysgrifenydd hwn mae efe yn sylwi—

“Mewn dychymmyg mae efe yn rhagori, fe allai, ar bob rhyw brydydd; etto mor foethus yw efe yn rhai o'i ddarluniadau, y dygwyddodd i mi daro wrthynt, fel y mae yn annichonadwy, i mi o leiaf, i droi attynt heb ddal y llygriad. Mae ei luniau o'r fath hyn wedi eu tynu gyda bwriad da. Mae efe yn gwneuthur ei arwyr yn orchfygwyr yn y deniadau tynerion; ond, yr wyf yn meddwl, mai ychydig feddyliau sydd wedi eu caledu gymmaint yn erbyn pleserau cnawdol, fel ag i ddiangc rhag argraffiadau anfanteisiol. Yr wyf, gan hyny, yn penderfynu peidio edrych iddo drachefn; peidio byth a chasglu mël prydyddiaeth oddiar fieri halogiad. ‘Ffowch rhag profedigaeth,’ yw llais apostol ysbrydoledig, ac mi a dalaf sylw dyladwy iddo.”*

Mae iaith Mr. Hervey wedi bod yn fynych yn destyn beirniadaeth lem, ac fe allai na chynnyg ei gyfeillion a'i fawrygwyr mwyaf ei lwyr ddiffyn yn erbyn rhai petbau anmhrifodol, o'r rhai y cyhuddwyd ef.

Dr. Erskine, yn ddiweddar o Edinburgh, a sylwa mewn nodiad argraffedig—

“Mae Hervey o Eglwys Loegr, a M'Ewen o'r Ymneillduad, yn ysgrifenydd boddhaus; ond cynnyg eu dull sydd beryglus, heb ddychymmyg anghyffredin fywiog, barn gadarn, ac archwaeth gywir. *Rhysedd dull*, yr hyn yn gyffredin a esgeulusir mewn awdwr o athrylith cysefn, a ymddengys yn ddirmygus mewn efelychwr gwael.”

Mae dyledswydd yn fy rhwymo, i ychwanegu nodiadau beirniad dwfn a diduedd arall at y rhai a ddi-fynwyd uchod. Efe a sylwa—

“Ni allaf lai na meddwl ei fod yn fwy o anrhydedd i dymher greffyddol a thueddiadau da yr oes hysenol, nag i archwaeth y cyhoeddus, fod *Mysfyrdodau* Mr. Hervey wedi cael y fath dderbyniad. Y galon dduwiol a hael, yr hon a ddangosir ynddynt bob amser, a'r ddychymmyg fywiog, yr hon a ymddengys yn achlysurol, a gyfiawn deilyngasant ganmoliaeth: ond dysclaerdeu parhaus yr ymadrodd, yr arluniâeth ohwyddedig, a'r deagrifiad dirdynedig, ydynt addurniadau o au ryw. *Myf*, gan hyny, a gynghorwn fyfyrwr araethyddiaeth, i efelychu dau-

* Gwel *Gen. Coll. Let.* p. 170.

ioldeb Mr. Hervey, yn hytrach na'i iaith; ac ymbob cyfansoddiad o natur ddifrifol, i droi eu sylw, fel y dywed Mr. Pope, "oddiwrth swa at sylwedd, oddiwrth ddychymmyg at y galon."*

Natur ddarluniadol ei destynau, gwresogrwydd mawr ei ddychymmyg wrth dderbyn ei hargraffiadau, ac awyddfryd i effeithio ar galonau ei ddarllenwyr, mae'n debyg, a'u bradychasant i'r beiau a nodwyd yn barod; ond beiau ydynt, y rhai ydym yn barod i'w maddeu yn Mr. Hervey: nid oes un gwagedd yn ymddangos fel yr achos o'r addurn hwn, ac y mae meddwl y darlennydd yn cael ei ddyrchafu yn barhaus â golygiadau eglur a grymus ar y testyn.

Efe ei hun a gydnabyddai, nad oedd yn meddu meddwl cryf, meddwl wedi ei addasu at ymchwiliadau dyfaion; ond fel ysgrifenydd, ni a wyddom ei fod yn meddu y dalent i addysgu, hyfrydu, a chysuro llawer mil o'i gydwladwyr. Mae yn ei holl waith amrywiaeth o eglurhad godidog, archwaeth wedi ei goleddu yn ddiwyd, a chaløn yn ennyn gan y moesgarwch puraf.

Ond nac anghofwn byth y cadarnhad a dderbyniodd ei ysgrifeniadau, oddiwrth ei ysbryd, a'i ymddygiad. Pe gallai ei gymmeriad gael ei ddeall mor llawn a'i waith, byddai ei glod yn uwch etto, a'i dderbyniad yn fwy nag erioed. Nid yw bywyd offeiriad gwledig ond yn gymhariaethol anadnabyddus. Pa fodd bynag, mae yn fanteisiol i dduwioldeb a rhinwedd deuluaidd; ac os yw Seneca yn iawn, yn ei waith yn gosod clod daioni uwchlaw yr eiddo mawredd, diogelodd Mr. Hervey iddo'i hun dros oesoedd y fath ardderchoccaf o barch.

Fel dyn, yr oedd efe yn hyfrydwch pawb o'r rhai a gawsant y fraint o gael eu cyfrif ymblith ei gydnabod.

* Gwel *Blair's Lectures on Rhetoric*, Vol. ii. p. 30.

Cyfeillgarwch ynddo ef ydoedd cariad Crist'nogol, wedi ei dyneru â thiriondeb neillduol iddo ei hun, a'i sefydlu ar wrthddrych detholedig; cariad â'r ymddiried mwyaf rhydd yn cydfyned ag ef, ac yn gweithredu gyda chywirdeb diffin. Ymhob perthynas arall befyd o'r cylch ymha un y tröai, yr oedd efe yn gyfartal hynod am ei addfwynder a'i rinwedd.

Haelioni, wedi ei sylfaenu ar dduwioledeb, oedd un o'i gynheddfau hynottaf. Pan yn Rhydychen, efe a dreuliai dair awr o bob wythnos i ddarllen llyfrau difrifol i bobl dlodion, y rhai ni allent ddarllen iddynt eu hunain. Ei gyflog fwyaf fel gweinidog, ni a welsom, oedd 200*p.* etto yr oedd efe yn gosod allan ran fawr o hyn, gyda'r gofal mwyaf, mewn gweithredoedd o elusengarwch. Pan aeth efe yn awdwr, efe a ddifrif gyssegrodd gynnyrch ei lafur llenyddol at wasanaeth dynoliaeth, a thrwy gadw trefn dŷn ar ei amgylchiadau, galluogwyd ef i gadw ei adduned yn bendant. Oddiwrth amrywiol argraffiadau, a hawl-ysgrif y *Myfyrdodau*, efe a dderbyniodd 700*p.* yr hyn, ynghyd â'i holl elw canlynol, a gyfranodd efe yn elusenau o'r natur fwyaf pwysig; i ddarparu ymborth i'r newynog, meddyginiaeth briodol i'r claf, ac yn enwedig biblau a llyfrau defnyddiol ereill i'r anwybodus.

Yn ei dŷ ei hun, yr oedd Mr. Hervey yn gynllun a dysgwr cyson o ofn Duw. Efe a swpërai bob pryd-nawn am wyth o'r gloch; am naw efe a esponiai ran o'r ysgrythyr, dros o gylch chwarter awr, ac yna a derfynai yr arferiad â gweddi. Efe a dor-ymprydiai yn y bore am naw, a chyda duwioledeb a synwyr cydradd, dewisai yr awr o flaen y boreufwyd fel y fwyaf priodol i ddwyn ymlaen wasanaeth y teulu. Un ran

o'i addoliad boreuol, oedd gofyn oddiwrth bob un o'i wasanaethwyr i adrodd y testyn a eglurasai efe y pryd-nawn o'r blaen. Yna efe a wasgai y testyn a'i ddeongliad ymbellach ar eu meddyliau, trwy rodidi iddynt dalfyriad byr o'r hyn a ddywedasai efe o'r blaen ar y gyfran. Yn fynych yn y pryd-nawn, pan gelwid ef i lawr i dê, dygai y Bibl Hebraeg, neu y Testament Groeg, yn ei law, a llefarai ychydig oddiwrth un adnod neu rador, fel y byddai achlysur yn caniattau, yn y modd mwyaf addysgiadol a boddhaus a ellir ddychymmygu. Arferion mor fendithiol yn eu natur, ac mor rheolaidd yn eu dygiad ymlaen, a ddeuent yn fuan yn reddfau hyfrydlawn ymhob un o'r tylwyth, a than fendith Duw, ni allent lai nag achosi y canlyniadau crefyddol a theuluaidd gwerthfawroccaf.

Yr oedd Mr. Hervey dan ddylanwadau dyfnion o ysbryd duwioldeb. Cariad trangcedig Crist oedd testyn mwyaf aml, mwyaf gorfoleddus, ei feddwl; a chariad at ei Iachawdwr rhyfeddol oedd prif nwyd ei enaid. Yr oedd ei serch at athrawiaethau iachawdwr-iaeth trwy y Gwardwr yn wresog, yn gywir, ac yn anghyfnewidiol. Yr oedd athrawiaeth y iawn, yn ei gyfrif, yn llwyr anghymharol; mae hi'n rhedeg trwy bob rhan o'i waith. Ar y pwngc hwn, efe a ysgrifennodd gyda medrusrwydd mawr, ac i hyn, yn benaf, mae ei lwyddiant fel awdwr crefyddol yn ddyledus.

Diweddar ardderchog awdwr *Myfyrdodau ar y Mor*, Mr. Pearsal, yr hwn a'i hadwaenai ef yn dda, a sylwa yn ei gylch:—

“Yr wyf yn meddwl y cawn gydsyniad miloedd, pe dywedwn mai anaml iawn y cyfarfu dychymmyg mor foddhaol, deall mor dda, athrylith mor feirniadol ar ieithoedd ac athronyddiaeth, iaith mor odidog, a chalon mor dduwiol, yn yr un dyn.”

Yn olaf, caniatteir fod Mr. Hervey yn un o'r dynion *goreu* a ymddangosodd yn yr oesoedd diweddaf. Cadwed darlennydd ei waith, a'r sawl a fynai chwilio i hanes ei fywyd, *hyn* yn barhaus mewn golwg. Efe a osododd ger eu bron, uwchlaw pob peth, yn ei fucheddnod ardderchoccaf ei hun, ddarlun godidog o sancteidrwydd Crist'nogaidd, yr hwn a ddylent hwy chwilio, nid gyda chywreinrwydd achlysurol edrych-ydd, na chais ddim ond yr hyfrydwch o'i fawrygu, eithr gyda manylwch celfyddwr a fwriada elwa oddi wrth y cynllun.

At goffadwriaeth cymmeriad môr ddilynwiw a hwnw o eiddo Mr. Hervey, nid oes angen tystiolaethau ychwanegol i enny'n parch cenhedlaethau i ddyfod, Ei ddefnyddioldeb pur, ei dduwioledeb diffuant, a'i haelioni diattal, a barant i'w enw gael ei goffio yn barhaus yn Weston-Favel, lle mwynhawyd bendithion ei weinidogaeth dros flynyddau lawer gan y trigolion. Yr oedd llawer yn fyw yn ddiweddar, i'r rhai yr oedd efe yn bersonol adnabyddus; ac mae llawer ereill, y rhai y cyfranogodd eu rhieni o'i haelioni, yn eithaf cyfarwydd â'i enw.

Ys ychydig amser yn ol, cyhoeddwyd gwaith o natur lleol, o fewn cylch ei lafur, yn yr hwn mae ei enw a'i gymmeriad yn cael eu coffhau gyda pharch anrhydeddus; ac mae'n foddhaol i bob cyfaill i dduwioledeb a rhinwedd, i weled, er fod dros hanner canrif wedi myned heibio er pan alwyd y gwr da hwn oddiwrth ei lafur at ei wob, fod ei weithredoedd yn cael eu gosod ymysg cofnodau penaf a mwyaf hygof y plwyf. Yr hyn a ganlyn sydd yn sylwedd y darluniad byr hwn o'i gymmeriad, a choffadwriaeth ei enw:—

'Ynghylch dwy filldir o Northampton, mae pentref hyfryd Weston-Favel, yr hwn unwaith a ymffrostiai mewn tri annedd-dŷ, perthynol i deuluoedd Elkins, Holman, a Hervey, y rhai ydynt wedi myned oll i ddadfeiliau. Yn y pentref hwn y bu fyw, a marw, y duwiol a'r dysgedig James Hervey, awdwr y Myfyrdodau, a phethau ereill. Gan fod o feddwl difrifol, a llawn o deimladau crefyddol, efe a gyfeillachai â dynion duwiol o bob enwau; a mwynder naturiol ei dymher a'i gwnai yn hoff iawn gan bawb a gawsant yr hyfrydwch o'i adnabod. Efe a gyflawnodd ei ddyledswyddau, fel gweinidog yr efengyl, yn y fath fodd ag a wnaethai anrhydedd i un o'r cyn-dadau, a'i dosturi at y tralodus a gofir yn hir gan lawer heblaw trigolion ei blwyf.'

Eglwys Weston-Favel, yr hon a gyssegrwyd i St. Pedr, sydd yn adail fechan, yn cynnwys yn unig gorph a changell, gyda thŵr töedig, yn cynnwys pum cloch. Mae'r coflyfr yn dechreu yn 1549. Mae'r rhan dufewnol yn syml a diaddurn. Nid oes ynddi ddim bedd-feini mawryddig i ddenu sylw y cywrain. Yr unig beth i gyffroi ystyriaeth yw, mai yma y gweinigodogaethodd Hervey dduwiol ac elusengar, ac mai yma mae ei weddillion ynghadw hyd adgyfodiad y cyf-iawnion. Gerllaw bwrdd y cymmundeby, o fewn canllaw yr allor, mae maen diaddurn, ar yr hwn mae yr arysgrif ganlynol:—

Yma gorwedd Gweddillion
Y Parchedig JAMES HERVEY, A.M.
diweddar Beriglor y plwyf hwn;
y dyn tra duwiol hwnw, a'r
awdwr rhyfedd barchus,
yr hwn a fu farw Rhagfyr 25, 1758,
yn y 45 flwyddyn o'i oed.

Ddarllenydd, na chais yma ei enw'n fwy o gudd;
Y garreg nadd a'r farwnad glodforus ynt ddi fudd:
Ei 'sgrifoniadau gadwant ei enw c'yd a'r nef,
Gwel yno'i enaid nefol, a byw bydd megis ef.

GOSODEDIGAETHAU EFENGYLAIDD;

*Sef y Cynllun yn ol pa un yr addysgai Mr. Hervey Sancteiddrwydd yn ei Weinidogaeth, ac yr arferai ef yn ei Fywyd.**

MAE yn hysbys fod gan Mr. Hervey yn ei ddyddiau boreuol olygiadau deddfol am y Dwyfol wirionedd, yn enwedig am y dirgelwch hwnw mewn duwioldeb, *Crist wedi ei wneuthur gan Dduw cymmodlawn i ni yn sancteiddrwydd.* Ar ol iddo adnabod yr efengyl, dylanwyd ei feddwl yn gryf â'r athrawiaeth hon; ac ar gynllun y gosodedigaethau canlynol, yr oedd efe bob amser yn annog i sancteiddrwydd. Cyfrifid hyn yn ddyeithr gan ei gyfeillion llenyddol, a llawer o'i fawrygwyr, y rhai ni feddent ei wybodaeth efengylaidd. Yn wir, ni ellir canfod gwir ragoroldeb y cynllun ysgrythyrol hwn, ond fel y byddom yn ymgynnyg atto, a thrwy ras yn cael ein cynnorthwyo i weithredu yn ol, ei ddylanwadau ymhob rhyw ymarweddiad.

1. Mae gwir ddedwyddwch yn gynnwysedig yn y mwynhad o ewyllys da Duw, a chrediniaeth iawn ein bod mewn cymmod ag ef. *Ei ewyllys da sydd well ná bywyd.*

2. Mae pechod yn attalfa i ddedwyddwch, pan fyddo ei euogrwydd yn y gydwybod yn ein gwneuthur i arswydo Duw fel gelyn, a'i weithrediadau ar y galon yn ein dwyn i esgeuluso trefn gras yn y cymmod.

3. Mae cymmaint o waith Ysbryd Duw ar ein meddyliau, ag a lwyddo gyda ni i gofleidio trefn gras yn ein cymmod â Duw, yn symmud yr attalfa i wir

* Y gosodedigaethau uchod a gasglwyd gan ei gyfaill Cudworth, ac a argraffwyd oddiwrth ei law-ysgrifeniadau.

ddedwyddwch, yr hwn sydd yn codi oddiar ein natur lygredig, neu weithrediadau pechod ynom.

4. Mae'r fath ystyriaeth neillduol o waed a marwolaeth Iesu, gyda hyder "ei fod wedi marw drosom ni, a'n bod ni yn gyflawn ynddo ef, yn ol gair a llythyren yr efengyl," ac a roddo i ni wybod, nad yw ein pechodau yn cael eu cyfrif i ni, ond eu bod wedi eu maddeu a'u dileu, yn symmud yr attalfa sy'n codi oddiar euogryddwch pechod yn y gydwybod, ac yn cyfansoddi gwir a sylweddol ddedwyddwch, er ein bod ni yn gydwybodol fod natur lygredig ynom yn bersonol, a'n bod, trwy ei gweithrediadau, yn pechu ymbob peth a wnelom.

5. Gan hyny, mid oes genym un achos, mewn trefn i gyrhaedd dedwyddwch, i fod yn *ddeddfol* ymdrechgar i symmud ymaith y bod o bechod o'n natur; eithr mae yn ddigon i ni farnu, ein bod ni bechaduriaid personol, hyd ddydd ein marwolaeth, mewn undeb â'r Arglwydd Iesu, a thrwy hyny, yn cael ein cyflwyno yn ddifeisus trwy ei waed a'i angeu, yn ogoneddus yn ei gyfiawnder, ac yn etifeddion gogoniaant tragryddol, trwy yr undeb bendigedig hwn; ac yn hyn mae gwir wynfydedigrwydd efengylaidd yn gynnwysedig, Psal. xxxii. 1, 2. "Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod," &c. a Rhuf. viii. 1, 33.

6. Yr ydym ni, gan hyny, i farnu, mai po sicraf yw un ei fod mewn heddwch â Duw, mai mwyaf dedwydd yw; a pho fwyaf dedwydd yw un yn y gred o'i fod mewn heddwch a chymmod â Duw, mai mwyaf sanctaidd yw, neu ei fod yn cael ei alluogi yn fwy i ddwyn ffirwythau cyfiawnder, y rhai, trwy Iesu Grist, ydynt i fawl a gogoniaant Duw.

7. Nid ydym ni ond deddfolwyr byth, (pa fodd bynag y cyfnewidiom ein henwau neu ein dull,) tra byddom yn gwerthfawrogi sancteiddrwydd, neu ei ffrwythau, fel moddion i gyrhaedd dyben, neu yn dymuno bod yn sanctaidd er mwyn bod yn ddedwydd: nid yw hyn ddim ond hunan a deddfoldeb; mai yr ysbryd gwir efengylaidd yn dymuno sancteiddrwydd fel dyben er ei fwyn ei hun, a gogoniant Duw trwy hyn; fel yr ydym yn gorphwys yn melusder mêl er ei fwyn ei hun, felly yr ydym yn gorphwys yn harddwch sancteiddrwydd. Iaith yr ysbryd efengylaidd yw, yr wyf fi yn ddeddfol sanctaidd yn ngwaed Crist, yr wyf yn ddedwydd yn fy nghymmod â Duw, yr wyf yn gorphwys mewn dysgwyliaid o ogoniant tragwyddol, yr wyf yn gwerthfawrogi gorchfygu a chael yr oruchafiaeth ar fy nhueddiadau drwg a'm chwantau llygredig, a chael fy nghalon mewn llawn gydffuriaid ag ewyllys Duw, fel dyben erddo ei hun, fel yr wyf yn caru mêl er ei fwyn ei hunan.

8. Mae ffydd achubol yn ei nhatur, nid yn unig yn gydsyniad a thystiolaeth, eithr yn dderbyniad ac ymorphwysiad ar berson Iesu Grist yn unig am iachawdwriaeth lawn, oddiwrth *bechod* a digofaint, ac i holl ras a gogonint Duw. Mae'r ffydd hon, yn ol ei mesur, yn creu heddwch â Duw yn y galon; ac yn ei gweithrediad yn ddiffeth yn gweithio trwy gariad, yn gorchfygu'r byd, yn cyflwyno'r enaid i Dduw yn siriol, ac yn gynnyrchol o bob ffrwyth da: a phwy bynag sydd yn proffesu ei fod yn credu yn Ngbrist, ar nis teimlodd ynddo ei hun weithrediadau Ysbryd Duw trwyddi, ac nad yw yn dwyn y ffrwythau a goffawyd, mae i'w farnu ei fod yn twyllo ei hun, a'i broffes yn ddigyfrif.

Y Llythyr canlynol a ysgrifenydd gan Mr. Herveey yn fuan ar ol cyhoeddi y Gyfrol gyntaf o'i Fyfyrdodau, &c.

“ ANWYL MR. THOMPSON,

“ EICH llythyr diweddaſ a roddodd le i mi obeithio am un arall yn fuan. Yr oedd yn fyr, ac ymddangosech fel yn addaw ychwanegiad; yn y dysgwyliad boddhaol hwn arosais yn hir. Ond yn awr mae fy ysgrifell yn gwrthod cymmeryd ei hattal; ni fyn hi i orchwyl tra boddhaus gael ei wrthod iddi yn hwy, a chan hyny mae hi yn ysgrifenu at y cyfaill yr hwn mae ei pherchen yn ei garu o'i enaid.

“ Mi feddylw'n y caiff y llinellau hyn chwi yn Brynsworthy,* y tŷ dyddan hwnw, lle, ys tair blynedd yn ol, y treuliais amryw wythnosau hyfryd. O! bryd caſ fi dreulio fy oriau o gyfeillach gymmaint i'm had-eiladaeth! Mi dybygwn, mewn cydymddiddan tirion ac adeiladol, ein bod yn profi yr hyn a ddesgrifia'r prydydd mor odidog—

Gratior it dies,

Et soles melius nitent.

Pa mor fawr, ynte, fydd y dedwyddwch, pa mor ddwyfol y mwynhad, pan trwy Iesu, y ffordd fywiol, y dyger ni i mewn i'r Jerusalem nefol, yr ymunwn ni â thorf aneirif o angylion, ac y cymmerwn ni ryw le gostyngedig ymblith ysbrydoedd dynion cyfiawn;—*dynion cyfiawn*, heb fod mwy yn frau ac anmherffaith, eithr wedi cyrhaedd cyflawnder sancteiddrwydd, a'u perffeithio, fel y mae'r hwn a'u galwodd hwynt yn berffaith! Mae fy anwyl gyfaill, nid wyf yn ammau,

* Tŷ Mr. Thompson, gerllaw Barnstaple, yn Nyfneint.

yn edrych am y dydd gwynfydedig gyda ffydd orfol-
eddus, ac yn llafurio i ddwyn llawer, llawer iawn
o eneidiau i'r cydfwynhad o'r dedwyddwch anadna-
byddus hwn. Bydded i lwyddiant mawr gydfyned
â'ch ymdrechïadau; llwyddiant gymmaint a'ch dymun-
ïadau; bum ymron dywedyd, gymmaint a champ eich
uchel alwedigaeth.

“ Mae arnaf awydd mawr i glywed rhywbeth am
helynt ac ymddygiad fy hen gydnabod. Pa bryd
buoch chwi yn y Fynachlog? * Pa beth yw hynt y
teulu hwnw? Pa bryd yr ymwelsoch chwi â Bide-
ford ddiweddaf? Pa fodd mae'r achos goreu yn
myned ymlaen ymysg pobl fy ngofal yn ddiweddar?
Pa fodd mae eich llafur yn llwyddo yn eich eglwysi
eich hun, a rhai Mr. B—? A glywsoch chwi yn
ddiweddar oddiwrth Mr. S—? Pa le mae efe wedi
sefydlu, a pha fodd mae yn myned ymlaen? A ddysg-
odd efe pa beth y mae'r ysgrythyr hōno'n feddwl, ac
oddiwrth ba beth y bwriadwyd hi i gadw dynion, *Yr
annuwiol a echwyna, ac ni thal adref?* A yw Mr. W.
yn trigo yn eich parthau chwi? Gobeithio fod ei
fywyd yn ateb i'ch dysgwylïadau; ac na bu eich
gweithredoedd o diriondeb, a'ch geiriau o gynghor yn
ofer. A dderbyniasoch chwi ddim newyddion am, neu
oddiwrth, Mr. Walker? Goddefwch i mi ofyn un peth
yn rhagor, a bydd fy holiadau ar ben. Oni chymmerth
gwr bonheddig o Gerniw yn ddiweddar daith i Exeter
ar achlysur neillduol? Oni wysiwyd ef o flaen Esgob
y lle, i roddi cyfrif o'i ymddygiad a'i sêl? Os oes
genych un wybodaeth am yr helynt anghyffredin hyn,
(ac yr wyf yn meddwl ei fod yn annichonadwy cyfeirio

* Abbey, Stoke-Abbey, a elwir yn awr Hartland-Abbey, tŷ Mr. Orchard

at neb a wŷr yn well,) gwelwch yn dda roddi i mi hanes yr hynt, ei hachlysur, ei hamgylchiadau, a'i chanlyniad. Yr wyf yn dychymmygu y bydd ateb i'r un holiad hwn yn ddigon i lanw llythyr hir iawn.

“Ni a gawsom, yr wythnos hon, dymhestl drom iawn o wlaw, gyda thywyllwch aruthr, taranau ofnadwy, a mellt cynddeiriog. Mewn ffair hynod, a gynhelid ar gimle äang yn y gymnydogaeth, tarawyd amryw ddynion i lawr gan y llyched, a lladdwyd un dyn truan, a dau geffyl, yn farw yn y fan; y dygwyddiad arswydus hwn a lesgaodd ysbryd difyr y lle, ac a attaliodd, dros ychydig, gylchrediad masnach, ac a drôdd eu llawenydd yn ddychryn. Dylai y credadyn, yr wyf yn meddwl, dderbyn cysur oddiwrth y rhyfeddodau cyffrous hyn, yn hytrach nâ chael ei orchuddio gan arswyd. Gellir dywedyd fod holl ymddangosiadau rhyfedd ac argoelus natur o'r fath hyn yn pregethu yr efengyl i feddwl crediniol; ac yn tueddu i'w argyhoeddi a'i gysuro. *I'w argyhoeddi*, ei fod yn aruthrol lygredig, ac eithaf euog; mor euog, fel na allasai dim llai nâ darostyngiad a dyoddefaint y Bod nerthol yr hwn sydd yn rheoli'r dyfroedd, dim llai na chnawdoliaeth ac angeu y Duw gogoneddus yr hwn sydd yn gwneuthur y taranau, ddileu ei bechodan. Ystyriaeth ryfedd, mwy effeithiol i ddarostwng yr enaid a oleuwyd nâ'r gofres fwyaf a duaf o bechodau! *I'w gysuro*, o blegid maent yn llefaru am ogoniant yr Iachawdwr; maent yn amlygu mawrhydi y Gwarddwr; mae y taranau hyd yn oed yn hyawdl yn ei ragoroldeb, a'r mellt yn datgan ei benarglwyddiaeth; yn ganlyniadol maent yn dangos, mewn modd pwysig, mor annhraethol werthfawr yw ei waed,

mor anfeidrol rinweddol yw ei gyfiawnder, ac mor berffaith yw ei bobl!

“ Yr wyf yn cydlawenhau â chwi, anwyl syr, ac â'm gwlad yn gyffredin, am y ddiweddar oruchafiaeth bwysig a dedwydd a ynnillwyd gan y dewr ddug Cumberland; ni allwn ni byth fod yn ddigon diolchgar i Dduw byddinoedd Israel, am droi clorian rhyfel o'n hochr yn y frwydr wiwgof hōno. O'r fath olygfa flin o anrhaith a thywallt gwaed! Y fath Aceldama perffaith a fuasai ein gwlad, yn ol pob tebygolrwydd, oni buasai i'r Arglwydd, cadarn mewn rhyfel, sefyll o'n tu! Yn ddiau ni a allwn ddyddio y mwynhad o'n crefydd oddiwrth y cyfnod cyfyng a phenderfynol hwnw. O na allem ni hefyd ddyddio oddiwrth yr un amser ddechreu diwygiad gwladol, a diolchgarwch cyffredinol i'r Arglwydd ein Ceidwad!

[Mae'r gyfran sy'n canlyn nesaf wedi ei roddi yn barod yn tudal. 9.]

“ Gwelwch yn dda wneuthur fy nghyfarchiadau mwyaf parchus a serchoglawn yn dderbyniol i Mrs. T—: mi a ddymunwn i Miss T— fod yn ddarlun bywiol o'r wraig hawddgar a rhinweddol, yr hon sydd werthfawroccach nâ'r cwrel. Os yw eich cyfaill cywir Mr. B— gyda chwi, attolwg dywedwch wrtho fy mod yn ei garu, o herwydd ei fod yn caru Mr. T—. Gobeithio fod Miss E—* yn mwynhau gwell iechyd, a chysur cryf yn Nuw ei Hiachawdwr.

“ Os gofynwch am fy helynt i, chwi a'i cewch yn Barnwyr viii. 4. “ Yn ddiffygiol, etto yn erlid.”—Na pheidiwch, anwyl syr, a gweddio ar fod i'r dwylaw a

* Miss Elliott, o hen deulu ardderchog o'r enw hyny. Gwedi hyny hi a fu yn wraig i Mr. Thompson, ac a'i gorfncheddodd. Hi a fu farw yn 76 oed yn 1786.

laesasant gael eu codi, a'r gliniau llesg gael eu cryfhau, i rodio yn y ffordd dragwyddol.

“Na bydded yn hir nes yr hyfrydo, y bywiogo, ac y dyddano anwyl Mr. Thompson, a llythyr, ei gyfaill rhwymeddigaf a mwyaf serchoglawn,

“JAMES HERVEY.

“*Weston, Mehefin 28, 1746.*

“O. Y. Yn eich olaf chwi a ymfynasoch ynghylch gwraig sanctaidd iawn, o'r enw Máry. Mi a ofynais i Dr. Doddridge yn ei chylch. Ni roddodd efe i mi un hanes neillduol am ei chyfrinach á'r nef, ond yn unig dywedyd ei bod yn enaid didwyll a duwiol iawn, ond ei bod ryw faint yn dueddol i ddychymmygion crwydrol a gweigion. Dymunodd y Doctor arnaf i roddi i chwi a'ch priod ei ddymuniadau da a'i wasanaeth gwresoccaf.”

Y CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
Cofiant Bywyd y Parch. James Hervey	iii
Gosodedigaethau Efengylaidd	xxiv
Llythyr at Mr. Thompson	xxvii

MYFYRDODAU YMHLITH Y BEDDAU.

Achlysur y Myfyrdodau	5
Rhodfa neillduedig mewn eglwys	6
Allor brydferth; clod diolchgarwch	6
Teml Salomon; ei syniadau ardderchog ar ei chyssegrïad; y gyfran yn cael ei hegluro.....	8
Yr Ysbryd Glân yn preswylïo yn ein calonau; yn rhagorfraint fawr; yn rhwymedigaeth i sancteiddrwydd	9
Y llawr wedi ei orchuddio ag arysgrifiau cofiadwriaethol	11
Y doethineb o fyfyrïo ar ein diwedd	12
Llettyad tryblith a chyttundeb heddychlawn y cyrph yn annogaeth i ostyngeddrwydd a chydtyniad	13
Beddfaen maban; ei amgylchiadau dedwydd; rhagorach dedwyddwch gorfucheddwyr	14
Beddfaen llanc; galar ei rieni; yn cael ei dawelu neu ei gyuhyrfu trwy ragolwg ar y sefyllfa anweledig; annogaeth i addysgu plant yn grefyddol	17
Beddfaen gwr ieuangc wedi ei dorri lawr yn ei flodau; mor annysgwyliadwy a gofidus yr ergyd; breuoldeb dedwyddwch daearol	20
Adfyfyrïadau ar y tri ymadawiad blaenorol; ansicrwydd bywyd; yn ein galw i fod yn barod bob amser	23
Hyn yn cael ei wasgu ymhellach trwy ystyriaeth o un yn cael ei ladd trwy anffawd; dim yn ddamweiniol, eithr o drefniad Rhagluniaeth	25
Achos bonheddiges a fu farw ar ei gwelyfod; ei bucheddnod; gyda golwg ar bethau tymhorol na wyddom beth sy'n ddymunol a gwir dda; nodiadau ar feddfaen Mrs. Stonhouse yn Northampton	29
Tad crefyddol yn cael ei gymmeryd oddiwrth ei deulu ieuangc; ei ymddygiad ar ei wely angeu; eu cynnalïaeth yn eu sefyllfa amddifad	34
Beddfaen dyn canol oed, yn llawn gofal; siomedigaeth ei gynllunïau; ei gyfaddefïadau wrth farw; ffolineb bydol-frydedd; gwir chwerwder yn y diwedd	39
Beddau yr oedranus; anhawader a pherygl edifeirwch diweddar; annog ieuengctyd i ddechreu bywyd sanctaidd yn ddioced	43
Doethineb a dedwyddwch pennodol y cyfawnton; gorphwysfa eu cyrph; tawelwch eu hymadawiad; diogelwch eu heneidiau o'r corph; eu sefyllfa hyfrydlawn hyd ddydd brawd	46

TUDAL.

Beddfaen rhyfelwr a laddwyd mewn brwydr; adfyfyriadau ar farwolaeth Crist; ei bod yn wirfoddol, yn rhagweledig, wedi ei dyoddef dros elynion; yr oedd y fwyaf poenus, nychlyd, a gwaradwyddus.....	51
Y gwaeledd o fod yn rhwymedig i feddfaen am gadw ein henwau; dymuniad yr awdwr iddo ei hun; y iawn ffordd i dragwyddoli ein coffadwriaeth	54
Y nen-fwd; ei golwg ofnadwy; gwychder mewn iselhad; gwagedd hyfrydwch, anrhydedd, a golud	57
Yr awrlais yn taro; rhybudd i brynu'r amser	61
Y cyfnewidiad mawr sydd yn cymmeryd lle yn y bedd, yn cael ei egluro mewn amryw bethau	62
Hunan-ymddiddan carwr; cyngor i'r bonheddigesau; gwir harddwch y genedl dëg	64
Pechod yn achos o'n dattodiad	67
Y pwngc o farwoldeb yn cael ei ddwyn adref at ein hachos ein hunain; cynhyrfaid i iawn ddefnyddio bywyd; hyn y perarogriad goreu	68
Golwg ar fedd y lachawdwr; ei waith yn gorwedd yn y bedd yn ei dyneru i'w bobl; ffydd yn ei gariad trancedig yn diarfogi angu	70
Adgyfodiad y cyfiawnon; eu cyfarfyddiad â'r Barnwr, eu derbyniad yn y farn fawr	74
Dinystr pechod, clefyd, ac angu; dedwyddwch neu drugaredd yn anghyfnewidiol; sylwadau ar dragwyddoldeb.....	76
Y drygionus; cyfyngder eu clefyd olaf; dim gobaith ond oddiwrth y grefydd a ddiystyrasant; hwnw yn dra ansicr; dychryn eu dattodiad; hyn yn ddechreu eu tristwch; eu triniaeth yn y byd anweledig; ynghadw i farn y dydd mawr	78
Maent yn codi, er yn hwyrfrydig; yn wallgof gan ddychryn; yn orchuddiedig â gwarth; yn ddedfrydedig i wae diddiwedd ..	81
Bod yn offerynol i achub ein cyd-greaduriaid rhag y trueni hwn yn weithrediad penaf ewyllys da.....	84
Adfyfyriad ar bwysfawrogrwydd mawr y gwirioneddau hyn; annogaeth i weithredu dan ystyriaeth grediniol o honynt; yn cael ei gymhell trwy'r angenrheiddrwydd annhraethol i ddarparu ar eu cyfer	85
Y cyfan yn terfynu gyda golwg ar ddiogelwch-presenol, a gogoniant tragywyddol y cyfiawnon	87
Pennillion i Mr. Hervey, gan Feddyg	88

ADFYFYRIADAU AR ARDD FLODAU.

Rhodfa mewn gardd; bore yn yr haf; uchedydd yn ymddyrcu; galwad i fore-godi	90
Meithder y nefoedd; llettach eangder trugaredd ddwyfol	91
Yr haul; ei ogoniant yn codi, yn gysgod o Grist, yn ei ddylanwadau goleuadol, ffrwythlonol, yn sirioli, ac eangu	92
Gwlith; ei ddysclaerdeb ansafadwy; ei natur adfywiol; rhifedi	

dirfawr ei ddefnyddau; eglurhad ar gyfran anhawdd yn y Psalmau	99
Ymddygiadau amrywiol, ond cyson, Rhagluniaeth a gras	104
Golwg ar y wlad, a'i phrif gynnyrchiadau; yn enwedig perllan; gardd lysiau; yn hynod yn benaf am ei defnyddioldeb	106
Crist a wnaeth ac a adferodd, sydd yn cynnal ac yn cynhyrfu'r cyfan; annerchiad i ddynolryw ar yr achlysur hyn	114
Cyfyngiad y sylwadau i'r ardd; gadawiad maesydd llenyddiaeth i fyfyrïo'r Bibl	118
Perarogl y blodau; ei natur ddarfodedig, yn annogaeth arall i ysgwyd diogi ymaith; yr hyfrydwch mae'n greu yn arddan- gosiad egwan o aberth Crist; ein holl gyflawniadau yn llygredig, hwn yr achos o'u derbynïad	120
Lliwiau'r blodau; mor berffaith ymhob rhyw; wedi eu trefnu gyda medrusrwydd ymddiried yn Rhagluniaeth	123
Ffolineb balchder mewn gwisgiad; pa beth yw'n gwir addurniadau Blodau yn naturiol ya cyffroi hyfrydwch; y fath hyfrydwch raid godi oddiar yr olwg wynfydedig	125
Salomon yn darlunio'r bendigedig Iesu trwy'r blodau teccaf; teg- wch yn y creadur yn ein tywys at y Creawdwr	127
Amrywiaeth y blodau, yn eu hagweddau, eu gwisgoedd, eu hystum, a'u gwynebpryd; doethineb y Gwneuthurwr Hollalluog; per- ffeithrwydd a symlder ei weithrediadau	129
Gwahaniaeth rhwng neillduolion o'r un rhyw; arwydd-lun o'r gwahaniaeth bychan ymhlith Protestaniaid	131
Olyniad rheolaidd y blodau; rhai o'r dewis resi yn cael eu des- grifio; yr effeithiau boddhaol a achosir trwy'r drefn hon; Rhagluniaeth dirion yn ymddangos yn ei dygiad ymlaen ...	136
Y dosparthiad prydferth hwn, a'r hyn sydd yn fawrygol yn y gre- edigaeth yn cael ei gynhwysu at Grist fel eu hawdwr; bod ystyried y pethau a wnaethpwyd yn y goleu hyn yn effeithio yn rhagorol ar ein ffydd a'n cariad	137
Cymmhlethiad blodau mor gywrain, nas gellir ei gyfnewid heb eu niweidio; amser eu hymddangosiad wedi ei ddewis gyda'r rhagofal cynnilaf; yr amgylchiadau hyn yn annogaeth gyff- rous i ymostwng i drefn y nef	140
Cyfieithiad o ddifyniadau yn Casmir a Juvenal	146
Iawn osodiad daliad hoff o eiddo Mr. Pope	147, 149
Nod yw ansoddau teg y blodau yn cyffroi'r anifeiliaid; eu priodol- iaethau hardd wedi eu bwriadu yn neillduol i hyfrydu dynol- ryw; pob peth wedi ei gyfansoddi gyda golwg ar ein lleshad ni; hyn yn rhwymedigaeth i fod yn ddiolchgar; ond y rhodd o enaid anfarwol yn gryfach annogaeth	149
Sylw ar dyb prydydd mawr	150
Gardd wrtseithiedig, yn ddarluniad o feddwl wedi ei goleddu; an- nerchiad i bobl a gofal addysgiad ieuengctyd arnynt	153
Blodau yn y blagur, yn ddarluniadol o gybyddion; blodau wedi llwyr ymagor yn arwyddoccaf o dymher hael	157
	160

TUDAL.

Haul-floedeuyn; ei dueddiad hynod at yr haul; y cyfryw ddylai fod ein glyniad wrth yr Iachawdwr	162
Blodeuyn y goddefaint; disgrifiad o hono; ei fod yn meddu'r ystyr ardderchoccaf, os nid y pryd teccaf; addysg grefyddol ..	165
Y fywlys; yn ymgrynhoi rhag pob cyffyrddiad; y cyfryw ddylai fod ein gofal pryderus i ochel pechod	168
Tegwch y blodau a gerwindeb eu gwraidd; cyfnewidiad ein cyrph yn yr adgyfodiad; dylai hyn ein cymmodi â meddwl am ein dattodiad	170
Cyfran o Theocritus	173
Perffeithderau y blodau yn diflaru yn fuan; nad yw swynion gwedd ond prin yn fwy arosol	173
Anghreiffiau o barhad darfodedig yn y blodau ardderchoccaf; anrhydedd y sefyllfa i ddyfod yn anniflanedig	176
Holl hyfrydwch tymhor y blodau yn myned heibio; y difyrwch nesol yn ddiidwedd	178
Nid blodau yn unig, ond y pethau mwyaf parhaus yn natur yn ddarfodedig; eu dedwyddwch hwynt yn sefydlog, y rhai mae Duw yn rhan iddynt	178
Ymgiliad i'r cysgod; arferiad St. Augustin, yn gynllun i'w ddilyn	180
Goerder y sefyllfa gysgodol hon; y gwres annoddefol yn ymgyn-dderiogi ar led; ein diogelwch yn holl beryglon bywyd, ac yn wyneb dychrynfeydd y farn i ddyfod, os cysgodir ni dan nawdd y Gwaredwr, ac o bydd genym ran yn ei rinweddau	180
Gwenyn; eu cywreinrwydd; eu diwydrwydd; yn gosod cynllun i'r awdwr	183
Golwg o bell ar yr holl olygfa, a'i hamryw addurniadau, yn galw'r nef i feddwl yr edrychyd; nad ellir disgrifio ei gogouiant; ei fod i'w ddymuno yn awyddus	185

TRAETHAWD AR GREEDIGAETH.—Tudal. 187.

Dyben y cyfan—angylion—y nefoedd gweledig—ser—gwibiogion—planedau—haul—lleuad—taranau—mellt—cymhylau, gaufaidd a gwanwynol—enfys—ystormydd a thynhestloedd—haint—gwres ac oerfel—môr—coedydd a phrysgwydd—y winwydden a phreniau ffrwyth—dolydd a maesydd—mwnai a gemau—ffynhonau ac afonydd—adar—gwenyn—y sidan-bryf—da, a chreaduriaid ymhob elfen—cyd-gerdd gyffredinol o fawl.

YSTYRIAETHAU AR Y NOS.

Rhodfa hyfryd; ein mwynhad tawel o'r fath ddyfyrwch, yn ddyledus i'n buddugoliaeth ddiweddar ar y gwrthryfelwyr	225
Machludiad haul	229
Cyfnos; ei ddefnyddioldeb; ystyriaeth ddifrif	230
Goerder gwllthog; ei effeithioldeb defnyddiol ar natur; dychwel- iadau, i neillduaeth yn gyfartal lesol i ddyd	232

Angylion yn ein gweled; Duw yn bresenol byth; defnydd cysuras y gwirionedd hyn	235
Terfyniad y dydd; cyflymdra, byrdra, amser; y gwaith i'w wneuthur tra dalio; ei wastraffu yn afradlonedd dinystriol	237
Y dystawrwydd dwfn	243
Dyspeidiad cyffredinol oddiwrth waith	244
Amrywiaethau natur yn hyfryd a buddiol	248
Tywyllwch; ei ddull boddhaus yn cymmeryd lle; gwylltstilod y diffeithwch; a gwylltiaid mewn llun dynol, yn defnyddio y cyfeusdra hyn	249
Tywyllwch yn gwneuthur y wreichionen leiaf yn weledig, etto yn dwyn holl wahan-nodau hawddgar pethau o'n golwg	252
Cwsg; ei natur siriol; yn rhodd y nef; darpariad ar gyfer ei ddyfodiad; tiriodeb Rhagluniaeth yn ngwylid ein heppian ..	255
Breuddwydion; eu dyeithrwrch anghyfrifadwy; nad yw meddyliau effro llawer yn llai dychymmygol	259
Amgylchiad neillduol a dedwydd iawn yn cydfyned â chwsg a breuddwydion	262
Ysbrydion; ein hofn diachos ar y pen hwn; gwrthddrych gwir ofn; gwirioneddolrwydd a dyben drychiolaethau wedi ei dynu o gyfran yn llyfr Job	264
Y ddalluan; ei thymmer guchiog; dynion disancteiddrwydd yn analluog i fwynhau hyfrydwch y nef	270
Ysgrech y ddalluan, yn cael ei ystyried yn argoel o angeu; rhagarwyddion gwirioneddol o'r cyfnewidiad mawr hwn; parottoad dyladwy yn cael ei nodi, a'i annog	271
Yr eos; ei cherdd swyngar; yn lloni carwyr neillduaeth; y ffordd i gael peroriaeth felusach yn ein mynwesau ein hunain	275
Gwahaniaeth mawr amgylchiadau dynolryw; yn enwedig yr hoenus, a'r gorthrymedig; annerchiad i euddunwyr llawenydd a chnawdolrwydd	276
Magiod, a than ellyllon; hyfrydwch y byd, a galluoedd rheswm heb ei oleuo	280
Gwib-seren, yn cael ei chyfrif yn rhagflaenor barnedigaethau; penrhyddid mewn cenedl yn argoel mwy brawychus; yr anhwylddeb ymysg y diadellau	282
Y goleuni gogleddol; y braw a gynhyrfa; y cydlogiad cyffredin	285
Y lleud yn codi; yn ymddysclaerio wrth fyned rhagddi; y fath ddylai ein hymddygiad moesol fod	288
Y lloer yn agor golygfa fawryddig; mor deilwng o'n mawrhad ..	289
Y lloer, yn berthynas wasanaethgar i'n daear ni	291
Y lloer yn llewyrchu gyda goleu benthycciol; Crist'nogion yn derbyn eu holl oddiwrth eu Gwaredwr	292
Y lloer yn amrywio yn ddibaid; pethau y byd hwn yn agored i gyfnewidiadau parhaus; ein cyfiawnder ein hunain yn annigonol ac amherffaith; eiddo Crist byth yr un	294
Y lloer dan ddiffyg; lluoedd yn syllu arni; nad yw beiau dynion enwog ond anfynych yn diangc sylw	299

TUDAL.

Y lloer yn cael ei hadlewyrchu gan y môr; rhinweddau dynion mewn sefyllfaoedd uchel, yn effeithio ar ereil	301
Y lloer yn cynhyrfu'r môr; llawenydd tragywyddol y nef yn tynu ac yn puro ein serchiadau	301
Gweddi, yn wasanaeth rhesymol; mawl, yn ddyledswydd hyfryd; gydag adfyfyriadau duwiol addas i'r nos	308

YSTYRIAETHAU AR Y NEFOEDD SERENOG.

Rhodfa ar drum bryn. Y nos yn cuddio'r olygfa wladaidd; yn datguddio tegwch yr wybren	309
Perarogl y ffa yn eu blodau	310
Y nefoedd, yn faes ardderchog i amlygu y perffeithderau dwyfol .	311
Ffoledd ser-ddewiniaeth; iawn ddefnydd, myfyrio ar y ser	312
Byr sylw o'r darganfodiadau hynod diweddar mewn seryddiaeth ..	313
Crefydd, yn fater angenrheidiol; crefydd yn hyfrydwch diniwed, mor gyson a mudiadau blynyddol a dyddiol y ddaear.....	315
Yr haul, ei faint aruthr	317
Ser, yn ganol-bwngc cyfundreithiau; eu pellder anamgyffredadwy	319
Wybrenau erpill wedi eu llanw â ser ereil	319
Mawredd y Creawdwr	321
Y sylwadau blaenorol yn annog i ostyngieddrwydd	321
Yn dangos bychander pethau daearol	322
Darostyngiad aruthr Duw, yn ei sylw grasol ar feibion dynion ..	324
Pechadurusrwydd dirfawr euogrwydd dynol	327
Goludoedd iawn Crist, a'i ddigonolrwydd perffaith yn wyneb yr amgylchiadau alaethusaf o bechod a thrueni	329
Gallu Duw yn ddatguddiedig yn y nefoedd serenog; hyn yn ddiogelwch parhaus, a noddfa sicr y Cristion.....	332
Cyflwr gresyn yr annuwiolion, y rhai mae Hollalluogrwydd yn elyn iddynt.....	337
Amynedd diflin y Bod nerthol hwn	338
Doethineb Duw yn amlwg yn yr wybrenau; ymostyngiad i'w drefniadau, hyd yn oed pan ymddangosont fwyaf gygus a llym; y cwbl yn tarddu o gariad, yn terfynu mewn daioni ..	340
Daioni Duw yn daenedig trwy gyfundrefn faith pethau creedig, ond wedi ei egluro yn ardderchocchach yn ngwaith y pryneddigaeth; y golygiadau blaenaf, yn rhoddi y meddyddrych hawddgaraf; a'r rhai olaf, un perffeith berlewylgol, o'r dwyfol haelioni	345
Purdeb Duw yn cael ei ddarlunio yn wanaidd yn y ffurfafen ddi- fysycheulid; halogrwydd dyn pechadurus; ardderchogrwydd perffaith ei Fachniydd	351
Meithder afesurol yr wybr; meithach eangder yr haelder a'r drugaredd ddwyfol; yr olaf o'r pyngciau hyn, gan ei fod mor gysurus i bechaduriaid, yn cael ei ystyried yn go helaeth....	355
Pa beth sydd yn cynnal cylch y nef, ac yn ategu y pelau a gynwys; yr un llaw anweledig yn dal y Cristion yn ei yrfa ...	364
Ffyddlondeb Duw yn cael ei gysgodi yn niysogogrwydd y cyrph	

nefol, a pharhad eu mudiadau; afresymoldeb ein hanghred iniaeth; annogaethau i fydd sicr	367
Amryw briodoliaethau y natur ddwyfol yn ymddangos gyda goleuni godywynol yn y goleuadau nefol; i gyd yu llewyrchu gyda'r dysclaerdeb llawnaf yn Nghrist Iesu	370
Urddas gweddi, a'r dedwyddwch o gaal Duw yn rhan i ni	377
Yr anniolchgarweh erchyll, a'r ystyfnigrwydd dystrywgar, o fyw heb Dduw yn y byd	379
Yr holl fydoedd ymdreiglol uchod yn manwl ufuddhau gorchy- mynion eu Gwneuthurwr; yn gynllun, yn yr ystyr hyn, a chymhelliad i'r grëedigaeth resymol	382
Ymddangosiad graddol y ser; cyflwr cynnyddol gwir ddychweliad	386
Lliosogrwydd y ser, yn enwedig yn ngaer-gwydion; po fanylaf eu golygir, amlaf yr ymddangosant; cymhwysu hyn at y trys- orau anchwiliadwy o ddoethineb yn yr ysgrythyr, o deilyng- dod yn Nghrist, ac o wynfyd yn y nef	387
Y cyrph nefol wedi eu trefnu yn y fath fodd ag i fod yn hyfryd a gwasanaethgar i ddyn, yn addurno ei annedd ac yn mesur ei amser; hyn yn annogaeth ddystaw i iawn ddefnyddio'r dalent	390
Dysclaerdeb y ser; annogaeth i fyddlondeb yn y swydd weinid- ogaethol	392
Y seren ogledd; ei sefyllfa anghyfnewidiol; yn dywysiad i'r mor- wyr gynt; y fath yw gair Duw i'n heneidiau; annogaeth i ddilyn ei gynghorion diwyrmi	393
Amrywiaeth yn maint a llewyrch y ser; gwahanol raddau yn myd y gogoniant; etto yr holl waredigion yn berffaith ddedwydd	396
Gwrthadaffiad a thyniad at, yr egwyddorion mawrion sy'n cynhyrfu cyfundrefn y planedau; cariad a fydd yn dra chyffelyb yn nhrefn Crist nogaeth	397
Effeithiau rhyfedd, a dylanwadau helaeth, tyniad; goruchwyliaeth yr Ysbryd Glân ar y meddwl dynol	400
Graddoliaeth mawr yn nghlorian bodoliaeth; y cyfan yn wrth- ddrychau y gofal dwyfol, ac yn llawn o'r presenoldeb dwyfol	404
Gwerth tra rhagorach enaid anfarwol; annog i fod yn ofalus am ei ddedwyddwch tragwyddol	408
Golwg anystyriol ar yr wybrenau yn gyffrous; golwg resymol a duwiol yn llawer mwy	410
Bydra ein gwybodaeth am y cyrph nefol; ar ol ein holl ymchwil, maent yn destynau ein rhyfeddod yn hytrach na'n hadna- byddiaeth; annogaethau i ganlyniadau hawdd eu cyrhaedd, ac a fyddant o dragywyddol fudd	411
Ail-adroddiad byr o'r cyfan	413
Emyn o fawl cymhwys i'r achos	415
Blackmore ar Grëedigaeth	416

D.S. Dichon ymddangos yn beth dyeithr i'r darlennydd annysgedig, fod seryddion yn dywedyd y fath bethau dyeithr, a hyny yn y fath ddull hyderus, ynghylch pellder a maintioli, mudiadau a pherthynas, y cyrph nefol. Mi a ddymunwn ar y cyfryw i ystyried y diffygidau, a

chyda pha fanylrwydd y maent yn cael eu bwrw. Maent nid yn unig yn cael eu rhagddywedyd, eithr y mae hyd yn oed y funud y dechreuant yn cael ei phenderfynu. Mae tymhor eu parhad yn cael ei nodi; ei nodi, agos i'r tarawiad; a'r hyn sydd yn fwy rhyfedd byth, am gan-noedd a miloedd o flynyddau i ddyfod. Gan fod hyn yn wirionedd, llwyr anwadadwy; y mae yn brawf amlwg a chadarn; fod egwyddorion y wybodaeth trwy ba un y maent yn cael eu bwrw, nid yn ddychymmyg wan, neu lettyb ansafadwy; eithr bod sylfaen wirioneddol a chadarn iddynt, yn natur a chyfansoddiad pethau.

GAUAF-DRAITH.—Tudal. 417.

Arweiniad i mewn—Byrdra'r dydd yn y gauaf—Gwlaw diattal, yn achosi llifeiriant—Tymhestl; ei heffeithiau, ar dir, ar fôr—Ty-wyllwch dudew; marchogaeth ynddo—Barrug tew—Rhew awchus, a thywydd canllaid—Oerni llym, a gwynt treiddgar—Eira dwfn—Dadleithiad cyffredinol—Gwyrddion parhaus—Ystorm o genllysg—Yr enfys.

TAFLEN O DESTYNAU,

A EGLURHEIR FWY NEU LAI YN Y GWAITH HWN

D.S. Gan i Dr. Shaw, yn ei ohwanegiad at ei Lyfr rhagorol o Deithiau, ac amryw Awdwyr enwog ereill, roddi Dangoseg o'r Ysgrhythrau a ddeonglir yn achlysurol yn eu ysgrifeniadau; nid wyf yn amman na bydd i mi foddhau llawer o'm darllenwyr trwy'r Daffen hon; yn enwedig, y rhai sydd yn ymfyrydu yn harddwch yr ysgrifeniadau sanctaidd.

	<i>Pen.</i>	<i>Adn.</i>	<i>Tudal.</i>		<i>Pen.</i>	<i>Adn.</i>	<i>Tudal.</i>
Genesis	xxx.	1.....	33	Job	ix.	25, 26	238
Deut.	xxxii.	29.....	12		xix.	25.....	178
Joshua	x.	12, 13	383		xxii.	16.....	297
Barn.	v.	20.....	383		xxii.	20.....	366
	v.	30.....	125		xxv.	5, 6.....	352
1 Sam.	xxviii.	19.....	68		xxvi.	14.....	320
1 Bren.	viii.	27.....	8		xxxviii.	25.....	156
	xx.	40.....	247		xxxviii.	30.....	431
Nehem.	ix.	6.....	388		xlii.	2.....	432
Job	iv.	12, 18 ..	266, 268	Psalm	viii.	3, 4.....	324
	iv.	19.....	21		xxiii.	1.....	378
	v.	23.....	427		xxvii.	1.....	378
	vii.	20.....	327		xxvii.	4.....	129
	ix.	8.....	71		xxxiii.	6, 9.....	334

	<i>Pen.</i>	<i>Adn.</i>	<i>Tudal.</i>		<i>Pen.</i>	<i>Adn.</i>	<i>Tudal.</i>
Psalm	xlv.	8	122, 397	Habaccuc	iii.	11	383
	li.	7	435	Zecharia	ix.	17	347
	xcvi.	5	388		xiii.	1	332, 354
	xcvii.	2	344	Mat.	vi.	25	380
	eiv.	3	71	Luc	vii.	12	277
	civ.	24	133		xiv.	23	137
	cviii.	4	91		xv.	11, &c.	359
	cx.	3	101		xviii.	19	347
	cx.	7	103	Ioan	i.	3	145
	cxxxvi.	9	292		iii.	3	271
	cxxxix.	2	252		v.	17	116
	cxxxix.	7, 8, 9	236		x.	9	164
	cxxxix.	10	252		xi.	26	72
	cxlvii.	17	428		xii.	32	375
Diar.	iv.	15	171		xiv.	6	164
Preg.	xii.	3, 5	43		xiv.	9	373
Can.	ii.	1	128	Act.	ix.	1	360
	vi.	10	298		xx.	28	331
Esaiä	ii.	11	422	Rhuf.	v.	8	349
	ix.	3	355		v.	20	370
	xiv.	23	284		xiii.	14	127
	xxix.	8	262	1 Cor.	i.	24	372
	xxxiii.	15	170		i.	30	293
	xxxiii.	17	128		viii.	1	412
	xxxv.	1	159		xv.	41, 42	396
	xxxviii.	11	245	2 Cor.	iv.	17	253
	xl.	12	339		vi.	16	11
	xl.	15	321		ix.	8	357
	xli.	10	366	Gal.	ii.	20	168
	xlii.	3	335	Ephes.	iii.	10	372
	xliv.	13	350		iii.	18, 19	326
	xliv.	15	406		iii.	20	336
	li.	6	191	Phil.	ii.	6, 7, 8	326
	liii.	3	198		iii.	10	168
	lv.	13	159	Colos.	i.	17	115
	lviii.	10	161		ii.	3	374
	lxi.	10	127	Heb.	i.	2	125
Jeremia	xxxix.	12	159		vii.	26	329
	xlix.	11	39		viii.	10	377
Ezeciel	xvii.	63	329		xii.	2	163
	xxxvii.		403	1 Pedr	i.	12	374
Dan.	ix.	24	299	2 Pedr	iii.	10	287
	xii.	3	393	Dat	x.	1	241
Habaccuc	i.	9	432		xii.	1-6	194
	iii.	4	143		xxi.	1	201

I Miss R—— T——.

MADAM,

Y MYFYRDODAU hyn, un ar yr olygfa *bruddaf*, a'r llall ar y *deccaf*, yn natur, pan ddeilliasant oddiwrth fy ysgrifell yn gyfrinachol, a annerchwyd i foneddiges o'r doniau gwerthfawroccaf; yr hon a goronodd ei holl gynheddfau hoff ereill, â chariad gwresog at Grist, a chydffurfiad dilynwiw â'i siampl ddwyfol ef. Hyhi, ysywaeth! nid yw yn byw ar y ddaear mwyach; oddi-eithr yn anrhydedd ei bucheddnod clodwiw, ac yn nghoffadwriaeth clwyfus ei chydabod.

Mae yn annichonadwy, Madam, dymuno i chwi fendith werthfawroccach, neu ddedwyddwch mwy sylweddol, nâ bod i'r unrhyw ysbryd o ffydd ddiffuant, a'r unrhyw yrfa o grefydd ddihalog, y rhai a'i galluogasant hi i orfoleddu dros angyf, i fywiogi ac addurno eich bywyd. A chwi a oddefwch i mi ddywedyd, mai fy mhrif ddyben yn erfyn arnoch dderbyn y Myfyrdodau canlynol, pan maent yn awr yn ymddangos yn gyhoeddus o'r wasg, yw, fel y byddo iddynt goledd yr un egwyddor sanctaidd, a dwyn ymlaen yr un ymddygiad rhagorol.

Hir, Madam, y *blaguroch* yn holl fywiogrwydd a hawddgarwch ieuengctyd, fel testyn hyfryd y naill o'r Myfyrdodau hyn: ær yr un pryd cofiwch, gyda golwg ar y perffeithiadau is hyn, fod yn rhaid i chwi ryw ddiwrnod *wywo* (bydded yn rhyw ddiwrnod pell iawn)

fel gwrthddrychau galarus y llall. Yr ystyriaeth hyn a'ch cynhyrfa i fyned ymlaen, fel y dechreuasoch, i ychwanegu llarieidd-dra doethineb, a holl harddwch sancteiddrwydd, at degwch person hawddgar, a pherffeithiadau addysg foneddigaidd.

Ac nad allai—O! nad allai y dywediadau canlynol weini y cymhorth lleiaf i chwi, i gyflawni dyben mor ddymunol; nad allent, i ryw radd, fod yn wasanaethgar i sefydlu eich ffydd, a dyrchafu eich duwioledeb; yna, hwy a gyfranent i'r awdwr y cyfryw foddlonrwydd, a'r nas dichon clod ei roddi, nac anglod ei gymmeryd ymaith; boddlonrwydd, yr hwn y gallwn ei fwynhau, i'e, yn y munudau ofnadwy hyny, pan suddo'r hyn oll a gaethiwa'r llygad mewn tywyllwch, a phan diflano holl ogoniant y byd isod hwn yn dragywydd,

Y dymuniadau hyn, Madam, megis y maent yn orchwyl boddhaus iawn i'm meddyliau, felly maent yn dyfod gyda'r amgylchiad chwanegol hyn o hyfrydwch, eu bod yn amlygiad didwyll o'r parch mawr gyda pha un yr ydwyf,

Madam,

Eich ufuddaf,

A'ch gostyngeiddiaf was,

JAMES HERVEY.

Weston Favel, gerllaw Northampton

Mai 20, 1746

RHAGY MADRODD.

MAE'r cyntaf o'r Myfyrdodau achlysurol hyn yn crefu caniattad i alw fy narllenwyr i gof am eu diwedd; a'u gwahodd hwynt i osod, nid eu tai yn unig, ond yr hyn sydd yn annhraethol fwy angenrheidiol, eu heneidiau, mewn trefn: fel y gallont edrych ymlaen at eu terfyn heb un ofn pryderus; a phan gymmero'r cyfnewidiad mawr le, y gallont ganu yn iach i bethau daearol, gyda holl dawelwch ymroddiad siriol, gyda holl gysuron ffydd gref.

Mae'r llall yn cynnyg darlunio ychydig o holl ddi-gonolrwydd y Gwardwr, ar gyfer bwriadau grasol iachawdwriaeth dragywyddol: fel y gallo ystyriaeth o'i urddas annhraethol, a'i berffeithderau anfeidrol, ein cynhyrfu i'w werthfawrogi, gyda syniadau o'r parch dyfnaf; i hiraethu am hawl sicr yn ei deilyngdod, gyda holl wresogrwydd dymuniad; ac i ymorphwys ar ei gyfryngdod galluog, gydag ymddiried nad yw i'w siglo gan ddim profedigaethau, nac i'w rhànu â dim cyflawniadau o'n heiddo ni.

Yr wyf yn lled-addaw i mi fy hun, y groesawir y syniadau a ymddygwyd ymblith y beddau gan y meddwl difrif a hynaws; o herwydd, megis nad oes ond ychydig, na thraddodasant weddillion rhyw berthynasau hoff, neu gyfeillion parchus, i'r trigfanau dystaw hyny; felly nid oes neb, na raid fod yn ystyriol mai dyma'r "tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw;" a'u bod hwy eu hunain i symmud yn fuan i'r un preswylfeydd

difrif.—A phwy ni ymneillduai, am ychydig, oddiwrth y difyrwch mwyaf dewisol, i edrych ar y fan lle gorwedd ei gyfeillion hoff unwaith? Pwy ni thaffai olwg weithiau ar yr ystafelloedd, lle mae efe ei hun i drigo hyd na byddo amser mwyach?

Ac am y Traethawd bychan arall, a allaf fi ddim hyderu yn ostyngedig y gwna'r testyn ei hun y sylwadau yn gymmeradwy? Canys pwy nid yw yn ymhyfrydu yn nrych y greadigaeth flagurog, ac hyd y nod yn cael ei swyno gan ddeniadau hardd-deg blodau? Pwy nid yw yn trachwantu eu casglu yn yr ardd, neu eu gwisgo mewn blodeuglwm? Gan fod hyn yn nwyd mor gyffredinol, pwy ni byddai yn ewyllysgar i'w gwneuthur yn gynhyrchiol o'r addysg ardderchoccaf? —Mi a anturiais nodi, ac a ymdrechais egluro, y darn hyn o gynnildeb sanctaidd, yn yr ail Llythyr; fel, tra fyddo'r llaw yn brig-dorri tegwch darfodedig blodeuyn, y byddo'r meddwl esgud yn cyfoethogi ei hun â daioni sylweddol a safadwy.—Ac ni allaf lai ná llettya rhyw obaith boddhaus, y derbyn yr archwaeth gynnifaf argraffiadau crefyddol, pan drosglwydder hwynt gan y fath addysgwyr hawddgar; pan ganfydder hwynt, nid ar ddalenau brawychus unplyg, eithr pan safant yn ddarllenadwy ar sidanwê dêg Narcissus; pan nad aroglont sawr y llugorn a'r meudwy, eithr pan anadlont berarogl mynwes y Lili.

MYFYRDODAU

YMLITH

Y B E D D A U.

MEWN LLYTHYR AT FONEDDIGES

MADAM,

A MI yn teithio yn ddiweddar yn Ngherniw, damweiniodd i mi ddisgyn mewn pentref cyfrifol, yn y swydd hòno : a chan gael fy hun dan angenrheidrwydd annisgwyliaidwy i aros dros ychydig, mi a rodiais i'r eglwys.* Y drysau, fel y nef i ba un yr arweiniant, oeddynt yn llydain agored, ac yn barod i dderbyn dyeithryn annheilwng. Gan ymhyfrydu yn y cyfleusdra, mi a benderfynais dreulio ychydig funudau dan y grommen gyssegredig.

* Mewn rhai argraffiadau blaenorol mi a enwaswn eglwys neillduol, sef *Kilkhampton* ; lle mae llawer o'r bedd-adeiliau, a ddesgrifir yn y tudalenau canlynol, yn bod mewn gwirionedd. Ond gan i mi farnu yn addas i grybwyll rhai amgylchiadau, nad oes, hyd eithaf fy nghof, un cyfeiriad attynt yn yr arysgrifiau yno, mi a adewais allan yr enw ; fel y gallai'r ddychymmyg weithredu yn fwy rhydd, a mantais y darllenydd gael ei olygu, heb ddim a allai ymddangos yn debyg i ymadawiad oddiwrth wirionedd a sicrwydd.

Mewn sefyllfa mor neillduedig ac ofnadwy, nis gallaswn lai nâ chwympto i res o fyfyrddodau, difrif a galarus-foddhaol; y rhai, gobeithio, a fuant i ryw radd yn fuddiol i mi, tra y llanwent ac y cynhesent fy meddyliau; ac, os gallant weinyddu unrhyw hyfrydwch i chwi, Madam, gwedi eu hadgofio, a'u traddodi i ysgrifen, myfi a dderbyniaf ddywenydd adnewyddol oddi wrthynt.

Hen adeilad ydoedd; a gyfodasid gan ddwyllaw, er ys oesoedd lawer, oeddynt yn malurio yn y llwch.—Yr oedd wedi ei chyfleu ynghanol tir claddu mawr; ymhell oddiwrth holl dwrdd a thrafferth y byd terfysglyd.—Y corff ydoedd äang; yr adail yn uchel; a'r cwbl yn fawreddog syml. Rhes o golofnau rheolaidd a ymestynent trwy'r canol, ac a gynhalient y grommen gyda symlrwydd, ac urddas.—Y goleuni a dramwyai trwy'r ffenestri, a ymddangosai fel yn tywallt math o oleuadol dywyllni, yr hwn a argraffai wedd brudd a hybarch ar bob gwrthddrych.—Y dwfn ddystawrwydd a gynhyddai brudd-der yr ymddangosiad, a'r ddau, wedi eu mwyhau gan unigolrwydd y lle, a or-ychwanegent ddifrifwch yr olygfa.—Math o ddychryn crefyddol a ymledrattaodd yn annirnadwy dros fy meddwl, fel yr oeddwn yn myned rhagof, yn brudd a meddylgar, ar hyd y rhodfa nesaf i mewn. Y cyfryw ddychryn ag a lonyddai bob nwyd anfoesgar, ac a wasgarai holl ymddangosiadau heirddgoeg y byd hudolus.

Ar ol addoli y Mawrhydi Tragywyddol hwnw, pa un, ymhell o gael ei gyfyngu i demlau o waith dwyllaw, sydd â'r nef yn orseddfaingc iddo, a'r ddaear yn lleithig i'w draed, mi a gymmerais sylw neillduol o allor-ddarn prydferth; a gyflwynasid, fel y deallais

yn ol llaw, gan adeiladwyr Stow,* o ddiolchgarwch, dybygwn, i'r Duw gaslawn hwnw, a'u dygodd trwy eu gwaith, ac a'u cynnorthwyodd i "ddwyn allan y maen pennaf mewn gorfoledd."

O! mor hawddgar yw diolchgarwch! yn bendifaddeu pan fyddo â'r Cymmwynaswr goruchaf yn wrthddrych iddi. Yr wyf bob amser yn ystyried diolchgarwch fel yr egwyddor fwyaf dyrchafedig a ddichon gynhyrfu calon dyn. Mae ynddi rywbeth boneddigaidd, anhunanol, ac (os goddefir i mi yr ymadrodd) hael-ddefosiynol. Mae edifeirwch yn ystyried ein natur yn syrthiedig, a gweddi yn troi yn bennaf o barth un ei hun. Ond yr oedd gweithrediadau diolchgarwch yn bodoli yn Mharadwys, pan nad oedd un bai i gwyno o'i blegid; a pharhëir hwynt yn y nef, pan fyddo "Duw oll yn oll."

Iaith y dymber felus hon yw, "Yr wyf dan rwymau annhraethol; pa gydnabyddiaeth gaf fi wneuthur?"—Ac, yn ddiau, nid amlygiad ammhriodol o ddiolchgarwch diragrith yw, addurno cynteddau'r Creawdwr, a harddu'r "lle y trig ei enw ynddo." Yn y dyddiau gynt, yr oedd annedde ei draed yn ogoneddus: na bydded, yn awr, yn wael a dirmygus. Rhaid ei fod yn ofid i bob meddwl têtg, ac yn warth i unrhyw bobl, fod â'u tai eu hunain wedi eu byrddio â chedrwydd, a'u lliwio â sinopr; tra mae teml Arglwydd y lluoedd yn ymddifad o bob addurn gweddus.

* Enw palas ardderchog, a berthynai i ddiweddar Iarl! Caerbaddon; yn hynod gynt am ragoroldeb ei grefftwriaeth, a'i ddodrefn godidog; unwaith yn brif gynniweirfa uchelwyr a boneddigion y gorllewin; ond yn awr wedi ei ddinystrio, ei osod yn gydwastad â'r llawr, a phrin garreg wedi ei gadael ar y llall. Fel y gall yd dyfu, neu ddanadl darddu, lle safai Stow yn ddiweddar.

Yma mi a gofiais, ac a fawr hyfrydwyd gan anerchiad Salomon i'r Hollalluog, ar gyssegriad ei deml glodfawr. Gyda thraul anfeidrol, a chynnilddeb medrusrwydd, y cyfodasai efe yr adail werthfawroccaf a phrydferthaf, a welodd yr haul erioed. Etto, ar adolygiad o'r gwaith, ac ystyriaeth o oruchel berffeithderau y Duwdod, fel y mae efe yn dyrchafu'r naill, ac yn iselhau'r llall!—Yr oedd yr adeiladaeth yn rhy ogoneddus, i'r teyrn galluoccaf i'w chyfanneddu; ac yn rhy sanctaidd i osod traed halogedig o fewn ei phyrth; etto yn anfeidrol ry wael, i'r Duwdod i'w phreswyllo. Yr oedd, a chydabu yr addolydd brenhinol ei fod, yn ddarostyngiad o'r rhyfeddaf yn yr ardderchawgrwydd digrëedig, i “osod ei enw yno.”—Mae'r holl gyfran yn anadlu'r fath dduwiolder, a chwedi ei bywiogi â'r fath addurniant syniad, fel nas gallaf fyned rhagof, heb ei hadrodd. * “Ai gwir yw y preswylia Duw ar y ddaear? Wele! y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynnwys di; pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i?” Anghymharol

* 1 Bren. viii. 27. “Ai gwir yw”—dechreuad'hardd disymmwth, yn desgrifio, yn y modd mwyaf arwyddoccaol, syndod a hyfrydwch y proffwyd brenhinol!—“Gwir:” gair tra phwysig yn ei gyssylltiad presenol, yn arwyddo ymostyngiad rhyfeddol ac anghyffredin, agos tu hwnt i grediniaeth.—“Y preswylia:” tafu golwg drugarog ar greaduriaid pechadurus; eu bendithio ag ymweliad byr o dosturi; hyd y nod hyn a fyddai yn rhwymedigaeth annhraethol. A deilynga efe ynte osod ei breswyl yn eu plith, a chymeryd i fynu ei drigfa sefydlog gyda hwynt?—“Duw:” nid yw efe yn arfer cyfenwau, lle buasai ysgrifenwyr o lai dirnadaeth yn hoffi eu lliosogi; eithr mae yn llefaru am y Duwdod fel bod anamgyffredadwy, yr hwn y mae ei berffeithderau a'i ogoniant yn ddyrchafedig uwchlaw pob mawl.—“Wele:” i arwyddo syndod parhaol, neu yn hytrach ychwanegol, y llefarydd, a deffroi sylw y gwrandawyr.—“Wele! y nefoedd:” ceuedd y ffurfafen; y cylchedd llydan, llasar hwnnw, lle mae bydoedd aneirif yn cyflawni eu cylchdroadau, sydd yn rhandy rhy gyfyng i'r Duwdod.—Ie, “Nefoedd y nefoedd:” y gororau dirfawr fwy uchel hyny, y rhai ydynt ymhell tu

ddyweddiad! gwir deilwng o'r doethaf o ddynion. Pwy ni ddewisai feddu y cyfryw ddyhewyd, yn hytrach nâ pherchenogi holl ddefnyddiau dysclaerwch yr adail werthfawr hōno?

Yr ydym ni yn barod i ryfeddu a mawrhau rhwysg a gwychder cyflawniad pencelfydd mewn adeiladyddiaeth: ac, fe allai, y gwnaethem, ar olwg ar yr hen gyssegr, sylw arwynebol y dysgyblion; "Pa ryw feini, a pha fath adeiladau, sydd yma?"—Ond pa mor dra-rhagorach meddwl, ac unionach barn am bethau, a ymddangosai yn, i ni ymuno â brenin Israel, i fawrhau darostyngiad y dwyfol Breswlydd! Fod i'r Goruchel a'r Dyrchafedig, yr hwn sy'n llanw annherfynoldeb â'i ogoniant, mewn modd neillduol, sefydlu ei drigfa yno! Fod iddo yno amlygu gradd anarferol o'i fendithiol bresenoldeb; fod iddo yno ganiattau i farwolion pechadurus ddynesu at ei Fawrhydi; ac addaw "eu llawenyachu yn ei dŷ gweddi!"—Dylai hyn weithredu yn fwy effeithiol ar ein calonau, nag y dichon y trefniad cywreiniaf o feini hyfrydu ein llygaid.

Ië, nid yw y Duw tragywyddol yn diystyru preswylion yn eneidiau ei bobl trwy ei Ysbryd Glân; a gwneuthur hyd yn oed eu cyrph yn demlau iddo.—Dywedwch wrthyf, chwychwi y rhai a ffurfiwch gynnillion feiriadau, ac a bwyswch yn fanwl wahaniaeth pethau, "A yw hyn fwyaf rhyfedd, ai fwyaf gorfoleddus?"—

hwnt i dreiddiad golwg dyn; i ba rai prin y geill ein meddyliau ymddyrrchu: hyd yn oed y rhai hyn (diderfyn fel ag ynt) ni allant weini preswyl gymhwys i'r Jehofa: hyd yn oed y rhai hyn a ddiflanant yn bigyn, wrth eu cymharu ag anfeidroldeb ei hanfod; ie, hyd yn oed y rhai'n "ydynt megis dim ger ei fron ef."—"Pa faint llai" cyfartal yw y man tlawd, bychan hwn (a adeiledais ac a addurnais i) i bresenoldeb mor ardderchog, a mawrhydi mor anfeidrol!

Mae efe yn ymddarostwng, yr ysgrythyr a sicrha i ni, i edrych y pethau yn y nefoedd.* Gras o'r mwyaf darostyngedig yw, os rhynga bodd iddo ef gymmeryd y sylw cymmeradwyol lleiaf o angelion ac archangelion, pan ymgrymant mewn gwasanaeth oddiar eu gorseddau nefolion. A fydd iddo ef ynte rasol sylwi, a fydd iddo ef ynte ymuno,—ymuno, meddaf, yn y modd mwyaf digyfrwng, â gwael, lygredig, anadlol lwch?—Digmbar anrhydedd! anmbriadiadwy fraint! Bydded hyn fy rhan, ac ni thrachwantaf goronau, ni chenfigenaf wrth fuddygoliaethwyr.

Ond gadewch i mi ystyried, pa sancteiddrwydd tuedd, a pha uniondeb buchedd, mae'r fath berthynas ddyrchafedig yn ei ofyn: cofio hyn, "a llawenhau dan grynu."—A feiddiaf fi wneuthur unrhyw anwiredd, tra yn troedio y cynteddoedd sanctaidd yma? A allai yr arch-offeiriad Iuddewig oddef ei hun mewn unrhyw drosedd gwybodus, ar ei fynediad blyneddol † arbenig i'r sanctaidd sancteiddiolaf, pan safai yn uniongyrchol bresenoldeb Jehofa? Na allai, yn sicr. Yn y cyfryw amgylchiad, rhaid i ddyn ystyriol ysgrydu rhag y tueddiad pellaf at unrhyw drosedd gwirfoddol. Myfi a ffeiddiwn, yn awr, yr anweddeidd-dra lleiaf mewn ymddygiad, ac a grynwn hyd yn oed rhag ymddangosiad drygioni.—A phaham na ddygem ni yr eiddgedd sanctaidd hon gyda ni i'n holl fywyd cyffredin? Paham nad ydym ymhob man, ‡ yn parchu ein hunain; fel rhai

* Psal. cxiii. 6.

† Heb. ix. 7.

‡ — Παντων δε μαλις' αισχυρο σ' αυτον, oedd synwyr-wers ddewisol Pythagoras, a bernir ei bod yn un o'r gorchymynion moesol goreu a roddwyd erioed i'r byd cenhedlig. Gyda pha ychwanegol rym, a thra neillduol fantais, mae'r rheswm hwn yn cymmeryd lle yn y gyfundrefn Grist'nogol! Lle i'n dysgir i barchu ein hunain, nid yn unig fel cread-

wedi eu cyflwyno i'r dwyfoldeb, fel temlau bywiol y Duwdod? Canys, os ydym mewn gwirionedd, ac nid mewn enw yn unig, yn Grist'nogion, mae Duw'r gogoniant, yn ol ei addewid,* " yn preswyllo ynom, yn rhodio ynom."—O! na byddai i'r un athrawiaeth hon o'n crefydd weithredu, gydag effeithioldeb parhaol, ar ein cydwybodau! Hi a fyddai i ni yn lle mil o gyfreithiau, i drefnu ein hymddygiad; yn lle mil o gymbelliadau, i fywiogi ein sancteiddrwydd. Dan effaith y fath grediniaeth, byddem yn ymröus i fod yn bur yn ein bwriadau; yn urddasol yn ein gweithredoedd; ac i rodio yn deilwng o'r Bod tra rhagorol fawreddog hwnw, a'n derbynia ni i gymdeithas ag ef ei hun, yn ei Fab ef Iesu Grist.

Y peth nesaf, a dynodd fy sylw, oedd y llawr llythyrenog. Y palmant, yn gyffelyb i rôl Ezeciel, a ysgrifenasid drosto o'r naill gŵr i'r llall. Mi a ddeallais yn fuan y daliai'r gymhariaeth yn dda, ar olygiad arall hefyd; a bod yr arysgrifau yn destyn "galar, griddfan, a gwae."† Ymddangosent fel yn erfyn fy sylw; ac yn fy nystaw wahodd i'w darllen. A pha beth a hysbysai'r rhybuddwyr mudion hyn i mi?—"Mai goris eu hamgylchedd bychan hwynt, y gosodasid y cyfryw a'r cyfryw ddarnau o bridd, y rhai unwaith a fuasent yn fyw, a ymsymmudent, ac a ymddiddanent; eu bod hwy wedi derbyn gorchymyn i ddiogelu eu henwau, ac mai hwy oeddynt arosol ymddiriedolwyr eu coffadwriaeth."

uriaid deallol, y rhai mae rheswm ganddynt fel eu haddysgydd; eithr fel creaduriaid cyflwynedig, a chennym Dduw o'r perffeithrwydd eithaf, bob amser gyda ni, bob amser ynom.

* 2 Cor. vi. 16.

† Ezec. ii. 10.

Ah! eb fi, ai'r fath yw fy setyllfa! Y Creawdwr addoladwy o'm hamgylch, ac esgyrn fy nghyd-greaduriaid danaf! Yn ddiâu, ynte, mae genyf reswm mawr i lefain gyda'r partriarch, wrth addoli, "Mor ofnadwy yw y lle hwn!"* Disrifoldeb a sancteiddrwydd a weddent i'th dŷ di byth. Na sengwyf ei gynteddoedd un amser yn ysgafn ac anmharchus; eithr gydag arswyd dwfn, ac ofn duwiol!

"O! na baent ddoethion!"† eb yr ysgrifenydd ysbrydoledig. Ei ddymuniaid olaf i'w bobl anwyl ydoedd. Efe a'i hanadlodd allan, ac a roddodd i fynu yr ysbryd.—Ond pa beth yw doethineb? Nid ydyw yn gynnwysedig mewn meddyliadau manylion; neu adchwiliadau cywreinion i natur; neu wybodaeth gyffredinol o hanesyddiaeth. Y mae'r deddf-rododydd dwyfol yn penderfynu y pwngc pwysfawr hwn, yn ei anadliad nesaf: "O na ddeallent hyn!" Na bae ganddynt ystyriaethau iawn o'u daioni ysbrydol, a'u hachos tragwyddol! Na bae ganddynt lygaid i ganfod, a thueddiadau i ganlyn, y pethau a berthynant i'w heddwch!—Ond pa fodd y cyrhaeddant y wybodaeth werthfawr hon? Nid wyf yn eu hanfon, a ychwanega'r addysgydd ardderchog, i droi drostynt holl gyfrolau llënyddiaeth: gallant gyrrhaedd, a hyny yn llawer byrach, y gwyddiad hwn o fywyd, trwy "ystyried eu diwedd." Y wreichionen nefol hon a gollir yn aml, dan leufer rhwysgus hyawdledd; ond a ddysclaeria yn eglur, yn anneddau tywyllion y bedd. Boddir yr ysibrwd araf, ymysg dwndwr amgylchiadau bydol; eithr llefara yn hygryw, ym ymneillduadau myfyrdod difrifol.—Wele! mor rhagluniaethol i'm

* Gen. xxviii. 17.

; Deut. xxxii. 29.

dygwyd i ysgol doethineb!* Y bedd yw'r athraw† fyddlonaf; a'r anghreiffiau hyn o farwoldeb, y gwersi mwyaf addysgiadol.—Tyred, gan hyny, dawel ystyr-iaeth, a llonydda fy meddwl; tyred, dydi nefol Ysbryd, a goleua fy neall; fel y byddo i mi yn y cyfryw fodd eu defnyddio, ag i'm gwnelont “ yn ddoeth i iachawd-wriaeth.”

Wrth chwilio cofrestri marwoldeb, myfi a gefais goffâon torf gymmysglyd.‡ Yr oeddynt wedi eu crugio, o leiaf gorweddent, ynghyd, heb un sylw o radd nac oed. Nid oedd neb yn trachwantu y lleoedd uchaf, neu'r eisteddfâau pennaf, yn y galardy hwn. Nid oedd neb yn llettya dymuniadau hoff ac awyddus am gael eu cyfarch yn anrhydeddus, yn eu cellau caddug-ddu. Yr hynafgwr oedranus a phrofiadol, a ystyrid fel genau Duw yn ei genhedlaeth, a ymfoddlonai orwedd wrth draed maban. Yn y tŷ rhagderfynedig hwn i bob dyn byw, y gwas a gyfaddasid yn gydradd, ac a lettyai yn yr un ystafell a'i arglwydd. Y tlawd anghenus a orweddai mor dyner, ac a hunai mor drwm, a'r meddiannydd cyfoethoccaf. Yr holl wahaniaeth rhyngddynt, oedd twmpath glaswelltog, wedi ei amgylchu gan fer-helyg; neu fedd-faen, wedi ei addurno ag arluniaeth.

Paham, ynte, meddai fy meddyliau gweithgar, O!

- * Mor ddoeth yw'r dyn, claf ar goeg olygfeydd,
Ddewisa'i rodfa is cysgodau gwyll,
Ddystaw gypryswydd anghen, (lle ni thraidd
Ysgafnfryd belydr gwagedd!) yno'i brudd
Ddarllain ei gofadeliau, pwyso'i lwch,
Ymwel'd â'i fydau, byw ar fin y bedd!

Night Thoughts.

† Dysgwyl yr athraw mawr, marwolaeth.—*Pope.*

‡ Mista senum ac juvenum densantur funera.—*Hor.*

paham y codwn ni y fath gynhwrf dirfawr, ynghylch uchafiaeth a blaenoriaeth, pan fydd i'r symmudiad nesaf ein darostwng i sefyllfa o waeledd cyfartal? Paham y dyrchafwn ein hunain, ac y darostyngwn ereill; gan y rhaid i ni, ryw ddiwrnod, fod yn gydradd, a chydymgymysg yn yr un llwch anhynod? O! na byddai i'r ystyriaeth hon ddarostwng fy malchder i ac ereill, a suddo ein dychymmygion mor isel a'r anneddau a breswylwn ar fyr!

Ymhlith y gweddillion cymmysg hyn o ddynoliaeth, mae, yn ddiammau, ddynion o fudd-olygiadau gwa-hanol, a syniadau gwrthwynebol. Eithr angeu, fel rhyw ddyddiwr cadarn, a osododd ei law ar y pléidiau anghyttunol; ac a ddyg eu holl ymryson i derfyniad heddychlawn.* Yma gelynion, i'e gelynion calon, a drigant ynghyd mewn unoliaeth. Rhoddasant heibio bob meddwl chwerw, ac anghofiasant eu bod gynt yn wrthwynebwyr. Fe allai, fod eu hesgyrn briwsionllyd yn ymgymmysg, wrth falurio; a'r rhai hyny, tra fuant fyw, a safent o hirbell, a goffeidiant eu gilydd yma, ac hyd yn oed a ymgorpholant yn y bedd.—O! nad allem ni ddysgu oddiwrth y llwch cyfeillgar yma, peidio bytholi coffadwriaeth sarhad; peidio achlesu poethgryd digofaint; na meithrin terfysg nwydau: fel y byddai cyn lleied o elyniaeth ac anghydfod ar dir y rhai byw, ag sydd yn nghynulleidfa'r meirw! Ond mi a ymattaliaf, dros ychydig, oddiwrth y fath sylwadau cyffredinol, ac a gyfyngaf fy hun at ymfyniad mwy pennodol.

Y maen gwyn accw, arwyddlun o'r diniweidrwydd

* Hi motus animorum, atque hæc certamina tanta,
Pulveris exigui jactu compressa quiescent.—*Virgil*

a orchuddia, a hysbysa'r edrychlydd am un, a anadlodd allan ei enaid tyner, agos ar y tarawiad y derbyniodd ef.—A'r maban tangnefyddus, heb gymmaint a gwybod beth a feddylir wrth lafur a gorthrymder, “ a orwedd ac a orphwys; efe a hunna ac y mae llonyddwch iddo.”* Heb aros ond yn unig i olchi ymaith ei anmhuredd naturiol yn ngolchiad yr adenedigaeth, efe a ganodd yn iach i amser, a phob peth daearol.—Pa beth a gafodd yr ymdeithydd bach brysiog mor wrthwynebus ac anhawddgar yn ein byd uchod ni, ag i achlysuero ei ymadawriad mor fyrbwyl? Mae yn ysgrifenedig, yn wir, am ei Iachawdwr dyoddefus, pan brofodd efe y gwinègr wedi ei gymmysgu â bustl, na fynnai efe yfed.† Ac a ddechreuodd ein dyeithryn newydd-ddyfod lymmeitian o gwpan bywyd; a chan ei brofi'n chwerw, droi ymaith ei ben, a gwrthod y cwpanaid? Ai dyma yr achos, na wnaeth y maban gochelgar ddim ond agor ei lygaid; prin edrych ar y goleuni; ac yna ymgilio, i ororau mwy dengar gorphwysfa ddigyffro?

Ddedwydd fordeithydd! nid cynt yr ymwthiodd allan, nag y cyrhaeddodd y porthladd!‡ Ond mwy hynod ddedwydd hwynt-hwy, y rhai a groesasant ddonau, ac a wynebasant holl dymbestloedd, byd peryglus a thrallodus! Y rhai, “ trwy lawer o orthrymderau a aethant i mewn i deyrnas nefoedd;” a thrwy hyny a ennillasant anrhydedd i'w harweinydd

* Job iii. 13.

† Mat. xxvii. 34.

‡ Dedwydd yw'r maban (Duw yn caniattau
Byr gystudd iddo, gydag ysgafn iau)
Dderbyniodd ond er doe ei fywyd cu,
A'i dychwel foru idd yr angeu du.

dwyfol, a weinasant gysur i gydymdeithion eu trallod, ac a adawsant, ar eu hol, anghraifft addysgiadol i bererinion canlynol.

Greiddyn gorffafredig! a gymmeradwywyd yn ddi-brawf!—Dy fraint neillduol di oedd, na phrofaist y lleiaf o'r drygau hyny, a orthrymant dy berthynasau gorfucheddol; y rhai, yn aml, a gyrhaeddant riddfanau o'r calondid gwrolaf, a'r ffydd fwyaf hyderus. Saethau adfyd, wedi eu hadfachu ag ing, a ddwfn drywenir yn fynych yn ein cysuron mwyaf dymunol. Piccellau tanllyd profedigaeth, wedi eu hergydio o law uffern, ydynt bob amser yn hedfan yn gawodydd o amgylch ein diniweidrwydd. I ti, hoff faban, y naill a'r llall o'r peryglon a'r cyfyngderau hyn oeddynt yn gyfartal anadnabyddus.


Ystyriwch hyn, chwi rieni wylofus, a sychwch eich dagrau. Paham y galerwch, o herwydd fod eich rhai bach yn cael eu coroni â buddygoliaeth, cyn tynu'r cleddyf, cyn i'r frwydr ddechreu?—Fe allai, i oruchel Drefnydd dygwyddiadau ragweled rhyw anocheladwy fagl profedigaeth yn ymffurfio, rhyw ddychrynlyd dymhestl o wrthwynebiadau yn agoshau. A phaham yr anfoddlonwch wrth y fath ragflaeniad, a symmudodd eich planhigyn hoff i dŷ, ac a ddiddosodd eich blodeuyn tyner, cyn rhuaw o'r taranau; cyn i'r mellt ehèdeg; cyn i'r dymhestl dywallt ei chynddaredd?—O cofiwch! nad colledig ydynt, eithr "mai o flaen drygyd y cymmerwyd hwynt ymaith." *

Ar yr un pryd, hydded i orfucheddwy'r, a ddedfrydwyd "i ddwyn pwys a gwres y dydd," ystyried, er eu hannogaeth—ei bod yn fwy anrhydeddus i wynebu'r

* Eesai. lvii. 1.



*Oofwrch! nad colledig ydylnt, eithr "mai" o flaen
drygfyd y cymmerwyd hwynt ymaith."*



ymdrechfa, a milwrio'r filwriaeth dda, cyn dyfod ymaith yn fuddygoliaethwyr. Hwylt-hwy, y rhai a ddygasant y groes, a ymostyngasant dan ragluniaethau gofidus gydag ymroddiad siriol, a wregysasant lwynau eu meddwl, ac a gyflawnasant ewyllys eu Harglwydd gyda ffyddlondeb cywir a dyfal-barhaus;—y rhai hyn, wedi gogoneddu eu Pryniawdwr ar y ddaear, yn ol pob priodoldeb, a fyddant fel ser o'r maintioli mwyaf yn y nef. Hwyl a lewyrchant gyda dysclaeriach pelydr, ac a orlenwir â chryfach gorfoledd, yn nheyrnas dragywyddol eu Harglwydd.

Yma y gorwedd gofid mam hoff, a dysgwyliad gwywedig tad hynaws.—Y gwr ieuangc a dyfodd fel planhigyn dyfradwy; efe a wreiddiodd yn ddwfn, a ymddyrechodd yn uchel, ac a wnaeth gynnyg têt am ddynoldeb. Eithr megis yr ymgyfyd y gedrwydden, gan addo, cyn hir, fod yn falchder y goedwig, a thywysoges y preniau cymmydogol—wele! y fwyall a osodir ar ei gwraidd; yr ergyd angeuol a darewir; a'i holl anrhydedd canghenog a fwir i'r llwch.—Ac a syrthiodd efe yn unig? Na ddo; gobaith ei dad a'i cenhedlodd, a golygiadau hyfrydlawn yr hon a'i hymddyg, a syrthiasant, ac a lethwyd gydag ef!

Yn ddiammau, buasai yn trywanu calon un i weled y rhieni tyner, yn canlyn eu llangc dianadl idd ei hir gartref. Fe allai, iddynt, wedi eu trochi mewn dagrau, a'u llwyr orchuddio gan dristwch, sefyll, fel delwau wylofus, yn y fan hon.—Mi dybygwn y gwelaf y galarwyr dwfn-drallodus yn gweini ar y syn ddifrifwch. Fel y nyddant eu dwylaw, ac y tywalltant ffrydiau o'u llygaid!—Ai dychymmyg yw? neu a wyf fi, mewn gwirionedd, yn clywed y fam dor-calonus,

yn ngloesion trallod, yn cymmeryd ei chennad y waith olaf oddiwrth anwylyd ei henaid? Yn fud y safai, tra cyflawnid y cladd-ddefodau arswydus; yn fud gan dristwch, ac yn pwysu ar gymhar ei gofidiau. Ond yn awr ei hing tufewnol a ymdrecha am agorfa; mae yn tyfu'n rhy fawr i'w attal. Mae hi yn myned rhagddi at fin y bedd. Mae ei holl enaid yn ei llygaid. Mae hi yn sicrhau un tremiad ychwanegol ar ei hanwyl wylofus wrthddrych, cyn i'r pwll gau ei safn am dano. A chan edrych, hi lefa;—mewn accenion drylliog, a attelir gan lawer îg chwyddedig, hi a lefa—'Yn iach, fy mab! fy mab! fy unig anwylyd! O gan Dduw na chawswn farw drosot ti!—Yn iach, fy mhlentyn! ac yn iach, bob daearol ddedwyddwch! ni chaf byth mwy weled daioni yn nhir y rhai byw.—Na chynnygwch fy nghysuro.—Mi a rodiaf yn alarus fy holl ddyddiau, nes disgyno fy mhenwyni i'r bedd mewn tristwch.'

Oddiwrth y darluniad cyffrôus yma, dysged rhieni, y fath ddyledswydd bwysig sydd arnynt i wrteithio moesau, a diogelu elw anfarwol, eu plant.—Os ydych mewn gwirionedd yn caru ffrwyth eich cyrph; os yw eich ymysgaroedd yn twymo at y gwystlon cariadlawn hyny o'ch anwyldeb priodasol; na arbedwch un draul; rhoddwch bob diwydrwydd, yr wyf yn eich tynghedu chwi, i'w dwyn i fynu yn "addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." Yna chwi a ellwch gael llawenydd yn eu bywyd, neu gysur yn eu marwolaeth. Os bydd i'w dyrnfedd gael ei hestyn, eu hymddygiad defnyddiol a difeius, a fydd yn gynnorthwy i'ch henaint, a dyddanwch i'ch natur ddadfeiliedig. Neu, os bydd i rifedi eu blyneddoedd gael ei dorri ymaith yn y canol; chwi a

ellwch draddodi eu gweddillion i'r llwch, gyda'r un dysgwyliadau cysurus, ag yr anfonwch y rhai gorfucheddol i leoedd gweddus o addysgiad. Chwi a ellwch eu traddodi i'r llwch, gyda'r gobaith siriol o gael eu derbyn yn eich breichiau, wedi gwellhau yn annhraethol ymbob perffeithiad hoff ac urddasol.

Mae'n sicr yn brofiad tanllyd; a llawer mwy gofidus nag allaf fi ddirnad; i roddi i fynu greadur hawddgar-flagurog, a darddodd o'ch lwynau, i dywyllion gilfachau llygredigaeth. Ei roddi i fynu fel hyn, ar ol ei faldodi ar eich gliniau; wedi ei gyssylltu â'ch serchiadau trwy fil o rywmau tynerion; wedi iddo ddyfod yn ddfyrwch eich llygaid, a chynhaliaeth eich teulu!—Cael y cyfryw un wedi ei rwygo o'ch mynwes, a'i daflu i dywyllwch, raid fod, yn ddiaw, fel saeth yn eich calonau. Ond O! pa faint mwy torcalonus i chwi, a chuthruddol i'r plentyn, gael ei enaid wedi ei ysgaru oddiwrth Dduw; ac, am anwybodaeth gywil-yddus, neu annuwioldeb boreuol, ei draddodi i drigfan arteithiau tragwyddol! O! fel y mwyhäi hyn eich cyfyngder, ac yr ychwanegai anobeithiol bwys at eich holl ocheneidiau, pe byddai raid i chwi ganlyn y corph gwelw gyda'r adfyfyrdodau chwerwon hyn!—
 'Y creadur anwyl yma, er yn alluog, er ys amser, i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg, a aeth allan o'r byd, cyn dysgu dyben mawr ei ddyfodiad iddo. Derbyniodd oddi wrthyf fi fyrhoedlog funudol fodoliaeth; ond dim addysgiadau da, dim rhybuddion sanctaidd, dim at ddwyn ymlaen ei fodoliaeth ddedwydd yn y sefyllfa y mae yn awr wedi myned iddi. Mae'r corph gwael wedi ei gyfyngu i'r ysgrin, ac yn cael ei ddwyn ymaith i'w ysu yn yr oer, y dystaw

fedd. A pha reswm sydd genyf i feddwl, fod ei enaid mewn gwell sefyllfa? A allaf fi ddim yn gyfiawn ofni, ei fod, wedi ei ddedfrydu gan y Barnwr uniawn, yn myned, neu wedi myned ymaith i boenau cospedigaeth annherfynol?—Fe allai, tra yr wyf fi yn galaru ei ymadawiad anamserol, ei fod yn awr yn rhegu, yn y tywyllwch eithaf, y byth-gwynadwy, alaethusaf ddiwrnod hwnw, pan y ganed ef o'r fath riant annuwiol, a diofal, ag a fum i.'

Nid oes dim, yr wyf yn meddwl, ond cnoadau y pryf nad yw byth yn marw, a ellir ei gyfartalu â thrallod y fath hunan-ddedfrydol feddyliau. Rhaid fod dirboenau arteithglwyd yn ddyoddefaint esmwyth, mewn cymhariaeth i golynau a dychrynfeydd y fath adgnofa.—Mor ddisrifol y dymunwn, i bawb yr ymddiriedwyd rheolaeth plant iddynt, i gymmeryd gofal amserol i ragflaenu'r fath ffrewyll cydwybod; trwy ymdrechu tywys meddyliau eu rhai bach i wybodaeth foreu o Grist, a chariad diffuant at y gwirionedd!

Ar y llaw hon y llettywyd un, bedd-faen yr hwn a adrodd chwedl o'r fwyaf tosturus yn wir! Iawn y geill y lluniau bychain, gan ledogwyddo dros ei ludw cysglyd, blygu eu penau i lawr yn yr agwedd brudd yna! Ni all neb ystyried yr hanes alarus, heb ryw gyffröadau o gyd-deimlad.—Ei oedran ~~wyth~~ ^{ar}-hugain; ei farwolaeth yn ddisymmwth; ei hunan wedi ei dorri i lawr yn ngoreu ei fywyd, ynghanol bywiogrwydd a nerth dyndod; tra yr oedd "ei fronau yn llawn llaeth, a'i esgyrn yn îr gan fêr."—Mae'n debyg nad oedd yn llettya dim meddyliau am yr awr ddrwg. Ac yn wir pwy allasai ddysgwyl, y buasai i haul mor ddyselaer fachlud ar hanner dydd? I ymddangosiad dynol, yr

oedd ei fynydd yn gadarn. Hir ddyddiau a ymddangosent yn ysgrifenedig ar ei wynebpryd gwrid-goch. Efe a gysurai ei hun â golygiad o hir, hir fwynhad o ddedwyddwch daearol.—Pan, wele! ergyd annysgwylidwy yn disgyn! yn disgyn oddiwrth y fraich nerthol hòno, pa un “sydd yn dymchwelyd y mynyddoedd o'r gwraidd; ac yn malurio y gwron dychymmygol, *yn gynt ná gwyfyn;*”^{*} mor fuan, ac yn haws nag y gwasg ein bysedd ni y pryfyn egwan hwnw i farwolaeth.

Fe allai, mai y llawenydd priodasol oedd y cwbl y meddyliai efe am dano.—Ai nid dyma oedd anadliadau ei enaid cariadlawn: ‘Ychydig bachigyn etto, a chaf fwynhau eithaf fy nymuniadau. Caf alw fy anwylyd yn eiddof fi; ac, ynndi, fwynhau beth bynag mae fy nghalon yn ei ddeisyf?’—Ynghanol y fath swynol olygiadau, pe buasai rhyw gyfaill ffyddlon yn dwyn ar gof iddo agoriad bedd, a therfyn pob peth; mor annhymmyg y cyfrifasai efe y rhybudd! Etto, er yn ymennyn gan fywyd, ac yn oludog mewn dedwyddwch breuddwydiol, yr oedd efe, y funud hòno, yn serfyllu ar fin y ddau.—Arswydus gyfnewidiad!

^{*} Job iv. 19. *וַיִּשְׁבַּח*, lipree ásh—*Ad instar, ad modum, Tinea.*—Yr wyf yn arfer y cyfieithad hwn, o blegid ei fod yn cyfateboli i'm bwriad, ac am ei fod wedi ei gymmeradwyo gan amryw ddeonglwyr rhagorol; yn bendifaddeu yr hyglocl Schultens. Er nas gallaf lai ná rhoddi'r flaenoriaeth i dyb cyfaill synhwyrol, yr hwn a fynai gyfieithu y gyfran yn fwy llythyrennol, o *flaen wyneb gwyfyn*: gan ei gosod i arddangos creadur mor rhyfedd frau, fel y gall, hyd y nod gwyfyn, wrth hedfan yn ei erbyn, ei ddryllo'n ddarnau. Yr hyn, heblaw ei gyd-darawiad agosach â chynnwysiad cywir yr Hebraeg, sydd yn gosod ger bron ddarluniad godidocchach o'r eiddilwch mwyaf. Canys mae'n sicr yn cynnwys gradd llawer mwy o wendid, i un gael ei lethu gan hediad gwan y creadur gwanaf, nag yn unig iddo gael ei lethu cyn hawsed â'r creadur hwnw gan law dyn.—Mae'r cyfieithad Ffrengig yn dra darluniadol a phrydferth; “à la rencontre d'un vermisseau.”

y wledd briodas* yn cael ei throï yn ddifrifwch cladd-edigaeth! Anffawd galarus! cael ei long-ddryllio yn y porthladd? a threngu yn ngolwg dedwyddwch!—Y fath brawf hynod sydd yma o freuolder dyn yn ei sefyllfa oreu! Edrychwch, O! edrychwch ar y bedd-faen hwn, chwi rai hoywon a diofal! Ystyriwch ei ddyddiad; ac nac ymfrostiwch yn y dydd y foru!

Pwy all ddywedyd, nad oedd y llawforwynion, wedi ymwregysu â llawenydd, yn darparu y priodas-wely? Yn ei addurno â'r gorchudd-lenni gwerthfawroccaf, a'i drwsio â chlustogau o fân-blu? Pan—O! nac ymddiriedwch nac mewn ieuengctyd, nac mewn nerth, nac mewn dim marwol; canys nid oes dim sicr, i ymorphwys arno, islaw y Duw anghyfnewidiol—y! oedd Angeu, Angeu didosturi, yn gwneuthur math arall o wely iddo ef yn mbriddellau'r ddaear. I hwn rhaid iddo gael ei ddwyn, nid gyda rhwysgus gydymdeithfa o gydfynedolion difyr; eithr yn syth-estynedig ar ei elor bruddgar, a'r galarwyr yn myned o bob tu. Ar hwn rhaid iddo gymmeryd i fynu ei letty unig, heb byth gael ei ryddhau, "hyd oni byddo heb nefoedd."—Yn ofer mae'r fûn hardd, gydsyniol yn gwisgo'i thlysau, ac yn dysgwyl ei phriodfab. A ddarfu iddi hi ddim, fel mam Sisera, edrych trwy'r dellt, a cheryddu gohiriad ei hanwylyd, a rhyfeddu "paham yr

* Mae cyfyngder o'r natur hyn yn cael ei ddarlunio mewn lliwiau cyffrous iawn gan Pliny, mewn llythyr at Marcelinus; "O triste plane acerbumque funus! O morte ipsa mortis tempus indignius! jam destinata erat egregio juveni; jam electus nuptiarum dies; jam nos advocati. Quod gaudium quo mœrore mutatum est! Non possum exprimere verbis, quantum animo vulnus acceperim, quum audiivi fundanum ipsum (ut multa luctuosa dolor invenit) præcipientem, quod investes, margaritas, gemmas, fuerat erogaturus, hoc in thura et unguenta, et odores impenderetur."—*Plin. lib. v. epist. 26*

oedai ei gerbyd ef ddyfod?" heb feddwl fod ei phriodfab bwriadol wedi darfod am byth â phethau cyfnewidiol! fod gofalon tragywyddol yn awr yn llanw'i feddwl, heb un cof o'i hawddgar Lucinda!—Dos, wryf siomedig! dos, a galara anwadalwch pob gwynfyd crëedig! dysg dy enaid i ymestyn ar ol dedwyddwch sicr ac anghyfnewidiol! O blegid mae'r unwaith dlws a hoenus Fidelio yn huno mewn coffeidiau ereill; yn huno yn mreichiau rhewllyd Angeu! gwedi dy anghofio, dy dragywyddol anghofio di—a'r byd!

Hyd yn hyn, cynhyrfir un i lefain yn erbyn brenin dychryniadau, a'i alw yn wammal greulawn. Trwy ddechreu ar ben chwith y coflyfr, ymddengys fel yn gwyrddroi cyfreithiau natur. Gan drosi heibio gwely henaint a methiant, efe a ddeifiodd fabandod yn ei flagur; a wywodd ieuengctyd yn ei flodau, ac a ddiwreiddiodd ddyndod yn ei lawn dwf.

Y rhagluniaethau hyn yn wir ydynt ofnadwy, ond nid anolrheinadwy yw eu cynghorion:

"I ni clafychant, marw wnant i ni."*

Rhaid i'r cyfryw ergydion, nid yn unig ofidio perthynasau, ond synu yr holl gymmydogaeth. Maent yn seinio alarwm nerthol i farwolion cysglyd a diofal, a bwriedir hwynt fel meddyginiaeth i'n diogelwch cnawdol. Mae'r fath gnuliau a hyn yn difrif-ddysgu i ni gynghor ein Harglwydd; "Ymogelwch, gwyliwch, a gweddiwch; canys ni wyddoch pa bryd y bydd yr amser."—Yr ydym yn gwibio, fel meddwon, ar fin dibyn dychrynlyd. Y rhagluniaethau rhyfeddol hyn ydynt genhadau o'r nef; i'n deffroi o'n cysgadwydd,

* *Night Thoughts*

a'n bywiogi i ystyriaeth amserol. Yn ddiâu, ni raid i mi eu cyfaddasu â iaith, na gweithredu fel eu deonglydd. Bydded cydwybod pob un yn neffro, ac ymddengys mai hyn yw eu hystyr bwysig—'O! chwi feibion dynion, ynghanol bywyd yr ydych yn angeu. Nid oes un sefyllfa, na dim amgylchiadau, all sicrhau eich diogelwch am un funud. Mor gryf yw braich y gormesydd, fel nas gall dim wrthwynebu ei nerth; mor gywir yw ei annel, fel nas gall dim droi yr ergyd heibio. Mae efe, weithiau, yn chwyrnellu ei saeth mor ddisymmwrth a'r fellten; ac yn clwyfo, a lladd, mewn tarawiad amrant. Na addwch i chwi eich hunain ddiogelwch mewn dim, ond parodrwydd gwas-tadol. Mae'r picellau angeuol yn hedfan mor gymmysglyd, fel nas gall neb wybod pwy syrth nesaf. Gan hyny, "byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch," y daw yr alwad olaf.'

"Byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch"—Cynghor pwysig! Mi dybygwn, ei fod yn adlefain o fedd i fedd; ac yn fy annerch â llin ar lin, a gorchymyn ar orchymyn.—Mae'r rhybudd adseiniedig, yr wyf yn cydnabod, yn rhy angenrheidiol: O! na byddaî i gydweithredol ras ei wneuthur yn effeithiol! Y gwirionedd pwysfawr, er yn deilwng o'i gorfio ar lechau y cof mwyaf gafaelgar, nid yw ond wedi ei linellu yn ysgafn ar ffrydiad anwadal nwyd. Yr ydym yn gweled ein cymmydogion yn syrthio; yr ydym yn gwelwi gyda'r ergyd; ac yn teimlo, fe allai, gryndod a dychryn. Nid cynt y symmudir hwynt o'n golwg, nag yr ydym ni, gan gael ein gyrru gan gorwynt gofal, neu ein suo yn llesmeiriau hyfrydwch, yn anghofio'r rhagluniaeth, ac yn esgeuluso ei chennadwri. Mae'r

argraff mae yn wneuthur ar ein meddyliau ansefydlog, fel ôl saeth, trwy'r awyr hydraid; neu lwybr llong, trwy'r dôn rychiedig.—Caledwch dyeithr! I'w wellhau, wele rybuddiwr arall yn fy annerch, oddiwrth garreg gyfagos. Mae'n cynnwys hanes marwol-ddyn annedwydd, a gipiwyd yn ddisymmwth oddiwrth ei gyfeillion, ac a yrwyd o flaen y frawdle ofnadwy, heb gymmaint a hamdden, i gymmeryd ei gennad oddiwrth y naill, nac i osod i fynu un weddi ragbarotool i'r llall: a laddwyd, fel y dywedir yn gyffredin, gan ergyd disymmwth damwain.

Ai ergyd damweiniol, ynte, ydoedd? Yn ddiddadl, fe ddaeth yr ergyd oddiwrth law annellog, er yn anweledig. Daw sydd yn llywio lluoedd y nef; Daw sydd yn llywodraethu trigolion y ddæar; Daw sydd yn trefnu yr hyn a eilw dynion yn ddamwain. Nid oes dim, dim yn dyfod oddi amgylch trwy d ynghedfen ddall ddisydwyr. Os oes dygwyddiadau yn cymmeryd lle, maent yn cymmeryd lle yn unol â rhagwybodaeth, ac yn gyson â chynghorion rhagderfynedig, tragwyddol Ddoethineb. Yr Arglwydd, oddiwrth yr hwn y deillia marwolaeth, sydd yn tansgrifio'r arwaesaf, ac ya rhoddi'r uchel awdurdod. Nid yw yr anffawd, sydd yn ymddangos yn ddamweiniol, ond gweithredydd, neu offeryn, wedi ei drefnu i gyflawni'r arfaeth dragwyddol. Pan gafodd brenhin Israel ei glwyfo yn angeuol, yr oedd yn ymddangos yn ergyd damweiniol. "A rhyw un a dynodd mewn bwa ar antur."* "Ar antur," dybygasai ef: ond cafodd ei fraich ei chryfhau gan Hollalluog gymhorth; a'r saeth ei ban-melu gan lygad diwyrni. Felly, mae'r peth a alwn ni

* 1 Bren. xxi. 34.

yn ddamwain, mewn gwirionedd, yn Rhagluniaeth yn cyflawni dybenion pwylllog, eithr yn cuddio ei chyfyryngiad ei hun.—Mor gysurlawn yw yr ystyriaeth hon! Wedi ei chymhwyso yn rhyfedd i lonyddu gloesion chwerwon y galarwyr, ac i dawelu eu hysbrydoedd i ufudd ddarostyngiad! Mor rhagorol addas i chwalo ofnau gorfucheddwyr duwiol, ac i greu calondid digyffro hyd yn oed ynghanol peryglon aneirif!

Deneued yw'r mur rhwng y byd hwn a'r nesaf! Fyred yw'r fynedfa o amser i dragywyddoldeb! Nid yw'r mur ddim rhagor ná'r anadl yn ein ffroenau; a gellir cyflawni'r fynedfa mewn tarawiad amrant.—Chremylus, druan, yr wyf yn cofio, a gododd oddiwrth ddifyrwrch y bwrdd cardiau, ac a suddodd i breswylfa tywyllwch.—Un noswaith, yr oedd Corinna i gyd yn hoen yn ei hysbrydoedd, ac yn wych yn ei gwisgiad, mewn dawns-gymmanfa fawreddog. Y noswaith nesaf, hi a orwedda i yn welw ac yn syth, yn gorph estynedig, parod i'w gymmysg â'r llwch maluriedig.—Atticus ieuangc a fu byw i weled ei balas äng a chyflëus wedi ei orphen; ond nid i fyw un awr lawen dan ei grommen rwysgus. Dalenau'r ffenestri a grogasid, i dderbyn y dydd; ond llygaid y perchenog a gauasid mewn nos annherfynol. Yr ystafelloedd a ddodrefnasid, i wahodd cymdeithas, neu weini esmwythder; ond mae eu harglwydd yn gorphwys yn rhanau isaf y ddaear, yn nghellau unig, a dystaw y bedd. Cynllunasid y gerddi, a bwriadesid mil o addurniadau godidogion; ond, och! aeth eu perchen bwriadol i lawr i "le'r benglog," efe a aeth i lyn cysgod angeu.

Tra'r ydwyf fi yn adgofio, mae llawer, yn ddiau, yn profi'r un cyfnewidiad alaethus. Mae llygaid y Bod

goruchel—yr hwn sydd yn eistedd ar gylch y ddaear, ac yn canfod ei holl drigolion ar un edrychiad cynnwysfawr—yr awr hon yn gweled llawer o bebyll mewn gorthrymder—y cyfryw orthrymder, ag a orchuddiodd yr Aiphtiaid, y noswaith angeuol hōno, pan weiniodd yr angel dinystriol ei saethau yn holl falchder eu nerth.—Rhai, yn syrthio i'r llawr, o'u cadeiriau esmwyth, ac yn fud ynghanol ysgrechfeydd treiddgar eu perthynasau anobeithiol.—Rhai yn rhoddi i fynu yr ysbryd, tra maent yn eistedd yn ymneillduedig, neu yn lledorwedd dan y gwasgodwydd cysgodlawn, i brofi melusderau yr olygfa flodeuog.—Rhai, tra maent yn hwylio, yn nghyfeillach cydymdeithion difyrus, hyd y ffrwd arian, a'r dolydd chwerthingar. Ac nid yw'r trawsymwthiwr cuchiog yn meddalbau, er fod gwin a pheriaeth yn ffrydio o amgylch.—Rhai yn cael eu torri ymaith, ar eu dychweliad adref; rhai yn cael eu rhwystro wrth ddechreu negeseuaeth bwysfawr.—Rhai yn cael eu cymmeryd ag elw anghyfiawnder yn eu dwylaw; rhai yn cael eu dâl, yn y weithred o aflendid, neu'r cynnygiad o greulondeb.

Myrdd, myrdd o anffodion, nas dichon un ddoethineb eu rhagweled, nac un gofal eu llestair, sydd yn cynllwyn i gyflawni ein dedfryd. Dichon ceffyl darfu, a thafu ei farchogwr; dichon ar unwaith ergydio ei gorph yn erbyn y cerrig, a chwynellu ei enaid i'r byd anweledig. Gallai tŵr o ffumerau syrthio i'r heol, a llethu'r teithiwr anochelgar dan y cwmp. Ië, gallai un elech, wrth syrthio o'r grommen, fod mor angeuol a phe cwmpai yr holl adail. Mor frau, mor ddir dynnedig yw edafedd bywyd, fel mae nid yn unig yn dryllio o flaen y dymhestl, ond yn torri yn yr awel.

Geill y dygwyddiadau mwyaf cyffredin, oddiwrth y rhai ni ddysgwyllem y niwed lleiaf, fod yn arfau ein dinystr. Cuiwllyn y grawn, neu bryfyn diystyrlyd, a all fod yn fwy marwol nâ Goliath, â'i holl arfogaeth frawychus.—Ië, pe gorchymynai Duw, gallai ein cysuron ein lladd. Mae'r awyr yr anadlwn ynddi, yn wenwyn i ni; a'r ymborth a fwyttawn, yn gludiedydd angeu. Mae gan y gelyn diweddaf hwnw ddyfodfâau aneirif i ddynesu trwyddynt. Ië, mae efe yn gorwedd yn amgloddiedig yn ein mynwesau; ac yn cadw ei amddiffynfa yn eisteddle ein bywyd. Mae'r hylifedd porphor sydd yn cyfranu iechyd, yn ffrwythlawn o hadau marwolaeth. Dichon gwres ei eannyn, a llafur ei orthrechu; a pheri iddo ddinystrio y rhanau y bwriadwyd ef i'w maethu. Gallai rhyw rwyatr anweledig attal ei dramwyfa, neu ryw ormes anadnabyddus wyrdroi ei redfa; yn y naill a'r llall o'r cyfryw amgylchiadau, efe a weithredai fel trafllwngc gwenwynig, neu frathiad marwol.

“ Mewn fath beryglon y mae'n bywyd gwag!
 Fath esgeulusdra bach, fath ddyddim fai,
 Ddinystria'r cyfansoddiad mwyaf cryf!
 O lafur, o seguryd, marw'r y'm,
 O eisiau, o ddigonedd. Y mae'r nef
 Oll-amgylchynol, ac mae'r awyr fyw,
 Yn llawn o angeu.”

Gan ein bod, ynta, mor agored i gael ein difedd-
 iannu o'n pabell ddaearol, bydded i ni ystyried ein
 hunain fel deiliaid wrth ewyllys; a chadw ein hunain
 mewn parodrwydd gwastadol, i ymadael ar fonud o
 rybudd. Heb y cyfryw barodrwydd ymarferol, yr
 ydym fel trueiniaid yn cysgu ar ben hwylybren, tra

mae llynglyn erchyll yn ymagor, neu ddonau cyn-ddeiriog yn rhuo, isod. A pha le geill fod heddwch, a pha beth all fod hoddlonrwydd, y gyfryw sefyllfa?—Pan mae cyflwr parod yn cenbedlu sirioldeb tymber, nas gellir ei gythruddo gan un ddamwain arswydus; ac yn creu diysgogrwydd meddwl, nas gellir ei ddymchwelyd gan yr enbydrwydd mwyaf bygythiol. Pan fyddo'r ddinas wedi ei hangaeru â muriau, wedi ei harlwyo â lluniaeth, a lluoedd cedyrn a diysgog yn ei gwarchod; pa beth sydd gan y dinasyddion i'w ofni? pa beth nis gallant ei fwynbau? Felly, yn gywir felly, neu yn hytrach mewn sicrach rhwymyn, mae mwynhad gwirioneddol o fywyd, wedi ei gyssylltu â meddwl parhaus am farwolaeth.

Mi a ddywedais, y gallai ein cysuron ein lladd.—Ac wele'r gwirionedd wedi ei gerfio gan law, a'i selio â modrwy, tyngned. Y marmor sydd yn addurno y golofn accw, a hysbysa i mi, mai, gerllaw, y gosodwyd yn nghadw gweddillion Sophronia; y ddwfn-alaradwy Sophronia, yr hon a fu farw ar ei gwelyfod.—Mor fynych mae'r trallod hwn yn dygwydd! Mae'r gaingc yn blaguro; ond y boncyff yn gwywo. Mae'r maban yn tarddu i oleuni; ond yr hon a'i hymddyg yn anadlu ei holaf. Mae hi yn rhoddi bywyd, ond (O! ystyriaeth dosturus!) yn ei roddi ar draut yr eiddo ei hun; ac yn dyfod, ar unwaith, i fod yn fam, ac yn gorpha.—Neu ynte, fe allai, y trenga hi mewn arteithiau poenus, gan fod ei hun yn feddrod i'w maban; tra mae achwyniad pruddglwyfus brenin o'i ofid, yn fedd-gerdd i'r ddau; “Y plant a ddaethant hyd yr enedigaeth, ond nid oes grym i egor.”*—Llai galarus, yn fy meddwl i, yw yr

* Esai. xxxvii. 3.

anffawd olaf. Gwell, i'r dyeithryn tyner, aros yn y porth; nâ dyfod i mewn, i ymwneud â gorthrymder. Gwell iddo gael bedd yn y bru; nâ chael ei osod yn wyneb peryglon y byd yn ymddifad o warcheidwad ei flyneddoedd mabanaidd, a hyfforddydd ffyddlawn ei ieuengctyd.

Y bedd-faen hwn a hynodir gan ei deccach defnyddiau, a'i gywreiniach dringlau. Ymddengys fel wedi cymmeryd ei gynllun oddiwrth law oludog; a gyfeirid gan galon hael; yr hon a dybiai na allai byth wneuthur digon i'r trengedig—ymddengys, hefyd, fel yn dâl allan ddarlun arwyddocael o berson a pherffeithiadau Sophronia. Onid yw ei thegwch, neu, yr hyn sydd fwy nâ'i thegwch, ei phur-wyn ddiniweidrwydd, yn cael ei arwyddnodi gan y lliw eiryog? Yr arwyneb, wedi ei lyfn-gaboli, fel ei thymher hawddgar, a'i hymddygiadau hyserch. Y cwbl wedi ei addurno, mewn iawn-farnedig ganoligrwydd, rhwng rhwysg afradus ac esgeulusdod gwael, fel ei daioni diragrith; pell oddiwrth yr ymddangosiad lleiaf, etto, ar bob golygiad, yn ddilynwiw.—Ond och! mor ofer, oedd ei holl swynion hygar! Mor ofer, dysclaerdeu ei llygad bywiog! Mor ofer, gwrid ei phriodasol ieuengctyd! Mor ofer, anrhydedd ei genedigaeth uchel! Mor analluog i ddiogelu eu perchen hawddgar, rhag gormes creulawn angeu!—Mor aneffeithiol, parch cyffredinol dy gydnabod; anwyldra llesmeiriol dy briod; ie, hyd yn oed diniweidrwydd difrycheulyd dy fucheddnod; i estyn dy ddyrnfedd, neu i ddwyn i ti y dienoed byraf!—Cyd-darawiad yr holl amgylchiadau hyn, a alwant i'm cof y llinellau godidog a thyner hyny;

Dy barch, a'th gariad gynt, ni thyciant miwy;
 Pwy, dy berth'nasau, a'th genhedlodd pwy.
 Crug gwael o lwch yw'r oll o honot sydd :
 Hyn yw'r oll *wyt*—a'r oll y *balch* a fydd!*

Pope.

Etto, er yn analluog i droi heibio yr ergyd, mae Crist'nogrwydd yn effeithiol i dynu colyn angeu.

* Mae'r llinellau hyn wedi eu harysgrifio ar fedd-adail fechan, ond brydferth, yn yr eglwys fawr yn Northampton; yr hon, yn ei haddurniadau arwyddluniol, sydd yn cyfatted i'r desgrifiad a ddygwyd i mewn uchod. Yn yr amgylchiad hwn yn neillduol, ei bod wedi ei chyflwyno i goffadwriaeth benyw hawddgar, Mrs. Ann Stonhouse; gwraig ragorol fy nheilwng gyfaill Dr. Stonhouse. Yr hwn a welodd holl alluoedd y gelfyddyd iachaol, i ba rai yr wyf fi, a llawer ereill, dan ddirfawr ddyled, yn methu yn eu cynnygion i gadw bywyd anwylach ganddo ef nâ'r eiddo ei hun.

“Nec prosunt domino, quæ prosunt omnibus, artes.”

Y werthfawr gelfyddyd i filoedd a fu'n
 Dycianol, ni thycia i'w harglwydd ei hun.

Yn y cyfyngder tyner yma, mae efe wedi ceisio rhyw fath o gysur, hyd yn oed oddiwrth y bedd-fynor. Trwy ei ddysgu i lefaru, ar unwaith, ei anwydeb at ei choffadwriaeth; a'i barch i'r grefydd hono, a addurnodd hi mor odidog. Ac ni allasai hyn gael ei wneuthur yn fwy arwyddocaol, nâ thrwy gyd-grynhoi ei chymmeriad, yn yr ymadrodd byr, ond cynnwysfawr, *Cristion didwyll*. Digon byr, i fod yn arwyddair ar alar-fodrwy; etto mor gynnwysfawr, a chylch eangaf rhinwedd personol, cymdeithasol, a chrefyddol. Canys, onid yw beth bynag sydd bur; beth bynag sydd hawddgar; beth bynag sydd glodwiw, yn gynnwysedig yn yr amgueddfa ardderchog, “Cristion didwyll?”

Y mae'r llinellau cyntaf, wrth eu hystyried yn y fath gyssylltiad, yn rhyfedd gwynfanus a chyffrôs:

Dy barch, a'th gariad gynt, ni thyciant miwy;
 Pwy, dy berth'nasau, a'th genhedlodd pwy.

Maent yn seinio, o leiaf, yn fy nghlustiau i, fel llais tristwch, wedi ei gymmysg â pharch. Mae'r llefarwr yn ymddangos wedi ei gollu, dros ychydig, mewn myfyrdod prudd; yn ddisymmwrth yn torri allan i'r ganmoliaeth fyrbwyll hyn; yna yn toddi mewn dagrau, ac yn methu myned rhagddo. Etto, yn y cyfryw amgylchiad, mor hyawdl yw dystawrwydd! Tra mae yn gosod allan barch cyffredinol, ac uchafiaeth genedigaeth, y wraig drangcedig; mae yn desgrifio, tu hwnt i holl rwyg geiriau, serchogrwydd gwresog, a dwfn orthrymder, y gwr gorfucheddol. —Ymhlith y twr o fedd-farmorau, y rhai ydynt yn afradus ar eu clod; mae hwn, yr wyf yn meddwl, yn gyffelyb i fedrusrwydd digymhar yr arllwiwr, yr hwn, ar ol gosod ei chyfeillion yn ngloesion ing, o amgvlch

Ai nid hyn yw iaith ddystaw y llugyrn, sydd yn llosgi; y galon, sydd yn fflamio; y palmwydd, sydd yn blaguro; a'r goron, sydd yn dysclaerio yn y mynor efelychol a goreurog? A ydynt hwy ddim, i'r llygad treiddgar, yn desgrifio gwyliadwriaeth ei ffydd; gwresogrwydd ei duwioldeb; ei buddygoliaeth dros y byd, a'r goron nefol, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, iddi yn y dydd hwnw?"*

gwryf dæg, yn trengu; a arddangosodd anghyfartal drallod ei thad, gyda llawer mwy o fywiogrwydd a grym, neu yn hytrach gyda phwys annhraethol, trwy dynu gorchudd dros ei wyneb.

Os yw y llinellau olaf yn ymadael ymhell oddiwrth hen ffordd sathredig bedd-argraffiadau yr oesoedd diweddar, ac yn llwyr wrthwyneb i'w gweniaith hyawdl,

Crug gwael o lwch yw'r oll o honot sydd!

Hyn yw'r oll *wyt*—a'r oll y *balch* a fydd!

nid ydynt heb gynllun, ac un o'r fath berffeithiaf. Gan maent yn anadlu ysbryd y farwnad sanctaidd hwno, ymha un mae holl galon y gwron a'r cyfaill yn ymddangos yn toddi; "Pa fodd y syrthiodd y cedym, ac y dyfethwyd arfau rhyfel!" 2 Sam. i. 27.—Maent yn galw'r darlennydd i gof, am y ddedfryd ofnadwy, a gyhoeddwyd yn y dechreu gan oruchel Ddoethineb; "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli," Gen. iii. 19.—Maent yn gwasgu ar y meddwl, gyda holl rym y dystiolaeth egluraf, y cynghor difrifol, a draddodwyd trwy'r proffwyd: "Peidiwch chwithau a'r dyn, yr hwn sydd â'i anadl yn ei ffroenau; canys ymha beth y gwneir cyfrif o hono?" Esai. ii. 22.

Fel na byddo i un darlennydd, pa mor esgeulus bynag, gamsynied meddwl a dyben y rhan hon o'r bedwaredd llinell,

Hyn yw'r *oll wyt*!—

mae wedi ei gwarchod oddi arni ac oddi tani.—Oddi arni, mae llyfr agored, yr hwn a ymddengys fel yn cael ei chwyfio, mewn agwedd o orfoledd buddygol, goruwch cysgodlun angeu. Yr hwn ni's gallwn lai na'i farnu yn rhôl ysbrydoliaeth, gan ei fod yn arddangos math o dalfyriad o'i holl gynnwysied, yn y geiriau bywog hyny; "Na byddwch fagrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion," Heb. vi. 12.—Oddi tani, fel y byddai pob rhan yn llawn o addysg, mae'r adfyfyriadau cyffrous hyny; teilwag o ystyriaeth y mwyaf gwybodus a duwiol, etto yn amlwg i ddealldwriaeth y darlennydd mwyaf diddysg—Fyred yw Bywyd! Feithed yw Tragwyddoldeb!—Dysged fy enaid amcan pwysig y wers fer hon, yn ei ddyrnfedd gyfyng o amser! ac ni bydd holl dragwyddoldeb yn rhy hir, i lawenyachu o herwydd ei ddyagu.

* 2 Tim. iv. 8.

Mor ddedwydd raid fod y gwr, yn y fath gywely, a chyfeilles bywyd! Yr oedd eu tueddiadau yn berffaith gydsyniol, a'u holl ymddiddan yn gysondeb cyd-darawgar. Mor sidanaidd rhaid fod iau y fath bâr! a pha fendithion a gydblethasid yn eu rhwymyn! Pob llawenydd a fwyhëid, ac ysgafnid pob gofid. Nid oedd dim yn ymddangos yn eisiau i berffeithio eu gwynfyd, ond eppil gobeithlawn, i godi o'u hamgylch: fel y gallent weled eu hunain wedi eu lliosogi yn eu rhai bach; a chanfod eu prydferthwch wedi ei gymmysgu yn, a'i drosglwyddo i'w, hiliogaeth; a theimlo gwresogiad eu serch yn cynhesu, trwy gael ei adlewyrchu oddiwrth eu plant. 'Caniattâa i ni y rhodd hon,' meddai eu gweddïau unedig, 'a bydd ein deisyfiadau wedi eu coroni; ac nis gofynwn ragor.'

Och! mor anwybodus yw marwolion o ddygwyddiadau i ddyfod! Mor analluog i ganfod yr hyn sydd yn wirioneddol dda!* "Moes i mi feibion," meddai Rachel, "ac onid ê mi a fyddaf farw."† Gwresogrydd byrbwylldra, hollol anweddus; ac mor gyfeiliornus, ag yr oedd yn anweddus. Mae hi yn marw, nid trwy siomi, ond trwy gyflawni, ei dymuniad. —Os yw plant, i rieni, fel coron o flodau, harddwch yr hon sydd yn blaguro gydag addurn, a pheraroglau yr hon sydd yn anadlu hyfrydwch; dichon angeu, neu ryw anffawd arall, gael ffordd i blethu ei hun yn y dorch. Pa bryd bynag y byddo ein heneidiau yn ymdywallt allan mewn taerni awyddus, ar ol un

* *Nescia mens hominum fati, sortisque futuræ!
Turno tempus erit, magno cum optaverit emptum,
Intactum Pallanta; et cum spolia ista diemque
Oderit.*—

Virgil.

† Gen. xxxi. 1.

gwrthddrych daearol, gellir dywedyd, yn ngeiriau ein gwynfydedig Arglwydd, "Ni wyddoch pa beth yr ydych yn ei geisio."—A ydyw Rhagluniaeth yn attal y peth yr ydym yn hiraethu am dano? Mae yn ei wrthod mewn trugaredd; heb ddim ond attal achlysur ein trueni, neu arf ein dinystr. Yr ydym ni yn aml, gydag archwaeth glafaid, yn ffeiddio'r hyn sydd iachus, ac yn blysiu'r hyn sydd wenwynig. Lle mae dychymmyg yn breuddwydio am felusderau digymmysg, mae profiad yn fynych yn cael chwerwder gofid.

Na bydded i ni, gan hyny, drachwantu yn anghymhedrol y dull hwn nac arall o ddaearol ddedwyddwch; eithr traddodi ein sefyllfa yn hollol i drefniad Doethineb ddigyfeiliorn. Dysgwn ymwadu â'n hewyllys ein hunain; a bod yn barod i aberthu ein dymuniadau gwresoccaf, pa bryd bynag y byddont yn groes i ewyllys ddaionus Duw. O blegid, yn wir, fel mai ufuddhau i'w gyfreithiau ef, yw bod yn berffaith rydd; felly, ymostwng i'w drefn ef, yw sefydlu ein dedwyddwch ein hunain, a bod yn ddiogel oddiwrth ofn drwg.

Yma, mae carreg fechan ddiaddurn wedi ei gosod ar y llawr. Wedi ei phwrcasu, gallai un feddwl, o drysorfa fechan, a'i ffurfio gan law cynnildeb ei hun. Nid oes dim prisfawr; dim un addurn wedi ei ychwanegu; dim ond arysgrif fer iawn; a hōno wedi ei hanffurfio gymmaint, fel mai prin y mae yn ddarllenadwy.—A fu yr adneuwr yn anffyddlawm i'w ymddiried? Neu a dreuliyd y llythyrenau allan gan ymgyrch aml y teulu gorfucheddol, i alaru uwchben bedd eu perthynas hoff ac anwyl?—Canys yr wyf yn

gweled, wrth sylwi yn fanylach, ei bod yn gorchuddio gweddillion tad. Tad crefyddol; a gipiwyd oddiwrth ei eppil, tra yr oeddynt etto yn cynnyddu, cyn iddynt gael eu trefnu yn y byd, na chymmaint a chael eu hegwyddorion wedi eu sefydlu trwy addysg cyflawn.

Hyn, ya ddiau, yw y blinfyd mwyaf gofidus a ddaeth dan ein sylw etto. Arbenigrwydd y gyfryw ystafell anghydwylledig, ydyw yr olygfa fwyaf toddeiddig a phrudd a ellir ei ddechymmyg.—Yno y gorwedd y priod serchoglawn, y tad tyner, y cyfaill ffyddlawn, y meistr haelionus. Mae efe yn gorwedd yn y cyfyngder olaf, ar fin ymddattodiad. Mae pob moddion yn methu: mae'r clefyd, gan gyndderiogi, yn gwaṯwar gallu meddyginiaeth. Mae yn brysio, gydag angerdd diorphwys, i gyflawni ei neges arswydus; ac i rwygo yn ddrylliau edafedd arian bywyd, a rhwymyn tynerach anwyldeb cymdeithasol, a phriodasol serch.

Gwas neu ddau, o bellder hybarchus, a dafiant lawer golwg drychwyllt, ac a gysurant eu meistr anrhydeddus yn iaith ocheneidiau. Tynerwch ym-ostyngar ei orchymynion, a arferai gynhyrfu buandra ufudd-dod, gan wneuthur ei wasanaeth yn hyfrydwch. Mae'r adgof o'r ddau yn chwerveu eu gofid, ac yn periddu dreiglo yn helaeth dros eu gruddiau diragrith.—Ei gyfeillion, y rhai a gyfranogasant mor fynych o'i lawenydd, ac a lonasant ei feddwl â'u hymddyddanion bywiog, ydynt yn awr yn gysurwyr gofidus. Tosturi galarus a chydymdeimlgar, yw'r unig ddyddanwch a allant ei weini; oddi eithr i hynny gael ei fwyhau trwy eu hymbiliau dystaw am ddwyfol gynnalïaeth iddo, neu air o gefnogiad wedi ei ddifynu o'r

ysgrythyrau.* Y diniweidiaid, truain, ei blant, a amgylchant ei wely; wedi eu trochi gan ddagrau, ac ar wallgofi gan dristwch, maent yn igian allan eu heneidau bychain, ac yn llefain yn awyddus, 'A âd efe ni? ein gadael, mewn sefyllfa ddigymborth! ein gadael, i fyd niweidiol!'

Mae'r ffrydiau gwahanol hyn i gyd wedi eu huno yn y weddw orthrymus, ac yn gorchuddio ei mynwes â chenllif angerddol o dristwch. Ynddi hi, mae'r carydd yn wylo; y wraig yn galaru; a'r holl fam yn twymo. Mae'r golled wedi ei thrymhau iddi hi, tu hwnt i fesur, trwy fisoedd a blyneddau o gymdeithas hyfrydlawn, a [chyfeillgarwch gwresog.—Och! pa le gall hi gyfarfod â'r fath ffyddlondeb didwyll, a gosod y fath ymddiried cyflawn. Pa le caiff hi gynghorwr mor gall; cyllun mor rhagorol; a gwarcheidwad mor ddiwyd ofalus, am ei daioni hi a'i phlant?—Wele! fel mae hi yn ymogwyddo dros y gwely nychlyd; gyda'r awyddfyd tyneraf i estyn bywyd, sydd o fwy pwys, a llawer mwy dymunol ganddi ná'r eiddi ei hun: neu, os yw hyny yn annichonadwy, nid gyda pharodrwydd llai tyner i ddyddanu loesion olaf ei hanwylaf hunan.— Ei dwylaw, dan grynu gan ofnau alaethus, a sychant y gwllith oerllyd oddiar ei ruddiau gwelwon; weithiau a ategant ei ben ymollyngar ar ei breichiau tynerion, weithiau a'i osod i orphwys ar ei mynwes gydymdeimlgar.—Wele! fel mae hi yn syllu, gyda thaerni

* Testynau o'r ysgrythyr perthynasol i'r cyfryw amgylchiad; yn cynnwys addewidion—o gynnalïaeth dan orthrymder, Galar. iii. 31. Heb. xii. 6. 2 Cor. iv. 17.—o faddeuant, Esai. liii. 5. Esai. i. 18. 1 Ioan ii. 1, 2. Act. x. 43.—o gyfiawnhad, Rhuf. v. 9. Rhuf. viii. 33, 34. 2 Cor. v. 21.—o fuddugoliaeth ar angyu, Psal. xxiii. 4. Psal. lxxiii. 26. 1 Cor. xv. 56, 57.—o adgyfodiad dedwydd, Ioan vi. 40. 2 Cor. v. 1. Dat. vii. 16, 17.

mud, ar ei wyneb glas, a'i wedd druan. Mud yw ei thafod; ond mae hi yn edrych pethau annhraethol: tra mae ei holl nwydau mwynion yn dychlamu gan hoffder afesol, a'i henaid yn gwaedu gan ing awchlym.

Mae'r dyoddefwr, gan addoli yn llawn amynedd, yn ymostwng i'r ewyllys ddwyfol; a thrwy ymostwng, yn ymddyrchu uwchlaw ei drallod. Mae efe yn teimlo yn ddwfn dros sefyllfa anghysurus ei weinyddwyr; ac yn cael ei archolli gan ofal pryderus am ei wraig a'i blant—ei wraig, yr hon a fydd yn fuan yn weddw ddiymgeledd; ei blant, y rhai a fyddant ar fyr yn amddifaid dinawdd. Etto, er “mewn cyfynggyngor, nid yn ddiobaith.” Adfywir ef yn fawr trwy ei ymddiried yn y cyfammod tragywyddol, a'i obaith o ogoniant wrth law. Mae crefydd yn argraffu urddas ar orthrymder. Ar bob cyfrwng o esmwythder mae efe yn cysuro ei gysurwyr; ac yn dyoddef gyda holl fawrhydi gofid.

Mae ei enaid, pan ar ymadael â'r pridd dadfeiliedig, yn casglu ei holl nerth, ac yn ymegnio yn ei ymdrech-iadau ôlaf. Mae'r dyn da yn ymgodi ar ei obenydd; yn estyn llaw dyner i'w weision, yr hon a drochir â dagrau; yn cymmeryd ei gennad mewn modd cyffrôs oddiwrth ei gyfeillion; yn gwasgu llaw ei briod mewn coffeidiad egwan; ac yn cusanu gwystlon anwyl eu cariad at eu gilydd; ac yna yn tywallt holl weddill ei fywyd a'i nerth yn y geiriau canlynol:—‘Yr wyf fi yn marw, fy anwyl blant; ond bydd Duw, y tragywyddol Dduw, gyda chwi.—Er eich bod yn colli tad daearol, mae gennych Dad yn y nef, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.—Ni all dim, dim ond calon anghrediniol,

a bywyd digrefydd, eich ysgaru oddiwrth ofal ei ragluniaeth, ac anwyldeb ei gariad.'

Ni allai efe fyned ymhellach. Yr oedd ei galon yn llawn; ond ei dafod a ballodd.—Ar ol gorphwysiad byr, gydag anhawsdra, i'e, anhawsdra mawr, efe a ychwanegodd; 'Chwychwi, anwyl gyfeilles fy enaid, yn awr ydych unig ddiffynydd ein hamddifaid.—Yr wyf yn eich gadael dan bwys gofalon.—Eithr Duw, yr hwn sydd yn diffyn achos y weddw—Duw, yr hwn mae ei addewid yn wirionedd a ffyddlondeb—Duw a ddywedodd, "Ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr adawaf chwaith."* Y mae hyn yn adfywio fy ysbrydoedd—cynnalied hyn wraig fy mynwes.—Ac yn awr, O Dad y tosturiaethau, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd—wedi fy nghefnogi gan dy ddaioni addawedig, yr wyf yn gadael fy amddifaid'—

Yma, efe a lewygodd; ac a gwmpodd yn ol ar ei wely; ac a orweddodd, rai munudau, wedi ei ddifuddio o'i synwrau. Megis y mae canwyll, ar fin diffodd, weithiau yn adgynneu yn ddisymmwth, ac yn neidio i fflam grynedig; felly bywyd, cyn llwyr drengu, a wnaeth un ymdrech ymadawol, ac a edrychodd allan unwaith yn rhagor trwy'r amrantau agor.—Efe a fynai lefaru; efe a fynai derfynu yr ymadrodd a ddechreusai. Efe a gynnygodd fwy nag unwaith: ond yr oedd peiriannau y llafar wedi myned yn llestri drylliedig; heb ddim ond y llysnafedd rhwystrol yn rhochi yn ei geg. Pa fodd bynag, ei wynebpryd a lefarai serchogrwydd annbraethol. A'r holl dad, a'r holl briod, etto yn fyw yn ei edrychiad; mae efe yn cymeryd un olwg ychwanegol ar ei blant hoff, y rhai ni

* Heb. xiii. 5.

welsai efe un amser heb dadol orfoledd. Mae efe yn troi ei lygaid marwol ar ei briod anwyl, ar yr hen ni edrychodd efe erioed heb wresogiad o hyfrydwch. Wedi eu sefydlu yn yr agwedd hon, ymhlith gwenau cariad, a than dywyniad y nef, maent yn dysclaerio allan eu hedrychiadau diweddaf.

Ar hyn, mae'r tristwch dystaw yn tori allan yn alarnadau uchel. Maent yn wylo, ac yn swrthod eu cysuro; nes i dalm o amser roddi gollyngdod i anghymmedroldeb eu gofid, a dyddanwch crefydd attal gwaediad eu blinder. Yna, mae'r teulu trallodus yn chwilio am yr ymadrodd, a syrthiodd heb ei ddybenu-oddiwrth y gwefusau anwyl, parchus, a duwiol hyny. Maent yn ei gael yn llyfr y proffwyd Jeremia, yn cynnwys hyfforddiant anfeidrol Ddoethineb, ac addewid annherfynol Ddaioni; "Gad dy amddifaid; myfi a'u cadwaf hwynt yn fyw; ac ymddirieded dy weddwon ynof fi."* Hyn, yn awr, yw cysur eu bywyd, a llawenydd eu calon. Maent yn ei drysori yn eu cof. Hyn yw'r ewyllys oreu, ac y mae yn drysorfa annysbyddadwy: yn drysorfa a gyflawna eu holl anghenion, trwy rwympo bendith y nef wrth eu holl lasurwaith onest.—Maent yn gyfoethog: maent yn ddedwydd, yn y gwystl sanctaidd hwn o ewyllys da Duw. Nid ydynt yn ofni dim drwg; nid oes arnynt eisiau dim da; o herwydd Duw yw eu rhan, a'u gwarcheidwad yw Duw tragywyddoldeb.

Nid cynt yr wyf yn troi oddiwrth un cofnod o'm heiddo fy hun, nag y mae cofiadwriaeth o farwolaeth un arall, o ail, o drydydd, a chyfres hir o'r rhybuddwyr pruddion hyn, yn ymdyru ar fy ngolwg.†—Mae yr un

* Jer. xlix. 11.

† —Plurima mortis imago.—Virg.

a sefydlodd fy sylw, o ymddangosiad mwy trymlyd a phruddaidd nâ'r olaf. Mi dybygwn ei fod yn cadw gweddillion un oedd hynach. Gallai un gasglu, iddo wneuthur ymddangosiad uwch nâ'r cyffredin ymysg y rhai byw ; fel y gwna ei gofadail ymhlith y bedd-feini. Gadewch i mi dynu yn nes, ac ymboli â'r garreg ; ' Pwy, neu pa beth, sydd dani ?—Hi a hysbysa i mi, ei fod unwaith yn berchen treftadaeth gyfrifol ; yr hon a gafodd ei mawr ddiwygio trwy ei drefn a'i ymröadau ef ; iddo adael y byd ar dymhor llafurus o'i fywyd ; wedi cychwyn ychydig ymhellach nâ'i ganol.

Mae'n debygol, eb fy meddyliau myfyrgar, mai un oedd efe o'r crinweis diflino hyny, a foreu-godant, a ânt yn hwyr i orphwys, ac a fwyttânt fara gorthrymder ; nid i sicrhau ewyllys da yr Arglwydd ; nac i ddarparu gogyfer ag un anghen rhesymol ; ond yn unig i dyru ynghyd ddeng mil mwy nag allant byth fwynhau.—A fu efe ddim yn trefnu dyfeisiau i gynnyddu ei gyfoeth, ac i ddyrchafu ei deulu ? A fwriadodd efe ddim cydio maes wrth faes, ac ychwanegu tŷ at dŷ, nes byddai ei feddiannau agos mor fawr a'i ddymuniadau ? Yna y byddai iddo * eistedd i lawr, a mwynhau yr hyn a gasglasai ; anadlu ychydig ar ol ei ymestyniad blin ar ol pethau amserol ; ac, fe allai, meddwl ychydig am bethau tragwyddol.

Ond wele ynfydrwydd bydol ddoethineb ! Mor wael, mor blentynaidd, yw cyfrwysdra (yr hyn a elwir callineb gwrol a meistrolaidd ; tra mae yn trefnu dros *amser*, yn fwy awyddus nag y mae yn parottoi erbyn

* ———Hac mente laborem
Si se ferre, senes ut in otia tuta recedant,
Aiunt, cum sibi sint congesta cibaria.

tragywyddoldeb! Mor ddyeithr wallgofus yw'r penau cyfrwys hyny, sy'n blino eu hunain a threfnu mesurau am gysgodau diwrnod; heb ond prin feddwl unwaith am sylweddau tragywyddol!—Pan mae pob olwyn yn troi yn hwylus; pan mae dybenion, a ddyfal drefnwyd, yn addfedu ar frys at gyflawniad; ac amser hir-ddysgwyliedig mwynhad yn ymddangos wrth y drws; wele! mae Duw oddi uchod yn chwertthin am ben *adeiladydd Babel*. Mae angeu yn cyffwrdd â'r bwrlwm, a chan dorri, mae efe yn syrthio i ddim. Gwêr pryf-copyn, er ei nyddu yn wir yn y modd manylaf, etto, a ddilëir yn haws, a ysgubir ymaith mewn tarawiad; a'r dyfeisiau annhymmig a gleddir yn yr un bedd a'u dyfeisydd. Mor wir yw'r ddedfryd a gyhoeddodd y ddoethineb oddi uchod ar y rhai anffodiog lwyddiannus hyn: "Yn ddiau, maent yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer."*

Llefarwch, chwi y rhai oeddych yn bresenol gyda'r cyfryw un yn ei funudau diweddaf; chwi y rhai a glywsoch ei feddyliau trengedig; a lefodd efe ddim allan yn iaith cnawdolrwydd siomedig? 'O Angeu! mor ddychrynlyd yw dy ddyfodiad at ddyn wedi suddo mewn gofalon bydol, ac heb un gofal am y byd diddiwedd i ddyfod! Pa le mae'r elw, pa le mae'r cysur, o gyrhaedd gwybodaeth ddofn, ac o fod yn fedrus i drefnu, amgylchiadau bydol; gan i mi, trwy fy mywyd, esgeuluso'r un peth angenrheidiol! Cam-syniad dinystriol! mi a fum yn ddiwyd gyda phob da bydol; mi a dreuliais fy hun allan gyda theganau munudyn; ond dibrisiais y nef; anghofiais oesoedd tragywyddol! O! na buasai fy nyddiau'—Yma yr

* Psal. xxxix. 6.

oedd efe yn myned rhagddo i anadlu rhyw ddymuniadau diffrwyth; neu ffurfio rhyw benderfyniadau aneffeithiol; eithr dirdyniad disymmwrth a ysgydwodd ei ewynion; a analluogodd ei dafod; ac mewn llai nag awr a ddattododd ei gyfansoddiad.

O! na chymmerai plant y byd rybudd oddiwrth eiriau trangcedig eu brawd annedwydd! ac elwa oddiwrth ei anffawd ef.—Paham yr hiraethant, gyda'r fath awyddfryd anmhwylllog, ar ol daear *wen* neu *felen*; fel pe byddai'r holl fyd yn rhy fach i weini digon i bob un gymmeryd ychydig? Paham y llwythant eu hunain â pbridd tew; pan maent i redeg am "goron anllygredig, ac i gyrchu am gamp uchel alwedigaeth Duw?" Paham y gorlwythant y llestr, ar fwrdd yr hwn mae eu *holl* tragywyddol? ac y llanwant eu breichiau â gormodedd, pan maent i nofio am eu bywydau?—Etto, mor chwithig yw ymddygiad y dynion hyny, sydd i gyd yn ddiwydrwydd, i bentyru llawnder o gyfoeth darfodedig; tra maent ond prin gymmaint ag egwan ddymuno bod yn gyfoethog tuag at Dduw.

O! nad allem ni rodio, ymysg y teganau hyn, o leiaf gyda difaterwch doeth, os nid gyda hollol ddiystyrwch! Os cawn ni ddigon at angenrheidiau bywyd, bydded i ni yn unig gyfaddasu ein hunain â'r pethau isod, a thrysori ein trysor yn y gororau uchod. Pan, os bydd i ni lettya meddyliau awyddus, neu fod yn anghymhedrol yn ein gofal, am ddim meddiannau darfodedig; ni a'u sicrhawn yn ein serchiadau trwy gyssylltiad mor gadarn, fel y bydd eithafoedd angherddol poen yn sicr o gydfyned â'r ergyd a'n hysgara oddi wrthynt. Trwy'r fath hoffder gwresog at bethau a fyddant yn sicr o gael eu rhwygo oddi wrthym, nis

bydd i ni ddim ond sicrhau i ni ein hunain drallod pentyredig, erbyn awr cyfyngder. Ni a blanwn ein clustog angeu, ymlaen-llaw, â drain.*

Mae rhai, mi welaf, wedi cyrhaedd triugain mlynedd a deg cyn ymadael â'r byd; i.e, ni roddodd rhai eu hanadl i fynu nes rhifo pedwar ugain cynhauaf olynol. Y rhai hyn, mi a obeithiaf, "a gofiasant eu Creawdwr yn nyddiau eu hieuengctyd;" cyn i'w nerth fyned yn boen a blinder: cyn trai isel natur ddadfeiliedig, pan "cryna ceidwaid y tŷ, ac y tywylla y rhai sy'n edrych trwy'r ffenestri:"† pan yw hyd yn oed disgyniad ceiliog y rhedyn yn faich ar yr ysgwyddau crymedig; a chwant ei hun yn pallu yn yr enaid trymlyd, diawch.—Cyn i'r oriau gofidus hyny ddyfod, a chyn nesáu o'r munudau blinion, yn y rhai mae gormod o reswm i ddywedyd, "Nid oes i ni ddim dyddanwch ynddynt;" 'dim llesâd oddi wrthynt.'

Os oedd eu lampau heb eu trwsio ag olew; mor anghymhwys raid eu bod yn y fath amgylchiadau egwan, i fyned i'r farchnad a phrynu!‡ O blegid, heblaw lliaws o anhwylderau yn tarddu oddiar ddadfeiliadau'r cyfansoddiad, rhaid fod eu llygredigaeth wedi cryfhau yn rhyfedd trwy'r fath yrfa faith o

- * Na phwyswch ar y byd, fe rwyga'ch bron;
Can's corsen ysig ar y goreu yw;
Yn fynych piccell lem, ar flaen yr hon
Y trenga hedd, ac ni chaiff gobaith fyw.

Night Thoughts, b. iii.

† Preg. xii. 3, 5. Ni raid i mi hysbysu i'r darlennydd, fod y cyntaf o'r ymadroddion dammegol hyn yn arwyddo sefyllfa egwan y dwylaw a'r breichiau; a'r olaf, tywylliad y llygaid, neu hollol ddallineb: eu bed, a'u cymmeryd mewn cyssylltiad â rhanau ereill o'r bennod, mewn cyfres o drawsymudiadau hyfion, yn gosod ger ein bronau ddesgrifiad o'r amryw wendidau cydfynedol â henaint.

‡ Mat. xxv. 9.

anghrefyddoldeb. Rhaid fod arferion drwg wedi gwreiddio'n ddwfn; wedi ymblethu yn ngwraidd eu calonau; wedi llwyr ymgorpholi â'u hanian, fel y parddu yn ngwedd yr Ethiop, neu'r brychni yn nghroen y llewpart. Os bydd i'r cyfryw un, dan y cyfryw anafanteision, orchfygu yr holl rwystrau sydd yn gorwedd ar ei ffordd i ogoniant; rhaid ei bod yn iachawdwriaeth fawr a nerthol yn wir. Os dianga y cyfryw un rhag dinystr, a bod yn gadwedig yn y diwedd; rhaid, heb un os, iddo fod "felly megis trwy dân."*

Hwn yw'r tymhor sydd yn sefyll mewn angen am gysur; ac yn anmhriodol iawn i ddechreu ar yr ymdrech. Dylai'r llafurwr fod yn awr yn bwrw ei grymman i mewn, neu yn bwyta ffrwyth ei lafur; ac nid yn dechreu aredig y tir, neu wasgaru yr had. Nid oes dim, mae'n wir, yn annichonadwy gyda Duw; efe a ddywedodd, "Bydded goleui, a goleuni a fu;" goleuni diatreg, mor fuan a'r meddwl, a ymdaenodd trwy holl lywodraeth gaddug-ddu tywyllwch cynoesol. Wrth ei orchymyn ef, mae gwahanglwyf o'r arosiad hwyaf, a'r cyndynrwydd eithaf, yn ymadael mewn eiliad. Efe a ddichon, yn mawredd ei nerth, fywchau yr'adyn a orweddodd yn farw mewn camweddau a phechodau, nid pedwar diwrnod yn unig, eithr pedwar ugain mlynedd.—Etto, na ymddiriedwch, O! nac ymddiriedwch beth o'r cyfryw annhraethol bwys, i'r fath ansicrwydd arswydus. Dichon Duw attal ei allu, a thynu yn ol ei gymborth; dichon dyngu yn ei lid, na chaiff y fath gamddefnyddwyr o'i hir amynedd "byth fyned i mewn i'w orphwysfa."

* 1 Cor. iii. 15.

Chwychwi, gan hyny, y rhai ydych yn fywiog mewn iechyd, ac yn blaguro mewn blynyddau, defnyddiwch y cyfleusdra gwerthfawr. Defnyddiwch eich oriau auraid, i'r ardderchoccaf o bob dyben: y cyfryw ar a ddichon eich gwneuthur yn addas i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni; a gwneuthur eich hawl yn dda i sefyllfa o anfarwol ieuengctyd, a choron o ogoniant tragywyddol.* Na sefwich yn segur holl flaen-ffrwyth eich diwrnod; ac na chellweiriwch yn hwy & chynnygion o ddedwyddwch anfeidrol: eithr brysiwch, ac na oedwch yr amser, i gadw gorchymynion Duw.—Tra'r ydych chwi yn ymddifyru mewn coeg annheimpladrwydd, gall angeu fod yn plygu ei fwa, ac yn eich nodi chwi allan yn wrthddrychau dinystr buan.—Yn ddiweddar dygwyddodd i mi weled cegid ddfeddwl. Yr oedd y creadur, druan, gydag ofer ddyfalwch, yn trwsio ei phlu tég, ac yn neidio o frigyn i frigyn. Adarwr, wrth fyned heibio, a ganfu'r crwydrydd asgellog. Mae efe yn codi ei ddryll yn ddioed, ac yn annelu'r ergyd. Yn gynt nâ'r corwynt mae'r farwolaeth blwm yn ehedeg; ac yn bwrw'r creadur ffol yn farw i'r llawr.—Y cyfryw all fod cyfran y dyn, yr hwn, a chanddo gyfleusdra tég heddyw i dderbyn gras, sydd yn ei obirio'n wirfoddol hyd y

* A ganiatteir i mi ganmawl, fel trysor anmhriadiaw, a thraethawd neillduol berthynasol i'm testyn, 'Ymfyniad am Ddedwyddwch,' gan Dr. Lucas? yn enwedig y rhan hòno, lle mae efe yn dangos y dull, ac yn cyfrif y manteision, o iawn ddefnyddio bywyd, neu fyw llawer mewn ychydig amser. Pen. iii. tudal. 158, o'r 6ed argraffiad.—Awdwr, yn yr hwn mae'r boneddwr, yr ysgolhaig, a'r Cristion, wedi eu huno yn y modd dedwyddaf. Cyflawniad, yr hwn, o barth rhesymiad cadarn, duwioldeb diffuant, a rhediad o feddwl ffrwythlawn, sydd, fe allai, heb ei ragorach. Nis gallaf ddymuno i'r darlennydd burach hyfrydwch, neu ddedwyddwch mwy sylweddol, nâ chael syniadau yr awdwr boddhaus a gwresog wedi eu gwau yn mhlethiad ei galon.

foru. Dichon gael ei dorri ymaith ynghanol ei ynfydrwydd; a chael ei ddyfetha am byth, tra mae efe yn breuddwydio am fod yn ddoeth ar ol llaw.

Daeth rhai, yn ddiau, i'w gorphwysfa olaf hon, yn llawn o dduwioldeb, ac yn llawn o ddyddiau; "fel y cyfyd ysgafn o ýd yn addfed gan oed, a llwythog o lawnder, yn ei amser."*—Y rhai hyn oeddynt blant y goleuni, ac yn ddoeth yn eu cenedlaeth; yn ddoeth trwy'r ddoethineb ddyrchafedig sydd yn disgyn oddi uchod; a thrwy'r ddoethineb safadwy hòno, yr hon a barha i dragywyddoldeb.—Yr oeddynt yn gyfoethog hefyd, yn fwy anrhydeddus a pharhaus gyfoethog, nâ holl eiddunwyr Mammon. I gyfoeth y naill mae adenydd, ac y mae efe yn ehedeg ymaith yn anadferadwy: tra mae ei gasglwyr, truain, yn cael eu traddodi i drigfan tlodi a phoen, lle ni bydd i gymmaint a dafn o ddwfr gael ei ganiattau i oeri eu tafodau llosgedig. Mae trysorau y lleill yn aros gyda hwynt yn barhaus; ni adawant hwynt byth; eithr llawenychant hwynt yn oes oesoedd, yn ninas eu Duw. Yr oedd eu trysorau y cyfryw, ar nas gallasai un gallu crëedig eu cymmeryd ymaith: y cyfryw, ar nas gallasai dim ond anfeidrol haelioni eu cyfranu; a'r cyfryw, (O ystyriaeth gysurlawn!) ar a allaf fi, a phob creadur anghenus hiraethlawn, eu cyrhaedd; trysorau o nefol wybodaeth, a ffydd achubol; trysorau o iawnol waed, a chyfiawnder cyfrifol.

Yma † y gorwedd eu cyrph mewn "preswylfeydd heddychlawn, a gorphwysfâau tawel." Yma, hwy a

* Job v. 26.

† Mae rhai, mi wn, yn anfoddloni wrth ein gwaith yn claddu cyrph o fewn yr eglwys, ac yn gwaeddi yn ei erbyn fel anmhrïodoldeb ac anweddustrwydd mawr. Ond mae hyn, yr wyf yn meddwi, yn tarddu

dafasant ymaith bob baich, ac a ddiangasant rhag pob magl. Y pen nid yw yn gwynegu mwy; a'r llygad a anghofiodd wylo; nid yw'r cnawd mwyach yn cael ei ddirdynu gan lymion, na'i dreulio gan nychlyd anhawsderau. Yma maent yn derbyn rhyddhad oddiwrth boen, a thragywyddol ollyngdod oddiwrth bob tristwch. Yma nid yw enbydrwydd, a'i lefau dychrynlyd, byth yn eu bygwth; ond tawelwch a esmwythâ eu gorweddle, a diogelwch a warchad eu gorphwysfa.—Gorphwyswch, gan hyny, chwi weddillion gwerthfawr, yn y caddug llettygar hwn. Gorphwyswch yn eich hun dawel, nes rhoddo'r udgorn

oddiar hyfoesedd gormodol a chamsyniol. Os cymmerir gofal priodol i ddiogelu seiliau yr adeilad rhag un niwed, ac i attal myg-darthiad y sawr-hedion afiach oddiwrth y cnawd llygreddig, nid allaf fi ganfod un anaddasrwydd ynglyn â'r arferiad.

Mae'r dyb fod celanedd ffaidd (fel y gelwir hwynt) yn anwedusrawn i le wedi ei gyssegru at achosion crefyddol, yn ymddangos wedi deillio oddiwrth yr hen reol luddewig, trwy yr hon y cyhoeddid, fod corph marw yn affanhau pwy bynag a gyffyrddai ag ef, ac yn halogi'r man lle gosodid ef. O ba herwydd, yr oedd yr Iuddewon yn neillduol ofalus i adeiladu eu beddau ymbell oddiwrth eu tai, ac yn ei wneuthur yn fatter cydwybod i beidio goddef lleoedd claddu yn y ddinas. Ond gan fod hyn yn arferiad hollol seremoniol, ymddengys ei fod wedi ei lwyr ddileu dan oruchwyliaeth yr efengyl.

Nis gallaf lai nâ meddwl, fod, dan y gyfundrefn Grist'nogol, ddefnyddioledeb a phriodoledeb yn yr arferiad.—Defnyddioledeb, o blegid rhaid iddo wneuthur ein cynnulleidfaoedd cyhoeddus yn fwy hybarch ac ofnadwy. Canys, pan fyddom ni yn rhodio dros lwch ein cyfeillion, neu yn ymgyrnu ar ludw ein perthynasau, rhaid i'r amgylchiad deffrôs daro argraff fywiog ar ein meddyliau o'n marwoldeb ein hunain. A pha ystyriaeth all fod yn fwy effeithiol i'n gwneuthur yn ddifrifol ac esgud i wrando—yn ddyfal a thaer mewn gweddi?

Ac am addasrwydd yr arferiad, mae'n ymddangos yn berffaith gyson â dyben yr adeiladau sanctaidd hyny. Maent wedi eu neillduo i Dduw, nid yn unig i dderbyn ei addolwyr, ond i gadw y dodrefn, at wasanaeth sanctaidd, a'r hyn sydd, mewn modd neillduol, wedi ei addasu i'r Mawrhydi Dwyfol. Onid priodoledd yr Arglwydd yw cyrph ei saint? Onid oeddynt hwy unwaith yn wrthddrychau ei gariad tirion? Onid ydynt hwy byth yn wrthddrychau ei ofal neillduol? Onid yw efe wedi gorchymyn am esgyrn ei etholedigion, ac wedi peri i'r môr, a rhwymo

diweddaf yr arwydd groesawus; ac yr uchel-seinio trwy eich anneddau dystaw, "Cyfodwch, ymddysclaeriwch; canys daeth eich goleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnoch."*

Mor dawel oedd prydawn bywyd i'r rhai hyn! Gyda pha degwch y machludodd eu haul! Pan oedd eu cnawd a'u calon yn pallu, mor adfywiol oedd y goffadwriaeth o'u holl-ddigonol Waredwr; yr hwn, unwaith, a fu farw dros eu pechodau, ac yn awr a gododd er eu cyfiawnhad! Mor gysurus oedd eu hiawn-seiliedig obaith am faddeuant pechodau, a heddwch â Duw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd!

y bedd, i'w cadw hwynt erbyn y dydd hwnw? Pan fyddo creigydd dysclaer gan berlau, a mynyddoedd goludog o fwai, yn cael eu rhoddi i fynu i'r fflamiau ysol, oni fydd i'r rhai hyn gael eu cipio o'r dinystr tanllyd? Oni fydd iddynt gael eu trosglwyddo i deyrnas Jehofa, ac yn gydgyssylltiedig â'r enaid, gael eu gwneuthur yn "dlysau" iddo ef, gael eu gwneuthur yn "drysor neillduol" iddo, gael eu gwneuthur i ddysclaerio fel dysclaerdebydd y ffurfafen, ac fel y ser, byth yn dragwydd?

Onid yw Crist yn *Arglwydd* ein cyrph? Oni phrynwyd hwynt er gwerth? Eu prynu, nid â phethau llygredig, megis arian neu aur, ond â'i ddwyfol werthfawr waed ef. Ac os prynodd ein gwynfydedig Iesu waredigaeth ein cyrph er gwerth mor anfeidrol ddrud, a all ein calonau ni feddwl, y bydd efe yn anfoddlawn iddynt gael eu gosod i orphwys dan ei drigfan ei hun?—Etto unwaith, onid yw cyrph y saint yn "demlau yr Ysbryd Glân?" Ac onid oes, ar y golygiad hwn, briodoldeb eglur, yn hytrach nag un anwedduddra, yn ngosodiad y temlau hyn o gnawd yn y temlau o waith dwylaw? Maent yn llestri parch, ac yn arfau cyfiawnder, ac hyd yn oed wedi eu dryllio gan angeu, fel darnau cwpan aur, maent yn werthfawr, ac yn deilwng i'w cadw yn y lle mwyaf diogel ac anrhydeddus.

Ar y cwbl, gan fod yr *Arglwydd* Iesu wedi eu pwr casu â'i waed, a'r Ysbryd Glân yn teilyngu preswyllo ynddynt, gan eu bod yn wir werthfawr yn ngholwg y Drindod addoladwy, ac yn etifeddion diamheuol o anfarwoldeb gogoneddus; paham ei tybir yn beth anmhriodol iddynt gael eu derbyn i orphwys dros ychydig yn nhy eu Tad nefol? Paham na allant orwedd a chysgu yn y cynteddau nesaf allan, gan eu bod ar fyr i gael eu derbyn i drigfanau tufewnol anrhydedd a llawenydd tragwyddol?

* Esai. xl. 1.

Fel yr oedd hyn yn lleibau arteithiau, ac yn melusu chwewrder, marwolaeth!—Pa le yn awr mae cyfoeth, a'i holl fynyddau aur? Pa le mae anrhydedd, a'i holl gofnodau enwogrwydd? Pa le mae holl rwysg gwag y byd twyllodrus? A allant hwy greu'r fath ddyddanwch, -a allant hwy weini'r fath gynnalïaeth, yn y cyfyngder olaf hwn? A allant hwy dawelu y meddylïau dychrynedig, neu gynnal yr enaid ymadawgar, ynghanol gloesion ymddattodiad?—Mae canlynwyr yr Oen yn ymddangos yn foddlawn ac yn orfoleddus, hyd yn oed yn eu hanadliad olaf. “Mae breichïau tragywyddol Duw oddi tan”* eu penau llewygus. Mae ei Ysbryd yn ysibrwd hedd a dyddanwch i'w cydwybodau. Trwy gymhorth y cysuron nefol hyn maent yn gadael y maes, nid yn gaethion, ond yn orchfygwyr, gyda “gobaith cyflawn o anfarwoldeb.”

Ac yn awr maent wedi ymadael.—Mae ymegniadau natur wrthymdynol drostynt. Mae'r corph yn huno yn yr angeu; a'r enaid wedi ehedeg i'r sefyllfa anweledig.—Ond pwy eill ddychymmyg eu syndod hyfrydlawn, pan gawsant eu hunain wedi eu hamgylchu gan augylion gwarcheidwol, yn lle cyfeillion wylofus? Mor ddiogel maent yn adeinio eu ffordd, rhwng bydoedd anadnabyddus, dan dywysiad yr arweinyddion nefol hyn!—Mae glyn wylofain wedi ei lwyr golli. Yn iach byth, i ororau tristwch, a chyn-ddaredd bodau cynfigenus! Maent yn tirio ar gyffiniau gwynfyd annhraethol. Hwy a “ddaethant i ddinas y Duw byw;” tra mae llais, melusach na pherioriaeth yn ei hodlau mwyneddïaf, melus fel cyd-

* Deut. xxxiii. 27.

blethiad seraphiaid moliannus, yn groesawi eu dyfodiad, ac yn cyhoeddi eu derbyniad: "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrfchwch ddrysau tragywyddol;" fel y del etifeddion gogoniant i mewn.

Yma, ynte, gadawn ysbrydoedd ac eneidiau y cyfiawnion; wedi diangc o'r anial dyrys, a'u derbyn i baradwys o bob hyfrydwch! Wedi diangc o ororau aflonyddwch, a'u sefydlu yn ardaloedd diogelwch digyffro! Yma yr eisteddant gydag Abraham, Isaac, a Jacob, yn nheyrnas eu Tad. Yma ys ymunant â thorf aneirif o angylion, gan lawenychu o amgylch gorseddfaingc yr Oen: llawenychu yn y mwyniant o'u gwynfyd presenol, ac mewn gwir ddiogel ddysgwyliaid o ychwanegiad anamgyffredadwy at eu dedwyddwch; pan "alwo Duw y nefoedd oddi uchod, a'r ddaear, fel y barno efe ei bobl."*

"Ffyliaid a feddyliasant fod eu bywyd yn ynfydrwydd, a'u diwedd yn anmharchus: ond cyfrifwyd hwynt ymhlith meibion Duw; a'u rhan, (eu dyrchafedig a'u tragywyddol ran,) sydd gyda'r saint!"† Pa fodd bynag, gan hyny, y dichon byd dall ddiystyru, a byd halogedig gablu, y gwir grefyddol; bydded hyn yn ddymuniad digyfaewid a phenaf fy nghalon: "Byw a

* Mae myfyrdodau Seneca ar sefyllfa eneidiau sanctaidd, wedi eu gwaredu oddiwrth y baich o gnawd, yn seirian a chynnil, etto yn aneglur a gwag iawn, wrth eu cymharu â'r pethau a grybwyllir uchod, a llawer ychwaneg a allesid eu casglu o'r ysgrythyr. "In hoc tam procelloso, et in omnes tempestates exposito navigantibus mari, nullus portus, nisi mortis est. Ne itaque invideris fratri tuo; quiescit. Tandem liber, tandem tutus, tandem eternus est. Fruitur nunc aperto et libero caelo; ex humili et depresso, in eum emicuit locum, qui solutus vinculis animas beato recipit sinu; et nunc omnia rerum natura bona cum summa voluptate percipit."—*Sen. ad Polyb.*

† Doeth. v. 4, 5.

hwnelwyf o fywyd, a marw o farwolaeth, yr uniawn. O! bydded fy niwedd, a'm cyflwr tragywyddol, fel yr eiddo yntau!"

Pa lun yw hwna sydd yn taro ar fy llygad oddiar ran uchel o'r mur? Nid yw yn unig wedi ei osod mewn sefyllfa fwy dyrchafedig na'r lleill; eithr y mae yn cario agwedd fwy rhwysgus ac ardderchog na'r cyffredin. Cleddyfau a gwaywffyn, peiriannau di-henydd, ac arfau lladdedigaeth, a addurnant y maen â mawrhydi dychrynadwy.—Mae yn ymddangos mai cofadail rhyfelwr urddasol yw.

A oes y fath barch, eb fi, yn cael ei dalu i'r milwr hwn, am aberthu ei fywyd dros y da cyffredin?—Yna, pa anrhydedd, pa anfarwol anrhydedd, sydd yn ddyledus i Gadpen mawr ein hiachawdwriaeth? Yr hwn, er yn Arglwydd angylion fyrdd, ac er yn oruchaf Lywiawdwr yr holl luoedd nefolion; o'i wir fodd a offrymodd ei hun yn iawn gwaedlyd dros bechaduriaid!

Y naill, yr hwn oedd fod marwol, a fu farw heb ond yn unig rhoddi i fynu bywyd, yr hwn yn hir cyn hyny a ddirwyasid i ddwyfol gyfiawnder; â'r hwn y buasai rhaid iddo ymadael yn fuan fel dyled i natur, pe ni syrthiasai fel anrhaith i ryfel.—Eithr Crist a gymmerth gwawd, ac a roddodd i fynu yr ysbryd, er ei fod yr YDWYF mawr; fflannon bodoliaeth; yr hwn mae dedwyddwch ac anfarwoldeb yn eiddo iddo. Efe, yr hwn ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; Efe, yr hwn yr oedd ei fynediad allan er dyddiau tragywyddoldeb; i.e, Efe a gawd mewn dull fel dyn, ac a dorwyd o dir y rhai byw. Synwch, O nefoedd! a rhyfedda di, ddaear! *Efe* a fu farw, am yr hwn y

tystiolaethir, mai Efe yw “y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol.”*

Y naill a osododd ei hun mewn perygl yn ngwasan-aeth ei frenin a'i wlad; yr hyn, er ei fod yn anrhydeddus i'w wneuthur, etto, yn y cyfryw amgylchiadau, buasai yn warthus peidio.—Eithr Crist a gymmerodd y maes, er ei fod y bendigedig a'r unig Benaeth; Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi. Crist a gymmerodd y maes, er ei fod yn sicr o syrthio yn yr ymdrech; ac a wisgodd yr arfogaeth, er y gwyddai rhagllaw y buasai rhaid iddi gael ei lliwio á'i waed. Y Tywysog nefol hwn a roddes ei hun i fynu, nid yn unig i'r perygl, ond i'r ergyd anochel-adwy; i Angeu, sicr yn ei ddyfodiad, a chwedi ei arfogi yn ei holl ddychrynfeydd.—A thros bwy? Nid dros rai ag oeddynt mewn un radd yn deilwng; eithr dros ei greaduriaid anufudd ei hun; er mwyn madd-euant drwgweithredwyr colledig; dros lu o wrth-ryfelwyr; dros hil o deyrnfradwyr; dros droseddwyr o'r mwyaf ffiائد ac anesgusodol. Y rhai y gallasai efe eu gadael i drengu yn eu hanwireddau, ac egluro ei gyfiawnder dialeddol yn hyny, heb y cybuddiad lleiaf ar ei ddaioni.

Y naill, mae'n debygol, a fu farw yn fuan; a glwyf-wyd yn ddisymmwth, ac a laddwyd yn ddiatreg. Pelen wedi ei llettya yn ei galon; cleddyf wedi ei weinio yn ei fynwes; neu arf-fwyall, gan hollti ei ymenydd, a allasai osod terfyn yn y fan ar ei drueni, a'i ddybenu “megis mewn moment.”—Tra darfu i'n Pryniawdwr dwyfol drengu mewn arteithiau meithion ac estynedig. Ei loesion oeddynt mor nychlyd ag yr

* 1 Ioan v. 20.

oeddynt yn boenus. Hyd yn oed yn rhaglith ei ddyoddefaint olaf, y fath faich o dristwch a orchuddiodd ei ddynoliaeth sanctaidd! nes i'w lethiad annyoddefol wasgu gwaed o bob rhan o'i gorph, yn lle chwys; nes i'r llif porphor gochi ei wisgoedd, a lliwio y cerrig eu hunain.—Ond pan ddaeth yr olygfa olaf o'i echrysder; pan hoeliodd morthwyl y dienyddiwr ef wrth y groes; O! pa sawl awr gyfyng y crogodd y dyoddefydd ardderchog hwnw, yn ddrych o ofid, i Dduw, i angylion, ac i ddynion! Ei arleisiau yn cael eu cigyddio gan y goron ddrain! ei ddwylaw a'i draed wedi eu hollti gan yr heiyrn geirwon! ei holl gorph wedi ei orchuddio gan archollion a chlwyfau! a'i enaid, ië, ei enaid, wedi ei drywanu gan arteithiau cyfyngder annhraethol!

Mor hir y crogodd efe, nes i natur, trwy ei holl dalaethiau, gael ei thafu i gyffröadau cydymdeimlgar. Ni allai y ddaear ddal y cyfryw driniaeth farbaraidd yn hwy heb grynu; na'r haul edrych arni heb arswyd. Ië, mor hir y crogodd efe, nes i'r braw gyrhaedd gor-orau pell y meirw.—Byth, O fy enaid! byth na anghofia y gwirionedd rhyfeddol. Cafodd Oen Duw ei ddal, ei rwymo, a'i gigyddio gyda'r annyngarwch mwyaf; ac a ddyoddefodd angeu, yn ei holl chwerwder drosot ti. Ei lofruddwyr dyfeisgar greulawn a drefnasant y cwpan angeuol, yn y cyfryw fodd, fel yr archwaethodd efe bob dafn o'r bustl, cyn iddo yfed i fynu ei waddod.

Etto unwaith: y rhyfelwr a fu farw fel arwr, ac a syrthiodd yn ddewr ar faes y gwaed.—Eithr oni bu farw Crist “fel y mae'r ynfyd yn marw?”* Nid ar

* 2 Sam. iii. 33. Ar yr anmharch hwn yr achwynna ein Harglwydd: “Ai megis at leidr y daethoch chwi allan?” Mat. xxvi. 55.

wely anrhydedd, a chreithiau gogoniant ar ei fynwes; eithr, fel rhyw ddibiryn ysgymmun, ar grogbren, a rhwygiadau'r fflangell wael ar ei gefn! Do, ein Iesu bendigaidd a ogwyddodd ei ben trangcedig ar y pren melldigaidd; yn grogedig rhwng nef a daear, fel un wedi ei alltudio o'r ddau, ac annheilwng o un o honynt.

Pa gydnabyddiaeth gymhwys o ymostyngiad hybarch a gwresog a allwn ni wneuthur i Sanct Duw, am farw fel hyn, fel y gallem ni fyw yn dragywydd? Am farw mewn poen a dirmyg, fel y gallem ni fyw byth ar uchelderau gwynfyd, ac eistedd yn oes oesoedd ar orseddfeingciau gogoniant!—Och! nid yw ynom ni, farwolion gweinion ac anystyriol, i fod yn ddyledus ddiolchgar. Efe yn unig, yr hwn sy'n cyfranau'r fath roddion anamgyffredadwy werthfawr, a ddichon ennyn gwresogrwydd priodol o serch diolchgar. Gan hyny, adeilada i ti dy hun gofadail, O rasmusaf Emanuel, adeilada i ti dy hun gofadail dragywyddol o ddiolchgarwch yn ein heneidiau. Ysgrifena y goffadwriaeth o'th haelioni, nid ag inge a phin; ond â'r gwaed gwerthfawroccaf hwnw, a ffrydiodd o'th wythienau clwysfedig. Cerfia hi, nid â'r morthwyl a'r cŷn; eithr â'r biccell lem hòno, a drywanodd dy ystlys sanctaidd. Safed yn amlwg ac annilëadwy, nid ar lechau allanol o faen; ond ar lechau mwyaf mewdol ein calonau.

Goddefer i mi wneuthur un sylw ychwanegol, cyn canu'n iach i'r rhyfelwr claddedig hwn, a'i fedd-faen addurnedig. Mor wael yw'r dull ymddangosiadol hwn o wobrwyo llais clod, a phwrcasu ychydig enwogrwydd gorarwylaid! Y fath ddirprwÿydd tlawd o gyfres o weithredoedd hygof yw mynor wedi ei

gaboli, neu ddywaredaeth marmor cerfiedig! Mae gwir ardderchogrwydd y *gwladgarwr syrthiedig hwn wedi ei ysgrifenu ar feddyliau ei gydwladwyr. Cawsai ei gofio, gyda pharch, cyhyd ag y parhao y genedl, heb y ddyfais gelfyddydol hon i'w dragywyddoli.—A'r fath, y fath yw'r gofadail a ddymunwn i mi fy hun. Bydded i mi adael coffadwriaeth yn mynwesau fy nghyd-greaduriaid. Bydded i gyfeillion gorfucheddol ddwyn tystiolaeth—na fum i byw i mi fy hun yn unig, nac yn hollol anwasanaethgar i'm cenhedlaeth. O! bydded i restr ddiidôr o weithredoedd haelionus fod yn arysgrif i mi; a daioni penaf fy nghyd-greaduriaid y llafn ar ba un y cerfir hi.

Bydded i'r tlawd, wrth fyned heibio i'm bedd, gyfeirio at y fan fechan, a chydabod yn ddiolchgar—'Yna y gorwedd y dyn, yr hwn, trwy ei gymmwynasgarwch diflin, a esmwythâai fy ngwahanol gyfyngderau yn wastad; yr hwn a ymwelai yn dirion â'm gwely nychlyd, a chyda pharodrwydd a gyflawnai fy amgylchiadau anghenus. Mor fynych bu ei gynghorion yn hyfforddiant i'm meddyliau cythryblus, ac yn

* Syr Bevil Granville, yr hwn a laddwyd yn y rhyfeloedd cartrefol, mewn brwydr â'r gwrthryfelwyr. Fe allai y byddai yn rhyw faint o ddifyrwch i'r darlennydd, pe rhoddwn gymmeriad Syr Bevil, fel y tynwyd ef gan yr ysgrifenydd clodfawr a ysgrifiodd hanes yr amseroedd trallodus hyny.—“Yr hyn a fuasai yn ddigon i gymhylu unrhyw fuddugoliaeth, a gwneuthur colled ereill yn ddi-son am dani, (medd yr hanesydd ardderchog,) oedd marwolaeth Syr Bevil Granville: gweithgarwch, awdurdod, ac enwogrwydd yr hwn oedd sylfaen yr hyn a wnaethid yn Ngherniw: yr oedd ei dymher a'i deimladau mor gyhoeddus, fel nas gallai un ddamwain wneuthur unrhyw argraff arno; a'i anghraifft a gadwodd ereill rhag cymmeryd dim yn chwith, o leiaf rhag dangos eu bod yn gwneuthur hyny. Mewn gair, calonddid mwy dysclaer, a thymher fwy araf, erioed ni chyssylltwyd ynghyd i wneuthur yr ymarweddiad mwyaf siriol a diniwed.”

Clar. Hist. Rebel. vol. II.

adfywiad i'm hysbrydoedd isel! I fendith Duw ar ei elusenau prydlawn, a'i gysuron synwryol, rhaid i mi briodoli fy mod yn fyw, ac yn byw yn gysurus.—Bydded i un, a fu gynt yn anwybodus ac annuwiol, ddyrchafu ei olygon i'r nef, a dywedyd ynddo ei hun, wrth rodio dros fy esgyrn—'Yma mae gweddillion olaf y cyfaill ffyddlawn hwnw a wylodd dros fy enaid. Byth nis gallaf anghofio gyda pha ysgafnder a difaterwch yr oeddwn yn brysio rhagof yn ffyrdd colledigaeth: ac yr ydwyf yn crynu wrth feddwl i ba ddystryw anadferol y gallaswn gael fy suddo yn fuan, oni buasai i'w gynghorion ffyddlawn ef fy attal yn fy ngyrfa wyllt. Yr oeddwn yn anwybodus o efengyl y tangnefedd, ac yn ddifater am ei thrysorau anchwiliadwy; ond yn awr, wedi fy ngoleuo trwy ei ymddiddanion addysgiadol, yr wyf yn gweled holl-ddigonolrwydd fy Ngwardwr; a chwedi fy nghefnogi trwy ei fynych annogaethau, yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled, fel yr ennillwyf Grist. Mi dybygwn fod ei ddywediadau, wedi eu cyd-dymheru â chrefydd, a'u gosod adref gan Ysbryd Duw, yn ysibrwd etto yn fy nghlustiau; ac etto yn twymo fy nghalon; a byddant, gobeithio, yn fwy-fwy effeithiol, nes cyfarfyddom â'n gilydd yn y tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nef.'

Yr unig ffordd anfethiannol i anfarwoli ein henwau, ffordd gyfartal agored i'r distadlaf a'r uchaf ei feddiannau, yw, "Gwneuthur ein galwedigaeth a'n hethol-edigaeth yn sicr;" ac ynnill rhyw dystiolaeth felus, fod ein henwau "yn ysgrifenedig yn y nef." Yna, pa fodd bynag yr amherchir ac yr anghofir hwynt ymysg dynion, byddant mewn coffadwriaeth dragywyddol ger bron Duw. O bob rhagoriaeth, dyma'r ardderch-

occaf o lawer. Uchelgais, boed hyn dy wrthddrych, a phob rhan o'r ysgrythyr a sancteiddia dy nwyd; i.e. gras ei hun a chwyth dy ffiam.—Bydd pob coffadwriaeth ddaearol ar fyr wedi ei llwyr ddileu. Tafodau y rhai hyny, y dygasom ymlaen eu dedwyddwch yn twresog, a fyddant yn fuan yn fud yn yr ysgrin. Llythyrenau, wedi eu cerfio yn y graig galed, â phin o haiarn ac â phres, a fyddant, cyn hir, yn amarllen adwy.* Ond cynifer ag a gofrestrwyd yn “llyfr bywyd yr Oen,” ni ddilëir o goffadwriaethau tragwyddoldeb.† Pan falurio treigliad blynyddoedd y golofn fuddugoliaethus yn llwch; pan ddystrywier y ddelw bres gan law ysol amser; yr anrhydedd hwn a barha, ac a flagura yn anllygredig byth, yn myd y gogoniant.

“Gwnëwch yr wybrenau i chwi'n fedd;

Myneged ser y nef eich gwerth:

Er hyn rhaid marw, bawb un wedd,

Fel cynnyrch natur glaf, ddinerth.

Fy ngweddi daer o gwrendy Duw,

Dewisiad ardderchoccach gwnaf;

Cofadaill wych ni cheisiai'n fyw;

Yn farw'r golled ni thristaf.

Yn llyfr y bywyd (hyn f'om rhan)

Ysgrifia'm henw, O fy Nuw!

Rhyw gongl isel llanwed, dan

Yr Oen, er marw, byth sy'n byw.

Mewn parch diddiwedd trig dy saint,

Tra oesoedd fyrdd yn treiglo'r rhod;

A'u henw da, mewn bro ddihaian,

Uwch camwedd amser, ddeil ei glod.”

Mae'r porth accw, dybygwn, yn arwain i'r nenfwd.
Bydded i mi droi o'r neilldu, a chymmeryd un olwg

* —Data sunt ipsis quoque fata sepulchris.—*Juv*

† Dat. iii. 5.

ar yr annedd, a'i phreswylwyr.—Mae'r ddôr dristddig, fel un anghyfarwydd â thramwyadau ymwelwyr, yn fy nerbyn gydag anewyllysgarwch grwgnachlyd.—O ba le tardd y cryndod disymmwth hwn, tra yr wyf yn disgyn y grisiau, ac yn ymweled â chenhedlaethau gwelwon y meirw?—Ymdawelwch, fy ysbrydoedd; nid oes dim i'w ofni yn yr ystafelloedd llonydd hyn. Yma hyd yn oed yr “annuwiolion a beidiant a chyffro.”

Nefoedd daionus! pa olygfa ddifrifol!—Mor ddu-dew yw'r caddug! Yma mae tywyllwch parhaus, a nos ganol dydd!—Mor alaethus yr unigrwydd! Nid oes yma un arwydd o gymdeithas siriol; eithr tristwch a dychryn a ymddangosant fel wedi gwneuthur eu trigfa arswydus yma!—Clywch! fel mae'r adail gau yn adleisio gyda phob troedjad! Y dadseiniau, a hir hunasant, a ddeffröir; ac a alarant, ac a ocheneidiant, hyd y muriau.

Paladr neu ddau o oleuni a dreiddiant trwy'r eilch, ac a adlewyrchant dywyniad gwanaidd oddiar hoelion yr ysgriniau. Cynifer o'r golygfeydd pruddion hyn, yn hanner cudd dan y cysgodau, ac yn hanner amlwg trwy'r llwyd oleuni, a ychwanegant ddychrynfeidd yr anneddau tywyllion hyn.—Wrth sylldremu ar yr arysgrifau, yr wyf yn alluog i gasglu, mai gweddillion y cyfoethogion a'r enwogion yw y rhai hyn. Ni osodir dim meirw cyffredin yma. Yr *Ardderchoccaf*, a'r *Gwir Anrhydeddus*, a hönasant y lle hwn fel eu lloches olaf. Ac, yn wir, maent yn parhau i gadw rhyw gysgod o flaenoriaeth. Maent yn gorwedd, wedi eu rhesu mewn trefn alarus, ac mewn math o rwysg dystaw, dan fwâu claddfa äang; tra mae cyrph

gwaelach, heb lawer o ddefod, “ yn myned i lawr at gerrig y pwll.”

Mae fy ymsyniadau yn adferu o'u syndod. Yr wyf yn gweled nad oes yma ddim drychiolaethau, ond y cyfryw ag y mae ofn yn greu.—Etto, aruthr yw genyf yn barhaus sylwi ar ryfeddodau y byd isaf hwn. Y rhai hyny, a dderbynient ardrethi dirfawr, ac a alwent arglwyddiaethau cyfain yn eiddynt, a ddarostyngwyd i bump neu chwech troedfedd o ddaear, neu a gyfyngwyd i ychydig amleni o blwm! Ystafelloedd mawrhydi, a dodrefn gwerthfawr, a gyfnewidiwyd, am un gell, namyn yr eulunfa gaddug-ddu, am un addurn namyn yr amdo lychlyd!—Pa le mae'r seren a fflaglai ar y fron; neu'r goronig a ddysclaeriai o amgylch yr arleisau? Yr unig weddillion o'u mawredd ymadawedig ydyw, y cwnsallt dadfeiliedig, neu'r astalch ddrylliog. Ni welaf un osgordd lewyrchus yn amgylchu'r annedd unig; dim addurniadau arglwyddiaidd yn chwareu mwy o amgylch y meistr difywyd. Nid oes neb i weini arno, namyn delw lychlyd; yr hon, tra mae'r byd difater mor hoyw ag erioed, a ddysgodd llaw'r cerfiwr i wylo.

Y rhai a ymogoneddent mewn hynafiaid uchel-radd, a gwaedoliaeth ardderchog, a osodant eu honiadau uchel i lawr yma. Cydnabyddant garenydd a'r ymlusgiaid, a llettyant eu harfau gyda'r abwydon.—“Galwant ar y pwll, Tydi yw ein tad; ac ar y pryf, Ein mam a'n chwaer wyt.”—Neu, pe parhäent i gymmeryd arnynt ddull o uchafiaeth, mor ddirym fyddai eu honiad! mor eglur eu hymddangosgarwch! A ddywed eu cofadail, Yma y gorwedd y mawrion? Hawdded yr ettyb yr edrychyd!

—“Farmor twyllodrus! p'le?
'Does yma ddim ond gwael, lygredig lwel.”

O wirionedd marwhaol! digon, feddylid, i ddiddyfnu yr archwaeth fwyaf awchus oddiwrth y sefyllfa anwadal hon o bethau; oddiwrth ei boddiadau afiachus, ei gogoniant gwywedig, a'i thrysorau diflanedig.

“Canys, wageddau anwir bywyd! chwi
Y byth hudolus, byth dwyllodrus haid!
P'le'r y'ch chwi'n awr? a ph'eth yn awr yw'ch swm?”

Pa beth yw'r holl fyd i'r creaduriaid tlodion, dianadl hyn?—Pa beth yw eu hyfrydwch? Bwrlwma wedi torri.—Pa beth eu hanrhydedd? Breuddwyd wedi ei anghofio.—A pha beth yw swm gyflawn eu holl fwyniant isod? Fe allai, ei fod, unwaith, yn ymddangos yn rhyw beth cyfrifol i ddymuniad hoff ac awyddus. Ond yn awr, Angeu a'i mesurodd a'i linydd, ac a'i pwysodd yn ei glorianau, a pha beth yw'r canlyniad? Och! mae'n fyrach na dyrnfedd; yn ysgafnach na'r wreichionen hedegog; a gyrrir ef ymaith fel mwg diflanedig.

Saf, fy enaid, a syn-fyfyrta. Galw i gof yr holl bethau gwychion a arferent ddalla dy lygaid, a sugno dy serchiadau. Yma, prawf y teganau cnawdol hyny. Yma, iawn brisia eu gwerth. Dychymmyga dy hun yn benaf ymhlith meibion cyfoeth, y rhai a loddestant ar liniau hyfrydwch; a ddysclaeriant yn harddwig anrhydedd; ac a nofiant yn llanw goludoedd diysbydd. Etto, mor fuan y seiniai'r alar-gloch gnul dy ymadawiad! A phan unwaith y gwysio'r alwad haiarallyd hõno di i'th gyfrif, pa le bydd yr holl felusderau hyn? Yr awr hõno, fel bydd i goegwychder yr amgylchiadau mwyaf golygus, anrhydeddus, a glodd-

estgar, ddiflanu yn ddiddym wegi!—Ac a ydyw hyn yn ddedwyddwch i'w drachwantu mor awyddus?

Diolch i chwi, weddillion enwau soniarus a mawreddog. Chwi a ddysgasoch i mi fwy o fychander y byd ná holl gyfrolau fy myfyrgell. Eich bonedd wedi ei oblygu mewn amdo, a'ch mawredd yn malurio mewn ysgrin, ydynt y profion sicraf o ddiddymdra pethau creedig. Yn ddiâu, ni ysgrifennodd Rhaglun-iaeth erioed o'r gwirionedd pwysig hwn mewn eglurach llythyrenau, nag yn lludw. *Fy Arglwydd*, a chelain *Ei Ras*.* Taled ereill eu hymostyngiad ufuddgar, os mynant, i'ch meibion cyfoethog; a gwenieithent yn wael, neu ymbilient yn awyddus am ddyrchafiad. Fy meddyliau i yn fynych a gyrchant, mewn myfyrdodau pruddion, at feddau eu tadau; ac a ddysgant oddiwrth eu llwch cysglyd—i gymhedroli fy nysgwyliaidau oddiwrth farwolion—ac i fod yn rhydd oddiwrth un serch annyladwy at bethau diddym amser—ac i ymddyrchafu uwchlaw teganau twyllodrus anrhydedd, ymddangosiadau gwychion cyfoeth, a holl gysgodau gweigion y byd darfodedig.

Ust! pa beth yw'r swm yna?—Yn y fath sefyllfa mae pob swm yn cyffroi un.—Yn araf ac yn drwm, yr ymdyr drachefn ar yr awyr ddystaw.—Tarawiad yr awrlais yw: wedi ei fwriada, gallai un feddwl, i gadarnhau fy holl fyfyrdodau difrifol. Mi dybygwn ei fod yn dywedyd Amen, ac yn gosod sel wrth bob amnaid addysgiadol. Mae yn dywedyd wrthyf, fod rhan arall o'm hamser terfynedig wedi diangc. Un a'i geilw yn "gnul fy oriau ymadawedig." Arwyddair gwyliadwriaeth a

* —Mors sola fatetur

Quantula sint hominum corpuscula.—*Juv.*

bywiogrwydd ydyw. Mae yn llefain yn ngblust rheswm; 'Prynwch yr amser. Deliwch awelon manteisiol cyfleusdra: O! deliwch hwynt tra maent yn anadlu; cyn y coller hwynt yn anadferadwy. Mae dyrnfedd bywyd yn byrhau o hyd. Mae'r munudau oll ar yr adain, ac yn prysuro i fyned. Yr wyt yn ymylu ar dragywyddoldeb, ac yn myned rhagot yn barhaus i'r sefyllfa ar ba un y myfyri.' O! na suddai y cyngor yn ddwfn mewn meddwl ystyriol ac ufudd! Na ddysgai efe i mi y rhifyddeg nefol, o "gyfrif fy nyddiau, fel y dygwn fy nghalon i ddoethineb!"

Mi a rodiais yn fynych dan glogwyn creigiog y penrhyn dibynol; mi a droediais weithiau ëangder maith yr anial unig; ac a dreiddiais i gilfachau unwyaf tumewnol yr ogof erchyll: ond erioed, erioed ni welais anian yn pruddhau yn y fath ddull arswydus; erioed ni theimlais y fath argraffiadau o ddychryn yn taro yn oer ar fy nghalon; ag o dan y bwâu ael-dduon hyn, ac ymysg y muriau llychlyd yma, a chwedi fy amgylchu gan y fath wrthddrychau irad: lle mae prudd-der, ïe, y prudd-der dyfnaf, byth yn lledu ei hadenydd cigfreiniaidd.

Bydded i mi bellach ymadael â'r tywyllni llaith ac ofnadwy.—Yn iach i chwi breswylfeydd anghyfanedd-dra, a chysgodau marwolaeth! Yn llawen yr ydwyf yn ail-ymweled â gororau dydd.

Ar ol taflu golwg arwynebol fel hyn dros drigfanau y meirw, mae cywreinrwydd yn fy nghymbell i wneuthur ymchwil fanylach. Pe gallem ni dynu gorchudd y bedd yn ei ol; pe gallem ni weled yn awr, pa beth yw y rhai a fuant unwaith yn fyw—O! fel i'n synai ac i'n gofidiai! I'n synai, wrth weled y cyfnewidiad

dirfawr a gymmerth le ymbob un yn bersonol; ac i'n gofidiai, wrth weled yr anmharch a wneir i'n natur yn gyffredinol, yn y llochesau tan-ddaearyl yma!

Yma, yr wynebpryd ennillgar, a wisgai wên ddeniadol yn barhaus, a ddychrynlyd ddisgyrna yn benglog noeth erchyll.—Y llygad, oedd unwaith yn ddyclaeriach nâ gloywder adamant, ac a danbeidiai ei fellt cariadlawn i'r galon fwyaf gochelgar; och! pa le y mae? Pa le cawn ni y treiglydd gwreichionllyd? Fel mae ei holl belydr bywiog wedi eu cymhylu! eu llwyi gymhylu!—Y tafod a lywiau holl alluoedd hyawdledd, yn y tir estronol hwn a “anghofiodd ei gyfrwysdra.” Pa le yn awr mae'r odlau mwynion hyny a dreisient ein clustiau? Pa le mae'r ffrydiad hyny o ffraetbineb, a ddygai ein barn yn gaeth? Mae arglwydd mawr iaith, a cherdd, yma mor ddistaw a'r nos a'i hamgylcha.—Y cnawd pesgedig, a wisgid mor ddiweddar mewn porphor a lliain main, a orchuddir yn drwsogl a thyweirch a phridd! Bu amser, pan prin y profai y creadur cymhen “osod gwadn ei throed ar y ddaear, gan fwythau a thynerwch;”^{*} eithr goblygwyd hi yn awr mewn pridd lleidiog, a hi a hunar glustog dim esmwythach nâ geirwon gerrig y gro.—Yma y “cryma y gwyr cryfion.” Y fraich ewynog a ddattodwyd, a'r gewynion grymus a ryddhawyd; yr esgeiriau, y rhai yn ddiweddar oeddynt yn breswylfod nerth, a orwedddant yn ddigyffro; a'r esgyrn, y rhai oeddynt fel colofnau o bres, a friwsionwyd yn llwch.

Yma, y marchnatäwr a anghofiodd ei holl ddyfeisiau hoff, ac a roddes i fynu ei holl ymgais am elw. Yma mae cylchrediad masnach, a ffrwst celfyddyd, wedi

* Deut. xxviii: 56.

llwyr sefyll. Yn y cilfachau unig hyn, fel yn adeiladiad
 teml Salomon, ni chlywir swn llwy na morthwyl. Yr
 amwisg, a'r ysgrin, yw terfyn eithaf pob dyfais ddaearol.
 "Hyd yma gallant fyned, ac nid ymbellach."—Yma
 mae meibion hyfrydwch yn gadael eu boddiadau.
 Y cnawdol-ddyn nid eneinnir ag olew, ac ni choronnir
 â blodau mwy. Ni adseinia efe mwyach i felusder
 peroriaeth, ac ni loddesta efe mewn cyfeddach a gwim.
 Yn lle byrddau gwerthfawr a seigiau melusion, mae'r
 glwth, truan, ei hun yn wledd i chwilog tewychedig;
 yr ymlusgiaid a wtresant yn ei gnawd; a "melus yw
 gan y pryf ef."* Yma hefyd, y metha tegwch; i.e.
 dysclauer degwch a gyll ei lewyrch yma. O! fel y
 gwywa'i ros, ac y deifia ei lili, yn y tir oerlyd hwn!
 O! fel y mae'r cydwastadtâwr nerthol yn taflu dirnwyg
 ar hadoles ein calonau! Fel y mae efe yn troi i
 wrthuni yb hyn a gaethiwai y byd o'r blaen!

Pe gallai y carwr ond cael golwg ar y fôn, oedd
 unwaith yn hudolus ddeg, O! pa syndod cyffrons a'i
 meddiannai!—'Ai dyma'r gwrthddrych a gerais cyhyd
 gyda'r fath serchogrwydd gwresoglawn! Mi a ddy-
 wedais am dani, ei bod yn angylaidd brydferth; ac a
 dybiais ei bod yn rhyw beth mwy na marwol. Ei llun
 oedd gymmesuredd ei hun; pob prydfertwch a
 anadlent yn ei hagwedd, a dawiesau harddwch a
 weinient ar ei chamrau.—Ffrydiai mwynder peroriaeth
 pan lefarai; ond, pan lefarai gefnogiad, hi a canynai
 berlewgyfeydd. Fel y llamiai fy nghalon wrth ei
 haccenion hyfrydlawn!—Ac a all hiono, pa un o fewn
 ychydig wythnosau oedd yn hawddgar hyd at ryfedded,
 fod yn awr mor annyoddefol ffaidd?—Pa le mae'r

* Job xxiv. 20.

gruddiau gwridog hyny! Pa le mae'r gwefusau cwrel? Pa le mae'r gwddf ifori, ar yr hwn y chwareuai y gwallt modrwyog, yn droellau dysclaer-ddu? Gyda mil o degwch person, a deng mil o brydferthwch gweithrediad?—Syn gyfnewidiad! Wynfyd twyll-odrus!—Mi a syllais, gyda hoffder, ar yr oruchiad danbaid. Hi a lewyrchai yn ddysclaer; ac mi a'i camgymerais yn lle seren; yn lle daioni sylweddol ac arosol. Ond O! fel y syrthiodd! y syrthiodd o gylch nad oedd eiddi! Ac nid yw'r cwbl a allaf olrhain ar y ddaear ond pentwr llygredig!

Gorwedd, Florella dlawd! ie, isel orwedd, fel y gwnai, mewn tywyllwch dudew. Bydded i'r nos, a'i chysgodau annbreiddiadwy, dy orchuddio yn barhaus. Na fydded un llygad ymchwilgar yn dyst o'th am-barch; ond bydded i'th chwiorydd gorfucheddol feddwl am dy sefyllfa, wrth fyfyrion ar yr eilun yn y drych. Pan ymchwyddo'r ddelw foddhaus yn brydferth ar yr olwg, wedi ei hamgylchu â byd o degwch, a'i llawenyachu trwy gydwybodolrwydd o honynt oll,—yna, yn y munudau hyn o brofedigaeth a pherygl, pan arfero ysgafnder ymledrattâu dros y meddyliau—yna cofient y fath lèn o ddychryn a ledwyd dros wyneb a fu unwaith mor hardd a dysclaer a'r eiddynt hwythau. Gallai'r fath fyfyrdod cyfamserol reoleiddio trafferth y bwrdd-ymdrwsiad; a chreu awyddfyrd mwy difrifol i addurno'r tlws nag i drwsio'r blwch. Yna gallai ddyfod yn brif ymgais ganddynt, i gael yr enaid wedi

* Quo fugit Venus? Heu! Quove color? decens
 Quo motus? Quid habet illius, illius,
 Quæ spirabat amores,
 Quæ me surpuerat mihi?

Hor.

ei addurno â dwyfol rinweddau, a'i drwsio yn ol cynllun hawddgar sancteiddrwydd eu Prynwr.

Ac a ddiraddiai hyn eu personau, neu a niweidiai eu tegwch?—Yn hollol yn y gwrthwyneb. Taenai hyn fath o ogoniant nefol dros y pryd teccaf, a dyrchafai hawddgarwch pob perffeithiad arall.—A pheth sydd fwy dengar etto, ni wywai y blodau hyn gyda natur, ac ni ddeifid hwynt gan amser; eithr ymagorent yn barhaus mewn tegwch godidoccach, a blagurent hyd yn oed yn nghauaf benaint.—Ond prif ddigymhar ragoriaeth y rhinweddau hyn yw, y bydd, o'u gweddillion cyssegredig, fel o ludw peraroglaidd y *phenics*, i ffurf ardderchog gyfodi, mor ddyſclaer ag adenydd angylion, ac mor barhaus a goleuni y Jerusalem uchod.

O'm rhan i, caiff yr adgof o'r fath gyfnewidiad trist, beri i mi gywilyddio talu parchedigaeth ger bron allor o gnawd gwywedig, ac ofni dysgwyl fy holl ddedwyddwch oddiwrth lawenydd mor frau. Caiff fy nysgu i beidio meddwl yn rhy uchel am bridd cymmesuredig; er wedi ei ffurfio yn y dull prydfferthaf, a'i fywiocau â'r enaid hawddgaraf. Rhodd benaf, olaf, berffeithiol, y nefoedd yw—i'w derbyn gyda diolchgarwch, a'i meithrin gyda chariad, fel y fendith werthfawroccaf; ac nid i'w haddoli â pheraroglau gweniaith, ac odlau anrhydedd ffaidd, megis duwies.—Bydd iddo fy ngwellhau, gobeithio, oddiwrth wallgofrwydd fy llygaid; a'm tueddu i ddewis addurniadau sylweddol “ysbryd gostyngedig a rhinweddol,” o flaen yr harddwch darfodedig o wyn a choch ar y croen.

Yma mi a elwais yn ol fy myfyrdodau gwibiog, oddiwrth eu crwydriad hir ar y testyn tyner hwn.

Dychymmŷg a glustymwrandawodd, drôs ennyd, â hunan-yddiddan carwr. Yn awr rheswm a adafaela yn yr awenau, gan dywys fy meddyliau at ymofyniadau mwy agos a hunan-fuddiol.—Pa fodd bynag, wrth ail edrych dros yr holl olygfa, wedi ei chrugio â drychau o farwoldeb, a goresgyniadau angeu, ni allaswn ymattal rhag taro fy mynwes, a chyrhaedd ochenaid, a galaru wrth weled yr ardderchoccaf o'r holl bethau gweledig, wedi ei fwrw i lawr dan garnau “y march gwelw-las, a'r hwn sydd yn marchogaeth arno.”*—Ni allaswn lai nag adrodd y dywediad cyffrôs, “O! dydi Adda, pa beth a wnaethost?”† Pa anghyfannedd-dra a wnaeth dy amfudd-dod ar y ddaear!—O gynddaredd! ddinystriol gynddaredd pechod! Pechod a ddyfethodd gynifer o adeiladau gwychion o gnawd. Pechod a wnaeth y fâth ddifrod yn rhesi ardderchoccaf crëedigaeth isaf Duw: a pechod (gwenwyn marwol ein natur) a suddasai ein rhan oreu byth i ddychrynfeydd damnedigaeth, yn ngwaelodion uffern, oni buasai i'n Canolwr trugarog gyfryngu, a rhoddi ei hun yn iawn drosom.—Gan hyny, pa gydnabyddiaeth ddiolchgar sydd yn ddyledus oddiwrth fyd o bechaduriaid edifeiriol, a pha ad-daliadau gwresog o gariad fydd i'r holl nef o gredinwyr wedi eu gogoneddu dalu, i'r fath gyfaill, cymwynaswr, a gwaredwr!

Tra yr ydwyf yn myfyrio ar y testynau pruddion hyn, mae cofiadur ffyddlawm yn ysiwrwd o'm mewn, ‘A raid i'r cyfnewidiad athrist hwn gymmeryd lle o'm mewn *innau* hefyd? A wyf ffinau i dynu fy anadliad olaf, a myned yn gorph diffun, a bod yr hyn wyf yn

* Dat. vi. 8.

† 2 Esdras vii, 48.

ei alaru? A ydyw'r amser yn agoshau, pan fydd y corphwrn yn cael ei gludo ar yr elor, a'i draddodi i'w wely priddlyd, oer?*" Tra bydd, fe allai, rhyw gyfaill tyner yn tywallt un deigr yn ymadawol, gan lefain, O, fy mrawd!—A ydyw yr amser yn agoshau?—Nid oes dim yn sicrach. Mae deddf, lawer cadarnach na chyfraith y Mediaid a'r Persiaid, wedi penderfynu'r ddeddfryd ddi-alw'n ol.

Pe byddai i un o'r cysgodolion erchyll hyn ddryllio ei garchar, a neidio i fynu, mewn gwrthuni arswydus, ger fy mron—pe codai yr ysgerbwdd cul law drystiog, a'i chyfeirio yn llawn yn fy ngolwg—pe agorai efe ei enau sythion, ac â rhuad cryglyd ofnadwy, dorri'r dystawrwydd dwfn yma—pe cyfarchai efe fi, fel yr annerchodd drychiolaeth Samuel y brenin crynedig—“Yr Arglwydd a'th ddyry dithau hefyd yn nwyllaw marwolaeth: etto ychydig, a byddi *dithau* gyda mi.”†

* Tramwy'r ydwyf gyda phrudd-der,
Heibio i'r carneddau syn;
Gan fyfyrto, wrth ysgafu droedio
Ar y meirw hybarch hyn;
‘Amser fu, pan o'e'nt, fel finnau,
'N byw ac ymdaith yn y byd;
Amser ddaw, pan fyddaf finnau,
Fel hwynt-hwy, yn gelain fud.'—*Parnel*.

† 1 Sam. xxviii. 19. Mae Cyfieithydd y Myfyrdodau i'r Isellmynaeg wedi ychwanegu nodiad ar y man hyn, i ddiwygio, mae'n debygol, yr hyn a ystyria efe yn gamgymeriad. Ar yr un ystyriaeth, yr wyf yn golygu, y gorchymynodd casglwyr ein rhuddell i'r adnod olaf o Eccles. xli. i gael ei gadael allan yn ngwasanaeth beunyddiol yr eglwys. Ond fod y dyb y cyfeirir atti uchod yn wir, ac mai *was* *Shimuel* *hua*—Samuel ei hun (nid ysbryd uffernol, yn personoli y prophwyd) a ymddangosodd i'r ddewinies yn Endor; a ymddangosodd, nid mewn cydsyniad ag unrhyw swngyfaredd gythreulig, eithr yn unol â'r dwyfol orchymyn; mae hyn, yr wyf yn meddwl, wedi ei brofi yn llawn yn 'Hanes Bywyd Dafydd,' vol. i. chap. 23.

[Gan mae Saesnaeg yw'r llyfr a enwa Mr. Hervey, a chan hyny, ei fod yn annealladwy i'r Cymro uniaith, dymuna'r cyfieithydd hysbysu

Rhaid y byddai i'r rhybudd pwysig, wedi cael ei draddodi yn y fath ddull cyffrôs, gael argraffu ar fy meddwl. Prin y suddai cenadwri mewn tarfannau yn ddyfnach.—Etto mae rheswm llawer cryfach genyn i grynu wrth gyhoeddiad pendant yr Arglwydd Dduw Hollalluog, “Gan farw ti a fyddi farw.”—Yn awr, gan hyny, gan fod y ddedfryd wedi ei chyhoeddi; gan fy mod yn ddyn collfarnedig, ac nas gwn pa mor fuan y dichon arwaesaf marwolaeth ddyfod, bydded i mi farw i bechod, a marw i'r byd, cyn y byddwyf marw dan ergyd y Duw cyfiawn. Bydded i mi ddefnyddio tymhor ansicr oed y dienyddiad mewn parotoadau gogyfer a sefyllfa ddedwyddach, a bywyd gwell; fel pan ddel y funud angheuol; pan orchymyner i mi gau fy llygaid ar bob peth dan haul, y gallwyf eu hagor drachefn i weled fy Iachawdwr yn y trigfanau uchod.

Gan y rhaid i'r corph hwn, yr hwn a wnaed mor ofnadwy a rhyfedd, syrthio yn ddrylliau yn y llwch; gan y rhaid i mi roddi i fynu fy holl alluoedd corphorol i dywyllwch, anweithgarwch, a llygredigaeth, bydded fy ngofal parhaus i'w biawn ddefnyddio tra fyddont yn fy meddiant!—Bydded i'm dwylaw gael eu lledu allan i gynnorthwyo'r anghenog, a bod bob amser yn “barotach i roddi yn hytrach ná derbyn.”—Plyged fy ngliniau, gyda'r gostyngeddwrwydd dyfnaf, ger bron gorseddfaingc y gras; tra byddo fy llygaid wedi eu sefydlu ar y llawr mewn cythrudd edifeiriol, neu eu dyrchafu tua'r nef, gyda gwyllder, am drugaredd fadd-euol!—Ymhob ymweliad cyfeillgar, bydded “cyfraith

[idd y darlennydd, y geill efe weled tyb yr awdwr yn cael ei diffyn yn Ngeiriadur Ysgrythyrol Charles, dan y gair ‘Samuel;’ a'i gwrthwynebu gan P. Williams, yn ei Sylwadau ar 1 Sam. xxviii.]

trugaredd / fy nhafod;" tieu yn hytrach, os bydd difrifol eb fy nghydnabod yn caniatâu, dylifed efengyl y t-ugnefedd oddiar fy ngwefusan. O! na byddwn yn alluog, ymhob cynnulliad cyhoeddus, i ddirchafu fy llais fel udgorn, a thywallt ar led sain fwy gorfoleddus na'i accenion pereiddiaf ef, trwy gyhoeddi y newyddion da o iachawdwriaeth rad!—Ymgauwch, O! fy nghlustiau, ymgauwch yn ofalus, yn erbyn ysibrwd maleisus absen, ac anadl lygrol ysiarad halogedig: ond byddwch esgud i wrando addysgiadan doethineb; byddwch i gyd yn glust-ymwrandawriad, pan fyddo eich Pryn-iawdwr yn llefaru; drachtiwch y gwirioneddau gwerthfawr, a throsglwyddwch hwynt i'r galon.—Cludwch fi, fy nbraed, i deml yr Arglwydd, at welyau y cleifion, ac i anneddau y tlodion.—Bydded fy holl aelodau wedi eu cyssegru yn hollol i wasanaeth fy nwyfol Arglwydd, ac yn arfau ewyllysgar i ddwyn ymlaen ei ogoniant!

Yna, chwi eneinnwyr, chwi a ellwchi arbed eich trafferth. Y gweithredoedd hyn o ffydd, ac ymdrech-iadau cariad, a fyddant i mi yn enaint a pheraroglau. Wedi fy ngoblygu yn y rhai hyn, mi fynwn osod fy hun i lawr yn esmwyth, a huno yn felus yn yr Iesu bendigedig; gan obeithio, y "rhydd Daw orchymyn am fy esgyrn;" ac y bydd iddo, ryw ddiwrnod, eu codi o'r llwch, fel arian o'r ffwrn, wedi ei buro, "nid wyf yn dywedyd seithwaith, ond dengwaith a thrugain seithwaith."

Yma fy myfyrdod a gymmerodd yr adain, ac, mewn tarawiad, a ddisgynodd yn yr ardd yn ymyl Calfaria. Ar ol ymweled â thrigfan fy nghyd-greaduriaid trengedig, mi dybygaswn fod arnaf hiraeth am weled y fan

He gorweddodd ein Harglwydd.—Ac O! y fath olygfa ryfedd a ymddangosodd unwaith yn y beddrod hygof hwn! Efe, “yr hwn sydd yn gwisgo goleuni fel dilledyn, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt:”^{*}—*Efe* a welodd yn dda ymddilladu yn ngwisgoedd marwoldeb, a phreswyllo ymysg y meirw estynedig!—Pwy all adrodd y gwirionedd rhyfedd hwn yn rhy fynych? Pwy all fyfyrio ar y testyn cysurlawn yn rhy hir? Efe, yr hwn sy'n eistedd ar orsedd gogoniant, ac yn taenu dedwyddwch ymhlith yr holl luoedd nefolion; *Efe* a fu unwaith yn gelain welw a gwaedlyd, ac a orweddodd yn y fan fechan hon!

O Angeu! mor fawr oedd dy fuddugoliaeth yr awr hwno! Erioed ni chynnwysodd dy ororau dudew y fath garcharor o'r blaen.—Carcharor, ddywedais i? Nagê; yr oedd *Efe* yn fwy nâ gorchfygwr. *Efe* a gyfododd, yn llawer mwy nerthol nâ Samson, o hun fer; a ddrylliodd byrth, ac a ddystrywiodd amddiffyn-

* Yr ysgrythyrau, wrth lefaru am y Bod Goruchaf, a ddywedant—“Mae efe yn rhodio ar donau'r môr;” i ddangos ei allu anwrthwynebol, Job ix. 8.—“Mae efe yn rhodio ar gylch y nefoedd;” i arwyddo anrherfynoldeb ei bresenoldeb, Job xxii. 14.—“Mae efe yn rhodio ar adenydd y gwynt;” i osod allan gyflymdra aruthr ei weithrediadau, Psal. civ. 3.—Mae yn y dywediad olaf, yr wyf yn meddwl, odidog-rwydd a phwys na sylwyd arnynt gan ein deonglwyr, heb ddim etto mewn un ysgrifenydd yn gyfartal iddynt.—Nid, Mae efe yn hedfan, Mae efe yn rhedeg; ond, Mae efe yn rhodio, a hyny ar adenydd y gwynt; ar yr elfen fwyaf angherddol, wedi ei chyffroi i'r cynddeiriog-irwydd mwyaf, ac yn ysgubo'r cyfan gyda chwynder anamgyffredadwy!—Nid yw cythrwf mewn natur, nas gellir ei ddarlunio, ddim ond gwaith tawel a phwylllog y *Duwdod*. Buandra nas gellir ei fesur, nid yw (gyda pharch yr wyf yn arfer yr ymadrodd, ac i gydymddwyn â'n dull isel ni o amgyffred) ond cerddediad pwysig a mawreddog y *Jehofa!*—Mor wael yw'r llinellau canlyuol, hyd yn oed gan feistr mawr prydyddiaeth delynaidd,

“Ocyor cervis, et agente nimbos
Ocyor euro,”

wrth eu cymharu â'r tro digyffelyb hwn mewn prydyddiaeth ddwyfol—
“Mae efe yn rhodio ar adenydd y gwynt.”

feydd, yr arglwyddiaethau tywyllion hyn!—A hyn, O farwolion! hyn yw eich unig ddyddanwch a'ch diogelwch chwi. Yr Iesu a droediodd y ffordd arswydus, ac a'i llyfnhaodd, fel y gallech chwi ei thramwy.—Iesu, gan gysgu yn ystafelloedd y bedd, a lewyrchodd yr annedd dywyll, ac a adawodd berarogl dengar yn y gwelyau llwch hyny. Yr Iesu trangcedig! (byth na adewch y gwirionedd dyddanus i gilio o'ch meddyliau! Yr Iesu trangcedig!) yw eich cadarn ymgeledd, a'ch taith-drwydded ddilys, trwy ororau'r bedd. Credwch ynddo Ef, a byddant yn “brif-ffordd i Sion;” a thywysant chwi yn ddiogel i Baradwys. Credwch ynddo Ef, ac ni byddwch yn golledwyr, eithr yn ynnillwyr annhraethol, trwy eich dattodiad. Canys, clywch beth a ddywed gair y nef ar y pwngc pwysig yma: “Pwy bynag a gredo ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd.”*—Y fath iaith uchel a chadarn yw hon! Rhaid ei bod yn cynnwys hyn, o leiaf—‘Y bydd i natur y cyfnewidiad olaf gael ei arallu yn rhyfedd er gwell. Ni bydd iddo mwyach gael ei roddi fel cosp, eithr ei gyfranu fel bendith. I'r cyfryw rai, efe a ddaw gyda'r fath gyfres o fanteision, ag a'i gwna yn fath o anhriodoldeb dedwydd i'w alw'n farw. Marw! nagê; pryd hyny, mewn gwirionedd, maent yn dechreu byw. Eu hymadawiad yw terfyn eu breuoldeb, a dechreuad eu perffeithrwydd. Eu huchenaid olaf sydd yn rhaglith bywyd ac anfarwoldeb.’

O chwi eneidau ofnus! y rhai a arswydwch wrth swm yr arwyl-gloch; a drowch yn welw ar yr olwg ar fedd yn cael ei agor; ac nas gellwch edrych ar ysgrin neu benglog heb aeth a chryndod! Chwi, y rhai ydych

* Ioan xi. 26.

yn gaeth gan y gormeswr irad, ac a grynwch rhag ysgydwad ei wialen haiarn, llefwch yn rymus ar Dad yr ysbrydoedd am ffydd yn ei anwyl Fab: ffydd a'ch rhyddha o'ch caethiwed.* Ffydd a'ch hyfha i sathru ar (hwn y creulonaf o) seirph.†—Yr hen Simeon, gan gofleidio y plentyn Iesu yn mreichiau ei gnawd, a'r Cyfryngwr gogoneddus yn mreichiau ei ffydd, sydd yn ymadael mewn tawelwch a thangnefedd. Yr erlidiwr chwerw hwnw Saul, wedi ennill Crist, wedi ei gael yn Nghrist, sydd yn hiraethu am ei ryddhad o'r pridd rhwystredig, ac yn ymennyn i berlewygfydd yn yr olwg ar ei ddattodiad.‡—Mi dybygwn y gwelaf un arall o ganlynwyr Emanuel, gan ymddiried yn ei Iachawdwr, a phwyso ar ei Anwlyd, yn myned i waered i'r cysgodau dystaw gyda meddwl heddychlaw'n a bywiog.§—Yn yr enw galluog hwn, torf aneirif o greaduriaid pechadurus a osodasant i fynu eu

- * “Arswyd marwolaeth ydyw'r mynydd hyll
A symmud ffydd: ffydd ddiarfoga ddystryw.
Cred, ac edrycha'n dawel ar y bedd.”

Yr wyf yn ymfalchio benthycia y llinellau uchod, a rhai difyniadau ereill, o'r Nos Feddyliau, (*Night Thoughts*), yn enwedig Nos y 4edd: yn yr hon, cadernid iaith, uchder tyb, ac addurmiadau penaf prydyddiaeth, ydynt y perffeithderau lleiaf i'w mawrhau. Mae pob llinell braidd yn ennyn gan dduwioldeb, yn codi i'r amgyffrediaidau mwyaf dyrchafedig am y Gwardwr addoladwy, a chwedi eu bywiogi â'r ffydd wresoccaf yn ei holl-ddigonol gyfryngdod. Mae awdwr y cyflawniad godidog hwn yn meddu y dedwyddwch neillduol o ardderchogi holl gryfder iaith, a phob ardderchogrwydd meddwl, a gwirioneddau mawrión a goruchel Crist'nogrwydd. Mae'r ysgrifau hyn yn rhoddi'r difyrwch mwyaf i'r ddychymmyg, ac yn cyfranu'r lleshad rhagoraf i'r meddwl. Maent nid yn unig yn coethi'r archwaeth, ond yn ein parrottoi i farw, ac yn ein haddfedu i ogoniant. Nid wyf byth yn ymaffyd yn y gerdd ryfeddol hon, nad wyf yn barod i lefain allan—“*Tecum vivere amem, tecum obeam libens!*” h. y. “Ennyn ynof yr un ysbryd, a bydd bywyd yn hyfryd, neu angeu yn roesawgar.”

† Luc x. 19 † Phil. i. 23. 2 Tim. iv. 7, 8. § 2 Pedr i. 14.

banerau, ac “a orchfygasant trwy waed yr Oen.” Wedi dy awdurdodi gan Gadpen dy iachawdwriaeth, gelli dithau hefyd osod dy droed ar wddf brenin dychryniadau. Wedi dy gynnysgaeddu â'r gyfaredd hon, gelli dithau hefyd chwareu o amgylch twll yr asp, a gosod dy law yn ddigryn ar ffau'r wiber.* Gelli deimlo'r wiber† yn glynu wrth dy ran farwol, heb ofni drwg: tydi a gei, ryw ddiwrnod, ei hysgwyd ymaith trwy adgyfodiad gorfoleddus, heb ddyoddef niwed.

Adgyfodiad! mae'r gair cysurus hwnw yn rhyddhau fy ysbryd oddiwrth feddwl pryderus, ac yn ateb gofyniad o'r pwys mwyaf. Yr oeddwn yn myned i ofyn, ‘Paham y gorwedd y celanedd hyn yma, yn yr agwedd wael hon? Ai dyma ei sefyllfa olaf? A orchfygodd Angeu, ac a ddeil efe ei gaethiwed yn gaeth? Pa hyd, Arglwydd, yr anghofi hwynt? Ai yn dragywydd?—Nagê, medd llais o'r nef, gair y dwyfol ddatguddiad; “Y cyfiawnion ydynt oll yn garchar-orion gobeithiol.”‡ Y mae awr, (dirgelwch ofnadwy, hysbys i'r oll-ragwelol Ddoethineb yn unig.) y mae awr wedi ei phenderfynu, pan esyd gweithred rasol y sel fawr uchod, a rhoddi iddynt lwyr ryddhad; gwarredigaeth gyffredinol o drigfanau llygredigaeth. Yna y disgyn yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyda bloedd yr archangel, ac ag udgorn Duw. Dystryw ei hun a glyw y llef hon, a'r bedd, yn ufudd, a rydd i fynu ei feirw. Mewn moment, ar darawiad amrant, hwy a ysgydwant ymaith gwsg denig mil o flynyddoedd; ac a neidiant, fel y llama'r hydd, i “gyfarfod â'u Harglwydd yn yr awyr.”

Ac, O! gyda pha roesawiad gwresog, gyda pha


* Esai. xi. 8.

† Act. xxviii. 3.

‡ Zec. ix. 12.



"Bloedd yr archangel, ac ulgorn Duw."



anwyldeb perlewygol, mae'r corph a'r enaid, y cyfeillion serchoglawn hyny, yn ail-ymuno! Ond gyda pha faint mwy amlygiadau o diriondeb mae'r ddau yn cael eu derbyn gan eu Gwardwr tosturiol! Yr Hen Ddihenydd, yr hwn sydd yn dyfod ar gymhylau'r nef, yw eu Cyfaill, eu Tad, a'u Priod. Mae efe yn dyfod gyda gallu anwrthwynebol a gogoniant anfeidrol; ond nid oes ganddynt hwy ddim i'w ofni oddiwrth ei ymddangosiad ardderchog. Yr arbenigrwydd ofnadwy hwnw, sydd yn taenu dystryw a syndod trwy yr holl fydysawd, nid yw yn cael un effaith arnynt hwy, namyn ennyn eu cariad, a dyrchafu eu gobaith. Y Barnwr, y Barnwr ofnadwy, ynghanol ei holl rwysg a'i fawrhydi, a deilynga gyffesu eu henwau, a deilynga goffhau eu ffyddlondeb, ger bron holl breswylwyr yr uchelder, a'r holl fyd cynnulledig.

Clywch! mae'r taranau yn dystewi! Wele! y mellt a roddant heibio eu cynddaredd! Yr holl luoedd angylaidd a safant mewn petrusder mud. Mae holl hil Adda wedi eu llanw â dysgwyliad boddhaol neu ofidus.—Ac yn awr, y Person addoladwy hwnw, ewyllys da yr hwn sydd well nâ bywyd, a derbyniad yr hwn, yn goron o ogoniant, a ddyrcha lewyrch ei wyneb ar y cyfiawnton. Mae efe yn llefaru; a pha eiriau melus a ddyferant oddiar ei wefusau grafol! Pa berlewygfeydd o hyfrydwch a ennynant yn mynwesau'r ffyddloniaid!—'Yr ydwyf yn eich derbyn chwi, O fy mhobl! Chwychwi yw y rhai a gredasoch yn fy enw. Chwychwi yw y rhai a ymwadasoch â chwi eich hunain, ac yr ydych yn gyflawn ynof fi. Nid wyf yn gweled na brycheuyn na chrychni ynoch; canys chwi a olchwyd yn fy ngwaed, ac a wisgwyd yn

fy nghyfiawnder. Wedi eich adnewyddu trwy fy Ysbryd, chwi a'm gogoneddasoch ar y ddaear, ac a fuoch ffyddlawn hyd anghyfeirdd. Deuwch, ynteu, chwi weision sancteiddrwydd, ewch i mewn i lawenydd eich Harglwydd. Deuwch, chwi blant y goleuni; chwi fendigedigion fy Nhad; derbyniwch y deyrnas, yr hon ni ddygir oddi arnoch; gwisgwch y goron, yr hon ni ddiiflana; a mwynhewch hyfrydwch o hyn allan yn dragywydd!

Yna un o freintiau lleiaf y cyfiawnion fydd, na ddihoeniant mwy; na ddengys clefyd byth o'i wyneb-ryd gwelw yn eu trigfanau.* Anghyfeirdd ei hun a "lyngcir mewn buddugoliaeth." Y waywffon anghyfeirdd hōno, a yfodd i fynu waed brenhinoedd, ac a gafodd ffordd i galonau holl feibion Adda, a ddryllir yn hollol. Y crymman dirfawr hwnw, a darawodd ymerodraethau o'r gwraidd, ac a ysgubodd oesoedd a chenhedlaethau i anghof, a orwedd yn dragywyddol ddi-ddedfydd! Pechod, hefyd, yr hwn a lanwodd dy gawell di, O ddinystrydd annigonol!—Pechod, yr hwn a ewynodd dy fraich di â grym anwrthwynebol—yr hwn a anelodd dy saethau â dystryw anocheledwy—Pechod a ddilëir y pryd hwnw. Pob peth brau a llygredig a deflir ymaith gyda gwisgoedd y bedd. Pob peth i ddyfod sydd yn berffaith sancteiddrwydd a chyflawn ddedwyddwch, ysbaid parhad yr hwn yw tragywyddoldeb.

* Esaia, wrth lefaru am y Jerusalem newydd, a grybwylla hyn fel un o'i rhagorfreintiau: "Ac ni ddywed y preswlydd, Claf ydwyf." Erthygl arall yn y freinsgrif frenhinol a red fel hyn: "Ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt; ac ni bydd marwolaeth mwyach, na thristwch, na llefain; na phoen ni bydd mwyach," Esaia xxxiii. 24. Dat. xxi. 4.

O dragywyddoldeb! dragywyddoldeb! fel mae ein meddyliau mwyaf cryfion ac anturiol yn cael eu colli ynot ti! Pwy a ddichon osod ffiniau i derfynu dy fesurau, neu gael allan blymèni i wrhydi dy waelodion? Mae gan rifyddwyr nodau i fwrw holl hyntiau amser; mae gan seryddion beiriannau i gyfrif pellder y planedau: ond pa rifnodau a allant sefydlu, neu pa linellau a allant gyfartalu, hŷd a lled tragywyddoldeb? “Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di wybod? Mae ei fesur yn hwy nâ'r ddaear, ac yn lletach nâ'r môr.”*

Ddirgelaidd, alluog fodoliaeth! Swm, na ellir ei fychanu trwy y tyniadau mwyaf oddi wrtho! Meithder, na ellir ei gyfyngu trwy unrhyw leihad dichonadwy! Ni all neb ddywedyd yn wirioneddol, ar ol y difrod mwyaf aruthr o oesoedd, ‘Mae cymmaint o dragywyddoldeb wedi myned heibio:’ canys pan ðl myrdd o ganrifau heibio, nid ydyw ddim ond dechreu; a phan redo myrdd eilwaith eu cylch äang, nid yw ddim nes i derfynu. Ië, pan fyddo oesoedd, cyn amled a blagur gwanwyn, wedi eu cynnyddu gan borfa haf, y ddau wedi eu mwyhau gan ddail hydref, i gyd wedi eu lliosogi gan y defnynau gwlaw a orchuddiant y gauaf; pan fyddo'r rhai hyn, a deng mil mwy—mwy nag ellir eu darlunio trwy unrhyw gyffelybiaeth, na'u hamgyffred gan unrhyw ddychymmyg—pan fyddo y rhai hyn oll wedi cylchredeg a therfynu, tragywyddoldeb, y maith, y diderfyn, yr aruthrol dragywyddoldeb, ni bydd ddim ond dechreu!

Y fath ystyriaeth gysurus, etto ofnadwy, yw hon! Mor llawn o hyfrydwch, ac mor llawn o arswyd!

* Job xi. 8, 9.

O! cyffröed ein hofnau, ennyned ein gobaith, ac adfywied ein hymdrechiadau! Gan ein bod ni i ymwithio yn fuan i'r sefyllfa ddiderfyn ac amgyffredadwy hon, rhoddwn bob diwydrwydd i ddiogelu ein mynedfa i mewn i ddedwyddwch.—Yn awr rhoddwn bob diwydrwydd, canys nid oes un cyfnewidiad yn y byd a ddaw. Nid yw'r olwyn byth yn troi: mae'r cwbl yn ddiysgog ac anghyfnewidiol tu hwnt i'r bedd. Pa un bynag a fyddwn ai wedi ein gosod ar yr orsedd, ai wedi ein hestyn ar yr arteithglwyd, bydd y sel wedi ei gosod wrth ein cyflwr, naill ai gan law trugaredd dragywyddol, neu gyfiawnder anhyblyg.—Mae'r saint yn llawenychu yn oestadol ymblith gwenau'r nef; mae eu telynan yn barhaus mewn hwyl; a'u gorfoledd heb un rhwystr.—Mae dinystr y rhai drygionus yn anfeddyginiaethol. Y ddedfryd angeuol, a gyhoeddwyd unwaith, ni elwir byth yn ol. Nid oes ganddynt un gobaith am gyfnewidiad byth yn eu trigfanau alaethus; eithr pob peth a wisga'r un agwedd dywyll, yn oes oesoedd.

Y rhai drygionus—mae fy meddwl yn adlamu* rhag yr ystyriaeth o'u trueni. Mae efe wedi gohirio y testyn wylofus yn fwriadol; ac hyd yn oed yn awr, yn ymddangos yn anfoddlawn i'w ganlyn.—Ond gwell yw myfyrio arno am ychydig funudau, nâ'i ddyoddef am oesoedd tragywyddol. Gallai yr ystyriaeth o'u trueni cyffröus fod yn fuddiol ddychrynlyd: gallai fy nysgu i werthfawrogi yn wresocchach y Iachawdwr, yr hwn a "weryd rhag myned i lawr i'r pydew diwaelod:" gallai fy ngyru, fel cleddyf y dialydd, i'r unig ddinas noddfa i bechaduriaid gwrthryfelgar.

* Animus meminisse horret, luctuque refugit.—*Virgil.*

Y rhai drygionus a ymddangosant yn gorwedd yma fel drwgweithredwyr mewn carchardy dwfn a chadarn, i'w cadw erbyn dydd y prawf.—“Eu hymadawiad nid oedd mewn heddwch.” Cymhylau o ddychryn a ygent ar eu hamrantau cauedig, gan ragarwyddo, yn y modd mwyaf athrist, “fagddu tywyllwch yn dragwydd.” Pan afaelodd y clefyd olaf yn eu cyfansoddiad, a phan neshodd y cyfnewidiad anocheladwy; pan welsant y saeth angeuol yn cael ei darparu i'i llinyn; y saethydd marwol yn anelu at eu calonau; a phan deimlasant y biccell yn glynu yn ffynnon eu bywyd,—Arglwydd daionus! y fath ofn a ddaeth arnynt! Y fath arswyd dychrynlyd a'u tôdd! Fel y safent, gan wylltio ac ysgrydu ar fin y dibyn echryslawn! Yn brawychu yn aruthr rhag syrthio i'r llyngclyn tragywyddol, ac etto yn hollol analluog i ymgynnal ar ymyl bywyd.

O! y fath adystyriaethau torcalonus, a'r fath rago-lygfeydd erchyllion, a gydfwriadent i fwyhau eu tristwch!—Maent yn edrych yn ol, ac yn gweled yr olygfa fwyaf prudd! pechodau heb eu maddeu, trugar-edd wedi ei dibrisio, a dydd gras yn darfod!—Maent yn edrych ymlaen, ac nid oes dim yn ymgynnyg i'w golwg, ond y Barnwr cyfiawn, y frawdle ofnadwy, a'r cyfrif manylaf.—Maent yn treiglo eu llygaid brawychus o amgylch ar eu cyfeillion gweinyddol. Os cydgyfranogion mewn aflendid, mae yn awchlymu eu gofid, i ystyried mai nid pechu eu hunain yn unig a wnaethant, ond iddynt dynu ereill hefyd i'r fagl. Os cydnabod crefyddol, eu calonau a glwyfir o newydd, wrth feddwl na chânt eu gweled byth mwy, namyn o hirbell, wedi eu hysgaru gan agendor fawr, anhyffordd.

O r diwedd, fe allai, y dechreuant weddio. Pan maent yn gweled pob ffordd arall o ymwared yn pallu, gwesgir hwynt i alw ar yr Hollalluog. A gwefusau crynlyd, ac â thafod telgynog, y llefant ar y Goruchaf, "yr hwn sydd yn lladd ac yn bywhau."—Ond pahan yr oedasant, yr oedasant cyhyd, cyn galw ar yr Arglwydd? Pahan y diystyrasant ei holl gynghorion, ac y safasant heb un diwygiad dan ei geryddon dibaid? Pa mor fynych y rhagrybuddiwyd hwynt o'r dychryn-fâau hyn, ac y cymbellwyd hwynt yn y modd taeraf, i "geisio yr Arglwydd tra gallesid ei gael?"—Mi a fynwn pe gallent dderbyn trugaredd ar yr unfed awr ar ddeg, yr awr olaf. Mi a fynwn pe gallent gael eu cipio o safn damnedigaeth, yr hon sydd yn agored, yn llydan, ac ar gauad am danynt. Ond, och! pwy all ddywedyd pa un a rydd y Mawrhydi a sarhasant glust i'w cwyn? a weithreda y Sanct ryw wyrth o ras ar ran y fath droseddwyd? Efe a ddichon, o ran dim a wyddom ni, "chwerthin yn eu dialedd hwynt, a gwawdio pan syrthio arnynt yr hyn maent yn ei ofni."

Fel hyn y gorweddant, gan riddfan allan weddillion bywyd; a'u haelodau wedi eu gorchuddio â chwys; a'u calonau yn ymdrechu â'r llewygon dirdynol; poenau annyoddefol yn dychlamu gyda phob anadliad; a phiccellau aneirif o drallod yn trywanu y y gydwybod;—

Och! fel y gwylltia'r enaid, yn yr awr
 Ddychrynlyd hōno, o gylch muriau pridd
 Ei phabell, i bob adwy rhed, am nawdd
 Ysgrecha'n ofer! Wylted sylla hi
 Ar oll a âd, mwy nad ei heiddo yw.
 Ychydig bach, ychydig bach yn hwy,
 Nad allai aros! i lanhau ei hun;

A pharottoi i fyned! Olwg brudd!
 Ei llygaid wylant waed! a llawn o fraw
 Yw pob ochenaïd! Ond y gelyn, fel
 Llofruddiwr gwaedlyd, o ddiysgog fryd,
 A'i canlyn trwy heolydd bywyd oll,
 Heb unwaith golli 'i hol; ond gwasg ymlaen
 Nes, wedi 'i gwthio i'r dibyn aethlyd hyll,
 Ar unwaith sudda hi.*—

Os dyma ddiwedd yr annuwiolion, "Fy enaid, na thyred ti i'w cyfrinach! Fy ngogoniant, na fydd un â'u cynulleidfa!"—Mor arswydus y cyflawnir y rhag-ddywediad hwnw o eiddo dwyfol Ddoethineb! Pechod, er yn ymddangosiadol felus yn y cyflawniad, etto, "yn y diwedd, efe a frath fel neidr, ac a biga fel sarph."—Ffowch, gan hyny, o bebyll, O ffowch o ffyrdd y fath ddyinion gresynus!

Ymddattodiad dedwydd! pe byddai hyn yn derfyn eu hing. Ond, och! nid yw'r holl drallodion hyn ddim ond "dechreu gofidiau;" dafn fechan yn unig o "gwpan syndod," yr hwn sydd yn cael ei gymmysg i fod yn rhan dragywyddol iddynt.—Cyn gynted ag y gyrror'r loes olaf eu heneidiau hwyrffrydig allan, gyrrir hwynt i bresenoldeb Duw digllawn, sorredig. Nid dan ofal arweiniol angylion gwasanaethgar, eithr wedi eu traddodi i sarhad ysbrydion melldigedig; y rhai yn ddiweddar a'u temtient, yn awr a edliwiant iddynt, a thros byth a'u poenydiant.—Pwy all amgyffred eu cythrudd a'u cyfyngder, pan safant, yn euog a diesgus, ger bron eu Creawdwr digiedig? Dan ygu y derbynia efe hwynt. Y Duw a'u gwnaeth "ni thosturia wrthynt."† Tywysog tangnefedd a'u gwrthyd gydag atgasrwydd. Mae efe yn eu traddodi i gadwynau tywyllwch, a thrigfanau anobaith, erbyn barn dostach, a gwarth

* Gwel Gerdd werthfawr a elwir 'Y Bedd,' (*The Grave.*)

† *Esai. xxvii. 11.*

cyhoeddus, y dydd mawr. Yna, holl phiolau digofaint a arllwysir ar y creaduriaid gresyn yma. Y gyfraith a droseddasant, yr efengyl a ddirmygasant; y gallu a heriasant, a'r daioni a gam-ddefnyddiasant; i gyd a fynant anrhydedd yn eu dinystr hynod. Yna Duw, y Duw i'r hwn y perthyn dial, a dŷn y saeth hyd at y pen, ac a'u gesyd hwynt yn nod i'w anfoddlonrwydd anghymmudlawn.

Adgyfodiad ni bydd yn fraint iddynt hwy, ond bydd anfarwoldeb ei hun yn felldith dragywyddol.—Oni fendithient hwy y bedd, “y tir lle yr anghofir pob peth,” gan ddymuno gorwedd yn dragywydd yn ei dywyllwch dyfnaf? Ond y llwch a wrthyd guddio eu personau, ac ni thaen efe hug dros eu gweithredoedd. Rhaid iddynt hwythau hefyd ddeffroi, rhaid codi, rhaid ymddangos yn y frawdle, a chyfarfod á'r Barnwr: Barnwr, o flaen yr hwn “y crŷn colofnau'r nef, ac y tawdd y ddaear ymaith!” Barnwr a fu unwaith yn hirymarhous a thosturiol iawn, eithr yn awr yn anghynewidiol benderfynu dysgu i droseddwyr ystyfnig,—beth yw cynhyrfu yr hollalluog Dduwdod; beth yw mathru gwaed ei Fab ef, ac amharchu cynnygion ei Ysbryd.

O! y cyfyngder, y gwallgofrwydd, raid afaelu yn y gwrthryfelwyr anedifeiriol, pan wysier hwynt o flaen y frawdle fawr!—Pa beth a wnant yn nydd yr ymweliad llymdost hwn, y dydd hwn o benderfyniad tragywyddol?—Pa le, pa fodd, oddiwrth bwy, y gallant ddysgwyl cymborth?—At bwy o'r saint y troant hwy? I ba le yr wynebant am gysgod a nodded;—Och! mae'r cwbl yn ofer; y cwbl yn rhy ddiweddar. Cyfeillion a chydabod ni adwaenant hwynt mwyach.

Dynion ac angylion a'u gadawant i'w dedfryd ddy-nesol. Ië, y Cyfryngwr, y *Cyfryngwr* ei hun, a'u gwrthyd yn yr awr ddychrynlyd hon.—Ffoi fydd yn annichonadwy; cyfiawnbau eu hunain yn fwy analluadwy etto; a gwneuthur ymbiliau yn awr, fydd yn hollol ddileshad.

Wele! y llyfrau yn cael eu hagog: dirgelion pob calon yn cael eu dynoethi: a chuddiedig bethau tywyllwch yn cael eu dwyn i'r goleu. Mor weigion ac aneffeithiol yn awr yw yr holl gyfrwysderau cynnylion, trwy ba rai y twyllai rhagrithwyr eu cyd-greaduriaid, ac y cadwent eu henwau da ymblith dynion!—Mae'r Duw eiddigus, yr hwn a amgylchodd eu ffyrdd, a amgylchodd eu gorweddfâau, ac a ganfu eu holl lwybrau, yn gosod ger eu bron y pethau a wnaethant. Ni allant ateb iddo am un o fil, na sefyll yn y farn ofnadwy. “Y nefoedd a ddatguddiant eu hanwireddau, a'r ddaear a gyfyd yn eu herbyn.”* Maent yn fudion gan euogrwydd, ac yn warthruddiedig gan gywilydd, ger bron holl luoedd y nef, a holl dylwythau y gwaredigion.—Y fath fraint y cyfrifent hwy gael cuddio eu penau gwaradwyddus yn eigion y môr, neu hyd yn oed gael eu claddu dan ddadfeiliau y byd sigledig!

Os bydd y gwarth a deflir arnynt fel hyn yn annyddoddefol; pa fodd y deil eu calonau, pan dyner cleddyf anfeidrol ddigofaint o'r wain, ac y chwyrneller ef yn angerddol o amgylch eu penau dinawdd, neu pan gyfeirier ef yn gywir at eu mynwesau noethion? Fel y rhaid i'r trueiniaid ysgrechain gan syndod gwyllt, a rhwygo hyd yn oed y nefoedd a'u bloedd-

* Job xx. 27.

iadau, pan fyddo'r mellt cochion anelog yn myned ar led! ya myned ar led, gydag awdurdod arswydus, i'w gyru hwynt allan o deyrnas y gogoniant, a'u suddo—nid mewn tristwch munodyn, neu arteithiau awr—ond yn holl loesion diorphwys tân anniffoddadwy, ac anobaith tragywyddol.*

Trueni pob trueni! rhy alaethus i fyfyrdod aros arno. Ond, os yw mor ddychrynlyd i'w ragweled, a hyny o bell, a chyda gradd o hyder cysurus am ddiangc rhagddo—O! mor chwerw, mor anamgyffred-dwy chwerw, fydd ei ddyoddef, heb un seibiant, heb un esmwythâd, tros oesoedd anobeithiol a diddiwedd!

Pwy sydd â dim ymysgaroedd tosturi? Pwy sydd â dim syniadau o gydymdeimlad? Pwy sydd â dim gofal tirion am ei gyd-greaduriaid? Pwy—yn enw'r Arglwydd, ac er mwyn Crist, dangosed hwynt; trwy rybuddio pob dyn, ac attolygu ar bob dyn, i geisio'r Arglwydd tra gellir ei gael; i dafu i lawr arfau gwrthryfel, tra mae maddeuant yn cael ei gynnyg; ac i addoli'r Oen yn ostyngedig, tra mae efe yn dal allan y deyrnwialen aur. Yn hyn, gwnawn ran gyfeillgar â dynolryw. Yn hyn, ymegnied holl rym ein cymmwynasgarwch, yn nghynghori perthynasau, cyfeillion, cymmydogion, pwy bynag y byddom yn debyg o lwyddo gyda hwynt, i gymmeryd adenydd ffydd ddi-fuant, ac edifeirwch dioed, a ffoi rhag y llied a fydd.

Ar y cyfan, y fath ddatguddiadau rhyfedd yw y rhai hyn! Trysora hwynt mewn cof ffyddlawn, O fy

* Gororau tristwch, a chysgodau gwae,
Lle ni all hedd, a seibiant drigo byth;
A gobaith byth ni ddaw, a ddaw i bawb:
Ond poen didrancg ymyr, a diluw tân,
A borthir byth gan frwmstan llosg didraul. —*Milt.*

enaid! Adgofia hwynt gyda'r sylw mwyaf difrifol, pan orweddech i lawr, a phan godech i fynu. Pan rodiech, byddent yn gydymdeithion i ti; pan ymddiddanech, gwrandaw arnynt fel dy glust-weinyddion; a pha beth bynag a wnelech, ymagynghora â hwynt fel dy gyfarwyddwyr.—Dan effaith yr ystyriaethau hyn, dy olygiadau a ïangir, dy serch a ddyrchefir, a thydi dy hun befyd a godir uwchlaw gallu twyll-addewidion pethau darfodedig. Gan iawn ystyried y pethau hyn, swm dy holl ddymuniadau, a thuedd-nod dy holl ym-röadau a fydd, ennill cymmeradwyaeth y Bod hwaw, yr hwn pryd hyny fydd yn llenwi'r orsedd, ac yn cyhoeddi y ddedfryd benderfynol. Ni elli weled dim yn werth dy ddymuniad,* mewn cymhariaeth i gael ei ewyllys ef fel dy reol; ei ogoniant ef fel dy ddyben; a'i Ysbryd Glân fel dy fyth-gynhyrfiol egwyddor.

Syna, O ddyn! a rhyfedda yn aruthrol, rhag y dygwyddiadau dirfawr, sydd yn dyfod ar y bydysawd; dygwyddiadau, o ran mawredd, na ddichon dim meidrol eu mesur; y cyfryw ar a barant i ba beth bynag sydd yn fawr ac yn bwysig, yn nghofion yr holl genhedlaethau, suddo i fychander a diddymdra. Dygwyddiadau (Iesu parottoa ni erbyn eu dyfodiad! diffyn ni pan gymmeront le!) beichiogion ar dynghedsâu tragwyddol y byw a'r meirw!—Rhaid i mi weled y beddau yn agor, y môr yn ymddwyn; a heigiau annysgwylidig, lluoedd dirifedi, ïe, holl dyrfaoedd y cenhedlaethau cynnulledig, yn codi o'r ddau.—Rhaid i mi weled y byd yn fflamiau; rhaid i mi sefyll pan

* Dydd mawr anobaith, barniad byd, a braw!
Wrth feddwl arnat pob daearol gais
Olynga i afael daer, gan ado'r byd.

fyddo'r holl bethau daearol yn ymollwng, a bod yn weinyddwr ar gladdedigaeth natur.—Rhaid i mi weled èangder maith yr wybren yn cael ei blygu i fynu fel llyfr, a'r Duw yn y cnawd, yn tarddu allan o oleuni annhreiddiadwy, gyda myrdd myrddiynau o angylion, i farnu dynion a chythreuliaid.—Rhaid i mi weled llèn amser yn syrthio, gweled holl dragywyddoldeb yn cael ei ddynoethi i'm golwg; a dechreu ar sefyllfa o fodoliaeth, na chaiff byth, byth derfyniad.

Ac oni ddylwn i (barned y meddwl coegaf, oni ddylwn i) brofi cywirdeb fy ffydd, a chymmeryd gofal am fy ffydd? A oes rhyw ymfyniad, a oes rhyw ofal o fwy, o gymmaint, o gymparol bwysfawrogrwydd?—Onid oes arnaf alwad anfeidrol deilwng o'm sylw, i edrych ar fod fy lwynau wedi eu gwregysu, fy lamp wedi ei thrwsio, a minnau fy hun yn barod erbyn dyfodiad y priodfab! Fel, wedi fy ngolchi yn y ffynnon a agorwyd yn ystlys fy Ngwardwr, a'm dilladu yn y briodas-wisg a weuwyd trwy ei ufudd-dod, i'm ceir mewn heddwth difeius, a diargyoedd.—Os amgen, pa fodd y gallaf fi sefyll gyda hyfdra, pan fyddo ser y nef yn syrthio o'u cylchoedd? Pa fodd y gallaf fi ddyfod allan yn uniawn a chalonnog, pan fyddo'r ddaear ei hun yn ymsymmud fel meddwyn!* Pa fodd y gallaf edrych i fynu mewn gorfoledd, a gweled fy iachawdwriaeth yn agoshau, pan fyddo calonau myrddiynau a myrddiynau yn methu gan ofn?

Yn awr, Madam, rhag i'm Myfyrdodau fachlud dan gwmwl, a gadael unrhyw dywyllni gofidus ar eich meddwl, goddefwch i mi droi unwaith etto at olygfeydd llewyrchus y cyfiawnion. Golwg arnynt hwy,

* Esai. xxiv. 20.

a'u gobaith hyfrydlawn, a ddichon wasanaethu i lònï y meddyliau, a fuant yn myfyrio ar wrthddrychau pruddion, ac yn hedfan o amgylch ymylon tywyllwch uffernol; megis y mae maes äang, wedi ei ddilladu mewn gwyrddni, yn adfywio, ac yn adgyfnerthu y llygad, a lueddodd ei hun wrth graffu ar ryw wrthddrych bychan, neu syllu ar un dysclaer.

Y cyfiawniàn a ymddangosant yn gorwedd yma, fel llong-lywydd gochelgar mewn rhyw gilfach gysgodol, nes bydd yr holl dymhestloedd, a flinant ein byd isod hwn, wedi myned heibio. Yma maent yn mwynhau angorfa ddiogel, nid ydynt mewn un perygl o gael eu llong-ddryllio ar greigiau unrhyw brofedigaeth gadarn, na suddo ymhlith tônau anwiredd llwyddiannus. Ond, cyn hir, cawn eu gweled yn chwyfio baner eu gobaith; ac yn morio o flaen awel beraroglaidd rhinwedd iawnol, a chariad gwaredol; nes, gyda holl hwyliâu ffydd ddiysgog, y cyrhaeddont y porthladd gwynfydedig o fywyd tragywyddol.

Pryd hyny, bydded i'm cyfeilles anrhydeddus, at yr hon yr ydwyf yn ysgrifenu, yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, yn gyfoethog mewn tymherau nefol, ond yn annhraethol gyfoethocchach yn nghyfiawnder ei Hiachawdwr—O! bydded iddi fyned i mewn i'r porthladd fel llestr gwrol a rhwysgfawr, wedi dychwelyd yn llwyddiannus a buddugol o ryw ryfelgyrch hygof, gyda gorfloeddion, anrhydedd, a llawenydd! Tra byddo fy llong fach innau, gan weini ar yr arbenigrwydd, a chyfranogi o'r fuddugoliaeth, yn rhwyfo yn ostyngedig o'i hol; a'r ddau yn gorphwys ynghyd yn y porthladd, —y dymunedig, a'r byth wynfydedig borthladd, o ddiogelwch perffaith, a dedwyddwch tragywyddol!

PENNILLION I MR. HERVEY.

GAN FEDDYG.

TYDI, fyfyrwr nefol! hwn cwyd dy wresog lef,
 O waclod dwfn y boddau, gan ennyn hyd y nef;
 Pa fodd gall bardd daearol, mewn halogedig gân,
 Adscinio hedfa'rh adain seraphaidd, rymus, lân?
 Elias gynt pan flamiodd i ucholderau'r nen,
 Mewn cerbyd tân gweledig, yn seren oleu, wen;
 I ddatgan ei wybodaeth, gweledyd oedd yn byw,
 A chyda'i fantell daliodd ddeuparth o'i ysbryd gwiw.
 Arabodd a dychymmyg, prydferthwch, pwyll, a than,
 Dros amser hir a gollwyd mewn gwael a gwydlawn gân;
 O'u mawredd gwyl gan suddo, o'u huchder pur er goll,
 Gweneithant nerth a chyfeeth, neu'a hamser lladdant oll
 Yr eiddot yw eu tywys o'u llewyrch gwyr i'r iawn,
 A phrosf'u north ardderchog, a'u defnyddoldeb llawn;
 A phuro'u flam lygredig oddiwrth ddaearol darth,
 I nef cyfeirio'u hodiad, eu genedigol barth.

O mwy na bardd mewn rhyddiaith! dy ddull a'th feddwl sydd
 Yn gerddgar gynghaneddog, mewn cân ddiodi, rydd;
 Yn fynych, dan d'arweiniad, fy newis rodfa bydd
 Dros araf ysbrydol anneddau'r meirw prudd.
 Ar bob rhagoriaeth balchder, lle 'sgyrna'r benglog hyll;
 Lle ydra'r gwas a'i arglwydd, heb un gwahaniaeth dull.
 Yn fudion, gyda gallu didrange, addysgant ddyng;
 Bygythiant wrth falario, pregethant, er heb fun.
 O oes i oes yn gyson, trwy bob rhyw iaith a gwlad,
 Diddiwedd gylchdro amser, a bywyd dibarhad.
 Gall prudd-der dedwydd yma lifeirio i'm gwellhau,
 A'm cael mewn diogelwch yn mydau duon gwae.

Tra huli wledd i'r meddwl o bob rhinweddau 'nghyd,
 Gan dæg gywirdeb ddiidwyll o leiaf flamia'm mryd.
 (Heb 'nabod dy wynebpryd) yn bur 'rwy'n teimlo'th fron;
 A phrosf, gyda gwynfyd, prydferthwch d'enaid llon;
 Gan gasglu, mewn eglurdeb, trwy'th gynllan sanctaidd, gwrw,
 I ddyng pa wresog gariad! pa gywir barch i Ddaw!

Pa bryd, O! bryd y codwn, yn anfarwolion mwy?
 Bryd pedia ser a blodau ag ysbrydoli'n hwy?
 A gair fy enaid, ddysgwyd gan d'enaid di, 'r pryd hyn,
 Ddwyn dyslaerderau didrange ganolddydd Sion fryn!
 Ond tra hyfryda'm meddwl yn yr olygfa well,
 (Fy ngobaith gostyngceiddiaf uwchlaw fy ngwerth ymhell)
 Cydwbybod, neu ryw angel, gan fy rhybuddio, a lef,
 ' Ni chyrbacodd dymuniadau dioglyd byth o'r nef;
 O'r golygfeydd gogoned, o mynit wir fwynhad,
 A rhan o ddydd digwmwl yr orfoleddus wlad;
 Yn llawn gweithredoedd cariad, ei fywyd hael bydd fyw;
 Ao fel efe bydd farw, a'th feddwl gyda Daw.'

Llundain, Gorph. 9, 1748.

ADFYFYRIADAU

AR

ARDD FLODAU.

MEWN LLYTHYR AT FONEDDIGES.

MADAM,

Ys ychydig amser yn ol, fy Myfyrdodau a gymmerasant dro ymysg y Beddau.* Hwyl a ymwelasant â thrigfanau pruddion ac ofnadwy y meirw; a rhyngodd bodd i chwi eu hanrhydeddu â chlust-ymwrandawriad. A gaf fi, yn awr, grefu eich cyfeillach i rodfa fwy dengar a hyfrydlawn? mewn Gardd Flodau dæg; lle rhodiais yn ddiweddar, gan wleda'r syniad, a rhoddi ffordd i'r ddychymmyg, ar unwaith.

Cynnau ydoedd ar fore yn yr haf, pan oedd yr awyr yn oeraidd, y ddaear yn îr, a holl wyneb y grëedigaeth yn wryf a thêg. Prin yr oedd y byd trystfawr wedi deffroi: llafur ni ysgydwasai ymaith ei drymgwsg etto;

* "Traethawdau ar wagedd y creadur, y rhai a ddangosant ddi-ffrwythder pob peth yn y byd hwn, a'i anghymhwysder i gynnyrchu unrhyw ddedwyddwch dilys a sylweddol, ydynt yn fuddiol.—Y myfyrdodau hyn hefyd a ddangosant ochr oleu pethau, ac a osodant allan y difyrwch diniwed hyn, sydd i'w gyfarfod ymhlith yr amrywiol wrth-ddrychau a'n hamgylchant, nid ydynt yn llai llesol." *Spect.* Vol. v. No. 393. Ar gynllun y sylwadau hyn y ffurfiwyd yr Adfyfyriadau rhagflaenol a chanlynol.

a chyfeddach oedd newydd osod ei phen troedig i lawr. Yr oedd y cwbl yn ganllaid : y cwbl yn llonydd : pob peth a dueddent i greu tawelwch meddwl, a gwahodd i fyfyrddod ddifrifol.

Dim ond yr uchedydd effro a adawsai ei nyth, gan ymddyrrchu yn uchel i roesawu agoriad y dydd. Yn ddyrchafedig yn yr awyr, hi a ymddangosai yn galw yr amaethydd diwyd at ei lafur, a'i chyd-gerddorion at eu hodlau.—Gynnaraf o'r adar, eb fi, cydymaith y wawrddydd, bydded i mi godi yn oestad gyda'th lais! godi i-offrymu fy moreu-gerdd; ac addoli y Bod haelionus hwnw, "yr hwn sydd yn gwneuthur i derfyn bore a hwyr lawenychu."

Mor hyfryd ydyw i rodio allan, yr awr felus hon o'r bore! I fwynhau creuder anian, i droedio'r llennyrch gwllithog, ac i archwaethu goerder anyspeiliedig yr awyr!

"Melus yw anadl gwawrddydd, melus yw
Ei chodiad, gyda cherddi adar fyrdd."

Y fath hyfrydwch mae meibion segurdd yn gollu! Ychydig, och! ychydig mae'r diogyn yn feddwl, y fath wledd foethus mae efe yn ymwrthod â hi, er mwyn y gwaelaf o'r holl foddiadau anifeilaidd.*

Mae llwydi'r wawr yn diflanu yn raddol. Cyflawnder o linellau rhudd-gochion a liwiant gnuau y ffurfafen;

* Fel mae datguddiad a rheswm, yr ysgrythyrau a'r awduron, yn unfryd yn annog i'r arferiad buddiol hwn. Maent ill deuoedd yn ein gwahodd i foreu-godi, trwy'r rhesymau mwyaf ynnillgar, a'r darluniadau mwyaf dengar.

"Tyred, fy anwylyd, awn i'r maes; a llettywn yn y pentrefydd. Boreu-godwn i'r gwinllanoedd; edrychwn a flodeuodd y winwydden, a agorodd egin y grawn, a flagurodd y pomgranadau," Can. vii. 11, 12.

Luciferi primo cum sidere, frigida rura

Carpamus: dum mane novum, dum gramina canent,

Et ros in tenerâ pecori gratissimus herbâ est.—*Virg. Georg. iii.*

nes yw wynebpryd frithog y dwyrain, o'r diwedd, wedi ymgolli mewn un gwrid tanllyd a diderfyn.—Ai lled-tyb dychymmyg yw, neu a ydyw'r wybrenau, mewn gwirionedd, yn gwridio gan gywilydd, wrth weled cynifer yn gorwedd yn estynedig ar eu clustogau cysglyd?—A gaiff dyn ei golli mewn esmwythder gloddestgar? A gaiff dyn wastraffu ei oriau gwerth-fawr mewn hepian dioglyd, tra mae'r haul bywiog i fynu, ac yn rhedeg ar genadwri ei Wneuthúrwr? Tra mae yr holl gôr adeiniog yn seinio eu Creawdwr, ac yn talu eu gwriogaeth mewn peroriaeth?—Na chaiff. Bydded iddo ef ddyrchafu melus-fawl y llwythau cerddgar, trwy ychwanegu odlau addoliad rhesymol. Perffeithied ef offrymau sawr-ber natur, trwy gymmysgu, â'r aroglau esgynol, anadl bereiddiach moliant.

Mae yn naturiol i ddyn edrych i fynu; i dafu'r syll-dremiad cyntaf ar wrthddrychau uwchlaw iddo ei hun:

“Yn union tua'r nef fy llygaid troes,
A syllais ennyd ar yr wybren faith.”

Olygfa aruthrol! lle mae llyched yn melltenu eu tân, a tharanau yn rhuo eu lleserydd. Lle mae tymhestloedd yn treulio eu cynddaredd, a bydoedd aneirif yn treiglo mewn äangder!—O fawredd y llaw alluog, yr hon sydd yn mesur yr amgylchedd dirfawr hwn â'i rhychwant! O annherfynoldeb y Bod rhyfeddol hwnw, ger bron pa un nid yw yr holl äangder anfesurool yma ond megis pigyn! Ac O! (dydi feddwl hyfrydlawn,) anchwiliadwy oludoedd y drugaredd hòno, yr hon “sydd yn fwy nâ'r nefoedd!”* Sydd yn fwy llydan ac äang yn ei gweithrediad grasol, nâ'r gororau diderfyn hyn o awyr, môr, a ffurfafen! Yr hon sydd

* Psal. cviii. 4.

yn maddeu pechodau o'r maintioli mwyaf, a'r natur erchyllaf; yn eu maddeu, ar ystyriaeth o iawn y Pryniawdwr, gyda pherffaith haelder, ac eithaf parod-rwydd! Yn fwy parod, pe byddai alluadwy, nag y mae yr äangder oll-amgylchol hyn yn derbyn o fewn ei gylchedd, gribyn o fynyddoedd, neu hyd yn oed un gronyn o lwch.

Deuwch yma, ynte, chwi bechaduriaid deffröedig, dan grynu. Deuwch, chwi rai blinderus* a llwythog arnoch dan deimlad o'ch anwireddau. Collfarnwch eich hunain. Ymwrthodwch â phob ymorphwysiad ar ddim o'ch eiddo eich hunain. "Ymddiriedwch yn nbirion drugaredd Duw, byth ac yn dragywydd."

"I'r haul y gosododd efe babell ynddynt."†—Wele ef yn dyfod allan o ystafelloedd y dwyrain. Wele! y cymhyllau, fel llèni nofiadol, a defir yn ol ar ei ddy-nesiad. Gyda pha danbaid fawrhydi mae efe yn rhodio allan! Mor llewyrchus ddysclaer yw ei wyneb-

* Mae'r llinellau canlynol yn rhyfedd ddarluniadol o'r ysbryd a'r arferiad a grybwyllir uchod. Ynddynt mae dymuniad yu hiraethu; gweddi yn ymdrechu; a ffydd yn gafaeltu yn y gamp. Yr wyf yn cymmeryd rhyddid i'w trawsblanu i'r lle hwn; a dymunwn iddynt sefyllfa well, a mwy hywel, nâ'u tir newydd na'u cynhenid. Eu tir cynhenid, yw "Galarnad Pechadur," a ysgrifenydd gan Mr. Sternold. Er mor ddiolwg y dichon athrylith y cyfansoddiad ymddangos, yr wyf yn meddwl y gallwn herio y campwyr penaf i ddangos dim mwy bywiog a thaer; mor llawn o natur, neu yn fwy gwresog gan fywyd.

"Trugaredd, *Dduw*, trugaredd rho;
Ond hyn 'dwy'n gofyn dim:
Trugaredd, *Arglwydd*, yw'm holl gais:
Duw, dod drugaredd im'."

Yr ymadroddion byrion—dim un cyssylltiad—mynych adroddiad yr enw dwyfol—ad-ddywediad dibaid y fendith a ddeisyfir mor awyddus, ac am yr hon mae'r fath angen annhraethol—dyma iaith naturiol gwresogrwydd; dyma addurniadau amlwg i bob llygad; ac nî allant lai nâ boddhau'r deallus, ac adeiladu'r galon rasol.

† Psal. xix. 4.

pryd, yn tywallt dydd a goleuni diysbydd, dros y bydysawd!—A oes golygfa, er wedi ei gorphen gan gynnilerau mwyaf prisfawr a gorchestol celfyddyd, yn “deilwng i’w chymharu ag arbenigrwydd godidog llewyrch haul yn ymagor? O flaen hwn, mae holl rodres myfyriedig y chwareufa; holl drefniant seirian cymmanfa; ie, hyd yn oed holl addurniadau dyrchafedig palas brenhinol, yn cuddio eu penau diflanedig, ac yn ymgrynhoi yn ddim.”—Mi a ddarllenais am un wedi ei gaethiwo gymmaint gan lewyrchiadau y goleuad ardderchog hwn, fel yr oedd efe yn meddwl ei fod wedi ei greu yn hollol i fyfyrion ar ei ogoniant. O! na byddai i Grist’nogion fabwysiadu y grediniaeth, a’i throsglwyddo at Haul cyfiawnder! Wedi ei chymhwyso fel hyn, ni byddai hi yn wag-dyb ddychymmygol mwy, eithr byddai yn wirionedd o’r mwyaf pwysig. O blegid yr ydwyf yn sicr mai prif ddedwyddwch y sefyllfa dragywyddol yw; iawn, gan hyny, y gallai fod yn ymgais penaf y bywyd hwn, i “adnabod yr unig wir Dduw, a’r hwn a ddanfonodd efe Iesu Grist.”—Ac nid wyf wrthyf fy hun yn y gred hon. Y barnydd goreu o’r hyn sydd wir werthfawr mewn gwyddiad, neu yn addurn i’n natur; barnydd a ffurfiodd ei archwaeth wrth ar-wireddau Paradwys, ac a dderbyniodd berffeithiad ei addysg yn y drydedd nef; y barnydd hwn a benderfyna “beidio gwybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.” Yr oedd efe yn meddu y perffeithiadau penaf, a mwyaf haedd-barch, yn ei berson ei hun; ac etto mae yn cyhoeddi oll yn ddim gwell nâ thom, mewn cymhariaeth i dra-rhagorol odidogrwydd* yr wybodaeth achubol hon.

* Το υπερεχον της γνωσεως. Phil. iii. 7.

Mi dybygw'n fy mod yn canfod mil o briodoliaethau rhyfedd yn yr haul. Dilys mai y cysgod-lun corphorol goreu o'r Creawdwr ydyw. Mae mwy o Dduw yn ei ddysclaerdeb, ei rym, a'i ddefnyddioldeb, nag mewn un bod gweledig arall. Ei addoli fel Duwdod oedd y lleiaf o gyfeiliornadau anesgusodol y cenhedloedd eilunaddolgar. Prin y gall un ryfeddu i reswm dirywiedig gamgymmeryd adysgrif mor dæg yn lle'r cynllun addoladwy. Nid oes un gymhariaeth, yn holl lyfr Doethineb ddwyfol, sydd yn fy moddhau yn well, na'r un sydd yn cyffelybu y bendigedig Iesu i lywiwr mawr y dydd;* yr hwn sydd yn myned rhagddo yn awr i wasgaru goleuni, a chyfranu llawenydd, ymhlith y bobloedd.

Beth fyddai holl ororau y byd, ond daearddy o dywyllwch, heb belydr yr haul. Eu holl olygfeydd tæg wedi eu cuddio o'n golwg, a'u colli mewn magddu.— Yn ofer y treiglwn ein llygaid o amgylch, yn nghaddug canol-nos. Yn ofer yr ymdrechwn ganfod wynebpryd natur hawddgar. Trown lle mynom, nid oes na phryd na thegwch yn ymddangos. Mae'r cwbl yn edrych yn ddiffeithwch gwag erchyll, yn dryblith aneglur ddidrefn; nes byddo i'r oriau dychweledig agor dorau y goleuni, a gollwng y bore allan. Yna, y fath olygfa sydd yn ymagor! Y nefoedd wedi eu palmentu ag aur, a'u taenu â rhos. Amrywiaeth o'r gwyrdd-lesni bywioccaf a ddillada'r dyffrynoedd. Y blodau a ymddangosant mewn tywyniad o'r lliwiau teccaf. Yr holl grëedigaeth a saif wedi ymwisgo yn holl swynion tegwch. Y llygad llesmeiriol a edrych o amgylch, ac a sÿna.

* "Ond Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi, y rhai ydych yn ofni fy enw, â meddyginiaeth yn ei esgyll," Mal. iv. 2.

A pha beth fuasai cyflwr ein natur ddeallol, heb y Gwardwr mawr, a'i ddwyfol ddatguddiad?—Och! y fath amgyffrediaidau gwrthun ac annheilwng a ffurfiodd y doethion paganaidd am Dduw! y fath freuddwydion gweigion, y fath ddychymmygion plentynaidd, oedd eu hathrawiaethau am fyd i ddyfod! Ië, fel y treuliodd corph, hyd yn oed cenedl ffafredig yr Iuddewon, eu hunain mewn gwir wagedd, i gyrhaedd heddwch a chymmod â'u Jehofa wedi ei ddigio! nes i'r Iesu godi ar ein meddyliau tywyll, a dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni; nes iddo "Ef godi i fod yn oleuni i'r Cenhedloedd, ac yn ogoniant i'w bobl Israel."

Yn awr, nid ydym ni mwyach yn llefain, gydag anoddefgarwch diorphwys, Pa le mae Duw fy Ngwneuthurwr? O herwydd caniatteir i ni fyfyrïo ar ddysclaerdeb ei ogoniant, a gwir lun ei berson, yn wyneb *Iesu Grist*.—Nid ydym ni mwyach yn ymofyn, gyda phryder anfoddlawn, 'Pa un yw'r ffordd i ddedwyddwch?' Canys mae Iesu wedi nodi'r ffordd trwy ei siampl ddysclaer, a chwedi gadael cyfarwyddyd diwyrni yn ei air sanctaidd. Yn awr, nid oes achos i ni fyned rhagom â chalonau petrusgar yn ein taith i dragywyddoldeb; neu ofyn yn anesmwyth, 'Pwy a dreigla ymaith y garreg, ac a egyr y dorau tragywyddol? Pwy a symmud y cleddyf tanllyd, ac a rydd i ni fynedfa i wynfydedigrwydd Paradwys?' O blegid mae wedi ei gyflawni, mae'r cwbl wedi ei gyflawni, gan Gadpen ein hiachawdwriaeth. Mae pechod wedi ei ddileu, trwy ei aberthiad difeius o hono ei hun.—Mae'r gyfraith wedi ei chyflawni trwy ei ufudd-dod perffaith. Mae pechadur yn cael ei adnewyddu trwy ei Ysbryd glanhaol.—Mewn gair, mae efe wedi rhoddi

i ni amlygiad eglur o bethau da i ddyfod, a chwedi cyfranu i ni fynediad helaeth i'r mwynhad tragywyddol o honynt.

Pa bryd bynag, gan hyny, y bendithiom Dduw am y tymhorau cylchredol, a'r dydd amdreiglol; addolwn, i'e, addolwn ef yn ddiolchgar, am ymddangosiad gwerthfawroccach Haul cyfiawnder, a'i efengyl ogoneddus; heb yr hwn, buasem, hyd yr awr hon, yn ymbalfalu mewn tywyllwch ysbrydol, a chysgod angeu; heb yr hwn, buasai raid i ni grwydro mewn bach-drofa annatrusadwy o ansicrwydd; a "tharo ein traed wrth fynyddoedd tywyll" cyfeiliornad, nes syrthiasem i bydew diwaelod colledigaeth.

Heb yr egwyddor hardd adfywiol accw, pa beth fyddai y ddaear hon, ond pentwr difywyd? ond talp gwyllt o sylwedd anweithgar? Ni allai'r coedydd byth dorri allan yn ddail, na'r planhigion darddu i fynu yn flodau. Ni chaem ni mwyach weled y dolydd wedi eu mantellu mewn gwyrddni, na'r dyffrynoedd yn sefyll yn freisgion gan ýd; neu, a llefaru iaith odidog prophwyd; "Y ffigysbren ni flodeuai, ac ni byddai ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olewydd a ballai, a'r maesydd ni roddent fwyd; torrid ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni byddai eidion yn y beudai."*— Mae'r haul yn ergydio ei belydr i blith y llwythau llysieuog; yn lliwio'r gwanwyn, ac yn cyfoethogi'r hydref. Mae efe yn treiddio at wreiddiau y winllan a'r berllan; ac yn gosod ar nawf y nodd ymchwyddog, yr hwn, yn y diwedd, a ymdyr yn llifeiriant o win, neu a blyg y canghenau dan lwyth addfed.—Ac nid yw ei haelioni yn cael ei gyfyngu at y gororau arwynebol

* Hab. iii. 17.

yn unig, eithr cyfrenir ef hefyd i gilfachau dyfnaf y grëedigaeth. Mae yn treiddio i welyau'r delidiw, ac yn gweithio ei ffordd i le'r saphir. Mae yn trwytho hadau'r aur, sydd yn addfedu'n fwnai; ac yn tywallt dysclaerdeb i ddwfr yr adamant, sy'n ymgaledu ar y graig.—Yn fyr, mae goruchwyliaeth fendithiol y goleuad mawr hwn yn annhraethadwy. Mae yn harddu ac yn firwytho natur gyffredinol. “Nid ymgudd dim rhag ei wres ef.”

Yn gywir yr un môdd y buasai'r byd rhesymol yn 'farw mewn camweddau a phechodau,' heb allu adfywiol Iesu Grist. Efe yw'r “adgyfodiad a'r bywyd:” ffynnon orlifeiriol o'r naill, a'r achos hollalluog o'r llall. Yr ail Adda sydd yn ysbryd yn bywhau, a thrwyddo ef mae ei holl saint yn byw. Mae efe yn llewyrchu ar eu serchiadau; ac y maent yn tarddu allan yn rasau nefol, ac yn dyfod yn gyfoethog mewn firwythau cyfiawnder. Ffydd ddifffuant, a chariad diragrith, y rhai hyn, cynnyrch godidoccaf natur wedi eu hadnewyddu, ydynt effeithiau ei weithrediad ar y meddwl. Ni allai cymmaint ag un dymher nefol ymledu, nac un arferiad Crist'nogol ymagor a blaguro, heb ddylanwadau tirion ei ras.

Megis nad oes dim firwythlondeb, felly hefyd nid oes dim sirioldeb,* heb yr haul.—Pan dywallto llwyfawdwr gwynfydedig y dydd fwynder ei lewyrch boreuol, mae efe yn creu gwledd gyffredinol. Myrdd o drychfil dysclaer a ddeffröant i fodoliaeth, ac a ymdesant yn ei belydr. Yr adar a neidiant o'u hun,

* “Mae gan yr haul, yr hwn yw enaid mawr y bydysawd, a chynnyrchydd holl angenrheidiau bywyd, effaith neillduol yn sirioli meddwl dyn, a llawenhau y galon.”—*Spect. Vol. v. No. 387.*

ac a dywalltant allan eu heneidiau hyfrydlawn mewn peroriaeth. Y diadellau, gydag accenion brefiadol, a gyfarchant y fendith roesawus. Y dyffrynoedd a seiniant gan beroriaeth faesol; a'r brynïau a wrthlefant y pyngcian didwyll. Pob peth y mae iddo leferydd a una yn y gydgerdd gyffredinol; pob peth y mae ganddo anadl a ymhyfryda yn ei ddylanwadau serchoglawm.—Pan, pe byddai i'r rhod danbaid yna ddiffodd, cymmerai tywyllwch aruthr le, a dychryn annyoddefol a ganlynai. Ië, bydded iddo ond bod dan ddiffyg am ychydig funudau, a holl natur a ymddengys yn brudd. Y nefoedd a droir mewn sachliain, a hwy a ymddilladant mewn galarwisg. Yr anifeiliaid bywioccaf a blygant eu penau yn isel. Cerddorion y goedwig a darewir yn fudion. Y bwyst-filod, gan ruo, a wibiant ar ol eu bysglyfaeth. Adar daroganus a ddeuant allan, ac a ysgrechant. Calon dyn a balla, a gloes ddisymmwth a afaela yn ei feddwl.

Felly, pan guddio Crist ei wyneb, pan gollo ffydd ei golwg ar ddyddanwch yr Israel, O! mor dywyll yw golygfeydd yr enaid! Ein Duw a ymddengys yn dân ysol, a'n pechodau a uchel lefant am ddialedd. Y meddyliau o mewn a waedant; y Cristion a rodia yn alarus. Mae'r cwbl oddi allan yn fin, mae'r cwbl oddi mewn yn annyddan.—Ymddyrrha, ynte, O ras-usaf Iesu, tydi ragorach godiad haul o'r uchelder! O cyfoda lewyrch dy wyneb ar dy bobl! Amlyga lawnder dy ddigonolrwydd cyfryngol; gwna ein hawl yn yr iachawdwriaeth fawr yn amlwg; a thrwy hyny cyfrana

'R hyn ei roddi na'i ddinystrio, nid yw'n ngallu'r ddaear gron,
Tawel lewyrch haul yr enaid, a'r gorfoledd deimla'r fron.*

* *Pope's Eth. Ep.*

Mewn un anghraifft yn ychwaneg, goddefer i mi ddilyn y gyffelybiaeth. Mae'r haul, yr wyf yn sylwi, yn taflu ei belydr i bob pellder, ac i bob cyfeiriad. Gan fod yn afradwy haelionus ar ei roddion, mae efe yn goleuo ac yn llòni holl derfynau'r ddaear, a holl gylchoedd yr wybrenau. Y dwyrain a wridia gan ei danbeidrwydd yn codi; a bryniau'r gorllewin a oreurir gan ei ffrydiol ddysclaerderau. Gororau rhewllyd y gogledd a faethir gan ei hilbair wres; ac ardaloedd y dehau a ennynant gan ei dân.—Fel hyn mae dylan wadau Haul cyfiawnder yn ymdaenu yn ddiderfyn. Y cenedlaethau gynt a'u teimlasant, a chenhedlaethau heb eu geni etto, a lawenychant ynddynt. Rhinweddau ei farwolaeth werthfawr a estynwyd i gynnaraf, ac a ledir i oesoedd diweddaraf dynolryw.—Bydded iddynt, cyn hir, ymweled â gororau pellaf, ac a chonglau tywyllaf y ddaear! Gorchymyn i'th efengyl, Iesu bendigedig, i'th efengyl dragywyddol, i gymmeryd adenydd y wawr, a chydymdeithio â'r haul accw. Eheded ar esgyll cedyrn i blith pob pobl, iaith, a chenedl; fel, lle mae'r gwres yn crasboethi, a'r oerfel yn rhewi, y byddo i ti gael dy adnabod, dy gyffesu, a'th addoli! Fel y byddo i estroniaid i'th enw, a gelynyion i'th athrawiaeth, gael eu goleuo trwy wybodaeth, a'u hynnill trwy gariad, dy wirionedd! O! deued y cyfnod dedwydd, a phrysured yr amser dysgwyl-iedig, pan fyddo i "holl derfynau y ddaear gofio, a throï at yr Arglwydd, a holl dylwythau'r cenedloedd addoli ger ei fron ef!"*

O'r nefoedd ni a ddisgynwn i'r ddaear.—Yma y defnynau gwllith, megis grisial hylif, a dywynant

* Psal. xxii. 27.

ar y llygad.* Mor danbaid ac anniwynedig yw eu dysclaerdeb! Leied ydynt islaw y maen a lewyrcha yn y goron frenhinol! Nid oes dim ond caledrwydd a pharhad yn eisiau i'w gwneuthur yn gydradd â'r trysorau teccaf yn mlwch y gem-fasnacbydd. Yn hyn, rhaid cyfaddef, maent yn ddiffygiol iawn; addurniadau byr-hoedlog ydynt, heb feddu ond ychydig ragor na llewyrch munudol. Yr haul, yr hwn sydd yn eu codi i fynu, a'u tawdd ymaith yn awyr ar fyr, neu a'u hagerdda yn darth. Ymhen awr etto, gallwn "edrych am eu lle, ac nid edwyn hwynt mwy."—O! bydded fy holl benderfyniadau da i, a'm diadell; bydded ein holl riddfanau unedig ar ol Duw, nid fel harddwch ansafadwy y bore, ond fel gogoniant sylweddol y dydd yn cynnyddu! Y naill a lewyrcha fwy-fwy, a chyda dysclaerdeb ychwanegol; tra mae'r llall, ar ol tywynu yn dëg dros ychydig funudau, yn ymgilio ac yn llwyr ddiflanu.

Mor fawr mae'r gwllith wedi adnewyddu'r teyrnas-oedd llysiuog! Bu gwres tanllyd yr haul y ddoe ymron craslogi wyneb, a diysbyddu melusderau, natur. Ond y fath adnewyddiad effeithiol yw dyhidliadau oerion y nos! Fel y llônant ac y cyfnerthant y llysiâu llesmeiriol! Wedi eu taenellu â'r defnynau adfywiol hyn, eu gwreiddiau a ddyfniant, a'u blagur a wridgocha o newydd; eu harogl, yr hwn oedd yn llesg a dyspeidiedig, sydd yn dyfod yn gryf a helaethlawn.—Fel hyn mae'r byth wynfydedig Ysbryd yn adfywio cydwybod ymollyngar a thrallodus pechadur. Pan mae'r Dyddanydd hollalluog hwnw yn tywallt ei

* Trwy byrth y dwyrain, gan ymdorri'n awr,
A gloywon berlau haua'r bore'r llawr.—*Milton*.

ddylanwadau melus i'r ehaid; ac yn egluro holl-ddigonolrwydd aberth y Gwardwr dwyfol; "ac yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni," fod i ni hawl yn yr Iachawdwr, a thrwy hyn' ein bod yn blant i Dduw; y fath gyfnewidiad hyfrydlawn sydd yn cymmeryd lle! Gofidiau blaenorol ni chofir mwyach. Pob ofn anesmwyth a ddiflana. Gobaith dyddanus, a dysgwyliaidau cysurlawn a ganlynant. Y wedd isel-drist a ymad â'r wynebpryd; y llygaid a ddysclaeriant gyda sirioldeb bywiog; tra datgana'r gwefusau y boddlonrwydd a deimla'r galon yn iaith diolchgarwch a sain peroriaeth. —Yn yr ystyr hyn, O Dduw trugarog, "bydd fel gwllith i Israel!" 'Tywallt arnynt barhaus wllith dy fendith.' Ac O! na âd fy nghnu innau yn sych, tra byddo'r fendith nefol yn disgyn ar bawb oddi amgylch.

Pwy eill rifo'r defnyddau grisialaidd yma? Dibynant ar bob cae, tywynant ar bob brigyn, ac addurnant holl borfa'r maes. Nid oes un glaswelltyn, na chymmaint ag un ddeilen, nad ydynt yn gwisgo'r diferion tryloywon. Mor fawr yw eu hafradlonedd, fel y diddymant gelfyddyd y rhifyddwr.—Yma, bydded i'r meddwl diolchgar ystyried a mawrygu yr ysgrythyr bwysig hono, pa un, oddiwrth y gyffelybiaeth odidog hon, sydd yn darlunio cynnydd teyrnas y Messia. Y prophwyd brenhinol, gan lefaru am Grist, a rhag-synegu llwyddiant ei grefydd, a ddywed yn y dull hynod hyn: * "Mae gwllith dy enedigaeth o groth y

* Psal. cx. 3. מִי־לִי כִּי־יִשְׂרָאֵל מִי־לִי כִּי־יִשְׂרָאֵל — *Merechem mishchar leka tal yaldutheka*—Y cyfieithad cywiraf o'r gyfran anhawdd hon, yr wyf yn meddwl, sydd fel y canlyn; *Præ rare uteri aurora, tibi est ros juvenutis vel protis tæ.* Mae gwllith dy enedigaeth yn fwy, yn helaethach, na'r gwllith a ddeillia o groth y wawr.—Ni allaf ymfoddloni i'r cyfieithad newydd, o herwydd ei fod yn gwahanu "croth y wawr" oddiwrth

wawr:" (h. y.) fel y mae'r bore'n fam y gwllith, yn dwyn ei ddefnynau allan, fel pe byddai, o fru eppiliog,

"wlith dy enedigaeth:" pan mae yn ymddangos fod perthynas eglur, a chysylltiad agos, rhyngddynt. Mae croth y wawr, gyda'r priodoldeb mwyaf, yn cael ei chymhwyso at genhedliad a chynnyrchiad y gwllith; yn gyson â'r llinell odidog yn y pen-campwr ar ddesgrifiad cywir, a darluniad bywiog, aef Mr. Thomson:

Y lednais wawr ymddengys, mam y gwllith.—Yr Haf.

Yr ydym yn cyfarfod â dywediad prydfferth yn llyfr Job, yr hwn a ddichon wasanaethu i gadarnhau y sylwad hyn; a ddichon ddangos y priodoldeb o arfer yr ymadrodd yn y cyssylltiad hwn: "A oes dad i'r gwllaw, neu pwy a genhedlodd ddefnynau'r gwllith?" Mae'n ymddangos fod yr ysgrifenywyr dwyreiniol yn ymhyfrydu darlunio'r gwllith fel math o enedigaeth, fel hiliogaeth y wawr. Ac os felly, yn sicr ni allasai fod un ddelw yn holl gylch y bydysawd yn fwy cymhwys i fwriad y Psalm-ydd; neu yn fwy arwyddocaol o'r torfeydd hyny o brosoltyaid, y rhai "a aned, nid o waed, nac o ewylllys y cnawd, nac o ewylllys gwr, eithr o Dduw," trwy nerthol allu ei air a'i Ysbryd.—Ar y golygiad hwn, mae yr holl adnod yn desgrifo

Ymostyngiad ewyllysgar,—Perffeithiadau grasol,—

A dirfawr rifedi, dychweledigon Crist.

Fel pe dyweder, Yn nydd dy nerth, pan fyddo i'th efengyl ogoneddus gael ei chyhoeddi, ac effeithioldeb gwyrthiol yn cydfynel â hi—Yn y cyfnod gwiwgof hwnw, dy bobl, gan roddi heibio eu hoffrymau blaenorol, a orchymynwyd dan gyfraith Moses, a gyftwynant eu hunain yn aberthau byw i'th anrhydedd. Nid wedi eu cymhell trwy nerth, ond wedi eu denu trwy dy ragoroldeb, hwy a ddeuant yn rhydd-ymroddwyr i'th wasanaeth, ac yn offrymau gwirfoddol i'th eglwys. Ni byddant chwaith yn "wluwydd gweigion," neu broffeswyr diffrwyth; eithr hwy a rodiant yn holl ffyrdd sancteiddrwydd, ac a ddygant y cyfryw ffirwyth ag a addurno yr athrawiaeth a gofleidiant.—A'r hyn sydd yn fwy dymunol etto, byddant mor lliosog ag y maent yn ewyllysgar a sanctaidd. Wedi eu geni i ti yn dyrfaeodd dirfawr ac anamgyffredadwy, tu hwnt hyd yn oed i fyrddiynau aneirif y defnynau gwllith a genhedla'r nos, ac a ddeilliant o groth y wawr-ddydd.

Trwy'r deongliad hwn, mae'r adnod, mi feddylw'n, yn cael ei rhydd-hau oddiwrth ei haneglurdeb, ac yn ymddangos yn wir odidog, ac yn berffaith gywir.

A faddeuir i mi fy nghrwydriad, ac a ryddheir fi oddiwrth ryfyg, os, ar yr achlysur hwn, y cymmeraf genad i sylwi ar yr hyn sydd yn ymddangos yn galed ac annaturiol yn esponiad cyffredin yr adnod olaf o'r psalm hon? Yr holl ddeonglwyr (cynifer o leiaf a welais i) a ddywedant wrth eu darllenwyr, fod "yfed o'r afon ar y ffordd," yn arwyddo "myned trwy ddyoddefaint ac angeu:" yr hyn, yn fy meddwl i, sydd yn ddeongliad tra chymhelledig, a phrin yn ddiffynadwy; pell iawn oddiwrth ystyr y cyfryw ffurfiâu prydyddol o ddywediad, a arferid ymhlith y cenedlaethau dwyreiniol. Yn y gororau mwrn hyny, ni allasai dim fod yn fwy groesawgar i'r teithiwr, nâ nant yn tyrddu yn

ac yn eu gwasgaru mewn llewndid afradus dros wyneb yr holl ddaear; felly y bydd dy had di, O Dad tragy-

agos i'w lwybrau. Diffodd ei syched, a golchi ei draed, yn y firwd oeraidd, oedd un o'r adfywiadau mwyaf a ellir ddychymmyg, ac a'i hadnewyddai i ganlyn ei hynt. O ba herwydd, ymhlith pethau ereill, mae nentydd yn ddarluniad tra hoff gan yr ysgrifenyddwr ysbrydoledig, ac arferedig i ddynodi sefyllfa ffrwythlawn a hyfryd, neu gyflwr o hyfrydwch a boddlonrwydd; ond ni ddefnyddir hwynt byth, hyd yr wyf yn cofio, i ddesgrifio yr ansawdd groes-gyferbyniol o drallod a chyfyngder.

Y llifeiriaint, yn wir, yn yr ysgrythyrau sanctaidd, yn fynych a osodant allan ryw berygl cyfagos, neu gystudd blin. Ond eilwaith hwynt-hwy nid ydynt — סלם ביד — *nachaleem bederek*—ffrydiau mor *dawel*, fel y maent yn cadw o fewn eu glenydd, ac yn treiglo'n araf wrth draed y teithiwr; mor *loywon*, 'fel y maent yn gymhwys i gael eu defnyddio gan y lluddedig, ac yn gwahodd ei wefusau i'w hyfed; tra mae'r ddau ystyr hyn yn cael eu cynnwys yn eglur yn y testyn.—Y rhai hyn yn hytrach ydynt — משהב — *misheberee*—*tonau tymhestlog*; yn ymchwyddo dros y llong, neu yn taflu eu hunain, gyda chwynder echryslawn, yn erbyn y lân: neu — שבל — *shebaloth*—*dylifadau ysgubol*; yn dwyn y cwbl ymaith o'u blaen, ac yn gorchuddio'r ardal gymmydygol. Heblaw hyn, yn y cyfryw anghreiffitiau o ddychryn, nid ydym byth yn cael y gair — ישתה — *yishteh*—*Efe a yf*; yr hwn sydd yn trosglwyddo meddwl boddhaol, (oddi eithr ei fod yn perthyn i gwpan wedi ei lanw o wlybwr chwerv, meddwol, neu wenwynig; yr hyn sydd yn fater llwyr wahanol i'r un dan sylw;) ond naill ai — בא — *baath*—yr hwn sydd yn cynnwys *dychryn a syndod*, neu ynte — אבר — *aaber*—yr hwn sydd yn arwyddo *rhuthro ar*; *gorchuddio*; ac hyd yn oed *claddu* dan y *tonau*.

Ar y cyfan, a all y gyfran ddim cyfeirio yn fwy priodol at ddylanwadau yr Ysbryd Glân? y rhai a gyfranwyd yn anfesurrol i'n Harch-offeiriad mawr; a thrwy y rhai, mewn gwirionedd, y cyfnerthwyd ef i orchfygu pob anhawedra. Y rhai hyn, yn atml, a osodir allan trwy ddyfroedd; "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, afonydd o ddyfroedd bywiol a ddylifant o'i groth ef." Y mwynhad o honynt a ddesgrifir trwy yfed; "Pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd." Yna geill y synwyr redeg yn y dull perthynasol ac eglur hyn. Gofynir, Pa fodd y bydd y Gwaredwr yn alluog i gyflawni y swyddau amrywiol a phwysfawr a ragfynegydd yn rhanau blaenorol y psalm? Y mae'r prophwyd yn ateb, "Efe a yf o'r afon ar y ffordd." Ni bydd iddo gael ei adael yn hollol i'w natur ddynol, yr hon a suddai yn anocheladwy dan y gwaith aruthrol o adferu byd colledig: ond trwy holl ysbaid ei fywyd yn y byd, a thrwy holl weinyddiad ei deyrnas gyfryngol, caiff ei gynnal gan gynnorthwyon hollalluog. Efe a yf o afon Anfeidrol nerth, ac a deithia ymlaen yn mawredd gallu digrëedig. "Am hyn y dyrcha efe ei ben." Trwy'r moddion hyn y bydd efe yn gydradd â'r gorchwyl aruthrol, ac uwchlaw pob gwrthwynebiad. Trwy'r moddion hyn y bydd efe yn hollol lwyddiannus ymha beth bynag a gymmero mewn llaw, ac yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion.

wyddoll! Trwy bregethiad dy air bydd i'r fath hil aneirif o blant adgenhedledig gael eu geni i ti, a bed yn addurn ac yn fendith i'r holl oesoedd. Myrdd myrddiynau o ddychweledigion ewyllysgar, o bob cenedl dan y nef, a ymgasglant i'th deulu, ac a lanwant dy eglwys; nes byddont fel ser y nef, neu'r tywod ar fin y môr, mewn lliosogrwydd; neu hyd yn oed mor aneirif a'r boglynuau dysclaer yma, y rhai a orchuddiant wyneb natur yn awr.—Wele, ynte, chwi rai drygionus a gwrthnysig, 'er nad ymgesglwch chwi, etto gogoneddus fydd y Iachawdwr.' Ei ddyben ni ddiddymir, a'i waith ni bydd ofer; er i chwi ei wneuthur yn ofer ar eich rhan eich hunain. Na feddyliwch y bydd ar Emanuel eisiau credinwyr, neu ar y nef angen preswylwyr, o herwydd eich bod chwi yn parhau yn anfeddyginiaethol. Na; yr Oen a laddwyd a "wel o lafur ei enaid; ac a ddiwellir," mewn cyfres ddiddiffyg o bobl fyddlawn isod, a chôr anfeidrol o saint wedi eu gogoneddu uchod, y rhai a ffurfiant ei osgordd, ac a amgylchant ei orsedd, yn fyddinoedd dysclaer a buddugol, y cyfryw ar nas dichon neb eu rhifo.

Yma mi a adgofiais y gwahanol ffyrdd y mae Rhag-luniaeth, anchwiliadwy ddoeth, yn ddefnyddio i ffurwythloni y byd naturiol a deallol.—Weithiau ceir cawodydd trymion a chwyrnion yn ymrwygo e'r cymbylau lliidiog. Maent yn fflangellu'r dyffrynoedd, ac yn gwneuthur i'r afonydd ewynu. Tymhestl sydd yn eu dwyn, a diluw yn eu canlyn.—Brydiau ereill y gwllith araf yma a ffurfir yn awyr lonydd yr hwyr. Mae yn ymledrattâu i lawr mewn arafwch graddol, a chydâ thawelwch annirnadwy: mor fân, fel mae yn

twyllo'r llygad mwyaf craff; mor ddystaw, fel mae yn diangc rhag y glust gynnilaf; a phan fyddo wedi disgyn, mor dra ysgafu, fel nad yw nac yn torri'r blodeuyn tyneraf, nac yn gorthrymu'r gwannaf.—Gweithred-iadau rhyfedd wahanol! Etto mae'r ddau yn cyttuno yn yr un dyben daionus, a'r naill fel y llall yn cyfrannu ffurwythlondeb i arffed natur.

Felly, mi a adwaen rai a alwyd oddiwrth weithred-oedd anffurwythlawn y tywyllwch trwy foddion geirwon a llymdost. Yr Hollalluog a'u hannerchodd hwy, fel yr annerchodd efe yr Israeliaid gynt ar Sinai, a mellt yn ei lygaid, a tharannau yn ei lais. Y gydwybod, wedi ei tharo â theimlad o'i henogrwydd, ac amgyffredïadau o'r dialedd tragywyddol, a grynai trwy ei holl allu-oedd; fel y siglai y mynydd hwnw hyd ei sylfeini. Arteithiau adgnosfeydd a gloesion osn a ragflaenasant eu genedigaeth newydd. Darostyngwyd hwynt i'r cyfyngder mwyaf, a suddwyd hwynt agos gan anobaith, cyn iddynt gael gorphwysdra yn Iesu Grist.—Adferwyd ereill o'u hymarweddiad ofer, trwy fesurau mwy tyner a dengar. Tad yr ysbrydoedd a gyfarchodd eu meddyliau hydrin, "mewn llais dystaw main." Ei ras a ddisgynodd fel gwlaw ar gwn o wlan, neu fel y defnynau tirlion yma, a ddyfrhant y ddaear yn awr. Teyrnas Ddew a gymmerodd feddiant o'n heneidiau heb swm na ehynhwrf. Hwy a aethant trwedd o farwolaeth i fywyd, o gyflwr enawdol i sefyllfa adgenhedledig, braidd trwy raddau diarwybod. Yr oedd eu mynediad fel twf ŷd, yn amlwg iawn ar ol cymmeryd lle, er mai prin yr oedd yn eiddiadwy yn y cyflawniad.—O! dydi Awdwr a Pherffeithydd ein ffydd, galw ni yn ol o'n crwydriadau, ac aduna ni a

thi dy hun. Pa un bynag a wnelost ai ein harswydo a'th ddychrynfeydd, ai ein denu â dy gariad; pa un bynag ai ein gyrru â fflangell argyhoeddiad, ai ein tynu â rheffynau cariad; dychwel ni trwy unrhyw lwybr attad: canys tydi yw ein prif ddaioni, tydi yw ein hunig ddedwyddwch.

Cyn myned ymhellach, bydded i mi esgyn i'r uchelfa, a chymmeryd un olwg ar y wlad 'gymmydogol.—Y fath olygfa sydd yn ymruthro ar fy llygaid! Mor faith, mor amrywiol, mor 'llawn a helaeth o bob rhyw drysorau! Holl olud natur!—Y fath ystordy cyfoethog a diysbydd sydd yma, yn arlwyo cynnaliaeth i bob creadur! Mi dybygwn fy mod yn darllen, yn y cyfrolau éang hyn, deongliad ar y molawd bywiog hwnw o'r dwyfol haelioni; “Y mae efe yn agoryd ei law, ac yn diwallu pob peth byw â helaethrwydd.”

Yr holl rai hyn ynt dy weithredoedd di,
Oll-nerthol, Dad daioni, eiddot ti
Yr holl fydysawd hwn, mor rhyfedd dëg,
Ryfeddod ynte ydwyt ti dy hun!*

Mae'r maesydd wedi eu gorchuddio'n ddyfnion, ac yn sefyll yn dewion gan yd. Maent yn lledu'r gronynau llaethog i'r haul; tra mae'r awelon, gan ogwyddo a chodi pob corsen hyblyg ar gylch, yn agor eu rhesi i weithrediad ei belydr: yr hwn, yn fuan, a gyfrana sylwedd cryf i bob llafuryn, a lliw dysclaer euraidd i bob twysen; fel y byddont wedi eu cymhwysu i lanw ysguboriau yr amaethydd â digonedd, a'i galon â llawenydd.

Accw y gorwedd y dolydd; wedi eu llyfnhau yn berffaith wastadedd, a'u haddurno â brodiaeth o'r

* *Milton.*

blodau teccaf, a'u llwytho â chnydau gwirfoddol* o borfa; pa un, wedi ei throï yn wair, a fydd yn ogawr o'r mwyaf cyfaddas gogyfer ag anffrwythlondeb gauaf; ac a ddiwalla ein hanifeiliaid gwasanaethgar ag ebran, pan fyddo gwyrddni'r glynoedd wedi ei ladd gan y rhew, neu ei gladdu mewn eira.—Ffrwd ymddirwynol a ymdreigla trwy'r cwr blodeuog, gan dderbyn delw'r wybrenau plygedig, a dyfrhau gwreiddiau llawer helygen ganghenog. Dognwyd hi, yn ddiau, ag amrywiaeth o bysgod, y rhai a weinyddant ddifyrwrch unig i'r genweiriwr, ac a arlwyant ei fwrdd â gwledd ddanteithiol. Ond nid unig rin yr elfen hylif hon, yw cynnal y llwythau cènog; y mae hefyd yn dwyn glendid, ac yn taenu ffrwythlondeb pa le bynag mae ei ffrwd risialaidd yn ymlithro.

Y mae'r porfeydd, a'u cloddiau gwyrddleision, yn brithio yr olwg, ac yn sefyll yn wledd ddarparedig i'n diadellau. Yno gwneir "ein hychen yn gryfion i aredig; a'n defaid a ddygant filoedd a myrddiwn." Yno y maga'r march fywiogrwydd a grym i gyflawni ein gorchwylion, a buandra i ebrwyddo ein teithiau. Oddi yno y dychwel ein gwartheg adref â'u tethau wedi eu chwyddo allan gan y gwlybwr mwyaf danteithiol a iachus yn y byd.

Mewn amryw fanau, mae gwasgawd o goed, fel rhyw res fawreddog o golofnau, yn dyrchafu ei phen castellog. Mae pob un yn lledu cysgod cyfeillgar i'r anifeiliaid, neu annedd lettygar i'r adar. Mae pob un yn sefyll yn barod i weini distiau i'n palasau, hwylbrenau i'n llongau, neu, gyda chymmwynasgarwch

* — Injussa virescunt
Gramina.— Virg.

gostyng-eiddiach, tanwydd i'n halwydydd.—Mae un o honynt yn ymddangos wedi ei hymylu gan wrwg gwyllt diwrtaith; yr hwn, fel cysgodau wedi eu hiau-drefnu mewn lliwiedyddiaeth, sydd yn taflu harddwch ychwanegol ar ranau mwy addarnedig yr olygfa. Ond ei ddefnyddioldeb nid yw fel hwnw o eiddo y gwrthlun, ya berthynasol yn unig, ond yn wirioneddol. Yno, mae llawer o greaduriaid gwerthfawr yn cael eu dwyn allan, a'u cyfaddasu, heb na thraul na gofal o'n beiddom ni.

Yno hefyd y tyf helaethrwydd o'r llysiâu hyny, a laesant losgiad ein clwyfau, ac a attaliant derfysg tan-lyd y cryd: y rhai a gyfranant dirfïler i'n hylifau cylchredol, ac a ychwanegant fywiogrwydd i'n sylweddau gweithgar, a thrwy hyny, a adnewyddant ddadfeiliau ein cyfansoddiadau gwanychedig.

Yn nes i'r tai yr ydym yn canfod taenfa helaeth o ganghenau; nid mor fawreddog, mae'n wir, a'r derw, ond yn fwy hawddgar trwy eu teyrnged flynyddol. Ychydig amser yn ol, mi a'u gwelais; ac yr oedd y cwbl yn un gwyllt, tég, a diderfyn o ilagur. Y llygad a synai rhag yr olwg brydferth, a'r galon a lawenychai yn y rhagweliad o lawnder hydref. Ond yn awr y forwyn flodeuog a roddodd le i'r wraig ddefnyddiol. Syrthiodd y blodeuyn, a'r ffrwyth a ymchwydda ar bob brigyn.—Anadlwch yn araf, chwi wyntoedd! O, arbedwch y ffrwyth tyner, chwi fallderâu sarrugion! Gadewch i'r gelligwydden roddi sugn i'w heppil nodd-lawn, nes y syrthiont i'n dwylaw, ac y toddont yn ein geneuau. Gadewch i'r eiryrenn grogi heb ei hafflon-yddu, nes y tewycho ei chnawd danteithiol, hyd oni chymhyler ei chroen llyfn gan lasni. Ac am yr afalau,

nwyfau marchnattaol ein perllanau, na bydded i un ysgydwad niweidiol eu prysuro yn anamserol i'r llawr, hyd oni byddo'r beulau adymchwelol wedi eu lliwio â gwedd wridgoch, a'u haddfedu i archwaeth beraidd. Yna y fath bentyrau helaethlawn, gyda phil arlathraidd, a blas melus, a lanwant ein 'stor-gellau! Rhai i'n cymysgaeddu â gwledd gynnar, ac i oeri ein geneuau yn nhybor y gwres mwm. Rhai i gyrhaedd addfedrwydd oddiwrth yr eira gwryf, ac i estyn hydref hyd ddyfnder gauaf. Rhai a addurnant yr heil-ddysgl, ac a ffurfiant ran o'r anwyn, gan roddi terfyniad * hyfryd i'n gwleddoedd. Ereill a lanwant ein gwasg-gafnau â llifeiriant ewynog, yr hwn, wedi ei addfedu gan oed, a ddichon serënu yn y gwydr, gyda bywiogrwydd a melusder ychydig islaw gwaed y grawnwin.

Yr wyf yn canfod amryw faesydd bychain caëedig, y rhai a ymddangosant fel yn ofni rhyw ymweliad gelymol o'r gogledd, ac a ddiffynir, o herwydd hyny, o'r tu hwnw â chaead tew, neu fur uchel. Ar yr un pryd maent yn coledd gohebiaeth ddiattal â'r dehau, ac yn tafu eu hunain yn agored i'w gynnesrwydd cyfeillgar. Y mae un, yn bennodol, yn gorwedd o fewn cyrhaedd fy ngolwg i'w gwahaniaethu, ac ymddengys mai gardd lysiau ydyw. Mae yn edrych, dybygwn, fel gweriniaeth ddirwysg ac ymarbedus. Beth bynag a ddichon ymddangos yn debyg i rodres llysoedd, neu lumanau teyrnedd, a alltudir o'r wladwriaeth ostyngedig yma. Nid oes dim o gynnyrch yr ardd hon yn fursenaidd hoyw, ond mae'r cyfan wedi ei wisgo yn mherffeithrwydd gweddusder. Yma mae'r

* — Ab ovo
Usque ad mala.—Hor.

cymbwysderau clodfawr hyny wedi eu cyssylltu yn hynod, sef y symledd mwyaf, gyda gwir dlysnï.*— Y mae llaw gelfyddgar wedi rhanu'r holl dir yn welyau culion, ac yn rhodfeydd cyfryngol. Mae'r un trefniant call wedi pènu ei drigfa neillduol a gwa-hanol i bob teulu gwyrddlas; fel nad oes dim cym-mysgedd ymhlith yr holl liosogrwydd, o blegid mae pob un yn adnabod ei gartref ei hun, a'r holl lwythau wedi eu rhestro gyda pherffaith reolgarwch.— Os ydyw yn foddhaus edrych ar eu sefyllfa drefnus, a'u tegwch gwylaidd, pa faint mwy hyfryd yw ystyried y manteision a weinyddant! Y fath drysorfa o gyf-addasiadau dewisol sydd yma! Y fath gasgliad o ddanteithion iachus! A'r cwbl er mwynhad dyn. Paham mae'r *persli*, â'i gydynau crychion, yn cedenu'r ymyl? neu paham mae'r *seleri*, â'i breichiau gwynion, yn trydyllu'r clawdd, ond i wneuthur ei isgell yn fiasus? Yr *asparagus* a dardda allan â'i gyff brigfain bongraff, i offrymu iddo flaenffrwyth y tymhor; a'r march-ysgall dof a ledant allan eu penau chwyddedig, i'w wledda ef â mêt llysieuog. Amdorchyddion y *cucumer* † a ymlusgant i'r haul; ac, er ymdeso yn ei

* Simplex munditiis.—*Hor.*

† Mae Virgil, gyda chrynodeb mawr, a phriodoldeb cyfartal, yn disgrifio'r *cucumer*—

——— Tortusque per herbam

Cresceret in ventrem cucumis.— *Georg.* iv.

Mae Milton (os cymmeradwywn ni gyfnewidiad Dr. Bentley, yr hwn, yn fy meddwl i, sydd tu hwnt i amheuaeth yn gywir yn y fan hon) agos wedi cyfieithu llinellau'r bardd Lladinaidd,

——— Forth crept

The swelling gourd.— *Par. Lost*, b. vii. l. 320.

Hyny yw,

——— Allan mwlnw chwyddawl á

Ymlithrai.— *Coll Gwyn.* C. vii. ll. 370.

belydr poethaf, hwy a ddiogelant i'w harglwydd, ac a gostrelant at ei wasanaeth, nodd oeraf y tir. Y ffa a safant yn ddiysgog, fel lluoedd wedi eu byddino i'r gad; y pys a orphwysant ar eu hattegion, fel cynifer mintai o gleifion analluog; tra maent ill deuoedd yn llanw eu codenau o frasder y ddaear, fel y gallont ei dywallt ar fwrdd eu perchenog.—Nid oes un rhyw, ymblith yr holl amrywiaeth hyn o lysiau, yn ormesydd diffrwyth ar y tir. Dim un planhigyn nad yw yn dda yn ymborth; neu mewn rhyw fodd yn iachus. Gyda'r fath drefn fendithiol mae gwahanol gyfnodau eu gweinyddiad wedi ei sefydlu, fel nad oes un rhan o'r flwyddyn wedi ei gadael yn amddifad o ymborth maethlawn. A pheth sydd yn fwy hyfryd etto, mae pob rhan o'r flwyddyn yn gweinyddu y cyfryw ymborth ag sydd fwyaf cymhwys i dymheredd yr awyr, ac ansawdd ein cyrph ninnau.—Paham, gan hyny, y cenfigena perchen y fath ddarn gwerthfawr o dir wrth gyflwr brenbinoedd?* gan y dichon efe rodio yn feunyddiol ymysg rhestri o ddeiliaid ufudd a heddychlawn, er yn fudion, pob un o ba rai sydd yn cynnyg rhyw rodd dderbyniol, ac yn talu iddo deyrnged ewyllysgar; y cyfryw ag sydd wedi eu haddasu yn y modd goreu, i gyflawni ei anghenion, ac i wleda ei archwaeth, i'w gynnysgaeddu ar unwaith â digonedd ac â hyfrydwch.

O bell mae un yn canfod y bryniau cedyrn.—
Maent yn chwyddo eu trumau cribog ymysg y

* Hic rarum tamen in dumis olus, albaque circum
Lilia, verbenasque premens, vescumque papaver,
Régum æquabat opes animis : seraque revertens
Nocte domum, dapibus mensas onerabat inemptis.

Virg. Georg. iv.

cynhyllau; ac yn edrych fel ffiniau teyrnasoedd, neu derfynau anian. Er i'w harwynebau ymddangos yn llwm ac aflumiaidd, mae eu hymysgaroedd yn llwythog o drysorau tafewnol! Trysorau wedi eu diogelu yn sicr yn y maen-glawdd, neu eu suddo yn ddwfn yn y mwma. Oddi yno dichon diwydrwydd gloddio ei hofferynau, i aredig y tir, i fedî'r yd, ac i gael pob cyfaddasrwydd angenrheidiol. Oddi yno geill celfyddyd gyrhaedd ei defnyddiau, i godi'r adail, a chwyddo'r organ, ac i ffurfio addurniadau godidloccaf bywyd bonheddigaid.

O'r tu arall mae'r dyfnder mawr yn terfynu'r olwg. "Yno â'r llongau; yno mae'r lesiathan hwnw:" ac yno, yn y byd hwnw o ddyfroedd, y mae lliaws anamgyffredadwy o anifeiliaid yn cyfanneddu.—Hwn yw pydew cynnwysfawr y bydysawd, yr hwn sydd yn cynmeryd, megis i dderbynfa; ac yn cyfranu, megis o gronfa, yr hyn oll sydd yn dyfrhau'r ddaear. Nid oes un ffynnon yn tarddu yn y diffeithwch anghyfanedd, nac un nant yn ffrydio trwy'r anialwch pellaf, nac un cwmwmwl yn nosio yn ngororau uchaf y ffurfafen, ond sydd yn cael eu maethu gan y ffynnon holl-ddiwallol hon.—Y weilgi yw cludiedydd mawr masnach, a chyssylltydd cenhedloedd pellenig. I ni mae yn neillduol gymmwynasgar, nid yn unig trwy drosglwyddo i'n porthladdoedd cynhauaf pob ardal, a gwneuthur ein hynys yn ganol-bwngc marsiandaeth, ond hefyd trwy ein diogelu rhag cyrch-ymosodiadau tramor trwy fath o amglawdd anghlwyfadwy.*

* "I'r hon y mae'r môr yn rhagfur," Nahum iii. 8.

Gobeithio na bydd i'r hynt fer hon i'r wlad gael ei chyfrif yn grwydriad oddiwrt y testyn: o blegid er nad yw golygfa wledig yn rhan hanfodol o ardd, etto mae yn berthynas dymunol, ac angen-

Mi dybygwn fod yr olwg ar yr haelioni afradwy yma yn creu hyfrydwch dirgel, ac yn ennyn ewyllys da anhunanol.—Tra mae'r "bryniau yn curo'u dwylaw," a'r cnydfawr "ddyffrnoedd yn chwerrthin ac yn canu," pwy all lai nâ phrofi'r llawenydd cyffredinol? pwy nid yw yn cael ei gynnesu gan deimladau bywiog o hyfrydwch?—Tra mae'r Tad tragwyddol yn gwasgaru bendithion trwy ei holl deulu, ac yn coronï'r flwyddyn â'i ddaioni, pwy nid yw yn teimlo ei fynwes yn gorlifo gan garedigrwydd ymdaenol?—Mae fy nghalon i, rhaid i mi addef, yn curo'n uchel gan foddlonrwydd, ac yn cydlawenyachu â holl ddeiliaid yr anneddau gwledig yma; "Bydded heddwch o fewn eich muriau, yn gystal a llawnder o amgylch eich preswylfeydd." Byddwch fyw, chwi rai a uchel ffafryw, byddwch fyw yn ystyriol o'ch cymmwynasau, ac yn ddiolchgar i'ch cymmwynaswr. Edrychwch oddi amgylch ar yr ardrethau dirfawr helaeth hyn, a gelwch hwynt, (canys mae i chwi gyflawn ryddid,) gelwch hwynt oll yn eiddoch chwi.—Yn unig goddefwch i mi ddwyn ar gof i chwi un gwirionedd tra phwysig. Gadewch i mi ddywedyd, ac na anghofiwch byth, eich bod yn rhwymedig i Grist Iesu am bob un o'r cyf-

rheidiol i berffeithio ei harddwch.—Megis mae defnyddioldeb yw priodoledd fwyaf gwerthfawr pob cynnyrchiad, dyma'r amgylchiad y cyffyrddir ag ef yn benaf yn yr olwg ar y wlad. Er fod pob rhan o'r olygfa eang ac amrywiedig hon wedi ei ffurfio yn ol y cynllun godid-occaf, etto nid oes un rhan o honi wedi ei threfnu er mwyn ymddangosiad a rhodres yn unig. Ni welwch chwi ddim wedi ei wneuthur yn ol dull yr *obelisciau* ymddangosiadol, neu rwysg gwag y *peiramid*. Nid oes dim o'r fath draul ofer yn cael ei gymmeradwyo yn y cynddelwad mawr, yr hwn a drefnodd adail yr holl-fyd. Nid oes harddwch yn natur, ar nad ydyw mor llesol ag y mae yn addurniadol; y cyfryw ag sydd yn datgan y Gwneuthurwr yn anfeidrol haelionus, yn gystal ag yn anamgyffredadwy fawrhydigeiddig.

addasiadau hyn, y rhai a darddant o'r ddaear eppiliog, ac a ddefnynant o'r wybrenau serchogion.

1. Crist* a'u gwnaeth hwynt, pryd nad oeddynt.— Efe a'u cyrchodd hwynt i fynu o dywyllwch eithaf, ac a roddodd iddynt eu bodoliaeth a'u harddwch. Efe a greodd y defnyddiau o'r rhai y cyfansoddwyd hwynt, ac a'u ffurfiodd hwynt yn y lliosogrwydd diderfyn yma o ddulliau hawddgar a sylweddau defnyddiol. Efe a wisgodd y nefoedd mewn mantell o'r glas llarieiddiaf, ac a ddilladodd y ddaear mewn gosgordd-wisg o'r gwyrdd teccaf. Ei buntr ef a linellodd, a'i anadl ef a bereiddiodd, yr hyn oll sydd yn hardd neu yn arogl-ber yn y bydysawd. Ei allu ef a sicrhaodd y mynyddau, a'i ddaioni ef a addurnodd y dyffrynoedd. Yr un cyffyrddiad ag a iachâodd y gwahanglwyfus, a weithiodd yr holl gyfundrefn weledig i'r perffeithrwydd cyflawn hyn.

* Pan wyf yn priodoli gwaith y grëedigaeth i'r Mab, ni fynwn mewn un modd i neb feddwl fy mod yn tynu yr un anrhydedd oddiwrth y Tad tragywyddol, a'r byth-wynfydedig Ysbryd. Mae gweithredoedd y Personau anamgyffredadwy ogoneddus hyn, fel eu hanfod, yn anwahanol ac yn un. Ond yr wyf yn dewis sefydlu'r pwngc yn y modd hwn, o herwydd mai hyn yw athrawiaeth eglur y Testament Newydd; cred bendant ein heglwys; ac un o ddatguddiedigaethau priodol yr efengyl.—Yr wyf yn ei ddewis hefyd, o herwydd y mynwn, ar bob cyfleusdra, egluro a chlodfori dwyfoldeb y Gwardwr. Gwirionedd, yr hwn sy'n argraffu urddas annhraethol ar Grist'nogrwydd: gwirionedd, yr hwn sydd yn gosod sylfaen safadwy i holl obaith cysurllawn y Cristion: gwirionedd, a wna ddirgelwch ein hiachawdwriaeth yn rhyfeddod a hyfrydwch tragywyddoldeb; ac â'r gwirionedd hwn, gall pob un weled, mae fy haerriad wedi ei gyssylltu yn anysgaradwy.

Os bydd neb yn ammau a yw hyn yn athrawiaeth ein heglwys, bydded i'r gred, a adroddwn ni yn ein gwasanaeth mwyaf difrifol, benderfynu'r ddadl: "Credaf," medd y ffurf hōno o athrawiaeth iachus, "yn un Arglwydd Iesu Grist, gwir Dduw o wir Dduw, *trwy yr hwn y gwnaethrwyd pob peth.*"—Os gofynir ymbellach, o ba le y tynodd y tadau Niceaidd yr erthygl hwn o'u ffydd? yr wyf yn ateb, o ysgrifeniadau y dysgybl anwyl, a bwysodd ar fynwes yr iachawdwr; a'r apostol mawr a gipiwyd i ffyn i'r drydedd nef. Ioan i. 3. Col. i. 16.

2. Crist a'u hadferodd, pan oeddynt wedi eu colli.— Trwy bechod Adda collasom ni ein hawl i gysuron bywyd, a ffrwythau'r ddaear. Yr oedd ei anufudd-dod ef yn deyrn-fracwriaeth, o'r mwyaf annuwiol ac erchyll, yn erbyn Brenin y brenhinoedd. Yn ganlynol, attafaelwyd yr holl drestadaeth; yn gystal y rhan o bethau da tymhorol a sefydlasid ar yr hil ddynol drôs amser eu maboed, a'r etifeddiaeth dragywyddol oedd yn nghadw er eu mwynhad pan ddeuent i'w hoedran cyflawn. Ond "Had y wraig," gan gyfryngu yn ddiatreg, a gymmerodd ymaith y dyfarniad, ac a ryddhaodd yr etifeddiaeth a gollasid. Ar ol dietifeddu yr Adda cyntaf, yr ail Adda* a benodwyd yn etifedd pob peth, gweledig ac anweledig. Ac yr y'm ni yn dal meddiant o'r blaenaf, ac yn dysgwyl adsefydliad yn yr olaf, yn hollol trwy rinwedd ein cyngrair a'n hundeb ag ef.

3. Crist sydd yn eu cynnal, pe amgen syrthient i ddinystr.—"Ynddo ef," medd geiriau ysbrydoliaeth, "mae pob peth yn cydsefyll." † Ei fys ef sydd yn

* Heb. i. 2.—Yn yr ystyr hyn, o leiaf, mae Crist yn iachawdwr pawb: y cynnar a'r diweddar wlaw; ffrwythau gwerthfawr y ddaear; ymborth i'w swytta; a dillad i'w gwisgo; y rhai hyn oll a brynodd efe, hyd yn oed i'w elynion anadferadwy. Mae y rhai sy'n codi eu sodlau yn ei erbyn yn bwyttu ei fara.

Yr ydym yn dysgu oddi yma, ar ba olygiad neillduol a hoff mae'r Cristion i fyfyrto ar y pethau gweledig. Gallasai paganiaid ganfod dragywyddol allu, a doethineb anfeidrol, yn ffurfiad y bydysawd; gallasai paganiaid gydnabod yr haelioni mwyaf, yn rhoddiad yr holl adail gyda'r holl ddodrefa at wasanaeth dyn. Ond dylai'r Cristion gadw yn ei gof yn wastad y goll o honynt, a'r pridwerth er yr hwn y prynwyd hwynt. Efe a ddylai dderbyn rhoddion Rhagluniaeth hynaws, fel y derbyniodd yr Israeliaid eu cyfraith, o law cyfryngwr. Neu yu hytrach, maent hwy yn dyfod atto ef, nid yn unig gan ddeillio o drysorau haelioni diderfyn, eithr gan nosio, fel pe byddai, yn y llif porphor yr hwn a ffrydiodd o wythi Emanuel.

† Col. i. 17.—Yr wyf yn crefu caniatad i ychwanegu nodiad perthynasol St. Chrysostom ar y gyfran hon; trwy yr hyn yr ymddengys, nad yw y meddwl a gynnwys y dosbarthiadau uchod yn unig yn dyb

cylchdreiglo'r tymhorau, ac yn goruwch-lywio chwildroion y cyrph nefol. Ei fys ef sydd yn dirwyn yr olwynion i fynu, ac yn peri i bob planbigyn darddu. Mewn gair, mae holl bwys y grëedigaeth yn gorphwys ar ei fraich gadarn, ac yn derbyn holl gysondeb ei mudiad oddiwrth ei lygaid diwyrni.—Y belen gyfanneddol hon, a'i holl berthynasau gwerthfawr, a'i pheiriannwaith cynnil, ni allent barhau, mwy nag y gallasant greu eu hunain. Chwyrn-neidient i annbrefn, neu syrthient i'w diddymdra cyssefin, oni bai fod ei allu ef yn eu cynnal, a'i ddoethineb ef yn eu rheoleiddio bob munud. Mewn cydffurfiad a'i ewyllys y maent yn sefyll yn ddiysgog ac anghyfnewidiol yn eu trefn, heb ddysgwyl ond am ei awgrym pen-arglwyddiaethol i "syrthio fel y dwfr a red i waered."

4. Crist sydd yn eu cynhyrfu,* pe amgen byddent heb fywyd na gweithrediad.—Ymddibynwyr ydynt i gyd, ymddibynwyr parhaus ar ei haelioni ef; ac o'i gyflawnder ef maent yn tynu eu holl. Ynddo ef yn unig y mae bywyd, ac y mae beth bynag sy'n gweithredu, yn gweithredu trwy gyfranogiad o'i holl-ddigonolrwydd ef. A ydyw'r grawn yn eich llòni á'u nodd adfywiol? Hyn sydd trwy awdurdod derbyniedig, a rhinwedd deilliedig oddiwrth y Gwaredwr. A ydyw bara yn cryfhau eich

bersonol, ond ei fod yn gred broffesedig y gyn-eglwys. Τητεται, medd y tad hyawdl, εις αυτον κρεματα η παντων υποστασις* η μονον αυτος αυτα εκ τω μη οντος εις το ειναι παρηγαγεν, αλλα και αυτος αυτα συζηρει νυν* ωσε αν αποσπασθη της αυτης προνοιας, απολωλε και διεφθαρται.

* Ioan v. 17. "Mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio;" neu, Yr ydwyf yn gosod allan y grym diattal a diffino hwnw, pa un yw bywyd y grëedigaeth.—Fel hyn yr alleirir y geiriau gan ddeonglwr hyfedr, yr hwn a eglurhaodd fywyd ein Harglwydd bendigaid gydag uniondeb godidoccaf beirniadaeth, gydag ysbyrd hawddgaraf duwioldeb, ac heb unrhyw gymmysgedd o surdoes cenfigenllyd, neu neillduolrwydd gwael pleidgarwch. Gwel *The Family Expositor*, vol. i. sect. 47.


calon, ac yn ffon bywyd i chwi? Cofiwch, mai trwy drefniad y lachawdwr, a thrwy effeithioldeb ei weithrediad, y mae felly. Yr ydych yn ymhyfrydu yn ei beroriaeth, pan ddel "yr amser i'r adar i ganu, ac y clywir llais y durtur yn ein gwlad." Yr y'ch yn profi ei ddaioni yn y ffigysen ddanteithiol, yn y peatys toddedig, ac yn mlas sawrber y bricyllen. Yr ydych yn aroglu ei felusder yn agoriad y gwynwydd, ac ymhob prysgen ber-anadlol.

Pe gallai'r creaduriaid hyn lefaru drostynt eu hunain, ymwadent, yn ddiau, â phob digonedd o'r eiddynt hwy, a phriodolent yr holl anrhydedd i'w Gwneuthurwr.—'Gweision ydym ni,' ddywedent, 'i'r hwn a fu farw drosoch. Pydewau yn unig, a phydewau gweigion ynom ein hunain, nid ydym yn cyfranu mwy i chwi nag mae'r ffynnon ddigrëedig yn dywallt i ni. Na feddyliwch, mai o un digonolrwydd ynom ein hunain, yr ydym yn eich cynnysgaeddu chwi â chymhorth, neu yn gweini cysur i chwi. Y gallu dwyfol, a'r gallu dwyfol yn unig, sydd yn gweithredu ynom, ac yn gwneuthur i chwi ddaioni.—Yr ydym ni yn eich gwasanaethu chwi, O feibion dynion, fel y galloch chwi ei garu ef, yr hwn a'n cyfleodd ni yn y sefyllfaoedd yma. O! cerwch yr Arglwydd, chwychwi y rhai oll a gynnelir trwy ein gwasanaeth ni, os amgen ni a ocheneidiwn * rhag eich camddefnydd o'n gweiniadau.—Defnyddiwch ni, a groesaw; o blegid yr ydym ni yn eiddo chwi, os ydych chwi yn eiddo Crist. Brig-dorwch ein tegwch penaf, anrheithiwch ein holl drysorau, cyfaddaswch eich hunain â'n hansoddau gwerthfawroccaf; yn unig bydded i ni fod yn foddion i ennyn eich diolchgarwch, a'ch cyffroi i ufudd-dod.'


* Rhuf. viii. 22.

Ar ol golygu yr wybrenau, a thafu tremiad dros y grëedigaeth isod; mae'n bryd i mi ddisgyn o'r uchelfa yma, a chyfyngu fy sylw at y man prydferth obry.— Yma mae natur, bob amser yn foddhaus, ymhob man yn hawddgar, yn ymddangos gyda deniadau neillduol. Accw, mae hi yn ymddangos yn ei boreu-wisg, yn fawreddog, ond yn annbrefnus. Yma mae hi yn galw i mewn ei llawforwyn celfyddyd, ac yn ymddysclaerio yn yr holl addurniadau bonheddigaid a ddichon y gwrteithiad cynnilaf eu dwyn oddi amgylch. Y rhai accw, ydynt ei hystafelloedd arferol, lle mai hi yn llettya ei hymwelwyr cyffredin; hon yw cell ei chywreinderau, lle mae hi yn groesawu ei chyfeillion cyfrinachol.—Caiff fy ngolwg ymledu yn aml dros y golygfeydd hyny o ffrwythlondeb cyffredinol; caiff fy nhraed ffrystio trwy'r prysgwydd, neu groesi'r llenyrch, neu grwydro hyd agoriadau'r goedwig: ond i'r ddirgelfa hyfrydlawn hon bydd fy mbrif ymneillduad. Crwydraf yno, preswyliaf yma.

Os, oddiwrth fy null isel o fyned ymlaen, y gallaf wneuthur cyfeiriad at yr arferiadau mwyaf dyrchafedig, mi a sylwn, ar yr achlysur hwn, i'r clodfawr Erasmus, a'n deallus Locke, ar ol troedio cylchedd y gwyddiadau, ac ymlwybro trwy holl äangder dysgeidiaeth ddynol, yn y diwedd ymroddi yn hollol at y Bibl. Gan adael doethion hynafiaeth, hwy a eisteddasant yn ddibaid wrth draed yr Iesu. Hwy a ymdynasant yn ddoeth oddiwrth ddirfawr liosogrwydd dysgeidiaeth, a'r gororau diderfyn hyny o ysgolheigddod difyrus, lle mae chwyn gwenwynig wedi eu cymmysgu â llysiâu iachus; lle mae'n gyffredin frasaçh twf o brysgwydd pigog nag o ganghenau ffrwythlawn. Hwy



— är dörjig för hyfrydelsen, han bydd sig mörk
ymneilskvad.



a dreuliasant eu horiau addfedaf yn y gerddi hyny, a blannod doethineb Duw ei hun, y rhai mae Ysbryd Duw yn eu dyfrhau, ac yn y rhai mae Mab Duw yn rhodio'n wastad; lle mae efe yn cyfarfod â'r rhai sy'n ei geiso, ac yn amlygu iddynt ogoniant ei berson, a goludoedd ei ddaioni.

Fel hyn y mynwn innau derfynu fy nyddiau. Wedi profi (yr hyn a alwant) y myfyrdodau bonbeddigaid, mi a gyflwynwn fy holl ymroadau i'r oraclau bywiol. Oddiwrth ymlyniadau ereill, gallwn loffa ychydig friwsion gwasgaredig o addysg gwael, isel, ac annigonol. Oddiwrth hwn, yr ydwyf yn hyderu meddy cynhauaf o'r gwirioneddau mwyaf dyrchafedig, o'r manteision godidoccaf, a'r gorfoledd puraf.*—Tros-glwydder fi, ynte, O! trosglwydder fy meddwl i wasgodau cyssegredig Sion. Crwydred fy myfyrdodau yn barhaus trwy rodfeydd ofnadwy-foddhaol ysbrydoliaeth. Yno mae'r planhigion nef-anedig hyny, preniau bywyd a gwybodaeth, firwythau anfarwol y rhai a allwn ni yn awr "eu cymmeryd, a'u bwytta, a byw yn dragywydd." Yno y treigla'r ffrydiau gwerthfawr hyny o ras a chyfiawnder, o ddyfroedd bywiol pa rai "pwy bynag a yfo ni sycheda yn dragywydd." A pha beth all ffug-chwedlau barddoniaeth Roegaid, neu dudalenau cynnilaf hyawdledd Rufeinig—pa beth allant hwy ei ddangos mewn un radd yn haeddu ei gymhara â rhagorfreintiau anghyfartal datguddiad!—Gan hyny, er na byddai yn anhoff genyf ymweled yn awr ac eilwaith â'm bathrawon paganaidd, mi a fynwn fyw gyda'r prophwydi a'r apostolion. A'r rhai hyny

* Quicquid docetur, veritas; quicquid præcipitur, bonitas; quicquid promittitur, felicitas.

mi a ohebwn yn achlysurol, ond y rhai hyn a gaent fod fy nghyfeillion mynwesol, "fy hyfrydwch, a'm cynghorwyr."

Pa felusderau yw y rhai hyn, a anerchant fy ffroenau mor hyfryd? Anald blodau ydynt, ac arogl-darth yr ardd!—Mor haelionus mae'r siasmin yn cyfranu ei drysorau! Mor felus mae'r gwynwydd wedi pereiddio y rhodfa foreuol hon! Mae'r awyr i gyd yn berarogl.—Ac onid yw hyn yn annogaeth arall o'r fwyaf ennillgar i ymadael â gwely diogi? Pwy a orweddai yn ymollyngar mewn cwsg marwaidd dideimlad, tra mae cynifer o anadliadau melusion yn ei wahodd i wledd o berarogl? yn enwedig pan ystyrier, y bydd i'r dydd wrth ddyfod ymlaen agerddu y danteithion hedegol. Gwledd ansafadwy ydynt, wedi ei darparu i'r deffröus a'r diwyd yn unig. Pan, pryd y bydd y diogyn wedi codi ei lygaid trymllyd, bydd y blodau yn ymollwng, a'u harogl per yn ymchwalu; ac yn lle y tirdfer adfywiol yma, bydd yr awyr yn fath o dân hylif.

A'r annogaeth hon, wedi ei dyrchafu trwy arddangosiad o ddarnau mwyaf boddhaol golygfa foreuol, mae tad dynolryw yn deffroi ei gymhares. Y mae'r fath gynnilddeb yn newisiad, a'r fath fywyd yn nesgrifiad, yr ymddangosiadau gwledig hyn, fel nas gallaf esgusodi fy hun heb adrodd yr holl gyfran.—Bydded i ryw angel cyfeillgar ei hysibrwd yn nghlustiau pob un sydd y funud hon wedi suddo mewn cysgadrwydd, ac yn colli'r hyfrydwch pur yma:—

Deffrowch! y bore tég a'r gwryf faes
A'ch geilw allan: colli'r y'ch yr awr
I sylwi twf y llysiau, a pha fodd
Blodeua'r aur-afalau; a ph beth

Ddifera'r myrr, pa beth y gorsen ber;
 Fel lliwia anian; fel ar flagur saif
 Y gwenyn gweithgar, yn gorddyfnu mêl.*

Mor hyfryd yw'r cysewyr hyn! Mae yn cael ei gyfranu gyda'r cyfartalwch mwyaf; fel nad yw nac yn rhy gryf i ormesu ein peiriannau, nac yn rhy wan i ddiange ein sylw. Mewn gwledd rwysgfawr, llenwir ni i fynu yn fuan; ond nid yw'r hyfrydwch hwn byth yn colli ei lymdra, byth yn diflasu.—Yma mae gloddest ei hun yn ddiniwed; ac nis gall un ymdroi ynddo i ormodedd.—Mae'r arlwyad adfywiol hwn, nid yn unig yn gwledda'r syniad, eithr yn bywiogi'r † enaid, ac, yn lle llyfetheirio, yn ysgafnhau'r galluedd.—Mae yn dwyn ar gof i mi yr aberth clodwiw, a wnaed unwaith ar ran troseddwy'r marwol: sef aberth y bendigedig Iesu, pan offrymodd efe ei hun i Dduw, megis "arogl peraidd." Y cyfryw yw yr enw a rydd yr Ysbryd Glân ar yr offrwm rhyfedd hwnw: fel pe ni buasai un gyffelybiaeth arall trwy yr holl grëedigaeth weledig mor briodol i roddi meddylddrych o'r boddlonrwydd anhraethol a gafodd Tad y trugareddau oddiwrth yr iawn anghymharol hwnw, ag yw'r teimladau boddhaol mae'r fath beraroglau pur yn alluog i'w heuny. "Miloedd o feheryn, a myrddiwn o ffrydiau olew," oddiwrth fyd gwrthnysig; y cydnabyddiaethau gostyngyddiaf, wedi eu hychwanegu at yr offrymau gwerthfawroccaf, oddiwrth ddynion â dwylaw aflan a gwefusau halogedig; pa beth a allasent hwy effeithio? Mae prophwyd yn disgrifio y "Goruchel a'r Dyrchafedig, yr hwn sydd yn preswyllo tragywyddoldeb," yn

* *Milt. Par. Lost*, b. v. l. 20.

† "Olew ac arogl-darth a lawenycha'r galon," *Diar*. xxvii. 9.

troi ymaith oddiwrth y fath fratiau budron; yn troi ymaith gydag atgasrwydd,* megis oddiwrth fudredd tommen ffaidd.—Ond yn sancteiddrwydd difrycheulyd Crist, yn ufudd-dod perffaith Crist, yn ngwerthfawroccaf dywalltiad gwaed Crist, gyda pha hyfrydwch anamgyffredadwy mae cyfiawnder yn ymfoddloni, mae dialedd yn ymdawelu!—Mae dy holl weithredoedd, O dydi fachniydd pechaduriaid dinystriol! mae dy holl ddyoddefaint, O dydi Oen lladdedig Duw! yn gystal a'th holl wisgoedd, O dydi Briodfab yr eglwys! “yn aroglï myrr, aloes, a chasia.”† Maent yn anfeidrol fwy boddhaol i'r Duwdod tragywyddol, nag y dichon tarthiadau mwyaf dewisol yr ardd, a holl aroglau y dwyrain berlysieuog, fod i'r ffroenau dynol.

Fel yr oedd yr allor gynt yn sancteiddio'r rhodd, felly dyma'r iawn mawr sydd yn cymmeradwyo personau pechadurus, a gwasanaeth anfuiddiol, y byd o gredinwyr. Bydded rhan gan fy enaid yn hwn! Trwy hwn cymmoder ef â'r Tad!—Mae'r fath aflendid gwahanglwyfus yn glynu wrth fy natur, ar sydd yn halogi fy holl gyflawniadau. Rhaid i'm haddoliad gostyngyddiaf, a'm gweithredoedd crefyddol mwyaf didwyll, beidio rhyfygu hōni gwobr, eithr ymbil yn ostyngedig am faddeuant.‡ Gan ymwadu yn hollol â mi fy hun yn y cyflawniad o bob dyledswydd; ac

* Amos v. 21, 22.

† Psal. xlv. 8.

‡ Mae ysgrifenydd o uchafiaeth hynod yn anerch Sylwr mawr gweithredoedd, a Chwiliwr y calonau, fel hyn; ac yn cyflawnhau fy nhyb i, tra mae efe mor gywir a godidog yn datgan yr eiddo ei hun:—

I lawr, mewn mwyn dosturi, edrych, Dduw,
Ar lwchyn o anadiol, ddistadl lwch:
Maddeu ei feiau, a'i rinweddau 'nghyd,
Ei feiau llai, ar hanner troi i'r iawn.

Night Thoughts, No. ix.

ymwrthod â phob cysgod o ymddiried* mewn unrhyw weithredoedd o'm heiddo fy bun; a'm ceir i yn awr, ac yn dragywydd, yn gymmeradwy yn yr Anwlyd.

Y fath liwiau, y fath swyngar liwiau, sydd yma! y rhai hyn mor odidog hyf, y rhai accw mor brydferth lesg! Y fath fflam sydd yn ennyn yn rhai; y fath ddysclaerdeb sydd yn tywynu yn ereill! Yn un, mi dybygwn, y gwelaf y cwrel a'i lewyrch yn gwaedu; yn ereill, y saphir a'i lasar amryliw; ynddynt oll, y fath wychder manwl o liwiau, ar nas dichon dim paentiadau yn y byd ymfrostio ynddynt.†—Gyda pha fedrusrwydd celfyddgar mae pob gwawr amrywiol wedi ei threfnu! Yma ymddangosant wedi eu tafu yn rhwydd a diosal, accw wedi eu cymhwyso gyda chywreinrwydd cynnilaf celfyddyd a chywirdeb. Y cynlliwiau a ddewisir yn wastad mor ddoeth, fel y maent yn ychwanegu llewyrch y lluniau arddódiadol; tra mae gwyrddni'r corsenau, a chysgodau'r dail, yn tywallt bywiogrwydd newydd ar y cyfan. Yn wir, pa

* Gwel tudal. 44 a 45, o'r ail argraffiad o draethawd tég ac efengylaidd, a elwir *Christianity the great Ornament of Human Life*.—“Os gochel Crist'nogion yr eithafoedd peryglus, a'r graig angeuol yn rhy fynych, o ffydd farw a diffwyth ar y naill law, efe (sef Satan) a ymdrecha, trwy bob hudoliaeth ddeniadol, i'w dryllio ar yr un gyferbyniol, sef balchder ysbrydol, rhodres, ac ymddiried yn eu gweithredoedd eu hunain, fel pe byddai y rhai hyn yr achos haeddiannol neu bwrcasol o'u heddwch, gobaith, dyddanwch, a'u cymmeradwyaeth gyda Duw.—Yn awr gellir cyfrif yr hunan-ymddiried hyn ymhlith y mwyaf peryglus o ddichellion uffern, o herwydd mae'r gwenwyn marwol yn gorwedd yn ddwfn, ac yn fynych yn annirnadwy.”

† Pwy baentia megis natur? Trwy'i chrëedigaeth gain,
A all dychymmyg ffrostio mewn lliwiau fel y rhai'n?
A all hi eu cymmysgu â'r fath fedrusrwydd mawr,
Eu gosod ar, a'u taenu mewn fath brydferthwch gwawr,
A'u colli yn eu gilydd yn annirnadwy gyd,
Fel blodau tég y gwanwyn, sy'n awr yn gwisgo'r byd?

Thomson ar y Gwanwyn.

un bynag ai eu cymmysgu ai eu rhestru, eu nawseiddio ai eu gwrthgyferbynu a wnair, amlwg yw eu bod dan dywysiad medrusrwydd, nad yw byth yn camgymmeryd; a llwydd, nad yw byth yn fyr o gyrhaedd gwir berffeithrwydd gwycheder. — Mein-dêg anghymharol yw cynmblethiad y wê ar yr hon mae'r trysorau dysclaer hyn yn cael eu harddangos. Pa beth yw holl lafur gwýddau Persia, neu holl ffrostgar nwyfau Brussels, mewn cymhariaeth i'r llaw-weithfeydd hyn o eiddo natur? Wrth eu cymharu a'r rhai hyn, mae'r cambric mwyaf mawrhaus yn colli eu clod; i'e, hyd yn oed y bliant dinesig a ymddengys mor arw a charthen yn eu gŵydd.

Y fath reswm cysurus mae ein Hiachawdwr yn dynu oddi yma, i gryfhau ein hymddiried yn Nuw! Mae efe yn ein harwain i ddysgu gwers o ffydd nefymddibynol, oddiwrth bob aderyn a chwery'r adain yn yr awyr, a phob blodeuyn a flagura yn y maes. Os yw Rhagluniaeth, gyda gofal dibaid, yn cynnal y creaduriaid gwaelion hyny, ac yn gwisgo'r blodau dideimlad hyn, â'r fath ogoniant; yn ddiâu, ni attal efe, mewn un modd, "fara i'w fwytta, a dillad i'w gwisgo," oddiwrth ei blant etholedig.—Chwi ganlynwyr ffyddlawn yr Oen, rhoddwch heibio eich pryder isel am gynnalïaeth angenrheidiol bywyd. Efe, yr hwn sydd yn porthi'r cigfrain o'i drysorfa ddiysbydd; Efe, yr hwn sydd yn lliwio'r planhigion â'r fath wychder rhagorol; mewn gair, Efe, yr hwn sy'n darparu mor haelionus dros ranau anifeilaidd a llysiuog y grëedig-aeth; ni fyn, ni all, esgeuluso ei bobl ei hun. "Nac ofna, braidd bychan," chwi wrthddrychau neillduol y cariad tragwyddol! "rhyngodd bodd i'ch Tad rodidi

i chwi y deyrnas.”* Ac, os yw efe yn wirfoddol yn rhoddi i chwi deyrnas dragywyddol ar ol llaw, a yw yn ddichonadwy meddwl y gwrthyd efe unrhyw angenrheidiau cyfaddas i chwi yma?

Ni all un lai nâ sylwi, yn y man hyn, ar y mympwy rhy gyffredin o fod yn hoff o wisgad rhodresgar.†

* Luc xii. 32.

† Mae gan Mr. Addison nodiad godidog ar ryfelwraig glodfawr yn ngwaith Virgil. Mae efe yn sylwi, ymhlith ei holl gynbeddfau mawrion ereill, fod y gwendid bychan hwn wedi ymgymmysg; o blegid, fel mae'r prydydd yn adrodd, hoffder anghymmedrol mewn pâr o arfogaeth werthfawr a llewyrchus a'i bradychodd i'w dinystr. Yn yr amgylchiad hwn, mae'n beirniad yn darganfod addysg yn guddiedig; mae efe yn mawrhau hyn fel sen hardd, er lleddf, ar y nwyd goeg hon. *Spect. Vol. i. No. 15.*

Myfi a osodwn ar y darlennydd deallus, pa un a oes godidogrwydd o'r un natur, ond wedi ei drin gan law fwy celfyddgar, yn nghân Deborah.—Gan lefaru am fam Sisera, mae y gerdd sanctaidd o ddiolchgarwch yn ei disgrifio fel yn blaen-brosi, yn ei dychymmyg hoff, buddugoliaeth ei mab, ac yn ymddifyru yn yr hunaa-ymddiddan caulynol;—“Oni chawsant hwy? oni ranasant yr anrhaith? Anrhaith o wisgoedd symmudliw i Sisera, anrhaith o wniadwaith symmudliw; symmudliw o wniadwaith o'r ddeutu; cymhwys i yddfau yr anrheithwyr?”—Nid yw hi yn cymmyr un sylw o'r gwasanaeth hynod a wnaethai ei harwr i'w wlad, trwy ddarostwng y fath derfysg peryglus: nid yw hi unwaith yn myfyrio ar y clod presenol, y dyrchafiad dyfodol, a'r enwogrwydd tragywyddol, y rhai, yn gyffredin, ydynt y deyrnged a delir i rinwedd goresgynwr; ni all hi, mae'n ymddangos, amgyffred dim sydd fwy nag iddo gael ei ddilladu mewn dillad brodieidig, a llusgo gwsg o'r lliwiau teccaf ar ei ol hyd y llawr. Hyn, yn ei dychymmyg hi, yw'r anrhaith fwyaf arglwyddaidd a ddichon efe ei hynnil, yr arwydd buddugoliaeth mwyaf rhwysgfawr a eill efe ei adeiladu.—Mae'n beth i sylwi arno hefyd, fel mae hi yn trigo ar yr amgylchiad bychan; yn ei adseinio drachefn a thrachefn. Mae wedi swyno ei chalon wael, a llyngcu ei golygiadau culion, mor llwyr, fel nad all hi feddwl am ddim arall; a phrin y geill hi byth ymadael â'i thestyn hoff.—A yw hyn ddim yn ogan llym, er wedi ei lechu yn fedrus, ar yr archwaeth dlawd, ddiystyryld, a gwael, yr hwn sydd wedi ei gaethiwo gan wychder sidanaldd, ac yn gwneuthur priodoliaethau eilier yn eilun eu serchiadau?

Mor eglur yw ysbyrd dyrchafedig a mawreddog y fam hybarch hōno yn Israel, pan edrycher arno mewn cymhariaeth i feddwl isel a diystyryld y fonheddiges Ganaaneaidd hon!—Y fath wrthgyferbyniadau cryfion a godidogion ydynt, yr wyf yn meddwl, rai o ragoriaethau penaf darluniad prydyddol; ac nid ydynt mewn un llyfr yn cael eu harfer yn

Y fath uchel-gais distadl a chamsyniol yw hwn! mor annheilwng o urddas bodau anfarwol, a doethineb rhai rhesymol! yn bendifadden gan fod y cynnyrchiadau bychain yma, a darddant o'r ddaear, tu hwnt i ddadl, yn meddu tra rhagoriaeth yn y cyfryw addurniadau allanol.—Dos; gwisg dy hun mewn porphor a lliain main: ymdrwsia yn holl barddwch gwisgad a ddichon y wennol neu'r nodwydd ei ddarparu; etto, gwybydd, er gofid i'th wagedd, fod gwychder naturiol y sensigl cyffredin* yn cymhylu dy holl goeg-degwch gorchestol.—Ië, pe addurnid di, fel rhyw dywysoges ardderchog ar ddydd ei choriad, yn holl ddysglaerdeb trwsiad brenhinol; pe gellit fod yn gydradd â Salomon, yn uchder ei rwysg a'i ogoniant, etto y gwaelf ymysg yr hil lysieuog a dywynai yn fwy llewyrchus ná thi. Rhoddai pob llygad craff y flaenoriaeth i'r teganau hyn o eiddo'r llawr.†—Gwridia, ynte, fenthycia dy ragoriaethau oddiwrth ddosbarthiad tég o edafedd, neu drefniad cywrain o liwiau. Cymmer arnat briodol fawredd tymher. Bydded dy berffeithiadau o'r rhyw anfarwol. Ymdrecha fod oll yn ogoneddus o mewn. Ymddillada mewn gostyng-eiddrwydd. Gwisga yr addurn o ysbryd isel a llariaidd.‡ I ddywedyd y cwbl mewn gair, "Gwisg

amlach, neu eu datgan gyda mwy o fywyd, nag yn nghyfolau sanct-aidd ysbrydoliaeth.

- * Yn dawel yn eu tir cynhenid, hwy
 Nid y'nt yn nyddu, na gofalu chwaith;
 Ac etto gwawdiant, mewn mawrhydi uwch,
 Ddirymdra'n bachder, yn ein gwisgad gwael.

Prior.

† Mr. Cowley, gyda'i arferol fywiogrwydd dychymmyg, a'u geilw hwynt "ser y ddaear."

‡ Mor odidog mae'r prophwyd yn disgrifio dodrefn calon adnewyddedig a nefol, dan y gyffelybiaeth o bâr cyflawn a gwerthfawr o ddillad!—

am danat yr Arglwydd Iesu Grist :”* tywallter ei waed ar dy gydwybod, a hi a fydd yn wynnach nâ'r eira gwryf. Addurned ei gyfiawnder, fel gwisg ddi-frycheulyd, dy ddyn oddi mewn; a thi a fyddi oll yn hawddgar, hyd yn oed yn llygaid treiddgar Duw. Preswylid ei fendigedig Ysbryd yn dy galon; a thàn ei weithrediadau sancteiddiol, tydi a wneir yn gyfranog o'r duwiol anian.

Y rhai hyn ydynt ragoriaethau gwirioneddol; perffethderau gwir odidogion ydynt. Fel hyn dillader di, addurner di fel hyn; ac ni bydd cydymgeisydd â thi yn mhlur paun, nac yn nail y tiwlib. Y pethau hyn a'th godant ymbell uwchlaw ffugiau amaerwy a brodiaeth. Y pethau hyn a'th barottoant i sefyll yn y presenoldeb didranc, ac i gymmeryd dy eisteddfa ymblith angylion y goleuni.

Y fath sefyllfa swyngar yw hon! Prin y gall un fod yn brudd o fewn awyrgylch blodau. Y fath liwiau bywiog, y fath aroglau danteithiol, nid yn unig a gyfarchant y teimladrwydd yn foddhaol; eithr cyffyrddant, gyda melusder rhyfedd, â mudiadau hyfrytaf y meddwl;

— Yn ennyn yn y fron

Gwanwynol † hoen a llonder.—*Milt.* ll. iv.

“Gan lawenyachu y llawenyachaf yn yr Arglwydd; fy enaid a orfoledda yn fy Nuw: canys gwisgodd fi â gwisgoedd iachawdwriaeth: gwisgodd fi â mantell cyfiawnder, megis y mae priodfab yn ymwisgo â harddwisg, ac fel yr ymdrwsia priodferch â'i thlysau,” *Esai.* lxi. 10.

* Rhuf. xiii. 14.

† “Mi a fynwn i'r darlennydd ymdrechu *ysbrydoli* yr hyfrydwch naturiol hwn, a dyrchafu yr hoen gwanwynol, fel mae Milton yn ei alw, yn rhinwedd Crist'nogol. Pan fyddom yn teimlo ein hunain yn cael ein cynhyrfu gan y reddd hyfrydlawn hon, y boddlonrwydd dirgel, a'r ymdaweliad hyn, y rhai a godant oddiar degwch y grëedigaeth; ystyriwn i bwy yr ydym yn ddyledus am yr holl arlwyadau hyn i'r

Mor fynych y teimlais hwynt yn chwalu tywyllwch y meddwl, ac yn tywallt math o hyfrydwch trwy fy ysbrydoedd isel! Ni allaf fi ryfeddu fod brenbinoedd yn disgyn oddiar eu teyrngadeiriau, i rodio ymysg ifori ac aur blagurog; neu yn ymneillduo oddiwrth y wledd fwyaf danteithiol, i gael eu hadfywio gan felusderau perffeithiach yr ardd. Ni allaf ryfeddu fod brenbinesau yn ymadael, dros ychydig, â chyfarchiadau cenedl, i dderbyn teyrnged y rhosfa; neu yn ymneillduo o holl wychder y llys, i gael gweini arnynt gan osgordd ddysclaeriach gwely o flodau.—Ond os yw hyn mor hyfryd, y fath hyfrydwch, perlewylol raid godi oddiar y mwynhad o ragoroldeb digrëedig! O! y fath lawenydd annirnadwy fydd myned i mewn i'th bresenoldeb digyfrwng, wynfydediccaf Arglwydd Dduw! Fydd dy weled di,* Frenin y nef, ac Arglwydd y gogoniant, “nid trwy ddrych” tywyll mwyach, “ond wyneb yn wyneb!” Fydd cael dy holl ddaioni, a'th holl fawredd, i lewyrchu ger ein bron; a chael ein llawenyachu yn oes oesoedd â'r datguddiadau dysclaeriaf o'th berffeithderau, ac â gorfoledd anhraethadwy dy wynebpriyd!

syniad; a phwy yw yr hwn sydd yn agor ei law fel hyn, ac yn llanw'r byd â daioni.—Y cyfryw arferol dymher meddwl, a gyssegra bob maes a gwlg; a dry ein rhodfa gyffredin yn aberth boreuol a hwyrol; a ddyrchafa y godywyniadau anwadal, y rhai yn naturiol a lewyrchant ac a adfywiant y meddwl ar y cyfryw achlysuron, yn gyflwr anniddymol a safadwy o wynfyd a dedwyddwch.”—*Spect. Vol. v. No. 394.*

* Mae Esaia yn disgrifio dedwyddwch y cyfiawnon yn y byd tragwyddol, yn y wedd hawddgar a godidog hyn, “Dy lygaid a welant y Brenin yn ei degwch.”—Mae Milton yn cyffwrdd â'r un pwngc gyda mawrhydi ac uchder meddwl rhyfedd:

— Rhodiasant gyda Duw

Mewn iachawdwriaeth lawn, yn mroydd yr hedd.

Geiriau, y rhai, fel cerbyd tanllyd, ydynt ymron trosglwyddo ein serchiadau i'r trigfanau dedwydd hyny. *Esa. xxxiii. 17. Milt. ll. xi. b. 707.*

Hyn nis gallwn ei ddal yn ein sefyllfa amherffaith bresanol. Tanbeidrwydd y Duwdod diorchudd a ddallai ein golwg farwol. Ein galluoedd gweinion a suddent dan y fath lawnder o helaethlawn wynfyd; ac a ormes-lwythid gan y fath ragorol bwys gogoniant. —Ond, pan wisgo'r llygradwy hwn anllygredigaeth, swydd-gynheddfau yr enaid a gryfheir yn fawr, a'r babell briddlyd hon a draws-gyfnewidir i gyffelybrwydd corph gogoneddus Crist. Yna, er i'r "haul wridio, a'r lleuad gywilyddio,"* pan ddatguddier Arglwydd y lloedd o'r nef; etto ei bobl fyddlawn a alluogir i'w "weled megis ag y mae."†

Yma, ynte, fy myfyrdodau, yma ymsefydlwch.—Bydded hyn eich nod penderfynol a digyfnewid.—Yma, fy serchiadan, rhoddwch ryddid i'ch holl wresogrwydd. Llefych allan, yn iaith ysbrydoliaeth, "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny," gyda difrifoldeb dibaid, "a geisiaf; sef cael trigo yn nhŷ (nefol) yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd (i ddyfod;) i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd;"‡ ac i fyfyrion, gyda syndod a pharch—gydag annhraethol a thragywyddol hyfrydwch—ar holl briodoliaethau y Duwdod anamgyffredadwy.

Salomon, beirniad o'r mwyaf treiddgar ar y natur ddynol, gan wybod gymmaint hyfrydwch a dderbyn dynolryw oddiwrth ansawddau tēg blodau, a ddarluniodd yr Iesu bendigedig, "y rhagoraf ymhlith deng mil," trwy y cyffelybiaethau hawddgar hyn. Efe a'i geilw "rhosyn Saron,"§ a "lili'r dyffryn-

* Esa. xxiv. 23. † 1 Ioan iii. 2. ‡ Psal. xxvii. 4.

§ Can. ii. 1.—"Malus ut arboribus decori est, ut vitibus uvæ,
Utque rosæ campis, ut lilia vallibus alba,
Sic Christus decus omne suis."

oedd;”* fel y cyntaf, yn llawn hyfrydwch a grasau cyfranogol; fel yr olaf, yn ddyrchafedig mewn mawrhydi, ac yn berffaith mewn tegwch.—Yn y fugeilgerdd sanctaidd hōno, mae efe yn trefnu'r grēedigaeth ger ein bron, yn benthycia ei ffurfiau perffeithiaf, ac yn trwytho ei buntr yn ei lliwiau mwyaf dymunol, i osod o'n blaen fraslun o hawddgarwch ei berson. Ei hawddgarwch ef, yr hwn yw goleuni'r byd, gogoniant ei eglwys, unig obaith a dyddanwch effeithiol pechaduriaid; a'r hwn sydd yn ddyrchafedig, yn anfeidrol ddyrchafedig, nid yn unig goruwch y cymbariaethau uchaf, ond hefyd “goruwch pob bendith a moliant.”—Bydded i minnau hefyd wneuthur yr un defnydd o bob mwynhad daearol! Pa beth bynag sydd hyfryd neu foddhaol isod, dyrchafed fy nymuniad at y gwrth-ddrychau etholadwy hyny y rhai sydd uchod: y rhai a weinyddant ddedwyddwch, nid hannerog, ond perffaith; a boddlonrwydd a gorfoledd, nid darfodedig, eithr didranc.—Ië, fy enaid, bydded i'r hyfrydwch hwn, mewn man-ddarlun, dy alw i gof am y person gogoneddus hwnw, “yn yr hwn mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn gorphorol.” Dysged y ffrydiau bychain hyn di i hiraethu am y ffynnon dragywyddol. O! tywysed y creaduriaid hyn di yn

* Wrth lili'r dyffrynoedd, yr wyf yn golygu, y deallir, nid y blodeuyn sydd yn gyffredin yn myned dan yr enw hwnw, yr hwn sydd yn gymharol wael; ond lili ardderchog a mawryddig yr ardd, yr hwn sy'n tyfu mewn tir bras a dyfradwy, lle mae yn blaguro yn y modd goreu, ac yn cyrhaedd y perffeithrwydd mwyaf. Mae'r amgylchiad o'r dyffrynoedd, a ychwanegwyd gan yr ysgrifenydd sanctaidd, yn arwyddo, nid y rhyw, ond y lle.—Hyn yw'r deongliad godidoccaf o lawer, a mwyaf cyfattedbol i'r synwyr ysbrydol; yr hwn sydd yn arwyddo fod y bendigedig Iesu yn hoffi preswyllo, trwy gyfranogiad o'i Ysbryd, mewn calonau gostyngedig.—*שׁוֹשַׁנֶּת הַחַמְמָקִים*—*shoshaneth haamakeem*.—*Lilium vallibus gaudens*.

barhaus at y Creawdwr! Canys y mae hyn yn wirionedd sicr, teilwng o'i adgofio yn fynych, ac yn galw am dy ystyriaeth fwyaf esgud, nad yw holl gylch perffeithrwydd meidrol ddim ond ad-dywyniad llesg,* oddiwrth y dechreu diderfyn hwnw—ddim ond dafn bychan o'r môr diysbydd hwnaw o bob daioni.

Y fath amrywiaeth rhyfedd sydd i'w ganfod yn y llwythau blodeuog hyn! Fel y gwabaniaethodd llaw haelionus Rhagluniaeth y darnau cynnilaf hyn o'i gwaith! Fel yr ychwanegodd swynion diderfyn o newydd-der at eu holl berffeithderau ereill!—Unffurfiad cyson a wnaethai yr arlwyfaeth yn flin-bair a diflas ar fyr; o ba herwydd y mae pob rhywogaeth wedi ei ffurfio ar gynllun gwahanol, ac yn arddangos rhywbeth hollol newydd. Nid yw y dulliau yn ymledu o deulu i deulu, eithr y mae gan bob un fath o'i eiddo ei hun, yr hwn sydd wir gyssefin. Geill y gipolwg ddiotalaf ganfod gwabaniaeth eglur, yn gystal a chynnildeb neillduol, yn agweddau a gwisgoedd, yn ystum a gwynebpryd, pob dosbarth penodol.

Rhai a godant eu penau gyda phryd mawreddog; ac a edrychant, fel brenhinoedd neu benaethiaid, goruwch yr holl flodeufa. Ereill, gan ymddangos yn fwy cymhedrol yn eu hymgais, ni ymdyrchant ond yn unig i'r sefyllfaoedd canol; gallai un cyfarwydd mewn achyddiaeth eu galw yn fonheddigion y cyffin. Tra mae ereill, gan fod yn rhydd oddiwrth y golygiadau

* Eisteddi uwch y nefoedd hyn, i ni
Yn anweledig, neu fe'rh welir braidd
Yn dy weithredoedd isaf hyn; y rhai'n,
Er hyny, 'amlygant goruwch bryd
Dy faith ddaioni, a dy ddwyfol nerth.

uchelgeisgar hyn, yn ymlusgo yn ddiawydd ar y llawr, ac yn edrych fel cyffredinwyr y rhyw.—Mae rhai wedi eu croesi â llinellau godidogion, neu eu serenu gan fanau dysclaer; rhai a ffluantant fod wedi eu pluori yn fonheddigaid, neu wedi eu sideru yn hardd; tra mae ereill, yn ddidwyll eu gwedd, ac anfersenaidd eu gwisg, yn foddllawn i'n hyfrydu â symlder ei hun. Rhai a ymddilladant mewn porphor brenbinol, rhai a ymddangosant yn fwy gweddus mewn gwyn morwynol; ond du alaethus nid yw yn cael un derbyniad i wisgfa'r gwanwyn. Byddai chwyn galar yn hynod anweddus, pan mae natur yn cynnal gwledd gyffredinol. Ni fya hi, yn awr, gyffroi dim ond meddyl-ddrychau hyfrydlawn; a chan hyny, hi a wna ei hymddangosiad yn wastad mewn* rhyw wisg hawddgar.—Yma y saif rhyfelwr, wedi ymddilladu mewn cochlas; yna yr eistedd ynad, wedi ymfantellu mewn ysgarlad; ac accw y rhygynga coegyn hoyw a rhodresgar, wedi trwytho ei blu yn yr enfys, ac a ymddysclaeria yn holl liwiau gwychion y rhod danbaid hono. Rhai a ymgodant yn gwpan cywraint, neu a ymogwyddant yn glych prydfferth; rhai a ymledant yn dusw ymchwyddog, neu a ymdyrant yn swp peraidd.—Yn rhai y wawr gryfaf a feddalha trwy leihad araf, nes llwyr ymledrattâu oddi wrthi ei hun. Y twyll boddhaol a ddifyra'r llygad, ac yr ydym yn rhyfeddu wrth gael ein hunain wedi ein llithio yn ddiarwybod i lewyrch hollol wahanol. Yn ereill, gellid meddwl fod y lliwiau tég yn cydymdrechu am y flaenoriaeth. Gan ddirmygu ymgymmysg, wynebant eu gilydd gyda llawnfydedd cydgystadlyddion penderfynol i

* ——— Nunc formosissimus annus.—*Virgil.*

ddadleu campdlws harddwch; tra mae pob un yn cael ei brydferthu trwy y gwrthwynebiad i fywiogrwydd uchaf gweddliw.

“Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd;”^{*} wedi eu hamlhan hyd at ryfeddod: etto “mewn doethineb,” mewn perffeithrwydd doethineb, “y gwnaethost hwynt oll.”—Fel yr wyf yn mawrhau ïangder y trefniad, a manylrwydd y cyflawniad! Gydag anhawsdra mae dyn, egwan ddyn, yn cyflawni un gorchwyl: O braidd, ac ar ol llawer cynnyg, y mae efe yn cyrhaedd efelychiad canolig o ryw un o weithredoedd natur. Ond y celfyddwr Hollalluog a lefarodd fyrddiynau o sylweddau i fodoliaeth ddiatreg; yr holl gynnulliad yn rhyfedd amrywiol, a phob un neillduol yn gwbl berffaith.—Mae ail gynnygion, yn gyffredin, mi a allwn ddywedyd bob amser, yn darganfod colliadau, a gwaeleddau, yn ein dyfeisiau penaf ni. Ie, yr hyn a ynnill ein canmoliaeth ar yr awt bresenol, ac yn y lle penodol hwn, yn ol pob priodoldeb, a drinir gyda diystyrwch mewn rhyw amser i ddyfod, neu ryw ardal belleng. Pan, mae'r gweithredoedd hyn wedi boddhau pob archwaeth, ymhob gwlad, dros agos chwe' mil o flynyddoedd. Ac ni ddynoethwyd † un bai yn y rbagdreſu gyssefin, nac un lle wedi ei adael i ddiwygio dim ar y cynllun cyntaf.—Am ein holl gyflawniadau ni, po manylaf eu golygir, mwyaf amherffaith yr ymddangosant. Mewn perthynas i'r gwrthdychau tēg hyn, po fwyaf y treiddiom i mewn i'w hansodlau, mwyaf yr hyfrydir ni gan eu

^{*} Psal. civ. 24.

† “Mi a wn beth bynag a wnel Duw, y bydd hynny byth; ni ellir na bwrw atto, na thynu dim oddi wrtho,” Preg. iii. 14.

perffeithrwydd; y maent yn sicr o ddatguddio profion newydd o'r medrusrwydd mwyaf celfyddgar, mewn cyfartalwch i'r manylrwydd gyda'r hwn y golyger hwynt.

Nid yw symlrwydd y gweithrediad chwaith yn llai rhyfedd na chywirdeb y grefftwriaeth, neu annherfynoldeb yr effeithiau. Pe gofynid, 'Pa le mae, a pha beth yw y defnyddiau sy'n harddu y byd blagurog? Pa wawriau godidogion, pa liwiau dysclaer, a pha drwythau llewyrchus, sydd gan yr Eiluniwr mawr, pan mae efe yn lliwio mantell natur?' Attebir, nid oes ar ei buntr galluog ef angen am y fath ddarpariadau mawrbris. Un egwyddor, dan dywysiad ei law ef, a geingcia allan i annherfynoldeb o'r ffurfiau mwyaf amrywiol a pherffaith. Ireidd-dra y ddaear a'r awyr amgylchynol, wedi myned trwy'r hidlau priodol, a'i gyfleu mewn rhestr o bibelli tryloywon; hwn sydd yn cyflawni yr holl ryfeddodau, ac yn dwyn allan holl degwch llysieuath: hwn sydd yn ymlithro trwy wreiddiau y mwsogl isel-daenedig, ac yn dringad i frigau y cedrwydd uchel-chwyflog; hwn, wedi ei sugno gan y gwraidd, a chan gylchredeg trwy gamlasau anweledig, hwn sydd yn ymdorri yn berlan, yn ymledu yn ddail, ac yn gwisgo'r goedwig á'i holl anrhydedd gwyrdd-las. Yr un achos syml* hwn sydd yn esgor ar yr holl hawddgarwch sydd yn addurno ieuengctyd ac addfedrwydd y flwyddyn.

* "Pan fyddo i bob effaith neillduol ei achos gwahanol a phenodol, nid yw hyn yn rhoddi hyfrydwch i'r edrychyd, gan nad oes trefniad i'w weled ynddo; ond canfyddir y gwaith hwnw gyda rhyfeddod a hyfrydwch, fel canlyniad cyngor dwfn, yr hwn sydd yn gynmhlethedig yn ei ranau, ac etto yn syml yn ei weithrediad, lle gwelir amrywiaeth o effeithiau yn codi oddiar un egwyddor yn gweithredu yn unffurf."

Abernethy ar y Priodolaethau.

Hwn sydd yn gwridio yn yr *hepatica* cynnar, ac yn fflamio yn y diweddar-darddiol *babi*; hwn sydd yn coch i yn waed yn ngwythi eirin y morwydd, ac yn teneuhau ei hun yn aur dalenog i ffurfio gorchudd i'r *cwms*: hwn sydd yn anadlu yn holl awelon sawr-felus ein gerddi, ac yn deigrynu môl peraroglaidd yn ngwigoedd Arabia.—Mor “rhyfedd yw” ein Creawdwr “mewn cynghor, ac mor ardderchog yn ei waith!”*

Mewn gwig o diwlib, neu gwllwm o bingc, mae un yn canfod rhyw wahaniaeth agos ymhob un; prin mae unrhyw ddau wedi eu troi a'u lliwio yn hollol yr un fath: mae pob un yn caniattau iddo ei hun ryw neill-duolrwydd bychan yn ei wisgiad, ac etto yn perthyn i'r un teulu; fel y maent yn wahanol, ac etto yr unrhyw.—Arwyddlun priodol o'r gwahaniaethau bychain rhwng Crist'nogion gwrthdystiol. Y mae ffurfiau mewn crefydd, a oddefant amrywiaeth heb fod yn niweidiol i iawn fydd, na sancteiddrwydd gwirioneddol; yn gywir fel y gall yr arliwiau hyn o eiddo'r gwanwyn gael eu ffurfio yn ol amrywiaeth y gynlluniau, heb anafu eu harddwch na chyfnewid eu natur.—Bydded felly, ynte, fod i amryw o'n brodyr, mewn rhai pyngciau o ganlyniad dibwys, i ymneillduo: etto bydded i ni oll fyw ynghyd yn hawddgar ac yn gyfeillgar; o blegid yr ydym yn cydsynied mewn egwyddor, er amrywio mewn mân-bethau. Ymunwn mewn cyfeillgarwch, a chyd-gymmysgwn ein buddolygiadau, peidiwn dangos un dyeithrwydd ymddygiad, na maethu un oerfelgarwch serch. Os bydd anghydfod, bydded i ganlyn ein Harglwydd gwynfydedig fwyaf agos mewn gostyngedd rwydd calon, a diniweid.

* Esa. xxviii. 29.

rwydd bywyd. Bydded i wasanaethu naill y llall fwyaf parod yn holl swyddau tirion cyfeillgarwch gwresog. Fel hyn y byddwn wedi ein huno, er wedi ein gwahaniaethu; ein huno yn y pyngciau mawrion sylfaenol, er wedi ein gwahaniaethu mewn rhai amgylchiadau bychain; ein huno yn rhwymyn pwysig cariad brawdol, er yn gwahaniaethu mewn rhyw neillduolrwydd dibwys mewn tyb.

Rhwng Crist'nogion, y rhai mae eu barnau yn anghyttuno yn unig ynghylch ffurf gweddi, neu ddull gwasanaeth, nid wyf yn ystyried fod rhagor o wahan-iaeth hanfodol nag sydd rhwng blodau a flagurasant oddiwrth yr un rhyw o had, eithr a ddygwyddasant amrywio ychydig yn nghymmygiad eu lliwiau.—Pan, os bydd i un wadu Duwdod ein Harglwydd Iesu Grist, ac iselhau y Duw yn y cnawd i waelder creadur; os gwaedda un arall i fynu deilyngdod gweithredoedd dynol, a dibrisio unig rinweddol gyfiawnder y Cyfryngwr gogoneddus; os priodola trydydd yr anrhydedd anghyfranogol i fod meidrol, gan ymgrymu i'r ddelw, neu weddio ar y sant—Mae'r rhai hyn yn gyfeiliornadau eithaf amharchus i urddas y Gwaredwr, ac nid o ychydig niwed i gysur ei bobl; gwrthdystio yn erbyn y rhai hyn, dwyn pob rheswm, arfer pob gwrthannogaeth yn erbyn y rhai hyn, nid ydyw'n arddangos dallbleidiwr penboeth ac enllibus, ond cyfaill y gwirionedd, a charwr dynolryw. Pan, sefyll yn ddiblaidd ac yn fud, tra fyddai'r fath egwyddorion yn cael eu taenu, a fyddai yn arwydd o esgeulusdod beins yn hytrach na chymmedroldeb Crist'nogaidd.—Ni a feithrinwn y tosturi tyneraf tuag at eu personau; ni a osodwn i fynu ymbiliau taerion a dyfal-barhaus ar eu

ghan; ni a gydnabyddwn ac a garwn beth bynag a fyddo'n rhagorol ac yn hawddgar yn eu bucheddnod: etto nis beiddiwn gydsynio â'u cred; nis gallwn attal ein hymdrechiadau dyfal, ond tirion, os mewn un modd y gallwn eu cymmodi â chrediniaeth fwy ysgrythyrol, a phurach gwasanaeth.*

Amgylchiad arall sydd yn mawrbau ac yn anwylu y grëedigaeth flodeuog, yw eu holyniad rheolaidd. Nid ydynt yn ymddangos oll ar unwaith, eithr mewn cylchiad trefnus. Tra mae rhif priodol o'r ymaganlynwyr byn yn dysgwyl, mae'r lleill yn ymgilio, eithr yn dal eu hunain mewn agwedd o wasanaeth, yn barod i gymmeryd eu tro pan fyddo eu sefyllfa'n wag.—Yr od-ddafn yn flaenaf ymbliith yr osgorrd hawddgar, a ddryllia ei ffordd trwy'r tir rhewllyd, mewn trefn i gyflwyno ei anerchiad cynnar i'w Arglwydd. Wedi ei ddilladu mewn gwisg o ddiniweidrwydd, y mae efe yn dyfod ymlaen, heb ofni perygl, yn hir cyn yr anturio'r coed agor eu dail, i.e., tra mae'r clochiâ yn dibynau wrth ein tai.—Yn nesaf y saffrwn a lygada allan, ond yn ofalus, a chydag agwedd o ofnusrwydd. Y mae efe yn clywed y tymhestloedd yn rhuo, ac yn llechu yn dyn yn ei sefyllfa isel. Ymddangos y mae yn ofnus i grwydo ymbell oddiwrth ei wraidd, tra

* Mewn rhai argraffiadau blaenorol mi a eiriais fy ngolygiadau ar y pen hwn yn anochelgar a garw; ond nid oedd fy meddwl a'm barn mewn gwirionedd ddim rhagor nag a osodir allan uchod.—Oddiwrth y fath eiriau anwyliadwrus gallasai'r darlennydd gael ei arwain yn rhy naturiol i benderfynu fod yr awdwr yn pleidïo, ac y mynai efe gyffroi ysbryd erledigaeth: ond mae hyn yn ffordd o ymddwyn tuag at wrthwynebwyr mewn athrawiaethau crefyddol yr hon mae efe yn ymwrthod â hi fel yn wrthun, ac yn ei chashau fel yn bechadurus. Nid yw efe dros un gallu namya argyhoeddiad rhesymol, dros un attaliad namyn annogaeth serchoglawn. Fel hyn, os mynnwch, "cymhellwch hwynt i ddyfod i mewn," Luc xiv. 23.

mae cynifer o wyntoedd cynddeiriog ar led ac yn chwyrnu trwy'r wybrenau.—Ac nid yw'r crinllys yn olaf yn ngennadaeth ddysclaer y flwyddyn; y rhai, gyda phob prydfferthwch a addurnai ardd frenhinol, a ymostyngant i harddu ein cloddiau, ac i dyfu wrth draed mieri. Yn rhydd a digymbell maent yn cyfranu haelioni eu melusderau ymdaenol, tra maent hwy eu hunain, gyda gostyngeddwrwydd dilynwiw, yn ymneillduo o'r golwg, gan ddewis yn bytrach weini hyfrydwch nag ynnill parch.* Arwyddlun darluniadol o'r rhinweddau gwylaidd hyny, y rhai a hoffant flaguro mewn aneglurdeb, y rhai a ledant eu heffeithiau llawenychus i dorfeydd, nad ydynt ond prin yn hysbys o ffynnon eu cysuron. Annogaeth gref i gyffroi yr haelioni gweithgar hwnw, yr hwn nid yw byth yn aros am daerineb yr helbulus, ond yn rhagflaenu ei erfyniadau, ac yn eu battal â bendithion ei ddaioni.—Y *polyanthus*, druan, pa un mor ddiweddar a addurnai y cyffin â'i degwch serenog, a chwedi ei drawsblanu i'n ffenestri, a roddodd i ni arlwyfaeth newydd, yn awr nid ydyw mwyach! Mi a welais ei weddliw yn gwywo, mi a deimlais ei anadl yn dadfeilio; nes o'r diwedd iddo drengu, a syrthio i'w fedd.—Prin y derbyniasom y golled hon, nad dyma'r *auricula* yn dyfod i mewn, ac yn mwy na'i hadferu: mae efe yn dyfod wedi ei ddilladu mewn amrywiaeth o ffurfiau hawddgar, gyda llygad o risial, a gwisgoedd o'r pali claeraf, gan anadlu pereidd-dra, ac wedi ei bluori ag arian. Gorymdaith hynod yw hwn! Gofal dewisol y blodeuwr! Prin y mae un yn eu plith nad urddasir â chymmeriad o enwogrwydd, neu a geiff yr anrhydedd o gynnyrcholi

* Prodesse quam conspici.

rhyw lwngc-destyn hyglod. Ond y rhai hyn befyd, er godidocced eu henwau, a lwyr dreuliasant eu hystor o gyssewyr, ac a ymgymmysgasant â'r llwch gwaelaf.— Pwy a allasai lai ná gofidio ar eu hymadawiad, oni buasai i'r tiwlib ymgodi ar ei wiail tég, a'i gyrs mawryddig? Y mae efe yn gwridgochi'r flodeufa ag un o'r mentyll gwychaf a wisgodd anian erioed. A wnaeth coegyn neu goeges erioed wychach ymddangosiad yn ngwisg nos genedigaeth? Yma dichon un ganfod trythyllwch diniwed tegwch. Yma y mae efe yn ymroddi i fil o ysgafnderau, ac yn difyru ei hun â'r amrywiaeth fwyaf swyngar o liwiau. Etto mi a wnawn gam ag ef pe galwn ef yn hoedyn, o blegid mae efe yn chwareu ei gyfnewidiadau hawddgar, nid i ennyn nwydau anllad, ond i amlygu gogoniant y Creawdwr.— Yn fuan y cyfyd y gwyntlys, wedi eu hamgylchu yn y godre â gwisg lydan, a'u cyfrgrynu yn y pen fel adail brydferth. Yn eu mantell rydd-frydiol gellir canfod esgeulusdod ardderchog, yn eu tuswau araf-blygol y cymmesuredd cynnilaf; mi a'u galwn hwynt yn fonheddigion tég yr ardd, canys ymddengys eu bod wedi dysgu y fedr ddigymbar o uno syllder ag adgywreirwydd, a chymmodi celfyddyd â rhwyddineb.—I'r un mis y perthyn yr anrhydedd o ddwyn allan y *ranunculus*: gyda hyfdra a thegwch y mae efe yn taenu goludoedd ei ddail, ac yn cyrhaedd, yn raddol, yr owmal hawddgaraf yn y byd. Fel y mae dynion o deilyngdod cynhenid yn dirmygu y cyfrwysdra arwynebol a arfera coegweis i ganmawl eu hunain, felly y mae'r blodeuyn arglwyddaidd hwn yn diystyru benthycia ei ragoroldeb oddiwrth bluorau a pheraroglau. Nid oes arno angen y fath swynion i'w wneuthur yn

anwilyd y cywraint; gan fod tlysm ei lun, dysclaer amrywiaeth ei liwiau, a dyrchafedig urddas ei wedd, yn ei wneuthur yn ddigon dengar. Mi dybygwn, fod natur yn gwellhau yn ei chynnygion, mae ei gweithredoedd olaf yn fwy pen-celfydd. I goroni'r oasgliad, mae hi yn dwyn y cnawdoliad allan; yr hwn sydd yn caethiwo pob llygad â thaeniad godidog o addurniadau, ac yn hyfrydu synwyr arall ag afradlonedd o aroglau odiaeth. Mae'r un blodeuyn hwn wedi canoli ynddo ei hun holl berffeithderau y rhai blaenorol. Y funud yr ymddangoso, mae efe yn denu ein sylw i'r fath radd, fel mai prin yr ydym yn gofidio am absenoldeb y lleill.—Y mae blodau'r gog, fel cyfeillion ffyddlawn, yn gweini arnom trwy holl gylch-droion y tymhorau. Tra mae ereill yn gwneuthur gofwy byr yn unig, y mae'r rhai hyn yn breswylwyr yn hytrach nag ymwelwyr yn ein gerddi; y maent yn ychwanegu ffyddlondeb at addfwynder.

Mae'n ofer cynnyg llech-res o'r doniau hawddgar hyn. Mae lliosogrwydd diderfyn yn eu cymmeriadau, etto mae trefn ddigynnewid yn eu dyfodiad. I bob mis, i'e, agos i bob wythnos, mae ei haddurniadau pennodol ei hun; nid gan wael-ddynwarded gweithredoedd ei rhagflaenor, eithr trwy ffurfio, cyson ffurfio, rhyw ddyben newydd. Mor afradus yn ei dychymyg, etto mor fanwl yn ei chychwyniad, yw natur!

Yma bydded i mi sefyll am ychydig, i fyfyrion ar y dosbarthiad hwn o'r blodau trwy amrywiol gyfnodau'r flwyddyn.—Pe blagurent oll ynghyd, byddai pentwr cymmysglyd ar unwaith, ac ar unwaith hollol ddi-ddymiad: prin y caem gyfleusdra i sylwi ar ansoddau danteithiol eu hanner, a byddai rhaid i ni yn fuan golli

cyfeillach serchoglawn y cyfaa. Ond yn awr, gan fod i bob math ei swydd bennodol i'w chyflawni, ac amser gwabanol i ymddangos, mae genym hamdden i sylwi, gyda manyldra, ar bob rhes olynol. Ni a allwn sylwi ac adsylwi ar eu ffurfiau, meithrin adnabyddiaeth fwy cyfrinachol â'u perffeithderau hyfrydlawn, a derbyn yr holl wasanaeth yr awdurdoddir hwynt i'w weini.— Y mae'r dosbarthiad hynod hyn yn dwyn oddi amgylch un effaith dra gwerthfawr arall: mae nid yn unig yn gosod pob talaeth neillduol yn y goleu mwyaf manteisiol, eithr y mae hefyd yn drefniad difeth ar gyfer breuoldeb yr holl genhedl: neu, a llefaru yn fwy gwirioneddol, y mae yn gwneuthur yr holl lwythau bloddenog yn fath o fyddin * anfarwol; canys, er fod rhai yn ymollwng yn barhaus, etto, trwy y ddyfais hon, mae ereill yn ymgodi yn barhaus i harddu ein cyffiniau, a gohirio yr arlwyfaeth.

Y fath ddaioni yw hyn, i ddarparu y fath res o fodd-iadau i ddynolryw! I amrywio a bytholi y wledd ddestl! I ofalu fod ein llwybrau, mewn ffordd, wedi eu taenu yn barhaus â blodau! Y fath ddoethineb, i beri i'r bodau disynwyr hyn i wybod tymhor pendant eu dyfodiad allan. Yn gymmaint ar nas dichon un gweithredydd ar y chwareu-fwrdd fod yn fwy manwl yn nghyflawniad ei ran; nas geill wneuthur ei ddyfodiad i mewn yn fwy cywir, a'i fynediad allan yn fwy rheolaidd.

* Mewn cyfeiriad at arfer glodfawr ymhlith brenhinoedd Persia, "y rhai a gynnalient yn osgordd-lu iddynt fyddin a elwid Anfarwol, o herwydd ei bod yn bodoli yn barhaus; canys pan fyddai rhai o'r gwyr marw, gosodid ereill yn eu lle yn ddiatreg."

Pwy sydd yn hyfhau gwayw'r brenin i anturio allan yn Chwefror, ac ymddiried ei aur blodeuog i'r wybrenau geirwon a bradychus? Pwy sydd yn mynegu i amrywiol lwythau y blagur firwyth-ddygol, mai haul y gwanwyn, a gwres mwy hilbair sydd fwyaf cymhwys i'w plethiad tyner? Pwy sydd yn dysgu'r *claf* i ddysgwyl nes darparer pelydr poethach, i dywallt brasder peraidd i'w aroglau, a thrwytho ei weddliw yn y porphor dyfnaf?—Pwy a drefnodd y tyrfaoedd prydfferth hyn yn fath fyddinoedd rheolaidd; gan attal rhai a phrysuro ereill? Pwy a'u haddysgodd i restru ymaith, gyda'r fath drefnusrwydd, pan mae dyledswyddau eu priodol sefyllfaoedd drosodd? A phan mae un fintai yn ymgilio, pwy sydd yn rhoddi'r arwydd i un arall ddyfod ymlaen yn uniongyrch? Pwy, ond y Rhagluniaeth ddiwyrni hòno, pa un, o orseddau uchaf angylion, hyd raddau isaf bodoliaeth, sydd yn trefnu pob peth mewn “rhif, pwys, a mesur!”

Y pethau hyn, O fy enaid! ydynt drefniadau y Bod mwyaf addoladwy a haelionusaf hwnw, yr hwn a grymodd y nefoedd; a ddisgynodd i breswyllo ar y ddaear; ac a unodd freuoldeb dy natur farwol di â holl ogoniant ei Dduwdod. Mae holl anrhydedd y sefydliad rhyfedd hwn yn perthyn i'th Brynwr, i'th Fachniydd, a'th Iachawdwr di. Y mae yn perthyn iddo *Er*, yr hwn a ddyoddefodd y dialedd yr haedd-asit, ac y dedfrydasid di i'w ddyoddef; yr hwn a gyflawnodd yr ufudd-dod yr oeddit ti yn rhwymedig, ond yn analluog, i'w gyflawni; yr hwn a ddarostyngodd ei hun, (annhraethol, aruthr dosturi!) a ddarostyngodd ei hun hyd angeu, ie angeu'r groes.—Efe a ffurfiodd y peiriant dirfawr hwn, ac a gymhwysodd ei

ymddibyniadau. Y colofnau a'i cynnaliant, yr addurniadau a'i prydfertiant, a'r cyfreithiau a'i llywodraethiant, ydynt ganlyniad ei gynghorion anchwiliadwy. O! uchelderau ei fawrhydi, a dyfnderoedd ei dda-rostyngiad!

Pa un ai ei fawredd hanfodol, ai ei rad ras a fawrygwn fwyaf? Efe a greodd y seraph dyrchafedig, sydd yn canu mewn gogoniant, a phob pryfyn gwael, sydd yn ymysgwyd yn yr awyr, neu yn ymlusgo yn y llwch. Mae efe yn nodi llwybr i'r pelau hyny o oleuni, sy'n teithio cylch yr wybrenau; ac nid yw yn diystyru codi'r crinllys o'u gwely isel, neu grychu'r sensigl sy'n dilladu ein dyffrynoedd. Mor fawryddig yw ei weithredoedd, etto mor ostyngedig yw ei sylwadau!—Os yw yr haf, fel priodferch serenog, yn ddysclaer a gogoneddus yn ei gwisg, pa beth yw hyn ond ad-dwyniad llesg o'i lewyrch digrëedig ef? Os yw yr hydref, fel llettywraig hael, yn agor ei thrysorau, ac yn rhoddi i ni ddigonedd o bob peth i'w fwynhau, pa beth yw hyn ond blaen-brawf bychan o'i haelioni diysbydd ef? Os rhua taranau, chwi a glywch swm ei udgorn; os tanbeidia mellt, chwi a welwch ysgyd-wad ei waywffon ddysclaer; os “dryllir y mynyddoedd tragywyddol, ac os crymir y bryniau oesol,” yr ydych yn canfod amlygiad.—Na, medd y prophwyd, mae genych yn hytrach * “guddiad ei gryfder.” Mor ddirfawr yw

* Hab. iii. 4. Ni ellir amgyffred dim mwy mawreddog nag arlun-iaeth yr holl bennod hon; ac yn ol ein cyfieithad ni, ni chafodd dim erioed ei ddychymmyg yn fwy prydfert h ac ardderchog na'r meddyl-ddrych yn y diweddnod hwn. Yr wyf yn cydnabod, y gellir rhoddi ystyriaethau gwahanol i'r gyfran gyda phriodoldeb cyfartal; ond ni ellir dirnad un, yr wyf yn meddwl, mor fawryddig ac uchel. Gan y cydsaif yn dëg â'r iaith wreiddiol, gan nad yw mewn un modd yn anghyttuno â'r cyd-destynau, a chan ei fod yn gosod allan wirionedd

ei allu, mor anwrthwynebol ac anamgyffredadwy, fel nad yw yr holl weithredoedd hyn ddim ond bras-lun, yn yr hwn mae mwy yn cael ei guddio ná'i amlygu.

Fel hyn, yr wyf yn meddwl, y dylem bob amser edrych ar y gyfundrefn weledig trwy bell-ddrych efengylaidd, (os goddefir i mi yr ymadrodd,) a thrwy cwydd-ddrych efengylaidd; gan olygu'r Arglwydd Iesu fel y dyfeisydd a'r pen-saer mawr, yr hwn a drefnodd ac a gyflawnodd y cynllun rhyfedd. Pa beth bynag sydd yn fawreddog neu yn werthfawr, yn aruthr neu yn hawddgar, dylid ei briodoli bob amser i'r Gwaredwr. Dyma athroniaeth naturiol y Cristion. O barth y dull hyn-o ystyried y pethau a welir, mae genym apostol ysbrydoledig fel ein hathraw a'n rhagflaenor. Gan lefaru am Grist, efe a ddywedod, "Tydi, Arglwydd, yn y dechreuad a sylfaenaist y ddaear, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd."—Pe sylwem yn ofalus ar yr egwyddor arweiniol hon yn ein holl

o'r pwys mwyaf, a llwyr ddiddadl, gobeithiaf, y caniatteir i mi ei ddefnyddio, o leiaf mewn ffordd o gyfaddasiad; yn enwedig gan ei fod yn cynnwys cysswynair o'r mwyaf rhagorol, i'w gerfio ar holl weithredoedd gweledig y Creawdwr. Pan fyfyrion, gyda syndod, ar eu mawredd, eu tegwch, a'u perffeithrwydd, mewn cyflawnder i'w Hawdwr, cymhwyswr yr adfyfyriad dyrchafedig yn yr Awdl sanctaidd hon: "Yn y pethau hyn oll mae *cuddiad*, yn hytrach nag amlygiad cydradd, o'i *gryfder*. Er eu bod yn hōni'n mawl, a thu hwnt i'n hamgyf'fed, etto nid ydynt mewn un modd ei ymgnia dau penaf, ond yn hytrach rhyw gynnygiadau bach ysgafn o'i fedrusrwydd hollalluog."—Mae Milton, wrth adrodd helynt dymchweliad yr angylion syrthiedig, yn dwyn i mewn amgylchiad godidog, nid annhebyg i'r un blaenorol. Messia, ei hunan ac yn ddigynnorthwy, a ddymchwelasai luoedd aneirif yr ysbrydion gwrthryfelgar. Yr oedd hyn yn fawr ac aruthr. Ond i greu meddwl unionach am y Goresgynwr ardderchog, mae ein prydydd yn chwangu:

"Hanner ei allu etto i maes ni roes."

Os anghofwn ni wneuthur yr un sylwad, pan fyfyrion ar Dduw yn ei weithredoedd, ni allwn ffurfio ond meddyliau cyfyng iawn am y Goruchaf Fod, "ger bron yr hwn nid yw'r holl genhedloedd ond fel dafn o gelwrn, neu fân lwch y clorianau."

ymchwiliadau i natur, hi a fyddai, yn ddiau, yn foddion galluog, i ennyn ein cariad,* a chyfnerthu ein ffydd. Pan edrychwyf o amgylch ar y myrdd o ddefnyddiau godidogion, gyda'r adfyfyriad hyfrydlawn hwn, 'Eu Gwneuthurwr hwynt oll a drengodd drosod fi ar y groes;' pa fodd y gallaf fod funud yn ddifater? Oni raid i'r galon oeraf ddechreu cynnesu gan ddiolchgarwch?—Pan fyddwyf yn golygu annherfynoldeb o'r gweithredoedd godidoccaf a ellir eu dychymmyg, gan gofio fod eu Hawdwr hwynt oll "yn gyflawnder a phrynedigaeth i mi;" pa fodd y gallaf lai nâ gorphwys yr ymddiried fwyaf cyflawn yn y fath Gyfryngwr?

* Mae'r apostolion, yr wyf yn sylwi, yn ymhyfrydu arfer y ffordd hon i amlygu anrhydedd y Gwaredwr, a chryfhau ffydd ei bobl; y dysgybl anwyl, gan ddsagu'r athrawiaeth werthfawr hono, "am yr Oen a laddwyd i gymmeryd ymaith bechodau'r byd;" mewn trefn i ddangos digonolrwydd aberth Crist, i ateb y dyben bendigedig hwn, a sicrha, mai "trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth, ac hebdo ef na wnaethpwyd dim," naddo, ddim cymmaint ag un bod, ar a "wnaethpwyd," Ioan i. 3.—Mae St. Paul, gan bregethu yr unrhyw newyddion da i'r Colossiaid, a dâl yn bendant fod i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, yn ymddangos fel yn rhagweled gwrthddadl o'r fath hyn: 'Gwneuthur iawn dros droseddau yn erbyn Mawrhydi anfeidrol, sydd weithred o'r fwyaf rhyfedd: rhaid fod pridwerth prydedigaeth byd pechadurus yn llawer mwy nag all un meichiau cyffredin ei dalu. Pa reswm sydd genym i gredu fod Iesu yn ddigonol i'r gorchwyl tra phwysig hwn? Pob rheswm dichonadwy, medd yr apostol; oddiwrth urddas ei berson, canys y mae efe yn "ddelw y Duw anweledig;" ac oddiwrth sawredd ei weithredoedd, canys "trwyddo ef y crewyd pob dim." Ystyriwch weithredoedd ei ddwyllaw, ac ni ellwch ammau effeithioldeb iawnol ei farwolaeth, Col. i. 15, 16.—Mae awdwr y llythyr at yr Hebraeid yn cwmpo i'r un dull o ymresymu; gan ddatgan fod Iesu Grist wedi puro ein pechodau trwy aberthu ei hun drostynt: mae efe yn profi ei alluogrwydd helaeth i'r fath swydd aruthrol oddiwrth ei ragoroldeb hanfodol, canys mae efe yn "ddysclaerdeb gogoniant y Tad;" ac oddiwrth ei weithredoedd rhyfeddol, canys "efe a wnaeth y bydoedd," ac y mae efe yn "cynnal pob peth trwy air ei nerth," Heb. i. 2, 3. Yr hwn wirionedd, gan ei fod o'r fath ddirfawr bwys ynddo ei hun, ac o'r fath gysur hynod i Grist'nogion, a chan fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn sefyll mor neillduol arno, gobeithiaf na raid i mi ymesgusodi am gynnyg ei egluro a'i wasgu ar y meddwl, mewn math o draethawd efengylaidd ar Grëedigaeth, yn gyssylltiedig â'r adfyfyriadau hyn.

Goddefer i mi ychwanegu un sylw yn rhagor ar gymhwysiad rhyfedd pob peth a berthyn i'r trefedigion tég hyn a blawyd yn y flodeufa.—Gyda'r fath famlyrwydd a chywirdeb y mae eu hadeilad wedi ei gorphen, fel yr anafai unthyw gyfnewidiad lleiaf eu perffeithrwydd yn fawr. Pe gwelech, er anghraifft, ddosbarthiad tég gwisg y tiwlib yn hedfan ar led, yn afreolaidd a didrefn, fel y gwynwydd crychneidiol; pe dyrchafai y siasmin ei ben bychan ar y colofnau mawreddog a gynnaliant yr *kolihoc*; pe byddai i bryd syth-ddyrchafedig a gwrol blodau'r brenin grogi i lawr gydag agwedd bruddlyd, fel hyblyg glych yr eos; pe cyfnewidid y symlder ardderchog sy'n gwahan-nodi'r lili, am y siderau dysclaer a ymylant y pingc, neu y gwawriau gwychion a daenellant y camminid; pe suddai'r pilerau bongraff brig-feiniaion hyny, a ymgodant ynghanol ei addurn-gawg, y rhai, wedi eu blaenu â dibynyddion auraid, a roddant y fath ddysclaerdeb i'r pedrorynau amgylchynol o fynor—pe suddai y rhai hyn, a diflanu, fel y mân-edafedd a orchuddiant galon y gwyntlys—oni byddai'r cyfnewidiad yn llawer o'r amgylchiadau hyn yn chwithig a gwrthun? ynddynt oll, yn niwed amlwg i bob blodeuyn?

Ymhellach, o barth amser eu hymddangosiad, mae yr amgylchiad hwn wedi ei sefydlu gan ragwelediad a rhagofal hynod. Pa beth a ddeuai o'r morwr, pe, ar hin ystormllyd iawn, y codai efe ei hwylbren uchel, gan bentyru arno ei holl hwyliau? Y fath fyddai y drwg effaith, pe anturiai y blodau mwyaf mawryddig ddyfod allan yn y misoedd tymhestlog. Och! fel y gofidient am eu byfdra anghall! O ba herwydd, y rhai

hyny yn unig; y rhai sydd yn bwrw'r cyrs byraf, ac yn lledu y taeniad bychanaf o ddail, neu (os mynwbh) yn cario leiaf o hwylian, sy'n ymawthio allan yn y tymhoran gwyntog.—Mor annoeth yr ymddygai y per-eiddiwr, pe agorai efe ei beraroglan dewisol, gan eu gosod yn ngwyneb gwyntoedd y gogledd, a gwlawogydd y gauaf! Y mae ein celfyddydwr blagurog o'r alwad gyssewraidd, o leiaf y rhai tyneraf o honynt, yn ymddangos yn berffaith ystyriol o ganlyniadau'r fath ymddygiad. Gan hyny maent yn oedi agor eu trysoran nes caniattao awyr dawelach, ac wybrenau llai cymhylog, diogelwch i'w masnach hawddgar—nes na byddo achos iddynt ofni i'w celloedd aroglber gael eu hysbeilio gan y cythymau geirwon, na'u boddi gan y gwlawogydd diattal.*

* Mae Casmir, mewn modd prydyddol iawn, yn anerch rhosyn maswaid, ac yn ei wahoddi yn dra phrydferth i anturio allan, trwy grybwyll y ddau angylchiad hyn:

“Siderum sacros imitata vultus,
Quid lates dudum, rosa? Delicatum
Effer e terris caput: O tepentis
Filia coeli.

Jam tibi nubes fugiunt aquosee,
Quas fugant albis zephyri quadrigis;
Jam tibi malcet Boream jocantis
Aura Favoni.”

Pa'm, rosyn o harddwch a phryd ser y nen,
Pa ham yr ymguddi cyhyd?
Tyr'd, dryllia dy garchar, a dyrcha dy hen,
Ti beraidd hyfrydwch y byd.

Ymgiliodd y 'stormydd tymhestlog yn awr,
Adferwyd tawelwch i'r byd;
Mae'r haul yn dy ddysgwyl, i wridio dy wawr,
A dangos prydfwerthwch dy bryd.

Tyr'd, blentyn y nefoedd, awelon yr haf
Amadant yn araf yn awr;
Hiraethant am chwareu ymysg dy ddail per,
A thaenu metusder dy sawr.

Y fath annogaeth gyffrous sydd yma i ymostyngiad diffuant i holl drefniadau Rhagluniaeth! Yn rhy fynych mae ein meddyliau grwgnachlyd yn dueddol i feio ar y goruchwyliaethau dwyfol. Yr ydym yn dystaw gyhuddo ymddygiad ein Gwneuthurwr, neu yn ammau ei dynerwch gyda golwg arnom ein hunain. Yr ydym yn dychymmyg nad yw ein coelbren wedi ei gyfleu mor gyfaddas, neu ein cyflwr wedi ei drefnu mor gysurus, a phe cawsem ein gosod mewn rhyw sefyllfa arall o fywyd.—Ond edrychwn ar y dosbarthiad odiaeth fanwl yma o'r planhigion lleiaf, a chywil-yddiwn am ein hynfydrwydd anfoddlawn. A allasai un adefyn yn eu cyfansoddiad gael ei chyfnewid, neu un llinell yn eu gweddau gael ei thrawsosod, heb gymhylu rhyw beth ar eu tegwch? A allasai un plygiad yn eu gwisgoedd gael ei amrywio, neu un gadwyn yn eu holyniad trefnus gael ei thorri, heb niweidio rhyw briodoledd gywrain? Ac oni ofala y llygad oll-ganfyddol hwnw, yr hwn sydd yn cadw'r fath gysondeb perffaith ymysg y teganau tlyision yma, oni ofala efe yn wylidwrus am ei greaduriaid rhesymol? A yw efe yn dewis y tymhor mwyaf addas i'r dewbanog ymgodi ac yfed y gwllith? Ac a all efe esgeuluso achosion, neu gamfarnu cyfaddasiadau, ei feibion a'i ferched? Efe, yr hwn a ddosbarthodd mor berffaith bob peth perthynol i'r trefniant llysieuog, fel y byddai'r lleihad neu'r ychwanegiad distadlaff yn sicr o niweidio'r ddyfais orphenedig, tu hwnt i bob amheuaeth, a edrych, gyda sylw cyfartal, dros ddaioni ei bobl ei hun.

Ymdawela, ynte, farwolddyn anesmwyth; gwybydd fod Duw yn ddoeth ddiwyrni; a bydded yn ddiogel

genyt, ymblith y lliosogrwydd mwyaf o fodau, na anghofia efe dydi.* Awdurdododd dy Iachawdwr fi i haeru, dy fod o lawer mwy gwerth yn nghyfrif Hollalluogrwydd, nâ holl lysiau'r maes.—Os yw ei ewyllys sanctaidd ef yn trefnu clefyd i'th ran, na feiddia byth ddychymmygu y buasai iechyd diattal yn fwy llesol. Os yw yn dda yn ei olwg ef attal neu gymmeryd ymaith blant, byth na ryfyga benderfynu fod dy ddedwyddwch wedi ei ddeifio, o herwydd fod dy obaith am gynnydd dy deulu wedi ei siomi. Efe, yr hwn sydd yn rhestru llu y ser, ac yn cyfleu, mor gywir, holl, i'e rywiau gwaclaf y llysiau, *Efe* sydd yn trefnu holl amgylchiadau, a holl gyfnewidiadau, dy sefyllfa, gyda gwyliaidwriaeth nas dichon dim ei ochelyd, a chyda daioni a bery yn dragywydd.—Cryma dy ben, ynte, mewn cydsyniad gostyngedig. Ym-orphwys yn dawel, fod pa beth bynag sydd, trwy drefniad y Nef,† yn iawn, yn oreu.

- * *Permittas ipsis expendere numinibus, quid
Conveniat nobis, rebusque sit utile nostris.
Nam pro jucundis aptissima quæque dabunt Dii:
Carior est illis homo, quam sibi.*— *Juv.*

Trwy droiau'r byd, a'i wên a'i wg,
Bid da, bid drwg, y tybier;
Llaw Duw sy'n troi'r cwmpasgylch glân,
Yn wiwlan, er na weler.

O'i ofal tadol ef a rydd
Yr hyn y sydd gymhedrol,
O hawddfyd, adfyd, iechyd, cur,
Ond da'i gymhesur fantol?

'Does dim nac yn, na than y nef,
Nad ef sydd yn ei beri:

Ac Ef a roes (gwnaed dyn ei ran)
Y cyfan er daioni.— *Parch. Gor. Owain.*

† "Pa beth bynag sydd, sydd iawn."—Os yw Mr. Pope yn deall yr arwiredd yn ol y terfyn a osodwyd uchod, mae efe yn dywedyd gwirionedd anwadadwy a gogoneddus: ond os yw y prydydd mawr hwnw

O'r holl weithredoedd a grewyd o fewn corph y trydydd dydd, y mae'r blodau yn ymddangos wedi eu bwriadu yn neillduol i ddyn. Dyn yn unig sydd â bawl i'r géd hon: y mae wedi ei chyfranu iddo trwy fath o freinsgrif y sydd yn cau pawb ereill allan.—Gwelwch y goron frenhinol, yn ddysclaer ac yn fawreddog brydferth! Gwelwch yr oddyfnog yn dyner a llesmeiriol dæg! Gwelwch holl rwyg a gogoniant y flodeufa, lle mae lliwiau a pherarogl yn gwneuthur rhyfeddodau! Etto, ni chyffröir yr amfeiliaid gan eu tegwch, ac ni wleddant ar eu cyssewyr. Nid yw'r march byth yn sefyll i syllu ar eu prydferthwch; na'r ŷch yn troi o'r neilldu i frig-dorri eu melusderau. Y mae ganddynt synhwyrâu i ganfod y gwrthddrycham cywreimion yn y cyfan; ond dim i wahaniaethu a blasu eu perffieithderau manylion.—Yr un modd dichon dynion cnawdol, heb eu goleuo, ddeall meddwl llyth-yrenol yr ysgrhythrau, amgyffred y profion o'u dwyfol ysbrydoliaeth; etto heb fod ddim hiraeth gwresog am y bendithion ysbrydol y maent yn gynnyg, fod heb

yn cynnwys pob dim sydd yn dyfod o amgylch trwy nwydau gwylltion a phenrhydd dynion, yn ddiau, ni all un dyn ystyriol, o leiaf un Cristion, gyttuno â'i dyb.—Mae'r hyn mae Daw yn ei drefnu yn ddoeth, tu hwnt i bob galluogrwydd i'w wellhau; yn dda, tu hwnt i ddim a allwn ni ei ofyn na'i feddwl. Ei arfaethau ydynt ganlyniad dirnadaeth anfeidrol, a'i oruchwyliaethau yn ffrwyth haelioni diderfyn. Ond dyn syrthiedig a yrir gan ei nwydau i fil o bethau annhrefnus, y rhai, yaddynt eu hunain, ydynt yn alaethus ddrwg, ac, yn eu canlyniadau, yn eglur niweidiol i gymdeithas.—Cyfynger y dyb, ynte, at drefniadau'r Nef, ac yr wyf yn eithaf parod i gyttuno â hi: ond os estynir hi at ymddygiad dynion, ac effeithiau eu ffolïneb, yr wyf yn ystyried fy hun yn rhwymedig i ymwadu â hi: canys y mae pa beth bynag sydd yn ennyn y dwyfol ddig-ofaint, yn achosi dinystr ei awdwr yn y diwedd; yn waharddedig yn ngair Duw; yn groes i holl ddyben ei ewyllys datguddiedig; ac yn llwyr wrthwyneb i'w briodoliaethau hanfodol.—Nid dichonadwy i hyn fod yn iawn; mae hyn, tu hwnt i ddadl, yn gam. Geill Hollalluogrwydd, mae'n wir, ei oruwch-lywodraethu, a dwyn daioni o hono: ond mae crybwyll goruwch-reali yn ystyried ei fod yn hollol gam ynddo ei hun.

welod "pryd na thegwch" yn yr Iachawdwr y maent yn ddarlunio, fel ag i'w wneuthur yn brif ddymuniad eu heneidau.

Prif ddyben yr ymddangosiadau tēg hyn, medd athronwyr, yw goblygu a meithria yr had mil-rhith, neu ffundau y corph tyner, tra fyddo yn ei sefyllfa fabanaidd.—Ond pa beth bysag yw dyben natur, sicr yw nad yw hi byth yn gwyro oddiwrth y bwriad o weini hyfrydwch i ddynolryw.* Y mae hyn wedi ei gyesylltu yn anwahanol â'i bwriadau ereill.—Pe ni byddai dim rhagor ná diogelu egwyddor adgynnyrchol mewn golwg, pa angen am y fath blygiadau godidogion? Pabam y defnyddir cymmaint o gelfyddyd, ac y chwamegir cynifer o addurniadau? Pabam y darperid gwisgoedd gwerthfawroccach ná symmudliw, tlysach ná bliaint, ac o deccach dysclaerdeb ná melfed?—Pe ni buasai gan y fam gyffredinol un bwriad, namyn cyfaddasu ei heppil bychain, buasai gwlanen gynnes, neu frethyn gwledig garw, yn gwasanaethu ei thro, yn gwasanaethu, meddaf, lawn gystal a'r tuswau mwyaf rhwysegfawr, neu holl ddodrefn masnachdy'r sidanydd.

Mae'n amlwg, ynte, mai er mwya dyn y cynnysgaeddwyd y blodau á'r fath harddwch swynol. Mewn canlyniad i'r dyben cyssefin hwn, maent bob amser wedi talu eu herlyniadau dibaid i'r hil ddynol, ac yn ymddangos yn barhaus yn neillduol awyddus i ganmawl eu hunain i'w sylw. Y mae'r rhai teccaf o

* "Yr ydym yn cael mae y rhanau mwyaf pwysfawr yn y byd llysieuog yw y rhanau mwyaf hardd. Y rhai hyn ydynt yr hadau, trwy ba rai mae amrywiol lwythau y planhigion yn cael eu lluosogi a'u parhau, a'r rhai, bob amser, a osodir mewn blodau neu flagur. Mae natur yn ymddangos yn ouddio ei phrif ddyben, ac yn llafurus i wneuthur y ddaear yn dēg a hyfryd, tra mae hi a'i bryd ar ei chadwraeth ei hun."

bonynt yn amgylchu ein trigfanau, ac anfynych iawn y gwelir hwynt ymbell oddiwrth ein preswylfeydd. Y maent yn cynnyddu dan ein llaw wrteithiol a'n llygad sylwadol, ond yn dirywio ac yn dihoeni pan esgeuluser hwynt gan eu harglwydd.—I ennill ei sylw, ac i addurno ei ymneillduadau, maent yn cuddio eu gwrthuni yn y ddaear, ac yn dangos dim ond y lluniau prydfferthaf, a'r lliwiau mwyaf dengar, i'w olwg.—I deilyngu ei barch ymbellach, y mae'r cyffredinol-rwydd o honynt yn cyfranu melus-sawr hyfrydlawn; a'r hyn sydd fwy cyweithas fyth, y maent yn *cadw eu tarthiadau gwerthfawroccaf i bereiddio ei rodfeydd boreuol a hwyrol. † O blegid ei fod ef yn gyffredia yn dewis yr oriau oeraidd hyny i adfywio ei hun ymhlith eu rhesi blagurog, o herwydd hyny, maent hwythau yn fwy afradus yn y cyforiau ar eu cyssewyr peraid, ac yn anadlu allan eu hysbrydoedd mwyaf dymunol.

O ddynd! cu iawn gan dy Greawdwr, ac anwylyd Rhagluniaeth! Hynodwyd di gan ei ddaioni ef: hynoda dithau dy hun hefyd trwy dy ddiolchgarwch. Na bydded gennyt ymgais ond yr un diranedig i'w ogoneddu ef, yr hwn a aeth i'r fath draul i'th foddbau di!—Tra mae yr holl greaduriaid hyn, mewn hy-awdledd dystaw, yn datgan gogoniant Duw, dyro di fenthyg dy dafod iddynt; bydd di yn arch-offeiriad y grëedigaeth fud; dyrchafed eu clodforedd hwynt yn

* ——— Agora'r blodau'n awr
Ddewis aroglau eu mynwesau per,
A gadwyd rhag y nos yn 'stor i ti. *Milton.*

† Y siasmin clymog, a'r hardd wridiog ros,
Mewn haelder, ledant eu boreuol sawr,
Y lili wylaid, a'r oddyfnog ber,
A beraroglant awyr glaer yr hwyr. *Prior.*

llafar yn dy ganiadau di.—Addola y Cymmwynaswr goruchel am y bendithion y mae efe yn eu gwlawio ar bob gradd o fodoliaeth; addola ef am drugareddau fil wedi eu haddasu i ti dy hun; ond uwchlaw pob peth, addola ef am y rhodd odidog hōno o enaid rhesymol ac anfarwol.—Hwn sydd yn ein gwneuthur ni yn arglwyddi'r byd, ac yn rhoddi ni wir fwynhad o'i olud-oedd. Hyn sydd yn darganfod myrdd o degwch, y rhai, pe amgen, a gollasid; ac yn eu gwneuthur yn fflannon o hyfrydwch, ac yn feithrinfa dyhewyd.—Trwy rinwedd yr egwyddor ardderchog hon yr addasir ni i fawrygu gweithredoedd ein Creawdwr, ac i'n galluogir ni i ddwyn ei ddelw ardderchog: i ddwyn ei ddelw ardderchog, nid yn unig pan roddo y rhai hyn, addurniadau y llawr, i fynu eu hanrhydedd, ond pan ddiffodder llywydd mawr y dydd yn yr wybrenau, a phan droer yr holl belau llachar uchod yn ddudew dywyllwch.—Yna i orfucheddu, i orfucheddu dadfeiliadau un byd, a mwynhau Duw—bod yn debyg i Dduw—cael ein “llanw â holl gyflawnder Duw,” mewn byd arall—O! y fath ddedwyddwch, y fath amhrisiadwy ddedwyddwch yw hyn! Etto *hyn* yw dy fraint, (na chyfnewid hi am deganau munudyn!) hyn yw dy ragorffaint ogoneddus di, O ddyn!

O! ddaioni, helaethlawn ddaioni ein Duw! Ni allaf ymattal rhag ei glodfori unwaith etto, cyn myned rhagof at ystyriaeth arall.—Pa mor rhwymedig yr ystyriem ni ein hunain i gyfaill haelionus, a adeiladai dŷ rhwysgfawr i fod yn *drigfa i ni! Pa faint mwy

* Ni allaf gredu fod y gymhariaeth wedi ei hestyn tu hwnt i'w therfynau priodol, pan wedi ei chario i'r pellder hyn. Fy meddwl diysgog yw, fod y byd, o leiaf y byd isod hwn, ynghyd â'i amrywiol

yr ymchwyddai y rhwymedigaeth, pe byddai i'r llaw a'i hadeiladodd, ei ddodrefnu hefyd; ac nid yn unig ei ddodrefnu â phob peth angenrheidiol a chyfaddas, eithr ei addurno â pha beth bynag sydd yn ardderchog a hyfrydlawn! Hyn oll a wnaeth ein Creawdwr tirion mewn modd anfeidrol amgenach nâ dim a allasem ni ei ddymunno na'i amgyffred.

Y mae'r ddaear wedi ei darparu yn breswylfod i ni. —Y mae'r wybrenau wedi eu taenu oddi arnom, fel gortho mawreddog, wedi ei drwytho yn y llasar puraf,

berthynasau, wedi ei fwriadu yn hollol er mwyn dyn; ei fod wedi ei gymhwyso iddo, ac mai efe (mewn is-raddoliaeth i ogoniant Duw) yw dyben ei grëedigaeth.—Mae creaduriaid ereill, mae'n wir, yn cyfranogi o roddion y Creawdwr; ond maent yn cyfranogi o honynt fel gweision dyn, neu rai yn ymddibynu arno; fel rhai yn dwyn rhyw berthynas â'i wasanaeth, ac mewn rhyw ffordd yn cyfranu at ei ddaioni: fel y mae efe etto yn ganol-bwngc y cwbl, neu fel y mae ein hanghymharol Milton, yn gyfartal hyddysg mewn barddoniaeth a duwinyddiaeth, yn llefaru, "Mae pob peth yn byw er mwyn dyn."—*Par. Lost, b. xi.*

Mae Mr. Pope. yn ei Lythyron ar Foesau, yn gweled yn dda oganu y daliad hwn fel uchder balchder, ac afresymoldeb gwrthun.—O'm rhan i, nid wyf yn gweled un rheswm dros y fath gyhuddiad. Gyda phob ymstyngiad i ragorach athrylith, mae yn ymddangos ymhell iawn oddiwrth falchder, i fod yn ddyladwy ystyriol o roddion a dderbyniwyd; i fyfyrlo arnynt yn holl feithder eu haelioni; a'u cydnabod yn ol hyny. Mi a feddyliwn yn hytrach, fod bychanu eu maint, pan maent yn annherfynol fawr; a chwttogi eu rhifedi, pan maent yn hollol aneirif; fod y cyfryw ymddygiad yn aroglu mwy o annheimpladrwydd, nag mae ein tyb ni o ryfyg, a bod ynddo fwy o anniolchgarwch nag sydd yn y llall o draha.

A pha fodd y gellir ei ystyried yn afresymoldeb, i ddal fod Duw wedi rhoddi i ni fyd i'w feddiannu; pan mae yn ddyledswydd arnom i gredu iddo roddi ei unig Fab yn iawn drosom? Yn sicr ni all fod yn anhawdd nac yn ormod i ni feddwl, iddo fwriadu y bel gyfanneddol, a'i holl ddodrefn, at ein gwasanaeth presenol, gan nad arbedodd efe ei sanctaidd blentyn Iesu, eithr ei draddodi dros ein hiachawdwriaeth dragywyddol.

Ar y cyfan, ni allaf lai na phenderfynu, nad yw cynnyg ein prydydd hyglod nac yn dirion, gyda golwg ar ei gyd-greaduriaid—nac yn ddi-olchgar, gyda golwg ar ei Greawdwr—na'i ddyfais, mewn gwirionedd, yn gywir. Nid yw'r cynnyg yn dirion, gyda golwg ar ddyd; canys y mae yn ei ysbeilio o un o'r myfyrdodau mwyaf hyfrydlawn a boddhaol a ellir ddychymmyg. Ystyried Awdwr mawr fy modoliaeth fel â fi yn ei lygad, pan ffurfiodd efe natur gyffredinol; fel yn trefnu pob peth

a'i harddu, yn awr ag arluniau o arian nofiadwy, yn y man â lliwiadau o ad-dywynol borphor.—Y mae'r glaswellt wedi ei ledu danom fel llawr-lên äang, wedi ei gwau â sidan edafedd o wyrddni, ac yn gaerog gan flodau o bob gwawr.—Y mae'r haul, fel llusern euraidd, wedi ei grogi yn y mwd awyrol, ac yn tywallt ei ddysclaerdeb trwy'r dydd i oleuo ein llwybrau.—Pan agoshao'r nos, y lloer a gymmer arni y swydd gyfeillgar; a'r ser a ennynir yn filoedd gwreichionllyd, i sirioli y tywyllwch â'u llewyrch llarieiddiach, nid

gyda golwg uniongyrch ar angenrheidiau fy nghyflwr neillduol; ac yn eu gwneuthur hwynt oll yn y fath fodd, fel y byddent yn fwyaf cynnyrchol at fy naioni i yn neillduol: rhaid i hyn achlysuru y boddlonrwydd mwyaf, pan dafwyf olwg ar y gwrthdritchau a'm hamgylchant.—Nid yw yn ddiolchgar, gyda golwg ar Dduw; o blegid mae ynddo y tueddiad mwyaf uniongyrchol i leihau ein bystiriaeth o'i diriondeb, a thrwy hyn i ddiffodd ein diolchgarwch. Mae yn ein dysgu i edrych arnom ein hunain fel wedi ein colli agos ymblith torf o fodau ereill; neu heb ofalu am danom ond yn unig trwy haelioni achlysurol a damweiniol: yr hyn yn sicr a waha'r tueddiad, ac yn wir a laesa'r rhwymau, i'r diolchgarwch mwyaf addoladwy.—At yr hyn, yr wyf yn ystyried, y gallwn ychwanegu, nad yw'r ddyfais, mewn gwirionedd, yn safadwy: o blegid, i beidio crybwyll yr hyn a allesid ei ddwyn o sicr air datguddiad, mae yr un rheswm hwnw yn ymddangos yn benderfyniad digonol: dechreuodd y byd gyda dyn; rhaid i'r byd ddarhod gyda dyn; o ganlyniad, defnydd mawr, a phrif ddyben y byd, yw, bod yn wasanaethgar i ddyn. Cyttunir o bob tu, i'r adail gael ei chodi, pan oedd dyn i gael ei gynnysgaeddu â thrigfan; ac y dymchwelir hi, pan na bydd ar ddyn mwyach angen ei chyfaddasiadau. Pan êl efe i mewn i'r ty nid o waith llaw, tragywyddol yn y nef, “y ddaear, a'r gwaith a fyddo ynddi, a losgir.” Oddiwrth yr hyn mae yn ymddangos yn gasgliad amlwg a thêg, mai dyn yw prif achlysur y grëedigaeth isod.

Felly, yr wyf yn meddwl, fod fy narllenwyr a minnau at ein rhyddid (i beidio dywedyd ein bod, ar egwyddorion diolchgarwch, yn rhwym) i ddefnyddio y llinellau hawddgar hyn o eiddo ein hawdwr, gyda phriodoldeb a gwirionedd cyfartal i'w godidogrwydd a'u harddwch:

I mi y deffry natur yn fwyn ei hilbair nerth,

Y sugna bob llysieuyn, y taen bob blodyn berth!

I mi, r blynyddol adfer y rhosyn têt a'r grawn

Adfywgar wllth y nefoedd, a'r nodd neithdaraidd llawn;


I mi, cenhedla'r mw nai drysorau heb ddim rhi';


A thardd ffynhonau filoedd er mwyn fy iechyd i.

Eth. Ep. i. ver. 129.

i aflonyddu ein hesmwythder â thanbeidrwydd rhy derwyn.—Y mae'r cymhylau, heblaw yr arliwiadau tég a ledant dros wyneb y nefoedd, yn gwneuthur rhan cysgodlen fudadwy, ac yn ein diffyn, trwy eu cyfryngiad amserol, rhag pelydrau cras-boethion haf. A allwn ni ddim eu hystyried hefyd fel dyfr-lestri mawrion y byd? y rhai, wedi eu trosglwyddo ar adenydd y gwynt, ydynt yn dosbarthu eu hireidd-dra yn gyfartal* trwy yr ardd gyffredinol, ac â'u cawodydd yn firwythloni pob dim a blana ein dwylaw.—Y mae'r maesydd yn yd-dŷ i ni; a'r môr yn gronfa ddirfawr.—Yr anifeiliaid a dreuliant eu nerth i gyflawni ein gorchwylion, a roddant i fynu eu dillad i lanw ein gwisgfa, ac a osodant eu bywydau i lawr i arlwyo ein byrddau.—Yn fyr, mae pob elfen yn drysordy o gyfaddasiadau i ni; pob tymhor yn dwyn ei ddewis gynnyrch; a holl natur yn fwyd-ddarparydd i ni.—A pheth sydd yn gwneuthur y cedau hyn yn anwylach

* Cyffyrddir â'r amgylchiad hwn yn odidog, ymhlith cyflawnder o nodiadau prydferth ac addysgiadol ereill ar ryfeddodau anian, yn y Gweithredoedd Athronyddol a goffheir yn llyfr Job, pen. xxxviii. ad. 25. *מִי בָּנָה לִשְׁמַיִם תְּעָלָה*—*mee pillag lasheteph tealah*—“Pwy a ranodd ddyfrille i'r llifddyfroedd?”—Mae'r Hebraeg mor feichtiog a llawn o synwyr, fel na all un cyfieithad wneuthur cyflawnder â hi. Dichon yr aralliad canlynol, se allai, arddangos y prif feddylddrychau a gynnwysir yn y iaith wreiddiol.—Pwy a geingciodd allan, ac a drefnodd, gyda doethineb rhyfeddol, amrywiaeth o ddyfr-llwybrau, i'r casgliad dirfawr o ddyfroedd yr hwn a nosia yn yr wybrenau? Pwy sydd yn cyfranu'r llifeiriaint hyn trwy holl derfynau'r ddaear? Yn eu cyfranu, nid yn rheieidr dychrynlyd, neu lifogydd cymmysglyd, eithr yn ddefnynau tirion, a chawodydd adfywiol; gyda chymmaint trefnusrwydd a rheoleidd-dra a phe trosglwyddid hwynt gan bibelli o ddyfr-llle?—I bwy y priodolwn ni fanyldra'r trefniad, yr hwn yn awr sydd yn eu hanfon hwynt allan, yn awr yn eu hattal; weithiau yn gyru eu gosgordd ddyfrllyd i un lle, weithiau i arall; yn cyfranu rhagor i un wlad, a llai i'r llall; ac mewn gair, yn trefnu'r hylifedd nerthol yn y fath fodd, fel mae pob man yn derbyn mewn cyfartalwch cywir i'w angenrheidiau; heb un yn cael ei ddyfetha gan ddiluw gyffredinol?





*Teny ddinrydrydd a gwrteithiad, mae'r
fan hon yn ddleir o Eden.*

etto, maent oll cyn hawddgared ag y maent yn ddefnyddiol. Ni chanfyddir dim gwael neu wrthun; y mae'r cwbl wedi ei ddilladu yn ngwisg harddaf tegwch,* a'i drefnu wrth fesurlath fanylaf cyfartalwch. Y mae'r holl olygfa yn arddangos trysorfa o hyfrydwch i'r ddychymmyg, tra y mae yn mwy ná diwallu ein holl angenrheidiau.†

Gan hyny, diesgus wyt ti, O ddyn, pwy bynag ydwyt, a wrthryfeli yn erbyn dy Wneuthurwr. Y mae efe yn dy amgylchu â bendithion aneirif, ac yn dy ganlyn â thywalltiad o'i ddoniau gwerthfawroccaf a phenaf. Y mae efe yn gordderchu dy gariad; ac yn erfyn dy ddiolchgarwch; trwy haelioni nad yw byth yn dyspeidio, a rhadlonrwydd na edwyn ua terfyn.—Wynfydediccaf Arglwydd, bydded i'th ddaioni hwn, dy ddaioni diattal, ein tywys i edifeirwch. Ynill ni attat dy hun, tydi ffynnon dedwyddwch, trwy dy ddeniadau melusion hyn. Tyn ni at ein dyledswydd, O Dduw ein hiachawdwriaeth, “â'r rheffynau cariad hyn.”

Y fath ddarlun bywiog sydd yma o effeithiau daionus diwydrwydd! Trwy ddiwydrwydd a gwrteithiad, mae'r fan hon yn ddelw o Eden. Mae yma bob peth a ddichon foddio'r llygad, neu *hyfrydu'r arogliaid. Pan, heb wrteithiad, buasai yr ardd hyfryd hon yn

* Fe allai mae oddiar y cyfryw ystyriaeth y galwodd y Groegiaid, y barnwyr manol a hyfedr hyny ar bethau, gyfundrefn y byd trwy air sydd yn arwyddo *tegwch*—*κοσμος*.

† “Mae'r amryw greaduriaid byw, a wnaed er ein gwasanaeth a'n cynnalïaeth, ar yr un pryd naill ai yn llanwr coedydd â'u peroriaeth, ein cynnysgaeddu â helwriaeth, neu yn ennyn meddyliau boddhaol ynom trwy hawddgarwch eu hymddangosiad. Mae ffynnonau, llyn-ocedd, ac afonydd, mor adfywiol i'r ddychymmyg, ag i'r tir trwy'r hwn y tramwyant.”—*Spect. Vol. v. No. 387.*

* *Omnis copia narium.*—*Hor*

anialwch anghyfannedd. Ysgall diffaith a'i gwnaethai yn atgas; a mieri dyryslyd yn anhylwybr. Heb wrteithiad, gallasai fod yn ffau gwiberod, ac yn gynniweirfa erchyll creaduriaid gwenwynig; ond y bál a'r gyllell ysgythru, yn llaw diwydrwydd, a'i diwylliasant yn fath o baradwys ddaearol.

Mor naturiol mae hyn yn arwain y myfyrdod at y manteision a ddylifant oddiwrth addysg rinweddol, a'r niweidiau a ddeilliant o'i esgeuluso!* Y meddwl, heb addysg foreuol, yn ol pob tebygolrwydd, a fydd fel "gwinllan y diog." Os caiff ei adael i dueddfryd ei ewyllys ddirywiedig ei hun, pa beth a allwn ni ddysgwyl ond y twf rhongcaf o nwydau afreolus; y rhai, mewn amser, a dorrant allan i bob math o annhrefn waradwyddus? Pa beth—ond llid, fel ysgellyn draenog, i arfogi'r dymher â sarrugrwydd anhydrin: taogrwydd, fel dynadlen yn brathu, i wneuthur yr ymddiddan yn ddiserch a blinderus: cybydd-dod, fel rhyw chwyn taglyd, i ddysgu'r bysedd i grafangcu, a'r dwylaw i orthrymu: ymddial, fel rhyw blanhigyn gwenwynig, gorllawn o sudd angeuol, i ymlidio yn y fynwes, a myfyrio niwed i'w gymmydog: tra llygro trachwantau penrydd, fel heidiau o bryfed adwythig, y meddwl ieuangc, gan wneuthur "holl feddylfryd y galon yn unig ddrygionus bob amser."—Y cyfryw, yn gyffredin, yw cynnyrch natur wyllt! y cyfryw yw dodrefn enaid heb ei wrteithio!

O'r tu arall, gosoder y meddwl dan "addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd;" arllwysed dysgyblaeth sanctaidd y tir; haued hyfforddiant pur ef â'r had goreu; trinied medrusrwydd a gwyliadwriaeth y

* *Neglectis urenda filix innascitur agris.—Hor.*

planhigion wrth godi; cyfeirient y meddyliau ieuaingc pa fodd i ymledu, a'r nwydau ystyfnig pa fodd i fudo; —yna y fath wahaniaeth a gymmer le yn fuan yn y dyn oddi mewn! Cariad a anadlai ei felusderau, a gobaith a ledai ei flagur; y rhinweddau personol a amlygent eu tegwch, a'r rhai cyfeillgar eu ffrwythau;* y tybiau a fyddant yn rhyddion; a'r holl fywyd yn anrhydeddus a defnyddiol.†

O! na byddai i lywodraethwyr teuluoedd, ac athrawon ysgolion, i wylled, gydag awyddfryd cydwybodol, dros wrthddrychau tyner eu gofal! Y fath drueni, i'r genhedl sydd yn codi golli y doniau anmhrisiadwy hyn, trwy ddiolfwch eu haddysgwyr!—Gwelwch! gyda pha ddiwydrwydd y mae'r blodeuwr cywraint yn gofalu am ei blanja fechan! Mae efe yn ymweled â hwynt fore a hwyr; yn eu cynnysgaeddu hwynt â'r cyllun mwyaf priodol; yn eu diwallu hwynt â thirfder amserol; yn eu gwarchod rhag difrod y pryfed; yn eu cysgodi rhag niweidiau'r hin; yn dal ar eu blagur yn tarddu; yn sylwi arnynt yn fanwl trwy eu holl gynnydd; heb un amser roddi heibio ei ofal, nes eu gweled wedi blaguro i berffeithrwydd.—Ac a gaiff rhes o ddail lliwiedig, y

* Cyfnewidiad y galon, ac adnewyddiad y bywyd, a ddarlunir yn yr ysgrythyrau trwy gyffelybiaethau tebyg iawn i'r rhai uchod.—Duw, trwy ei Ysbyrd yn sancteiddio, “a wna'r enaid fel gardd ddyfradwy.” Tan weithrediad yr egwyddor nefol hon, “y diffeithwch a orfoledda ac a flodeua fel rhosyn.” Bryd bynag y gweithredo ei gallu glanhaol ac ardderchog, “yn lle dra'n y cyfyd ffynnidwydd; ac yn lle mieri, bydd myrtwydd.” Jer xxxi. 12. Esa. xxxv. 1. lv. 13.

† — A teneris assuescere tanti est! *Virg.*

—η γαρ μικρον διαφερει, το εως η εως ευθως εκ νεων εθιζεσθαι, αλλα παμπολου, μαλλον δε το παν. *Arist.* Yr egwyddorion a gymmeradwywn, a'r arferion a gasglwn, yn ein blynyddau boreuol, nid ydynt yn bethau o bwys bychan, eithr o'r canlyniad mwyaf a ellir ddychymmygu. Nid ydynt yn unig yn gosod lliw arwynebol a dibara ar ein hymddangosiad cyntaf yn y byd, eithr maent yn argraffu ffurf ein holl fywyd i ddyfod, ac hyd yn oed ein sefyllfa dragywyddol.

rhai a flagurant heddyw, ac y foru a fwrir i'r llawr— a gaiff y rhai hyn weini arnynt gydag ymroad gwres-occach nâ swydd-gynheddfau dyrchafedig enaid anfarwol?

Etto na ymddiriedwch mewn gwrteithiad yn unig. Bendith y Llafurwr Hollalluog sydd yn llwyddo y cyfryw weithredoedd cariad. Os “cau Duw gostrelau y nef,” a gorchymyn i'r cymhylau attal eu brasder, y tyddyn mwyaf achlesedig a fydd yn ddiffieithwch anial. —Ac os lluddia *Êfe* wlith ei fendith, pob ymdrech-iadau dynol a fethant; y blanhigfa resymol a lewyga; ein dysgwyliaid llawnaf, oddiwrth wyr ieuaingc o'r athrylith fwyaf gobeithiol, a fyddant ofer. “Eu gwraidd a fydd yn bydredd, a'u blagur a ddyrchafa fel llwch.”*—Gan hyny, plâned rhieni, a dyfrhâed athrawon; ond edryched y ddau at Dad yr ysbrydoedd am y cynnydd dymunedig.

Ar bob tu, yr wyf yn canfod amryw flodau yn eu blagur. Hyd yn hyn, maent fel cyrn o frethyn o nwyfdŷ'r pyniwr. Y mae pob un wedi ei oblygu mewn amgae cadarn, a'i gynnwysiaidau wedi eu rhwymo ynghyd gan reffynau cryfion: fel y mae eu holl degwch yn gorwedd yn nghudd, a'u holl felus-derau wedi eu cloi i fynu.—Yn gywir felly y mae'r adyn llawgauad, sydd â'i holl ymgais wedi ei droi i mewn, ac yn terfynu arno ei hun; yr hwn sydd yn gwneuthur ei fantais ddirgel ei hun, neu ei hyfrydwch personol, yn unig ganol-bwngc ei ddybenion, ac amgylchedd prin ei weithredoedd.

Cyn hir, y pelydr treiddgar a agorant y plygiadau sidanaidd hyn, ac a'u taenant ar led. Yna, y fath

* Esa. v. 24.

wrid hawddgar a ymennyn ar eu gruddiau; a'r fath berarogl adfywgar a ymddyrrha o'u mynwesau!— Felly, pan lewyrcho dwyfol ras ar y meddwl, mae hyd yn oed y cybydd yn dyfod yn haelionus. Y galon garreg a gymmerir ymaith; a chalon gig, calon a dderbyn argraffiadau y cynhyrifiadau tyneraf a mwyaf cyd-deimlgar, a roddir yn ei lle. O! felused mae'r serchiadau cyfeillgar yn ymledu dan ddylanwad mor dirion! Yn gywir yr un modd a'r gleiniau hyn yn agor dan alluog lygad y dydd. Nid yw'r teimladau tyner mwyach yn cael eu cyfyngu at un gwrthddrych; eithr yn ymledu allan yn ofal bonheddigaid dros ddynolryw, ac yn tywallt adfywiadau haelion ar bawb o hyd eu cyrhaedd.*

Cyfod, ynte, dydi Haul Cyfiawnder; cyfod, a meddyginiaeth yn dy esgyll, a thywallt dy belydr araf, ond treiddiol, trwy holl alluoedd ein meddwl. Eanga ein tymber gul, a llanw ni ag ewyllys da. Gwna le i'r holl hil ddynol yn ein mynwesau; a dysg ni i garu ein cyd-greaduriaid, er mwyn eu Creawdwr hawddgar. Ymbyfrydwn yn eu rhagoriaethau, a gorfoleddwn yn eu dedwyddydd; ond tristawn am eu gofidiau fel yr eiddom ein hunain, a phrysurwn i'w hesmwythâu gyda chydymdeimlad brawdol.

* Y prophwyd, wrth ddesgrifio tymber elusengar, a ddywed yn dra godidog, "Os tyni allan dy enaid i'r newynog!"—Nid yn anmhrifodol, yr wyf yn meddwl, y gellir egluro hyn trwy yr amgylchiadau a nodwyd uchod. Agoriad y blodau hyn yn daeniad mawr a llydan, sydd yn ddarluniad hardd o eangder calon haelionus; yr hon ni all gaead ei thosturi, nac aros yn ddfater am unrhyw dralloed dynol. Y rhyddid a'r helaethrwydd gyda pha rai mae'r blodau taenedig yn tywallt allan yn barhaus eu dewis beraroglaeu, a allant arddangos amryw weithred-oedd haelder difino; ynghyd â'r geiriau hoff, a'r serchogrwydd gwresog, y rhai a beraroglant y rhodd, fel pe byddai, i ddwywaith ei gwerth, ac a gyfansoddant yr hyn a eilw yr ysgrifenydd sanctaidd yn "dynu allan yr enaid."—*deprompseris animam tuam.* Esa. lviii. 10.

Wedi eu gosod mewn pèlder priodol oddiwrth eu gilydd, yr wyf yn canfod rhes o gyrs cryfion a mawryddig. Y maent yn sefyll fel tyrau ar furiau dinas amgaeredig; neu yn ymddyrchu fel olochdai oddiwrth y crug o dyau. Y maent yn ymranu, yn y blaen, yn amryw godau dibynolion, pigfeinion; oddiwrth bob un o'r rhai cawn weled ffurf dëg yn arddangos ei hun yn fuan; wedi ei thalgrynu yn gylch perffaith; wedi ei thaenu ar led yn yr agwedd fwyaf wyneb-agor a chyfrangar; a'i thrwytho yn y lliw hwnw sydd mor neillduol hudolus i lygad y cybydd.

Ond y briodoliaeth wyf yn ei mawrygu fwyaf, yw ei hyfrydwch cariadlawn yn yr haul. Pan led o'r hwyr ei chysgodau, mae'r blodeuyn, druan, yn ymollwng, ac yn plygu ei ddail i fynu. Y mae yn galaru trwy gydol faith y nos, ac yn dihoeni, fel rhyw garwr diobaith, a alltudiwyd oddiwrth wrthddrych ei serch. Cyn gynted ag yr egyr Rhagluniaeth "amranta y bore," mae efe yn cyfarfod,* ac yn groesawi y goleuni adchwelol; yn ei ordderchu a'i goffeidio trwy'r dydd; ac nid yw byth yn colli golwg ar ei anwylyd dysclaer, tra parhau uwchlaw'r terfyngylch.—Yn y bore gellir ei ganfod yn troi ei fynwes eurgain tua'r dwyrain; hanner dydd, yn ei dyrchafu i fynu tua chanol yr wybr; yn yr hwyr, yn canlyn yr un cynhyrriad tyniadol tua'r gorllewin.

Yn ddiau, mae natur yn llyfr, a phob tudalen yn gyfoethog o addysgiadau nefol. I'r meddwl myfyrgar, mae'r ardd yn troi yn bregethwr, a'i phreswylwyr blagurog ydynt gynifer o bregethau bywiog. Y fath gynllun dengar, a'r fath wers ragorol sydd yma!—

* — Illa suum, quamvis radice tenetur,
Vertitur ad solem.— *Ovid.*

Felly, "edryched" gwaredigion yr Arglwydd "ar yr Iesu,"* a chydfurfiant â'u hanwylid. Byddwn oll yn haul-flodau (os gallaf arfer yr ymadrodd) i Haul Cyfiawnder. Ymgoded neu ymostynged eia nwyda, cymmerent y cyfeiriad hwn neu arall, yn ol penderfyniad ei air, a thywysiad ei anghraifft sanctaidd. Cyfaddaser na at ei ewyllys ddatguddiedig a rhaglun-iaethol, yr un modd ag y troir y cŵyr at argraff y sel; neu, wynebpryd y blodewyn cariadlawn hwn at y seren ddysclaer sydd yn creu dydd.

Ymhob mwynhad, O Gristion gwylidwrus, edrych ar Iesu; derbyn ef fel peth wedi deillio oddiwrth ei gariad, a'i brynu â'i loesion.†—Ymhob gorthrymder, edrych ar Iesu; sylwa ar ei law rasol yn darparu'r fflangell, neu yn cymmrysgu'r cwpan chwerw; yn ei gyd-dymheru i radd briodol o lymdra; yn trefnu amser ei barhad; ac yn barod i wneuthur yr anfodau ymddangosiadol hyn i gynnyrchu daioni gwirioneddol.—Ymhob gwendid a lithrad, edrych ar Iesu, dy Arch-offeiriad trugarog; yn dadleu ei waed iawnol, ac yn eiriol dros y troseddwyr.—Ymhob gweddi, edrych ar Iesu, dy ddadleuwr llwyddiannus; yn cyflwyno dy wasanaeth, ac yn "cymmeryd ymaith anwiredd dy bethau sanctaidd."‡—Ymhob profedigaeth, edrych ar Iesu, awdwr dy nerth, a chadpen dy iachawdwriaeth; yr hwn yn unig a ddichon godi y dwylaw a laesasant, a chryfhau y gliniau llesg, a'th wneuthur yn fwy na

* Heb. xii. 2.

† O dan ein beichiau suddodd ef,
I'n codi ni i orsedd nef:
Pob rhodd o'i law haelionus rydd,
Yn werth ochenaid iddo sydd. *Watts.*

‡ Ecsod. xxviii. 38.

gorchfygwr ar dy holl elynion.—Ond yn benaf, pan agoshao awr dy ymddattodiad, pan ballo dy gnawd a'th galon, pan ddryllier holl ffynhonau bywyd; yn anfeddyginiaethol; yna edrych ar Iesu â llygad credniol.* Fel Stephan, gwel ef yn sefyll ar ddeheulaw Duw, yn barod i nerthu ei bobl yn hwn eu cyfyngder olaf. Ië, fy nghyfaill anwyl, pan fyddo taith dy fywyd yn darfod; pan gyrbaeddot i fin marwoldeb; pan fyddot yn ymwithio allan i'r byd anweledig; a'r cwbl o'th flaen yn dragywydoldeb diderfyn; yna, O yna, bydd sicr o edrych yn graff ar Iesu! “Gwel Grist yr Arglwydd trwy ffydd.” Edrych arno fel yr unig ffordd † i'r trigfanau tragywyddol, fel yr unig ddrws ‡ i breswylfeydd gwynfyd.

Mae yn y pren accw, sydd yn wynebu y dehau, rywbeth rhy hynod i fyned yn ddisylw.—Fel y winwydden ffrwythlawn, er yn egwan, y mae efe yn dwyn allan deulu lliosog o ganghenau; ond, yn analluog i'w cynnal ei hun, mae efe yn eu traddodi i ofal y mur heulog. Nid yw'r brigau tynerion, hyd yma, ond prin wedi ffurfio eu blodau dyfodol. Pa fodd bynag, gallaf ragweled y cynnyrch hynod, a rhagddarlunio i mi fy hun flodeuyn y goddefaint, yr hwn, mewn amser dyladwy, a addurna y ceingciau ag olyniad maith a helaethlawn.

Mi a ddarllenais, mewn awdwr Lladinaidd, am flodau wedi eu harsgrifio ag enwau brenhinoedd; § ond dyma un wedi ei addurno ag arwyddion o waediad Tywysog bywyd. Darllenais, yn yr ysgrifenedau

* “Trowch eich wynebau attaf, holl gyrau'r ddaear, fel ych achuber,” Esa. xlv. 22.

† Ioan xiv. 6.

‡ Ioan x. 9.

§ Dic, quibus in terris inscripti nomina regum
Nascantur flores?—*Virg.*

ysbrydoledig, am ddynion apostolaidd, a ddygasant yn eu cyrph farwolaeth yr Arglwydd Iesu:* ond dyma grefyddwr blagurog, yn dwyn cofnodau amlwg o'r un terfyniad aruthr ac angeuol.—Pwy a ddysgwylasai weled y fath ddienn-chwedl o wae, yn cael ei harddangos mewn cynnulliad o'r hyfrydwch teccaf? Neu weled golygfa erchyll Calfaria yn ddarluniedig ar addurniadau tyneraf yr ardd?—A yw natur, ynte, yn cael ei chyffroi gan ymgais ardderchog i dalu anrhydedd coffadwriaethol i'w Phenadur dirboenedig? A yw hi yn hynaws gymmwynasgar i alw marwolion ebar-gofus i feddwl am y wyrth hōno o drugaredd, myfyrio ar ba un sydd yn ddyledswydd arnynt, a'i chredu yn ddedwyddwch iddynt? Neu ynte, ai dychymmyg wammal yw fy neonglydd, a'r holl debygolrwydd tybiedig ddim rhagor nâ gau eglurhad ansafadwy ofergoel? Caniattäer mai felly y mae; etto mae rhinwedd hyd yn oed mewn ofergoel, pan mae yn gosod yr Iesu croeshoeliedig allan mewn darluniad mor foddhaol. Ac ni bydd i mi ommedd sylw ewyll-ysgar i dychymmyg ei hun, pan ddefnyddio hi ei galluoedd crëedigol i adfywio ystyriaeth o'r fath gariad anghyfartal, a chyffroi fy niolchgarwch i gyfaill mor ddwyfol.

Yr amrwymyddion nydd-droedig a godant o waelod y gorsen, a ydynt hwy yn arddangosiad o'r fflangell a rwygodd gnawd difrycheulyd y Pryniawdwr, ac a ddrylliodd yr archollion hyny, trwy ba rai y iachëir ein heneidiau ni? Neu a ydynt hwy wedi eu plethu wrth y rheffyn a rwymodd ei ddwyllaw mewn caethder poenus a gwaradwyddus; y dwyllaw haelionus hyny,

* 2 Cor. iv. 10.

a ledid allan bob amser i ddattod beichiau trymion, a chyfranu bendithion dymunol o bob math!—Wele yr hoehion a drochwyd yn ei wythienau glân, a sicrhasant ei draed wrth y pren unelldigedig: y traed * prydferth hyny, y rhai a aent oddi amgylch yn barhaus gan wneuthur daioni, ac a deithient ymbell ac agos i daenu y newyddion da o iachawdwriaeth dragywyddol.—Wele'r northwyl trwm a pbwysig, a yrodd yr heiry'n geirwon trwy ei ewynion crynedig, ac a gurodd fynedfa i'r geingion arswydus hyny rhwng ei esgyrn dadgym-maledig.—Gwelwch y drain a amgylchasant aelau ein Hathraw brenhinol, ac a drywanasant eu pigau llymion a phoenus i'w ben bendigaidd! O y loes! yr arteithiol loes! pan, yn lle llawryf baddugoliaeth, neu goronbleth arogfber, y planodd y dorch lymdost a llarpiog dalcen y Messia llariaidd! Pan darawodd ergydion angerddol a barbaraidd y gorsen gref ddwyreiniol† y goron bigog, ac y gosododd bob draen yn ddwfn yn ei †arleisiau

* “Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu, yn cyhoeddi heddwch, a'r hwn sydd yn mynegu daioni, yn cyhoeddi achawdwriaeth!” *Esa. lii. 7.*

† “Hwy a gymnerasant y gorsen,” medd yr hanesydd sanctaidd, “ac a'u tarawsant ef ar ei ben:”—“ac felly a hoeliasant i lawr y drain yn ei dalcen a'i arleisiau, a thrwy hyny a achosasant boen llym, yn gystal a ffrydiad mawr o waed.” *Family Expositor, vol. ii. sect. 188.*—“Mae'n fwyaf tebygol,” a ychwanega'r un beirniad deallus, “mai ffôn oedd hon pa un a osodasant yn ei law fel teyrnwialen; o blegid prin y teimlasid ergyd oddiwrth gorsen ysgafn, neu y teilyngasai le mewn cyfres o'r fath ddyoddefaint arswydus.”

‡ Rhaid fod y loes oedd yn cydfyned i'r fath ddarn o farbariaeth yn anhraethol lym; nid yn unig ar gyfrif y clwyfau lliosog a wuai yn y cnawd, ond yn benaf am y rhaid i'r *periosteum*, ac amwieg yr esgyrn, sydd yn rhyfedd deimladwy, ac yn y rhanau hyn, yn agos iawn i'r croen, dderbyn llawer o glwyfau dychrynllid; loesion y rhai ni allent lai na chael eu hennyn i gynddaredd llidiog, trwy barhad cynifer o bigau draenog yn y bilionen neilkuol dyner; yr hon, yn y fath amgylchiad,

———“Gan grynu drosti gyd yn fyw,
Trwy'r holl chwysdyllau a wynegai'n llym.”

dyheos!—Accw y saif y dysgyblion, wedi eu rhestru yn yr achwre gwyrdd, ac yn ffurfio cylch o ddeutu offerynau marwolaeth eu Llywiawdwr. Y maent yn ymddangos fel cynifer o ymlynwyr ffyddlawn, y rhai a anadlant benderfyniad dewr, naill ai i ddiffya eu Harglwydd hyd yr eithaf, neu syrthio yn anrhydeddus wrth ei ochr. Ond a roddasant hwy y fath brofion o sêl a ffyddlondeb yn eu hymddygiad, ag a addawsai eu safiad diysgog a'u golwg ddigrŷn. Och! pa beth yw pob gwroldeb dynol, os yn amddifad o gysuron oddi uchod, ond tarth yn diflanu? Pa beth yw pob sant, os heb ei gynnal gan alluog ras, ond bradwr dirywiedig?—Sylwer ar y gogoniant wedi ei ddarhuio â llinellau deublyg, yn fawryddig gan frenhinol berphor, ac yn hardd gan las awyrol.—Ond, och! mor analluog yw edafedd, er wedi ei nyddu gan law gynnilaf yr haf, er wedi ei lliwio yn yr eira, neu ei thrwytho yn y nef, i arddangos rhagoroldeb difrycheulyd ei ddynoliaeth, neu annhraethol fawrhydi ei ddwyfoldeb! Wrth eu cymharu â'r rhai hyn, y mae'r cydgasgliadau bywioccaf o liwiau yn diflanu i waeledd diystyr; ac effeithiau mwyaf swyngar llewyrch a chysgod, nid ydynt yn unig yn ddwbiad, ond yn llwyr wagedd.

Ymhlith yr holl degwch sydd yn dysclacrio mewn gwisgoedd heulog, ac yn llymmeitlan y gwllith arian-aidd, hwn, yr wyf yn meddwl, sydd â'r duedd ardderchoccaf, os nid yr olwg harddaf. Pe elent oll dan adolygiad, a dysgwyl barn uchafiaeth oddiwrth fy mhenderfyniad i, ni phetruswn am funud. Rhodder y campdlws i'r ymgeisydd hawddgar hwn, a ardderchogodd ei hun mor enwog, ac a urddasodd ei hun mor rhagorol, trwy ei debygolrwydd hynod i'r "blaguryn

cyfiawn, a'r planhigyn enwog.* Tra mae ereill yn gosod ei le yn y flodeufa, myfi a drawsblanwn flodeuyn y goddefaint, neu yn hytrach a drosglwyddwn ei arwyddocad sanctaidd, i'm calon. Yno blagured, haf a gauaf; blagured gyda'r egwyddor fwyaf argraffnodol, blagured gyda dysclaerdeb anniflanedig: fel y gallwyf finnau hefyd wisgo—wisgo ar fy unig enaid—ôl yr Emanuel, yr hwn a ddrylliwyd am fy mhechodau, ac a archollwyd am fy nghanweddau: fel y byddwyf finnau hefyd wedi fy "nghroesholio gyda Christ;"† o leiaf mewn gofid edifeiriol a chyd-deimlad serchog-lawn: fel yr "adnabyddwyf (finnau hefyd) gymdeithas ei ddyoddefiadau ef,"‡ a theimlo fy nhueddiadau pechadurus yn cael eu clwyfo trwy ei loesion, a'u marweiddio trwy ei ângeu.

Y mae un arall o ddeiliaid y deyrnas wyrddlas, ar gyfrif ei hansoddau tra anghyffredin, yn teilyngu fy sylw neillduol. Un, mor rhyfedd anhyderus yn ei thymher, a thyner yn ei chyfansoddiad, fel nad yw hi yn anturio ymddiried ei hun allan dan yr awyr agored; eithr maethir hi yn nghynnesrwydd twym-wely, a byw y mae hi yn gaëedig yn nghelloedd y gwyrdding-dŷ. Ond y neillduolrwydd mwyaf cywraint yw, mai hi yn unig, o'u holl lwythau cyfathrachol, sydd yn meddu ar fywyd syniadol; o leiaf yn tynu agosaf at y sefyllfa fwy dyrchafedig hōno o fodoliaeth; a gellir ei hystyried fel y gadwyn sydd yn cyssylltu y byd llysieuog a'r anifeilaid ynghyd. Gallai dyeithrddyn, wrth sylwi ar ei mudiadau, feddwl ei bod wedi ei chynnysgaeddu â rhyw radd o gydwybodolrwydd a gofal: oblegid, os

* Felly y desgrifir y bendigaid Iesu. Jer. xxxiii. 5. Ezech. xxxiv. 29.

† Gal. ii. 20.

‡ Phil. iii. 10.

cynnygwch gyffwrdd â'r fywlys, mai hi yn dychrynu yn ddiatreg, yn crebachu ei hedafedd ar frys, ac, fel un yn ofni trais, yn ymdynu oddiwrth eich bysedd mewn math o anhrefn byrbwyll. Fe allai y byddai i'r cyffyrddiad dynol ddiwyno tegwch ei phryd, neu anghyweirio manylrwydd ei chymmhlethiad: o ba herwydd mae hi, fel coegen fursenaidd, yn ymgilio rhag pob cyfrinach anwedus, ac ni chaniatta y fath ryddid anmbriodol, os nid niweidiol.

Pa beth bynag all fod yr achos o'r fath effaith anghyffredin, y mae yn gweini cynghor addysgiadol i Grist'nogion. Y cyfryw ddylai fod ein gofal ofnus ninnau, gyda golwg ar bechod, ac hyd yn oed dynesiadau pellaf drygioni. Felly y dylem ochel ymddangosiad profedigaeth, a sefyll o hirbell oddiwrth bob achlysur i syrthio.—Os pechaduriaid a'ch denant, os mwynderau a'ch hudant, os cyfleusdra a awgryma, ag elw anghyfiawnder yn ei law; O trowch oddiwrth y fagl oreuredig! na chyffyrddwch â'r gwenwyn têtg; eithr ffowch, ffowch ar frys, ffowch yn ddioed, rhag y dinystr hudolus.—A yw llid yn dynesu, gyda'r fflag ennynedig, i gynneu fflam digofaint yn eich mynwesau? A yw gweniaith yn glynu wrth eich clustiau, â'i hysibrwd cyfareddog a meddwol? A fyn anfoddlonrwydd osod ei llaw blwm ar ein tymherau, a thyfino ei surdoes yn ein meddyliau, mewn trefn i'n gwneuthur yn faich i ni ein hunain, ac anhawddgar i ereill? Trown ein sylw yn ddiatreg oddiwrth y gwrthddrychau niweidiol, ac ymdrechwn ochelyd, yn hytrach nâ gwrthgyfareddu, y gwenwyn marwol. Myfyriwn yn fynych ar larieiddra rhyfedd ein Harglwydd mewn cyfyngderau, yr hwn, dan y sarhad mwyaf enllibaidd a chyffrôs, a

gadwodd mewn agwedd unfurf o dawelwch digythrwl: Ystyriwn y darostyngiad aruthr, a'i dyg o uchder anfeidrol uwchlaw yr holl fydoedd, i wneuthur ei fedd yn llwch y ddaear. Llonyddwn ein nwydau ymrysongar ac anesmwyth, ag atgof o'r sirioldeb a'r ymroddiad a'u gwnaethant ef, yn y tloidi dyfnaf, yn ddiffuant ddiolchgar, a than y gorthrymderau trymaf, yn ostyngedig amyneddgar.

Er dim, na lettywch fradwr eich rhinwedd. Byddcwh yn fud, yn anhyblyg fud, i bob eudduniad twyllodrus. Os ymlusga efe i mewn i'r galon anwyliadwrus, groes âwch ef, na wnewch am funud. Cellwair â'r gelyn, yw agor drws i ddynstr. Ffoi yw ein diogelwch: ac, ar yr achlysur hyn, drwgdybio yw y callineb penaf, ofni yw y calonidid mwyaf.—Na chweriwch ar fin y diphwys; nac ymdrowch o gylch ymylon y fflam; na faldodwch â cholyn angeu: eithr, gyda chymmysgiad gweddus o ofal a chasineb, gwrthodwch hyd yn oed ymlithiadau cyntaf anwiredd, mor ochelgar ag yr ymrynhua y clwyf gwynegus hyd yn oed rhag y llaw dyneraf, mor gyson ag yr ymdyna y planhigyn eiddigus hwn oddiwrth y cyffyrddiad yn agoshau.*

* Y prophwyd Esaia, mewn disgrifiad ardderchog a bywiog o ddyn cyfiawn, a ddywed, "Efe a ysgwyd ei law rhag derbyn gwobr;" ac, mi a allaf ychwanegu, rhag gwneuthur unrhyw anwiredd. Mae'r darlun, yn rhyfedd odidog, a chyfartal gynhwysfawr, yn eglurhau ac yn cymhell athrawiaeth yr holl adran hon.—A ysgwyd ei ddwyllaw; fel y gwnelau dyn, yr hwn a ddygwyddai gael marwor llosgedig yn syrthio i'w arffed, neu ryw greadur gwenwynig yn glynu wrth ei gnawd. Yn y fath amgylchiad, ni safai neb funud i ystyried neu ddadleu ag ef ei hun gymhwysder y peth; efe yn ddioed a dafai ymaith y baich niweidiol, yn ddioed a ymdrechai ryddhau ei hun oddiwrth y drwg glynedig. Esa. xxxiii. 15.

Myfi a ddesgrifiais y perygl o beidio diffodd gwreichion cyntaf profedigaeth yn uniongyrch, trwy amrywiaeth o olygiadau: o blegid fod ymddygiad addas, yn y cyfryw amser, o'r pwys mwyaf i burdeb, diogel-

Nid amser hir sydd er pan oedd y blodau hyn, cynnyrch cywraint y gwanwyn, yn wreiddiau geirwon ac affuniaidd. Pe agorasem y ddaear, ac edrych arnynt yn eu hadau, mor drwsogl a dirmygus fuasai yr ymddangosiad!—Ond, yn awr, maent yn ymfrost natur, yn hyfrydwch meibion dynion, ac yn gylluniau perffaith owmal a brodwaith, ac yn tra rhagori hyd yn oed ar linellau dedwyddaf y puntr. Dysgir hwynt i flaguro, ond gyda llawer gwaelach llewyrch,* yn y teisbanau gwerthfawroccaf, a'r sidanau mwyaf rhodresgar. Nid yw celfyddyd byth yn cynnyg eu cyfar-talu, ond yn gosod ei holl deilyngdod yn efelychu y cynysgrifiau tlyision hyn. Hyd yn oed y rhai a ddys, claeiant mewn arian, neu y rhai y gweithiwyd eu gwisgoedd o aur, a ddymunant fenthycio addurniadau ychwanegol oddiwrth frigyn o siasmin, neu gasgliad bychan o bingciau.

Y fath ddrychfeddwl hyfrydlawn ellir dynu oddi ymâ am adgyfodiad y cyfiawnion, a sefyllfa eu cyrph wedi eu hadeneidio! Megis y mae gwreiddiau y blodau mwyaf dewisol, pan wedi eu gosod yn y llawr, yn wael ac amhrydfertb, ond pan darddant i fywyd blagurog, yn hardd a godidog; felly hefyd cnawd y saint, pan

wch, a chysur ein meddyliau:—o blegid fod y moesdraethwr brenhinol mewn golwg genyf; yr hwn, gan attal ei ysgolhelgion rhag ffordd y rhai drygionus, a lefai—gyda gofal dwfn, ac yn iaith wresog taerineb, efe a lefai—"Gochel hi; na ddos ar hyd-ddi; cilia oddiwrthi; a dos heibio." Mor gryf mae'r cyngbor yn cael ei annog, trwy ei fynych ailadroddiad, yn y fath amrywiaeth hynod o rybuddion byrion a disymmwth, yn ganlyniadol awdurdodol a thaer! Diar. iv. 15.

- * Fe wena'r dewbanog mewn melyn mwy claeu,
Nâ'r gorchudd ar fronau'r briodferch a gair;
A'r rhosyn a fflamî'n wridocchach ei bryd,
Nâ gwisg y priodfab yn malchder ei fryd.

Prior's Sol.

draddoder ef i'r llwch, och! pa beth ydyw? pentwr o lygredigaeth, telpyn o bridd maluriedig! Ond, pan ufuddhao i alwad yr archangel, pan neidio i fynu i fodoliaeth newydd, y fath gyfnewidiad aruthr a ganlyn! y fath wellhad tra rhagorol a gymmer le!—Yr hyn a hauwyd mewn gwendid, a gyfyd yn holl fywiogrwydd nerth; yr hyn a hauwyd mewn anmharch, a gyfyd yn holl flagur nefol ogoniant. Wedi ei ddyrchafu, ei buro, a'i ogoneddu, efe a lewyrcha “fel dysclaerdeb y ffurfafen,” pan fyddo hi yn ergydio y glas digyffelyb trwy y cnuau—cnuau eiriog—rhyw gwmwl rhanedig.

Nac ofna, ynte, tydi Gristion ffyddlon, nac ofna ddisgyn i'r beddrod ar yr amser gosodedig. Gelli ymddiried dy enaid i'th Bryniawdwr hollalluog, yr hwn sydd yn Arglwydd y byd anweledig, “a chanddo allweddau uffern a marwolaeth.” Gelli, gyda'r diogelwch mwyaf, ymddiried dy ran oreu i'r dwylaw haelionus hyny, a drywanwyd â'r hoelion, ac a sicrhawyd wrth y pren gwaradwyddus, er dy iachawdwriaeth di.—Ac am dy babell bridd, na ddigalona; nid yw ddim ond cael ei thynu i lawr mewn trefn i gael ei hadeiladu ar gynllun mwy dwyfol, a ffurf fwy nefol. Os ymgilia hi i gysgod angeu, a gorwedd yn ngharchar tywyll y bedd, hi a ddychwel o gaethiwed byr i ryddid didranc. Os syrth hi i ymollyngiad, hyny a fydd fel y gallo godi yn fwy ardderchog o'i hadfeiliadau, a gwisgo agwedd anfeidrol ddysclaeriach o berffeithrwydd a gogoniant.

Wedi gorphen fy arwyrain, bydded i mi yn nesaf gymmeryd galarnad am y rhai hyn, cynnyrch prydfferth y byd llysieuog:—cansys yr wyf yn rhagweled eu dedfryd yn agoshau. Etto ychydig, a'r holl olygfeydd

hyfrydlawn hyn a ddiflanant; etto ychydig, a holl beraroglaau anadl, a holl degwch blagur y gwanwyn, ni byddant mwy! Rhaid i bob un o'r ffurfiau tég hyn gael ei chrychu i wrthuni, a'i sathru i'r ddaear.—Cyffelybiaeth gynnwysfawr o bob harddwch crëedig. “Pob cnawd sydd wellt,” fel y borfa werdd, yn agored, ac ar ei ogwydd i wywo. Ië, “ei holl odidogrwydd,” ei berffeithderau penaf, y pethau mae'r byd yn gyffredinol yn eu mawrygu, “fel blodeuyn y maes,”* yr hwn sydd yn colli ei gaboliad, yn adfeilio ac yn trengu yn gynt nâ'r glaswelltyn ei hun.—Gwelwch, ynte, chwychwï y rhai teccaf ymysg merched Efa, gwelwch eich hunain yn y drych hwn. Gwelwch degwch eich personau yn cilio oddi ger bron dysclaerdeb y blodau bychain hyn; a breuoldeb † eich sefyllfa yn cael ei

* Esa. xl. 6.

† Και το ροδον καλον εστι, και ο χρονος ουτο μαραινει·
 Και το ιων καλον εστιν εν ειاري, και ταχυ γηρα·
 Δευκον το κρινον εστι, μαραινεται ανικα πιπτη·
 Α δε χιων λευκα, και τακεται ανικα πυχθη·
 Και καλλος καλον εστι το παιδικον, αλλ' αλιγον ζη.

Maddeued y darlennydd i mi, os efelychaf, yn hytrach nâ chyfieithu, y llinellau hyn o Theocritus; os amrywïaf un meddwl, ychwanegu arall, a rhoddi dull newydd i'r cyfan:—

Pan syrthio'r eira, a gwisgo'r maes
 Mewn gauaf fantell ddysclaer laes;
 Rhag gwedd yr haul ymgilia'i goll,
 Ac ymaith wyla'i hunan oll.

Pan chwyddo crynllys gwanwyn gwyrdd,
 A thywallt peraroglaau fyrdd;
 Mor fuan y diflana'u sawr!
 Ac mor fyr-hoedlog yw eu gwawr!

Y bore'n wryf, ganol dydd
 Y rhosyn haf yn wyw a fydd;
 Prin i'n boddha'r melusber ddawn,
 Nad am ei golli y tristawn.

Llinella claer oruchiad wen
 A llithrig dân, hydrefol nen;

arddangos trwy eu gogoniant ansafadwy. Dichon cryd ennyn y gwythi caboledig hyn, neu ddarfodedigaeth gulhau y gruddiau serchog; geill llwyth o ofidiau annysgwyladwy suddo yr ysbrydoedd bywiog. Neu, pe arbedai yr anffodion hyn, mewn tosturi, y cyfansoddiad tyner, etto henaint, henaint anhyblyg, a'i rychiau, a ddaw yn sicr yn y diwedd; a wywa'r wynebpryd hardd, ac a ddeifia bob tegwch hoenus.

Yna, chwi rai tég, pan dywylllo eich llygaid serenog, pan suddont yn eu tyllau; neu pan nofiont yn angeu; pa fodd y deliwch chwi'r gorthrymder? pa fodd yr adferwch y golled? Cymhwyswch eich meddyliau at grefydd; gofalgwch am yr un peth angenrheidiol; Credwch yn, a dilynwch ôl, y bendigedig Iesu. Yna eich eneidiau a esgynant i ororau dedwyddwch, tra ymgymmysgo eich cyrph prydferth â'u llwch gwael cyssefin. Goleuni wyneb Duw, gyda pherffeithrwydd cyflawn a digyffelyb, a lewyrcha ar eu holl swyddgynneddfau dyrchafedig. Wedi eu llwyr lanhau oddiwrth holl weddillion llygredd, fel rhyw ddrych difrycheulyd, hwy a ad-dywynant ddelw berffaith sancteiddrwydd eu Creawdwr.—O! na thrwsiech chwi eich meddyliau fel hyn, a pharottoi gogyfer a'r sefyllfa anfarwol! Yna, yn lle ymddysclaerio ymhlith eich

O'i chylech ysgydwir hon i lawr,
A marw fydd mewn munud awr.

Y fath yw'r swyn yn gwridio'r rudd,
Ac yn bywiogi'r llygad sydd;
Fel hyn, oddiwrth yr hawddgar lun,
Y ffy pob tegwch yn gyttun.

Pob tymhor, yn ei gylch, fel hyn,
Sy'n cadarnhau'r gwirionedd syn:
A chan rybuddio'r dæg ei grân,
Yn dweyd mai cywir yw fy nghân.

cyd-greaduriaid ar y ddaear, trosglwyddid chwi, i ymddysclaerio o amgylch gorseddfaingc Duw. Yna, o fod yn felusyddion ein bywyd, ac yn hyfrydwch ein llygaid ni, yma isod; caech fyned drosodd, trwy fynedfa esmwyth, i fod yn angylion goleuni; a bod yn "arlderchogrwydd tragywyddol, a llawenydd yr holl genhedlaethau."

Rhaid, chwi lwythau blodenog, rhaid i chwi oll ddiflanu!—Y lili accw, sydd yn edrych fel brenhines y grëedigaeth hoyw-wych—wele, mor brydferth y mae hi yn codi ei phen rhwysgfawr! Y fath agwedd o anrhydedd a mawrhydi sydd yn arlderchogi ei golwg! Am bryd urddasol, yn gystal a dysclaerdeb anghymbarol, iawn y gellir ei chyfrif yn rhagorach nâ theyrn mawreddog y dwyrain.* Ond, er ei holl rwysg a'i thegwch, prin y gorfuchedda hi ychydig ddyddiau yn rhagor: rhaid i'r gwyni difrycheulyd yna gael ei lychwinio yn fuan, a'r ffurf eiriog gael ei sathru yn y llwch.

Megis y mae'r lili yn boddhau â syllder urddedig ei hymddangosiad, y mae'r tiwlib yn cael ei fawrygu am wychder ac amrywiaeth ei liwiau. Erioed ni liwiwyd ac ni owmalwyd cwpan â'r fath afradlonedd o drwythau: ei wawriau ydynt mor danbaid; ei wrthgyfleadau mor gryfion; a threfniad y ddau mor odidog a chelfyddgar!—Yn ddiweddar yr oedd yn falchder y cyffin, ac yn degwch penaf y tymhor hyfrydlawn. Mor fanwl dëg a'r enfys, ac agos mor rhyfedd ansafadwy; efe a ledodd ei esgyll ysplenydd dros funudyn; eithr gosododd i lawr ei holl anrhydedd uchafiaethol ac amrywiedig: y llinellau dysclaer hyny a gym-

* Mat. vi. 29.

mysgwyd, och! a gymmysgwyd yn drwsogl, â'r pridd cyffredin.

At ffurf brydferth, a gweddlw blagurog, mae y rhosyn yn ychwanegu y perarogl hyfrytaf. Mae ein ffroenau yn ei ofwyo drachefn a thrachefn, heb byth ffino ar ei felusderau. Y mae cyssewyr mor neillduol ddymunol ac adfywgar yn anadlu o'i duswau ymdaenol, fel mae pob un yn awyddus am ei gyfeillach. Fel y gwelais hyd yn oed Clarissa berffeithlawn ei hun, am yr hon y llesmeiria cynifer o euddunwyr, yn maldodus fynwesu y blodeuyn bychan hwn! Y fynwes hawddgar hòno, trigle diniweidrwydd a rhinwedd, rhagoriaeth leiaf pa un yw bod yn gydradd â'r eira puraf; ymhlith mil o swynion o'i heiddo ei hun, a'i barna yn ddichonadwy i ychwanegu un arall oddiwrth y rhos-flaguryn troëlllog.—Etto, rhaid hyd yn oed i'r anwlyd cyffredinol hwn ballu. Ni all ei bereidd-dra cynhenid ei ddiogelu rhag llygredigaeth. Yn fuan buan rhaid iddo roddi i fynu yr holl ansoddau boddhaol hyny, ac ymollwng ar ei gorsen esgeulusedig, neu syrthio, yn ddirmygus, i'r llawr.

Gallai un, mi dybygwn, ddymuno oes hwy i'r rhai hyn, hawddgarwch yr hil ddifywyd, ond yn ofer. Y maent yn gwywo, agos cyn gynted ag y maent yn blaguro. Mewn llai nâ mis, bydd eu gogoniant wedi llwyr ddiflanu! Cymmered yr haul ychydig deithiau etto trwy yr wybrenau; yna ymwelwch â'r rhodfa hudoliaethus hon, ac ni chewch ddim ynddi, namyn anialwch gresyn o gyrs ysig a noethion.—Ond (mae fy enaid yn llamu wrth feddwl) y fantell o ogoniant nefol, yn yr hon, cyn hir, y dilledir y cyrph adeneidiedig, ni heneiddia byth. Y gwisgoedd godidogion o

gyfiawnder perffaith y Gwaredwr, y rhai, i.e., yr awrhon, ydynt yn addurno yr enaid a gyfiawnhawyd, ydynt yn anlygredig a didranc. Ni eill y gwyfyn ysu eu gwriad, nac oesoedd afrifed lychwino eu dys-claerdeb. Dichon goleuni y dydd gael ei ddiffodd, a'r holl ser suddo i dywyllwch; ond anrhydedd y "cyfiawnion a berffeithiwyd" nid yw yn ddarostyngedig i un lleihad—anniffoddadwy a diddiflanedig yw tan-beidrwydd eu coron hwyt.

Rhaid, chwi lwythau blodeuog, rhaid i chwi oll ddiiflanu!—Gauaf, fel rhyw oresgynwr lliidiog, yr hwn sydd yn dwyn tân a chleddyf pa le bynag yr elo; yr hwn sydd yn dymchwelyd dirasoedd, yn difrodi gwledydd, ac yn taenu lladdfa ac anghyfannedd-dra o bob tu—Felly, yn gywir felly, y llwyr ddyfetha'r gauaf, a'i wyntoedd sarrugion a didosturi, yr olygfa brydferth hon. Y mae'r ystormydd yn ymgasglu, a'r tymhestloedd yn ymfyddino, i dywallt eu cynddaredd ar y teyrnasoedd llysieuog. Hwyl a ymlidiant trwy holl dalaethau natur, a anrheithiant ei goludoedd, ac a ddystrywiant ei thegwch.—Yna, chwi goedydd, rhaid i chwi sefyll wedi eich dihatru o'ch holl wisgoedd gwyrddleision; a chwithau, faesydd, wedi eich amddifadu o'ch trysorau chwyfiog. Rhaid i'r ddaear, wedi ei diosg o'i holl drwsiad hoyw, eistedd mewn sachliain, fel gweddw ddigysur. Yr haul hefyd, yr hwn yn awr sydd yn marchogaeth yn fuddugol o amgylch y byd, ac yn taenu gwychder o'i lygad pelydrog, pryd hyny a edrych yn llesg trwy ffenestri y deheu, a chan dywallt godywyn byr, gwan ar ein byd cystuddiol, a'n gad i dywyllwch nos ddygn, hir-faith.—Yna, cerddorion tlysiion yr awyr ni phereiddiant

yr awelon araf mwyach. Yr uchedydd, y llinos, a'r holl byngcwyr asgellog a roddant heibio eu hodlau, ac a ymollyngant dan eu tristwch. Peroriaeth y coedydd a derfyna; a dystawrwydd, (oddi eithr i'r gwyntoedd udlefog ei dorri,) dystawrwydd cuchiog anhylon, a eistedd yn gori ar y canghenau, y rhai yr awrhon ydynt yn llafar gan gathlau pereiddwyr filoedd.

Ond (O adgof melus! O ddysgwyliad llesmeiriol!) caniadau y saint yn y goleuni ni attelir byth gan dristwch. Yr holl nefoedd a wrthlefant beroriaeth eu diolchgarwch, a thragywyddoldeb a adsain eu bonllefau buddugol. Bydd haleluia y byd hwnw, a gorfoledd cynghaneddol ei drigolion, yn ogyhyd mewn parhad a'r perffeithderau a glodforant.—Tyred, ynte, tydi gariad dwyfol, a phyngcia fy nghalon; disgyn, nefol dân, a chyffwrdd â'm gwefusau; fel y byddwyf barod i neidio i fynu, a dwyn ymlaen fy rhan yn yr hosanna fawr, a'r emyn tragywyddol hwnw.

Rhaid, chwi lwythau blodeuog, rhaid i chwi oll ddiiflannu!—Ac, yn wir, pe gallech ychwanegu cryfder derwen, neu gadernid peiramid,* at holl degwch eich cymmhlethiad; etto byr, byr iawn, wedi'r cwbl, fyddai eich parhad: “canys yr wyf yn gweled fod diwedd

* Ni wn i am un cyflawniad yn yr hwn y mae natur ddarfodedig y cofadeiliau mwyaf safadwy hyn o wychder dynol, yn cael ei nodi gyda'r fath addysg gwylaidd, neu eu hadfeiliad erchyll yn cael ei ddesgrifio gyda'r fath rwyg o ddychryn boddhaol, a cherdd fer, ond bwysig, ddarluniadol, a mawryddig, a elwir *The Ruins of Rome*, (Dadfeiliadau Rhufain,) a yagrifenwyd gan y Parch. Mr. Dyer: yr hwn, fel y deall y darlennydd yn rhwydd, (od yw yn meddu yr hyfrydwch o ddarllen y darn godidog,) a dynodd ei ddarluniadau oddiwrth y golygyfeydd cyssefin; gan nas gallasai dim llai nâ golwg ar y gweddillion mawreddog hyny, ysbrydoli ei linellau â'r fath fywiogrwydd.—Fel dangoseg o'r gwaith, a phrawf o wirionedd y nodiad uchod, yr wyf yn cymmeryd fy nghanad i danagrifio y gyfran ganlydol:—

job peth yn neshau." Y mae colofnau natur yn siglo; y mae'r byd crwn yn syrthio ymaith; y mae'r "nef-oedd eu hunain yn heneiddio fel dilledyn;" ond ymblith y golygfeydd hyn o ddystryw cyffredinol, dyma ein noddfa, dyma ein dyddanwch: "Ni a wyddom fod ein Prynwr yn fyw." Dy flynyddoedd, wynfydedig Iesu! ni phallant. O dragywyddoldeb i dragywyddoldeb yr un ydwyt: yr un Person ardderchog ac addoladwy; yr un cyfaill ffyddlawn a hollalluog; yr un rhan olldigonol ac anmhrisiadwy. O! bydded i ni gyfranogi o'th rinweddau, gael ein sancteiddio trwy dy ras, a'n derbyn i'th ogoniant!—y na, darfyddwch, os mynwch, bob hyfrydwch daearol. Trenged yr hyn oll sydd yn ddysclaer yn yr wybrenau, diddymed yr hyn oll sydd yn hawddgar yn natur; i.e., troer holl feithder y grëedigaeth drachefn yn un gymmysgedd annirnadwy, yn un gwagdêr cyffredinol:—etto, os bydd Duw yn eiddo i ni, cawn ddigon: os bydd Duw yn eiddo i ni, cawn bob peth; ni a gawn gyflawnder;* y cyfan a all ein hamgylchiadau fod mewn angen o hono, neu ein dymuniadau ei geisio, i'n gwneuthur yn anamgyffredadwy wynfydedig a dedwydd, nid yn unig am y tymhor byr hwn, ond trwy holl gylchdroion anfersurol tragywyddoldeb.

Yn awr mae'r haul wedi dyfod allan yn ei nerth, ac yn taro yn angerddol ar guriad fy nghalon ddy-

Yn fynych clyw'r pererin, hanner nos,
Pan ar ei weddi, ddychrynadwy llaie,
Llais amser, tyrau chwylfrw, 'n gwyllt
Bendraphen dreiglo i lawr, a chwynu'n groch,
Gan dyrfu'n drystiog wrth y gyfrin loer.

* Sicrha'r dyn da ar yr wybrenau'i law,
Gad fyd i dreiglo, ac ni theimla'i chwyn.

Night Thoughts, No. iv.

heus.—Bydded i mi ymgithio i'r wasgod wahodddgar accw. Y mae'r gwynwydd yno wedi cadw'r defnyddau gloywon: yno mae'r siasmin, sy'n gwrthleinio'r lloches werdd, yn llewyrchu fyth, ac yn ddanteithiol iraidd gan y gwllith.—Henffych, gysgodau adfywiol! Yr wyf yn teimlo, yr wyf yn teimlo eich effaith yn fy sirioli.—Mae fy ysbrydoedd llesg yn bywiogi; a'm gwynion llaes yn cael eu llinynu o newydd, a bywyd yn llamu yn wisgiach trwy ei holl gamlasau porphor.

Gan led-orwedd ar y wâl fwsoglyd hon, yn amgylchedig gan yr oerni peraidd, bydded i mi adnewyddu fy ymbiliau at y Duwdod byth-bresenol. Yma bydded i mi gofio, ac efelychu Augustin dduwiol a'i fam Monica; y rhai, wrth ymddiddan am degwch y grëedigaeth weledig, a ymddyrrhent ar hyd yr ysgol hon at ogoniant y byd anweledig; nes ysbrydolid hwynt â'r ystyriaeth fwyaf hiraethlawn o'i dra godidog ragoriaeth, ac y cynhyrfid hwynt â'r dymuniadau gwresoccaf am ei lawn fwynhau: nes oeddynt ymron cael eu llyngcu i fynu yn y dedwyddwch ar ba un y myfyrient, a phrin yn gwybod "ai yn y corph, ai allan o'r corph yr oeddynt."

Pan fyddo tymhestloedd yn cynhyrfu'r weilgi; pan glywir arwyddion cwynfanus o gyfyngder o'r dyfnder rhuadgroch; pan fyddo argoelion torcalonus o long-ddrylliad yn dyfod, gan nofio ar y dòn ewynwèn: yna, mor hyfryd yw sefyll yn ddiberygl ar y làn, ac ymwasgu mewn diogelwch ymwybodol!*—Pan fyddo

* Megis y mae Lucretius yn rhoddi'r awgrym am y nodiadau uchod, felly hefyd y mae efe yn penu'r rheswm am yr hyfrydwch a nodwyd. Mae yn codi, nid oddiar ystyriaeth o drueni un arall; byddai hyn yn brawf o'r drwg ewyllys cynddeirioccaf; eithar oddiar fyfyrddod boddhaus ar ein diogelwch personol; yr hyn, tra'r ydym yn canfod amgylchiadau

cesfallif o ddyfroedd yn ymrwygo o ryw gornaant rymus, ac yn ymruthro'n chwyrnwyllt dros yr holl wastadedd cymmydogol, gan ysgubo y diadellau dinodded ymaith, a gyru y bugail dychrynedig o'i luest; yna, oddiar ryw uchelfa gyfagos, ni raid i ni ofni eðrych ar y perygl, mor foddhaol yw!—Y cyfryw, dybygwn, yw fy sefyllfa yn bresenol: canys yn awr mae'r haul yn fflamio yn yr uchelder; yr awyr yn ymennyn gan dân; y maesydd yn agènu; y ffyrdd yn cael eu cras-losgi yn llwch; a'r coedydd yn ymddangos fel yn ymgrynhoi mewn gwedd glafaidd a gwawr ruddgoch. Y teithiwr, wedi ei bobi wrth farchogaeth, a frysia i'r lletty, ac a ohiria ei daith; y llafurwr, wedi ei drochi â chwys, a esyd ei bladur i lawr, ac a baid â'i orchwyl; y diadelloedd a ffoant i ryw wasgod gysgodol, neu ynte a ddyheant ac a ymsymmudant dan losg-wres canol-ddydd: mae hyd yn oed y graig ystyfnig, wedi ei tharo gan y pelydr treiddgar, yn barod i ymagor: mae pob peth yn dihoeni dan y dylif llachar:—tra'r ydwyf fi yn mwynhau orig oer-ber yn nhywyllni y gilfach wýdd-gauad yma, yr hon nid yw yn derbyn braidd un llygedyn o'r llewyrch tanllyd.

Fel hyn, bydded i'r praidd a'u bugail "drigo yn niregelwch y Goruchaf, ac aros yn nghysgod yr Hollalluog."* Yna, er i'r haint† rodio yn y tywyllwch, a'r dinystr ddystrywio ganol dydd; er i fil syrthio yn ein hymyl, a dengmil ar ein deheulaw, ni raid i ni ofni

dinystriol i ereill, ond dmiwed i ni ein hunain, sydd yn cael ei ddyrchafu fwy nag ychydig trwy y gwrthgyferbyniad. "Suave mari magno," &c.

* Psal. xci. 1.

† Ysgrifenydd hyn pan oedd clefyd heintus a marwol iawn yn ymgyndeiriogi yn y gymmydogaeth.

niwed. Naill ai fe aiff yr angel dinystriol heibio ein tai, neu ynte efe a'n cerydda fel cyfaill, ac nid ein fflangellu fel gelyn; yr hyn, yn lle ein niweidio, a weithia er ein daioni.—Yna, er i halogrwydd a didduwiaeth, drygau llawer mwy cynddeiriog, anadlu eu gwenwyn marwol, a llygru moesau tyrfaeodd o'n hamgylch; os bydd i Dad mawr yr ysbrydoedd ein “cuddio yn ngheudod ei law,” ni a ddaliwn afael sicr ar ein diniweidrwydd, ac a fyddwn ffyddlawn hyd angeu.

Pryd hyny, anwylaf Arglwydd, O! caniatta i'th was, a'r bobl a draddodwyd i'w ofal, gael eu derbyn i'th ymgeledd! Diffyner ni dan bren y bywyd, a godwyd yn dy groes waradwyddus: gad i ni ffoi am ddiogelwch i'r ddinas noddfa hono, a agorwyd yn dy glwyfau gwaedlyd. Y rhai hyn a fyddant i ni yn lloches gadarn, trwy yr hon ni threiddia fflamiau dwyfol ddigofaint, na phiccellau tanllyd profedigaeth. Rhinweddau dy farwolaeth, a'th berffaith ufudd-dod, a fyddant i'n heneidiau “megis ffynhonau o ddyfroedd mewn sychdir, neu fel cysgod craig fawr mewn tir sychedig.”*

Ond uwchlaw pob peth, yn y dydd mawr ac aruthr hwnw, pan rwyger y nefoedd, a phan blyger hwynt i fynu megis llyfr; pan attalio dy fraich hollalluog di yr haul yn ei yrfa, ac y chwyrn-deiff holl adail y bydysawd yn ddrylliau; pan wysier y meirw, fychain a mawrion, ger bron gorseddfaingc dy ogoniant, ac y dibyna tynghedion holl ddynolryw megis ar bigyn penderfydiad olaf a dialw'n ol;—pryd hyny, O wynfydedig Iesu! arddeler ni genyt ti, ac ni chywilyddiwn; diffyner ni genyt ti, ac ni ddychrynwn. Yn yr amser ofnadwy ac annhraethol bwysig hwnw, cuddier ni dan

* Esa. xxxii. 2.

adenydd dy gariad achubol, ac ni a edrychwn ar ddir-dyniadau echrslawn natur drangcedig gyda thawelwch, gyda dyddanwch! Ië, ni a roesawn ddattodiad pob peth, fel yr "amseroedd i orphwys oddi ger bron yr Arglwydd."*

Y mae rhai, yr wyf yn gweled, yn gweini ar y blodau yn barhaus, ac, er gwaethaf yr haul, yn glynu wrth eu gwaith ar bob blaguryn agor. Y gwenyn, wyf yn feddwl; y genedl hono o fferyllwyr! i'r rhai y cyfranodd natur y dirgelwch anghyffredin a gwerth-fawr hwnw, o gyfoethogi eu hunain, heb dlodi ereill; y rhai a dynant y cyffiaith mwyaf danteithiol o bob llysieuyn aroglber, heb glwyfo ei sylwedd na lleihan ei gyssewyr.—Yr ydwyf yn cymmeryd mwy o sylw o'r gweithwyr cywrain hyn, o blegid yr ewyllysiwn eu gwneuthur yn gynllun i mi fy hun.† Tra mae yr eilier goegaidd yn chwareu ei hadenydd lliwiedig, ac yn llymeitian ychydig hyfrydwch ansafadwy dros y funud bresenol; tra mae'r corryn sarrug, gwaeth nag ofer ddyfal, yn darparu ei rwydau dichellgar i ddys-trywio, neu yn sugno gwenwyn o'r planhigion iachusaf; mae'r wladwriaeth ymarbedus hon yn ymdrafferthu yn ddoeth i ddarparu dros yr amser a ddaw, a chasglu helaethrwydd o'r trysorau mwyaf adfywiol.—Ac O! na suddai y myfyrdodau hyn yn ddwfn i'm henaid! Na theilyngai y Duw, sydd yn cynhyrfu pob ystyriaeth nefol, ei throi yn egwyddor sefydlog, i benderfynu fy holl dueddiadau, a threfnu fy holl ymddygiad. Yna

* Act. iii. 19.

† — Ego apis matinae
More modoque
Grata carpentis thyma. Hor.

mi a gasglwn fanteision oddiwrth yr unrhyw wrth-ddrychau blagurog, mwy gwerthfawr na'ch holl bentyrau enraidd chwi, O gelfyddydwyr llafurus!—Minnau hefyd a ddychwelwn adref, yn llwythog o'r melusderau pereiddiaf, a'r anrheithiau ardderchoccaf; er na thorrwn un ddeilen, ac na alwo un blodeuyn yn eiddof fy hun.

Yma yr wyf yn canfod, yn gynnulledig, agos yr holl amrywiaethau o degwch y rhai ar waban a fuant yn difyru fy nychymmyg. Y llennyrch, wedi eu hagor trwy goed oedranus, neu eu ffurfio gan resi o lwyfwydd hybarch, yn arwain sylw yr edrychyd at ryw wrthddrych hynod, neu yn tywys camrau y teithiwr at y palas hyfryd hwn:—y muriau, wedi eu cyfoethogi â phreniau ffrwyth, a'u hwynebu â gorchudd eu taeniad deiliog; yn hytrach dylaswn ddywedyd, wedi eu crogi â gwahanol ddarnau o deisban godidoccaf natur:—y rhodfeydd, wedi eu pladurio yn ddillyn, a'u gwrthleinio â gwyrddni; neu wedi eu llyfnhau yn brydferth, a'u gwisgo â gro:—y mynedfâu, wedi eu crommenu â chysgodau, i wasgodi ein gorphwysiad canol-ddydd; neu eu llydain agor i dderbyn yr awyr yn rhydd, a'n gwahodd i'n difyrwch hwyrol:—yr ymyl-gylchoedd gweddus o foccyswydd, y rhai, megis amweoedd syml, a gylchynant bob dosparth prydferth, a'i ddulliau godidogion:—y byth-wyrddion lysiau a'r prysgwydd blodeuog, a darawant ar y llygad, ac a ymddangosant gydag urddas neillduol o'r pellder hyn:—y llyn, a'i ffynnon risialaidd, yn nofio yn y canol, ac yn tywallt goerder hyfryd trwy'r cwbl:—y dyfroedd yn cwmpo o raiadr pellenig, ac yn araf ysibrwd wrth ymlithro dros y carregos:—y rhai hyn, wedi eu hychwanegu at

y lleill, a'r cwbl wedi ei gyfleu yn y fath fodd fel y mae y naill yn canmol a mawrhau y llall, a wnant y cyfan yn olygfa fwyaf hyfryd-felus o ran trefn ac amrywiaeth, gwychder a mawryddigrwydd.

Tra mae cynifer o welediadau hawddgar yn ymdyru ar yr olwg, y mae yn annichonadwy peidio meddwl am y nef; y byd hwnw o ddedwyddwch, y gororau hyny o oleuni, lle mae'r Oen a laddwyd yn amlygu ei bresenoldeb gwynfydedig, a'i saint yn byw yn dragywydd!—Ond O! pa buntr a ddichon linellu braslun o'r wlad dda hõno? Pa liwiau, pa ymadrodd, ddichon desgrifio gwychder teyrnas Emanuel! Pe tynai rhyw law nefol yllen o'r neilldu, a chaniattau i ni dafu un cip-olwg ar y trigfanau dwyfol, fel y diffanai pob meddiannau bydol o flaen ein llygaid, fel y diflasent ar ein harchwaeth! Dim ond un godywyn byr o'r gwynfydedigrwydd annhraethol hwnw, a gaethiwai ein beneidiau, ac a lyngcai i fynu ein holl swyddgynheddfau. Eden ei hun, ar ol y fath olwg, a ymddangosai yn anialwch athrist; a phob swynion daearol, yn wrthuni annyoddefol.

“Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw.”* Ysgrifenwyd cyfrolau, a hyny gan ddynion ysbrydoledig, i osod allan ryfeddodau dy berffeithderau. Pob peth hardd a dysclaer yn natur, a fenthyciwyd i äangu ein hamgyffrediaadau, a dyrchafu ein meddyliau. Ond, yn wir, ni eill un tafod fynegu, un ysgrifell ddarlunio, nac un galon ddychymmyg, y pethau mae Duw, o'i ddaioni diderfyn, wedi ddarparu i'r sawl a'i carant ef.—Gan weled fod rhaid i bob peth daearol derfynu yn fuan, a bod gorphwysfa, gwynfyd-

* Psal. lxxxvii. 3.

edig a thragywyddol orphwysfa, etto yn ol i bobl Dduw; na bydded i mi byth ymserchu yn ormodol mewn dim boddiadau presenol. Wedi fy niddyfnu oddiwrth bob peth amserol, bydded i mi ymgadw yn ddifater am y fath fwyniant darfodedig; eithr hiraethu, hiraethu yn awyddus, am y trigfanau uchod; a'r baradwys a "blanodd yr Arglwydd, ac nid dyn." Yno bydded fy ymarweddiad yn benaf; ac oddi yno bydded i mi ddysgwyl fy holl ddedwyddwch. Bydded y wlad hono yr hedfaen sanctaidd, yr hwn a fyddo byth yn rheoli fy nghalon, byth yn tynu fy serchiadau. Yno mae'r fath ogoniant rhagorol, ar nas gwelodd llygad; yno mae'r fath hyfrydwch perlewygol, ar nas clywodd clust; yno mae'r fath lawnder o orfoledd, ar nas dichon calon dyn amgyffred.

— Caniattewch i mi, Madam, ddymuno i chwi fynediad helaeth, mewn amser dyladwy, i'r dedwyddwch perffaith, a'r mwyniant thragywyddol hyny; a sicrhau i'chwi, fod y dymuniad hwn yn cael ei anadlu gyda'r unrhyw gywirdeb ac awyddfryd dros fy ngohebwraig anrhydeddus, ag y mae, Madam, dros

Eich ufuddaf, &c.

J. HERVEY.

TRAETHAWD

AR

G R E E D I G A E T H.

Os gwel y darlennydd yn dda edrych yn ol ar tudalen 145, efe a'm gwel wedi ymrwymo trwy nodiad addeu-idiol i ychwanegu Traethawd ar Grëedigaeth.

“Gwybod cariad Crist;” cael y fath amgyffed dwfa o'i dynerwch annhraethadwy, ag a genhedlo yn ein calonau ddiolchgarwch addoliadol, a ffydd ddiffuant; hyn, yn ol cyfrifiad St. Paul, yw y cyrhaeddiad uchaf a gwynfydedicaf yn ngwyddiad gyssegrlân Crist'nogaeth.* Yr hyn a ganlyn, sydd yn gynnygiad i gyn-northwyo y meddwl esgud, i ddysgu llinell neu ddwy yn y wers ardderchioccaf hõno. Y mae yn arwain i mewn ranau mwyaf amlwg y gyfundrefn weledig, fel cynifer o glust-weinyddion i'n teimladau syrthlyd; pob un yn ysibrwd amnaid wedi ei chymhwyso at yr achlysur pwysig, ac addas i'w chymmeriad priodol ei hun.

A all fod un annogaeth fwy galluog i ddiolchgarwch duwiol, nag ystyried golygfeydd tlyision a mawryddig y bydysawd, gyda chyfeiriad neillduol at Grist, fel eu Creawdwr?—Pob gwrthddrych, a sylwer arno ar y

* Ephes. ÿii. 19.

goleu hwn, a weinydda adlenwadau newyddion yn barhaus at lusern llesg cariad dwyfol. Pob cyfansoddiad yn natur a dery wreichionen i'r enaid, a'r holl grëedigaeth a gyttuna i chwythu'r llin myglyd yn fflam.

A ddichon dim gyfranu cryfach gorfoledd i'r credadyn, neu gyfnerthu ei ffydd yn yr Iesu croeshoeliedig yn fwy effeithiol, nâ gweled y nefoedd yn datgan ei ogoniant, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwyllaw ef? Yn ddiau, rhaid ei fod yn fater o ddyddanwch neillduol i'r credadyn tlawd, weled anrhydedd ei Waredwr wedi ei ysgrifenu â phelydr yr haul dros wyneb yr holl fyd.

Yr ydym ni yn ymhyfrydu darllen hanes ein Jehofa yn y cnawd, fel mae wedi ei ddatguddio yn llyfrau Moses a'r Prophwydi, fel y mae wedi ei egluro yn ysgrifeniadau yr Efengylwyr a'r Apostolion. Bydded i ni hefyd ymdrechû canfod braslun o'i berffeithderau, fel y maent yn sefyll wedi eu cynddelwi yn y gyfrol fawr hõno, lle mae pob dalen, yn wastadedd äang—pob llinell, yn nant redegog—pob pennod, yn fynydd cribog.

Rbag bod rhai o'm darllenwyr yn anghyfarwydd yn y fath fyfyrddodau, yr wyf yn crefu caniattad (yn ol fy addewid) i osod cynllun ger eu bron; neu gynyg hyfforddiant, a ddichon dywys eu dealldwriaeth i'r dull mwyaf adeiladol a hyfrydlawn hwn o feddwl.

Os bydd neb yn dueddol i ammau gwirionedd y sylwadau canlynol; neu eu collfarnu fel coegiaith chwyddedig, a hediadau anghyfreithlawn dychymmyg; rhaid i mi ddeisyf ar y cyfryw gofio, fod yr athrawiaeth fawr, y sylfaen ar ba un y maent oll yn sefyll, wedi ei

hawdurdodi a'i sefydlu trwy dystiolaeth gydunol yr ysgrifenwyr ysbrydoledig; y rhai ydynt yn fynych yn clodfori yr *Emanuel*, neu *Iesu Grist*, fel yr achos mawr hollalluog o bob peth; gan sicrbau i ni, fod "pob dim wedi eu creu trwyddo ef, ac erddo ef;" ac mai "ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll."*

Ar y fath destyn, mae'r hyn sydd yn rhyfedd ymhell o fod yn ynfyd. Bod yn rhyfedd, yw cymmeriad anwahanol Duw a'i weithredoedd; yn enwedig y gyfran hynottaf a gogoneddusaf hōno o'r dwyfol weithredoedd, *Prynedigaeth*: mor ogoneddus, fel y mae "holl arwyddion yr Aipht, a rhyfeddodau maes Soan;" y cwbl a gofrestrwyd yn yr hanesion Iuddewig, a phob peth a glywodd y glust ddynol; y cyfan yn diflanu i ddygyddiadau disylw, a phrin gwerth eu cofio,† mewn cymbariaeth i'r gweithrediad anfeidrol ardderchog ac anfeidrol rasol hwn.—Wedi ymennyn, gan hyny, i syndod boddhaol trwy y fath arolwg, bydded i mi roddi llawn ryddid i'm myfyrdodau; bydded i mi dywallt allan fy holl enaid ar y testyn diderfyn; heb sylwi ond ychydig ar y ffiniau a ddichon beirniadaeth oerllyd, neu anghrediniaeth oerach, eu gosod.

O chwi angylion! a amgylchwch yr orsedd; chwi dywysogion y nef, y rhai "a ragorwch mewn nerth," ac a ymwisgwch â goleuni dysclaer! Efe, yr hwn a'ch cyfleodd yn y sefyllfaoedd hyn o anrhydedd dyrchafedig, ac a urddasodd eich natur â'r fath berffeithderau godidogion; Efe, yr hwn a ufuddhewch oll, yr hwn a addolwch oll: *Efe* ni chymmerodd arno naturiaeth

* Col. i. 16, 17.—Cyn yr elo'r darlennydd ymlaen i'r Traethawd canlynol, dymunir arno ddarllen nodiad * yn tudal. 114.

† Esa. xliii. 18.

angylion, eithr a wnaed yn ghawd; ac a gafwyd mewn dull fel dyn. Fel nynti farwolion gresynol, yr oedd efe yn ddarostyngedig i ludded, i boen, a phob gwendid, ond pechod yn unig:—fel y codid ni, ryw ddiwrnod, i'ch trigfanau dyrchafedig chwi; ein mabwysiedid i'ch cymdeithas wynfydedig; ac i'n hunid a'ch côr gorfoleddus, i roddi'r gogoniant iddo *Ef* yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r *Oen*, yn oes oes-oedd.*

O chwi nefoedd! bwâu llasar y rhai a ymgodant yn anfeidrol uchel, ac a ymestynant yn anfesuroldydain: gylchynfa arathrol! yn maith äang rod pa un, y rhed pelau o'r mawrhydi mwyaf ofnadwy eu gyrfaau rhyfedd yn barhaus: ddyfnderoedd anwrhydol o awyr! lle nofia bydoedd heb rifedi; ac i'n golwg ðerfynol ni, bydoedd heb rifedi a gollir:—*Efe*, yr hwn a drefnodd eich mesurau a'i rychwant, ac a luniodd eich adail fawryddig a'i air; *Effe* a drowyd unwaith mewn eadachau, ac a osodwyd i orwedd mewn preseb:—fel y byddai y bendithion a ddeilliant i'w bobl, trwy ei ddarostyngiad mwyaf rhinweddol, heb un mesur ar eu gwerth, namyn annherfynoldeb; a rbedeg yn gyfartal yn eu parhad, a thragywyddoldeb.

Ohwychwi ser! y rhai a belydrwch, gyda dysclaerdeb anniffoddadwy, trwy wybren canol nos: foroedd o dân, a chymherfedd o fydoedd, er yn ymddangosiadol ond pigynau o oleuni!—*Efe*, yr hwn a lewyrchoedd, gyda dysclaerdeb hanfodol, oesoedd aneirif cyn i'ch llusernau gwreichionllyd chwi gael eu hennyn; ac a lewyrcha, gyda thegwch a mawrhydi tragywyddol, pan fyddo eich lleoedd chwi yn y ffurfafen wedi eu

* Dat. v. 13,

llwyr anghofio: *Efe* a oblygwyl, dros flynyddoedd lawer, yn y tywyllni dyfnaf; a orweddodd yn nghudd yn ninas ddiystyrlyd Nazareth; a orweiddodd yn lledrithiog dan agwedd wael mab y saer:—fel y planai efe y nefoedd,* fel pe byddai, â goleuadau newyddion; a gwisgo y tyweirch hyn o ddaear, y tai hyn o bridd, â dysclaerdeb llawer rhagorach na'r eiddoch chwi; dysclaerdeb, yr hwn a addurna nef y nefoedd, pan ddiffanoch chwi ymaith megis mwg,† neu ddiffodd megis gwreichion ansafadwy oddiwrth y dur tarawedig.

Wibiogion! y rhai weithiau a saethwch i'r gororau amherfynol o awyr, ymiellach nag y geill craffder ein llygad ni eich canlyn; weithiau a ddychwelwch o's pell, pell grwydriad, ac a ysgubwch hanner ein byd dychrynedig â'ch dirfawr danllyd gynffonau; weithiau a ddyneswch mor agos at yr haul, nes llosgi agos yn ei belydr digyfrwng; weithiau a ymgiliwch i'r pellaoedd eithaf, ac a rëwch dros oesoedd yn llymdost erwindeb gauaf:—*Efe*, yr hwn, yn ol ei hyfrydwch pen-arglwyddiaethol, sydd yn tynnu yn ol y rhyfeddod ffamillyd, neu yn arwain allan yr estron daroganus, a ysgwyd dychryn dros deyrnasoedd euog! *Efe* a orchuddiwyd â'r syndod tostaf, a suddwyd yn y

* Esa. li. 16.

† Gan gyfeirio at gyfran yn Esaia, yr hon sydd, yr wyf yn meddwl, yn sawryddig a dyrchafedig tu hwnt i gymhariaeth.—“Dyrehefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod; canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a i phreswylwyr fel y pryf egwan a fyddant meirw: ond fy iachawdwriaeth a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd,” Esa. li. 6.—Gyda'r enwog *Vitringa*, yr wyf yn cyfieithu y geiriau—*هو*—*hemo ken*—*ind*, “yr un modd;” ond, “fel y pryf egwan:” yr hyn sydd yn gwneuthur yr adnod yn fwy cyfawn, y synwyr yn fwy pwysig, ac yn fwy cyson â rhedid a taith wroddiol.

cyfyngder dyfnaf; a rëwyd gan amgyffrediadau o ofn, ac a gras-boethwyd gan fflamiau cyfiawnder dialeddol: —fel na byddai i mi, a chreaduriaid dirywiedig a gwrthryfelgar ereill, gael ein haffonyddu byth gan nwydau ymrysongar; gwrthwyneb, etto, o bob tu, yn boenus; llawer mwy poenus i'r enaid ná'ch graddau llymaf chwi o wres ac oerfel i'r teimlad dynol.

Chwi blanedau! y rhai, wedi eich adeinio á buandra anamgyffredadwy, a wrthgroeswch ororau yr wybr; gan ddringad weithiau fyrdd myrdd myrddiynau o filldiroedd nwchlaw, a disgyn weithiau gymmaint islaw echel eich mudiadau; chwi, y rhai ydych mor fanwl ffyddlawn i gylch-droion dydd a nos, ac mor ofalus gywir yn nygiad ymlaen gyfnewidiadau eich priodol dymhorau:—Efe, yr hwn a'ch chwyrndaflodd ar y cyntaf allan o'i law alluog; yr hwn sydd yn eich gyru yn barhaus gyda'r fath chwyrnder rhyfeddol, ac yn eich tywys gyda'r fath drefnusrwydd perffaith; yr hwn sydd yn sefydlu “anneddle ei sancteiddrwydd a'i ogoniant,” uchelderau anfeidrol goruwch eich cylchoedd prinion chwi: *Efe* unwaith a ddaeth yn faban egwan, a dramwyodd yn ein byd isod ni, a ffodd rhag cleddyf yr erlidiwr, ac a wibiodd fel crwydryn mewn bro ddeythr;—fel y gallai efe dywys ein traed ni i ffordd tangnefedd; fel y gallai efe ein dwyn ni estroniaid yn agos at Dduw, ein dwyn ni alltudion adref i'r nef.

Tydi haul! ffynnon ddiysbydd goleuni, gwres, a chysur! Yr hwn, heb gynnorthwy un tân arall, a dywellti ddydd dros ororau fil; ac, heb gyfyngu dy haelioni at ororau yn unig, wyt yn lledu dy effeithiau goleuadol i fydoedd amgylchynol: brif siriolydd yr

anifeilaidd, ac adfywiwr mawr y llwythau llysiuog! Mor ogoneddus ynot dy hun, ac mor ddaionus yn dy effeithiau, fel y darfu i'r cenhedloedd cyfeiliornus dy anerch ag addoliad, a'th gamgymmeryd yn lle dy Wneuthurwr! Efe, yr hwn a lanwodd dy rod ag afradlonedd o ddysclaerdeb, ger bron yr hwn nid yw dy danbeidrwydd canol-ddydd ond cysgod:—*Efe* a ddiosgodd ei hun o'i ragoriaethau godidogion, ac a daenodd orchudd dros danbeidrwydd ei ddwyfodeb; fel trwy ymddiddan â ni wyneb yn wyneb, fel y llefara gwr wrth ei gydradd, y gallai efe chwalu tywyllwch ein deallwriaeth: Ei “wedd oedd yn llygredig,”* ac efe a fu yn ddirmyg gan ddynion, ac yn ddiystyr af o'r bobl; fel trwy yr amlygiad annbraethol dyner hwn o'i ofal am ein dedwyddwch, y gallai efe daenu godywyn o orfoledd trwy ein hysbrydoedd isel; fel, mewn sefyllfa arall o bethau, y gallai efe wisgo ein natur lygredig â gwychder y goleuad mawr hwnw, a pheri i'r holl gyfiawnion ddysclaerio fel yr haul yn nheyrnas eu Tad.

Tydi leuad! yr hon a rodi ymhlith llu y ser, ac yn dy ymddangosiad llewyrchus wyt yn rhagori arnynt oll: dêg lywodraethwraig y nos! weithiau yn hanner adnewyddu y dydd trwy dy ddysclaerdeb cynnyddol; weithiau yn gwelwi i dywyllwch, a phrin yn gwasgaru y nosol gaddug; weithiau wedi dy orchuddio â sachliain, ac yn arswydo y cenhedlaethau llygadrythus:—*Efe*, yr hwn sydd yn gwisgo dy belen dywyll ag arian tanbaid, eithr benthyciol; *Efe*, yr hwn y mae ei urddas yn anghyfnewidiol, yn anneilliedig, ac i gyd yn eiddo ei hun; efe a deilyngodd wisgo corph o bridd; efe a

* Esa. lii. 14.

ymfoddlonodd ymddangos dan ddiffyg gwaedlyd, wedi ei amddifadu o'i belydr dysclaer, a'i amgylchu â nos o ddychryn, yr hon ni adnabu un godwyn adfywiol.— Fel hyn y galluogodd efe ei eglwys, a'i holl ganlynwyr, i'th sathru di leuad* dan eu traed. A thrwy hyn, wedi eu bywiogi â gobaith o ddysclaeriach gogoniant, y cynerthwyd hwynt i fuddugol orfoleddu dros holl wag ofalon, a gwaccach teganau, y byd isloerol, ansafadwy, a chyfnewidiol hwn.

Chwi daranau! y rhai, dan rwnach yn ofradwy yn y cymhylau pellenig, a ymddangoswch fel yn myfyrio cynddaredd, ac yn ffurfio y cynhygion cyntaf o grochfloedd llawer mwy arswydus; neu, gan ymddryllio yn ddisymmwth uwch ein penau, a rwygwch y nen uchod, ac a siglwch y llawr isod, â thrystiad erchyll, echryslawn: chwychwi, y rhai a anfonwch eich cawodydd aruthrol o begwn i begwn, gan ddychrynu yr anifeiliaid gwylltion,† a synu yr hil ddynol:—Efe, yr hwn sydd yn caniattau i ddychryn swnio ei udgora yn eich dwfn, ohriedig, gynnyddedig, äangedig ruad: *Efe* a roddodd allan lais egwan mabanaidd yn y beudy, a griddfanau cryfion marwol ar y pren melledigedig; fel y gallai efe, yn yr accenion tyneraf, ysibrwd tangnefedd i'n heneidiau ni, ac o'r diwedd geingcio ein lleisiau ni i beroriaeth y nef.

O chwychwi fellt! y rhai a orwch ac a orweddwch yn gysglyd yn y tARTH brwmstanaidd; y rhai a lychedenwch gyda chynddeiriogrwydd fforchog o'r tywyllwch digofus, yn gyflymach ac yn ffyrniccach nag y rhuthra'r llew o'i ffau; neu a ymagorwch yn lleni meithion äang o fflam, wedi eich uchel chwyfio goruwch

* Dat. xii. 1.

† Psal. xxix. 8.

y byd estynedig, gan ddihoeni yn ofnadwy yn yr wybrenau dychrynedig: chwychwi, y rhai gynt a osodasoch drigfanau affendid a chreulondeb yn lludw; a chyn hir a gydweithredwch yn llosgiad y byd: Efe, yr hwn sydd yn ennyn eich ffagl, ac yn eich hyfforddi pa bryd i ruthro, a pha le i daro: Efe, yr hwn sydd yn eich awdurdodi pwy i ladd, a phwy i arbed: *Efe* a roddodd ei berson sanctaidd i fynu i'r anmharch mwyaf barbaraid, a ddarostyngodd ei ddwyllaw haelionus i'r morthwyl pwysig, a'r hoel drywanol; ie, nid attaliodd ei galon, hyd yn oed ei galon, rhag brathiad gwaywffon y dienyddiwr; ac yn lle melltenu cythrudd ar ei ar-teithwyr ysgeler, yn lle eu suddo i waelodion uffern â'i wg; efe a lefodd—yn ei funudau olaf, ac â'i wefusau dirboenus, efe a lefodd—“Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth maent yn ei wneuthur!”—O! y fath gynllun o amynedd i'w saint! y fath wrthddrych o ryfeddod i angylion! y fath gydgynnulliad o bob rhinwedd lariaidd, hawddgar, a thirion, yn dysclaerio yn yr awr hon o dywyllwch, gyda thanbeidrwydd a thegwch annhraethol!*—Dyma, dyma'r achos, nad ydym

* Prin y gall un lai nâ beio ar dymher annheg ac archwaeth wyr-draws Celsus, yr hwn a gynnyg droi y rhan hynotaf a mwyaf addurniadol o fywyd ein Harglwydd i watwar a dirmyg.—Ar ol llefaru am Grist yn cael ei drin yn ddiystyrllyd, ei ddilladu mewn gwisg borphor; ei goroni â drain; ac yn dal, mewn ffordd o wawd fawrhydi, corsen yn lle teyrnwialen, (canys mae efe yn sylwi ar yr holl amgylchiadau, yr hyn sydd dystiolaeth o'u gwirionedd, hyd yn oed o enau gelyn;) efe a ychwanega—*Τι εκ, ει μη προσθεν, αλλα νυν γυν θειον τι επιδεικνυται; και της αισχυνης ταυτης εαυτον ρυεται, και της υβριζοντας εις εαυτον τε και τον πατερα δικαιον;* Orig. contra Cels. p. 81. Hyny yw, ‘Paham, yn enw syndod, nad yw efe, ar yr achlysur hwn, o leiaf, yn gweithredu fel Duw? Paham nad yw efe yn gwared ei hun o'r gwaradwydd llymdost hwn, neu yn tywallt rhyw ddialedd hynod ar awdwy'r y fath anmharch enllibus arno Ef a'i Dad?’—Paham, Celsus? o blegid ei fod *Ef* yn llarieidd-dra ac arafwch ei hun: pan yr oedd eich duwiau chwi yn gaethion i'w nwydau cythryblus ac ymddialgar eu hunain; ac yn

ni yn crynu dan fellt mynydd Sinai; nad ydym wedi ein deifio gan fflamiau dwyfol ddigofaint, neu ein dedfrydu i breswyllo gyda'r llosgfeydd tragywyddol.

Chwi gymhylau gygus gauaf! moroedd yn crogi yn yr awyr, ac yn llwytho ar y gwynt! Efe, yn llaw yr hwn yr ydych yn fflangell orlifog, neu trwy drefniad yr hwn, yn arfdy* o ddarpariadau rhyfelgar: Efe, yr hwn sydd yn agor eich dyfr-ddorau, ac y mae diluw yn ffrydio allan i ddyfetha ffrwythau y ddaear, ac i foddi gobaith y llafurwr; yr hwn sydd yn eich ffurfio yn belau rhewedig, a chwi a saethir, wedi eich torchi

fynych fawr gwell nâ gwylltiaid mewn llun dynol, y rhai, yn rhy aml, a wnaent deilyngdod o ladd, ac ymfrost erchyll o dywallt gwaed: tra yr oedd Iesu yn Dywysog tangnefedd, ac a ddaeth, nid i ddystrywio bywydau dynion, ond i'w cadw. O blegid fod unrhyw wallgoffdyn ar y ddaear, neu ellyll o uffern, yn alluog i fytheirio ei gynddaredd: ond pwy, dan y fath gynhyrriad annyoddefol a barbariaeth; pwy, a chanddo allu yn ei law i wared ei hun, gallu i ddial ei hun; a allasai ymostwng i'r cwbl gyda thawelwch digyffro amynedd; ac nid yn unig fod heb ymlidio, eithr gorchfygu, yn y fath fodd buddugol, drygioni trwy ddaioni? Neb ond Crist! Neb ond Crist! Dyma dostun teilwng o Dduw; tynerwch a chariad gwir ddwyfol.

Gan hyny, mae'r enllib a godir gan yr un gwrthddadleuwr gwenwynig, mewn lle arall, yn dwyn ynddo ei wrthbrawf ei hun; neu yn hytrach y mae yn cwmpo gyda phwys o waradwydd ar ei dommen dduwiau ef; tra mae yn dwyn y dystiolaeth anrhydeddusaf i fawrhydi a llarieidd-dra anorchfygol ein Hiachawdwr.—*Σὺ μὲν, μετὰ εἰς τὸν Διωνυσὸν ἢ τὸν Ἡρακλῆα παρόντα εἰ ἐλοιδορήσας, ἐκ ἀνίσως χαίρων ἀπῆλλαξας τὸν γε σὸν Θεὸν παρόντα κατατεινοῦντες καὶ κολάζοντες, ὕδεν οἱ ταῦτα δρᾶσαντες πεπονθασιν;* *Ibid.* p. 104. Hyny yw, 'Yr ydych chwi, yn wir, yn cymmeryd arnoch watwar delwau ein duwiau ni; ond pe buasai Bacchus ei human, neu Hercules, yn bresenol, ni ryfgasech gynnnyg y fath amharch: ac os gwnaethech, cawsech dalu yn ddrud am eich trahausder: pan na ddyoddefodd y rhai a boenasant berson eich Duw chwi, ac a'i dirdynasant i farwolaeth ar y groes, ddim o effeithiau ei anfoddlonrwydd.'

* Ymddengys Juvenal fel yn ystyried y cymhylau dan yr un cymmeriad, yn y llinell odidog hono,

Quicquid habent telorum armamentaria coeli.

â marwolaeth,* ar luoedd ei elynion: *Efe*, yn lle arllwys cynddaredd ei lid ar fy mhen euog hwn, a dywalltodd allan weddiau, a dywalltodd allan ridd-fanau, i'e, a dywalltodd allan ei enaid, drosof fi, a fy nghyd-droseddwyr;—fel, trwy rinwedd ei iawn amhrisiadwy, y gallai gorlifiadau o ddwyfol ewyllys da gael eu hestyn i ddynion pechadurus; fel y gallai yr wybrenau wlawio cyfiawnder i lawr, ac y gallai heddwch, ar ei hadenydd mân-blu, heddwch, gyda'i bendithion adfywiol, ddisgyn a chyfanneddu ar y ddaear.

Chwi gymbylau gwanwynol! lleni o deccach awyr, plygiadau o dynerach ireidd-dra! *Efe*, yr hwn sydd yn eich tynu yn darth helaethlawn o'r dyfnder hallt, yn peri i chwi adael pob adflas chwerw ar ol, a dyfod yn ffynhonau nofiadol o'r dyfroedd pereiddiaf; *Efe*, yr hwn sydd yn eich dadleithio yn wlaw tyner, ac yn eich dyhidlo yn gawodydd firwythlawn; yr hwn sydd yn eich grasol awdurdodi i ddiferu brasder ar y ddaear, ac i daenu blodau dros wyneb y maes: *Efe*, yn chwerwder annbraethol ei ysbryd, a fu heb un teimlad cysurus o bresenoldeb ei Dad hollalluog: *Efe*, pan losgid ei esgyrn fel tewynion, ni chafodd un dafn o'r dyddanwch melus hwnw, pa un, ar lawer o'i weision cystuddiedig, a ddyhidlwyd fel y gwllith prydawnol,

* Job a hysbysodd i ni i ba ddyben y llanwyd trysordai y ffurfafen â chenllysg: fel y byddent yn barod "erbyn dydd ymladd a rhyfel," Job xxxviii. 23.—Cofrestrodd Joshua laddfa ddychrynllyd a wnaed gan yr Hollalluog & r eirf tafadwy hyn, Jos. x. 11.—Haneswyr diweddar a ddywedant, pan ymosododd Iorwerth III. ar Ffrainge, i gafod o gessair, o'r fath faint aruthrol, ddisgyn, fel y tarawyd chwe' mil o feirch, a mil o wyr, yn farw yn y fan.—Ond y disgrifiad mwyaf arswydus o'r rhai hyn, cyflegau mawrion y nefoedd, a roddir i ni yn Dat. xvi. 21. "A chenllysg mawr o bwys talentau, a syrthiasant o'r nef ar ddynion."

gan beri "sain cân yn nos" cyfyngder;—fel oddiwrth ing diesmwythâd a digysur ein holl-dosturiol Arglwydd, y gallem ni, megis o ffynhonau iachawdwriaeth, dynu adfywiad ysbrydol yn helaeth.

Tydi fwa prydferth awyrol! tegwch yr hwn a wridgocha'r ffurfafen, ac a lawenycha bob edrychydd! Efe, yr hwn sydd yn dy addurno di ar gyrau hylif yr wybren, yn dy addurno â holl falchder lliwiau, ac yn dy blygu i'r ffurf dêg a mawryddig yna; wrth orchymyn yr hwn y peraidd gyfyd, neu y cyflym ddiflana, dy linellau bywiog: *Efe*, trwy ei holl fywyd, a oblygyd yn ngwisg ostyngedig tlodi, ac ar ei ymadawiad a ymddilladodd yn mantell glaerwen diystyrwch: yn gymmaint, ag yr oedd ei gyfeillion cyfrinachol ei hun, gan gywilyddio neu ofni ei arddel, "yn cuddio eu hwynebau oddi wrtho;"*—i'n dysgu ni i ddiystyru yn weddus tywyniad disylwedd ac anwadal pob gwagedd daearol; i'n cyflwyno ni mewn gwisgoedd dysclaeriach nâ holl adlewyrchiadau dy gylch ysplenydd di, yn ngwisgoedd ei gyfiawnder difrycheulyd ei hun; i'n cyflwyno ni ger bron yr orsedd urddasol a hybarch hõno, yr hon y mae yr enfys heddychlon yn ei hamgylchu; yn ei hamgylchu, fel gwystl o ffyddlondeb dihalog, a thrugaredd ddiderfyn.

Chwi ystormydd a thymhestloedd! y rhai a flinwch y tir, ac a ysgydwch y moroedd; y rhai a chwyrndefwch lyngesi ar y creigydd, ac a yrwch goedwigoedd o'u gwreiddiau: Efe, anadl yr hwn sydd yn eich cyn-

* Ess. liii. 3. כַּמְסֵר פִּנְיָהּ מִמֶּנּוּ—*kemaster paneem mimenno*—Fuit tanquam aliquis, a quo quisque faciem occultaret.—*Yr oedd efe fel rhyw adyn anfad ac ysgeler, oddiwrth yr hwn pob un, gan ffeiddio'r fath gymmeriad, ac ymwadu â'r fath gydnabod, yn ymdrechgar a guddiai ei wyneb.*

hyrfu i'r fath gynddaredd anwrthwynebol, ac awgryn yr hwn sydd yn eich ffrwyno yn eich helynt wylltaf: Efe, yr hwn sydd yn dal y corwynt chwynn a chyn-ddeiriog mewn awenau cedyrn; ac yn rhodio yn ofnadwy dawel ar adenydd y gwynt: *Efe* a aeth yn llariaidd ac araf, i'e fel oen i'r lladdfa, drosom ni; ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifai, felly yntau yn fud nid agorodd ei enau.—Fel hyn i'n haddysgir i ddyoddef, gyda mawrfrydigrwydd gweddus, amrywiol ymosodiadau gorthrymder; ac i fyned rhagom, gyda thawelwch addas tymber, trwy holl gythymau sarrugion triniaeth niweidiol; fel hyn i'n gwaredir rhag anhraethol ffyrniccach tymhestoedd cyfiawnder llieddig ac anghymmodlawn; rhag “y tân a'r brwmstan, a'r poethwynt ystormus, yr hyn a fydd rhan dragywyddol yr annuwiolion.”

Tydi haint! yr hwn wyt yn gwasgaru deng mil o ronynau gwenwynig oddiwrth dy adenydd marwol, yn llygru'r awyr, ac yn balogi y cenhedlaethau; dan effaith angeuol yr hwn y deifia llawenydd, y clafycha natur, y diboblogir gwledydd cedyrn, ac y gadewir dinasoedd, llawnion unwaith, heb drigiannydd! *Efe*, yr hwn sydd yn dy arfogi â dinystr anocheladwy, ac yn peri i ti fyned allan o flaen ei wyneb * lliidiog, i daenu anghyfannedd-dra ymblith pebyll y rhai drygionus, a bod yn rhagflaenor digofaint mwy dychrynlyd: *Efe*, yn ei ddynoliaeth sanctaidd, a gyhuddwyd fel troseddwr; ac, er yn ddiniweidrwydd ei hun, i'e, yn wir gynllun perffeithrwydd, a gollfarnwyd i farw; fel yr adyn mwyaf ysgymmun: fel niwed i gymdeithas, a dystryw y dedwyddwch cyhoeddus, efe a brysurwyd

* “Aeth yr haint o'i flaen ef,” Hab. iii. 5.

i'w ddihenydd, ac a hoeliwyd wrth y pren!—fel y gallai efe ddarparu, trwy ei waed, meddyginiaeth ddifeth, i iacháu afiechyd llawer mwy angeuol ná'r haint sydd yn rhodio yn y tywyllwch, a'r clefyd sydd yn lladd ganol dydd; fel y gallai efe ei hun ddywedyd wrth ein gelyn diweddaf, “Byddaf yn angeu i ti, O angeu! byddaf yn drangc i ti, y bedd!”*

Wres! effeithiau tanllyd yr hwn sydd yn crasboethi gwylltion Lybia, yn llosgi croen yr Ethiop yn barddu, ac yn gwneuthur i bob rhyw o fywyd ddyheu, ym-ollwng, a llesmeirio!—Oerni! anadl iâ yr hwn sydd yn dysclaer gaboli moroedd Russia yn flynyddol, yn gludio'r morwr yn aml wrth y rhaffau, ac yn sythu'r teithiwr yn golofn o gnawd rhewedig: *Efe*, yr hwn weithiau sydd yn eich cymmysgu ill deuoedd, ac yn dwyn y tymberedd hyfrytaf; weithiau yn eich goddef i weithredu yn neillduedig, a chynddeiriogi gyda llymder annyoddefol; y Brenin nefol hwn, a chymhedrolydd anian gyffredinol, pan yn preswyllo mewn tabernacl o bridd, a draddodwyd i'r lleithdra mwyaf rhewllyd, ac a darawyd gan yr haul-belydr myrnaf: y ser, yn eu gwyliadwriaethau canol-nos, a'i clywodd yn gweddio; a'r haul, yn ei wres canol-ddydd, a'i gwelodd yn llafurio.—Dyma paham mae ein calonau rhewllyd ni yn cael eu dadleithio i ffrydiad cymmysgedig o ryfeddod, cariad, a gorfoledd; oddiar wybodaeth o waredigaeth rhag y ffamiaiau annyoddefol hyny, y rhai, wedi eu hennyn gan ddwyfol lidiogrwydd, a losgant hyd yn uffern isod.

Tydi weilgi! fyd maith o ddyfroedd! Efe, yr hwn a soddod y gwely cynnwysfawr yna i'th dderbyn, ac

* Hos. xiii. 14.

a dywalltodd dy elfen wlyb i gamlasau anwrhydol; ger bron yr hwn nid yw dy holl dònau ewynog ond megis dafn bychan o gelwrn; yr hwn, trwy yr arwyddiad lleiaf o'i ewyllys, sydd yn chwyddo dy deyrnasoedd hylif mewn cythrwfl gwyllt i ymgymmysg â'r cymhylau, neu yn eu darostwng mewn llonyddwch tawel i hepian ar eu ceulanau: Efe, yr hwn unwaith a'th awdurdododd i orchuddio yr holl ddaear, a chladdu ei holl drigolion dirywiedig mewn bedd dyfrllyd; ond yn awr a osododd waharddiad tragywyddol ar dy dònau ymchwyddog, ac a'th rwymodd di, creulawn a chynddeiriog fel ag ydwyt, mewn cadwynau cryfach nag adamant, etto wedi eu ffurfio o'r tywod diystyrllyd:—holl dònau llid a digofaint, trallod ac ing, a lifasant dros *Ei* gorph croeshoeliedig, a thros *Ei* enaid dirboenus *Ef*: fel y gallem ni godi o'r dyfnderoedd hyny o drueni, o'r llyngclyn hwnw o euogrwydd, i ba un y suddasid ni trwy gwymp Adda, ac ymha un y suddasem yn ddyfnach trwy ein troseddau ein hunain: fel, yn y diwedd, y caem ein hadferu i'r byd dedwydd hwnw, yr hwn a ddarlunir yn ngweledigaeth Duw fel "heb un môr;"* i arwyddo ei ddiysgogrwydd parhaus, a'i dawelwch digyffro.

Chwi fynyddoedd! y rhai a edrychwch dros benau'r cymhylau, ac a deflwch gysgod i'r talaethau cymydogol: beiramidiau tragywyddol anian, na siglir gan elfenau ymrysongar, na ddryllir gan foltau y daran, na ddadfeilir hyd yn oed gan ddifrod amser:—Efe, yr hwn sydd yn peri i'ch trumiau ymgodi mor uchel, a'ch sylfaeni sefyll mor gadarn; Efe, yn nghlorianau yr hwn yr ydych yn ysgafnach na'r mânwch;

* Dat. xxi. 1.

yn ngolwg yr hwn yr ydych yn llai nâ dim:—*Efe* a grymodd dan lwyth o ofidiau, ofidiau annyoddefol, ond nid eiddo ei hun; pan gymmerth efe arno ein hanwireddau ni, ac y tafloodd y baich mwy nâ mynyddig oddiar y byd euog.

Chwi goedydd gwyrddion! y rhai a goronwch y glenydd, ac a goronir eich hunain ag anrhydedd deiliog: chwi fân-wydd isel! a addurnir yn y gwanwyn gan flagur agored, ac a wyntyllir yn yr haf gan awelon araf: chwychwi, y rhai, mewn gwledydd pellenig, neu mewn gerddi gwrteithiedig, a anadlwch arogl llysieuog, ac a bereiddiwch yr awyr â'ch cyssewyr hyfrydlawn: pen eich oll-ogoneddus, -a'ch byth-wynfydedig Grewdwr, a amgylchwyd gan y dorch ddreiniog; ei wyneb a halogwyd â'r poeredd dirmygus, a'i gorph a drochwyd mewn chwys gwaedlyd; fel y gallem ni wisgo'r goron, yr hon ni ddiflana, a byw o hyn allan, wedi ein hamgylchu â hyfrydwch cymmaint gwell nâ'r eiddoch chwi, ag y mae yr eiddoch chwi yn rhagori ar anghyfannedd-dra gerwin gauaf.

Tydi winwydden fantellog! Efe, yr hwn sydd yn crogi ar dy geingciau meinion y swp bras, tryloyw, a phwysig; yr hwn, dan dy ddail diaddurn, ac ymhlith chwysdyllau dy gangen, pe amgen ddiwerth, sydd yn darparu y gwlybwr—y gwlybwr pur a dyrchafedig—yr hwn sydd yn llawenhau y bobloedd, ac yn llenwi cwpan gorfoledd: breniau! y rhai mae eich colfenau uchel yn chwyfio yn yr awyr, neu wedi eu gwasgaru mewn caethiwed esmwyth ar hyd y mur heulog: Efe, yr hwn sydd yn eich plygu dan lwyth prydfferth o ffrwythau melusion, hilbair wres yr hwn sydd yn prydfferthu eu rhisgl, ac yn addfedu eu blas:—*Efe*,

pan ymostyngodd yn wirfoddol i fod yn agored i'n diffygion ni, yn lle cael ei adfywio á'ch nodd blasus, a'i wledda á'ch mwydion danteithiol chwi, a gafodd gwpanaid ffaidd o winegr, yn gymmysgedig á bustl, wedi ei osod wrth ei wefusau:—fel y gallem ni eistedd dan gysgod ei rinweddau mewn tawelwch mawr, ac eithaf ymfoddlonrwydd; fel y byddai i ni, cyn hir, wedi ein derbyn i baradwys Duw, gael bwyta o ffrwyth pren y bywyd,* ac yfed gwin newydd yn nheyrnas ein Tad.

Chwi ddolydd breision! Efe, yr hwn, heb ddiwydrwydd yr hauwr, sydd yn gorllenwi eich arffed ddyfradwy á chnydau toreithiog o borfa, ac yn arliwio eich gwyrddni serchoglawn á blodau o bob gwawr:—chwi faesydd ffrwythlawn! Efe, yr hwn sydd yn bendithio llafur yr amaethydd, ac yn cyfoethogi eich gwastadedd gwrteithiedig á chynbauaf chwyfiog, ac yn galw ffon bara allan o'r cwysi: Efe, yr hwn sydd yn peri i'r dolydd a'r maesydd chwerthin a chanu gan amledd o lawnder:—*Efe* ni fu yn ddyeithr i newyn ysol, a syched llosgedig: *Efe*, och! a fwytaodd fara chwerw ing, ac a gafodd “helaethrwydd o ddagrau i'w hyfed:”—fel y gallem ni gyfrannogi o ddanteithion brasach ná'r rhai hyny a genhedlir gan wlith y nefoedd, ac a darddant o fraser y ddaear; fel y gallem ni ymborthi ar y “manna cuddiedig,” a bwytta o'r bara sydd yn rhoddi bywyd, bywyd tragywyddol, i'r byd.

Chwi fwngloddiau! cyfoethog mewn delid rhuddfelyn, neu ddysclaer gan wythi o arian; y rhai a daenwch eich trysorau gloywon cyn belled ag y gall y gwynt drosglwyddo llestri masnach; y rhai a

* Dat. ii. 7.

gyfranwch eich elusenau i frenhinoedd, a chenych dywysogion yn wobr-weis i chwi:—chwi welyau o emau, degan-dai natur! y rhai a ffurfiwch, mewn dirgel ymneillduaeth, y maen serenol: Adamant! yr hwn a danbeidi gan ddwfr dysclaer: Gwrel! yr hwn a wridi gan fflam borphor: Smaragdus! wedi dy drochi yn ngwyrddni gwryf gwanwyn: Saphir! wedi dy drwsio yn lliwiau teccaf yr wybr: Tophas! wedi dy glaer-addurno â chydywyn yr aur: Amethyst! wedi dy goch-liwio â gwrid y bore:—Efe, yr hwn sydd yn trwytho y llwch delidaidd, ac yn cydsylweddu y diferyn dysclaer! *Efe*, pan yn ymdaith ar y ddaear, a fu heb oludoedd, ond goludoedd caredigrwydd haelionus; heb addurniadau, ond addurniadau o burdeb difrycheulyd. Tlawd oedd efe yn ei amgylchiadau, a gwael o ran ei letty; fel y gallem ni fod yn gyfoethog mewn gras, a “derbyn iachawdwriaeth gyda gogoniant tragwyddol;” fel y gallem ni breswyllo y Jerusalem newydd, y ddinas rwysgfawr hōno, heolydd pa un a balmentwyd ag aur, a phyrth yr hon a wnaethpwyd o berlau, a'i muriau o feini gwerthfawr.*

Chwi ffynhonau tyrddol! y rhai a ymdreiglwch yn arian yfadwy rhwng y glaswellt plethedig: chwi ffrydiau tēg tryloywon! y rhai a ymlithrwyd yn dōnau grisialaidd rhwng eich glānu modrwyog: chwi afonydd dyfnion mawryddig! y rhai a ymddirwynwch ac a grwydrwch yn eich rhedfa i daenu eich bendithion yn lletach; a lawenychwch deyrnasoedd yn eich hynt, ac a gynnyddwch y môr â'ch teyrnged:—Efe, yr hwn sydd yn diwallu eich ffrydiau o orlawnder diyspydd ei haelioni ei hun; *Efe*, pan oedd ei ewynion wedi eu

* Dat. xxi. 19, 21.

dirdynu mewn poenau arteithiol, a'i waed yn fflamio gan y poethgryd cynddeiriog, a lefodd, " Y mae syched arnaf;" a gwrthodwyd iddo, (O galedi anghyfartal!) yn ei gyfyngder mawr hwn, gwrthodwyd iddo yr adfywiad tlawd o un dafn o ddwfr:—fel y gallem ni, gan gael pob cyflawnder ymhob peth, fod yn oludog ymhob gweithred dda, gael ein llenwi â chyflawnder o fendithion ysbrydol yma, a chael ein digoni ar ol hyn a'r digonolrwydd hwnw o lawenydd yr hwn sydd ar ddeheulaw Duw yn dragywydd.

Chwi adar! preswylwyr serchoglawm y canghenau, wedi eich gwisgo yn feunyddiol mewn plu dysclaer; y rhai a ddeffrowch y boreuddydd, ac a bereiddiwch y gwigoedd, a'ch pyngciau didwyll: adeiladwyr digyffelyb! y rhai, heb na mesur na llinyn, a godwch eich adeiliau dibynol yn holl gynnildeb cyfartalwch: y mae gan bob un o honoch chwi ei nyth cyfleus, wedi ei grommenu â chysgodau, a'i wrthleinio â chynnesrwydd, i ddiogelu a meithrin eich eppil diblu:—ond Efe, yr hwn a byngciodd eich cegau i beroriaeth, ac a ddysgodd i chwi y medr manwl yna, *Efe* a fu yn wr gofidus, heb le i roddi ei ben i lawr; heb le i roddi ei ben i lawr, nes teimlo loesion ymddattodiad, yna a roddwyd yn y dystaw fedd:—fel y gallem ni, gan breswyllo dan adenydd Hollalluogrwydd, a gorphwys ar fynwes anfeidrol gariad, dreulio tragywyddoldeb peroriaethol i "ganu cân Moses a'r *Oen*."

Chwi wenyn! gweithwyr diwyd, y rhai ag aden ffwdanus a ysgubwch yr ardd flodeuog, a chwiliwch y grug blagurog, ac a sugnwch y gwllith mêl-lifeiriol: estroniaid i oferedd! y rhai gyda dyfalwch dibaid a lynnwch wrth eich gorchwyl boddhaol, ac ni oddefwch

i un blagur agor heb ei brofi, i un godywyn heulog ddiangc heb ei ddefnyddio : adeiladwyr cywreiniaf ! y rhai a ddibynwch wrth y blagur aroglber, a'u diyspyddwch o'u trysorau melusion, ac a dynwch (os priodol yr ymadrodd) eneidiau peranadlol y llysiâu, y planhigion, a'r blodau :—chwychwi, pan orphenoch eich gwaith, ar ol casglu, coethi, a diogelu eich trysorau perfywiol ; pan allech yn rhesymol ddysgwyl mwynhad heddychlaw'n o firwyth eich llafur, chwychwi, och ! a ddyfethir yn ddiddynoliaeth, ac a adewch eich melusderau pentyredig i ereill ; ië, a'u gadewch i gael eu mwynhau gau eich lleiddiaid : ni allaf lai nâ thosturio wrth eich tynghed galed !—Pa fodd, ynte, y dylai fy ymysgaroedd doddi gan gydymdeimlad, a'm llygaid ffrydio gan dagrau,* pan gofiwyf mai fel hyn y dygwyddodd i'ch Gwneuthurwr cnawdoledig ! Ar ol bywyd o'r duwioldeb mwyaf hynod a dyrchafedig, bywyd llawn o gymmwynasau haelioni a gweithredoedd cariad ; *Efe* a groeshoeliwyd ac a laddwyd gan ddwyllaw anwir : *Efe* a adawodd fêl ei lafur, meddyglyn ei waed, a thrysorau ei ufudd-dod, i gael eu rhanu rhwng ereill ; i gael eu rhanu hyd yn oed rhwng y rhai hynyn rhy aml sydd yn ei groeshoelio o newydd, gan ei osod yn watwar cyhoeddus.

A gaf fi grybwyll y creadur,† yr hwn sydd yn nyddu

* A elli ganfod, galed ddyn,

Ei loesion fwy nâ rhi,

Heb wylo deigrin dros yr un

A waedodd drosot ti. *Pitt's Poems.*

† Gobeithio na anfoddlonir neb trwy fy ngwaith yn dwyn creaduriaid mor wael i mewn, ar y fath achos ; gan fod llyfrau ysbrydoliaeth yn ymddangos fel yn fy nghefnogi â'u hawdurdod sanctaidd ; heb ddiystyru cymharu yr Iesu bendigedig i ddrws, i ffordd, &c. Ac fe allai fod pob cyffelybiaeth, gyda golwg ar Fod o anfeidrol urddas, nid yn unig yn wael, ond yn gyfartal wael ac annheilwng.

ei dyner, ei ddysclaer, a'i fein-dêg sidan edafedd? llaw-weithfeydd digymhar yr hwn sydd yn addurno rhwysg, ac yn gwneuthur teyrnedd ei hun yn fwy mawryddig:—A gaf fi sylwi ar y gell, ymha un, pan fyddo hoywder a gofal bywyd drostynt, y mae'r meudwy bach yn carcharu ei hun, gan dreulio gweddill ei ddyddiau mewn ymneillduaeth?—Yn hytrach a gaf fi nodi y beddrod, yr hwn, pan fyddo wedi arddigoni ar hyfrydwch, a blino ar y byd, mae efe yn ei ddarparu i gladdu ei hun ynddo? neu pa fodd, pan fyddo amser penodol wedi myned heibio, y mae efe yn dryllio pyrth ei fedd, yn taflu ymaith ei amdo lychlyd, yn cymmeryd arno ddull newydd, yn ymwisgo yn dlysach, ac, o fod yn bryf yn ymlusgo ar y llawr, yn dyfod yn drigiannydd adeiniog yr awyr?—Na: nid yw hwn ond ymlusgiad tlawd, a chan hyny yn annheilwng i wasanaethu fel eglurhad, pan fyddo un nodweddiad o eiddo Mab Duw dan sylw. Ond goddefer i mi ddiwygio fy hun. Onid oedd Crist (a defnyddio geiriau ei Ysbryd bendigaid ei hun) “yn bryf, ac nid gwr?”* Mewn ymddangosiad y cyfryw, ac a driniwyd fel y cyfryw.—Oni chymmynodd efe liain main perffeithiaf ei gyfiawnder ei hun, i gyfansoddi gwisg briodas i'n

Yr wyf yn ystyriol nad yw yr holl amgylchiadau yn y gyfran hon, megis mewn ereill hefyd, yn cyfatted yn berffaith. Ond os, mewn rhai pethau neillduol, y cyfatted yr adroddiad i'r desgrifiad; bydd hyn, yr wyf yn hyderu, yn ddigon i'm bwriad, a boddlonol i'r darlennydd.—Fe allai na byddai yn ocheliad anfuddiol, i gymhwyso yr un sylwad at lawer o'r cyffelybiaethau, dammegion, ac allegau godidogion, a arferwyd gan ein Harglwydd; megis y *sarph bres*, y *goruchwyliwr anghyfiawn*, y *lleidr yn y nos*, &c. y rhai, trwy gael eu holrhain yn fanwl, a'u dirdynu yn ormodol, er mwyn ateb yn berffaith ymhob amgylchiad, a ymddangasant dan anfantais fawr, ac a arweiniant i aghymhwysderau eglur.

* Psal. xxii. 6.

heneidiau noethion a halogedig ni? Oni ddarfu iddo, cyn i'w gnawd weled llygredigaeth, gyfodi'n fuddugol o'r bedd, a dyrchafu, nid yn unig i'r ffurfafen isaf, eithr esgyn i nef y nefoedd ei hun, i gymmeryd meddiant o'r trigfanau goruchel hyny yn ein henwau, ac fel ein rhagflaenor ni?

Chwi dda! y rhai a orphwyswch yn eich porfâu amgaëedig; chwi fwystflod! y rhai a grwydrwch y goedwig annherfynol; chwi bysg! y rhai a wibiwch

* Hyn, gydag amryw bethau ereill yn y gwaith hwn, a gyfeiria at gyfiawnder gweithredol a dyoddefol Crist, yr hwn a gyfrifir i gredinwyr er eu cyfiawnhad: yr hyn, yn ol meddwl llawer o esponwyr cyfrifol, yw arwyddocâd cyfriniol a mwyaf dyrchafedig y *wisg briodas*, a gymhellwyd mor awdurdodol a phwysig gan y dysgawdwr mawr a ddaeth oddiwrth Dduw, Mat. xxii. 11. Athrawiaeth, yr hon ni bydd i amryw o'r rhai a anrhydeddant fy myfyrdodau â darlenniad, mae yn debygol, ei derbyn gyda llawer, os gyda dim parch. Yr wyf yn gobeithio na bydd i'r holl gyflawniad gael ei wrthod ar gyfrif un gwahaniaeth mewn tyb: ac yr wyf yn dymuno, na byddo i'r dyb ei hun gael ei gwrthod yn frysiog, heb wrandawiad astud: o blegid mi a adwaen fonheddig o ddsygeidiaeth dda a synwyr cryf, yr hwn oedd unwaith â chymmaint o ragfarn yn erbyn y daliad, ag ellir yn iawn ddychymmygu; etto, yn awr, mae efe nid yn unig yn ei derbyn fel gwirionedd, ond yn ei chofleidio fel llawenydd ei galon, ac yn glynu wrthi fel craig ei obaith.

Traethawd eglur a chadarn, a elwir *Submission to the Righteousness of God*, (Ymostyngiad i Gyfiawnder Duw,) a fu yn offerynol i symmud ei ragfarn, a'i ddwyn i well meddwl:—yn yr hwn y cadarnhawyd ef gan yr enwau ardderchoccaf, a gweithydd yr ysgrifelli rhagoraf, a addurnasant ein heglwys a'n cenedl erioed. O'u rhifedi mae—yr Esgob Jewel, un o'n diwygwyr mawr; gyda'r lleill o gasglwyr hybarch ein homiliau: Archesgob Usher, y gwr doeth hwnw, ymha un y cydgrynhowyd dysygeidiaeth gyffredinol: Esgob Hall, areithiwr duwiol a bywiog ei oes: y gwresog a'r gwybodus Esgob Hopkins; y neillduol dda a'r diffuant Esgob Beveridge: y tragywyddol anrhydedd hwnw i faingc brawdriaeth, yr Arglwydd Brif Farnwr Hales: y grymus, blodeuog, a'r ynnillgar Ddeon Stanhope: yr eglur a'r ymarferol Mr. Burkitt: ac, heb wysio tystiolaeth ychwanegol, yr athrylith digymhar hwnw, Milton; yr hwn, mewn amryw ranau o'i gerdd ddwyfol, sydd yn addysgu'r gwirionedd cysurlawn hwn; ac, mewn un man, yn ei ddarlunio trwy yr un ddelw ag a arferwyd uchod, llyfr x. llin. 222.

D. S. Os dymuna'r darlennydd chwilio y daliad rhag-grybwylledig, efe a'i gwel wedi ei drefnu, ei eglurhau, a'i gymhwyso i'w ddefnyddioldeb dyladwy, mewn darn a elwir Theron ac Aspasio.

trwy ffyrdd anolrheinadwy y môr; chwi ddefaid! wedi eich dilladu mewn gwisgoedd, y rhai, pan adawoch chwi, a wisgir gan frenhinoedd; wartheg! y rhai a ymborthwch ar wyrddlesni, yr hwn, wedi ei draws-gyfnwid i'ch cyrph, a'i wasgu o'ch tethau, a arlwyra wledd i frenhinesau; lewod! yn rhoio ar ol eich ysglyfaeth; lefiathan! yn chwareu yn y dyfnder mawr; ynghyd â'r oll a chweriwch yr aden yn yr awyr, a droediwch y llawr, neu a nofiwch y dôn:—Efe, yr hwn sydd yn hulio ei fwrdd byth lettygar, ac yn eich derbyn oll fel ei westwyr parhaus, heb oddef fod arnoch eisiau dim daioni:—*Efe* a fu yn amddifad, yn gystuddiol, ac yn arteithiedig: *Efe* a ddyoddefodd bob dim ar y sydd yn resyn a gwaradwyddus, fel y dyrchafai efe hil ddirywiedig, y rhai a iselhasent eu hunain islaw yr anifeiliaid a drengant, i orseddau o anrhydedd goruchel ac anfarwol; mewn trefn i gyflwyno caethion pechod, ac etifeddion uffern, i drigfanau o berffaith a thragywyddol wynfyd!

Yn ddiau, myfyrdod ar y fath destyn, a blaenbrawf pell o'r fath obaith, a ddichon agos droi y ddaear yn nef, a gwneuthur hyd yn oed natur ddienaid i seinio ei foliant. Torred allan, gan hyny, oddiwrth bob creadur. Teimled y rhai gwaelaf y cyffroad ennynol; a chydabydded y rhai penaf eu hunain yn alluog i deilwng ddatgan y daioni rhyfedd.

Molwch *Ef*, chwi bryfed! a ymlusgwch ar y llawr; yr hwn, ac efe yn uchel goruwch pob uchder, a ddarostyngodd ei hun i breswyllo yn y llwch! Adar yr awyr! cludwch ar eich adenydd, a pherioriaethwch yn eich pyngciau, ei foliant *Ef*, yr hwn, er yn Arglwydd y trigfanau nefol, tra yn yndaith ar y ddaear, oedd

heb loches gyffeus fel eich nythau chwi.—Chwi fyd sarruccach o wyltflod! unwch â cherddorion araf y gwasgodwydd, a rhuwch eich cryglyd gammoliaeth iddo *Ef*; yr hwn sydd yn dryllio cilddannedd y llew uffernol, ac yn tyneru y dymher greulon i larieidd-dra, gan beri i'r blaidd orwedd mewn cyttundeb cyfeilgar gyda'r oen: brefwch allan, chwi fryniau! ac atteber chwi gan feichiadau cryfach o'r dyffrynoedd! chwi goedwigoedd! gafaelwch—chwi greigydd! deliwch—yr emyn anghroyw; o blegid Messia, y Tywysog, “fel bugail a bortha ei braidd: â'i fraich y casgl ei ŵyn, ac a'u dwg yn ei fynwes; ac a goledda'r mam-mogiaid.”*—Chwi gedrwydd rhwysgfawr! plygwch, mewn arwydd o addoliad, plygwch eich penau canghenog iddo *Ef*, yr hwn a blygodd ei ben yn llariaidd ar y pren mældigedig. Rhagwelediadau boddhaol! golygfeydd o degwch! lle mae y gelfyddyd gynnifaf yn cydfwriadu â natur i wneuthur paradwys isod; gosodwch allan eich holl degwch, ac yn eich holl degwch cydnabyddwch eich hunain yn ddim, mewn cymbariaeth iddo *Ef*, “yr hwn sydd yn rhagori ar ddeng mil, ac oll yn lawddgar.”—Diferwch i lawr, chwi gafodydd! a thystiolaethwch wrth gwmpo, tystiolaethwch am ei ras *Ef*, yr hwn sydd yn disgyn yn fwy helaethlawn nâ'r gwlaw, ac yn defnynu yn felusach nâ'r gwllith. Anadled awelon ocheneidiol, a ffrydied nentydd tyrdol; anadlent a ffrydient mewn cyssain beroriaethol iddo *Ef*, yr hwn y mae ei Ysbryd yn fwy adfywiol nâ'r awel oeraidd, yr hwn ei hun yw ffynnon y dyfroedd byw.

Chwi fellt! tanbeidiwch i'w anrhydedd *Ef*; chwi

* *Esa.* xl. 11.

daranau! seiniwch ei glodforedd *Ef*; tra dychwelo y cymbylau gwrthlefol y rhuad, ac y taeno'r dyfnfor trystfawr yr anthem aruthr.—Y mudaf o'r creaduriaid, ychwanegwch eich areithyddiaeth ddystaw, a gosodwch allan fuddugoliaeth ei larieidd-dra *Ef*; yr hwn, er ei fod yn gwneuthur y cymbylau yn gerbyd iddo, ac yn marchogaeth ar donau y môr; er fod y daran yn lleferydd iddo, a'r melit ya gleddyf ei gyfaawnder; etto, ymblith y niweidiau mwyaf sarhaus a chreulawn, a fu yn ostyngedig, ac ni chododd ei law; a fu "yn fud, ac nid agorodd ei enau."—Ffynnon fawr y dydd! cyfarcha dy wriogaeth ddysclaer i lawer tanbeidiach haul: ysgrifena, trwy dy holl gylch eang, â phob paladr llewyrchus, O! ysgrifena dystiolaeth iddo *Ef*, yr hwn sydd yn ddysclaerdeu gogoniant ei Dad; yr hwn sydd yn haul cyfaawnder i fyd pechadurus; ac a gyfododd, nid i fachlud mwy; a gyfododd, i fod yn oleuni tragwyddol.—Llewyrchwch yn eglur, chwi wybrenau; edrych yn hoyw, tydi ddaear; cured y llifeiriaint eu dwylaw, a gwened pob creadur; canys mae efe yn dyfod, mae y Creawdwr ei hun yn dyfod, i ymddangos yn y cnawd; a chydag ef mae maddeuant, heddwch, a gorfoledd, yn dyfod: pob rhinwedd, pob dedwyddwch, ydynt yn ei osgordd.—Angylion ac archangylion, bydded eich caniadau i'r *Iesu*, a dysgwch y nefoedd i adsain ei enw mawryddig ac addoladwy ef: chwi a'i gwelsoch ef, gyda chryfach perlewygon o syndod, pan weiniasoch ar ei ing yn yr ardd, a phan ganfuoch ef yn estynedig ar y llawr, na phan welsoch natur gyffredinol yn cyfodi ar ei alwad, a phan ganfuoch ryfeddodau ei allu creedigol. Pyngciwch eich telynau auraidd i'r odlau uchaf, a deffrowch lesmeiriau

anadnabyddus o'r blaen mewn mynwesau nefol; tra mae yr hyn oll y mae anadl ynddo yn chwyddo'r gydgerdd o beroriaeth, a'r hyn oll y mae iddo fodoliaeth yn ymuno yn y deyrnged o foliant.

Yn benaf, dyrchafed dyn ei leferydd; seinied dyn, mewn hosanna nodedig, henffych i'r Gwardwr. Er mwyn dyn y dirdynwyd ef ar y croesbren arteithiol; er mwyn dyn y traddodwyd ef i'r bedd tywyll; er mwyn dyn y pwrzasodd efe ras anfesuro, a gwynfyd anamgyffredadwy.—Pa mor wahanol bynag, gan hyny, mewn oed, neu fwy gwahanol mewn amgylchiadau, bydd yn unfryd, O ddyn, i fawrygu yr Iachawdwr— Iachawdwr yr hwn nid yw dderbyniwr wyneb, ond a roddes ei hun yn bridwerth dros bawb.—Ymgrymwb, chwi frenhinoedd, oddiar eich teyrngadeiriau o aur ac ifori; yn eich mentyll o borphor ymerodrol, syrthiwch yn ostyngedig wrth ei draed Ef; yr hwn a adawodd orsedd odidocchach, ac a roddodd heibio arwyddion ardderchocchach, o fawrhydi, fel y gallech chwi deyrnasu gyda Duw, byth yn dragywydd.—Blant tlodi, gwaelaf o farwolion, (os gellir galw neb yn dlawd a gyfoethogir fel hyn; neb yn wael a ardderchogir fel hyn;) llawenychwb, llawenychwb yn ddirfawr, yn Nuw eich Iachawdwr: yr hwn a ddewisodd fod yn dlawd, ac a ymfoddlonodd fod yn ddirmygedig, fel y gallech chwi gael hawl i drysorau, a chael eich cyfrif ymhlith tywysogion, y nef.—Blant gorthrymder, er eich aflonyddu gan boen, a'ch cynnefino ag ing, O! cyfnewidiwch eich griddfanau yn ganiadau o ddiolchgarwch: na adewch glywed un llais achwyngar, nac un tant anghyson, yn y gynghanedd gyffredinol; eithr gogoneddwch yr *Oen* hyd yn oed “ yn y

tân;”* yr hwn ei hun a ddyg arteithiau mwy nag ydych chwi yn deimlo, ac a addawodd i chwi ran o'r llawenydd y mae efe yn ei etifeddu; yr hwn a wnaeth eich dyoddefiadau yn fyrion, ac a wna eich gorphwysdra yn dragwyddol. Hynafgwyr, a phenau gwynion, yn crymu dan bwys oedran, ac yn telgyngu ar fin y bedd, bydded Crist yn gynnalïaeth i chwi dan eich holl wendidau; pwyswch ar Grist fel craig eich iachawdwriaeth: a ffurfied ei enw, ei enw gwerthfawr ef, yr accenion olaf a ymgrynont ar eich gwefusau gwelwôn trangcedig.—A bydded hwn y cyntaf a floesga eich tafodau chwithau, fabanod tyner; cofiwch eich Gwardwr yn eich munudau cynnaraf; cyflwynwch oreuon eich orïau i ddysgu ei ewyllys, a'r penaf o'ch nerth i ogoneddu ei enw Ef; yr hwn, yn mherffieithrwydd iechyd, a gwir ragoriaeth dynoldeb, a ymfoddlonodd ddyfod yn gorph irad digyffro; fel y gallech chwi gael eich gwregysu â nerth, a'ch gwisgo â blagur, ieuengtyd anfarwol.

Chwi ysbrydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd, y rhai a esmwythawyd oddiwrth y baich o gnawd, ac a ryddhawyd oddiwrth erlyniadau gofidus llygredigaeth ynoch eich hunain; ac a waredwyd oddiwrth effeithiau niweidiol anwireddau mewn ereill; y rhai yn awr nid ydych mwyach yn ymdaith yn mhebyll anghydfod, neu ororau annhrefn; eithr a dderbyniwyd i'r gymdeithas bur, gyssain, a sanctaidd hòno, lle mae pob un yn gweithredu yn addas i'w gymmeriad hawddgar a dyrchafedig; lle mae Duw ei hun yn teilyngu yu rasol llywio yn ddigyfrwng:—nid heb syndod boddhaol yr ydych chwi yn cael eich gobaith wedi ei droi yn

* Esa. xxiv. 15.

fwynhad gweithredol, a'ch ffydd wedi ei diswyddo gan yr olwg wynfydedig; yr ydych yn teimlo holl ochelgarwch eich hymddygiad gynt wedi ei golli yn ddedwydd yn ngorlifiadau cariad diderfyn, a'ch holl wahan-iaethau bychaia mewn barn wedi eu dwyn i lawr gan ddilaw o wirionedd anamrywiadwy: bendithiwch, gan hynny, a'ch holl alluoedd äangedig, bendithiwch ei anfeidrol helaethach ddaioni Ef; yr hwn, pan orchfygodd efe holl nerth angeu, a agorodd byrth paradwys, a agorodd deyrnas nef, i'r holl genhedlaethau, ac i bob enw o ffyddloniaid.

Chwi wyr o ymarweddiad sanctaidd, a thymberau gostyngedig, meddyliwch am dano Ef, "yr hwn a'ch carodd, ac a'ch golchodd oddiwrth eich pechodau, yn ei waed ei hun:" meddyliwch am dano ef ar eich gorwedde ddystaw; ymddiddenwch am dano ef yn mhob ymweliad cyfeillgar; ymogoneddwch yn ei ragoriaethau; ymfrostiwch yn ei ufudd-dod; ac ychwanegwch, parhewch i ychwanegu, arogldarth bywyd dichlynaidd at offrymau tafod diolchgar.— Y rhai gwanaf o'r credinwyr, y rhai a rodiwch yn alarus dan deimlad o euogrwydd, ac a ymdrechwch ag ymosodiadau dibaid profedigaeth, rhoddwch heibio eish sachliain, ac ymwregyswch â llawenydd; canys y mae'r Iesu mor drugarog i wrando ag y mae yn alluog i gynnorthwyo; canys y mae efe yn cydymdeimlo, gyda'r gofal tirionaf, a'ch holl orthrymderau; ac yn byw, i'e yn byw bob amser, fel eich Eiriolwr gyda'r *Tad*. Paham, ynte, y caiff amheon anesmwyth bruddhau eich wynebpryd? Paham y caiff ofnau gwangalonus orthrymu eich eneidiau? Trowch, trowch eich ocheneidiau annyddan yn emynau siriol;

gan fod genych ei eiriolaeth alluog, a'i rinweddau anmhrisiadwy, yn angor i chwi yn eich holl dralledion, ac yn daith-drwydded i'r gwynfyd tragywyddol.

Uwcbław pawb, chwi weimidogion y cyneigr; cyhoeddwy'r wedi eich awdurdodi o'r nef; dyschbewch, bob un, ei lais fel udgorn, a llafar ddatgenwch y Gwaredwr. Ymddyrchwch, chwi genhadon hedd, ymddyrchwch i'r mynyddoedd uchel; a thaenwch ymhell ac agos anrhydedd yr *Oen*, "yr hwn a laddwyd, ond sydd yn byw yn dragywydd:" dysgwch bob crommen gyssegredig i adseinio ei glod, a phob calon dyn i ymennyn gan ei gariad. Anlygwch, cyn belled ag y gall grym geiriau fyned, lawnder diysbydd ei iawn mawr, rinweddau yr hwn ydynt yn ogyfartal a gogoniant ei ddwyfoldeb.* Dywedwch wrth yr adyn pechadurus, pa dosturi sydd yn gwresogi yn ymysgareodd Emanuel; pa waed a dywalltodd efe, pa

* Os llefarais i yn y lle hyn ac ereill, yn helaeth am waed Crist, a'i effeithioldeb anorfod i ddileu euogrydd; yr wyf yn meddwl nad yw ddim rhagor nag a osodir allan mewn emyn clodfawr iawn, a ysgrifenydd gan un o'r arebwyr mwyaf, yr hwn hefyd a fuasai yn un o'r rhai mwyaf penrhydd, a chweddi hyny yn un o'r rhai hynotaf am ei edifeirwch, yn Ffrainc: emyn, yr hwn mae hyd yn oed Mr. Bayle yn gydnabod yn un da; yr hwn a eilw beirniad arall yn un rhyfedd; a'r hwn a ganmolir gan awenydd rhagorach nâ'r ddau, fel yn un adderchog. (Gwel *Spect.* vol. vii. No. 513.)

Yr awdwr, ar ol cydnabod fod ei bechodau tu hwnt i festur yn ysgeler, ac agos tu hwnt i faddeuant yn gynhyrfus;—mor gynhyrfus ag i wneuthur dagrau o'r fath lygaid yn wrthwynebyld, a gweddiau oddiwrth y fath wefusau yn atgas;—a ymdawela i ymestwng heb un meddwl grwgnachlyd; hyd yn oed gyda mawl ac addoliad, i'r ddedfryd fwyaf dychrynlyd. Yn ganlynol, mae efe yn sefyll mewn dysgwyliad ymroddol am gael ei daro yn ddiatreg gan foltau dialled: ond—gyda meddwl cyfartal ryfedd a bywiog; gyda ffydd wedi ei iawn seilio, a chref; efe a ychwanega—

Etto b'le gall dy darparu

Syrthio arnaf?—gan mae gwael

F'anwyl Iesu'n fy ngorchuddio,

A'm tarianu o'm pen i'm traed.

arteithiau a ddyoddefodd, pa ryfeddodau a weithredodd, er iachawdwriaeth ei elynion. Gwahoddwch y tlawd i ddyfod yn gyfoethog; cymhellwch yr euog i dderbyn maddeuant; canys yn yr Iesu croeshoeliedig y mae prynedigaeth helaethlawn, a holl-ddigonolrwydd i achub.—Tra fyddoch chwi, y rhai a gyflewyd mewn sefyllfaoedd nodedig, yn tywallt y sain orfoleddus, bydded i mi, wrth ymledrattau trwy lyn bywyd isel, ddal yr accenion boddhaol! Dros of fi, daeth awdwr pob bendith yn felldith; dros of fi, dadgymmalwyd ei esgyrn, a drylliwyd ei gnawd; Efe a grogodd, a'i wythienau yn ffrydio, a'i enaid yn dirboeni, ar y croesbren, dros of fi. O! bydded i mi, yn fy rhod fechan, ac ymhlith cylch cyfyng fy nghydnabod, o leiaf ysibrwd y newyddion gorfoleddus; eu hysibrwd o'm calon fy hun, fel y cyrhaeddont yn sicr, ac y treiddiont yn felus, i'r eiddynt hwy.

Ond, pan ddyrchafo dynion ac angylion yr emyn mawryddig; pan ychwanego yr holl fydoedd, a'r hol fodau, eu bonllefau cynnulledig; y gydgerdd lawn, wresog, a chyffredinol hon, a fydd gymmaint islaw goludoedd gras y Gwardedwr; mor anghyfartal â rhwysgfawredd ei ogoniant; fel yr ymddengys yn iselhau y testyn annhraethol, wrth gynnyg ei ddyrchafu: yr haleluia soniarus a drenga ymaith yn hyawdledd pwysfawr a meddylgar addoliad gostyngedig, melusber, a dystaw.

O anfeidrol, anfesurol, faith ddaioni'r Ceidwad mawr!

A chariad pell uwchlaw gwybodaeth! eiriau! beth y'ch chwi yn awr?

Methodd tafod, suddodd geiriau, yn y rhyfeddodau maith:

Tyr'd Ddystawrwydd cryf cynnwysfawr, traetha'r clod nas dichon iaith.

YSTYRIAETHAU AR Y NOS.

Nos yw cyfeilles ddystaw Rhinwedd ddeg,
Yr ymwybodol Leuad, trwy bob oes,
A ddaliodd lusem i Ddoethineb wiw.

Night Thoughts, No. v.

I PAUL ORCHARD, YSWAIN,
O STOKE-ABBEY, DYFNAINT.

ANWYL SYR,

GAN i'ch anrhydeddus dad weled yn dda wneuthur dewisiad o honof fi i ateb yn eich enw wrth y bedyddfaen, ac mewn ffordd i warchod dros eich daioni ysbrydol; goddefwch i mi osod y traethodau bychain hyn yn eich dwylaw, a thrwy hyny gyflawni rhyw ran o'r ymrwymiad pwysig hwnw.

Diolchgarwch am lawer caredigrwydd, ac ystyriaeth ymwybodol o'm ymrwymiad cyssegredig, a ennynasant fy mynwes er ys amser â'r dymuniadau gwresoccaf, am eich gwir urddas, a'ch dedwyddwch sylweddol. Ni allaf chwaith feddwl am un llwybr mwy hoff, ac effeithiol, i ddwyn ymlaen y naill a'r llall, na thrwy osod ger eich bron braslun o gymmeriad ardderchog eich Tad.—Anghreiffitiau godidog ydynt y deniadau mwyaf ynnillgar i rinwedd: ac ni all dim ddyfod gyda'r fath fanteision neillduol attoch chwi, Syr, a chynllun y person gwiwglod, oddiwrth yr hwn y tynasoch eich bodoliaeth.

Parch gwresog a hybarch i'r gair dwyfol, oedd un o'i gynneddfau nodedig. Gwirioneddau y nefoedd oeddynt ei brif hyfrydwch, a'i gymdeithion diysgar. Eich gerddi, eich rhodfeydd unig, a chaeau eich maesydd, a allant

dystio gyda pha ddiwydrwydd diorphwys yr ymarferodd efe ei hun yn nghyfraith yr Arglwydd. Oddi yma y tynodd efe ei osodedigaethau doethineb, ac y ffurfiodd efe ei farn am bethau. Y cynghorion sanctaidd oedd-ynt reol ei dymher, a thywysiad ei fywyd; tra yr oedd yr addewidion gwerthfawr yn llawenydd ei galon a'i ran dros byth.

Cyfeillach addysgiadol oedd yn hyfrydwch mawr arall ganddo. Ychydig fonheddigion oedd wedi eu cynnysgaedu yn well â bywiogrwydd dychymmyg, neu barodrwydd ymadrodd, i ddwyn rhan ddysclaer mewn cyfeillach. A'r talentau hyn, efe a ymdrechai bob amser i rododi agwedd ddefnyddiol, yn gyffredin grefyddol, i'r ymddiddan. Ac nid oedd efe byth yn adfyfrio, gyda mwy o foddlonrwydd, ar ei oriau cymdeithasol, nâ phan tueddent i ogoneddu y Mawrhydi tragwyddol, ac i ddeffroi, ynddo ef ac ereill, yr ysbryd bywioccaf o dduwioldeb.

Dyfeisio gogyfer â daioni ereill, oedd ei fyfyrdod mynych; a dwyn y trefniadau hyny i weithrediad, ei ddewis orchwyl. Pan ymwelid ag ef gan wyr ieuaingc y gymmydogaeth, ymhell o gymmeryd balchder anweddus yn eu hegwyddori mewn rhysedd, neu eu cefnogi mewn ymarferiadau afreolus; ei ymdrech dibaid, trwy annogaethau wedi eu cynnwl gymhwyso, oedd eu hannog i ddiwydrwydd, a'u sefydlu mewn rhodiad o sobrwydd; i'w gwarchod yn erbyn deniadau drygioni, a'u bywiogi ag egwyddorion o dduwioldeb. Dyma fath ardderchog o lettygarwch! yr hwn yn debygol a leda ei ddylanwadau bendithiol i'w meddiannau bydol, i'w teuluoedd dyfodol, ac hyd yn oed i'w sefyllfa dragwyddol.

Argyhoeddiad dwfn o dlodi dyn, a chrediniaeth drwyadl o holl-ddigonolrwydd Duw, a barent iddo fod yn aml mewn gweddi. Ymostwng mewn addoliad isel ger bron y Bod anfeidrol ddyrchafedig, yr hwn sy'n preswyllo mewn goleuni annyfodadwy, oedd ei ogoniant; dymuno parhad o'r ewyllys da hollalluog, a chynnydd ymbob grasau Crist'nogaidd, oedd ei elw; yn y munudau hyny, yn ddiammau, Syr, efe a'ch cofiodd chwi, gyda neillduol daerineb, ac a anfonodd lawer deisyfiad taer i byrth y nef ar ran ei fab mabanaidd. Na pheidiwch chwithau a'u cefnogi, trwy eich ymbiliau diattal eich hunan, ar fod iddynt ddisgyn ar eich pen "yn nghyflawnder bendithion efengyl y tangnefedd."

I roddi eu priod ddysclaerdeb i'w holl ddoniau ereill, yr oedd efe yn ofalus i gadw meddwl gostyngedig. Er y gallasai ei gyfeillion fawrhau ei alluoedd rhagorol, a'i gydnabod foli ei ymddygiad dilynwiw, yr oedd efe yn gweled gymmaint yr oedd yn fyr o nod ei uchel alwedigaeth: yn gweled, ac yn galaru am ei waeleddau: yn gweled, ac yn ymwadu ag ef ei hun: gan ymorphwys, am dderbyniad yn y diwedd, a dedwyddwch diddarfod, ar gyfiawnder gwell na'i eiddo ei hun; ar gyfiawnder tra-rhagorol berffaith, a marwolaeth anamgyffredadwy werthfawr IESU y Gwardedwr. Hyn oedd craig ei obaith, a choron ei orfoledd.

Y rhai hyn, Syr, ydynt rai o nodweddiadau hynod eich tad trangcedig. Gan i chwi gael yr anffawd o golli perthynas mor werthfawr, cyn eich bod yn alluog i ffurfio unrhyw gydnabod â'i berson, yr wyf yn hyderu y gwnewch sylw mwy esgud o'i ddarlun ef: ei ddarlun moesol hwn, a fwriadwyd, nid i gael ei osod mewn aur, neu i serenu mewn owmal, ond i anadlu yn eich ys-

bryd, a byw yn eich holl ymddygiad : yr hwn, er ei fod yn hollol yn eiddoch, wedi ei dynu yn gwbl er eich mwyn, a ddichon (fel darluniau teuluaid yn eich ymddiddanfa, y rhai a daflant olwg ar gynifer a ddelont i'r ystafell) wneuthur rhyw argraff foddhaol a defnyddiol ar bob edrychydd.—Na byddai i bob un, wedi ei swyno gan y ddelw brydferth, ddal ei thebygolrwydd. a phob un, yn ei briodol sefyllfa, “fyned a gwneuthur yr un modd.”

Ond yr ydych chi, Syr, yn neillduol ofalus i fyw yn ol y cynllun hawddgar. Megis y mae trefn Rhaglun-iaeth hynaws wedi eich gwneuthur yn etifedd i amgylchiadau cyfoethog, na adewch i ddiotalwch coeg ac anystyriol eich torri ymaith oddiwrth etifediaeth fwy goludog, o'r ansodau ardderchog hyn.—Y rhai hyn a fyddant eich diogelwch ymhlith y peryglon llewyrchus y rhai ydynt yn anysgaradwy oddiwrth eich blynyddoedd blagurog, a'ch sefyllfa ddyrchafedig mewn bywyd. Y rhai hyn ydynt eich ffordd, eich unig a'ch sicr ffordd, i wir fawredd, a dedwyddwch sylweddol.—Cerddwch ar hyd y llwybrau hyn, ac ni allwch fethu bod yn hoff gan eich cyfeillion, ac yn anwylyd y nef. Cerddwch hyd y llwybrau hyn, a chwi a roddwch orfoledd annhraethol i'r oreu o famau; chwi a fyddwch yn fendith äang i'ch cyd-greaduriaid; a'r hyn, ar ol y fath annogaethau mwyaf ynnillgar, sydd ond prin gwerth ei grybwyll. chwi a fyddwch yn hyfrydwch, yn anrhydedd, ac yn ymfrost, anwyl Syr, i'ch

Tra serchoglawn dad-bedydd,

A'ch ffyddlonaf ostyngedig was,

Weston-Favel, gerllaw Northampton,

JAMES HARVEY.

Gorph. 14, 1747.

RHAGYMRÖDD.

NI a osodasom ein meddyliau i weithredu yn barod ar y Beddau a'r Blodau; a ymwelasom A natur wedi ei gorchuddio â'r dychrynfeydd dyfnaf, a'i gwisgo yn y tegwch godidoccaf. Aralleg a ddysgodd lawer o'r gwrthddrychau i lefaru iaith rhinwedd; tra benthyciai dychymmyg ei lliwiad, i roddi agwedd ynnillgar i'r gwersi:—a hyn gyda golwg ar efelychu yr Addysgwr Dwyfol, yr hwn a awdurdododd y lili,* yn ei gwisg ariannaidd, i ymddadleu yn nghlust rheswm anghrediniol; yr hwn a ddanfonodd ei ddysgyblion (dynion wedi eu gosod i ddysgu'r bydysawd) i ddysgu gosod-edigaethau o'r pwysfawrogrwydd mwyaf, oddiwrth yr adar* diystyraf a grwydrant trwy lwybrau yr awyr, oddiwrth y llyisiau* gwaelaf a wasgarwyd dros wyneb y llawr.†

* Mat. vi. 26, 28, 29, 30.

† Sylwyd fod gan ysgrifenywyr clodfawr, megis Demosthenes, Cicero, Thucydides, a Livy, ddull penodol iddynt eu hunain.—Yn awr, pwy bynag a ystyrio ymadroddion Crist, a'i gwel ef yn gwahan-nodi ei hun trwy ddull, a ellir yn briodol ei alw yn *eiddo ei hun*: yn fawryddig, etto yn gynnefin; yn dedwydd uno urddas ag ymostyngiad; mae yn gynnwysedig mewn dysgu i'w ganlynywyr y gwirioneddau uchaf, trwy ysbrydoli y damweiniau mwyaf cyffredin: yr hyn, heblaw ei fod yn gydwastad â'r amgyffrediaidau isaf, ac yn rhyfedd gymhwys i ymledrattau ar y galon fwyaf diaylw, sydd â'r faintais dra neillduol hon yn cydfyned â hi, sef ei bod yn troi holl gylch gorchwylion yn ysgol addysg; ac yn gwneuthur y pethau mwyaf arferol yn rhes o ddysgawdwyr, bob amser yn efyndu ein sylw, gan eu bod bob amser ger ein bron.—Fel y gellir, yr wyf yn credu, dywedyd am y drefn hawddgar hon ymha un y trosglwyddai ein Harglwydd, yn gystal a'r awdurdod nerthol oedd yn cydfyned â'i athrawiaethau, na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.—A'r cynhauaf yn agoshau, mae efe yn galw ei ddysgyblion i gof am gynhauaf llawer mwy pwysig, Ioan iv. 55. Mat. xiii. 39.

Gwedi fy hyfbau trwy dderbyniad caruaidd y traethodau blaenorol, yr wyf yn crefu cennad i ymddiried yn yr un archwaeth dirion, am noddod a chynnaliaeth i'r rhai canlynol; y rhai a arddangosant olygiad o fywyd tawel, a gweithbrediad rhwysgus; y rhai a ysbrydolant ar yr ymddangosiadau llonyddaf a mawryddicaf o bethau:—yn y rhai goddefir i ddychymmyg etto ddwyn i mewn ei harluniaeth, ond yn unig fel llawforwyn gwirionedd; mewn trefn i wisgo ei berson, ac amlygu ei hawddgarwch; i rwymo sylw, ac ynnill cariad yr hoyw a'r cynnefodol: yr hyn sydd yn debyccach o gael ei wneuthur, trwy ffurfio darluniadau hyfryd o natur, a thynu sylwadau addysgiadol, nâ thrwy y drefn lafurus o resymiaid hirion, a dadleu-aeth gyssylltiedig. Ystyriaethau ar y nefoedd a'r ddaear, ar eu priodoliaethau rhyfeddol; a'u cyfnewidiadau daionus, a weiniasant, bob amser, y boddiadau mwyaf dyrchafedig i'r meddwl dynol. Mewn cydsyniad â'r archwaeth lwyddiannus hyn, myfi a dynais fy nghynghorion difrifol oddiwrth chwareufa aruthr, a darlunfa frithiog y bydysawd; fel y dysgai y darllen-ydd ei ddyledswydd oddiwrth ei hyfrydwch—y casglai ddoethineb, yn gymmysgedig â rhinwedd, oddiwrth y boddiadau puraf, a'r hyfrydwch ardderchoccaf.

pan fedir bodau anfarwol o'r bedd, ac y cesglir hwynt o bedwar cwr y ddaear: pan ddwg pob creadur dynol gymmeriad gwenith gwerthfawr, neu efrau diystyrylyd; ac yn ol hyny y llettyir hwynt mewn trigfanau o dragywyddol ddiogelwch, neu y traddodir hwynt i gynddaredd tân anniffoddadwy.—Yn ei orchymyn i bysgotwyr, pan maent yn dechreu pregethu, Mat. iv. 19. yn gyson â natur eu galwedigaeth flaenorol, mae efe yn eu hannog i ddefnyddio yr un dyfalwch a medrusrwydd i ynnill eneidiau, ag a arferent i ddal yr ysglyfaeth gennog.—Am eglurhad ychwanegol ar y testyn hwn, nid llai defnyddiol, nâ chywraint, myfi a gyfeiriwn y darlennydd at nodiad gwerthfawr yn sylwadau Syr Isaac Newton ar y Prophwydoliaethau, tudal. 148, argraffiad 4-plyg.

Mae'r hwyr, gan ledu ei sachliain dros y byd, ac araf dywyllu yn nos, yn dymhor neillduol i ystyriaeth tawel. Mae pob amgylchiad yn cyd-dueddu i lonyddu ein nwydau, a difyru ein gofalon; i hudo ein camrau ar lled, a chyffroi ein meddyliau i fyfyrdod ddifrifol.

— Dyna'r pryd, i'r rhai

A garant natur a doethineb wiw,
I gilio o blith y ddirywiedig dorf,
A hedeg fry uwchlaw teganau'r byd :
I sathru gwyd iselfryd dan eu traed ;
Llonyddu'r nwydau blin dyheus i hedd ;
Ac ymgais am dawelwch, bell o'r twrf.

Thomson ar yr Hydref.

Y gymmwynas a erfyniwn i'r blaenaf o'r cyfansoddiadau hyn, yw, fod iddo gael caniattad i weini yn y rhodfeydd unig ac ystyriaethol a ddesgrifia : i weini, os nid dan nodweddiad cyfaill, o leiaf yn agwedd isel gwas, neu lengcyn :—fel gwas i agor y drws i fyfyrdod, a symmud pob rhwystr oddiar ffordd y gweithrediadau goreu hyny o eiddo'r meddwl, y rhai a unant fantais â difyrwch, ac a leshant wrth hyfrydu :—fel llengcyn, i gasglu pwrffil ansafadwy a ffrydiol dychymmyg ; a chrynhoi ei galluoedd anwadal i agwedd gyson, reolaidd, a defnyddiol o feddwl.

Y llall, yn gyfarwydd yn y talaethau serenog, a fynai arwain y ddychymmyg trwy y gororau prydfferth hyny o lasar digwmwl ; a nodi i'r dealldwriaeth rai o'r pethau rhyfedd nodedig hyny, y rhai a hynodant y byd nefol mor odidog. Golygfa yw hon, at ba un y mae cywreirwydd yn tynu ein llygaid, a'r ysgrythyr ei hun yn cyfeirio ein myfyrdod : golygfa tu hwnt i ddim arall wedi ei chyfaddasu i eangu yr enaid, ac ardderch-

ogi yr amgyffred:—i roddi yr ystyriaeth uchaf am y tragywyddol Dduw, ac i greu syniadau o ddifaterwch gweddus o bob daioni darfodedig;—mewn gair, i gynnysgaeddu ffydd â'r sail gadarnaf am ymddiried diysgog, a gwir fawrfrydigrwydd ysbryd; i roddi i dduwioledeb yr annogaethau cryfaf am ddiolchgarwch gwresog, ac addoliad dwfn.

Tra codo Galilæo ei ddrych, gan ddarganfod maint-ioli aruthr y pelau dysclaer;—tra mesuro Newton eu pellderau rhyfedd, gan uno'r cyfan yn gyfundrefn gynghaneddog, trwy ddylanwadau manylion tyniad;—ni wnawn i ond yn unig, fel y cyboeddwr o flaen yr Hebrewr ardderchog, (Gen. xli. 43.) llefain gyda phob tro, “Plygwch y glin, ac addolwch y Gwneuthurwr Hollalluog; mawrygwch ei enw tragywyddol, a gwnewch ei fawl, fel ei holl weithredoedd, yn ogoneddus.”

YSTYRIAETHAU

AR

Y NOS.

GORCHWYLION y dydd wedi eu gorphen, a'r gwres mwrn wedi lleihau, a'm gwahoddent i ymddifyru mewn rhodfa; rhodfa yn un o giliau tlysaf yr ardal, ac ar un o'r prydawnau teccaf yn nhybor yr haf hir-felyn.

Y pisgwydd a'r llwyfwydd, gan uno eu canghenau uwch fy mhen, a ffurfient ortho gwyrddlas, ac a daflent y cysgod mwyaf adfywgar. Dan fy nhraed yr oedd llawr-len o felfed natur; glaswellt wedi ei gymhlethu â mwsogl, a'i frodio â blodau. Y siasmin, mewn cyssylltiad â'r gwynwydd, a ymglymai am y coedydd, gan arddangos ei degwch didwyll i'r llygad, a thywallt-melusderau danteithiol trwy yr awyr. Ar bob tu, y ceingciau wedi eu cylchu i res o fwâu rheolaidd, a agorent welediad i'r maesydd o amgylch, ac a arddangosent olygfa yr wybrenau crymedig. Yr adar mân, yn llawn llawenydd a diolchgarwch am ddoniau y goleuni, a dalent eu cydnabyddiaeth mewn teyrnged o gynghanedd, ac a ddifyrent eu hunain i orphwys â'u caniadau; tra yr arllwysai corn Ffrengig, oddiwrth balas cymmydogol, ei accenion soniarus, wedi eu nawseiddio gan bellder eu tramwyfa, i berffeithio cydgerdd y goedwig.

Wrth grwydro yn y modd boddhaol hyn, rhedai fy meddyliau ar destyn mwy boddhaol etto; sef ein

buddugoliaeth enwog ddiweddar ar nerthoedd unedig bradwriaeth gartrefol, a rhuthrgyrch tramor; buddugoliaeth, yr hon sydd yn tywallt gorfoledd trwy yr oes bresenol, ac a drosglwydda ei heffeithiau i genhedlaethau heb eu geni etto.—Onid yw yr holl fendithion a allant anwylu cymdeithas, a gwneuthur bywyd yn ddymunol, wedi eu canoli yn ein cyfansoddiad dedwydd presenol, a'n llywodraeth lwyddiannus? Oni chynnygwyd atynt oll yn yr ergyd ysgeler ac echryslawn hwnw, a fyfyrwyd yn Rhufain, a annelwyd gan Ffraingc, ac a gefnogwyd gan ysbryd ymbleidgar gartref? Pwy, ynte, all fod yn ddigon diolchgar am gyfryngiad grasol Rhagluniaeth; yr hon, nid yn unig a drodd heibio y dinystr bygythiol, eithr a'i dymchwelodd, gyda chythrudd ychwanegol, ar ein hafonyddwyr eu hunain?

Mi dybygwn fod pob peth gwerthfawr wyf yn feddu, pob peth hyfryd wyf yn ganfod, yn cyttano i fawrygu y dygwyddiad gwiwgof hwnw. I hyn y mae yn ddyledus fy mod yn gallu rhodio, heb fy aflonyddu, trwy lyn bywyd isel, a phrofi difyrwch diniwed ymneillduad myfyrdodol.—Pe llwyddasai gwrthryfel* yn ei ddybenion atgas, yn lle rhodio mewn diogelwch a chymmodlonedd hyd y llwybrau blodeuog hyn, gallaswn gyfarfod â'r llofrudd a'i gleddyf, neu fod yn rhwymedig i adael fy mhreswyl, a "chofleidio craig am ddiiddosrwydd."—Yn iach, yna, chwi gysgodau peraidd, trigfanau fy myfyrdod, a'm gorphwysdra dawel! gyrasid fi o'ch llochesau hoff chwi, i roddi lle i ryw orchfygwr

* Gan gyfeirio at y gwrthryfel, a osodwyd ar droed yn y flwyddyn 1745; yr hwn, dros amryw fisoedd, a wnaeth gynydd aethus iawn yn y gogledd; ond a ddiffoddwyd yn ddedwydd yn y frwydr ogoneddus a phenderfynol yn Culoden.

gwaedlyd a sarhaus.—Yn iach, yna, chwi drafferthon boddhaol, a difyrwch iachus fy oriau maesoll! Ni chawswn i mwy godi'r blodenyn tyner i'r haul, ddim mwy ddysgu'r aeronwydd i ledu eu ceingciau; na byth mwy gyrhaedd, o'm gardd lysiau, angenrheidiau puraf iechyd.

Pe llwyddasai gwrthryfel yn ei ddybenion atgas, yn lle cael fy ngwledda â pheroriaeth y coedydd, gallaswn gael fy nychrynu gan sain yr udgorn, a holl daranau rhyfel; yn lle cael fy hyfrydu â'r olygfa hyfrydlawn hon, gallaswn weled ein tai yn cael eu hysbeilio, a'n pentrefi yn cael eu hanrheithio; gallaswn weled ein dinasoedd caerog yn cael eu hamgylchu & byddinoedd, a'n maesydd toreithiog yn cael eu "gwisgo ag anghyffannedd-dra;" neu gael fy mrawychu gan y golygfeydd mwy arswydus byth o "wisgoedd yn gochion gan waed," a llafn y cyflafanwr yn mygu o galon brawd. Yn lle heddwch, a'i holerwydd siriol yn cysgodi ein preswylfeydd; yn lle cyfiawnder, a'i chlorian ddiuedd yn diogelu ein meddiannau; erledigaeth yn ysgwyd ei chleddyf, a chaethiwed yn olecian ei chadwyni.

Nid ffugiau disail lledfrydedd yw y gofidiau hyn. Nage; mae rhai, mewn teyrnas gymmydogol, a'u teimlasant yn ddiweddar iawn yn eu holl lyndra.* A phe ymwithasai ysbryd cynddeiriog Pabyddiaeth i'n beglwyn; pe agorasai honwr gwrthodedig ei ffordd i'n gorsedd; pa reswm fuasai genym i ddysgwyl

* Gwel lyfryn bychan, a elwir *Popery always the same*, (Pabyddiaeth yn wastad yr un;) yr hwn a gynnwys hanes yr erledigaethau a'r caledi llym a ddyoddefodd y Gwrthdystwyr yn ddiweddar yn rhanau deheuol Ffrainc; a'r hwn sydd yn dibenu gydag anerchiad prydlawn, cyffrous, a bywiog i drigolion Brydain Fawr. Atgraffwyd yn 1746. Gwerth wyth geiniog.

esmwythâd o'u gerwindeb ar ein rhan ninnau?—Ond, a chaniattau y buasai tyner dosturiaethau trawsfedd-iannydd dallbleidiog rywfaint yn llai creulawn; etto, pa le buasai calondid i wrteithio ein rhandir fechan; neu pa hyfrydwch allasai godi oddiwrth fan achlesedig; pe buasai y naill a'r llall yn gorphwys, bob munud, wrth drugaredd gallu digyfraith? Yr amgylchiad chwerw hyn a'u hamddifadai o'u blas; a thrwy eu gwneuthur yn ansicr, a'u gwnai yn gaffaeliad dilaw-enydd.—Yn ofer gallai'r winwydden daenu ei sypiau porphor; yn ofer gallai fod yn afradlawn ar ei sudd haelionus: os chwyfiai gormes, fel rhyw ddera gignfreiniog, yn barhaus uwchben y cwpan, gan fod yn barod i'w dynu oddiwrth wefus diwydrwydd, neu ei gipio o law rhyddid.

Rhyddid, yr anwylaf o enwau; a meddiant, y freinsgrif benaf; a ychwanegant ragoroldeb annhraethol at bob gwrthddrych hyfrydlawn.—Gwelwch, fel y mae'r haul ar fachlud wedi harddu'r cymhylau gorllewinol; wedi eu gwisgo mewn ysgarlad, a'u hymylu ag aur! Y cyfryw berffeithiad o'n gwynfyd teuluaid, yw meddiant; y cyfryw wellhad o'n breiniau cyhoedd, yw rhyddid.—Pan dyno llusern y dydd ei belydr yn ol, bydd yr un cynnulliad hynawf o darth yn aros; ond O! mor wael, mor dywyll! Y llinellau cigwawr a ddiflanant; yr ymylwaith aur a dreulia ymaith; a'r holl liwiau hawddgar a gollir mewn prudd-der plymliw cadduglyd. Y cyfryw fyddai pryd y golygfeydd hyn o degwch, a'r holl drigfanau hyn o hyfrydwch, pe trefnid hwynt yn barhaus gan wammalrwydd trawsawdurdod, neu pe delid hwynt mewn sefyllfa o ymddibyniaeth wael ac ymsorllach.

Y mae'r haul ar orphen ei yrfa feunyddiol, ac yn prysuro at y nod. Y mae efe yn ymostwng is-is, nes yw olwynion ei gerbyd yn chwareu ar ymyl eithaf yr wybren. Yr hyn sydd dra hynod; mae rhod y goleuni, pan ar fachlud, yn cynnyddu yn llawer llettach; a chysgodau pethau, pan ar ymgymmysg â'r tywyllwch aneglur, yn ymestyn yn ddirfawr :*—fel bendithion, na phrisid ond ychydig, tra mwynhëid hwynt; ond y gwneid cyfrif mawr o honynt, ar y funud y parottoent i ffoi; ac y gofidir yn chwerw ar eu hol, pan unwaith y ciliant, fêl nas gwelir hwynt mwyach.

Y mae'r belen ddysclaer, yn awr, wedi hanner gilio dan y ddaear dywyll; neu, fel y dywed yr hen brydyddion, yn saethu i'r weilgi, ac yn suddo i fôr y gorllewin.—A phe gallwn ganfod y môr, yn awr, efe a weinyddai olygfa o'r fwyaf difyrus a chywrain. Y pelydr, yn taro yn wastad ar yr elfen hylif, a barant iddo ymddangos fel gwydr nofiadol; neu, gan gael eu hadlewyrchu i wahanol gyfeiriadau, a ffurfiant amrywiaeth hardd o liwiau.—Dyeithrddyn, wrth rodio ar hyd y làn dywodlyd, mewn dwfn fyfyrddod, a glustymwrendy â thwrdd y llif aflonydd, ac a synir yn foddhaol gan addurniadau tég ei arwyneb. Gyda hyfrydwch a rhyfeddod, mae efe yn gweled y tònau crychneidiog, yma yn llewyrchu mewn gwyn, yna yn ffamio gan borphor; mewn un man yn gwisgo gwawr lasar, mewn man arall yn araf chwyddo mewn gwyrddni tòn-liw; a'r cwbl yn arddangos darn o ddarlunfa hylif, a ddi-chon gystadlu â'r teisbanau dibynol accw, er wedi eu gwneuthur yn ngwýdd, a'u trwytho yn lliwiau, y nef.

* Majoresque cadunt altis de montibus umbrae. *Virg.*

Tra yr wyf fi yn cael fy nhrosoglwyddo gan ddychymmyg i làn y môr, y mae'r goleuad mawr yn soddi islaw y terfyngylch, ac yn llwyr ymadael. Y mae holl wyneb y llawr wedi ei orchuddio â chysgodau; neu, â'r hyn a eilw un o ddarlunwyr penaf natur, yn dywyllni gwineulwyd. Dim ond ychydig iawn o'r uchelfeydd bân a drwythir â'r arian llifeiriol. Brigau y coedydd, a'r tyrau uchel a ddaliant wenau olaf y dydd;* ac a lewyrchir fyth gan y pelydr ymadawgar. —Ond, O! mor ddarfoddedig yw eu rhagoriaeth! mor fyr-hoedlog yw y rhodd! Fel pob bendith a fwynha marwolion isod, mae yn cilio agos cyn gynted ag y mae yn cael ei chyfranu. Gwelwch, mor llesg y mae yn crynu ar y brigyn deiliog, ac yn llygedenu, gyda gwendid marwol, ar ael y bryn. Y mae'r ychydig fywiogrwydd sydd yn ol yn diflanu bob eiliad. Ni all ddal yn hwy. Tra yr wyf etto yn llefaru, y mae yn trengu, ac yn traddodi'r byd i ymdaeniadau graddol y nos.

————— Yn awr y cyfnos llwyd
Ddillada'r cyfan yn ei ddirif wisg.†

Ys ennyd yn ol, yr oedd pob gwrthddrych yn tanbeidio gan oleuni; ond, yn awr, mae'r cwbl yn ymddangos mewn llewyrch mwy tymherus. Y mae'r anifeiliaid yn cyttuno â'r grëedigaeth ddideimlad: a'r hyn oedd yn hoenus yn y rhei'ny, yn gystal a'r hyn oedd yn hardd yn hon, a roddant le i ddirifwch cyffredinol. Yn y dolydd, yr oedd pob peth yn llon

* Gwelwch yr ymddangosiad hwn yn cael ei ddesgrifio yn hyfedr, a'i weithio i gynhariaeth, yr hon, yn fy nhyb i, sydd yn un o'r darnau cywiraf, prydferthaf, ac ardderchoccaf o ddarluniaeth, a geir mewn prydyddiaeth ddiweddar; *Night Thoughts*, No. ii.

† *Milt. Par. Lost*, book iv. l. 598.

a difyr; ond yn awr yr ŵyn chwareugar a flinasant ar eu difyrwch, a phib-goed y bugail lluddedig a ddystawodd. Yn y canghenau, yr oedd pob peth yn boen a cherdd; ond yn awr y gwyrddni bywiog a blygwyd mewn tywyllwch ymdaenol, a'r cerddi soniarus ni ehlywir mwy, namyn y guddan brudd-lais yn cwynfan yn alarus trwy y goedwig.—Pe byddwn yn ofer ac ysmala yn awr, y nefoedd a'r ddaear a gydgeryddent fy ysgafnder anghymmig! Gan hyny, cyflwyner fy munudau i feddyhiau, tawel fel terfyniad y dydd; pwysig, fel wyneb natur. Ac, yn wir, pa fodd bynag y bywioger fy oriau cymdeithasol a difyrwch diniwed, bydded i bob hwyr, yn ei galarwisg, wrth gnullio ymadawiad y dydd, fy ngalw i ystyriaeth ddiifrifol. Ni all dim fod yn fwy gweddus i un sydd yn rhodio ar gyffiniau tragywyddoldeb, ac yn prysuro yn barhaus i roddi ei gyfrif olaf i mewn, nag ymledrattau yn fennyddiol o gylch ymddifyriadau, a gadael ffwrst trafferthon bydol yn aml, er mwyn ystyried a threfnu y “pethau a berthynant i'w heddwch.”

Gan fod yr haul wedi ymadael, pa beth all fod yr achos nad ydym wedi ein goblygu mewn caddug pyglyd? O ba le mae'r gweddillion hyn o lewyrch treiedig? y rhai, er mae prin y maent yn ffurfio dysclaerdeb, a dynerant ac a ddyddanant erchyllderau y nos. Nid wyf yn gweled y rheolwr ysplenydd, etto siriolir fi gan gyfranogiad gwirioneddol, er mai gwan ydyw, o'i danbeidrwydd.—A yw efe yn ein cofio ni yn ei hynt trwy wledydd ereill? A yw efe yn anfon byddinan o'i belydr i'n hymgeleddu yn ei absenoldeb, neu (os gallaf arfer yr ymadrodd milwraidd) i ganymdoi ein henciliad o faes yr ymdrech? A yw efe

wedi cymmyno i ni gyfran ddigonol o'i belydr, i wneuthur ein hamgylchiadau yn esmwyth, a'n sefyllfa yn foddhaol, nes tywallto cwsg ei ormes araf dros beiriannau ein synwyr, ac y llwyr ddileo bob angenrheidrwydd am oleuni ymhellach?

Na: byddai yn gamsyniad afresymol priodoli yr ymddygiad hwn i'r haul. Nid iddo ef, nid iddo ef, ond i'w Wneuthurwr Hollalluog, yr ydym yn rhwymedig am y gweinyddydd hyfryd hyn, a'r cymmyn gwerthfawr yma. Y mae Awdwr grasol ein bodoliaeth wedi trefnu y cynnulliad o awyr gylchredol yn y fath fodd, ag i'w wneuthur yn gynnyrchol ar yr effaith ryfedd a dymunol yma. Yr heul-byst, y rhai a gwypant ar ranau uchaf yr hylifedd awyrol, yn lle myned rhagddynt yn uniawn, a droir i mewn, ac a dywysir i'n golwg ni. Eu rhediad naturiol a oruwchreolir, a pherir iddynt chwyldroi o amgylch, i'r dyben i ymweled â ni mewn modd buddiol a groesawus.— Fel hyn, estynir bendith y goleuni, a thymhor gorchwylliaeth: a pheth tra dymunol, estynir ef fwyaf, pan fyddo gwres angerddol yr haf yn tueddu y myfyriwr i oedi ei rodfa, nes cymmero'r hwyr dymherus le, a phan mae gwaith pwysfawr y cynhauaf yn galw y llafurwr allan cyn y llwyr godo'r dydd.

Ar ol holl wres mwrn y dydd, mor adfywiol yw'r goerder hyn!—Hwn sydd yn rhoddi gwyrddni adnewyddol i'r planhigion, oeddynt ar grino; bywiogrwydd adnewyddol i'r blodau gwywedig; a phereiddiach cyssewyr i'w haroglau cymmysgedig.—Trwy hwn, y mae'r awyr hefyd yn derbyn grym adnewyddol, ac yn cael ei haddasu i ymegnio, gyda mwy o weithgarwch; yn cael ei haddasu i graffu ein gliniau, a chwyddo ein

bysgyfaint, ac i gydweithredu, gyda chyffroad hoenusach, yn mharhau cylchrediad ein gwaed.—Gellir galw hwn yn ddistyll mawr natur, yr hwn sydd yn dyhidlo ei feddyglyn mwyaf difeth, sef y gwllith adfywiol. Gwres dibaid a'n hysbeiliai o'i effeithioldeb daionus, ac a barai iddo anweddu yn fygdarthiadau annirnadwy. Gwyntoedd tymhestlog, neu hyd yn oed cyffroadau arafach gwyntyll y wawrddydd, a chwalent y tARTH wrth godi, ac ni oddefent iddo ymgydio: ond, trwy rinwedd llonyddwch ac oerni'r nos, y mae yn ymuno yn ddefnyddau grisialaidd; ac yn cenedlu yr ireidd-dra tymberus hwnw, yr hwn sydd yn sirioli y byd llysiuog, fel y mae cwsg yn llawenychu yr eneidol.

Nid annhebyg i hwn yw manteision neillduaeth. Môr tymhestlog yw'r byd; a phwy eill godi bwriadau safadwy ar ei dônau aflonydd? Ysgol camwedd yw'r byd; a phwy nid yw yn teimlo ei hun yn gŵyro gyda'i dylanwadau niweidiol?*

Ar y môr hwn o wydr,† mor annirnadwy yr ydym yn llithro oddiwrth ein dianwad-alwch! Mae rhyw wirionedd sanctaidd, a ysgrifenasid mewn llythyrenau bywiol ar ein heneidiau, yn cael ei dywyllu, os nid ei ddileu. Rhyw benderfyniad teilwng, a weithiasai y nef yn ein mynwesau, yn cael ei siglo, os nid ei ddymchwelyd. Rhyw wagedd hudoliaethus, â'r hwn yr ymwadasem yn ddifrifol, drachefn yn arfer ei ddichellion, drachefn yn caethiwo ein serchiadau. Mor fynych y mae tremiad anochelgar wedi ennyn twymyn o chwant afreolus yn ein calonau! Mor

* Nunquam à turbâ mores, quos extuli, refero. Aliquid, ex eo quod composui, turbatur: aliquid, ex his, quæ fugavi, redit. Inimica est multorum conversatio. *Seneca.*

† Dat. xv. 2.

fynych y mae gair o glod wedi dyferu gwenwyn melus i'n clustiau; neu ryw ymadrodd am barchus wedi codi cythwm o nwyd yn ein mynawesau! Mae ein diniwsidrwydd o gyfansoddiad mor dynet, fel y mae yn dyoddef yn y dorf gymmysg; mae ein purdeb o weddliw mor fanyl-dêg, fel mai priu y cyffyrdda â'r byd heb gael ei lychwinio. Yr ydym yn gweled, yn clywed, gyda pherygl.

Yma mae diogelwch yn trigfanu: pob rhwystr ac ymyraeth ymwithgar a gaeir allan. Mae dystawrwydd yn dal y drws yn erbyn cynnen tafodau, a holl chwalod ymddiddanion difudd. Heidiau ffwdanus cyfrithiau gau, a hudoliaethau llithgar, y rhai a'u hamgylchant â'u taerni sisialaidd, ymblyth coegni bywyd, a yrir oddi yma gan y cysgodau tewion.—Yma, heb un afonyddwch, gallaf ymddiddan â'm calon fy hun, a dysgu'r wybodaeth oreu, sef adnabod fy hun. Yma gall yr enaid alw i mewn ei holl alluoedd gwasgaredig, a gras adnewyddu ei nerth cyssefin, —Dyma'r cyfleusdra i unioni pob drwg argraff, bwrw allan y gwenwyn, a gwylio yn erbyn llygriad ang-hreiffiau halogedig. Dyma lle gallaf ymosod yn llwyddiannus ar y gorchwyl o ddarostwng y gwrthryfelwr o'm mewn; a bod yn arglwydd, nid ar deyrngadair, ond arnaf fy hun.—Ymgyrwrch, ynte, chwi uchelgeiswyr, i gynniweirfâau y rhai goludog; myfi a fyddaf yn fanwl i gyflawni fy amseroedd penodol i neillduaeth. I feddwl awyddus am ddiwygio ei hun, mae mewn neillduaeth swynion annhraethol fwy dengar nâ difyrwrch y chwareudy, neu unrhydedd y ddarlun-gell.

Mi a ddywedais neillduaeth.—A ydwyf fi yn unig,

ynte?—Gwir, mae fy nghydnabod yn anghyfagos; mi a ymledratteis o gyfeillach, ac yr wyf ymbell oddi wrth sylw dynion.—Ond meddwl cyffrous yw hwnw:

Ysbrydol fodau, 'n anweledig, fyrrd,

Ai cwsg ai effro ni, a rodia'r llawr.*

Fe allai fod lluoedd o'r bodau anweledig hyny yn cylchwylio'r gilfach hon, ac yn ymuno â mi i fyfyrio ar weithredoedd y Creawdwr. Fe allai fod yr ysbrydion gwasanaethgar hyny, y rhai sy'n llawenyachu yn nychweliad pechadur, ac yn cynnal mynediad y cyfawn, yn ein canlyn i'r lloches unig; ac hyd yn oed yn ein munudau mwyaf neillduedig, yn weinyddwyr cyson arnom.—Y fath ddychryn boddhaol mae'r cyfryw ystyriaeth yn ddeffroi! Mor hybarch mae yn gwneuthur fy rhodfa ymneillduedig! Yr wyf yn cael fy llanw â pharchedigaeth, fel dan grommen rhyw adail gyssegredig, neu yn ystafell ymweliadol rhyw deyrn galluog.—O! na bydded i mi byth ddwyn dim balchder dychymmyg, neu feithrin y duedd halogedig leiaf, lle mae ysbrydion mor bur a dyrchafedig yn cynnal eu gwyliadwriaeth!

Dichonadwy yw, fy mod yn cael fy amgylchu â'r fath gwmwl o dystion; ond sier yw, fod Duw, yr anfeidrol a'r tragywyddol Dduw, gyda mi yn awr ac yn dragywydd. Y mae'r Jehofa mawr, ger bron yr hwn mae'r lluoedd angylaidd yn plygu eu penau, ac yn cuddio eu hwynebau, yn fy amgylchu, fy nghynnal, a'm treiddio trwof. "Ynddo ef yr ydwyf yn byw, yn symmud, a bod."—Y mae'r holl fyd yn deml urddedig iddo; ac yn y gongl fwyaf unig, yr wyf yn ymddangos o flaen ei Fawrhydi addoladwy; mor amlwg a phan

* Milt. Par. Lost, book iv. l. 677.

fyddwyf yn addoli yn ei dŷ, neu yn plygu fy nghlinwrth ei allor. Ymhob man, ynte, bydded i mi dalu iddo ef y deyrnged o galon wedi ei glanhau oddiwrth eilunod, a'i chyflwyno i'w wasanaeth. Ymhob amgylchiad, na bydded i mi deimlo yn uchelgais, ond rbyngu ei fodd; na thrachwantu unrhyw ddedwyddwch, namyn ei fwynbau.

Mor odidog yw y desgrifiad, ac mor nodedig yr ymadrodd, yn y gyfran ardderchog hōno o'r Psalman! "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd? Os dringaf i [uchelderau] y nefoedd, yno yr wyt ti, [wedi dy orseddu mewn goleuni:] os cyweiriaf fy ngwely yn [nyfnderoedd] y bedd, wele di yno, [yn mhabell y tywyllwch:] os ymgiliaf [i wledydd pellaf y dwyrain,] lle mae'r wawr yn cymmeryd ei hadenydd gyntaf;" os, yn gyflymach nâ'r pelydr melltenog, tramwyaf i ororau gwrthgyferbyn y gorllewin, "a thrigo yn eithafoedd y môr;"* a allaf fi, yn y sefyllfa anghysbell hōno, fod tu hwnt i'th gyrhaedd; neu, trwy y mynediad disymmwrth hwn, ddiangc dy sylw? Mor bell oddiwrth hyny, fel pe gallwn, ar un tarawiad meddwl, drosglwyddo fy hun tu hwnt i holl gyrau y grëedigaeth, amgylchid fi yn barhaus gan annherfynoldeb dy hanfod; neu, yn hytrach, cuddid fi yn ngheudod dy law.—O! wirionedd ofnadwy, etto cysurlawn! Cymblether ef â phob meddwl, a chydier ef yn un â'm bodoliaeth! fel y gallwyf yn barhaus "rodio gyda Duw," a thywys fy hun trwy

* Psal. cxxxix. 7, 8, 9. Yr wyf yn meddwl fod grym a harddwch ychwanegol yn y meddwl, os caniattawn ni, gyda'r dysgedig Mr. Mudge, fod cyferbyniaeth rhwng y ddau raniad yn yr adnod olaf, fel y mae yn amlwg ei fod yn yr un ragflaenol iddi; a'u bod yn gosod allan, mewn iaith brydyddol, eithafoedd y dwyrain a'r gorllewin.

bob cam o'm hymddygiad, fel "yn gweled yr anweledig."

Hwynt-hwy yw y bobl ddedwydd. Gwynfyd, gwir wynfyd, sydd oll yn eiddynt hwy, y rhai sy'n byw dan ystyriaeth reddfól o hollbresenoldeb Duw, a cbrediniaeth felus o'i gariad neillduol. Os bygythia peryglon, mae eu hamddiffyn anorchfygol wrth law. Ni all dim fod mor agos i'w dychrynu, ag yw eu Ceidwad hollalluog i'w diogelu.—Ni all yr oriau byth fod yn feithion i'r rhai hyn, ac y mae yn annichonadwy iddynt fod yn unig. A ydynt hwy yn rhoddi gorchwylion y bywyd hwn heibio? Mae gofalon mwy dyrchafedig yn llanw eu bryd. Y maent, yn holl amryw weithredoedd duwioldeb, yn cyfarch eu Tad nefol, yr hwn, yn awr, "a wél yn y dirgel," ac, ar ol llaw, "a dâl yn yr amlwg." Maent yn lledu eu holl anghenion ger bron ei lygaid hynaws, ac yn dilwytho eu holl ofidiau i'w fynwes gydymdeimlgar.—A ydynt hwy yn ymneillduo o gyfeillach dynion? Maent yn cael eu hunain dan sylw mwy uniongyrch eu Gwneuthurwr. Os ydynt yn rhoddi heibio ymfoddiadau cyweithas cymdeithasol, maent yn gwneuthur selly er mwyn meithrin cynnadedd â'r Duwdod ymostyngar, a phrofi melusderau cyfeillach ddwyfol.—Pa beth yw'r fath sefyllfa, ond pyrth y nef? Pa beth yw'r fath ymddygiad, ond blaenbrawf o'r gwynfydedigrwydd tragwyddol?

Yn awr, fy enaid, mae'r dydd wedi darfod. Y mae'r oriau oll wedi ffoi. Maent wedi ffoi at y Barnwr goruchel, a chwedi rhoddi i mewn eu tystiolaeth; tystiolaeth a gofrestrwyd yn y nef, ac a ddygir ymlaen yn y cyfrif mawr.—Dedwydd ydynt hwy! y rhai mae eu diwygiad wedi cydgerdded â'r munudau hedegog;

y rhai a afaelasant yn y ffoaduriaid pwysfawr, ac a'u defnyddiasant i chwilio am ddoethineb; neu a'u cyflwynasant i wasanaeth rhinwedd.

Ffoaduriaid ydynt yn wir. Mae ein munudau yn lithro ymaith yn ddystaw ac annirnadwy. Nid yw'r lleidr yn lledratta ya fwy disylw o'r tŷ ysbeilliedig.—Ac oni fydd i'r ymgilwyr byth aros? Na fydd: pa le bynag y byddom ni, a pha beth bynag y byddom yn ei gylch, mae amser yn dilyn ei redfa yn ddibaid. Er i ni fod yn ddiotal a hwyrfrydig, mae Mesurydd mawr ein dyddiau yn brysio, yn brysio'n barhaus, ar ei hynt ddiifino;* ac yn chwyldroi ein hwythnosau, ein misoedd, a'n blyneddau, ymaith.—Onid yw yn beth rhyfedd ddyeithr, ynte, glywed dynion yn achwyn ar feithder eu hamser, ac mor drwm y mae efe yn crogi ar eu dwylaw? Eu gweled yn trefnu mil o ffyrdd difyrus i gyflymu ei ffoedigaeth, ac i ryddhau eu hunain oddiwrth y baich?—Ah! farwolion anystyriol! pa raid i chwi gymhell y firwd chwyrnyllt? Mae eich dyddiau yn gyflymach nâ rhedegwr, yr hwn, gan ddwyn cennadwri o'r pwysfawrogrwydd mwyaf, sydd yn carlamu ei ffordd gyda brys diattal. Y maent yn myned heibio fel llongau buain, y rhai, a'r gwynt yn eu hadenydd, a ysgafn hedant dros y gwastadedd dyfrhyd. Maent yn prysuro at eu terfyn, gyda chwyrnder eryr, yr hwn a âd y gwynt tymhestlog o'i ol, tra hylt efe yr awyr, ac y rhuthra ar ei ysglyfaeth.†

* Sed fugit interea, fugit irreparabile tempus. *Virg.*

† Job ix. 25, 26. Trwy y tair cyffelybiaeth tra darluniadol hyn, y gesyd y prydydd ysbrydoledig allan, hediad cyflym a diaros amser. Eglurheir y gyfran, gyda deall a phrydferthwch cyfartal, yn nhablyriad cynnilaf Dr. Grey o Schultens.—*Quæ tribus in elementis velocissima, hic admirabili cum emphasi congeruntur. In terris, nil peracius*

Yn awr, pan mae'r dydd wedi myned, fyred mae yn ymddangos! Pan oedd fy llygad awyddus yn ei weled ymlaen, edrychai yn hir. Munudan yn tŷru ar funudau, ac oriau wedi eu rhestru tu hwnt i oriau, a ddangosent arddelwad eang, ac a addawent i mi olynjad maith o hyfrydwch. Ond wrth edrych yn ol arno, mor rhyfedd y mae'r olygfa wedi cyfnewid! Y mae'r darlun llydan a helaeth, a dynasid gan ddychymmyg wresog, ar ol ei chwilio gan brofiad pwylllog, yn ymgrynhoi ynghyd i rychwant; fel y mae'r glâuau yn ymgilio, a'r mynyddoedd yn diflanu yn frycheuyn, pan mae'r morwr, wedi ei amgylchu gan fôr ac wybrenau, yn taflu ei olwg olaf ar wlad ei enedigaeth.—Mor eglur yr wyf yn gweled y twyll yn awr! Byth na siomed fy nychymmyg anochelgar mwy! Yr wyf yn canfod nad oes dim arosol tu yma i dragywyddoldeb. Hir barhad, mewn sefyllfa o fodoliaeth derfynedig, nid yw ddim ond hudoliaeth.

Fe allai na bydd y iach a'r hoenus yn barod i gredu y gwirionedd difrifol, yn enwedig oddiwrth ysgrifoll isuangc, heb ei chyfarwyddo A'i gorchwyl. Ni a osodwn ar yr hynafgwyr, ynte, i benderfynu'r pwngc; gofyrer i ryw hen wr anrhydeddus, yr hwn sydd ar ymgilio oddiar chwareu-fwrdd marwoldeb, "Pa faint fu dyddiau blynyddoedd dy einioes?*" Holiad brenia ydoedd, am hyny ni all fod arno eisiau un ganmoliaeth i'r byd hoyw-wych. Sylwch fel y mae efe yn ysgwyd ei gydynau llwydion, ac, oddiar argyhoeddiad dwfn,

cursor, et quidem læti quid ferente. Rapidius tamen adhuc undas, non secant, sed supervolant, navigiola papyro contexta. Onanium rapidissime aerem grandibus alis permetitur aquila, præcipiti lapsu ruens in prædam.

* Gen. xlvii. 8.

yn ateb—' Pedwar ugain mlynedd a orphenasant eu cylchrediadau, i rychio y gruddiau hyn, ac i wisgo fy mhen ag eira. Dichon y cyfryw ysbaid ymddangos yn hir ac yn faith i ieuengctyd anystyriol. Ond O! mor fyr, mor brin, i'r sawl a'i profodd! Byr, fel godwyn ansafadwy o des; prin, fel y cysgod a gilia. Mi dybygwn, mai ddoe y cyfnewidiais fy chwaëu plentynaidd am orchwyllion dyndod; ac, yn awr, yr wyf yn rhoddi y ddau i fynu am gwsg angeu. Cyn gynted ag i'n genir, yr ydym yn dechreu tynu at ein diwedd; ac O! fyred yw'r cyfrwng o'r cryd i'r bedd! O! na chredem dystiolaeth henaint profedig! Na ddygai pob hwyr hi, gydag eglurdeb amlyccach, i'n meddyliau! Na wnelem ni y fath gyfrifiad o'n dogn bychan, tra mae yn myned rhagddo ar ein dwylaw, ag y byddwn yn sicr o wneuthur, pan fyddo'r tywod i gyd wedi rhedeg i lawr!

Bydded i mi ychwanegu un myfyriad ar y gwaith sydd i'w wneuthur, tra fyddo'r wennol hon yn rhedeg trwy'r gwýdd.* Gwaith, nid o anhawsdra bychan, etto o'r canlyniad mwyaf!—A welaist, a adnabuaist ti, rai rhagorol y ddaear; y rhai ydynt yn ddelwau byw o'u Gwneuthurwr? Mae ei gyffelybrwydd ef wedi ei dywallt i'w calonau, a'i belydru trwy eu holl ymddygiad; wedi ei belydru mewn llarieidd-dra doethineb, a phurdeb serchiadau; yn holl swyddau tirion cariad, a holl ymegniadau godidogion sêl. Cael dy argraffu â'r ddelw hardd, a bod yn ganlynwr iddynt hwy, fel yr oeddynt hwythau i Grist; hyn, hyn yw dy orchwyl. Ar y cyflawniad o hyn mae dy dragywyddoldeb oll yn ymddibynu. Ac a oddef achos o'r fath bwys

* "Fy nyddiau sydd gynt nâ gwennol gwehydd," Job vii. 6.

annhraethol funud o oediad, neu a fydd efe yn gyson â'r esgeulusdra lleiaf?—Yn enwedig pan mae llawer o'th amser terfynedig wedi diange yn barod, a'r gweddill i gyd yn ansicrwydd, namyn yn unig ei fod yn ffoi yn weithredol.—Neu, a chaniattau dy fod wedi gwneuthur cynghrair â'r bedd, a'th fod yn sicr o gyrhaedd oes Methusela; etto mor fuan y terfynai hyd yn oed y gyfryw ammod! Estynwch hi ymhellach etto, os mynwch, a bydded yn gydhoedlog â natur ei hun. Leied yw yr ychwanegiad! Canys, ychydig bachigyn etto, ac awdurdodir yr archangel i godi ei law i'r nef, a thyngu trwy yr Enw Hollalluog, “na bydd amser mwyach.”* Yna, cyfleusderau a gam-

* Cyfeiria hyn at ddechreu y ddegfed bennod o'r Datguddiad; yr lwn, a'i dynu o'i ystyr ysbrydol, a'i gymmeryd ond yn unig fel darn mawryddig o beiriannaeth, sydd yn iawn deilyngu sylw: ac mi a anturiaf ddywedyd, nad oes dim o'i ragorach, fe allai, dim o'i gyfartal, yn mhen-campwyr mwyaf clodfawr Groeg a Rhufain.—Mae pob peth gygus neu brydferth yn yr awrygylch; pob peth cyffrous neu rwysegfawr ymhob elfen, yn cael eu cymmeryd i ddyrchafu'r meddylddrych: etto nid oes dim yn anghymmesur; eithr agwedd unfurf o fawrhydi annhraethol a fywha, a ddyrchafa, ac a ardderchoga y cyfan.—Rhynged bodd i chwi sylwi ar welediad y person mawrhydig hwn. Holl ddyselaerdebyr haul a lewyrcha yn ei wynebpryd; holl gynddaredd y tân a lysg yn ei draed.—Gwelwch ei wisgad. Mae'r cymhyllau yn fantell iddo, a holl ddilladaeth yr wybr yn ffrydio ar ei ysgwyddau. Mae'r enfys yn goron iddo; a'r “hyn a amgylcha y nef â chylch gogoneddus,” sydd addurn i'w ben ef.—Edrychwch ar ei ystum. Un troed iddo a saif ar y môr, a'r llall a orphwys ar y tir. Y mae'r ddaear lydan, a'r byd o ddyfroedd yn gwasanaethu fel gwadnu i'r colofnau nerthol hyny.—Ystyriwch ei weithrediad. Ei law a ddyrchafwyd hyd uchder y ser. Mae efe yn llefaru; a gororau y ffurfafen a adseiniant ei accenion grymus, fel y gwrthlefa yr anial canol-nos gan ruad y llew. Cyflegrau yr wybrenau a ollyngir fel arwydd; twrf taran seithblyg a daena'r floedd, ac a barottoa'r bydysawd i dderbyn ei genadwri.—I orphen y cyfan, ac i roddi y mawredd uchaf, yn gystal a'r pwysfawrogrwydd eithaf, i'r darluniad; clywch y gyfraith sydd yn deillio o'i enau; mae efe “yn tyngu i'r Hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.” Ymha ddull bynag y llefarasai person mor fawryddig, ni allasai lai nâ thynu sylw cyffredinol; ond pan mae efe yn cadarnhau ei ymadrodd â'r llw mwyaf cyssegredig a dihalog, yr ydym, nid yn unig yn cael ein

dreuliwyd, ni ddychwelant yn dragywydd; a chyfeusderau newyddion, ni chynnygir byth mwy. Yna, pe dymunai marwolion esgeulus—dymuno yn y modd mwyaf awyddus—am i ychydig oriau—ychydig funudau yn unig—gael eu taflu yn ol o'r tragywyddoldeb ymagorol, miloedd o fydoedd ni allent brynu y rhodd.

A fyddaf fi, yn awr, yn ddiwyd i fyrbau yr hyn nad yw yn hwy nâ dyrnfedd, neu i gyflymu yr hyn sydd ar yr aden yn barhaus? A afradlonaf fi yr hyn sydd o annhraethol bwys, tra parhao; a phan fyddo unwaith wedi myned, a fydd yn hollol ddialw yn ol? O! fy enaid! ymattal oddiwrth y ffolineb, ymattal oddiwrth yr afrad byrbwyll. A geryddi di, fel dyhiriwr, y saeth yr hon sydd yn tasgu oddiwrth y llinyn; neu a ysgubi di berlau ymaith, fel gwehilion dy dŷ?—Tafu amser ymaith! Gwastraff aruthr, dinystriol, anadferadwy!—Tafu ymerodraethau ymaith, a bydd yn ddigerydd: ond O! bydd yn gynnil ar dy ddyddiau, defnyddia dy oriau gwerthfawr: y maent yn myned, wedi eu cysylltu, eu hannattodol gyssylltu, â nef neu uffern.*

goblygu mewn dysgwiliad dystaw, ond yn cael ein toi â'r braw dyfnaf. --Mae efe yn tyngu "na bydd amser mwyach." A fu llef erioed mor llawn o ddychryn, mor feichiog ar ryfeddod? Mae hi yn cyhoeddi, nid cwmp ymerodraethau, eithr diwedd pob peth. Mae yn taro olwyaion natur ymaith, ac yn peri i oesoedd a chenhedlaethau beidio treiglo; ac, ag un gair nerthol, yn traddodi yr holl fyd drosodd i ymddattodiad.—Dyma un, o blith lluoedd o bethau tra goruchel a phencelfydd, a geir yn y llyfr hwnw a ormod esgeulusir—y Bibl.

* Yr wyf yn cofio i mi weled, ar ddeial yn ngardd meddyg, yn Northampton, yr arysgrif ganlynot; yr hyn, yr wyf yn meddwl, sydd yn gysswynnair tra phriodol ar yr offeryn sydd yn mesur ein hamser, ac yn gynghor o'r mwyaf cyffrous a ellir osod ger bron ein llygaid;—

"Ab hoc momento pendet æternitas."

Ystyr bwysig pa un nis gwn pa fodd i'w osod allan yn well nag yn ngeiriau Dr. Watts;—

Duw mawr! ar ba fath edau frau

[Neu, ar ba funudyn o amser,]

Mae bythol bethau'n crogi!

O'u hiawn ddefnyddio, maent yn wystl sicr o ogoniant tragywyddol; ond o'u hofer dreulio, maent yn argoel ofnadwy o drallod ac iug anorphen.

Y fath ddystawrwydd dwfn sydd wedi tawela'r byd! Mor ddwfn yw'r dystawrwydd, fel mae hyd yn oed fy anadl yn ymddangos yn sŵn! ticiad fy oriawr a glywir yn eglur; ac os gwnaf ond cyfro, mae yn creu cynhwrf. Nid oes yn awr ddim o'r dadwrdd cymmysglyd o'r ddinas, dim llais gwladwyr llawen o'r ddôl gyfagos, na thrydar cyngbanneddog o'r wasgod gauadfrig.—Mae pob gwefus wedi ei chloi. Nid oes un ysibrwd lleiaf yn chwithrwd ymysg y canghenau; mae adsain ei hun yn cysgu yn ddigyffro. Nid yw'r glust agored, er i gyd yn esgud, yn dal un sain namyn cwmp hylif y ffrwd yn tyrddu o bell:

“Dystawrwydd dwfn llonydd orchuddia'r holl fyd,
Tra mae natur ei hunan yn hepiant yn fud.”

Ymhith y tawelwch dwfn a chyffredinol yma, pe ymddrylliai dengmil o daranau uwch fy mhen, gan rwygo'r wybrenau a'u cawodydd unedig, pa fodd y daliwn ergyd mor annysgwyliadwy? Efe a syfrdanai fy synhwyrâu, ac a gythruddai fy meddwl. Mi a ysgrydwn trwy bob glin, ac fe allai a syrthiwn i lawr gan ddychryn. Ystyriwch, ynte, O farwolion! ystyriwch yr alwad lawer mwy syn, yr hon, cyn hir, a gynhyrfa eich esgyrn cysglyd. Pan fyddo prewylwyr y bedd wedi humo mewn gorphwysdra ddigyffro drôs haws o oeoedd, y fath fraw anamgyffredadwy raid i floedd yr archangel, ac udgorn Duw, achlysuru! A fydd iddi ddim clwyfo clust yr annuwiol, ac arswydo, ie i wallgofrwydd, y pechadur diedifeiriol? Y daran aruthr a rua yn eangder y nef, a sigla sylfaeni y ddaear,

ac a dreiddia i gylfachau dyfnaf y bedd. A pha fodd, O! pa fodd, y bydd carcharorion dwyfol gyfiawnder yn alluog i ddal yr alwad aruthr hõno i frawdle llawer mwy aruthr?—Clust-ymwrandaw di, fy enaid! â llais dystaw yr efengyl. Ystyria, yn dy ddydd hwn, waghoddiadau grasol dy Iachawdwr. Yna y waedd fawr ganol-nos hõno a gyll ei herchyllod, a seinio yn beroriaeth yn dy glustiau. Hi a fydd yn roesawus i'th llwch yn adfywio, fel newyddion o ryddid i un rhwym mewn carchardy, fel cyhoeddiad blwyddyn gollyngdod i gaethwas poenedig. Hyn, hyn fydd ei chynnwysiad hyfrydlawn: “Deffrowch, a chenwch, preswylwyr y llwch.”*

Y fath orphwysiad cyffredinol oddiwrth orchwylion, mae'r awr dywyll hon yn achlysuru! Ychydig bach yn ol, yr oedd pob peth yn ffrwst, ffrwst. Bywyd a gweithgarwch a ymegnient mewn mil o ffurfiau llafurus. Y ddinas a heigiai gan dorfeydd yn myned ac yn dychwelyd. Yr oedd y wlad i gyd yn chwys a llwch. Yr awyr a nofiai mewn cyffroad parhaus, gan hediad adar, ac ysibrwd gwenyn. Celfyddyd a eisteddai yn llygadrythu â'i golwg dreiddgar, tra glynai diwydrwydd â'i dwylaw diorphwys.—Ond gwelwch, fel y mae yr holl ffwdan gwresog ac egniol hyn wedi ffoi gyda machludiad haul. Yr anifeiliaid a ymledrattasant i'w gwalau glaswelltog, a'r bobl adeiniog a ymgiliaasant i'w nythau mânblu. Y morthwyl a roddes i fynu ei waith trystiog, a'r ddurlif a baid a mynychu ei chyffyrddiadau tasglyd. Y masnachdy hygyrch a gauwyd, a'i drothwy ni threulir mwyach gan draed y cysmeriaid lliosog. Mae'r bugeilwas yn gorwedd,

* Esa. xxvi, 19.

wedi ei orchuddio gan gwsg; ac y mae hyd yn oed ei gî ffyddlawn, yr hwn, dros hir amser, a gadwai wyl-iadwriaeth wrth ei ddrws, yn awr yn gorphwys yn ei hyd, ac yn cydchwyrnu â'i arglwydd.—Ymhob lle mae trafferth yn gogwyddo ei ben, ac ymroad yn plethu ei freichiau. Mae pob golygiadau yn awr yn ymddangos wedi eu hanghofio; pob canlyniadau wedi eu hattal; pob gorchwyl wedi suddo ymaith, suddo ymaith gyda'r myrddiynau sisialaidd hyny, y rhai, yn ddiweddar, a chwariant yn mhelydr yr haul ar ymadael.—Mae fel sabbath natur gyffredinol; neu fel pe safai curiad calon bywyd yn llonydd.

Fel hyn y bydd hi gyda'n hachos anfeidrol bwysig ninnau, pan unwaith y byddo i "gysgodau yr hwyr (yr hwyr hirfaith yr hwn sydd yn canlyn camrau marwolaeth!) i ledu drosom." Ni all y meirw geisio Duw; y byw, y byw, hwynt-hwy yn unig sy'n meddu y cyfleusdra anmhrisiadwy.* "Nid oes gwaith na dychymmyg, edifeirwch na diwygiad, yn y bedd,† lle'r

* "Wele yn awr yr amser cymmeradwy; wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth," 2 Cor. vi. 2.

Brysia, mae'n cynllwyn, cynllwyn wrth y drws,
Angeu bradwrus! os gafaela'i law,
Un pridwerth ni ryddha'r carcharor caeth.

† Y rhai a aethant i waered i'r bedd, a ddarlunir (Esa. xxxviii. 11.) trwy yr ymadrodd, יְשֵׁבֵהּ חַדֵּל—*yoshebee chadel*—yr hwn a droir gan Vitringa, y rhai a breswylant dir dyspaid neu orphwysiad:—yr hyn sydd yn attal pob ymddangosiad o fynych-eiriad yn y gyfran: ac sydd, yr wyf yn meddwl, yn wellhad gwerthfawr ar y cyfieithad; gan ei fod yn trosglwyddo meddwl newydd, nid yn unig gwahanol i'r un blaenorol, eithr o natur dra phrydyddol a gofidus; y cyfryw ag oedd yn berffaith naturiol i'r cantor brenhinol, a'r dyoddefydd brenhinol i drigo arno, yn ei funudau gwanobeithiol.—Wedi ei gyfieithu fel hyn, y synwyr a red; 'Ni chaf weled dyn mwyach. Torrir fi ymaith o ffyrdd siriol dynion, a holl felusderau cyfeillach ddynol. A'r hyn sydd yn gwneuthur yr ergyd bygythiedig yn waeth, *byddaf*, trwy iddo gymmeryd lle, yn gyfrifedig *gyda'r rhai a breswylant dir gorphwysiad* ac anweithgarwch:

y'm ni bawb yn prysuro." Pan unwaith y delo yr olygfa derfynol hõno, ni fydd genym un rhan arall i'w gweithredu ar y chwareu-fwrdd daearol hwn. Pryd hynny, rhaid i'r diogyn, ar ol hepian ei fywyd ymaith mewn segurdd pechadurus, orwedd i lawr mewn cyfyngder diobaith, a thristwch diddarfod. Pryd hyny, cymmer y ddedfryd ofnadwy hõno le, "Yr hwn sydd lân, bydded lân etto; a'r hwn sydd aflan, bydded aflan yn dragywydd."

Ai felly y mae, fy enaid? Ai dyma yr unig, unig amser i gyrhaedd y wobwr fawr, a gwneuthur dy iachawdwriaeth yn sicr? Ac a wyt ti yn cymmeryd dy suo mewn diogelwch cnawdol, neu yn cysgu ar dy gefn mewn anystyriaeth? Neidia, O! neidia, o'th lewyg. Gwregysa lwynau dy feddwl, a gweithia tra mae yn ddydd. Defnyddia yr amser hau presennol, fel y gweinio tragywyddoldeb gynhauaf gorfoleddus.—Nyni, yn anad neb, y rhai ydym yn wyliedyddion yn Israel, a gweinidogion yr efengyl ogoneddus, deffrown, trwy yr ystyriaeth hon, at holl ddyfalwch ein swydd sanctaidd. Mae rhyw un neu gilydd o'n pobl byth ac yn barhaus yn ymadael i'r byd anweledig; mae ein holl gyfeillion yn nesu yn ddibaid i'w hir gartref; a ninnau ein hunain a draddodir yn fuan i garchar y bedd. Dyma yr amser graslawn, yn yr hwn ya unig y gallwn gyfranu at eu dedwyddwch tragywyddol. Dyma'r tymhor, y tymhor anfeidrol bwysig, ar yr hwn

lle nis gallaf wneuthur dim tuag at ddedwyddwch fy nheyrnas, ac heb un cyfleusdra i ddwyn ymlaen ogoniant fy Nghreawdwr, na gwneuthur fy iachawdwriaeth yn sicr.—Mae tyb o'r fath hyn yn sawryddig, yn bwysfawr, ac yn llawn caredigrwydd; yn symmud pob llettyb o lwfrdra anwedus, ac yn gwneuthur yr anrhydedd mwyaf i gymmeriad y llywodraethwr.

y mae ein dedwyddwch didranga yn dibynu. Yn ddiattreg, ynte, tywalltwn ein haddysgiadau iachus. Yn ddiatreg, ynte, annogwn hwynt a'n cynghorion difrifol. Geill munud o oediad fod yn golled anadferadwy, yn ddinystyr anadgyweiriol. Tra yr ydym ni yn gohirio, gall ergyd angeuol gymmeryd lle, a'n gosod ni tu hwnt i bob gallu i gyfranu, neu eu gosod hwynt tu hwnt i bob dichon i dderbyn, un lleshad ysbrydol.*

Mor fynych y mae wyneb natur yn cael ei gyfnewid! a, thrwy gyfnewid, yn cael ei wneuthur yn fwy hyfryd! —Y mae dysclaerdeu hir yn gwneuthur y cysgodau hyn yn dra groesawus. Ac nid yw pyrth y bore byth yn gwridgochi'r dwyrain mor swyngar, ag ar ol tywyllwch noswaith ddu a phyglyd.—Yn bresenol, y mae llonyddwch tawel wedi ei daenu trwy y bydysawd. Y gwyntoedd blinion a anghofiasant chwythu. Yr awelon araf a wyntylliasant eu hunain i hepian. Nid oes dim cymmaint a dalen yn cyffro. Ie, mae hyd yn oed yr aethnen grynllyd yn llonydd. “Ac nid oes un anadliad yn crychu dros y ffrwd.”—Weithiau, yn y gwrthwyneb, mae tymhestloedd yn gwysio holl nerthoedd yr awyr, ac yn tywallt eu hunain, gyda lliidiogrwydd anwrthwynebol, o'r gogledd gynddeiriog. Yr holl nef a defir i gythrwf ystormallyd, a'r byd dyfraid a chwyddir i'r cymhylau. Y morwr synedig, a'i lestr ymdrechgar, yn awr, a ddringant y mynydd treiglog, gan ddibynu, yn ofnadwy i'r olwg, ar y don ddrylliedig;

* Mae'r achos a ddesgrifir gan y prophwyd (yn I Bren. xx. 40.) yn ymddangos yn berffaith gymhwysiadol at yr achlysur hwn. “A thra yr oedd dy was yn ymdroi yma ac accw, efe a aeth ymaith.” Felly, tra yr ydym ni naill ai yn laes yn ein dyledswydd, neu yn ymdroi mewn gofalon ereill, gall pobl ein gofal fyned—myned tu hwnt i effaith ein cynghorion, tu hwnt i gyrhaedd ein gweddiau—myned i'r sefyllfa anghyfnewidiol a thragywyddol.

yn y man, a saethant, gyda chwyrndra rhuthr-wyllt, i'r llyngclyn safnlydan, fel nas gwelir na'r corph na'r hwylbren.—Mae'r ystorm yn ysgubo dros y cyfandir, yn ffyrnigo hyd heolydd y ddinas, yn ymorchestu trwy gangau'r goedwig, ac yn brawychu y llwythau anwar, â rhuad mwy echrys-wyllt na'r eiddynt eu hunain. Y deri cylymog a blygant o flaen y cythwm; eu cyrph haiarnaidd a riddfanant, a'u gliniau ystyfnig a chwyrn-deffir i'r llawr. Mae'r adail uchel yn siglo, ac hyd yn oed y tŵr sefydlog yn crynu hyd ei sylfaen.

Mae'r cyfryw amrywiaethau wedi eu trefnu yn hynaws, a chydag ymostyngiad amlwg at anwadalwch ein harchwaeth ni. Canys adfynychiad parhaus o'r un gwrthddrychau a greai arddigonedd a diflasdod: gan hyny, y mae Tad tirion ein rhyw wedi gwahaniaethu yr olygfa gyffredinol, gan beri i bob ymddangosiad ddwyn swynion newydd-ded gydag ef.—Mae'r amgylchiad hwn yn llesol yn gystal ag yn ddifyrus. Mae Rhagluniaeth, yr hon sydd byth yn rasol i ddynion, byth yn llawnfrydig ar ddwyn ymlaen eu dedwyddwch, wedi gofalu cymmysg, yn nghyfansoddiad pethau, yr hyn sydd yn foddhaol i'r ddychymmyg, â'r hyn sydd yn wasanaethgar i'n daioni. Mae gwyntoedd treiddgar, a gwedd erwin gauaf, yn gwneuthur awelon adfywiol, a golygfeydd blodeuog gwanwyn, yn neillduol hyfryd. Ar yr un pryd, y mae'r rhew llym yn meddalhau y briddell i law diwydrwydd. Mae'r gwlawogydd rhuthrol yn ffrwythloni'r tir, ac yn ei barottoi i fod yn drysorfa o lawnder. Fferyllty mawr yw'r ddaear; ac y mae oerni Rhagfyr yn cynnull y defnyddiau geirwon, y rhai a goethir gan dwymdra teccaol Mai. Hylifedd

pur gwrthneidiol yw yr awyr, a phe arosai hi yn barhaus mewn llongydwch digyffro, hi a gollai lawer o'i grym bywiog a gweithgar. Pe ni chyffroid hi, gan yr ysgyttiadau hyny, hi a fagai lygriad ffaidd, fe allai beintus. Yn y cyfryw amgylchiadau, ein hanadliad, yn lle puro, a lygrai, ein nodd bywiol; yn lle ein hadfywio, byddai yn ffynnon clefydau; neu gallai pob ffun a dynem fod yn angeu* anocheladwy.—Fel y dylem ni, ynte, ryfeddu a mawrbau y cyssylltiad dedwydd hwnw, o haelioni a doethineb, yr hwn, o amrywiaeth o oruchwyliaethau, sydd yn dwyn allan unoliaeth o ddaioni, yn dwyn allan olyniad parhaus o hyfrydwch, a chyfres ddidor o fanteision.

Mae'r tywyllwch yn awr yn y man uchaf; ac ni allaf lai ná mawrbau ei ddull caruaidd o gymmeryd lle. Mae yn dyfod, nid gydag anfoesgarwch trwsgl a byrbwyll, eithr yn dynesu yn araf a pharchus. Mynediad disymmwth o ddysclaerderau y dydd i holl erchyllderau canol-nos, a fyddai yn anghyfaddas a dychrynlyd. Fe wylltai y teithiwr ar ei hynt, a darawai syndod trwy'r grëedigaeth, ac, fe allai, a fyddai

* Wrth ystyried gymmaint o lo, a ddefnyddiau hyllog ereill a ddiffir yn feunyddiol, ac a anweddant yn awyr; wrth ystyried yr agerddau aneirif, a'r cymhylau o fwg, y rhai, agos yn barhaus, a orchuddiant ddinasoedd poblog; y mygdarthiadau atgas a godant o'r yspytta pentyredig, a'r carcharau ffaidd; o lynoedd llongydd, a'r morfâau llygredig;—yr amrywiaeth o sawrhedion gwrthwynebyd ac afiachus a ddeilliant o achosion ereill hefyd;—mae yn amlygiad hynod o Ragluniaeth, ar unwaith yn dirion, ac anfeidrol alluog, nad yw dynolryw yn cael eu mogi gan ddrewiant; nad yw'r awyr yn cael ei thagu gan frynti.—Yr awyr yw yr hulydd cyffredin, lle mae myrdd myrddynau o fudreddi yn cael eu harllwys yn barhaus, etto cedwir hi mor drwyadl loyw, fel y mae hi yn gweini y cyfrwng mwyaf try-wel i'r olwg; mor fanwl lifeiriol, fel y mae hi yn trosglwyddo, gyda phob eglurdeb dychymmygadwy, bob amrywiaeth sain; mor berffaith bur, fel y mae hi yn goethydd cyson hylifeddu ymhob creadur a anadla.

yn niweidiol i'n peiriannau gweled; gan hyny, nikt yw'r tywyllwch yn ymruthro arnom yn ddisyfyd, ond yn cynnyddu yn raddol; a chan anfon y cyfnos o'i flaen, yn ein hysbysu yn weddus o'i ddyfodiad. Fel hyn nid ydym yn cael ein dychrynu, na'n rhwystro, gan y cyfnewidiad; eithr yn alluog i drefnu pethau yn gymhwys ac amserol i'w dderbyn. Fel hyn yn rasol y trefnodd Rhagluniaeth, nid yn unig gylchdroadau mawrion y tymhorau, ond cyfnewidiadau cyffredin goleuni a thywyllwch hefyd, gyda golwg neillduol ar ein cysur ni.

Yn awr y mae preswylwyr ffyrnigion y goedwig yn gadael eu ffauau. Mae miloedd o ffurfiau erchyll, ac anghenfilod rhuadwy, yn brasgamu'r diffeithwch. Yn eu safnau y mae marwolaeth; tra, wedi eu symbylu gan newyn, ac yn sychedig am waed, y maent yn gwibio eu cylchoedd nosol.—Annedwydd yw'r teith-iwr a oddiwedda'r nos yn y gwylltion anial hyny! Fel y rhaid iddo sefyll yn drachwyllt, rhag oernad gymmysgedig cegau cigfreinaidd, a llewod yn rhuo am eu hysglyfaeth! Diffyn ef, nef drugarog! neu ynte gweled ei ddyweddi anwyl, a groesawu ei gartref hoff, ni chaiff ef byth mwy!—Yn awr mae'r blaidd ysglyfaethus, fel rhyw ddihiryn llofruddiog, yn olrhain camrau'r bugail, ac yn ymosod ar ei ofal brefiadol! Mae'r llwynog, megis lleidr cyfrwys, yn lledratta o'r bwthyn brwyn-do, ac yn dwyn ymaith ei anrhaith asgellog!

Da iawn i'r byd, pe y rhai hyn fyddent yr unig ddinystrwyr a rodiant yn y tywyllwch. Ond, och! y mae gwylltiaid mewn llun dynol, y rhai, wedi eu misyrnu mewn cysgodau, a ormesant breswylfeydd bywyd gwareiddiedig. Meibion gorddwy a ddewisant

y tymhor hwn* i gyflawni y gweithredoedd mwyaf ysgeler o gamwedd ac yspeiliad. Mae'r godinebwr yn dysgwyl am y cyfnos, ac, yn waelach nâ'r adyn ar y brif-ffordd, yn bradychu anrhydedd cyfeilles ei fynwes. Yn awr ymbleidiad a ffurfia ei chyfrinachau dirgel, gan ysibrwd ei gweniaith fradwrus. Yn awr y mae gwrthryfel felldigedig yn trefnu ei chwydfwriadau, ac yn darparu ei gosgordd, i chwythu cenedl i ddys-tryw. Yn awr mae cyflafanau, a guddient eu penau atgas trwy'r dydd, yn cynniwair i anneddau cymdeithas, ac yn rhodio yn ben-uchel yn y tywyll. Yn awr mae pryfed y putteindy yn ymlusgo o'u llochesau, i ym-drabaeddu mewn aflendid, ac i ledu llygredigaeth trwy'r nos; pob un yn cysuro ei hun â'r dyb hoff, fod pob peth yn ddiogel, nad oes llygad yn gweled.

Ac a ydynt hwy, ynte, yn guddiedig? Ynfydion disynwyr! i dynu llen rhwng eu harferiadau gwarthus ac ychydig farwolion, ond eu gadael yn noeth i holl lygaid diwair ac effro y nef accw!† Megis pe byddai y lloer a'r ser wedi eu gwneuthur i oleuo dynion at eu cyfeddach, ac nid at *Dduw*.—A ydynt hwy, ynte, yn guddiedig? Nac ydynt, yn wir. Pe cauid pob un o'r goleuadau gwylidwrus hyn, mae llygad llymach nâ mellteniad y llycheden, llygad dysclaeriach nâ deng mil o haulau, yn eu canfod ymhôb symmudiad. Mae eu cysgodau tewaf yn ddydd tanbaid‡ i'r Golygwr

* Y strydoedd pan dywylllo'r nos, ar led Rhygynga meibion Belial, yn drahaus A gwingar.— *Milton*.

† ——— Sed luna videt, sed sidera testes Intendunt oculos.

‡ Geirir hyn yn hardd ac awdurdodol gan y Psalmydd: "Pe dywedwn, Diau y tywyllwch â'm cuddiai; yna byddai y nos yn oleuni o'm

eiddigus, a Barnwr goruchel gweithredoedd dynion.—
Greaduriaid camsyniol! a glywsoch chwi ddim, a
ddarllenasoch chwi ddim, “mai cymhylau a thywyll-
wch yw ei drigfa fawryddig *Ef?*” * Yn y tywyllwch
hwnw, i ba un yr ydych yn ffoi am loches, y mae efe
yn sefydlu ei orseddfaingc. Yr hyn a gyfrifwch chwi
eich cysgod, yw eich brawdle. O! cofiwch hyn!
Crynwch, ac na phechwch! Cofiwch, fod y Duw
mawr ac ofnadwy yn “amgylchu eich llwybr,” † pan
fyddoch yn crwydro trwy eich cylchoedd canol-nos;
yn “amgylchynu eich gorweddfa,” pan fyddoch yn
ymroddi i drachwantau penrhydd; “ac yn hysbys
yn eich holl ffyrdd,” pa mor ddirgel bynag y trefnoch,
a pha mor gyfrwys bynag y lledrithioch, hwynt.

Ychydig funudau yn ol, croesodd ymdeithydd ar
hyd y ffordd. Troed ei farch a darawodd y llawr, ac
a dynodd dân o'r gallestr. Fy llygad o bell a ganfu'r
olwg, ac a welodd, gydag eglurdeb, y gwreichion
ansafadwy; ar y rhai, pa mor agos bynag y buasem,
ni chanfyddasem y drem leiaf dan ddysclaerdeb y
dydd.—Felly, † pan fyddo afiechyd wedi tynu llen dros

hamgylch.” Neu, fel y gellir ei gyfieithu, rywfaint yn fwy darluniadol,
“Byddai hyd yn oed y nos yn ganol-ddydd dysclaer o'm hamgylch.”
Psal. cxxxix. 11.

* Psal. xcvi. 2.

† Y mae'r geiriau gwreiddiol yn llawer cryfach nâ'r cyfieithad.—
זרעתי—*zereeta*—אריקתה—*hirkaneta*—a arwyddant *gogryni* fy llwybr,
ac yr wyt yn *drwyadl gydnabyddus* â'm holl ffyrdd. Y cyntaf, yr wyf
yn ystyried, yn arwyddo gwybodaeth gywir Duw o, a'r ail ei sylw
manwl ar, weithredoedd dynion. Psal. cxxxix. 2.

‡ Yr wyf yn crefu caniattad i hysbysu i'r bonheddig ieuangc, yr hwn
y mae ei enw yn urddasu fy nghyflwyniad, mai sylw o eiddo ei dad
anrhydeddus yw hwn, pan farchogem ynghyd, gan ymddiddan ar hwyr
tywyll. Yr wyf yn crybwyll yr amgylchiad, mewn rhan i ddiogelu y
gyfran rhag diystyrwch, mewn rhan i roddi meddylddrych i'r byd o'r
ysbryd rhagorol ddifrif, a wahan-nodai fy nghyfaill trangcedig.—Pa

londer ein calonau, pan fyddo adfyd wedi gorchuddio llewyrch ein hamgylchiadau allanol, gynifer o argyhoeddiadau pwysig a ymddangosant gyda'r eglurdeb amlyccaf! Dan ddysclaerdeb haul llwyddiant maent yn gorwedd yn anweledig; ond, pan dywylllo rhyw gwmwl cyfryngol yr olygfa, y maent yn codi o'u haneglurdeb, ac hyd yn oed yn tanbeidio ar ein meddyliau. Pryd hyny, y mae'r byd, y twyll hudolus hwnw, yn cydnabod ei wagder; ond yr Iesu, y seren fore eglur hõno, yn pelydru gyda dysclaerdeb digffelyb. Pryd hyny, y mae gwýd yn colli ei holl hudoliaeth twyllodrus; y mae'r buttain liwiedig hõno yn erchyll fel gwrachod uffern; ond mae rhinwedd, rhinwedd ddirmygedig, yn cynnyddu mewn hawddgarwch, oddiwrth ragluniaeth ygus, ac yn mathru'r cysgodau gyda swynion mwy ná marwol.—Cymmoded hyn fi, a holl feibion gorthrymder, á'n rhan osodedig o ddyoddefiadau! Os yw trallod yn tueddu i chwalu ein tywyllweh tufewnol, a thywallt dydd nefol ar ein meddyliau, groesaw dristwch, groesaw siomedigaeth, groesaw i ba beth bynag a fynai ein cnawd cyndyn, a'n nwydau gwrthnysig, ei gamalw yn wae. "Y cystuddiau ysgafn hyn, y rhai nid ydynt ond dros funudyn," a gânt eistedd yn esmwyth ar ein hysbrydoedd, gan eu bod yn gymmwynasgar i'n gwybodaeth, yn cyfnerthu ein ffydd, ac felly "yn gweithio i ni tra godidog ragorach a thragywyddol bwys o ogoniant."*

leiaf eglur yr adfyfyriad, amlyccaf y mae'n dangos meddwl neillduol ysbrydol; yr hwn ni oddefai i ddim ddiangc heb weini rhyw adeiladaeth grefyddol. Pa waelaf y dygwyddiad, mwyaf rhyfedd oedd ffirwythlondeb y ddychymmyg, yr hon a fedrai dynu y gwirioneddau mwyaf dyrchafedig oddiwrth yr amgylchiadau distadlaf.

* 2 Cor. iv. 17. Y mae Stephens glodfawr, y cynnulliad hwnw o ddysegeidiaeth Roegaid, yn cyfieithu καθ' υπερβολην, *Quo nihil majus*

Fel y mae'r tywyllwch wedi cipio pob gwrthddrych Hewyrchus a phrydferth o'm golwg! Mae wedi tynu yr yspwng dros holl arluniau y gwanwyn, a dystrywio holl ragoriaethau prydwedol pethau. Pa le yn awr y mae yr holl ffurfiau tég, y rhai mor ddiweddar a'm difyrent o'r flodeufa dywynol? Y mae'r gwrid wedi ei fwrw o'r rhosyn, a gwawr eiryog y lili wedi syrthio. Yr wyf yn cyfeirio fy llygaid at balas rhwysgfawr, ond mae'r colofnau dyrchafedig, a'r wyneb hardd lededig, wedi eu cymmysg mewn tryblith gwyllt. Heb yr haul, ni byddai holl odidogrwydd y byd blagurog ond llwyr wagedd, a holl gysondeb adeiladyddiaeth ond carnedd afluniaidd.

Onid yw hyn yn gysgod darluniadol o'r hawddgarwch mae Haul cyfiawnder yn dywallt i bob peth prydferth? Oni bai er Iesu a'i rinweddau, myfi a ocheneidiaswn mewn ing ysbryd, hyd yn oed wrth rodio rhwng rhestri o'r blodau teccaf, ac anadlu mewn anialwch o felusderau. Oni bai er Iesu a'i rinweddau, myfi a fuaswn yn crwydro, fel rhyw ddrychiolaeth annyddan, hyd yn oed trwy wenau y grëedigaeth, a chofleidiau llwyddiant.—Fy ymarweddiad yn y byd hwn, er wedi fy addurno yn y dull mwyaf dengar o

dici aut fingi potest. Ond fel mae y synwyr yn dyrchafu! fel mae y meddwl yn éangu, trwy y fath ddau ymadrodd grymus! καὶ υπερβολὴν εἰς υπερβολὴν.—Y mae'r holl adnod yn bencampwaith o'r gyferbyniaeth brydferth, y desgrifiad bywiog, a'r geiriad cadarn. Mae yn un o'r rhanau manylion hyny yn yr ysgrifeniadau ysbrydoledig, y rhai, fel rhyw blanhigion peraroglaidd, nas gellir eu trawsblanu o'u tir hynaws cynhenid heb iddynt gael eu niweidio yn eu bywiogrwydd, a cholli llawer o'u prydferthwch. Fe allai y byddai y cyfieithad canlynol yn ychydig llai niweidiol i'r iaith wreiddiol, nâ'r cyfieithad cyffredin:—“Mae ein cystudd ysgafn iawn, yr hwn nid yw ond megis dros y munudyn presenol yn unig, yn gweithio allan tra godidog ragorach, ac anghymharol fawr, a thragywyddol bwys o ogoniant.”

hyfrydwch allanol, a fuasai fel mynediad drwgweithredwr collfarnedig, trwy ddolydd blodduog, neu wasgodion o ddedwyddwch, i gael ei dorri ar yr olwyn, neu i drengu ar yr arteithglwyd. Ond adfyfyrdod beunyddiol ar waed iawnol yr Oen, ac ymddiried cysurlawn, fod fy enaid wedi ei gymmodi trwy yr aberth dwyfol hwnw; hyn, hyn yw y godywyn, y godywyn euraidd, sydd yn llewyrchu wyneb y byd: dyma yr olew tegwch, sydd yn gwneuthar pob gwrthddrych i wisgo gwedd siriol; a'r olew llawenydd, sydd yn peri i'r edrychydd eu canfod gyda hyfrydwch.* Dyma, dyma'r swyn ddirgel sy'n dysgu natur, yn ei holl ymddangosiadau, a'i holl gynnyrch, mor fanwl i foddhau.

“Dyn a â allan i'w waith ac i'w orchwyl hyd yr hwyr:” ond yna mae ei nerth yn pallu, ei ysbrydoedd yn ymollwng, ac y mae arno eisiau, nid yn unig rhyw seibiant oddiwrth ei lafur, ond hefyd rhyw adfywiad hynaws a iachus.—Y fath ddarpariad rhyfedd ar gyfer hyn yw cwsg! Mae cwsg yn orphwysiad o'r mwyaf groesawus i'r enaid a'r corph. Y mae gweithrediadau

* A'i gymhwyso fel hyn, mae y darn tég hyny o weniath, a anerchwyd i'r ymerawdwr paganaidd, yn llythyrenol wir:

— Vultus ubi tuus
Affulsit populo, gratior it dies,
Et soles melius nitent. *Hor.*

Yr hyn a gristioneiddiwn, ac a gyfieithwn fel yma:

Pan ddengys fydd farwolaeth Crist,
A sibrd, “Eiddot yw;”
Yn felus daw, a thawel rhed,
Fy oriau gyda'm Duw.
Mwy dysclaer y llewyrcha'r haul,
A gwena'r ddaear werdd;
Hedd a thawelwch lanw'm mryd,
Heb ofal ond fy ngerdd.

yr ymenydd, a llafur y llaw, yn cael eu hoedi ynghyd; fel y mae'r gliniau a laesasant yn adferu eu grym cynnefin, a'r meddyliau pruddion yn dilwytho eu baich o dristwch, a'r rhai diwydion yn gorphwys oddiwrth ludded ymroad.—Meddyglyn mwyaf adfywiol! cyfartal lesol i alluoedd ein cyrph a'n beneidiau. Mae yn diwallu y peiriant cnawdol, ac yn cadw ei holl symmudiadau cynnilion mewn ystum briodol i chwareu yn esmwyth. Mae yn bywiocau swyddgynheddfau yr enaid â gweithgarwch adnewyddol, ac yn adennyn eu hawyddfryd am fyfyrdodau y wawrddydd. Heb yr adlanwadau bywiocauol hyn, mor fuan y treuliai y cyfansoddiad cryfaf yn ysgerbwd yn rhodio, ac y darostyngid y dysgawdwr doethaf i fod yn symlyn penllwyd!—Ys ysychdig yn ol, mi a welais Florio, druan, gyda syndod: yr oedd ei agwedd yn wyllt, ei wynebpryd yn gul, ei feddyliau yn wammal, a'i leferydd yn derfysglyd. Wrth ymofyn am yr achos o'r cyfnewidiad dyeithr yma, mi a gefais, na chauasai cwsg ei lygaid ef dros amryw nosweithiau; o eisiau yr adferydd rhagorol yma, mae'r gwr ieuangc bywiog hwnw, (yr hwn oedd unwaith yn fywyd yr ymddiddan, ac anwylyd y gyfeillach,) wedi myned yn ddrych o drueni ac erchylldod.

Pa gynifer o'n cyd-greaduriaid sydd, yr awrhon, wedi eu cyfyngu i welyau cystudd, yn cwyno, gyda'r dyoddefydd ardderchog hwnw, fod "nosweithiau blinion wedi eu gosod iddynt!"* Yn lle ymroddi i orphwysdra melus, maent yn rhifo'r oriau meithion, ac yn dywedyd pob tarawiad awrlais, neu yn mesur hyd yn oed y munudau â'u calon-gur dyheus! Pa

* Job vii. 3.

gynifer, yn flin gan boen, sydd yn hiraethu yn awyddus am ychydig seibiant oddiwrth eu gloesion, mewn hepian tawel! Pa gynifer, yn glaf gan aflonyddwch, na chyfrifent un peth yn ormod i brynu yr anghof byr yma o'u gofidiau!—Yr hyn nis dichon cyfoeth ei gyrhaedd, yr hyn y mae tyrfaoedd yn griddfan am dano yn ofer, a gyfranwyd i ti gan Dduw droion aneirif. Yr ymwelydd groesawus, yn bendant ar yr awr angenrheidiol, a ddaeth i mewn i'th ystafell, a dywalltodd ei babi o amgylch dy orweddle, a araf wasgodd dy amrautau i lawr, ac a ddyhidlodd ei wllth cysglyd dros dy holl synwyrâu.

Gan fod cwag mor anhepgor angenrheidiol, sylwch pa fath arlwy rhagorol mae anfeidrol Ddaioni wedi ei wneuthur i'n cyfaddasu ni â'r fendith adfywgar: gyda pha ragflaeniad tyner y symmudodd ef ymaith bob dim a allasai attal ei ddyfodiad, neu luddias ei ddylanwadau! Mae efe yn tynu lleni tywyllwch o'n hamgylch, yr hyn sydd yn ein tueddu i ddiogi trymlyd, ac yn cuddio pob gwrthdrych a allai weithredn yn rhy gryf ar ein teimlad. Mae efe yn trosglwyddo heddwch i'n hystafelloedd, ac yn bwrw dystawrwydd ar yr holl grëedigaeth. Gorchymynir i bob creadur droedio yn ysgafu, neu beidio a chyffro, pan mae dyn yn myned i orphwys.—A allwn ni ddim canfod, yn y trefniad graslawn hwn o bethau, gofal tirion mam, yr hon sydd yn tawelu pob twrdd, ac yn cau allan pob terfysg, pan mae hi yn gadael plentyn ei chariad i huno? Felly, trwy'r cyfryw amgylchiadau dengar, a chyffaith tyner-weithredol, y mae "Efe yn rhoddi hun i'w arwylyd."*

* Psal. cxxvii. 2.

Anghraifft hynod arall o Ragluniaeth lawnfrydiog ar ein daioni, yw, ein bod yn cael ein diogelu yn ddianaf yn oriau ein cwsg. Fel yr ydym ni, pryd hynny, yn colli pob ystyriaeth o'n henbydrwydd, hyd yn oed pe byddai y llofrudd yn ymyl ein gwely, a'i gleddyf noeth wrth ein mynwesau! Yn ymddifaid o bob gofal am danom ein hunain, yr ydym yn analluog i feddwl am, llawer llai i ddarparu dros, ein diogelwch. Yn y munudau hyn, gan hynny, yr ydym yn agored i beryglon aneirif: peryglon oddiwrth angerdd anwrthwynebol fflamiau; peryglon oddiwrth gynllwynion cyfrwys lladron, neu orddwy cynddeiriog ysbeilwyr; peryglon oddiwrth weithrediadau afreolaidd ein meddyliau* ein hunain, ac yn benaf oddiwrth ymgyrch ein gelym ysbrydol.

* Yr wyf yn meddwl, ei fod yn ddyledus i Ragluniaeth oruwchlywodraethol a gwyliadwrus, nad ydym yn cael ein gyru i'r gweithred-oedd mwyaf angeuol, pan fyddo ein dychymmyg yn cael ei gwresogi, a'n rheswm ei ddyddelwi, gan freuddwydion.—Ni a glywsom weithiau am rai trueiniaid anffodus, y rhai, gan rodio yn eu cwsg, a dafasant eu hunain bendramwnwgl trwy ffenestr, ac a ddrylliwyd ar y cerrig. A pha beth yw'r achos, nad yw'r fath ddamweiniau galarus ond yn unig cael eu hadrodd fel newyddion dyeithr, ac nid eu teimlo genym ni a'n teuluoedd? A oedd ein meddyliau ni yn fwy pwylllog yn eu gweithrediadau, neu yn fwy gwyliadwrus yn eu gofal? Nac oeddynt, yn wir: ni allasai dim fod yn fwy gwyllt ná'u crwydriadau, dim yn fwy diofal am ein diogelwch. Gan hynny, "os gorweddasom, os cysgasom mewn" heddwch, hynny a fu, o blegid i'r Arglwydd ganiattau i ni yr adfywiad melus: "os cyfodasom drachefn" mewn diogelwch, hynny a fu, "o herwydd i'r Arglwydd ein cynnal" gydag amddiffyniad didor.

A esgusoda y darlennydd hynaws fi, os ychwanegaf hanes fer, wirioneddol, a chyfattebol i'r sylwad blaenorol? Dau ddyn, ar ol bod yn hela ynghyd y dydd, a gysgasant ynghyd y nos ganlynol. Yr oedd un o honynt yn adnewyddu yr heliad yn ei gwsg; ac ar ol myned trwy holl gylch y rhedfa, daeth o'r diwedd at gwmp y carw. Ar hyn llefai allan, gyda brwdfrydedd penderfynol, "Mi a'i lladdaf; mi a'i lladdaf:" ac yn union chwiliai am y gyllell, yr hon a ddygai yn ei logell. Ei gydymaith, yr hwn a ddygwyddodd fod yn effro, ac yn sylwi ar yr hyn oedd yn myned ymlaen, a neidiodd o'r gwely. Gan fod yn ddiogel, a'r lloer yn llewyrchu'r ystafell, efe a safodd i weled y canlyniad; pan, i'w

Y fath ddrygau ofnadwy allai y gwrthwynebwr diorphwys ac anghymmodadwy hwnw wneuthur i ddynolryw, oni bai fod llaw anweledig yn ffrwyno ei gynddaredd, ac yn diffyn marwolion, truain. Y fath olygfeydd o erchyllod allai efe eu darlunio i'n dychymmyg, "a'n brawychu â breuddwydion, a'n dychrynu â gweledigaethau!"* Ond y mae Ceidwad Israel, yr hwn ni chwsg, ac ni huno yn dragywydd, yn ein meithrin dan ei adenydd, ac yn ein noddi â'i darian. Dywedir am Salomon, fod "Trugain o gedyra o amgylch ei wely, hwynt oll wedi eu dysgu i ryfel, pob un â'i gleddyf ar ei glun, rhag ofn liw nos."† Ond y mae un mwy nâ Salomon, a galluocchach nâ myrddiynau arfog, sef y Jehofa mawr, yn yr hwn y mae cadernid tragywyddol; mae efe yn teilyngu gwersyllu o amgylch ein preswylfeydd, a gwylid drosom yn ein cwsg, a chadw holl ddyfodfâau niwed.—O! ddaioni darostyngedig a diffin ein Creawdwr! yr hwn sydd yn ein suo i hepian trwy y cysgodau dystaw, ac yn sefydlu ei lygad byth-wyliadwrus ei hun yn wyliedydd drosom, tra mwynhaom y gorphwysdra angenrheidiol.

Y mae rheswm yn awr yn rhoddi i fynu ei swydd bwylllog, a dychymmyg chwydr-ffol yn tywys y meddwl trwy ddyrysa o wagedd. Crugir y pen â

syndod annhraethol, rhoddodd yr helwr penwan amryw frathiadau marwol, yn gywir yn y man y gorweddai ceg a bywyd ei gyfaill funud cyn hyny.—Yr wyf yn crybwyll hyn, fel prawf, nad all dim ein hattal rhag llofruddio ein gilydd, neu fod yn hunain-leiddiaid, yn rhuthrau gwylltion cwsg, ond gofal rhagflaenol ein Tad nefol yn unig.

* Y fath ben-campwr, yn arddangos gweledigaeth breuddwydiol, yw yr ysbryd digofus hwnw, a ymddengys oddiwrth ei ymddygiad tuag at Gnst ar y mynydd; a'i fod yn rhy barod i ddefnyddio ei fedrusrwydd i fino dynolryw, oni attelir ef gan allu goruwch-lywodraethol, sydd amlwg oddiwrth y modd y triniodd efe Job. Gwel Luc iv. 5. Job vii. 14.

† Can. iii. 7, 8.

delwau gau, a siomir ef â'r camddarluniadau gwrth-unaf o bethau. Mae rhai yn gwibio trwy faesydd swyngar, ac yn casglu pleth-goronau dedwyddwch breuddwydiol, tra mae eu cyrph yn estynedig ar syppyn o wellt, a chwedi eu diddosi gan gorwêoedd ysgubor. Ereill, yn llwyr anwybodus o'u hystafelloedd mawryddig, ydynt yn galaru mewn daeardd alaethus, neu yn ymdrechu â'r tônau cynddeiriog. Fe allai, eu bod, gyda chamrau prysor, yn dringo'r elogwyn creigiog, a chyda gwir bryder, yn ffoi rhag enbydrwydd dychymmygol: neu ynte, wedi ei merwinio gan arswyd disymmwth, a chan gael eu hunain yn analluog i ddiangc, maent yn rhoddi i fynu ar unwaith eu gobaith a'u bymdrechïadau; ac, er yn gorwedd ar wely ifori, yn suddo, mewn cyfyngder dinawdd, yn y llyngclyn cynddeiriog: mor annirnadwy yw gwibiadau yr ymenydd, pan fyddo cwsg yn cynnal ei arglwyddiaeth ar yr aelodau!

Onid ai dyma yr unig dymhor pan mae anubresn wrthun ac anghyson yn chwareu ei swyngyfaredd ar ein meddyliau? Onid oes rhai a freuddwydiant hyd yn oed yn eu munudau effro?—Rhai a ymfalchiant mewn tyb o uchafiaeth ragorol, am fod swyllys da brenhinol wedi cyfrannu iddynt ychydig enwau godidogion; neu am fod y sidanbryf wedi cymmynu ei edafedd deceaf i guddio eu noethni.—Ereill a ymorfoleddant am fod llwythi o sothach euraidd wedi eu pentyru ynghyd yn eu cistau; neu a addawant iddynt eu hunain wynfyd o'r mwyaf, pan fyddo rhyw floedd yn rhagor wedi eu hychwanegu at eu carnedd anfrddiol.—Ac nid oes ereill yn eisiau, y rhai a lygadrythant ar ol bodillonrwydd sylweddol, oddiwrth glod

gwag, ac a wehieithant eu hunain ag (nîs gwn pa) anfarwoldeb mewn si funudol o enwogrwydd.—A oes rhai o'r rhai hyn fyfyrn mwy rheasymol na'r adyn tlawd carpiog yn ei freuddwydion, yr hwn, tra mae efe yn cyegu dan berth, a ymfawryga yn y meddiant o balas ardderchog a dodrefn frenhinol?—Os dynion, y rhai sydd yn ddarostyngedig i'w nwydau arglwyddiaethol eu hunain, ac a dywysir yn gaethion gan brofedigaethau aneirif; os y dynion hyn a ymchwyddant yn y wagdyb o'u rhyddid, gan ddychymmygu eu hunain yn ddewrion a haelwyr eu hoes; pa le mae'r gwahaniaeth rhwng yr eiddynt hwy a gorphwyllder y gwallgofddyn, yr hwn, er wedi ei gadwyno wrth y llawr, sydd wedi ei orseddu yn ei feddwl, ac yn ysgwyd teyrnwialen freuddwydiol?—Mewn gair, cynifer ag a fenthyciant eu hurddas oddiwrth blu gau anrhydedd, neu addurniadau coegion cyfoeth; cynifer ag a anfonant eu heneidiau i ymofyn am ddedwyddwch yn ngweniaith teimladrwydd, neu mewn un peth islaw ewyllys da Daw, a gobaith, wedi ei iawn sylfaenu, o etifeddiaeth anllygreddig,* pa beth ydynt ond breuddwydwyr a'u llygaid yn agor; yn benysgafu, er yn iach?

A fynach chwi welad eu llun wedi ei dyttu i wir fywyd, a llwyddiant eu dyfeisiau wedi ei fwrw gyda'r manylrywydd eithraf; tafwch eich golwg ar y darluniad rhagorol a arddangosir gan y prophwyd: "Ie, bydd megis newynog a freuddwydio, ac, wele, ef yn bwyta; a phan ddaeffro, gwag fydd ei enaid: ac megis sychedig a freuddwydio, ac wele ef yn yfed; a phan

* Rhy rhai'n hyfrydwch pur a deimla'r fron,
A sicrwydd o ddedwyddwch effro. *Milt. Comus.*

ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych diod.* Y fath yw rhedegfa, a'r cyfryw yw camp, yr holl ymgeiswyr hyny am anrhydedd a llawenydd, y rhai a redant ymbell oddiwrth y nod o uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu. Maent yn byw mewn gwagedd, ac yn marw mewn tristwch.—Deffro ni, Arglwydd trugarog, o'n llewygon canol-ddydd! Deffro ni tra gallo argyhoeddiad droi yn fanteisiol i ni, ac nid gwasanaethu i gynnyddu ein poenau. "O! goleuer ein llygaid i weled y pethau sy'n rhagorol;" ac ni thwyller ni mwy gan ymddangosiadau penchwiban, y rhai, pa mor rhwysgfawr bynag y gallant ymddangos, a brofant yn waccach nâ gweledigaethau'r nos, yn fwy ansafadwy nâ'r breuddwyd a anghofir.

Ar ol crybwyll cwsg a breuddwydion, goddefer i mi unwaith etto ystyried y dygwyddiadau hynod hyn a berthynant i'n gwneuthuriad; mor dra hynod, fel y gallaf anturio eu galw yn fath o ddirgelwch profedig; ac ychydig llai nâ gwyrth arosol.—Gwelwch y cyfansoddiad cryfaf, pan mae wedi ei estyn ar wely esmwythder, a'i lwyr draddodi i hun y nos. Ei fywiogrwydd a orthrymir gan lyfetheiriau diogi, a'i nerth a ddiddymwyd dros amser; y mae'r gewynion fel bwa a ddadlinynwyd, a'r holl gyfundrefn gorphorol fel boncyff digyffro.—Wele ddyn o'r syniadau mwyaf manwl, a'r tymberau hawddgaraf. Mae ei lygaid yn llydain agored, etto, nid ydynt yn derbyn y pelydr golenadol, o leiaf, nid ydynt yn gwabaniaethu rhwng gwrthddrychau. Ei glustiau, a'u peiriannau heb eu dinystrio, ac accenion llafar yn curo ar y tabwrdd, nid ydynt yn dirnad y sain, o leiaf nid ydynt yn synied y

* Esa. xxix. 8.

meddwl. Mae'r synwyrâu, a'u teimladau rhagorol fanwl, wedi eu dymchwelyd gan syfrdandod anghyrfadwy. Chwi a'i galwch yn greadur cymdeithasgar, ond pa le mae ei serchiadau cymdeithasgar? Nid yw efe yn adnabod ei dad a'i cenhedlodd, nac yn cymmeryd un sylw o'r cyfaill sydd fel ei enaid ei hun. Dichon gwraig ei fynwes drengu wrth ei ystlys, ac yntau yn gorwedd yn fwy difater ná barbariad. Plant ei gorph a allant gael eu harteithio gan y gloesion llymaf, ac yntau yn yr un ystafell yn aros heb ei gyffroi gan y cydymdeimlad lleiaf.—Wele yr ysgolhaig cywraint, barn yr hwn sydd yn dreiddgar, ac yn alluog i olrhain holl anhawsderau dyrys gwybodaeth; ei archwaeth yn buredig, a pharod i ffasu holl ragoriaethau tyb a chyfansoddiad; etto, yn bresenol, mae swyddgynheddfau ei enaid yn ansefydlog, a'i drefniant deallol yn llwyr derfysglyd. Yn lle'r rhesymïadau cyssylltiedig, dim ond crug amherthynasol o feddyl-ddrychau gwrthun; yn lle'r egwyddorion trefnedig, dim ond tryblith cymmysglyd o synïadau llymrig. Mae'r holl nos yn myned heibio, ac yntau yn ei chamgymmeryd yn fynych am un munudyn; yn anystyriol o'i mynediad, prin yn ystyriol o un parhad.

Etto, cyn gynted ag y gwawrio'r bore, ac y treiddio goleuni'r dydd i'w ystafell, diflana'r swyngyfaredd. Mae'r dyn yn deffroi, ac yn cael ei hun yn feddiannol ar yr holl ddoniau gwerthfawr a attaliesid, neu a gollesid, dros amryw oriau. Llinynir ei ewynion, ac y maent yn addas i weithredu. Mae ei synwyrâu yn fywiog ac yn llym. Mae'r gweledydd dychymmygol yn ymddysclaerio yn arglwydd rheswm. Mae'r serchiadau rhewllyd, neu syfrdan, yn meddalhau gan

dwyerwch, neu yn ffiamio gan haeliomi. A pheth sydd tu hwnt i fesur yn rhyfedd, mae'r meddwl meddw yn gweithio ei hun yn sobr, nid yn raddol, eithr ar dararwiad amrant yn ymadnewyddu o'i derfysg.—Paham nad yw'r hurtrwydd, sydd yn marwau holl weithred-iadau cynnilion y galluoedd corphorol, yn dal ei afael yn sicr? Pan mae'r meddyliau unwaith yn cael eu hanghymahwyso, paham nad ydynt yn aros byth mewn tryblith? Pa fodd y mae yn dyfod oddiamgylch, en bod yn galw eu hunain yn ol mewn munudyn; ac, o'r afreolaeth wylltaf, yn cael eu darostwng i'r drefn gysonaf?—O anweithgarwch cyffelyb i angen, pa fodd mae'r corph yn ddisymmwrth yn cael ei adferu i fywiogrwydd a chyflymdra? O grwydriadau yn ymylu ar orphwylltra, pa fodd mae'r deall yn cael ei adsefydlu yn uniongyrch yn ei iawn bwyll a'i gysondeb?—Yn ddiau, “yr Arglwydd sydd yn gwneuthur hyn, a dylai fod yn rhyfedd yn ein golwg;” dylai ddeffroi eip diolchgarwch, a bywiogi ein moliant.

Dyma'r amser y tybir bod ysbrydion yn ymddangos. Yn awr mae'r ddychymnyg ofnus yn heigio gan bedrithiau, ac yn creu dychrynfeydd aneirif iddi ei hun. Yn awr mae ffurfiau erchyllion, mewn helynt cuchiog, yn braegamu trwy'r caddug; neu, yn gyflymach na'r felten, yn ymlithro trwy'r cygodau. Yn awr clywir lleisiau mwy na marwol* o'r nenfydau gwrthlefog, a chyfyd griddfanau o'r beddan cau. Yn awr mae drychiolaethau pruddion yn ymweld â dadfeiliadau ben fynachlogydd, ac yn ymgyrchu i breswylfeydd

* Vox quoque per lucos vulgo exaudita silentes
Ingens, et simulacra modis pallentia miris
Visa sub obacurum motis.——

Verg.

unig y meirw. Maent yn myned, ac yn dychwelyd, yn ddelwau ansylweddol, ar hyd y cynteddau amddifaid, neu yn cymmeryd eu safiad penodol uwchben rhyw fedd galarus.—Mor fynych y cyrchodd yr ysgollangc gylch hir, ac y chwerian-gerddodd lawer cam diachos, mewn trefn i ochelyd y fynwent ellyllog! Neu, os angenrheidrwydd trist a'i rhwyma i groesi'r fan lle gosodwyd penglogau dynol isod, a lle tywallt yr yw alaethus ddychrynfeydd afrifed uchod, mae miloedd o chwedlau echryslawn yn rhuthro ar ei gof; ofn yn ychwanegu adenydd at ei draed; ni faidd efe edrych yn ol unwaith; a bendithia ei dyngbed dda, os na chwyrnodd un swm dychrynlyd wrth ei sodlau, os na folltodd un llun irad ar ei olwg.

Mae yn beth dycieithr, i sylwi ar yr ofn anghymmesur sydd yn meddiannu meddyliau llawer o ddynion ar yr achlysur dychymmygol hwn, pan maent yn amddifaid o un gofal ar ereill o'r pwys mwyaf aruthrol. Y mae'r rhai hyny a lamant mewn rhodfa dywyll ac unig, rhag y dyb o un ellyll, pa fodd bynag, heb un argraff oddi wrth y dysgwyliad sicr o fyned i fyd cyfan o fodau digyrph; i.e. heb y cyffroad lleiaf o fraw, er y gwyddant eu bod yn prysuro i bresenoldeb yr Ysbryd mawr, anfeidrol, a thragywyddol.—Pe tynai rhyw gennad gwelw o ororau y meirw ein lleni yn ol ar hanner nos, a chan benodi rhyw fan neillduol, ddywedyd, fel drychiolaeth Brutus, "Mi a gyfarfyddaf â thi yno;"* yr wyf yn tybied y teimlai'r galon ddewraf rywbeth tebyg i gryndod, y meddyliai yn ddifrif am yr antur,

* Mae chwedl Brutus, a'i angel drwg, yn ddigon adnabyddus; ac nis gellir gwadu, nad geiriau y drychiolaeth wrth y gwron, oedd, "Mi a gyfarfyddaf â thi yn Philippi:" ond gan nad atebai hyn fy mwrriad, yr oeddwn yn rhwym i gyfnewid amgylchiad y lle.

ac y byddai yn anesmwyth am ei chanlyniad. Ond pan mae llais o'r nef yn llefain, yn iaith gyffrous y prophwyd, "Bydd barod, Israel, i gyfarfod â'th Dduw!"* leied o sylw a wneir o'r rhybudd! gynted yr anghofir ef! Bengaledrwydd annaturiol! i fod yn llwyr ddifater, lle byddai yn ddoethineb benaf i grynu; a bod yn llawn arswyd, lle nid oes dim gwirioneddol ddychrynlyd!—Fy enaid, cofia di gyngor dy Iachawdwr; "Mi a'ch'rhag-rybuddiaf chwi pwy a ofnwch." 'Nac ofnwch ddychrynfeydd dychymmygol y nos; eithr ofnwch y Bod ofnadwy hwnw, datguddiad yr hwn o hono ei hun, er gyda thiriondeb a thosturi neillduol, a wnaeth i Moses, ei was ffyddlawn, i grynu yn ddirfawr; amlygiad yr hwn o hono ei hun, pan ymddangoso efe gyda dybenion o ddialedd anghymmodlawn, a wna i oresgynwyr nerthol, y rhai oeddynt gynnefin ag enbydrwydd, ac yn ddyeithr i wangelonid, i waeddi ar y mynyddoedd i syrthio arnynt, a chreigiau i'w gorchuddio. Bygythiad llygad mawryddig yr hwn, pan ddél efe gyda myrdd myrddiynau o luoedd anfarwol, a bair i'r nefoedd eu hunain hollti, a'r ddaear i ffoi oddi ger ei fron.—O! arswyda ei anfoddlonrwydd Ef, diogela ei ewyllys da Ef, yna ti a elli draddodi pob anesmwythder i'r gwynt, a chwerthin am ben pob ofn.'

Mae hyn yn dwyn i'm meddwl y dygwyddiad rhyfedd a hynod, a goffèir yn llyfr Job; † yr hwn, yr wyf yn meddwl, nid yw yn brawf anghyfrifol o fodoliaeth wirioneddol drychiolaethau ‡ ar ryw achlysuron

* Amos iv. 12.

† Job iv. 12, 14, &c.

‡ Sydd yn brawf o fodoliaeth wirioneddol drychiolaethau.—Os yw yr ystyr, 'ymha un yr wyf fi bob amser yn deall y gyfran, yn iawn—'

anghyffredin, tra mae yn anghefnogi y miloedd o chwedlau ofer, a daenwyd gan goelgrefydd, ac a dderbyniwyd gan hygoledd; gan ei fod yn ein dysgu, os bydd i rai o'r ymwelwyr hyny, o'r byd anadnabyddus, wneuthur eu hunain yn weledig i farwolion, nad yw eu cennadwri o ganlyniad ysgafn; eithr eu bod yn trosglwyddo hysbysiadau o'r pwys mwyaf, neu yn gweithredu argraffiadau o'r buddioldeb uchaf.

Yr oedd yn nyfader y nos; holl natur a orwedda'i yn amdöedig mewn tywyllwch; pob creadur a gladdesid mewn cwsg; a'r dystawrwydd dyfnaf a lywodraethai trwy yr holl fyd. Yn y munudan hyny, Eliphaz, i gyd yn effro, wrtho ei hun, ac yn neillduedig, a fyfyriai ar destynau uchel a nefol—pan, wele! fôd ofnadwy o'r byd anweledig yn ymdorri i'w ystafell:*

Eliphaz, yr wyf yn ystyried, nid oedd nac mewn llewyg, nac mewn breuddwyd, ond yn berffaith effro.—Er ei fod yn Hefaru am gwsg, mae yn llefaru am dano, nid wedi syrthio arno ei hun, ond ar ddyinion ereill. Nid yw yn crybwyll breuddwydion, er y buasai *חלמות*—chalomoth—*somnia*, (breuddwydion,) yn ateb y llinell (os yw y llyfr mewn mydr-yddiaeth) lawn cystal a *חזון*—chezeenoth—*visiones*, (gweledigaethau.) Yn sicr, ni allasai fod yn *wynt*, fel y cyfieitha rhai y gair *רוח*—*ruach*—cansys nid yw yr amgylchiad o *sefyll* yn gydweddol â natur gwynt; a buasai gwynt yn myned *oddi arno*, ac o'i *amgylch*, yn gystal ag o'i *flaen*. Heb ychwanegu y fath nodiad isel, mor annheilwng o le yn y fath ddesgrifiad mawryddig, yw, *nad allasai efe adwaen agwedd* gwynt. Mae yn ymddangos, gan hyny, mai ysbryd gwirioneddol ydoedd, naill ai angylaid, fel y rhai hyny a ymddangosasant i Abraham, wrth ddrws ei babell, a Lot, wrth borth Sodom; neu ynte, ysbryd rhyw sant ymadawedig, fel drychiolaeth Samuel, neu ymddangosiad hynod Moses ac Elias ar fynydd y gweddnewidiad.—Ysbryd, yn cymmeryd rhyw gludiedydd i wneuthur ei hun yn weledig i'r llygad dynol; yr hwn, o ganlyniad, a welodd Eliphaz, yn arddangos ei hun yn wrthddrych i'r olwg; ond a welodd mor dywyll ac aneglur, fel nad oedd efe yn alluog i ddesgrifio ei agwedd, nac i ganfod i bwy yr oedd yn debyg.

* Myfi a roddais wisg ddiweddar i'r darluniad pwysig hwn, yn hytrach er mwyn amrywiaeth ac eglurhad, nag oddiar un cynnygiad i ardderchogi y cyssefin rhyfeddol. Byddai'r fath ymdrechriad, yr wyf yn gwybod, yn fwy ofer a gwrthun na golchi yr aur, neu liwio'r adamant. Mae'r desgrifiad, yn iaith Eliphaz ei hun, yn ofnadwy a chyffrous i'r radd olaf;

“ysbryd a aeth o flaen ei wyneb!” Syndod a ddaliodd yr edrychyd: ei esgyrn a grynasant ynddo, ei gnawd arno a ddychrynodd, a gwallt ei ben a safodd yn syth gan arswyd.—Disymmwth ac annysgwyliadwy oedd ymddangosiad y lledrith; nid y cyfryw ei ymadawiad. “Efe a safodd,” i ddangos ei hun yn llawnach i’r olwg. Efe a wnaeth osteg syn, i barottoi y meddwl gogyfer â’r gennadwri ddifrifol: ar ol yr hyn clybwyd lleferydd; lleferydd, am bwysfawrogrwydd ei hystyr, deilwng o’i chadw mewn coffadwriaeth dragywyddol; am arbenigrwydd ei thraddodiad, ddigon i frawychu calon o garreg. Efe a lefarodd, a hyn oedd amcan ei eiriau: “A fydd dyn brau yn gyfiawn o flaen y Duw galluog? A fydd” hyd yn oed “y perffeithiaf o farw-olion yn bur yn ngolwg ei Wneuthurwr?”* “Gwel,” ac ystyria yn astud. “Yn ei wasanaethwyr” mwyaf dyrchafedig “ni roddes efe” gyfryw “ymddiried,” ag a’u cyhoeddai yn ddiddiffig. “Ac” hyd yn oed “yn erbyn ei angylion y gosododd efe ynfydrwydd,” fel yn suddo, yn mberffeithrwydd uchaf ei sancteiddrwydd,

yn nos-ddarn wedi ei wisgo yn holl amgylchiadau y dychryn dyfnaf. Yr wyf yn ammau a oes yn Shakspeare ei hun, er mor neillduol lwyddiannus mewn darluniadau brawychus, ddim rhagorach neu gymharol â hyn. Gwel beirniaid cyfansoddiad prydfert h y llinellau pencelfydd; ac yr wyf yn credu fod y darlennydd mwyaf cyffredin yn teimlo ei waed yn rhewi, a chyffroadau o aeth yn deffroi yn ei feddwl.

* Mae esgyniad hardd a chynnwysfawr yn ymddangos yn y geiriau Hebraeg *wen enosh* a גֵבֶר *geber*, yr hwn yr ymdrechais ei gadw trwy fath o arall-eiriad. Fe wel y darlennydd fod rhediad newydd wedi ei roddi i’r ystyr; rhagorach, yr wyf yn meddwl, nâ’r un a gynnwysa yr hen gyfieithiad. Nid, “A fydd dyn yn gyfiawnach nâ Duw?” Ond, “A fydd dyn yn gyfiawu o flaen,” neu “yn ngŵydd, Duw?” Mae’r gyfrasa, wedi ei throï fel hyn, yn llefaru gwirionedd anghymharol swy pwysig ac angearheidiol i gael ei annog; gwirionedd perffaith gydradol â chyf-odddefiad gostyngedig y prophwyd, “Yr ydym ni oll megis peth effen!” ac â chyhoeddiad difrif y Psalmydd, “Ni chyfiawhaeir neb byw yn dy olwg di.”

yn anfeidrol islaw ei ogoniant tra rhagorol ef; fel yn cwmpo, yn holl fyddlondeb eu hufudd-dod, yn annhraethol fyr o'r wriogaeth ddyledus i'w Fawrhydi addoladwy. Os na faidd naturiaethau angylaidd gyfiawnhau eu hunain, na'u gwasanaeth, ger bron purdeb digrëedig; "pa faint mwy gwrthun" yw'r gyfryw dyb, pa faint mwy annawiol yw'r fath gynnyg, yn y "rhai sy'n trigo mewn tai o glai," y rhai mae eu dechreuad o'r pridd, a'u cyflwr i gyd yn amherffeithrwydd!

Myfi a sylwn, oddi yma, yr angenrheidrwydd neillduol am y tloedi ysbryd hwnw, yr hwn sydd yn llwyr ymwadu â'i gyfiawniadau ei hun, ac yn ymostwng yn ddiolchgar i gyfiawnder y Duw yn y cnawd.—I'n bysforddi yn y wers hon, daeth Mab y Sanct i waered o'r nef, ac ni wasgodd un egwyddor arall drachefn a thrachefn* gyda'r fath daerineb ar feddyliau ei wrandawyr. I addysgu yr un athrawiaeth, cyffyrddodd yr Ysbryd Glân wesusau yr apostolion â hyawdledd sanctaidd, ac a'i gwnaeth yn rhan nodedig o'u hawdardod, i "fwrw dychymmygion uchel i lawr." Fel na byddai dim yn eisiau i roddi iddi effeithioldeb dwfn a pharhaus, wele ledrith yn ymgodi o lyn cysgod angeu, neu addysgwr yn disgyn o drigfa'r ysbrydion.— Pa beth bynnag, ynte, a esgeulusom, na esgeuluswn feithrin y gras hwn, yr hwn a ddysgwyd trwy ffyrdd

* Mae yn deilwng o'n sylw, medd un deonglydd rhagorol, "Nad oes un ymadrodd, a lefarwyd gan ein Harglwydd, yn cael ei adrodd mor fynych a hwn; "Pwy bynnag a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a phwy bynnag a'i gostyngo ei hun, a ddyrchefir:" yr hyn sydd yn dygwydd yn aml yn yr Efyngylwyr; ond nid yw byth yn cael ei gyfiawni yn ddyldadwy ynom ni, nes ymwadom â phob honiadau i deilyngdod a chyfiawnder o'n heiddom ein hunain; gan eu eesio yn iawn ac ufudd-dod Crist Iesu yn unig.

mor amrywiol, ac a gymbellwyd mewn dull mor awdurdodol.

Clywch! lais alaethus—Gyda rhuthrau disymmwth, ac oernadau erchyllion, mae yn aflonyddu dystawrwydd y nos. Ysgrech y ddalluan yw, mewn accenion cynddeiriog weithiau, ac weithiau digysur, mae hi yn adrodd ei gofidiau.* Y mae hi yn ffoi rhag y wasgod soniarus, ac yn gochelyd cymdeithas y cydgôr asgellog. Nid oes dim swynion iddi hi yn y gerddi blagurog, a'r dolydd meillionog. Cysgodau duon adfeiliadau carpiog, a muriau wedi eu mantellu mewn eiddiorwg, ydynt ei chyrchfâau dewisol hi. Uchod y mae'r clogwyn yn pengrynu, ac yn bygwth syrthio; isod mae'r llyffant yn ymlusgo, a'r neidr wenwynig yn chwithrwd. Y bore bywiog, yr hwn sydd yn deffroi y creaduriaid ereill i lawenydd, nid yw yn gweini un hyfrydwch i'r feudwy hon. Hyd yn oed wyneb gwenol y dydd yw ei hatgasrwydd, a'i holl olygfeydd hawddgar nid yw ond creu anesmwythder.

- Felly, yn gywir felly, y byddai gyda'r annuwiolion, pe byddai yn ddichonadwy meddwl iddynt gael eu derbyn i drigfanau glân a dysclaer y gwynfydedig-rwydd diddiwedd. Ni chaent hwy ond siomedigaeth a chywilydd, wrth ben ffynnon dedwyddwch ac anrhydedd.—Canys pa fodd y gallai'r tafod, a ymgynnefnodd â chabled, brofi unrhyw ddedwyddwch yn addoliadau cyssain y nef? Pa fodd y gallai'r gwefusau,

* *Solaque culminibus ferali carmine bubo,
Sæpe queri, longasque in fletum ducere voces.*

Fel hyn y canodd yr awenydd swyngar hwnw, tywysog prydyddion bynafiaeth, y pen-campwr perffeithaf hwnw mewn godidogrwydd a chywirdeb; holl syniadau yr hwn sydd yn natur, holl ddegrifiadau yr hwn sydd yn ddarlun, a iaith yr hwn sydd i gyd yn beroriaeth.—*Virg.*

a yswyd gan enllib, archwaethu llesmeiriau moliant tragywyddol? Pa le byddai boddhad y ffrinddeg wageddus, neu yr uchelwr ffroenfalch? Gan na byddai, yn nheml yr wybrenau, dim arogldarth gweniaith i'w offrymu i'r naill, na gwriogaeth ostyngedig i'w thadu i'r llall.—Purdeb difrycheulyd ac anamgyffredadwy y gwynfydedig Dduw a danbeidiai gythrwf ar y llygad gwammal. Rhaid y byddai'r meddwl cenfigenus ar arteithglwyd nwydau hunan-boenydiol, wrth ganfod myrdd o fodau dedwydd yn llewyrchu yn holl berffithderau gogoniant, ac yn cysuro eu hunain yn nigonolrwydd llawenydd. Yn fyr, yr enaid aflan, ymhlith yr ysbrydion sanctaidd a gorfoleddus, hyd yn oed yn ngororau dedwyddwch ac anfarwoldeb, a fyddai fel yr aderyn pruddlyd yma, wedi ei tharfuo o'i lloches gaddugol, a'i chaethiwo dan belydr y dydd.*

Mae llais y creadur yma yn oernadu wrth ein ffenestri, neu eiddo'r gigfran yn garwgan uwchben ein tai, yn ddaroganiad, meddant, fod angeu gerllaw. Mae dynion a edrychent ar y ddamwain hon gyda gradd nid bychan o bryder. Diystyr fel ag yw, hi

* Mi a erfyniwn ar y darllenydd i sylwi, gyda pha bwys a phriodoldeb y mae ein Harglwydd yn cyffwrdd â'r pwngc difrif hwn, yn ei ateb gwiwgof i Nicodemus. "Yn wir, yn wir, meddaf i ti, oddi eithr geni dyn drahefn, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw;" fel po dywedasai; 'Yr wyf yn gosod awdurdod y pen Barnwr i lawr, ac yn llefaru gydag ymostyngiad dysgawdwr yn Israel. Er y gallwn, heb fod yn ddarostyngedig i un attalfa, ei chyhoeddi yn ddeddf safadwy, Na chaiff marwolion heb eu hadnewyddu, a chaethweision eu chwantau llygredig eu hunain, ddim myned i mewn i drigfanau y cyfiawnton; yr wyf yn dewis, yn hytrach, ei ddangos fel peth hollol annichonadwy; a gosod y bai, nid ar lymdra dwyfol, ond ar ffolineb dynol. Mae'r cyfryw ddynion, oddiar natur pethau, yn cau eu hunain allan, ac yn anghymhwysu eu meddyliau eu hunain; a rhaid i anghysonderau gael eu cymmodi, cyn y gallont hwy, yn eu cyflwr diadgenhedledig, fod yn gyfrannogion o'r hyfrydwch ysbrydol a dyrchafedig hwnw.' Ioan iii. 3.

a ddigalonai eu hysbrydoedd, fe allai, a dorrai eu hesmwythder.—Ni all un lai nâ synu, fod dynion yn goddef eu hunain i gael eu dychrynu gan y fath argoelion dychymmygol, pan maent yn llwyr ddigyffro yn wyneb rhai gwirioneddol, o'u hymddattodiad. Mae argoelion gwirioneddol o'r dygwyddiad ofnadwy hwn yn ein cyfarch o bob tu. Pa beth yw'r tywyllwch hyn sydd yn gorwedd ar, ac yn gorchuddio'r byd, ond math o elor-len wedi ei darparu i natur, ac arddangosiad o'r nos faith, yr hon yn fuan a orchuddia drigolion yr holl ddaear? Y fath berthynas agos sydd rhwng y cwsg,* yr hwn yn fuan iawn a bwysa fy amrantau trymlyd i lawr, â'r sefyllfa hono o orphwysiad hollol, ymha un y clöir fy holl synwyrar ar fyr! Yr ystafell dawel, a'r gwely heppian, ydynt ddesgrifadau darluniadol iawn o'r tir hwnw lle mae pob peth yn ddystaw, pob peth wedi ei anghofio.—Pa beth oedd meddwl sain ddofn y cnul, yr hwn, yr hwyr arall, a bruddhaodd yr awyr? Yn llwythog o'r accenion trymaf, efe a darawodd ein clustiau, ac a ymddangosai fel yn curo wrth ddrws ein calonau. Yn ddiat, efe a ddyg gennadwri i farwolion gorfucheddol; a dyma oedd cynnwysiad ei newyddion:—
 'Farwolion, mae dinystrydd eich hil ar ei ffordd; mae'r gelyn diweddaf wedi dechreu ei erlyniad, ac yn ynnill tir arnoch bob munud. Mae ei lwybran wedi eu gwasgaru â charneddau y lladdedigion. Ië, yr awrhon, mae ei waywffon wedi gosod un o'ch cymmydogion yn y llwch, ac yn fuan, yn fuan iawn, efe a annela ei ergyd anocheladwy at fywyd pob un o honoch chwithau.'

* Et consanguineus lethi sopor. Virg.

Nid rhaid i mi fyned i waered i'r esgyrddy, a dwyn ein hymchwil i ystafelloedd y meirw, mewn trefn i gael allan goffiadwriaethau o'n dedfryd gyfagos. Mae lluoedd o'r coffawyr hyn wedi eu planu hyd ein holl ffyrdd, i gyfeirio yr ymdeithwyr diofal at eu hir gartref. Prin y gallaf fyned i un dref gyfrifol, heb gyfarfod â gorymdaith angladd, a'r galarwyt yn myned trwy yr heolydd. Mae'r ownsallt crogedig ar y mur, neu y deneu-wê yn ffrydio yn yr awyr, yn dystaw ysibrwd, fod y cyfoethogion a'r tlodion wedi bod yn arllwys eu tai, ac yn llanw eu beddrodau. Prin y gallaf ymuno mewn un gyfeillach, na byddir yn crybwyll am ryw rai newydd eu rhoddi i fynu gan y meddyg, ac yn chwyfio ar ymylau tragywyddoldeb; neu ereill, newydd ymadael â'u pebyll priddlyd, ac yn myned i ymddangos ger bron Barnwr yr holl ddaear. Nid oes un newyddiadur yn dyfod i'm llaw, nad yw, ymysg ei holl draethodau difyr, yn darllen amryw lithiau difrifol ar farwoldeb. Pa beth, ynte, yw'r mynych hanesion—o henaint, wedi ei dreulio allan gan glefydau araf—o ieuengctyd, wedi ei ddryllio yn ddarnus gan ergyd disymmwth damwain—o wladgarwyr, yn cyfnewid eu heisteddfâau yn y senedd am letty yn y beddrod—o gybyddion, yn rhoddi eu hanadl i fynu, ac (O dynged ddidostari!) yn gadael byd yn oed eu góludoedd i ereill? Iê, mae eludiedyddion ein difyrwch yn gofrestrau y trangedigion, ac anaml y mae llais enwogrwydd yn llefain heb fod yn gysaint â chnull.

Y mae'r rhybuddwyr hyn yn crugio pob lle, heb gymmaint a llysu golygfeydd ein hyfrydwch. Pa beth yw addurniadau ein hadeiliau cyhoedd, a ddaresfa

wych ein hymddiddanfâau; ond arluniaeth angen, a chofnodau o oruchafiaeth y bedd? Y ddelw fynor yna, a'r darluniadau goreuredig hyn, mor ddifrifol y maent yn cydnabod tynged ereill, ac mor llafar y maent yn ein hadgofio ni o'r eiddom ein hunain!—Yr wyf yn gweled, yn clywed, ac O! yr wyf yn teimlo, y gwirionedd mawr hwn: mae wedi ei gymhlethu â'm cyfansoddiad. Mae mynych adfeiliau yr adeilad yn rhagfynegi ei dinystr olaf.—Pa beth yw yr holl wynegau a drywanasant trwy fy aelodau, a phob anhwyldeb a ymosododd ar fy iechyd, ond lluoedd blaenrhedol y gelyn? Pa beth yw y gwendid a'r lludded wyf yn deimlo ar ol llafur pob dydd olynol, ond ymosodiadau mwy dirgel y gwrthwynebwr yn chwerian ddadsylfaeni fy mhabell briddlyd?

Ymhlith cynifer o rybuddion, a awn ni ymlaen yn ddifeddwl a diofal? A all neb o'r rhagargoelion hyn, y rhai sydd mor sicr a geiriau'r nef, ddefroi ein sylw, a rhwymo ein hystyriaeth? “Noa, (mae yn ysgrifenedig,) wedi ei ragrybuddio gan Dduw, a ddarparodd arch.” Efelycha, fy enaid, efelycha ei anghraifft ragorol. Wedi dy gynghori gan y fath gwmwl o dystion, bydd yn gosod dy hun yn barhaus mewn parodrwydd gogyfer â'th gyfnewidiad olaf. Na ddeued y dydd hwnw, o ba un y cefaiest gynifer o arwyddion difeth, arnat yn ddiarwybod. Dattod yr eiddiorwg, a dad-ddyrysta dy serchiadau oddiwrth y byd hudolus hwn, fel y gallot ymadael ag ef heb un gwrthymdyniad. Myn yr ysgrifen-law arswydus wedi ei dileu, a'th holl bechodau wedi eu taflu ymaith, fel y gallot ymadael mewn tangnefedd, ac heb ddim i'w ofni ger bron y frawdle benderfynol. Myn, O! myn

dy hawl yn rhinweddau y Gwaredwr yn sicr, a'i ddelw wedi ei hargraffu arnat; yna byddi yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni, a gelli hyd yn oed ddymuno dy ddattod, a bod gyda Christ.

Weithiau, yn fy rhodfa hwyrol, mi a glywais

Yr edn effro'n canu yn y gwyll,

Gan gathlu'i nosol gerdd o'r wasgod gudd.*

Mor wahanol yw odlau'r perorydd yma i'r nadau ysgrechlyd a daroganus o'r blaen! Aeth y creadur bach trwy holl amrywiaethau cerddoriaeth, a dangosodd ei hun yn bencelfydd ymhob rhagoriaeth sydd yn cyfansoddi neu yn addurno cynghanedd.—Weithiau mae hi yn chwyddo ceg wrol, a'i chân yn ennyn i wresogrwydd. Mor hyf yw y dôn, fel y gallech feddwl fod ceingcwraig y nos yn y prysglwyn nesaf: ar fyr mae'r gathl yn llesgân, a'r gerddores alarus yn meddalhau i dynerwch. Mae'r odlau pruddion yn ymledrattau trwy'r cysgodau, ac yn taro'n wanaidd ar y glust; neu, mewn accenion melusber, maent yn ymddangos yn trengu hyd y dyffryn llydan. Mae dystawrwydd yn ymhyfrydu, a'r nos yn clust-ymwrando â'i chwedl dreiddgar.

Y fath wahoddiad yw hwn i ymlithro ymaith o'r ddinas grugiedig! Nid yw'r glerferch osgoilyd a gwylaidd hon yn difyru neb, ond carwyr neillduaeth. Mae y rhai sydd yn gloddesta uwchben y cwpan, neu y baldorddi mewn cyfeddach wttresgar, yn colli'r wledd hon o gerddoriaeth.—Yr un modd mae hyfrydwch crefydd, y llawenydd sydd yn tarddu oddiar gymmod â Duw; y boddhad sydd yn deilliaw o hawl sefydledig yn Nghrist, ac o ragolwg o anfarwoldeb

* Milt. Par. Lost, b. iii. l. 38.

gwynfydedig, yn ngholl i'r meddwl sydd fyth yn y dorf, ac na faidd, neu na fyn, ymneillduo iddo ei hun.— A yw cerdd yr eos yn ein difyru? A ydym ni yn dymuno ei chael yn nea, a'i ohlywed yn amlach? Ymfynwn am galon wedi ei hadnewyddu, ac ewyllys ymroddgar; am gydwybod yn ysibrwd tangnefedd, a nwydau wedi eu ceingcio gan ras. Yna, ni bydd arnom byth eisiau peroriaeth yn ein mynwesau ein hunain, llawer mwy cerddgar foddhaol nag odlau melusaf Philomela felus.

Mor wabanol a lleisiau yr adar hyn, yw amgylchiadau yr ychydig ddyinion sydd yn parhau yn effro.— Mae rhai yn gwastraffu, perlau gaf fi ddywedyd, neu deyrnasoedd? Nagê; eithr yr hyn sydd yn anbraethol fwy gwerthfawr, amser: yn gwastraffu y dalent ambrisiadwy hon gyda'r afradlonrwydd mwyaf anystyriol a thrythyll. Heb ymfoddloni ar ganiattau ychydig funudau a fyddont droa ben i'r dyben i swynhau adfywiad angenrheidiol, maent yn taffu ymaith oriau lawer, yn cyflwyno nosweithiau cyfain, i'r difyrwch gwag o gymmysg, rhestru, a didoli cyfres o bapur-fyrddau lliwiedig. Ereill, yn lle'r tegauau dyfal hyn, a gyflawnant ran eu poenydwyr eu hunain. Maent hyd yn oed yn eu brathu eu hunain,* ac yn ei alw yn ddifyrwch. Rhwygir hwynt gan feirch gwylltion, a galwant hyn yn gellwair. Pa beth, yntè, yw arferiad y campwr? Mae ei feddwl wedi ei ddirdynu ar fachau dannheddog petrusdod, a'i gyffroi gan eithafodd ffyrniccaf gobaith ae ofn. Tra mae'r eisiau yn trystio, mae ei galon yndychlamu, a'i dynghed yn crynu; ac fe allai, gyda'r taffiad nesaf, y suddir un

* Cyfeiriad at gosg boenus iawn ar droeddwyr ymhlith y milwyr.

i llynglyn dystryw, ac y gyrrir y llall i gynddaredd gorphwylltra.

Mae rhai, wedi eu ciplo o flagur iechyd, ac arffed llawnder, yn cael eu cyfyngu i ystafell cystudd; lle cymhellir hwynt, naill ai i dafu eu hunain i'r byd tragywyddol yn anmbarod, neu ynte (gyfnewidiad trist!) i fwrw eu meddyliau dros holl ynfyrwydd bywyd diofal, a holl chwerwder angeu yn agoshau. Mae y clefyd yn ymgynddeiriogi, mae yn gwatwar holl nerth meddyginiaeth, ac yn gyru yr adyn anewyllysgar i fin y dibyn; tra mae elyllon yn deffroi y gydwybod, ac yn cyfeirio at y pydew diwaelod obry.—Fe allai fod ei fam ymollyngar, wedi ei hamddifadu er ys hir amser o briod ei mynwes, a'i difeddiannu o'i holl eppil heb-law iddo, yn awr, i'e yr awrbon, yn derbyn yr ergyd sydd yn perffeithio ei thrallod.* Yn ofer mae hi yn cynnyg llaesu gofidiau ei hanwyl blentyn; yn ofer mae hi, a'i swyddau tyner, yn ymdrechu estyn bywyd mwy holl na'r eiddo ei hun. Mae efe yn llewygu yn ei breichiau; mae yn gogwyddo ei ben; mae yn suddo

* Mae hyn yn dwyn ar gof i mi un o'r galar-ddarnau trymaf yn y byd. Mae'r hanesydd sanctaidd yn ei ddarlunio yn holl symledd dull, etto yn holl nerth lliwiau.—“Pan ddaeth yr Iesu yn agos at borth y ddinas, wele, un marw a ddygid allan, yr hwn oedd unig fab ei fam, a hōno yn weddw.”—Y fath esgyniad sydd yma! mor gyffrous a phrydferth! Mae pob amgylchiad newydd yn dyfnhau y clywyf, yn chwaneugu y trallod, nes yw'r disgrifiad wedi ei weithio i'r darlun perffeithiaf o gyfyngder manwl a digysur.—Gwr ieuangc ydeedd, a dorrasid ymarth yn mlodau ei ddyddiau, ymyag mil o ddysgwiliadau gwychieon, a gobaith yn gwenu: mab; unig fab; cyfan y fam drallodus: fel nad oedd neb i gadw yr enw, na pharhau y teulu. A'r hyn oedd yn gwneuthur yr amgylchiad ya fwy alaethus byth, yr oedd “hōno yn weddw:” wedi ei gadael yn llwyr amddifad, ei rhoddi i fynu i ofidiau; heb neb i gyfranogi o'i thristwch, neu i'w chysuro dan ei cholled anadferadwy.—Oaid yw hwn yn llielliad darluniadol a chyffrous? Pwy all ystyried yr hanes gydag un gradd o ddirifwch, heb deimlo ei galon yn toddi gan dosturi? Luo vii. 12.

yn yr angeu. Angheuol, annhraethadwy angeuol, oedd y loes drangcédig olaf hōna! Tra mae yn cil-gwthio yr enaid anfoddlawn allan, mae yn rhwygo ei hunig blentyn o goffeidiau cynnes mam, ac yn dryllio cynnaliaeth ei henaint oddiwrth weddw annyddanus.

Tra mae y rhai hyn yn hiraethu am ddienoed, mae ereill yn gwahodd yr ergyd. Wedi llwyr fino ar y byd, maent yn griddfan, gydag anoddefgarwch di-orphwys, am eu dattodiad. Rhai, yn dihoeni dan adfeiliadau dygnion darfodedigaeth anfeddyginiaethol, neu yn lluddedu am anadl, ac ar fogi gan ddiluw o ddifeirlif: yn rhai, mae'r cancr didosturi wedi sicrhau ei ddannedd gwenwynig, ac yn eu cnoi hwynt, er ynghanol nerth corphorol, a chyfeillion tosturiol, yn raddol i farwolaeth. Mae ereill ar arteithglwyd o loesion gan wewyr dirdynol y garreg. O! fel mae'r poen yn nyddu eu cymhalau! fel y mae'r chwys yn gwlychu eu cnawd! fel y mae eu llygaid yn treiglo'n wylltion! Mi dybygwn fod y nos yn tosturio wrth y rhai hyn, ei phlant gorthrymedig, ac yn tywallt ei dagrau gwllithog ar eu hanneddau galarus.—Ond o bawb oll, hwynt-hwy yw y rhai mwyaf dygn-druenus, y rhai sydd yn griddfan dan lethiad meddwl pruddglwyfus, neu yn llosgi dan ffrewylliadau cydwybod ddigofus. Er wedi eu dilladu mewn pali, neu eu gorchuddio â thlysau, mae sefyllfa y caethwas wedi ei gadwyno wrth y crogbren, neu yr alltud wedi ei ddedfrydu i'r mwngloddiau, yn baradwys berffaith mewn cymhariaeth i'r eiddynt hwy.

O! na thaffai euddunwyr llawenydd, y rhai y mae eu bywyd yn gylchdro parhaus o ddigrifwch a gwam-malder, un meddwl difrif ar yr amrywiaeth hyn o

ofidiau dynol! Gallai eu dysgu, i ymserchu llai yn yr ychydig felusderau llesg, sydd wedi eu gwasgaru yn deneu trwy y glyn hwn o wylofain, a chwedi eu hamgylchu gan liaws o ddrain pigog. Gallai eu dysgu, i beidio dawnasio eu blynyddoedd gwerthfawr ymaith mwyach, mewn un cyffro penysgafn gwibiog; eithr i ymestyn, gydag awyddfryd sefydlog, ar ol y gororau dedwydd hyny, lle mae hyfrydwch helaethlawn a dichwerwder yn llifeirio.

A all amgylchiadau fod, y rhai a wrtherfyniai dyn o ddoethineb, yn daerach na'r anghreiffitiau hyn o drallod gofidus? Y mae; a pheth sydd dra rhyfedd, maent yn fynych yn ddymuniad a detholiad y rhai hyny a farnant eu hunain yn unig etifeddion dedwyddwch; y rhai hyny wyf yn feddwl, y rhai sydd yn ymwithio allan i ddyfnderoedd afradlondeb, ac yn rhedeg eithafoedd meithion gormod-rhysedd: y rhai sydd yn gwerthu eu cymmeriad, ac yn aberthu eu tangnefedd, i foddloni eu chwantau; yn dadwadnu sylfaen eu biechyd mewn aflendid, neu yn llongdryllio daioni eu teuluoedd yn eu cwpanau; a pheth sydd waeth, yn rhoddi gorfoledd tragywyddol y nef i fynu, am foddhad gwael anifail, a mwyniant darfodedig awr!—Chwi gaethion blys! belled ydwyf oddiwrth eiddigeddu wrth eich cnawdolrwydd gwrthun, a'ch gloddest drythyll! Ychydig, ah! ychydig, y'ch chiwi yn feddwl, fod ymollyngiad, tra mae yn gwlawio ei blodau, ac yn taenu ei pheraroglau, yn gwasgaru ei gwenwyn hefyd, ac yn tywallt ei dinystr* yn ddisylw; drygau anghymharol gynddeiriocach na wermwd a bustl y gorthrymder llymaf.—

* "Yn y goronbleth flodau addurna'r cwpan gwin, Ychwithrwd seirph gwenwynig a thorcha nadroedd blin."

Gan fod marwolaeth yn nghwpan y meddwyn, a gwaeth nâ chleddyfau yn nghofleidiad y buttain, bydded byth yn fraint y dyn wyf fi yn ei garu, i fyned heb ei ran o'r melusderau heintus hyn.*

Mae helaethrwydd o wreichion bywiol yn llewyrchu yn y llennyrch, ac yn llygedynu dan y perthi. Yr wyf yn meddwl mai y magiod ydynt, y rhai a ennynasant eu llusernau bychain, ac a gawsant gennad, trwy absenoldeb yr haul, i chwareu godywyn egwan. Mae llewyrch llesg yn gwasanaethu i'w gwneuthur yn amlwg, heb dueddu dim at wasgaru y cysgodau, neu wneuthur unrhyw iawn am ymadawiad y dydd.—Pe ymdroai rhyw deithiwr hin-guredig, yn dyferu gan wlyborwch, ac yn ysgrydu gan anwyd, o amgylch y dynwarediad hwn o dân, mewn trefn i sychu ei ddillad, a thwymo ei esgeiriau fferlyd; pe cymmerai rhyw deithiwr, wedi dyrysu, ac yn palfalu am y ffordd, ar noswaith dywyll, mewn anial anhygyrch, un o'r llugyrn hyn i fod yn oleuni i'w draed, a llewyrch i'w lwybrau; sicred fyddal'r naill a'r llall o fethu yn eu dysgwyl-iadau!—Ac a ydynt hwy yn debyccach o lwyddo, y rhai, gan esgeuluso y meddyglyn effeithiol a ddyhidlodd oddiwrth y groes, a gymhwysant unrhyw ddigrifwch cnawdol i iachau pryder eu meddylian! Y rhai, gan droi clust byddar at benderfyniadau sier datguddiad, a roddant eu hunain i fynu i ledtybiau cyfeiliornus rheswm, mewn trefn i gael allan y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd! Neu, yn olaf, a ymgyrchant

* “Quam suave est suavitatibus istis carere!” oedd dyweddiad duwiol St. Augustin: sylwedd yr hyn a eiriwyd gan Mr. Pope, gyda mwy o symledd, ac nid llai urddas:

Holl fantais gwyd lwyddiannus cyfrifwch, dim nid yw Ond hyn, gan ei ddirmygu, a wrthyd rhinwedd wïw.

at ewyn y byd gwag am ran ddigonol, a dedwyddwch sylweddol? Nid yw eu hymddygiad un mymryn callach, mae eu siomedigaeth yn gyfartal sicr, a'u haflywydd yn anfeidrol resynach. I lefaru iaith odidog ysgrifenydd sanctaidd, "Maent yn hau i'r gwynt, a chorwynt a fedant."*

I lefaru yn fwy eglur—hyfrydwch y byd, ar yr hwn yr ydym ni oll mor dueddol i lygadrythu, a galluoedd rheswm syrthiedig, yr hwn y mae rhai mor barod i'w ormod-perchi,† ydynt, nid yn unig yn wag ond yn fradychus; nid yn unig yn fflam liwiedig, fel y creaduriaid bychain serenog hyn, eithr yn debyg iawn i'r tarethiadau seimlyd hyny, y rhai a godant o'r rhosdir, ac a chwariant yn aml o flaen llygaid y dyn a ddaliwyd ar ei daith gan y nos. Wedi eu hennyn yn fath o dân, maent yn personoli arweinydd, ac fel yn cynnyg eu

* Hos. viii. 7.

† Gobeithio y sylwir, fy mod ymhell o lefain yn erbyn y swydd-gynneddf odidog rheswm, pan arferer hi yn ei chylch priodol; pan fyddo hi yn gweithredu mewn israddoliaeth i ewyllys datguddi dig Duw. Pan fyddo hi yn defnyddio ei galluoedd o fewn y terfynau gosodedig hyn, mae hi yn annhraethol wasanaethgar, ac nis gellir ei choledd yn rhy ddiwyd. Ond pan osodo hi ei hun i fynu mewn croesgyferbyniad i'r oraclau sanctaidd; pan, yn ffroen-uchel a hunan-ddigonol, y dywedo hi wrth air yr ysgrythyr, nid oes arnaf dy eisiau di; mae hi, pryd hyny, rhaid i mi fod yn hyf i herio, nid yn unig yn fagienn, ond yn llewyrn; nid yn unig yn fwrlwm, ond yn fagl.

A ddichon y sylwiad hwn ddim, gyda'r priodoldeb mwyaf, ac heb un cyfyngiad, gael ei gymhwyso at y cyffredinolrwydd o'n newydd-chwedlau, ein ffug-draethodau, a'n chwaryddiaethau diweddar? Mae y rhai hyn, yn gyffredin, yn ennyn dychymmyg drythyll; neu, os trefnir hwynt gyda chynmaint o wyldra, fel na lygront y serchiadau, maent yn gwyrddroi'r farn, ac yn gwylltio'r archwaeth. Trwy eu hanturiau anghredadwy; eu rhwysg anghymmesur o ddewrder; a'u nodweddiadau yn amrywio ymhell oddiwrth wirionedd a natur; maent yn cynhyrfu gwagdybiau ffîol; yn cenedlu dysgwyliadau ofer; yn dwyn i mewn ddfilasod at hanesyddiaeth gywir; ac yn anaddasu eu mawrygwyr i ymdawelu i foesau gweddus, neu i flasu ar foddiaidau sobr bywyd arferol.

gwasanaeth; ond, gan lewyrchu gyda goleuni twyllodrus, yn camdywys eu canlynwyr i byllau cuddiedig, dibynau serth, a llynoedd diwaelod; lle, ymbell oddi wrth ei gyfeillion anwyl, ymhell oddiwrth un gobaiñh am gymhorth, mae y crwydryn annedwydd yn cael ei lyngcu i fynu a'i gollu.

Nid amser mawr sydd er pan welsom ymddangosiad rhyfedd iawn yn yr wybren orllewinol. Seren aruthrol a gymmerth ei hynt fflamlyd trwy y gororau hyny, gan lusgo o'i hol, wrth dramwy, hŷd dirfawr o dân agos dros hanner y nefoedd. Yr oedd rhai, yr wyf yn dychymmygu, yn edrych ar yr estron daroganus gyda'r un gyffelyb syndod a Belshaassar, pan welodd efe y darn llaw yn ysgrifenu ar y pared. Yr oedd rhai yn edrych arni fel baner waedlyd,* wedi ei chrogi gan ddwyfol anfoddlonrwydd, uwchben byd euog. Darllenai rhai, yn ei hwynebpryd tanbaid, dynghed cenedlaethau, a chwypm teyrnasoedd.† I ereill, hi a ysgydwai, neu a ymddangosai yn ysgwyd, haint a newyn oddiwrth ei gwallt-erchyll.—O'm rhan fy hun, nid ydwyf mor goelgrefyddol a rhoddi clust i'r hyn sydd gan bob dewin i ddaroganu oddiwrth ymddangosiad gwib, neu ysgydwad ei gosgordd ddirfawr agerddog. Ni all dim fod yn fwy gwrthun ac anghyfiawn, nâ thynu y cyfryw gasgliadau oddiwrth y fath ddygwyddiadau, gan nad ydynt, nac yn effeithiau goruwch-naturiol, nac yn taflu cyfansoddiad pethau i unrbyw annrefu. Myfi, yn hytrach, a addolwn y

* — Liquidâ si quando nocte cometas
Sanguinei lugubre rubent.— *Virg.*

† — Crinemque timendi
Sideris, et terris mutantem regna cometem. *Lucan.*

nod hollalluog hwnw, yr hwn a dreiglodd y pelau aruthr hyny o'i law grëedigol, a'r hwn sydd yn eu harwain, â'i lygad rhagluniaethol, trwy ororau anfesurol o awyr; yr hwn a bair iddynt, yn awr, agoshau at yr haul, a fflamio gan wres annyoddefol; * yn awr, i ymgilio i eithafoedd terfynau cyfundrefn ein planedau, a myned i blith bydoedd ereill.

Y maent yn ymwelwyr diddrwg: yr ydwyf yn eu rhyddhau oddiwrth y cyhuddiad o achosi plâu angheuol. Mi a fynwn ar Dduw na byddai dim arwyddion ereill mwy arswydus o ddyfodiad barn-edigaethau neu ddinystyr ynghrog! Ond, och! pan fyddo drygioni yn ben, ac anghrefyddoldeb ymron bod yn beth cyffredin; pan halogir sabbathau y Duw eiddigus yn ddigywilydd; pan gyflogir "yr enw, yr hwn sydd yn fawr, yn rhyfeddol, a sanctaidd," i'r bwriadau gwaelaf, neu pan camddefnyddir ef i'r rhai mwyaf ysgymmun; pan mae addoliad y Creawdwr a'r Cynhaliwr mawr yn cael ei alltudio o lawer o'r teuluoedd uchaf; pan mae cymmaint a chrybwyll y Gwaredwr grasol yn ein hymweliadau bonheddigaid, yn cael ei ystyried yn beth anfoesgar a haerllug; pan mae gwatwar dirgeledigaethau Crist'nogrwydd yn myned am ryddid godidog mewn ymddygiad, ac ysiarad trythyll am fath o ymddiddan dyrchafedig; pan mae y rhai a eisteddant yn eisteddfa y gwatwarwr yn pechu â llaw uchel; pan mae llawer o'r rhai a

* "Yr oedd y seren wib a ymddangosodd yn y flwyddyn 1680, yn ol cyfrifiad Syr Isaac Newton, yn ei dynesiad agosaf, uwchlaw 166 o weithiau yn nes at yr haul nag yw'r ddaear; yn ganlyniadol, yr oedd ei gwres pryd hyny 28,000 o weithiau yn fwy na'n gwres ni yn yr haf; fel mae prin y buasai pelen o haiarn, o faintioli y ddaear, wedi ei phoethi ganddo, yn oeri mewn 50,000 o flynyddoedd."—*Derh. Astr. Theol.* tudal. 237.

wisgant wisg profleswyr, yn amddifaid o rym, ac yn ymfoddloni ar ffurf yn unig, o dduwioldeb; pan mae cyflwr gwladwriaeth y cyfryw, mae rheswm, i.e. rheswm rhy amlwg, i ofni yn aruthrol. Y cyfryw ymddangosiadau, yn llenwi y byd moesol, ydynt yn argoelion, nid dychymmygol, ond gwirioneddol. Oni fydd i'r Duw a-sarhawyd "ymddial ar gyfryw genedl a hon?" Oni chyffroir ef i'w "hysgubo hi ag ysgubau dystryw?"*

O! na osodai trigolion Brydain Fawr yr ystyriaeth ddeffrös hyn at eu calonau! Gorchymynodd Arglwydd y lluoedd i gleddyf anghydfod cartrefol i ddychwelyd i'w wain; ond a ddychwelasom ni bob un o'i ffordd annuwiol? A ddaethom ni yn bobl wedi ein hadnewyddu, wedi ein cyflwyno i'r Iachawdwr trangcedig, ac awyddus i weithredoedd da?—Pa beth yw meddwl y siasau igiaidd hyny, y rhai a ymdorant oddiwrth y dâ yn trengu? Pa beth yw meddwl y griddfanau pruddion hyny, lle yr arferai y diadelloedd cryfion feichiaw?† Pa beth yw meddwl y saethau hyny o farwolaeth anamserol, a dywelltir ar ein hanifiliaid diniwed a defnyddiol?

Ni lygrodd un trythyllwch na diogi waed y cread-

* Esa. xiv. 23. Y Llywiawdwr Tragwyddol, gan lefaru am Babilon, a gyhoeddai y bygythiad hwn; "Ysgubaf hi ag ysgubau dystryw."—Y fath ddarlun ardderchog, ond arswydus, sydd yma! mor gryf ac ofnadwy y desgrifir ef! mor llwythog ydyw hefyd o arwyddocâd! Yn gosod allan natur wael, a llwyr ddilead y bobl ddrygonus hyn; ar yr un pryd yn arwyddo gyda pha rwyddineb perffaith y cyflawnai y Duw cyfiawn y dial bwriadol.

† Pe byddai'r papurau hyn mor ddedwydd a gorhoedli eu hawdwr, fe allai byddai yn rheidiol hysbysu i'r genedl a ddaw, fod y crybwyll- iadau uchod yn cyfeirio at afiechyd tra dychrynlyd, heintus, a marwol, yn ymgynddeiriogi ymhlith y dâ corniog mewn amryw ranau o'r deyrnas.

uriaid llafurus a chymhedrol hyn. Ni fagasant hwy un clefyd trwy ymóllyngiadau afresymol, neu lodd-estau anghymmesur. Y ffrwd bur yw eu diod, y glaswellt yw eu hymborth. Nid oes na gofal yn aflonyddu eu cwsg, na nwydau yn ennyn eu mynwes. O ba le, ynte, yr ymwelir â hwynt â'r fath ar^h vyl-derau, ar nas dichon un ddoethineb eu hattal, nac un feddyginiaeth eu hiachau?—Diau mai arfau anffodlonrwydd Dwyfol yw y trallodion hyn, a cheryddon amlwg ar genhedlaeth ddrygionus.* Diau fod gan Dduw, y “Duw i'r hwn y perthyn dial,” gŵyn etto yn erbyn y wlad bechadurus; a phwy all ddywedyd pa le y terfyna yr ymweliad? pa dymhestl all ganlyn y defnynau rhaglithiol hyn?—O! na “wrandawem ni y wialen, a phwy a'i hordeiniodd!” Wedi ein dysgu trwy yr effeithiau cospedigaethol hyn ar ein hanufuddod, na fwiem ni y diofryd-beth † allan o'n pebyll, o'n harferiadau, ac o'n calonau! Na throem oddiwrth bob annuwioldeb, cyn i'w lid ddyfod arnom hyd yr eithaf, cyn i anwiredd fod yn dramgwydd i ni!


Weithiau, ar yr awr hon, mae golwg dra hynod arall yn synu y cywraint, ac yn brawychu y werinos. Fflam o oruchion llyfol a ennynir, neu ryw oleuni anghyffredin iawn, a adlewyrchir, yn ngororau y Gogledd.—Y ffrydiau o ddysclaerdeb, fel lluoedd yn ymruthro i'r frwydr, a gyfarfyddant ac a ymgymmysgant; yn gymmaint ag yr ymddengys yr awyr oll yn dân ymdrechgar. Ymhen ychydig, ymranant; ac,

* Hinc lætis vituli vulgo moriuntur in herbis,
Et dulces animas plena ad præsepia reddunt.
Balatu hinc pecorum, et crebris mugitibus amnes,
Arentesque sonant ripæ, collesque supini. *Virg.*

† Josh. vi. 18.

fel lluoedd yn ffoi ar ffrwst, ysgubant bob un ffordd wahanol trwy y ffurfafen. Yn awr, ymlonyddant: ar fyr, teflir hwynt i gyffroad crynllud; yn fuan, yr holl awyr-gylch a oleuir gan eu fflamiau melltenog.—Weithiau, gydag agwedd ofnadwy ddigrif, hwy a arddangosant wibiadau afradus a chwerthinus wyllt: brydiau ereill, gallech feddwl bod rhyw law anweledig yn chwareu cyflegrau mudion yr wybrenau, a, thrwy ryw ddyfais ddyeithr, yn rhoddi y fflagl i ni heb y rhuad.


Y pentrefwyr a syllant ar y drych, yn gyntaf gyda syndod, yna gyda braw. Mae cryndod cyffredinol yn gafaelu yn yr holl ardal. Pob calon a ddyhea, ac y mae pob wyneb yn welw. Y torfeydd a ymgasglant ynghyd, yn lle lleihau, a gynnyddant yr aeth. Maent yn dal yr haint oddiwrth olwg a geiriau eu gilydd; tra mae ofn ymhob llygad, a phob tafod yn llefaru iaith dychryn. Mae rhai yn gweled lluniau erchyllion; byddinoedd yn ymuno mewn ymgyrch lliidiog; neu faesydd yn nofio gan waed. Mae rhai yn rhagweled dygwyddiadau alaethus, dymchweliad teyrnasoedd, neu frenhinoedd cedyrn yn siglo ar eu gorseddfeingciau. Ereill, wedi eu harswydo gan amgyffrediadau mwy brawychus, ni feddyliant am ddim ond dydd y farn. “Yn ddiau,” medd un, “mae'r awr anghyfnewidiol wedi ei tharo, a daeth diwedd pob peth.”—“Wele,” medd arall, “mor welw mae'r ser yn edrych! Onid y pethau hyn yw arwyddion dyfodiad Mab y dyn ar gymhylau y nef?”—“Iesu parottoa ni,” medd y trydydd, gan ddyrchafu ei olygon mewn gweddi, “gogyfer ag udgorn yr archangel, a'r frawdle fawr!”



H. M. Craig del.

Robinson sc.

*"The Villagers gaze at the Spectacle."
Y pentrefwyr a syllant ar y drych.*



Os yw y dysclaerdeb chwyflog hwn, yr hwn a chwery yn ddiniwed uwch ein penau, mor syn i dyrfaoedd, pa gythrwfl annhraethol raid orchuddio marwolion difeddwl, pan cymmero'r cydlosgiad cyffredinol le! Y mae'r dydd, y dydd arswydus, yn agoshau, "yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf,* a'r defnyddiau gan wir wres a doddant; y ddaear hefyd, a'r gwaith a fyddo ynnddi, a loggir." Y llaw alluog hõno, yr hon gynt a agorodd y ffenestri oddi uchod, ac a rwygodd ffynhonau y dyfnder mawr, pryd hyny a ddatgloa holl drysorau y tân, ac a dywallt ail ddiluw ar y ddaear. Y ffamiau llidiog, wedi eu bennyn gan anadl yr Hollalluog, a ymdaenant o'r canol i'r amgylchedd. Ni all dim wrthsefyll eu hangerdd, na dim ddiangr rhag eu cynddaredd. Anghyfannedd-dra cyffredinol a weina ar eu hynt. Palasau mawryddig a themlau urddasol a osodir yn llwch. Dinasoedd äang a thyrau anghlwyfadwy a gymmysgir yn un pentwr myglyd. Nid cynnyrch celfyddyd ddynol yn unig, ond gweith-

* 2 Pedr iii. 10. Yr wyf wedi meddwl yn fynych fod yr adnod hon yn anghraifft godidog o'r dull prydferth hyny o ysgrifenu, yn yr hwn y mae'r swm yn dwyn math o arwyddocad; neu o leiaf yn cyfateb yn gywir i'r synwyr. Mae yr ymadrodd gwreiddiol—*ποιζηδον*—yn un o'r geiriau garwaf a dyfnaf mewn iaith: ni allasai dim gael ei gymhwyso yn fanylach i gyffroir glust, neu i argraffu y ddychymmyg, â dinystr natur, a grill y byd yn syrthio.—Prin yr wyf un amser yn darllen y gyfran hon, nad yw yn dwyn ar gof i mi y disgrifiad rhagorol yn Milton:

———— Disymmwth ffy ar led,
Gan ffyrnig wrthnaid mewn ysgortlyd grill,
Y pyrth uffernol, ac ar fachap creis
Crafellant daran groch.— Llyfr ii. ll. 879.

Mae yn orchwyl boddhaus, ac yn swydd glodfawr o eiddo gwir feirniadaeth, i nodi allan y rhagoriaethau isaf hyn yn yr awduron sanctaidd: er, yr wyf yn meddwl, fod yr ysgrifenywyr ysbrydoledig eu hunain, ymhlith holl uchder a mawryddigrwydd eu drychfeddyliau dwyfol, yn diystyru sylwi yn fanwl ar y fath gynnilerau mewn dull.

redoedd Hollalluog nerth, sydd yn gynnud i'r elfen ysol. Y mynyddoedd tragywyddol a doddant, fel yr eira sydd yn gorchuddio eu penau. Ië, y moroedd meithion a gynnyddant gyflymdra a lliidiogrwydd an-amgyffredadwy y ffagl.—O! pa fodd y safaf fi, ac ereill, yn ddigryn yn wyneb tanbeidrwydd byd yn llosgi, oni fydd yr Arglwydd Jehofa yn ddiffyn i ni? Pa fodd i'n cynnelir mewn diogelwch, pan fyddo'r belen ei hun yn suddo yn y dystryw tanllyd, oni bydd Craig yr oesoedd yn gynnalïaeth i ni?

Wele! ddrych newydd o ryfeddod! Y lleuad yn dyfod i mewn i'r wybren ddwyreiniol. Wele hi yn codi mewn mawrhydi cymhylog! yn agor, fel pe byddai, i hõni ei hawdurdod cyssefin i "lywodraethu'r nos." Mae ei golwg yn fawryddig a rhwysgfawr, ond ei bod ryw faint yn ddiwynedig. Pa fodd bynag, mae hi yn ymddysclaerio wrth fyned rhagddi, ac yn dyfod yn fwy llewyrchus fel y mae hi yn dringad yn uwch; nes yw ei harian yn colli ei holl alcam; mae hi yn dadleni ei goleuni digymhar, ac yn dyfod yn "harddwch y nef, ac yn ogoniant y ser;"* yn llawenychu pob llygad, ac yn sirioli yr holl fyd, â chlaerder ei hymddangosiad, a mwynder ei llewyrch.—O! dydi frenhines y cysgodau! fy uchelgais a fyddo canlyn dy anghraifft addysgiadol! Tra ymhoffa ereill ddilyn dulliau llysoedd bychain, a dynwared personau o is sefyllfa; bydded i mi dy efelychu di yn nghynnydd dy burdeb! Deled fy ymddygiad yn fwy difeius, a'm tymher yn fwy pur, fel y byddwyf yn myned rhagof yn fy nghyflwr prawf! Gwisged pob

* Ecclus. xliii. 9.

— Lucidum cœli decus. *Hor.*

dymuniad gwael ymaith, ac aed pob blys afreolaidd yn raddol i goll; fel y b'wyf yn agoshau yn nes i'r trigfanau nefol.—Oni bydd hyn yn dystiolaeth gysurus, y caf finnau hefyd lewyrchu yn nheyrnas fy anwyi Waredwr! Llewyrchu gyda gloywder purach nag a belydra oddiwrth dy bel attywynol di; dysclaerio gyda gloywder anniflanedig, pan fyddo pob paladr a danbeidia oddiwrth dy gylch prydfferth di wedi ei lwyr ddiffodd.

Cyfranodd y dydd i ni amrywiaeth o ddrychau difyr. Ymgiliodd y rhai hyn oll ar ddyfodiad y tywyllwch. Y ser, yn hynaws garuaid, a gynnygasant i ni yn ddiatreg eu cynnorthwy. Gwasanaethai hyn i ysgafnhau gwg y nos, yn hytrach nag i adferu y gwrth-ddrychau o'u haneglurdeb. Godwyn bychan a adlewyrchid yn brin, a hyny, nid oddiar holl arwyneb pethau, ni roddodd ond trem amherffaith iawn i'r llygad ymdrechgar, y cyfryw ag a watwarai yr olwg, yn hytrach na'i boddloni.—Yn awr mae'r lleuad wedi codi, a chasglu ei holl belydr; tynwyd y llen drachefn oddiar wynebpryd natur. Mi a welaf y diadelloedd yn eu lled-orwedd; mi a welaf y perthi yn rhesau gwyrddion, ond heb y cerddorion asgellog yn neidio o frigyn i frigyn. Yn fyr, mi a welaf ddarlun mawr y byd, nid, yn wir, yn ei liwiau bywiog diweddar, ond wedi ei gysgodi yn fwy gwylaidd, a'i wisgo mewn swynion mwyneiddiach.*

Y fath olygfa fawryddig sydd yma! Anghymharol rwysgfawr, a manwl brydfferth!—Y lleuad, megis

* Yn awr yn llawn teyrnasa'r lloer, ac mewn Goleuni mwy boddhaus, ac megis dan Gysgodau, dengys wyneb tég y byd. *Milt.*

Musern risial fawr, yn nghrog yn nghronglwyd äang y nesoedd: y ser, fel cynifer o ganhwyllau aur, wedi eu gosod yn eu creuau lhasar; i gyd yn tywallt eu llewyrch ar ddinasoedd mawrion, a mynyddoedd cribog; yn dysclaerio ar y môr, yn tywynu ar y goedwig, ac yn agor golygfa lettach nag y gall y llygad dremio, fwy amrywiol nag all dychymmyg liwio.* Yr ydym yn barod i fawrhau cyflawniadau celfyddyd ddynol: tir-ddarlun wedi ei gynddelwi yn odidog, a'i gyflawni gan law gelfyddgar; darn o ddelwedyddiaeth, yr hwn, gyda chyfartalwch manwl, ac ystum brydferth, a ymddengys fel yn meddalhau yn gnawd, ac ar anadlu gan fywyd; y dynwarediadau bychain hyn o natur a ganfyddir genym gyda syndod boddhaus: ac a gyffroir ni yn llai, a hyfrydir ni yn llai, gan y cynllun gwreiddiol annhraethadwy ardderchog a pherffaith orphenedig?—Mi a wridiaswn grybwyll äangder adail

- * Ei dysclaer oleuni pan lleo'r lloer wen,
 Claer lusern y cefn-nos, dros lasar y nen;
 Heb awel yn cyffro'r tawel-fôr difreg,
 Na chwml yn cuddio'r olygfa lân dëg;
 Goreura'r planedau ei chylch â'u haur lif,
 Ac ennyn y pegwn gan ser yn ddirif;
 Mewn gwyrddni melynach, ymddengys y gwydd,
 Ac arian yn wiag i'r mynyddoedd a fydd;
 Y glynoedd a'r brynïau lewyrchant ynghyd,
 Tyr firwd o ogoniant o'r wybren i gyd;
 Y llangciau, gan lamu rhag golwg mor wych,
 Fendithiant y gwawl a buddioldeb y drych.

Iliad viii.

Ygrifenisais y llinellau hyn, am fod Mr. Pope yn dywedyd eu bod, yo eu cyssefin-iaith, yn un o'r darnau godidoccaf ar y nos mewn prydyddiaeth. Ac os ydynt mor brydferth yn iaith Homer, pwy all feddwl iddynt oddef un anfantais oddiwrth gyfieithydd mor rhagorol?

[Felly y dywed Mr. Hervey am gyfieithad Mr. Pope; ond eiddo'r darlennydd yw barnu, pa faint o gam a oddefodd llinellau Homer wrth eu troi i'r Gymraeg.]

Ranelagh, a llewyrchiadau tēg gwig *Vauxhall*, ar y fath amgylchiad, oni bai eu bod yn wrthddrychau mawrhad cyffredinol. A swynir ni gan y cynnygiadau eiddil hyn o gywreinerwydd anfeidrol, ac oni themlwn ni un perlewyg yn wyneb y datguddiad arāthr hwn o fedrusrwydd Hollallnog? yn wyneb mawryddigrwydd urddedig a rhwysg dysclaer y ffurfafen? yr hon sydd yn ffurfio mwd i ddeng mil o fydoedd, ac yn addurnedig ā myrddiynau o lewyrchiadau tragwyddol.—Yn ddiau, rhaid i hyn, nid yn unig ddangos diffyg llwyr o grefydd, ond y bychander meddwl gwaelaf, ac eithaf tloidi athrylith.

Mae y llenad, nid yn unig yn “harddwch yn uchelleoedd yr Arglwydd,”* ond hefyd o wasanaeth mawr i drigolion y byd.—Mor anghysurus yw tywyllwch tew, pyglyd, a hollol! yn enwedig yn abŷenoldeb hir yr haul yn y gauaf. Henffych, henffych, ynte, i'r rhodd werthfawr hon o eiddo Rhagluniaeth, i fywiogi y caddug hwyrol, ac i wrthleinio mantell gigfreinliw y nos ag arian!—Mor ddymunol yw cael ein pryd-nawnau hafaidd wedi eu llewyrchu! fel y gallom droedio y dolydd gwllithog, ac anadlu peraroglau melusion ein gerddi; yn enwedig pan fyddo'r gwres mwrn yn ei gwneuthur yn lluddedig a phoenus i rodio allan y dydd.—Mor siriol i'r bugail yw defnyddioldeb y lamp gyffredinol, wrth dywys ei braidd, neu eu troi yn hwyr i'w corlanau clwydog! Mor gysurus a manteisiol i'r morwr, wrth aredig y dyfnder ganol nos, yw cymhwyso ei raffau, olrhain ei ffordd, a gochel y graig angeuol, dan ddylanwadau y llusern belydrog hon!—Tr dybenion daionus hyn ac ereill, y crogodd llaw yr

* *Ecclus.* xliii. 9.

Hollalluog y gaingc fawreddog, ac y llanwodd efe hi a gloywder, nid wedi ei chyfyngu at un adail yn unig, neu ei chymmesuro at un bedrongl neillduol, eithr mor ddibrin a holl banner cylch yr wybren.

Mae y rhai ffyddlonaf o'n gweision daearol weithiau yn hwyrfrydig yn eu swydd, weithiau yn esgeulus yn eu dyledswydd; ond mae'r weinyddes nefol hon yn wastad yn bendant at holl amseroedd gosodedig ei gwasanaeth. Os ewyllysiwn ohirio ein taith ar ol machlud haul, mae'r lloer, trwy ei holl gynnydd, byth yn barod i weithredu fel ein harweinydd. Os dymunwn osod allan yn gynnar iawn yn y bore, mae'r lleuad, ar ei lleihad, yn attal y wawr er mwyn cynnyg ei chynnorthwy. A chan ei fod mor hyfryd i'r llygad weled y goleuni, mae y lloer, pan yn llawn, trwy ei gweinyddiad didor, yn rhoddi i ni, megis dydd deublyg.—Mor amlwg y mae Dwyfol ddoethineb wedi gofalu am gyfaddasiad cysurus dyn! Mor ddymunol na buasai arno angen un darn o ddodrefn gwasanaethgar, un cyfleusdra hyfryd! Ac mewn cyflawniad o'r bwriadau hyn, y cyssylltodd hi berthynas mor werthfawr wrth ein pelen ddaearol.—Iawn, ynte, y gallasai y Psalmydd glodfori y cyfansoddiad rhyfedd, yr hwn a drefnodd “y lloer a'r ser i lywodraethu y nos,” fel arwydd o ddaioni hael, “a thrugaredd, yr hon a bery yn dragywyddr”*

Nid yw y lleuad, rhaid addef, yn gorph goleu. Mae yr holl ddysclaerdeb, a hardda ei hwynebpryd, yn wreiddiol yn yr haul, a dim rhagor nag yn dros-glwyddiadol ynddi hi. Y cylch gogoneddus hwnw yw tad y dydd, a thrysordy y goleuni. Oddi yno y

* Psal. cxxxvi. 9.

goreura y seren fore ei chorn;* oddi yno y coronir rhodau y planedau â dysclaerdeb; ac oddi yno y benthycia y lloer ei harian gloyw.—Mae yn hyfryd myfyrio, mai yr un modd mae y mater yn sefyll rhwng y Gwardwr holl-ddigonol a'i bobl ymddibynol. Llanwir ni o'i gyflawnder ef. Pa beth sydd genym ar nas derbyniasom, a pha beth allwn ddymano ar nas gallwn ei ddysgwyl o'r Ffynnon orlfeiriol hon? Efe yw awdwr ein ffydd, a ffurfiwr ein grasau. Yn ei fywyd difrychenlyd ef, yr ydym yn gweled ffordd, yn ei angeu cyfryngol, pridwerth; ac yn ei adgyfodiad gorfoleddus, y prawf; o wynfyd ac anfarwoldeb. Os pechwn, a llithro saith waith yn y dydd, efe yw yr Arglwydd ein tangnefedd.† Os ydym ni yn halogedig, ac yn ein gweithredoedd goreu yn annheilwng iawn, efe yw yr Arglwydd ein cyfiawnder.‡ Os ydym ni yn ddeillion, ac hyd yn oed yn ynfyd, mewn gwybodaeth nefol, efe yw yr Arglwydd ein doethineb.§ Mae ei air yn ymlid y cysgodau, a'i Ysbryd yn chwalu tywyllwch ein dealldwriaeth, a'i lygad yn edrych ein magddu i ddydd. Yn fyr, yr ydym ni yn ddim, a "Christ yn bob peth." Gwaeth nâ diffygiol ynom ein hunain, "yr ydym yn berffaith ynddo ef." Felly, os ydym yn llewyrchu, llewyrchu yr ydym gyda phelydr trosglwyddol, a goleuni benthyciol. Yr ydym yn gweithredu trwy nerth, ac yn ymgoneddu mewn

* Gallwn sylwi, er mwyn cyfiawnhau y dywediad hyn, fod y blaned Gwener, a elwir yn gyffredin y Seren Fore, fel y gwelir hi trwy y pell-ddrychau, yn ymddangos yn aml yn gorniog; neu â hanner cylch o oleuni, ryw beth yn debyg i'r lleuad ychydig cyn neu ar ol ei newidiad. Ond byddai hyn yn sylw rhy ddfwn i ateb fy null i; yr hwn sydd yn cerdded ar wybodaeth arwynebol, a'r ymddangosiadau egluraf o natur.

† Barn. vi. 23.

‡ Jer. xxiii. 6.

§ 1 Cor. i. 30.

teilyngdod, nid eiddom ein hunain.—G na byddem yn drwyadl ystyriol o'n hymddibyniad ar yr Iachawdwr! Na sugnem ei belydr gwynfydedig yn barhaus; heb byth, trwy ymroddi i anghrediniaeth, neu wrthgilio at ynfydrwydd, dynu ein beneidiau oddiwrth ei ddylanwadau bendithiol! Rhag i ni golli ein cysur a'n sancteiddrwydd, fel mae llywodraethwraig dæg y nos yn colli ei llewyrch, pan droer ei hysten oddiwrth y ffynnon,* ac nas derbynio ragor o gyfraniadau oddi wrth ddysclaerdeb yr haul.

Mae'r lleuad yn cyfnewid yn ddibaid, naill ai yn ei gwynebpryd ai ei gorsaf.—Weithiau mae hi yn edrych arnom yn llawn, â'i gwedd i gyd yn llewyrch. Weithiau mae hi yn ymddangos yn gyfarystlys, heb ddatguddio i ni ond hanner ei hwyneb goleuedig. Cyn hir, mae cylch ddim ond yn addurno ei hael: yn fuan, mae hi yn lleihau yn llinell gul; nes yw ei holl degwch o'r diwedd yn diflanu, a hithau yn dyfod yn belen dywyll.—Weithiau, mae hi yn codi gyda machludiad y dydd, ac yn dechreu ei gorymdaith ymhlith gwenuau tyrfa-oedd. Cyn hir, mae hi yn gohirio ei hynt hyd wylidwriaethau canol-nos, ac yn ymledrattau yn ddisylw dros y byd cysglyd.—Weithiau, nid yw hi ond prin ymddangos ar ymylau yr wybr orllewinol, ac ymweled â ni o ran defod. Ymhen ychydig, mae hi yn gosod allan ar ei thaith hwyrol o ororau gwrthgyferbyn y dwyrain, ac yn croesi yr holl ffurfafen, heb byth gynnyg ymgilio, nes i'w chymhar mwy tanbaid

* Cyfeiriad at y llinellau gwir brydyddol hyn y Milton:

Gan gyrchu, fel i'w ffynnon, tyn y ser
Oddi yma, yn eu 'stenuau aur, y gwawl.

Par. Lost, b. vii. l. 364.

mewn llywodraeth wneuthur ei phresenoldeb yn ddi-achos.—Mewn gair, mae hi, tra mae yn gydnabyddus yn ein plith ni, naill ai yn cynnyddu ai yn treio o hyd, heb aros dim yn yr un man.

Y gyfryw yw y lleuad; a'r cyfryw yw pob peth isloerol; yn agored i gyfnewidiadau parhaus.—Mor fynych, ac mor fuan, y mae dadseiniau llesg enwog-rwydd wedi cysgu mewn dystawrwydd, neu gael eu troi yn dwrdd trystfawr enllib! Mae yr un gwefusau, agos â'r un anadliad, yn llefain, hosanna, a chroes-hoelïer.—Oni chydabu cyfoeth ei fradwriaeth hynod fil a mil o weithiau; trwy doddi ymaith fel eira yn ein dwylaw, a diffanu mewn graddau amirnadwy; neu trwy ddiange, fel carcharor adeiniog o'i gawell, gyda heddiad byrbwyll a chwyrn.—Oni welsom ni gell y priodfab yn rhagystafell i'r bedd? oni chlywsom ni y llais, yr hwn mor ddiweddar a ddatgasasai y pâr hoenus yn wr a gwraig, yn cyhoeddi ysgariad tragwyddol, ac yn selio y gorchymyn â'r gwiriad difrif, "Lludw i'r lludw, a phridd i'r pridd."—Nid yw ein cyfeillion, er yn gysur bywyd; a'n hiechyd, er yn feddyglyn natur; ond meddiant darfodedig iawn. Gynted gallai y naill fod yn gorph yn ein breichiau! hawdded y gallai'r Hall gael ei ddinystrio yn ei fywiogrwydd!—Chwi a welsoch, yn ddiammau, haid o adar yn disgyn ar eich coedydd, neu yn ymddifyru yn eich dolydd. Boddheid chwi gan yr ymwelwyr hardd, y rhai a ddygent degweh ar eu hadenydd, a pheroriaeth yn eu cegau. Ond a allech chwi sicrhau parhad y difyrwch hyfryd hyn? Na allech, yn wir. Gyda'r twrdd lleiaf, neu unrhyw ymddangosiad brawychus, terfyr hwynt o'u lle; maent yn esgyn yr wybrenau, a

chwedi myned mewn tarawiad, myned am byth! A ddymunech chwi gael dedwyddwch, yr hwn a gydddechreuai â'u dyfodiad, ac a derfynai gyda'u hymadawiad? Os na allech chwi ymfoddloni i ran, yr hon ni byddai i'w mwynhau ond ar y fath ammod ansafadwy, nid o flynyddoedd, ond o funudau; O! na chymmerwch i fynu â dim daearol, gosodwch eich serch ar y pethau sydd uchod, lle yn unig nid oes "cyfnewidiad na chysgod o droedigaeth."

Nid yw Job yn gynllun ardderchocchach o amynedd, nag o eglurhad rhagorol ar y sylwad hyn.—Edrychwch arno yn ei sefyllfa ddirgel: mae efe yn pentyru arian fel llwch; yn golchi ei gamrau ag ymenyn; a'r graig yn tywallt afonydd o olew iddo.—Edrychwch arno yn ei gymmeriad cyboedd. Tywysogion a anrhydeddant ei urddas; yr oedranus a glustymwrandawant â'i ddoethineb; pob llygad a'i cenfydd gyda hyfrydwch; pob tafod a'i llwytha â bendithion.—Edrychwch arno yn ei amgylchiadau teuluaid. Ar un llaw mae gosgordd o feibion yn ei ddiffyn, ar y llall addurnir ef â thorf o ferched, ac ar bob tu amgylchynir ef gan "deulu mawr iawn."—Erioed ni bu dedwyddwch dynol mor berffaith; erioed ni bu'r chwyldro anffodus mor ddisymmwth. Nid oedd y mellt a ddifasant ei ddâ yn fwy arswydus, a phrin yr oeddent mor ddiatreg. Y tad llawen a amddifedir o'i eppil, a'i "blant a gleddir yn marwolaeth." Y dyn cyfoethog a ddihetrir o'i lawnder, ac efe, yr hwn a ddilledid mewn ysgarlad, a gofleidia'r tommenydd. Mae'r patriarch anrhydeddus yn watwargerdd dihyrwyr, ac anwylyd diweddar Rhagluniaeth hynaws yn "frawd i'r dreigiau, a chyfaill i gywion yr estrys."—Ond pa raid i ni fyned

yn ol i'r oesoedd gynt am brofion o'r gwirionedd gofidus hwn? Yn ein hamseroedd ein hunain, ymhob amseroedd, y mae'r elwyn yn troi yr un modd yn ddibaid: ac, yn fynych, mae y rhai a orfoleddant heddyw ar uchel-fanau llawenydd, y foru yn galaru anwadalwch amgylchiadau marwolion yn nyfnderoedd isaf trueni.*—Ymblith y fath ddygyfor ac ansicrwydd, mor resynol yw'r cyflwr, yr hwn nid oes ganddo un angor yr enaid yn gadarn a safadwy! Dy dosturiaethau di, O Dduw! a fyddo ein trysor presenol, a'th ogoniant i ddyfod ein hetifeddiaeth atchweledigol! Yna bydd ein dedwyddwch, nid fel y llawn lleuad, yr hon sydd yn "oleuni yn lleihau yn ei berffeithrwydd;" ond fel yr haul pan ôl efe allan yn ei nerth, heb adnabod un cyfnewidiad namyn llewyrchu fwy-fwy hyd ddydd perffaith.

Mi dybygwn, fy mod yn canfod yn y bel hon sydd byth yn amrywio, desgrifiad, nid yn unig o'n da tymhorol, eithr o'n perffeithiadau ysbrydol hefyd. Y

* Yr wyf yn meddwl y gallaf anturio cymhwyso yr hyn a ddywedodd y Temaniad am amgylchiadau y rhai drygionus, at bob peth dan haul, fel desgrifiad gwirioneddol o'u hanwadalwch mawr, Job xxii. 16.—
 נַחַר יוֹטָסָק יֵסוֹדָם—*nahar yutsak yesodam*—a gyfieithir gan Schultens, *Flumen fusum fundamentum eorum*: llifeiriant tywalltedig yw eu sylfaen hwynt, (neu yr hyn a gyfrifent eu meddiant cadarnaf a mwyaf diysgog:)—yr hyn sydd yn un o'r darluniadau hyfaf, ac yn harddwch o'r mwyaf prydyddol mewn un iaith, sanctaidd na llygredig. Mewn trefn i gael drychfeddwl canolig o'r darluniad, a phrofiad o'i harddwch, rhaid i chwi ddychymmygu cefallif o ddyfroedd yn rhuthro mewn rheiadr drylliog, a chyda chwyrndra gorwylt, oddiar fynydd serth a chreigog. Yna ffurfwch yn eich meddwl adeilad, wedi ei hadeiladu ar y llifeiriant hyn, heb un sail iddi namyn un o'r tônau chwyrnwylt pendramwnwgl hyn. A fu erioed fath ddesgrifiad o lwyddiant darfodedig, yn gogwyddo gyda chyflymdra anamgylchedadwy i ddinystro? Etto y cyfryw yw pob math o wynfyd dynol, nad yw wedi ei sylfaeni ar Iesu, a chyfranogiad o'i rinweddau ef; yr hwn yw Craig yr oesoedd; ar Iesu, a'i ddelw wedi ei ffurfio yn ein calonau, yr hyn yw gobaith gogoniant.

cyfryw, yr wyf yn sicr, yw, yr hyn a alwai cyfaill, y gyf-
fiawnder ynof fi; a'r cyfryw, yr wyf yn barod i feddwl,*
yw cyfiawnder pob dyn byw. Yn awr yr ydym ni yn
ei weithredu ar ryw ychydig achlysuron, i ryw raddau
bychain. Yn fuan, pechod a adfywia, ac a arwain ein
heneidiau i gaethiwed byr, ond anewyllysgar. Yn
awr yr ydym yn llariaidd; ond cyn hir cymmer rhyw
ddamwain gythryblus le, a throir ein tawelwch yn
anfoddlonrwydd ffromllyd. Yn awr yr ydym yn
ostyngedig; ar fyr ni a feddyliwn am ryw uchafiaeth
ddiystyr, neu ddychymmygol, dros ereill, ac yn ddi-
symmwrth chwydda dyrchafiad ein calonau. Yr ydym,
yn awr, fe allai, yn meddu calon lân, a gwresog gan
gariad dwyfol. Ond, O! hawsed y diwynir purdeb
ein serchiadau! gynted yr oerir gwresogrwydd ein
diolchgarwch! Ac onid oes rhyw beth o le ynom yn
ein munudau goreu? rhyw beth i gywilyddio o'i her-

* Ni fywn i neb ystyried fy mod^l yn hyn yn mesur ereill wrthyf fy
hun; eithr yn cymmeryd fy nghyfrifiad wrth reol ddiwyrni yr ysgrythyr.
Ac, yn wir, wrth fyned ymlaen ar y dystiolaeth hon, wedi fy nghefnogi
â'r awdurdod hyn, gallaswn anturio ymhellach nâ meddwl yn unig.
Canys, "nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear, a wna ddaioni, ac ni phecha,"
medd yr Ysbryd trwy Salomon, (Preg. vii. 20.)—Iä, y fath yw purdeb,
ac mor äang yw gofyniadau y gyfraith ddwyfol, fel mae'r apostol yn
gwneuthur cyfaddefiad mwy gostyngedig byth; "Mewn llawer o bethau
yr ydym ni bawb yn llithro." (Iago iii. 2.)—Iä, mae y Dysgawdwr
diwyrni, yr hwn a wyddai ein natur yn drwyadl, yn dysgu y Cristion-
ogion blaenaf, mwyaf sefydlog, a mwyaf gwyliadwrus, i weddio yn
feunyddiol am faddeuant o'u troseddiadau beunyddiol.—At y tystiol-
aethau hyn, crefaf ganiattad i ychwanegu cyfran odidog o'r Caniadau;
nid yn unig o herwydd ei bod yn cadarnhau y dyb uchod, ond hefyd yn
ei hegluro trwy yr un gyffelybiaeth. "Mae hi (yr eglwys) yn dæg fel y
lleuad, yn bur fel yr haul." Yn dæg fel y lleuad, y goleuad lleiaf, a
chyfnewidiol, yn ei sancteiddhad; yn bur fel yr haul, y mwyaf, a'r
anghyfnewidiol, yn ei chyfiawnhad: mae sancteiddrwydd tufewnol
credinwyr yn amherffaith, ac yn ddarostyngedig i lawer o anghyfar-
taledd; tra mae eu cyfiawnder cyrifol, ymhob ffordd yn gyfiawn, ac
yn wastad fel ei hun. Can. vi. 16.

wydd yn yr oll ag ydym? rhyw beth i edifarhau am dano ymhob peth a wnelom?

Gyda pha orfoledd, gan hyny, a diolchgarwch bywiog, y dylem ni “ymostwng i gyfiawnder y Duw yn y cnawd!” a derbyn, fel dawn Duw, yr hyn ni allasai gweithredoedd dynol ei gyrhaedd!* Ysgrifenydd o'r radd flaenaf, a'r ddirnadaeth gynnifaf, a eilw ufudd-dod ein Machniydd gogoneddus, yn gyfiawnder tragywyddol;† y cyfryw ar nad oedd yn ddarostyngedig i'r attaliad lleiaf, ac nas cymhylid gan un anaf; ond a âi rhagddo yn barhaus yn yr un rhediad unffurf o berffeithrwydd difrycheulyd.— Mae'r cyfiawnder hwn, mewn ystyr arall, yn ateb desgriafiad dyrchafedig y prophwyd, ac yn ei effeithioldeb bendithiol a daionus ni w'yr am un terfyn; eithr mae yn parhau trwy ein holl fywyd; yn parhau yn awr gyfyng marwolaeth; yn parhau yn nydd penderfynol y farn; yn parhau trwy bob cenhedlaeth, ac a barha i bob tragywyddoldeb.

Weithiau mi a welais y belen ddysglaer wedi ei diosg o'i holl lewyrch; neu, yn ol iaith bwysig yr ysgrythyr, wedi ei “throi yn waed.” Y ddaear, gan gyfryngu â'i choroph tywyll, a attaliai belydr yr haul, ac a dywalltai gysgod dudew dros y lleuad. Yr effaith adwythig a ynnillai ar ei rhod glafychaidd; a ddiffoddai weddillion llesg y goleuni fwy-fwy; nes o'r diwedd, fel un mewn llewyg ddofn, nid oedd un tegwch yn ei phryd; tywyllwch a'i llwyr orchuddiai.— Y fath liaws o lygaid a syllent pryd hyn ar y drych irad! Hyd yn oed y llygaid ni wnaent sylw o ym-

* Rhuf. v. 17. x. 3.

† Dan. ix. 24.

erodres y nos, pan, wedi ei gwisgo mewn gogoniant, ac yn marchog yn ei cherbyd gorfoleddus, y tywalltai hi ddydd mwneiddiach trwy'r ceabedlaethau. Ond yn awr, dan yr amgylchiadau hyn o anfri, maent yn ei gwylid gyda'r astudrwydd manylaf. Ymhob man mae ei hanffawd yn wrthdrych sylw cyffredinol, ac yn brif destyn ymddiddam ymhob cyfeillach.

Onid fel hyn y mae gyda dynion o hynodrwydd yn eu priodol sefyllfaoedd? Brenhinoedd, wrth ben eu deiliaid; uchelwyr, ymblith eu hymddibynwyr; ac (ar ol enwau mor urddasol, a oddefir i mi ychwanegu) gweimidogion, yn llafurio ymblith eu pobl;* ydynt oll mewn cylchoedd amlwg. Eu cerddediad yn y cam lleiaf, yn enwedig mewn rhyw wall, a wylir yn ofalus, ac a fesurir yn fanwl. A all fod galwad uwch arnom i wneuthur llwybrau uniawn i'n traed, a bod yn neillduol ofalus dros ein holl ffyrdd?—Gall y rhai sydd mewn bywyd isel droseddu yn anfad, ac heb ond ychydig swm gael ei wneuthur, fe allai, heb un sylw yn cael ei gymmeryd. Ond ni ellir dysgwyl y bydd i'r llithrad lleiaf yn eu hymddygiad hwynt, na'r meth lleiaf yn eu cymmeriad, fyned heb ei ganfod. Bydd cenfigen, â'i llygad eryraidd, yn sicr o'i weled; bydd beiad, â'i hudgorn croch, mor bell o'i guddio, ag y bydd enllib, â'i hysibrwd bradychus, o'i leihau. Gall planed suddo islaw'r terfyngylch, neu seren attal ei llewyrch dros amryw fisoedd, a phrin un o bob myrddiwn yn deall y gollod; ond os goddef y lleuad ddiffyg byr, bydd agos hanner y byd yn edrychwyr ar ei hanmharch.

* "Clwi yw goleuni y byd. Dinas ar fryn, yr hon ni ellir ei chuddio," Mat. v. 14.

Yr oedd y mater yn wahanol iawn, pan, ar awr bwyr, y cymmerais fy rhodfa unig ar y clogwyni gorllewinol. Wrth droed mynydd serth, y môr, yn glaer a llyfn, a ymledai yn wastadedd dirfawr, ac a ddaliai ddrych dyfraidd i'r wybrenau. Uchelderau anfeidrol oddi arnodd, lledai'r ffurfafen ei hëangder llasar, wedi ei blanu â ser aneirif, a'i addurno â'r lleuad " yn cerdded yn ddysclaer."* Ymddangosai fel yn myfyrio arni ei hun, gyda hyfrydwch neillduol, tra y derbynai, ac y dychwelai, yr arwyneb tryloyw ei delw ariannaidd. Yma, yn lle bod wedi ei gorchuddio mewn sachliain, hi a lewyrchai gyda dysclaerdeb deublyg; neu yn hytrach, gyda dysclaerdeb a liosogid mewn cyfartalwch i rifedi ei hedrychwyr, a'u hamrywiol sefyllfaoedd.

Y cyfryw, mi dybygwn, yw effaith ymddygiad dilynwiw mewn personau o sefyllfaoedd dyrchafedig. Eu rhodiad, megis y mae wedi ei wahan-nodi yn ardderchog, felly hefyd a fydd yn ddaionus effeithiol. Delir y pelydr ymdaenol gan ereill, a byddant yn awyddus i ymdebygoli i gynllun mor ynnillgar a deniadol. Eu cynneddfau hawddgar ni therfynant arnynt eu hunain, eithr cawn eu gweled yn cael eu hadlewyrchu oddiwrth eu teuluoedd, eu cydnabod, a'u hymddibynwyr; fel yr ydym yn gweled lloer arall yn crynu† yn y ffrwd, yn llewyrchu yn y camlas, ac yn dangos ei hargraff brydferth ar bob cynnulliad o ddwfr.

Mae y lleuad, medd athronwyr, yn fath o lywod-raethwraig ar y dyfnder mawr. Mae ei rhod, fel teyrnwialen frenhinol, yn llywio y weilgi, ac yn cyffroi

* Job xxxi. 26.

† Splendet tremulo sub lumine pontus. *Virg.*

y gororau hylif: mae yn chwyddo y llif, ac yn parhau dychweliad cylch-gyfnewidiol llanw a thrai; trwy ba foddion y mae'r elfen lifeiriol yn puro ei haflendid, ac yn cael ei chadw rhag llygru ei bun, a gwenwyno'r byd.—A ydyw'r lleuad yn gweithredu fel hyn ar y llyngclyn maith? ac oni bydd ffydd mewn hyfrydwch tragwyddol ac anfeidrol i ddyfod, yn gyfartal effeithiol ar fy enaid innau?—Ymbell uwchlaw ei maesydd ariannaidd hi, mae trysorau o ddedwyddwch, heb eu gweled gan lygad marwol, gan glust farwol heb eu clywed, ac heb eu hamgyffred gan un ddychymmyg ddynol. Yn y byd dymunol hwnw mae yr anrhydedd mwyaf dyrchafedig a gwahan-nodol yn cael ei gyfranu; mewn cymhariaeth i'r hwn nid yw teyrngadeiriau a choronau brenhinol ond coegluniau gweigion, a theganau plentynnaidd.—Nid yw y cylch saphir accw, a'i holl foglynau o aur, ddim ond llawr y trigfanau dwyfol hyny. Pa beth, ynte, yw yr ystafelloedd, pa beth yw'r palas? mor ddysclaer gan ogoniant, mor oludog o wynfyd!

O! chwydchi breswylfeydd gwynfydedigrwydd, tydi degwch teyrnas fy Nhad; y rhai ydych gan mil dysclaeriach nâ'r rhai hyn, llusernau y nef weledig! tywalltwch eich deniadau ynnillgar i'm calon. Tynwch, a phurwch fy serchiadau; attaliwch hwynt rhag llygru ar lànau arian y cnawd; na oddefwch iddynt geulo ar sorod halogedig teimladrwydd; eithr argaffwch hwynt â chynhyrfaidau o hiraeth diorphwys am lawenydd dyrchafedig y nef: llawenydd, yr hwn a ddeillia, a ddeillia yn barhaus, yn ffrwd helaethlawn a thragywyddol, pan ddarfyddo'r moroedd dreiglo; llawenydd, a swyna ein holl swyddgynneddfau â

byfrydwch anamgyffredadwy, pan siriolo'r lleuad â'i dysclaerderau cynnyddol ein golwg mwy.

Digon am yr hwyr presenol: mae fy meddyliau wedi gweithredu yn ddigonol, a lludded yn dechreu gweini ar fy nghamrau. Bydded i mi ufuddhau i rybuddion natur, rhoddi seibiant i'm myfyrdodau, a hun i'm llygaid.—Ond, yn araf.—A ymneillduaf fi i wely cwsg mor ddifoës, ac mor anystyriol a'r anifeiliaid i'w gorweddfâau gwaelion? A oes dim cydnabyddiaethau yn ddyledus i'r Bod Dwyfol, yr hwn yw cynnalïaeth fy mywyd, ac estyniad fy nyddiau? A oes arnaf fi ddim eisiau ei ofal diffynol yn hwy; ddim rhagor o angen am fendithion ei ddaioni?—Gall *Lepidus*, fe allai, chwerthin am ben y lin blygedig, a bod ganddo fil o biccellau gwawd yn barod i'w tywallt ar yr arferiad o dduwioledeb. Mae yr arebwyr, yr wyf yn gwybod, yn annhrugarog lym ar yr hyn a alwant yn galed-waith gweddi, neu ffregod penchwiban mawl: maent yn gadael y rhai hyn i'r llafurwr anllythyrenog, a'r dybanan gwael, neu yn eu trin gyda gwên wat-warus, fel galwad isel yr offeiriad.

A ydyw yn arwydd, ynte, o ddallineb coelgrefyddol i wahan-nodi, neu o sêl wammal i glodfori, yr ardderchogrwydd a'r teilyngdod rhagoraf? A ydyw yn orchwyl anniolchgar, neu yn brawf o dymher ymsorllach, i fawrygu daioni tra godidog gyfoethog a haelionus?—Pa beth all fod mor addas i sefyllfa ymddibynol, a thalu ein gwriogaeth addoliadol i Awdwr pob perffeithrwydd, a phroffesu ein ffyddlondeb ymroddgar i ben Llywiawdwr Hollalluog y bydysawd? A all un peth fod yn fwy arwyddoccal o dymher rydd, neu weinyddu mwy o foddhad gwir-

ioneddol i'w theimladau cynnilaf, na gweithredoedd duwioldeb edifeiriol? trwy yr hyn yr ydym yn rhoddi gollyngdod i ofid didwyll, neu yn toddi mewn tristwch mabaidd, am ein hanniolchgarwch i'r cyfaill ffyddlonaf, a'n hanufudd-dod i'r tad goreu?—Mewn gair, a all fod hyfrydwch mwy dyrchafedig ná myfyrio, gyda bryd sefydlog, ar brydferthwch y Meddwl Tragywyddol; cynllun hawddgar pob peth tég, mawryddig, a chys-sain; a rhoddwr haelionusaf pob peth cyfleus, cysurus, a defnyddiol?—A all fod gorchwyl mwy manteisiol, ná thywallt ein hymbihiau ger bron Tad y trugareddau; lledu ein meddyliau i belydriad ei ddoethineb; a holl swyddgynneddfau ein beneidiau i gyfraniadau ei ras?—Mae yn beth dyeithr, annirnadwy ddyeithr, i'r ystyriaeth o urddas mewn tyb, neu ymgais am fwynhad pur, erioed gael eu hysgaru oddiwrth dduwioldeb: fod dynion, a ymbonnant mewn archwaeth dda, ac athrylith dyrchafedig, yn esgeuluso y gymdeithas ardderchoccaf hon a'r goreu a'r doethaf o fodau, ffynnon anysbyddadwy anrhydedd a llawenydd.

A rwystrir fi rhag dynesu at y ffynnon hon o'r hyfrydwch puraf? Fy rhwystro rhag ymgeisio am y diwygiad godidoccaf hyn ar fy natur? Fy rhwystro rhag y cwbl gan un gwawd erchyll, a'm gorchfygu gan un wên anwrthwynebol?—Na: bydded y lloer yn ei chylch ysplenydd, a'r pegwn accw gyda'i holl osgordd serenog, yn dystion, os byddaf fi yn ddystaw hwyr na bore; os ymattaliaf rhag ennyn yn fy nghalon, ac anadlu oddiar fy ngwefusau, arogldarth rhesymol mawl: mawl i'r Duw mawr a gegoneddus, yr hwn a ffurfiodd y ddaear, ac a adeiladodd yr wybrenau; yr hwn a arllwysodd y byd dyfraidd o'i law, ac a dywallt-

odd yr awyr oll-amgylehynol ar led.—'Tydi hefyd a wnaethost y nos, Hollalluog Wneuthurwr! a thydi y dydd! yr hwn a dreuliais i, y llai na'r lleiaf o'th holl drugareddau, mewn diogelwch, llonyddwch, a chysur.—Pan gollasid fi yn ffolineb breuddwydion, pan orweddaid wedi suddo yn annheimpladrwydd cwsg, dy law di a'm hadferodd o'm marweidd-dra amserol; dy law di a osododd fin newydd a manyl-deg ar fy holl synhwyrau a bylasid, ac a linynodd fy ngewynion â grym adnewyddol. Pan ferwinasid ac y syfrdanasid fy meddyliau, dy ddylanwadau bywhaol a'u deffroasant i'w gweithgarwch; pan yr oeddynt yn gymmysgedig a gwylltion, dy ddylanwadau rheolaidd a'u darostyngasant i drefn; gan fy adgymhwyso ar unwaith i brofi difyrwch diniwed cyflwr anifeilaidd, a mwynhau boddiadau y rhesymol.—Pan orchuddiasai tywyllwch y grëedig-aeth, wrth dy orchymyn di, cododd yr haul, lliwiodd y blodau, a gwahan-nododd bob gwrthddrych; rhoddodd lewyrch i'm traed, ac adferodd natur, gyda'i holl olygfeydd tég, i'm llygaid.—I ti, O Dduw fy nerth! yr ydwyf yn ddyledus am barhad fy modoliaeth, a bywiogrwydd fy nghyfansoddiad. Trwy dy orchymyn sanctaidd di, heb un ymwybodaeth o'm heiddo fy hun, mae olwynion bywyd yn treiglo, a'r ffynnon borphor yn chwareu. Wedi ei goruwch-reoli gan dy fedrusrwydd digymhar, mae hi yn trawsgysnewid, trwy weithrediadau cynnilaf math anegluradwy o fferyllaeth, i amrywiaeth o'r didoliadau manylaf, y rhai a ymlithrant i'r gwythi, ac a'u chwyddant i weithredu; neu a ym-dywalltant yn hylifau, ac a adferant eu dadfeiliadau parhaus; y rhai a barant i sirioldeb serenau yn y llygad, a iechyd i flaguro ar y rudd.

‘ Mae dygwyddiadau anffodus, niweidiol i dawelwch fy meddwl, neu dinystriol i iechyd fy nghorph, yn amgylchynu fy llwybrau; eithr dy ffyddlondeb a’th wirionedd, fel tarian annhreiddiadwy, a’m gwarchadasant oddi amgylch. Dan y diffyniad dwyfol hyn, myfi a rodiais yn ddiogel ymysg miloedd o beryglon ymddangosiadol, ac a aethum, heb un niwed, trwy liosogrwydd llawer mwy o ddrygau anweledig. Ni ddrylliwyd un o’m hesgyrn, ac ni chlwyfodd un saeth fy esmwythder; hyd yn oed tra yr oedd y llygad yr hwn sydd yn gwyllo drosod, yn canfod “miloedd yn syrthio wrth fy ystlys,” i ddinystr anadferadwy; “a deng mil” yn cael eu clwyfo yn ddwfn “ar fy neheulaw.”—Os pruddhaodd afiechyd fy ystafell un amser, neu os cystuddiodd poen fy nghnawd, yr oedd yn ddysgyblaeth iachus, a llymder grasol: bu’r cerydd yn feddyginiaeth ddifeth i’m hiachau oddiwrth hoffder anghymhedrol at y sefyllfa amberffaith hon, ac i fywiogi fy hiraeth am fwyniant dichwerwder fy nghartref tragywyddol.—Oni ledodd dy haelioni difin a diderfyn fy mwrdd, gan ei arlwyo â’r gwenith teccaf, a’i hulio â mer ac â brasder? tra yr oedd cymhedroldeb yn melusu y cwpan, angen yn pereiddio’r ddysgl, boddlonrwydd a diolchgarwch yn coroni y wledd. Oni ddiogelodd dy dosturi, O Dduw byddinoedd Israel! fy mherthynasau serchoglawn, y rhai, trwy eu swyddau tyner, a ymdrechant laesu pob gofal, a mwynhau pob gorfoledd? Oni roddodd dy diriondeb gyfeillion gwerthfawr i mi, presenoldeb y rhai sydd yn feddyglyn i’m llòni mewn awr isel, ac ymddiddan y rhai sydd yn cymmysgu budd gyda hyfrydwch?

‘ Pan gorweddaï pechod yn lledrithiog ymblith

golygfeydd blodeuog difyrwch; wedi fy ngoleuo trwy dy ddoethineb, myfi a ganfum y drwg cuddiedig; wedi fy nysgu trwy dy ras, myfi a ochelais y gwenwyn melus. Os, trwy effeithioldeb teimladrwydd, neu angerdd nwydau, i'm gyrwyd i'r fagl, ac i'm pigwyd gan y neidr; dy gynghorion fyddlawn a alwasant y crwydrydd ynfyd yn ol, tra iachâi gwaed dy Fab ei glwyfau marwol.—Rhai, yn ddiau, a dorrwyd ymaith ynghanol eu hanwiredd; ac a draddodwyd oddiwrth eu llawenydd halogedig, i loesau anobaith tragywyddol: pan cefais i fy nghwahan-nodi gan drugaredd hirymarhous; ac, yn lle dyrchafu fy llygaid mewn poenau, i weled y nef wedi ei cholli yn anadferadwy, gallaf eu dyrchafu, gyda'r golygiadau boddhaol, o gael fy nerbyn cyn hir i'r trigfanau hyny o ddedwyddwch diddiwedd.—Ar yr un pryd, tydi a deilyngaist roddi i mi ddatguddiad o'th ewyllys; dylanwadau dy Ysbryd; a chyflawnder o'r cynnorthwyon mwyaf effeithiol, er cynnyddu mewn gwybodaeth a duwioldeb; er dyfod yn fwy cydffurfiol â'th ddelw, ac yn fwy cymhwys i'th bresenoldeb; er profi hyfrydwch crefydd, a diogelu goludoedd tragywyddoldeb.

'Mor amryw yw dy haelder, O tydi garwr eneidiau! Efe a ddadseliodd filoedd o ffynhonau daioni, a agorodd filoedd o ddyfodfâau hyfrydwch, ac a bentyrodd fendithion arnaf gyda rhadlonedd diattal. Pe cynnygwn eu cyfrif, amlach fyddent nâ'r llu serenog, sydd yn tanbeidio yn yr wybr ddigwmwl hon; amlach nâ'r gleiniau gwllithog, a addurnant wyneb y bore.

'Ac a anghofiaf fi *Dduw* fy iachawdwriaeth, Awdwr fy holl drugareddau? Yn hytrach anghofied fy nghalon guro!—A dalaf fi ddim diolch iddo? Yna gallai holl

natur fy ngwarthruddo.—A ymfoddlonaf fi i'w gydnabod â'm gwefusau yn unig? Na: bydded fy mywyd yn llafar, i ddatgan ei fawl yn y iaith unig gywir, a mwyaf cýnnwysfawr hòno—iaith ufudd-dod duwiol. Ysgrif-ener yr hawl ar fy nghalon; cydnabydded fy holl sêrchiadau y tyriad; a thaled fy holl fywyd yn ddibaid, trwy amser, a thragywyddoldeb, y ddyled—y ddyled byth-foddhaol, byth-gynnyddol—o wasanaeth, anrhydedd, a chariad.

'Ac a allaf fi, O tydi Dywysydd fy ngherddediad, a Gwarcheidwad fy naioni!—a allaf fi ddrwg-dybio'r fath ddaioni hynod, profedig? "Tydi a fuost yn gynnorthwy i mi" trwy holl olygfeydd dyfal y dydd: "gan hyny, dan gysgod dy adenydd" yr ymorphwysaf trwy gydol tywyllwch, enbydrwydd, ac anweithgarwch angeudebyg y nos. Pa aflendid bynag a ddeliais, llwyr olch ef mewn gwaed gwaredol; ac na âd i'r brycheuyn pechadurus, na'r tuedd pechadurus, ddyfod gyda mi f'm gorweddfa!—Yna, "mi a orweddaf mewn heddwch, ac a orphwysaf;" gan adael yn llawen ar dy benderfyniad doeth di, pa un a gaf agor fy llygaid yn y byd hwn, neu a ddeffroaf fi yn ngororau anadnabyddus byd arall.'

Y STYRIAETHAU

AR

Y NEFOEDD SERENOG.

Y PRYDNAWN hyn, yr ydwyf yn cyfnewid cynniweirfâu cynnilion celfyddyd am chwareu-fwrdd ardderchog natur. Yn lle mesur fy nghamrau dan gilfach gwasgôd, bydded i mi rodio hyd drum y bryn araf-esgynol yma.—Nid oes eisiau y cysgod deiliog, gan fod yr haul wedi gadael y terfyngylch, a'i belydr crasboeth wedi ymadael.—Ond, wele, fel mae manteision ac anghyfleusderau yn cael eu cyssylltu yn arferol, ac yn brithio ein hamgylchiadau isod!—Os peidiodd y gwres blin, symmudwyd y wlad, a'i golygfeydd hyfryd hefyd.—Y castell mawryddig, a'r bwthyn isel, a ddiflanasant ynghyd. Myfi a gollais y mynydd ymchwyddog, a'i ael wineu-goch: yn ofer yr wyf yn edrych o amgylch am y glyn gostyngedig, a'i arffed flodeuog. Mae'r gwastadedd, a wýnasid gan ddiadellau, a'r rhos-dir oedd yn felyn gan rug, wedi myned o'r golwg. Y nos, wrth fyned rhagddi, a blygodd y goedwig lydan mewn tywyllwch, ac a dynodd ei mantell dros ddirwyniadau y ffrwd ariannaidd. Nid wyf fi mwyach yn canfod y ffrwythlondeb brasdyfol hwnw yn y maesydd, y drych hwnw o fawrhydi gwyllt, a'r amtywiaeth ddirderfyn hyn o luniau, y rhai a ennynasant hyfrydwch ynof, ac a darawsant fraw trwof mor fyuych, oddiar yr uchelfa gyfleus hon.

Prin, pa fodd bynag, mae'r golled i alaru o'i phlegid, gan fod iawn mor helaeth yn cael ei wneuthur am dani trwy ymagoriad tegwch yr wybren. Yma yr ydwyf yn mwynhau golwg lawn ar hanner cylch y nefoedd, heb un rhwystr oddi isod i gyfyngu y llygad ymchwilgar, nac un cwmwl oddi uchod yn gorchuddio y ceuedd äang. Mae'n wir, diflanodd y cochni bywiog, yr hwn mor ddiweddar a linellai ystafelloedd y gorllewin : eithr planedau, un ar ol y llall, a ennynant eu lampau ; y ser a ddynesant yn osgordd ddysclaerbryd ; miloedd a miloedd o oleuadau a lewyrchant mewn dysclaer-derau olynol ; ac mae'r holl ffurfafen yn cael ei hennyn i'r gwrid prydferthaf. Mae glasni yr wybren, wedi ei chwanegu gan dymhor y flwyddyn ; a'i fywiogi yn fwy byth trwy absenoldeb y lleuad, yn rhoddi y gloywder cryfaf i'r perlau nefolion hyn.

Un hyfrydwch yn rhagor, ni bu y tywyllwch ymdaenol yn alluog i'w gymmeryd ymaith : mae'r nos yn hytrach yn ychwanegu, nâ dinystrio, y peraroglau a agerddant oddiwrth y ffa yn eu blagur. A'r rhai hyn mae ochrau y bryn llechweddol hwn wedi eu gorchuddio ; ac â'r rhai hyn mae yr awelon araf yn perarogli eu hadenydd. A yw Arabia, o'i holl wigoedd perlysiuog, yn anadlu melusderau hyfryttach, neu haelionusach ? A'r hyn sydd yn rhagoriaeth neillduol, berthynol i'r difyrwch gwledig, yn ein bro ddedwydd ni, nid ydynt yn cael eu diflasu gan un ofn o berygl. Nid oes dim seirph gwenwynig yn llechu dan y blagur, nac un bwystfil rheibus yn gorwedd yn barod i neidio o'r tewlwyn.—Ond, yr wyf fi yn crwydro oddiwrth destyn llawer mwy dyrchafedig. Mae fy meddyliau, fel fy serchiadau, yn cael eu denu yn rhy hawdd oddi

wrth y nefoedd, a'u hattal gan wrthddrychau daearol. Ymaith, fy sylw, oddiwrth ludoliaethau y ddaear, gan fod holl ogoniant yr wybren yn gwahodd dy ystyriaeth.

Ni a gymmerasom dro ymhlith y *beddau*, ac a ymwelasom â choffadwriaethau difrif y meirw; mewn trefn i ddysgu gwagedd pethau marwol, a dryllio eu swyn dyner.—Ni a daflasom olwg dros *addurniadau yr ardd*; nid fel y buasai i'r galon gael ei phlanu yn y flodeufa, neu ledu ei gwraidd ymhlith yr hil flodeuog; ond fel y gallai y rhai hyn, melusderau diwrnod, ddysgu ein calonau i hiraethu am Baradwys well, lle nid yw tegwch byth yn gwywo, lle mae hyfrydwch byth yn blaguro.—Ni a gynneuasom ganwyll myfyrdod y drydedd waith; ac a chwiliasom am ddoethineb, nid yn y ddinas grugiedig, neu ysgolion ymrafaelgar, eithr yn *rhodfeydd* dystaw ac unig hen *nos*.*—Unwaith etto ymroddwn i ystyriaeth, a chodwn ein golwg at y gweithredoedd uwch hyny o eiddo y Creawdwr mawr, y rhai a gynnwys gororau y ffurfafen, ac a ddadlênâ yr awr dywyll hon.†

Os canfuom linellau ei buntr yn gwridio yn lliwiau y gwanwyn; os gwelsom gynllun o'i ddaioni yn cael ei arddangos yn nhrysorau natur, a phaladr o'i ddysclaerdeby yn tanbeidio yn llewyrch y dydd; y fath faes anfeidrol ardderchoccaf er egluro ei berffeithderau yw y nefoedd! Mae'r nefoedd, yn y dull amlyccaf,

* Cyfeiriad at destynau y tri thraethawd blaenorol.

† Y testyn ardderchoccaf egyr nos,
A thywallt fraw, yr hwn i'r drychau hyn
A rydd lawn bwysau, a derbyniad dwfn
I'r fron a feddalhawd.—

yn datgan gogoniant Duw. Mae'r nefoedd yn ardderchog byawdl am y Duwdod, ac yn gyhoeddwy'r mawryddig o fawl eu Gwneuthurwr. Maent yn llefaru wrth yr holl fydsawd; canys nid oes ymadrodd mor farbaraidd na ddeallir eu hiaith; na chenedl mor bell, na chlywir eu lleferydd ynddynt.*—Bydded i mi, ynte, yn y tymhor pwysig hwn, a wnaed er mwyn ystyriaeth a chyfeillach dawel â'r nef; bydded i mi glust-ymwrandaw â'u llithiau dystaw. Fe allai y gallwn dderbyn y fath amlygiadau argraffiadol o'r "tragywyddol allu a'r Duwdod," ag a dywallto grefydd ar led yn fy enaid, tra rhodiwyf yn y cysgodau unig; a dichon fod yn gyfaill amgeleddol i'm rhinwedd, pan osodo galwad gorchwylion, a dychweliad y goleuni, fi etto yn ngwynneb ymgyrch profedigaeth.

Yr Israeliaid, wedi eu cynhyrfu gan wallgofrwydd yn hytrach nâ duwioldeb, a addolasant lu y nef. Ac y mae ymbônwyr i ser-ddewiniaeth yn siarad am (ni wn i pa) effeithioldeb dirgel, yn ngwahanol weddau y ser, a chyssylltiad a gwrthwynebiad amrywiol y planedau.—Clust-ymwrandawed y sawl sydd yn anadnabyddus â sicr air datguddiad â'r rhai hyn, meibion twyll a thrafodwyr dichell. O'm rhan fy hun, mae yn holiad dibwys i mi, pa un a lewyrchai y ser gyda gwemau, neu a guchient hwy yn wgus, ar awr fy mgenedigaeth. Bydded Crist yn warcheidwad i mi; ac, yn ddiogel yn y fath nawdd, mi a chwârddwn am ben eu bygythion diallu. Bydded Crist yn arweinydd i mi, ac mi a ddiystyraf ofyn, yn gystal ag anobeithio derbyn, unrhyw hysbysiaeth ragfynegol oddiwrth y fath bentyrau dideimlad.—Pa beth! a gaiff "y byw

* Psal. xix. 3.

ymofyn â'r meirw?"* A all y cyrph hyn, sydd yn anwybodus o'u bodoliaeth eu hunain, hysbysu i mi ddygwyddiadau i ddyfod? A ymholaf fi â mater marw diddeall, pan allaf ymgynghori â'r Bod holl-ddoeth hwnw; yr hwn, ag un olwg gynnwysfawr, sydd yn eglur ganfod yr hyn oll sydd yn gorwedd yn mynwes annherfynoldeb, neu yn ymfurfio yn mru dyfodedigaeth?—Byth, byth ni chwiliaf fi am un hysbysiaeth o'm tynghed; eithr mynych olrheiniaf gamrau† fy Nghreawdwr yn y gwastadedd serenog accw. Yn y matter cyntaf, byddent yn ddysgwyr celwyddau; yn yr olaf, maent yn oraclau gwirionedd. Yn yr ystyr hyn, gan hyny, a'r ystyr hyn yn unig, yr ydwyf yn proffesu fy hun yn ysgolhaig y ser.

Nid yw y werinos yn ystyriol o ddim rhagor, nâ lliaws o foglynau dysclaer, wedi eu taenu dros y glas awyraidd. Nid oes ganddynt un meddwl uwch am yr ymddangosiadau hardd hyn, nâ'u bod yn gýnifer o

* Esa. viii. 19.

† “Nid oes dim (medd awdwr parchus) yn fwy gweddus i greadur-iaid amherffaith fel ni, nâ myfyrio ar weithredoedd *Duw*, gyda'r bwriad hyn, fel y darganfyddom amlygiadau o ddoethineb ynddynt, a thrwy hyny cyffroi ynom ein hunain y serchiadau duwiol hyny, a'r parch uchel hwnw, yr hwn yw gwir hanfod moliant, ac sydd yn wasanaeth rhesymol a moesol.” *Abernethy ar y Priodoliaethau*.—Ac, yn wir, os oes ynom duedd gywir i arfer ein hunain yn y ddyledswydd ragorol a hyfryd hon o foli y Creawdwr anfeidrol, mae'r moddion a'r annogaethau wrth law. Mae ei weithredoedd, mewn amrywiaeth rhyfedd ac addysgiadol, yn gosod eu hunain ger bron, gydag amlygiadau beichiog o ragoriaethau tra godidoccaf eu Gwneuthurwr. Maent yn tywallyt eu tystiolaethau o bob tu, ac i holl fynedfâau y meddwl. Maent yn ein gwahodd, yn enwedig yn nghyfundrefn fawryddig y bydysawd, i fyfyrio ar—gynghor, perffaith ddoeth; a gweithrediad, anghymharol berffaith—gallu, i'r hwn nid oes dim yn annichonadwy; a daioni, yr hwn sydd yn ymëangu i bawb, ac yn parhau yn dragywydd.—I roddi, nid amlygiad llawn, ond rhyw gyffyrddiadau ysgafn, o'r gwirioneddau gogoneddus hyn, yw prif ddyben y nodiadau canlynol.

fanau euraidd, â pha rai yr addurnwyd y cylch nefol.—Ond mae meddyliau myfyrgar, y rhai sydd yn dwyn ymchwil gywirach a manylach i blith y cyrph wybrenol, yn dychwelyd gyda newyddion o'r ystyr ryfeddaf. Bydded i mi alw i gof y pethau mwyaf pwysig o'r darganfodiadau aruthr hyny, mewn trefn i'm cynnysgaeddu â thestynau priodol i fyfyrion arnynt. A chofied yr annysgedig, am yr olygfa wyf fi yn myned i'w dangos, mai gwaith y Duw anamgyffredadwy ydyw, yr hwn sydd " yn berffaith mewn gwybodaeth, ac yn alluog mewn nerth : " enw yr hwn, natur yr hwn, a holl weithredoedd yr hwn, sydd " yn fawr a rhyfedd : " yr hwn sydd yn gwysio i fodoliaeth, gyda rhwyddineb cyfartal, un gronyn, neu fyrdd o fydoedd. Os ymdrown at hyn yn barhaus, ni raid i'r dywed-iadau, er y byddant yn sicr o gyffroi ein rhyfeddod, ymddangos yn anghredadwy.

Mae'r ddaear, mewn gwirionedd, yn gorph crwn; pa fodd bynag y dichon ymddangos, mewn rhai manau, i suddo yn ddyffrynoedd, ac ymgodi yn fryniau;* mewn manau ereill, i ymledu yn wastadedd äang, ac ymestyn hyd gyffiniau y nefoedd, neu gael ei derfynu gan ddyfroedd y môr.—Nyni a allwn ddychymmygu bod iddi ryw sylfaeni dyfnion, a'i bod yn

* Mae gan ysgrifennwr dysgedig, Dr. Derham, yr wyf yn meddwl, sylw i'r ystyr hyn yn rhyw le.—Nad yw penau uchaf y bryniau, neu drumau meithaf y mynyddoedd, yn un rhwystr gwirioneddol i'r ddaear fod, o ran ei dull, yn grwn : canys pa mor oddfaog ac anwastad bynag y gallant ei gwneuthur i'n golwg derfynol ni; etto nid ydynt yn dwyn mwy o gyfartalwch i holl arwyneb y ddaear, nâ gronyn o lwch, a syrthio yn ddamweiniol ar belen y rhifyddegwr, i'w holl amgylchedd: yn ganlyniadol, nid yw y ffurf gron yn cael ei dyfetha yn yr amgylchiad blaenaf mwy nâ'r olaf.—Ar yr un egwyddor, mi a fernais nad yw yn angenrheidiol cymmeryd sylw o'r gwahaniaeth bychan rhwng tryfesur pegynol a chyhydeddol y ddaear.

gorphwys ar ryw waclod aruthr gadarn: ond y mae hi ynghrog, yn yr awyr lydan dryloyw, heb un achos gweledig i'w chynnal oddi uchod, na'i hattegu oddi ebyr.—Gallai ymddangos yn eisteddog yn ei bystum, a digyffro yn ei sefyllfa: ond mae hi yn hwylio* yn oestad trwy ddyfaderoedd yr wybren; ac mewn deuddeg mis yn gorphen y fordaith nerthol: yr hwn gylch-dro sydd yn cynnyrchu y tymhoran, ac yn cyflawni y flwyddyn.—Wrth fyned rhagddi ar ei chylch blynyddol, mae hi yn ymddirwyn ar ei chanol-barth ei hun, ac yn troi ei hochrau ar gylch at ffynnon y goleuni. Trwy ba foddion, mae'r dydd yn gwawrio yn un hanner cylch, tra mae y nos yn canlyn yn y llall. Heb y ddyfais hon, unrhan o'i gororau, yn ysbaid ei chwyldroad mawr, a grasboethid gan y gwres annyoddefol, neu a ddihoenent dan ddysclaerdeu diattal; tra byddai y llall, wedi ei thraddodi i'r eithafodd gwrthwynebol, yn rhewi yn iâ, neu wedi ei chladdu dan hir ormes tywyllwch dudew a dinystriol.

Ni allaf lai na sylwi, o barth y mudiad deublyg hwn o eiddo'r ddaear, nad yw y naill byth yn cydgam â'r llall; eithr bod y ddau yn berffaith gydweiddol. Onid fel hyn y mae gyda gorchymynion crefydd, ac amgylchiadan angenrheidiol y bywyd hwn, heb lysu byd yn oed boddiadau diniwed ein harchwaeth?—Mae rhai, yr wyf yn credu, yn barod i ddychymmygu y rhaid iddynt ymwrthod â chymdeithas, os cyflwynant eu hunain i Grist; ac ymadael â holl hyfrydwch y byd

* Gyda pha fuandra aruthr mae'r llong hon, (os gallaf ddwyn y gymhariaeth ymlaen,) wedi ei llanw â lluoedd o genhedloedd, a'i llwytho â'u holl feddiannau, yn gweithio ei ffordd trwy'r eangder awyrol; gwel nodiad*, tudal. 334.

hwn, os deuant yn euddunwyr gwresog am ddedwyddwch yn y nesaf.—Ond mae hon yn dyb gam-syniol, neu ynte yn ddarluniad niweidiol iawn o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. Ni chafodd erioed ei bwriadu i yrru dynion i'r diffeithwch; eithr i'w tywys, hyd ffyrdd heddychlawn a hyfryd doethineb, i ororau dedwydd bywyd tragwyddol. Ni chafodd erioed ei bwriadu i dorri ymaith olwynion gorchwyliaeth, neu ddryllio gewynion diwydrwydd; eithr yn hytrach i wneuthur dynion yn ddiwyd oddiar egwyddor gydwybodol, nag oddiar gynhyrfiadau cybydd-dod; fel y gallont felly ddwyn eu gwynfyd anfarwol ymlaen, hyd yn oed tra maent yn darparu ar gyfer eu cynnal-iaeth amserol. Nid oes ganddi un bwriad i ddiwreiddio ein nwydau, ond yn unig i attal eu hannbrefn; ni fyn hi yshwaith ddiffodd hyfrydwch teimladrwydd, eithr eu lluddias i agerddu yn wagedd, neu waelodi yn fustl.—Gall dyn fod yn siriol ymblith ei gyfeillion, ac etto yn orfoleddus yn *Nuw*: geill brofi melusderau ei feddiannau bydol; ac, ar yr un pryd, meithrin gobaith am etifeddiaeth ardderchoccach yn y nef. Geill y crefftwr gyflawni galwadau ei orchwyl, heb esgeuluso amgylchiadau ei iachawdwriaeth. Geill y rhyfelwr wisgo ei gleddyf, gall, mewn achos cyfiawn, dynu yr arf dinystriol; etto fod yn filwr da i *Iesu Grist*, a chyrhaedd y goron anniflanedig. Geill rhieni drysori rhan gymhwys i'w plant, ac heb ddi-ofrydu eu hawl i drysorau gras a gogoniant.—Mor bell yw Crist'nogaeth o rwystro unrhyw ddaioni gwerthfawr, neu attal unrhyw hyfrydwch gwirioneddol, fel y mae hi yn cynnyddu y naill, ac yn dwyn y llall ymlaen: megis y mae mudiadau dyddiol a blynyddol

y ddaear mor bell oddiwrth anghydfod, fel y maent yn perffaith gyttuno; ac yn lle bod yn ddinystriol y naill i'r llall, trwy gymmysgu eu heffeithiau, maent yn rhoddi cyfartalwch a chysoneb i'n hamser, firwythlondeb a bendithion afrifed i natur.

I ni, y rhai a breswylwn ar ei harwyneb, y ddaear yw y belen eangaf o lawer a all ein llygaid ni ei gweled yn un man. Mae hi befyd wedi ei gwisgo â gwyrddni, ei gwahan-nodi â choedydd, a'i harddu ag amrywiaeth o addurniadau prydfferth. Pan, i edrych-ydd wedi ei osod yn un o'r planedau, mae hi yn gwisgo gwedd unffurf, yn edrych i gyd yn oleu, a dim mwy na phigyn. I fodau y rhai a drigfanant ymhellach etto, mae hi yn llwyr ddiiflanu.—Hono a alwn ni, ar gylch, y seren fore a'r seren hwyr, (megis y mae hi yn un rhan o'i chylch-daith yn flaenaf yn ngorymdaith y nos, yn y rhan arall, yn dyfod i mewn ac yn rhag-ddatgan y wawr,) sydd yn fyd planedol; yr hon, gyda'r pedair ereill, y rhai a gyfnewidiant eu hynt gyfriniol mor rhyfedd, sydd ynddynt eu hunain yn gyrph tywyll, heb lewyrchu ond yn unig trwy adlewyrchiad; a chanddynt faesydd, moroedd, ac wybrenau, o'r eiddynt eu hunain; a gynnysgaeddwyd â holl angenrheidiau cynnaliaeth anifeilaidd, a meddylir eu bod yn breswylfeydd bywyd deallol: pob un o ba rai, ynghyd â'n hannedd ddaearol hon, a ymddibynant ar y cyfranwr mawr hwnw o haelioni dwyfol, yr haul; a dderbyniant eu goleuni oddiwrth ddosparthiad ei belydr, ac a dynant eu cysuron oddiwrth ei oruchwyliaeth hynaws.

Mae yr haul, yr hwn a ymddengys yn cyflawni ei orsafau dyddiol, trwy yr wybrenau, ar y golygiad

hwn,* yn sefydlog a digyffro. Efe yw echel fawr y nef, o amgylch pa un mae y byd a gyfanneddwn ni, a rhodau ängach, yn chwyldroi eu rhedfâu gosod-edig.—Mae yr haul, er yn ymddangos yn llai nâ'r deial a lewyrcha, yn llawer mwy† nâ'r holl ddaear hon, ar ba un mae cynifer o fynyddoedd cribog yn ymgodi, a chynifer o foroedd meithion yn ymdreiglo. Llinyn, a gyrhaeddai o ochr i ochr, trwy ganol y cylch dys-claer hwnw, a fesurai fwy nag wyth gan' mil o filldir-oedd: rhwymyn, wedi ei ffurfio i fyned o ddeutu ei amgylchedd, a ofynai hÿd o fyrddiynau o fyrddiynau: pe bwridd ei gynnwysiadau cyfan-gorph, y cyfrif a ddymchwelai ein dealldwriaeth, a byddai agos tu hwnt i allu iaith i'w eirio.‡—A yw yr hysbysiadau athronyddol hyn yn ein synu? A ydym ni yn barod i sefain, mewn perlewyg o ryfeddod, Mor nerthol yw y Bod yr hwn a ennynodd y fath dân aruthr, ac sydd yn cadw yn fyw, o genhedlaeth i genhedlaeth, y fath bentwr dirfawr o fflam!—Dilynwn ein harweinyddion athronyddol, a dygir ni yn gydnabyddus â phethau mwy äng a mwy rhyfedd.

* Yr wyf yn dywedyd, 'ar y golygiad hwn;' fel na ymddangoswyf yn anghofio, neu yn cau allan, chwyldro yr haul o amgylch ei echel ei hun.

† Yn gan' mil o weithiau yn fwy, yn ol y cyfrifiad lleiaf. Mae Syr Isaac Newton yn bwrw bod yr haul 900,000 o weithiau yn fwy nâ'r ddaear. *Religious Philosopher*, tudal. 749.

‡ Dr. Derham, ar ol bwrw mesurau y planedau, a ychwanega, "Er mor aruthr yw y pentyrau hyn, nid ydynt ond megis dim mewn cymhariaeth i'r cylch dirfawr hwnw o oleuni, yr haul; yr hwn, megis y mae yn ffynnon goleuni a gwres i'r holl blanedau o'i gylch, felly mae efe yn rhagori arnynt oll mewn maintioli: ei dryfesur ymddangosiadol a gyfrifir yn 822,148 o filldироedd Seisnig, ei amgylchedd yn 2,582,873 o filldироedd, a'i gynnwysiadau cyfangorph yn 290,971,000,000,000,000." *Astro-Theology*, llyfr i. pen. 2.

Nid yw yr haul, a'i holl blanedau gweinyddol, ond rhan fechan iawn o beiriant mawr y bydysawd. Mae pob seren, er nad yw yn ymddangos yn fwy na'r adamant a serena ar fodrwy bonheddiges, mewn gwirionedd yn rhod fawr, fel yr haul mewn maint a gogoniant; dim llai äang, dim llai goleu, na ffynnon danbaid ein dydd ni: fel mae pob seren nid yn unig yn fyd, ond yn ganol-bwngc cyfundrefn fawryddig; a chanddi osgordd o fydoedd yn cael eu goleuo gan ei phelydr, ac yn chwyldroi o amgylch ei heffeithioldeb tyniadol; y rhai a gollir oll i'n golwg ni mewn gwylltion anfesuroi o awyr.—Y rheswm nad yw y ser yn ymddangos ond fel pigynau bychain, a phrin gwel-edig, yw eu pellder dirfawr ac anamgyffredadwy. Dirfawr ac anamgyffredadwy ydyw yn wir; gan y rhaid i belen, wedi ei saethu o'r magnel, a chan hedeg gyda'r cyflymdra dileihad hwnw, deithio, gyda'r cyfryw chwyrnder, agos i saith gan' mil o flynyddoedd* cyn cyrhaedd yr agosaf o'r goleuadau serenog hyny!

A all un peth fod yn rhyfeddach na'r sylwadau hyn? Gall: y mae gwirioneddau llawer aruthrach; y mae golygfeydd llawer äangach. Megis nad oes un terfyn ar fawredd y Gwneuthurwr Hollalluog, felly ni all dychymmyg osod dim ffiniau i'w law grëedigol.—Pe gallech chwi ymgodi uwchlaw'r lloer, ac ehedeg trwy holl gydgor y planedau; pe gallech adeinio eich ffordd i'r uchaf o'r ser gweledig, a sefyll ar un o binaclau mwyaf ban y nef; chwi a welech wybrenau ereill yn ymledu; haul arall, yn cyfranu ei belydr diysbydd y dydd; ser ereill yn goreuro dychrynfaau y nos ar gylch; a chyfundreithiau, fe allai, ardderch

* Gwel *Religious Philosopher*, tudal. 819.

occach, wedi eu sefydlu; eu sefydlu mewn haelder anadnabyddus, trwy fesurau amherfynol äangder.*— Ac nid yw arglwyddiaeth y Brenin cyffredinol yn terfynu yma. Hyd yn oed ymben draw y daith hir hon, chwi a gaech eich hunain wedi cyrhaedd ddim pellach nâ phentrefi y grëedigaeth, wedi tirio ond yn unig ar gyffiniau teyrnas y Jehofa mawr.†

Ac a ydynt hwy yn dywedyd wrthyf nad yw yr haul, y lloer, a'r holl blanedau, ond rhan fechan o'i weithredoedd *Ef*? “Mor fawr,” ynte, “yw ei arwyddion ef! ac mor gedyrn yw ei ryfeddodau!” †— Ac os felly, pa beth yw y *Creawdwr* ei hun? Mor dra dyrchafedig goruwch pob moliant! Yr hwn sydd mor uchel, fel y mae efe yn edrych i lawr ar yr uchaf o'r rhodau dysclaer hyn, ac yn gweled hyd yn oed trwm y grëedigaeth mewn dyffryn: mor fawr, fel nad yw meithder aruthr yr äangder hyn ond megis pigyn yn ei wydd, a'r holl gydgynnulliad hyn o fydoedd ond

* Gwel *Astro-Theology*, llyfr ii. pen. 2.—Lle mae yr awdwr, ar ol dwyn amryw resymau i brofi gosodiadau ein hathronyddion diweddar, yn ychwanegu, “Heblaw y tebygoliaethau cryfion rhag-grybwylledig, mae genym y ganmolïaeth hon ymhellach i'r disgrifiad hwn o'r bydysawd, ei fod yn llawer mawryddiccach a theilyngach o'r Creawdwr anfeidrol, nag un o'r cyfundreithau culion ereill.”

† Mae Job, ar ol traethawd prydfferth ar weithredoedd nerthol *Duw*; fel y maent wedi eu dosparthu trwy natur gyffredinol, o uchelderau y nef, i waelodion uffern; yn terfynu yr hanes fawryddig gyda'r gydnabyddiaeth hon; “Wele! dyma ranau ei ffyrdd ef:” neu, fel mae'r gair gwreiddiol yn arwyddo yn fwy llythyrenol, “Nid yw y rhai hyn ddim ond cyrau, ddim ond ymylon mwyaf allanol ei weithredoedd: ddim rhagor nâ rhagymadrodd bychan i gyfrol ddîrfawr y grëedigaeth.” Oddiw'rth y gair Hebraeg *מַסָּע*, *extremities*, (eithafoedd) ni allaf lai nâ meddwl am edafedd eithaf a meinaf y gwraidd, pan ei cymharer â holl sylwedd y boncyff, neu fychandra manylaf y mân wythienau, mewn cymhariaeth i holl adail y corph. Job xxvi. 14.

† Dan. iv. 3.

megis y llwchyn ysgafnaf a nofia yn yr awyr, neu a chwery yn mhaladr* canol-ddydd!

Tydi oruchaf ac anamgyffredadwy Dduw! fel y'm töir gan fraw! fel yr wyf yn suddo yn y gostyngedd-rwydd dyfnaf, wrth ystyried "rhagoroldeb dy fawredd di," a'm dibwysfawrogrwydd hollol fy hun!—Ac a lettyais i, gwael a diystyr fel ag wyf, a lettyais ryw feddyliau uchel am danaf fy hun? A deimlais i yr ymchwydd lleiaf yn fy mryd yn mhresenoldeb Bod mor fawryddig ac addoladwy? Fel y dylai hyn fy nghlwyfo â thristwch, a'm gorbuddio â chythrudd!—O fy *Nuw!* pe meddwn yr holl berffeithderau uwch, a berffeithiant ac a addurnant angylion y goleuni! ymhlith yr holl ddoniau hyn, myfi a suddwn yn yr iselder dyfnaf wrth dy draed: wedi fy ngholli yn nhanbeidrwydd anfeidrol ddysclaeriach dy ogoniant digrëedig, myfi a gydnabyddwn fy hun yn ddim; yn llai nâ dim, yn wir wegi.—Pa faint mwy y dylwn i

* Mae hyn yn peri i mi feddwl am nodiad godidog iawn ar brydferthwch ysgrythyrol; a diwygiad fyddlawn o'r cyfeithad cyffredin; a wnaed gan y deonglwr dysgedig, deallus, a duwiol hwnw, Vitringa.—Isa. xl. 15. Mae yn ysgrifenedig am y Bod Goruchaf, ei fod "yn cymmeryd yr ynysydd i fynu fel brycheuyn:" yr hyn, mae ein beirniad yn sylwi, nid yw nac yn ateb ystyr y iaith wreiddiol, nac yn gyson â rhediad yr ymadrodd. Nid oedd gan y prophwyd un bwriad i hysbysu i ddynolryw pa beth allasai yr Hollalluog wneuthur, gyda golwg ar yr ynysydd, os rhyngai bodd iddo osod allan ei allu anwrthwynebol: ei fwrriad oedd dangos, mor ddiystyr, neu yn hytrach y fath ddiddymdra hollol ydynt, yn ei gyfrif ef, a cher bron ei fawrhydi.—Yr ynysydd, medd efe, er eu bod mor eang, ag i weini lle i godi teyrnasydd, a bod yn drigfa cenhedloedd; mor gedyrn, ag i wrthsefyll, dros lawer o fil-oedd o flynyddoedd, cynddaredd ac ymosodiadau parhaus yr holl fyd dyfraidd; etto nid ydynt, o flaen y Jehofa addoladwy, ond fel y gronyn lleiaf a ddichon y llygad ganfod; ysgafn, fel y brycheuyn pluog, yr hwn a yr yr awel leiaf ymaith megis corwynt.—אֵיךְ כִּסּוּת—ayim cadak yitol—*Insulae sunt ut leve quid, quod avolat.* 'Mae yr ynysydd,' dyfn-sail megis llwchyn hedegog, 'yr hwn,' trwy doniad arafaf yr awyr, 'a chwyfir yma a thraw mewn cyffroad gwastadol.'

ymostwng yn ddiffuant ger bron y Mawrhydi dwyfol, yr hwn nid ydwyf ond llwch a lludw, ond cymysgedd o anwybodaeth, amherffeithrwydd, a dirywiaeth!

Tra, wrth ganfod yr äangder maith hwn, y dysgwyl fy ngwaelder mawr fy hun; mi a fynwn hefyd ddysgu bychander isel pob peth daearol. — Pa beth yw'r ddaear, a'i holl olygfeydd rhodresgar, mewn cymhariaeth i ddodrefn aruthr fawryddig yr wybrenau? pa beth, ond pigyn, prin gweledig yn arlun y bydysawd? Sylwir, gan ysgrifenydd deallus iawn,* pe diffoddid yr haul ei hun, yr hwn sydd yn goleuo y rhan hon o'r grëedigaeth, a phe diddymid yr holl fydoedd planed-aid, y rhai a dreiglant o'i amgylch, na welid eu heisiau gan lygad yr hwn a gymmerai holl gylch natur i mewn, mwy nag un o'r tywod ar fin y môr: mae cynnwysiad eu maintioli, a'r lle a lanwant, mor dra bychan, mewn cymhariaeth i'r cwbl, fel mai prin y gadawai eu colled wagder yn annherfynoldeb gweithredoedd Duw.— Gan hyny, os yw, nid yn unig ein peles ni, ond yr holl gyfundrefn hon, mor dra diddym, pa beth yw teyrnas neu wlad? Pa beth yw ychydig arglwyddiaethau, neu drestadaethau y rhai a gyfrifir yn gyfoethog?† Pan gymharwyf hwynt â'm dogn bychan fy hun, maent yn chwyddo yn feithderau beilchion ac äang; ond, pan gymmerwyf y bydysawd yn fesur-lin, brined yw eu maint! mor ddirmygadwy yw eu llun! maent yn ymgrynhoi yn ddim rhodresgar.‡

* *Spect.* Vol. viii. No. 565.

† Juvat inter sidera vagantem divitum pavimenta ridere, et totam cum auro suo terram. *Sen.*

‡ *Terrellæ grandia inania. Watts's Hor. Lyr.*

Pan ymgodo yr eryr Hygad-graff uwchlaw yr holl hil asgellog, ac y gadawo hyd yn oed yr olwg arnynt obry; pan adeinio efe ei ffordd, gydag ymddyrcbiad cywir, i fynu i lethr y nef, a, chan syllu yn ddiysgog ar haul canol-ddydd, cyfrif ei holl lewyrch pelydrog yn eiddo ei hun; a yw efe, pryd hyny, yn sylwi yn bryderus ar y brycheuyn sydd yn hedfan yn yr awyr, neu y llwchyn a ysgydwodd efe oddiwrth ei draed? Ac a gaiff y meddwl tragywyddol hwn, yr hwn sydd yn alluog i fyfyrion ar ogoniant y Creawdwr, yr hwn a fwriadwyd i fwynhau presenoldeb ei wynebpryd; a gaiff y meddwl tragywyddol hwn, a gynnysgaeddwyd â'r fath alluoedd mawrion, a wnaed i'r fath ddybenion dyrchafedig, fod mor wael uchelgeisgar ag ocheneidio am ffug eurwê rhwysg, neu mor dlawd gybyddlyd a dyheu am diriogaethau llydain ar flaen nodwydd?— Na: dan ddylanwadau y fath ystyriaethau, yr wyf yn teimlo fy syniadau yn ymëangu, a'm dymuniadau yn cyrhaedd gradd o uchafiaeth: mae fy hiraeth dychlamus am rwysg bydol yn marw; ac yr wyf yn cael fy hun, os nid yn meddu ar allu, etto uwchlaw ei swynion.—Yn rhy hir, rhaid i mi gyfaddef, y llyfeth-eiriwyd fy serchiadau gan wagedd, ac y claddwyd hwynt dan y dywarchen hon: ond mae y myfyrdodau hyn yn dryllio y cadwyni;* mae'r gwrthddrychau hyn yn agor drws rhyddid: mae fy enaid, wedi ei danio

* I rodio'r wybren faith gwnaed enaid dyn,
Hyfrydlawn ryddid o'i garchardy hwn!
Yn rhydd oddiwrth ei didau, rhwymau gwael
Teganau'r ddaear, yno crwydro gall:
Ymledu, 'mestyn, ac anadlu'n rhydd,
A dadgadwyno ei alluoedd oll.

gan y fath olygfeydd ardderchog, yn codi ei angor o'r gilfach fechan hon; nid yn morio mwyach o amgylch y glânau cyfyng, nac yn syllu mwyach ar y cregyn lliwiedig; annherfynoldeb pethau yw ei grwydrfa, ac anfeidroldeb gwynfyd ei ymgais.

Gwelwch yr äangder dirfawr hwn, a mawrygwch ddarostyngiad Duw.—Fel hyn y defnyddiai seryddwr brenhinol ac ysbrydoledig ei sylwadau ar y nefoedd nosol: “Pan edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fysedd: y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist;” yr wyf yn rhyfeddu dy ogoniant, ac, mewn perlewyg o ddi-olchgarwch, yn llefain, “Arglwydd, pa beth yw dyn, i ti ei gofio? a mab dyn, i ti ymweled ag ef?”*— ‘Mor aruthr, mor hyfryd, yw yr ewyllys da dwyfol hwnw, yr hwn sydd yn teilyngu ymgrymu i lawr, a sylwi yn rasol ar y fath greadur ynfyd a diwerth! Ië, nad yw yn diystyru, o uchelderau anfeidrol ddyrchafiaeth, i ledu ei ofal rhagluniaethol at ein hamgylchiadau lleiaf!—Mae hyn yn aruthr. Ond bod i'r Brenin tragywyddol roddi ei Fab, i'w wneuthur yn gnawd, a dyfod yn Iachawdwr i ni! A alwaf fi hyn yn wyrth o ddaioni ymostyngar? Yn hytrach, pa beth yw pob gwyrthiau, pa beth yw pob dirgeledig-aethau, wrth y rhodd annhraethol hon!’

Pe awdurdodasid yr archangel dysclaeriaf i ddisgyn, gydag olewydden heddwch yn ei law, i arwyddo parodrwydd ei Wneuthurwr tragywyddol i ymgymmodi; ar ein gliniau plygedig, gydâ dagrau gorfoledd, a ffrwd o ddiolchgarwch, y dylasem dderbyn y newyddion perlewygol: ond pan, yn lle'r fath gennad angylaidd, mae efe yn anfon ei unig-anedig Fab. ei

* Psal. viii. 3, 4.

Fab ardderchog uwchlaw pob meddwl, i wneuthur y cynnygiad grasol i ni:—yn ei anfon, o “drigfa ei sancteiddrwydd a'i ogoniant,” i wisgo gwendidau marwoldeb, a phreswyllo mewn tabernacl o glai:—yn ei anfon, nid yn unig i ymweled â ni dros fynudyn, ond i anneddu flynyddoedd lawer yn ein byd truenus isod:—yn ei anfon, nid i arglwyddiaethu ar frenhin-oedd, ond i dreulio ei fywyd allan yn ffurf ddirmygus gwas; ac, yn y diwedd, i ymadael dan gymmeriad gwaradwyddus drwg-weithredwr! A fu cariad erioed fel hwn? A ymostyngodd gras mor isel erioed?—Pe cneifid yr haul o'i holl anrhydedd pelydrog, a'i ddarostwng yn dywarchen y dyffrynoedd; pe di-orsteddid holl urddolion y nef, a'u dirywio yn bryfed diwrnod; mawr, mawr fyddai yr iselhad: ond dim wrth yr eiddot ti, wynfydediccaf Iesu! dim wrth yr eiddot ti, O Dywysog tangnefedd! pan, erom ni ddynion, ac er ein hiachawdwriaeth, ni ddiystyraist gyfleadau trwsgl y preseb; ni wrthodaist ddychryn-feydd dudew y bedd.*

* Mae hyn yn fy ngalw i gof am ddarn ardderchog iawn o areith-yddiaeth sanctaidd, lle mae yr apostol, mewn rhes o'r esgyniadau prydfferthaf, yn gosod allan dosturi rhyfedd ymostyngar ein Hiachawdwr.—“Efe ni thybiodd yn drais,” yr oedd ganddo hawl ddiarnheul, “i fod yn ogyfuwch â Duw,” y Duw anfeidrol, hunan-hanfodol, ac anfarwol: “etto,” mewn trugaredd at bechaduriaid, “efe a'i gwacaodd ei hun” o'i anrhydedd anghyfrannogol, ac a ddiosgodd wisgoedd ei ogoniant anamgyffredadwy.—Pan ddechreuodd efe ar ei swydd gyf-ryngol, yn lle gweithredu fel y Llywodraethwr cyffredinol, “efe a gymmerth arno agwedd gwas:” ac nid agwedd yr ysbrydion gwasanaethgar hyny, y rhai mae eu gwasanaeth yn urddas ei hun; y rhai a orseddwyd, er yn addoli.—Nid naturiaeth angylion a gymmerodd efe, eithr ymostyngodd yn anghymharol is; cymmerth gorph o bridd wedi ei fywiocau, “ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion;” y creaduriaid isel a phechadurus hyny.—Ymostyngiad rhyfedd! ond nid yn ddigonol i orlanwad cyfoethog cariad y Ffyniawdwr; canys, “a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun” ymhellach byth; a gym-

Mae yn dda fod yr oraclau sanctaidd wedi rhoddi y cadarnhad egluraf, a thystiolaeth lwyr anwadadwy, i'r athrawiaeth hon: pe amgen, gallasai ffafr mor anhaeddedig, mor annysgwylidig, a gwerthfawr tu hwnt i amgyffred, betruso ein crediniaeth.—A allasai Efe, yr hwn sydd yn gwthio'r planedau trwy y gwagder diderfyn, ac yn eu tywys hwynt, o oes i oes, yn eu hynt äang; a allasai Efe draddodi ei ddwyllaw i gael eu cylymu gan y rheffyn cadwynog, a'i gefn i gael ei aredig gan y fflangell waedlyd? A allasai Efe, yr hwn sydd yn coroni yr holl ser â dysclaerdeb anniffoddadwy, ei hun gymmeryd ei halogi gan boeredd, a'i afluio gan y graith ddreiniog? Mae hyn y rhyfeddod mwyaf, ac etto y gwirionedd sicraf.

O! chwi rodau cedyrn, a dreiglwch trwy äangderau yr wybren! Rhyfeddais, ys ychydig yn ol, rhag eich mesurau dirfawr, a'ch cylchoedd meithion: ond yn awr mae fy syndod yn pallu, neu yn hytrach y mae wedi ei lyngcu i fynu gan destyn llawer aruthrach. Mi dybygwn fod eich maintioli dirfawr yn ymgrynhoi yn llwchyn, a'ch cylchdroion meithion wedi ymgyfyngu yn ddyrnfedd, tra'r ydwyf yn myfyrio ar uchelderau llawer mwy dyrchafedig, a dyfnderoedd mwy anwrhydol—hÿd anfeidrol äangach, a lled llwyr ddi-derfyn, “cariad Duw yn Nghrist Iesu.”*

merodd afael yn y lle isaf, lle mae pawb yn isel a gwael: efe nid yn unig a ymostyngodd i iau y gyfraith, ond hefyd a ddyg ein hanwiredau, ac a weinyddodd i'n hangenrheidiau ni, farwolion: efe a olchodd draed ereill, ac nid oedd ganddo le i roi ei ben i lawr.—Ië, efe a ddyg ei ddarostyngiad rhinweddol i'r radd bellaf o iselhad: efe “a fu yn ufudd hyd angeu”—ac nid angeu cyffredin a naturiol, eithr angeu gwarthusach nâ'r crogbren; mwy poenus nâ'r arteithglwyd, “angeu” melldigedig “y groes.” Phil. ii. 6, 7, 8.

* Eph. iii. 18, 19.

Wrth fyfyrlic ar yr äangder mawryddig hwn, yr wyf yn gweled drych, yr hwn sydd yn arddangos ysgelerder euogrydd dynol, yn y lliwiau mwyaf ofnadwy.—Ni allasai myrdd o gyfrolau, wedi eu hysgrifenu gyda bwriad i ddangos i mi dra phechadurusrwydd fy amryw weithredoedd o anufudd-dod, fy argyhoeddi mor effeithiol o'u herchyllder, ag ystyriaeth o'r person: gogoneddus,* yr hwn, i wneuthur iawn am danynt, a dywalltodd y dafn olaf o'i waed.—“Pechais,” all pob plentyn i Adda ddywedyd; “a pha beth a wnaif fi i ti, O gyfarchwiliwr dyn?”† A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghorph dros bechod fy enaid? Ofer fyddai'r newidwriaeth! a'r cyfryw ag a wrthodid gan y bendigedig Dduw gyda'r atgasrwydd mwyaf.—A gyflwyna'r holl lywiawdwyr, y rhai a ysgydwant deyrnwial mil o deyrnasoedd, eu bywydau brenhinol ac anrhydeddus i achub creadur pechadurus rhag ergyd dialedd? Och! rhaid cael pridwerth mwy, anfeidrol fwy, i ddileu cynddaredd pechod, a gwared yr adyn euog rhag uffern.—A ymfoddolona holl dywysogaethau y nef i gymmeryd fy natur arnynt, a rhoddi eu hunain i fynu i farw er fy maddeuant?‡ Byddai hyd yn oed hyn yn iawn rhy

* Quo quisque altius ascendit in agnitione Christi, eo profundius peccati atrocitatem cognoscat.

† Job vii. 20. Nid “Ceidwad,” fel y mae yn sefyll yn ein cyfieithad ni, ond “Cyfarchwiliwr dyn.” Yr hwn ymadrodd, megis y mae yn arwyddo golygiad manwl a dibaid y llygad dwyfol; megis y mae yn gosod allan yr hollol annichonolrwydd, i un pechod ddiange heb sylw Duw; mae yn eglur, yw y mwyaf priodol i'w roddi fel rheswm, a dyrchafu pwys y cyd-destynau.

‡ Mae Milton yn gosod y drychfeddwl hwn allan yn brydodol a chyffrous iawn.—Mae holl sancteiddolion y nef yn sefyll o amgylch gorsedd y Prif Lywiawdwr: mae Duw yn rhagweled ac yn rhagfynegu cwmp dyn; y dinystr yr hwn yn anocheladwy a ganlyn ei drosedd:

wael i gyfiawnder anhyblyg, yn daliad rhy brin i anrhydedd diystyredig Duw. Mor erchyll yw euog-rwydd dynol, fel nas gallasai dim llai nag aberth o anfeidrol urddas wneuthur iawn cydbwys am dano.— Efe, yr hwn a ddywedodd, “ Bydded goleuni, a goleuni a fu; ” bydded ffurfafen, ac yn ddiattreg y llëni gleision a nofiasant yn yr awyr; Efe raid gymmeryd cnawd, Efe raid teimlo loesion angerddol croeshoeliad, a thywallt allan ei enaid mewn poenau, os byth y maddeuir i'r fath droseddwyr.

Mor fawr yw'r ddyled, yr hon nis gall goludoedd y ddwy India ei thalu! Mor anaele yw'r clefyd corphorol, yr hwn ni all holl gyffeiriau natur ei iacháu! Ond O! pa faint mwy dinystriol oedd dy gyflwr di, O fy enaid! pa faint mwy ysgeler oedd dy bechodau!

yr hollol annichonolrwydd iddo wared ei hun o'r gagendor hyn o drueni.—

Rhaid marw ef a'i eppil; marw dyn,
Neu fy nghyfiawnder; os dros ddyn ni thâl
Rhyw un galluog o'i wirfodd y iawn,
Marwolaeth am farwolaeth, cyflawn dâl.

Ar ol y desgrifiad cyffrous hwn, a fwriadwyd i ennyn y tosturi tyneraf, mae yr angylion o amgylch yn cael eu cyfarch â'r holiad canlynol:—

Nefolion nerthoedd, pa le cawn fath serch?
O honoch pwy fydd marwol i ryddhau
Bai marwol dyn? a marw dros y marw?
Gofynodd; ond aeth côr y nef yn fud,
A bu dystawrwydd dwfn.—

Par. Lost, b. iii. l. 209.

Mae, i mi o leiaf, ysbryd a phrydferthwch digymhar yn yr amgylchiad olaf.—Fod i'r fath liaws aneirif o fodau hael a thosturiol gael eu taro'n fudion gan syndod a dychryn ar grybwylliad y 'camlwrw marwol, a'r pridwerth gosodedig!' Nid oes un iaith mor hyawdl a'r dystawrwydd hwn: ni allasai geiriau ddarlunio natur arswydus y gorchwyl mewn dull mor bwysig; hollol annigonolrwydd pob creadur i'w gyflawni; cariad tra rhagorol a digymhar y Mab Tragwyddol, yn ei waith yn cymmeryd gorchwyl mor aruthr mewn llaw; nid yn unig yn ddirwg-nach, ond yn ddigais a diymbil arno; gyda pharodrwydd, cyflymdra, a hyfrydwch.

gan na allasai dim llai nâ dyoddefaint a marwolaeth y Messia, Mab Duw, a delw lewyrchus ei ogoniant, dy adferu, a dileu dy anwiredd.—Er, fe allai, nad wyt wedi suddo mor ddwfn mewn halogrwydd a rhai o'r dibirwyr mwyaf ysgeler, etto cofia y pridwerth an-mhrisiadwy a dalwyd i'th wared rhag dinystr tragywyddol. Cofia hyn; ac na “agor dy enau byth mwyach,”* nac i rwgnach yn erbyn ceryddon dwyfol, nac i ymogoneddu yn dy weithredoedd dy hun. Cofia hyn; fel y “byddo yn ffiائد genyt dy hun † am liosogrwydd dy anwireddau, a'th waeledd.”

Etto unwaith: bydded i mi edrych ar yr eangder hardd a mawryddig hwn, a cheubedlu rhyw syniadau unionach am oludoedd anchwiliadwy iawn fy Iachawdwr.—Dywedir wrthyf gan ysgrifenydd yr fiwn ni all gamsynied, fod Arch-offeiriad fy mhroffes, yr hiwn hefyd oedd yr aberth dros fy mhechodau, “yn uwch nâ'r nefoedd;” † yn fwy dyrchafedig mewn urddas, mwy dysclaer mewn gogoniant, nâ'r holl drigfanau nefol, a'u holl drigolion ardderchog. Os darostyngwyd fy nghalon wrth ystyried ei dirfawr euogrwydd; fel mae fy holl alluoedd isel yn adfywio gyda'r meddwl hwn! Mae'r drwg-weithredwr truan, yr hwn a ymddangosai yn serfyllu ar fin y pydew diwaelod, yn cael ei godi, trwy y fath ystyriaeth, i byrth paradwys. Gobeithio y parha fy ngostyngyddrwydd; ond mae fy ofnau, dan ddylanwadau y fath grediniaeth, wedi llwyr ddiflanu. § Nid wyf, nid allaf, ammau effeithioldeb y

* Eze. xvi. 63. † Eze. xxxvi. 31. ‡ Heb. vii. 26.

§ Drwg genyf weled fod rhai o'm darllenwyr wedi cael eu hanfodloni ychydig gan yr ymadrodd, “Mae fy ofnau wedi llwyr ddiflanu:” megis pe byddent yn meddwl ei fod yn dangos graidd o ryfig yn yr ysgrifennwr, ac yn tueddu i wangeloni y Cristion gwan. Ond gobeithio

iawn hwn. Tra yr ydwyf yn gweled cipolwg ar ei ragoroldeb digymhar, ac yn credu fod i mi ran yn ei deilyngdod, nis gwn pa beth yw teimlo un amheu-aeth wan-gred, eithr yr ydwyf yn sefydlog mewn ffydd, ac yn llawen dan obaith.

Bydded fy anwireddau, fel dyled o fyrddiynau o dalentau, mae efe yn fwy nâ thaliad llawn o'r holl swm ddirfawr. Llwythed gelyn dynolryw, a chy-huddwr y brodyr, fi â goganeiriau; mae'r un ddadl hon, "Gwardwr dwyfol a fu farw," yn llwyr ddar-ostwng pob cyhuddiad; canys, er fod gwarthustwydd mawr, a lliaws o droseddau, "nid oes dim damnedig-aeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu."—Ie, pe gorweddaŷ yr holl weithredoedd ysgeleraf a gyflawnwyd yn un oes o'r byd, gan un genedl o ddynton, ar fy mhen; hyd yn oed yn y cyflwr gresyn hwn, ni raid i mi anobeithio: hyd yn oed yr euogrwydd hwn, er yn alaethus tu hwnt i ddesgrifiad, nid yw i'w gymharu â'r cyflawnder o ras a chyflawnder sydd yn preswyllo yn y Duw yn y cnawd.—Mor fawr, mor dra rhagorol ogoneddus, yw perffeithderau y Jehofa addoladwy!

y rhyddha ystyriaeth fwy pwyllig fi oddiwrth y ddau gyhuddiad.—Canys, pa beth a ddywedodd yr awdwr? Dim, ond ar rai munudau neillduol ddedwydd, pan mae yr Ysbryd Glân yn dwyn tystiolaeth o Grist yn ei galon, pan mae efe yn cael ei fendithio â chipolwg ar ragoroldeb digymhar y Gwardwr—yn yr oriau mwy llewyrchus hyny o'i fywyd, fod ei ofnau crynedig, o barth y ddedfryd benderfynol yn y frawdle fawr, yn cael eu troi yn ddysgwyladau boddhaus. A pha beth, yn y cyfryw ddywediad, all fod yn wrthwynebus i'r gwyldra manylaf, neu yn digaloni y credadyn gwanaf? Yn lle creu gwan-galondid, mae yn nodi y ffordd i gyrhaedd tawelwch sefydlog. Ei duedd naturiol yw, rhwymo y meddwl difrif mewn myfyrdod mwy cyson ac esgud ar deilyngdod anadnabyddus y *Cyfringwr* dwyfol: a phe byddem yn drwyadl gydnabyddus, yn fwy teimladwy ystyriol, o'i urddas annhraethadwy, yr wyf yn credu, y diflanai ein hofnau anes-mwyth; y sefydlid ein ffydd, y llewyrchai ein gobaith, ac yr eangai ein gorfoledd.

Mor fawr, mor dra rhagorol werthfawr, yw aberth yr Iesu trangcedig! Mae yn annichonadwy i'r meddwl dynol i ddyrchafu yr iawn hwn* yn rhy uchel; mae yn annichonadwy i'r edifeiriol gostyngedig ymddiried ynddo yn rhy sefydlog. Yr ysgrythyrau, ysgrythyrau y gwirionedd tragwyddol, a ddywedasant, (ymlawenba, fy enaid, yn y grediniaeth!) am y gwaed ar yr hwn yr ydym yn ymorphwys, mai "priod waed" Duw ydyw;† a chan hyny mae efe yn holl-ddigonol i ddyhuddo, yn hollalluog i achub.

Mae yn ymddangos fod Dafydd, y pechadur aethus hwnw, ond y sant mwy dilynwiw, yn dra chydna-byddus â'r gwirionedd cysurus hwn. Pa beth, ynte, all fod ystyr y dywediad hynod a duwiolaf hwnw? "Ti a'm glanhei ag isop,‡ a mi a lanheir; ti a'm golchi, a byddaf wynach nâ'r eira."—"Bum yn euog, rhaid i mi gyfaddef, o'r pechodau mwyaf ysgeler ac alaethus: pechodau wedi eu mwyhau gan amgylchiadau i'r radd uchaf o erchyllder, gyda golwg arnaf fy

* Yr athrawiaeth hon, er yn oludog o gysur i'r pechadur andwyol; etto, onid yw yn debyg o agor y drws i benrhyddid, a hyfhau trosedd-wyr yn eu pechodau?—Nac ydyw: y mae hi yr annogaeth alluoccaf i'r edifeirwch diffuant hwnw, yr hwn sydd yn dylifo oddiar gariad diragrith tuag at Dduw, ac yn gweithredu mewn casineb calonog at bob pechod. Un, yr hwn a wyddai ddaioni anfesurool yr Arglwydd, ac nad oedd yn ddyeithr i gyndynrwydd pechadurus ein natur, a ddywed, "Y mae gyda thi faddeuant, fel i'th ofner," Psal. cxxx. 4.—Geiriau, addas i'm bwriad; y rhai sydd yn chwaneu yn awdurdod uchaf at y dyb hon, ac yn tywys ein meddyliau at ei thuedd briodol, a'i hiawn ddefnydd.

† Act xx. 28.

‡ Psal. li. 7. "Ti a'm glanhei." Yr wyt yn dewis y cyfieithad hwn yn hytrach nâ'r un newydd: am ei fod yn llefaru iaith crediniaeth fwy diysgog, ac yn rhoddi yr anrhydedd uchaf i'r dwyfol ddaioni. Pe ni fwriadesid y geiriau i gynnwys dim rhagor nâ'r ystyr ddeisyfiadol gyffredin; ac nid i fod yn arwyddocael o gadernid ardderchog ffydd, buasant *חטאת* chatanee, a *כִּבְשָׁת* cebesanee—yn y modd gorchymynol, ac nid y dyfodol.

hun, fy nghymmydog, a'm Duw. Fy hun, yr hwn a fendithiwyd uwchlaw dynion, ac a waban-nodwyd fel anwylyd Rhagluniaeth; fy nghymmydog, yr hwn, yn ei ddaioni mwyaf hoff a thirion, a niweidwyd yn anadferol; fy *Nuw*, yr hwn yn gyfiawn a allasai ddysgwyl y cydnabyddiaethau mwyaf diolchgar o ddyledswydd, yn lle'r fath droseddiadau erchyll o'i gyfraith. Etto, er mor aethus ac ysgymmun yw fy mbechod, nid yw ddim at deilyngdod gorhelaethlawn y Gwardwr mawr, yr hwn a addawyd er seiliad y byd; yn yr hwn yr ymddiriedodd fy holl dadau; yr hwn yw gobaith holl derfynau'r ddaear. Er fod fy nghydwylbod, gan halogrwydd anllad, yn ffeiddiach nâ'r dommen; er fod bradwriaeth a llofruddiaeth wedi ei gwneuthur yn ddu fel tywyllwch uffern; etto wedi fy ngolchi yn y "ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid,"* mi a fyddaf—nid wyf yn dywedyd, yn lân yn unig; byddai hyn yn anfri ar effeithioldeb angeu fy Iachawdwr—eithr byddaf yn dæg fel y lili, yn wyn fel yr eira. Nagê, na bydded i mi fychanu gwrthddrych gogoneddus fy ymddiried; wedi fy nglanhau gan y ffrwd sancteiddhaol ddifeth hon, byddaf yn deccach nâ'r lili yn ei lawn flagur, yn wynach nâ'r eira newydd ddisgyn.'

"Eiddo Duw," medd yr ysgrythyr, "yw cadernid."† —Ac ymha linellau mawryddig mae y briodoliaeth hon o eiddo y Jehofa, wedi ei hysgrifenu trwy holl gyfrol y grëedigaeth! yn enwedig yn y tudalenau ardderchog, a agorir yn y gororau serenog accw: y rhai, gan hyny, a elwir, gan ber a seraphaidd ganiedydd Israel, yn "ffurfafen ei nerth:"‡ o herwydd fod gweithredoedd

* *Zec.* xiii. 1.† *Psal.* lxii. 11.‡ *Psal.* cl. 1.

godidog Hollalluogrwydd yn cael eu dangos yno yn y rhwysg mwyaf, a'u cofrestru yn y llythyrenau mwyaf darllenadwy.

Pwy, wrth edrych i fynn ar wybren canol-nos, ac, â llygad rheswm, canfod ei rhyfeddodau ymdreiglol; pwy all ymattal rhag holi, o ba beth y ffurfiwyd y rhodau cedyrn hyny?—Aruthr yw adrodd! Hwya wnaethpwyd heb ddim defnyddiau. Hwya neidiasant o wagder ei hun. Adail fawryddig natur ei hun a gododd o ddim.—Pa offerynau a ddefnyddiwyd gan y Pen-saer Goruchaf, i lunio y rhanau gyda'r fath gywreinerwydd manwl, ac i roddi y fath owmal prydfert h'i'r cyfan? Pa fodd y cyssylltwyd y cwbl yn un adail gynnill-gyfartal, ac ardderchog-orphenol?—Un gair Bydded a wnaeth y cwbl. “Bydded,” eb Duw. Ni ddywedodd ragor, ac yn ddiattreg yr adeilad ryfedd a gododd, wedi ei haddurno â phob harddwch, yn arddangos perffeithderau afrifed, ac yn datgan, ymysg seraphiaid perlewyl, moliant ei Chreawdwr mawr. “Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwynt trwy ysbryd ei enau ef.”*—Pa

* Os yw y meddwl hwn yn cael ei dderbyn yr ail waith, a'i oddef i ardderchogi y dosparth nesaf, mae hyny, mewn rhan, ar gyfrif ei odidogrwydd digymhar; mewn rhan, o herwydd ei fod yn deffroi y meddylddrych mawryddicaf am y gallu creedigol; ac mewn rhan, o herwydd fod arfer y psalmydd, awdurdod rhy fawr i'w wrthwynebu, yn rhagflaenor i mi.—Mae'r pennill prydfert h'i ddifynwyd yn barod o'r Psal. xxxii. 6. yn brawf, pa mor drwyadl yr oedd y prydydd yn deall mawrhydi yr hanes Foseaidd; ac adroddiad y syniad, adn. 9. yn dangos fel yr oedd efe yn cael ei hyfrydu gan y dull ardderchog hyny o ddesgrifio y gweithredoedd dwyfol: tra mae rhediad ei gyfansoddiad ei hun yn dangos, mor berffaith yr oedd efe yn meddu yr un ffordd ddyrchafedig o feddwl; a hyny yn hir cyn i Longinus ysgrifenu ei draethawd clodfawr, yr hwn a ddysgodd y byd paganaidd yn gystal a'r crist'nogol, i fawrhau urddas dull y deddf-rodwr Iuddewig.—*Vide Longin. de Sublim. sect. ix.*

heiriannau grymus a sefydlodd rai o'r rhodau pwysig hyny ar eu seiliau diysgog? Pa allu anwrthwynebol a dreiglodd ereill trwy gylch y nefoedd? Pa nerth attaliadol a gyfyngodd eu rhediadau chwyrnion o fewn terfynau rhyfedd äang, etto manwl gywir?—Dim ond ei ewyllys ben-arglwyddiaethol ef. Canys gwnaethpwyd pob peth yn y dechreuad, ac y mae pob peth yn aros hyd y dydd hwn, yn unol ä'i osodiad ef.

Heb un dyfalwch trafferthus, nac un cychwyniad Hafurus, codi—cyffwrdd—llefaru y fath liaws o gyrph dirfawr i fodoliaeth—eu gwthio trwy äangderau yr wybren, fel saeth o law cawr—i wasgu ar y fath bentyrau anhylwyth mudiad llawer cyflymach nâ buandra y græedigaeth adeiniog*—a'u parhau yn yr un chwyldro chwyrn dros filoedd a miloedd o flynyddau—y fath anghraifft aruthr o nerth anfeidrol yw hyn!—A all dim fod yn annichonadwy i'r Arglwydd, yr Arglwydd Dduw; Creawdwr a Llywiawdwr terfynau'r ddaear, a holl ororau'r bydysawd? Yn hytrach, onid yw pob dim a gyfrifwn ni yn anhawdd, yn berffaith rwyddineb i'r Bod gogoneddus, yr hwn yn unig a lefarodd, a gwnaethpwyd y byd?† yr hwn yn unig a

* I roddi un anghraifft o'r nodiad hwn.—Mae'r ddaear, yn ei chwyldro dyddiol o amgylch ei hechel ei hun, yn troi o amgylch uwchlaw mil o filldiroedd bob awr: ac megis y mae'r sidell-dro mawr, yr hwn mae hi yn ei wneuthur yn flynyddol o amgylch yr haul, yn cael ei gyfrif yn 540,000,000 o filldiroedd, rhaid iddi deithio agos buna a hanner (1,500,000) yn y dydd. Y fath nerth sydd yn angenrheidiol i wthio'r fath belen ddirfawr ymlaen; a'i holwyno o amgylch, yn llwythog fel y mae hi o fynyddoedd mawrion, creigiau trymion, gyda'r fath chwyrnder buan! Mae tu hwnt i amgyffred dyn!—Mor naturiol, mor berthynasol, i.e. mor angenrheidiol, ar ol y fath uodiad, yw cyfaddefiad Job dduwiol! “Myfi a wn y gelli di bob peth, ac na attelir un meddwl,” un ddyfais ddychymmygadwy, “oddi wrthyt ti,” nas gall lechu tu hwnt i'th allu i'w chyflawni. Pea. xlii. 2.

† Psal. xxxiii. 9.

orchymynodd, a'r echel aruthr a sierhawyd, a'r olwynion cedyra a dreiglasant yn gyflawn?—Y fath ymddiffyn diogel, O fy enaid, yw nerth tragwyddol dy Dduw! Bydded hyn dy noddfa wastadol ymbob perygl; dy drysorfa ddifeth yn amser angen.

Pa beth ni ddichon gallu anwrthwynnol y Jehofa mawr ei effeithio er ei bobl? Pa mor chwervon bynag fyddo eu cystuddiau, ond eill y Duw hwn eu cysuro? Pa mor aml bynag fyddo eu hanghenion, onid eill y Duw hwn eu cyflawni? Pa mor ddyfnion bynag fyddo eu llygredigaethau, neu pa mor daerion bynag fyddo eu tentasiynau, onid all y Duw cadarn, nerthol hwn, ddarostwng y naill, ac arfogi eu meddyliau yn erbyn y llall?—Pe i'ch nithid, fel gwenith, gan brofedigaethau, gydag angerdd diattal; pe i'ch malid agos yn llwch, gan orthrymder, a phwys o ofidiau; pe denai pleser, a'i swynion hudolus, chwi i ddinystyr melus; etto “deliwch afael ar Dduw,” a gosodwch eich cymborth ar Hollalluogrwydd.* Ni

* Yr ydym yn cael y disgrifiad hyfryttaf, yn gystal a'r addewid fwyaf cysurus, yn Esa. xl. 29, 30, 31.—“Yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlha gryfder i'r dirym;” nid yn unig Efe a gyfrana, eithr efe “a amlha gryfder;” a'i gwna yn helaeth, lle nid oedd dim.—Heb gymhorth y Jehofa, hyd yn oed “yr ieuengctyd,” ynghanol eu nerth a'u bywiogrwydd, “a ddiffygiant” yn eu gwaith, ac “a flinant” yn eu hynt. “A'r gwyr ieuainc,” i benderfyniad a galluoedd y rhai nid oedd dim yn ymddangos yn anwneuthuradwy, nid yn unig ni lwyddant, eithr gan syrthio a syrthiant, ac a lwyr fethant yn eu hymnosodiadau amrywiol.—“Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd,” ac a ymddiriedant yn ei ras, a deithiant ymlaen gyda gwresogrwydd didwyll, o un radd o wellhad crefyddol i'r llall. Yn lle treulio, “hwy a adnewyddant eu nerth:” anhawsderau a'u bywiocant, a llafur a'u cyfnertha hwynt. “Ehedant,” ar esgyll cedyrn, uwchlaw pob gwrthwynebiad: dygir hwynt trwy bob digalondid, “fel eryrod” yn hollti'r awyr. “Rhedant,” gyda chyflymdra a bywiogrwydd, yn ffordd gorchymynion Duw, “ac ni flinant: hwy aânt rhagddynt” (רל—yelsoo—*progedientur, carpent iter*) gyda ffyddlondeb a dyfalbara, yn y llwybrau

ellir dy amgylchu gan ddim amgylchiadau trallodus, na'th osod mewn un enbydrwydd cyfagos; na bydd dy Dduw, yr hwn a wasanaethi, yn alluog i'th wared rhag y naill, a'th gynnal dan y llall.—I'th gynnal! i'th waredu! Na bydded i mi ddianrhydeddu mawredd diderfyn ei allu. Mae efe yn alluog i'th ddyrchafu, o'r cyfyngder dyfnaf, i'r llawenydd mwyaf gorfoleddus, ac i wneuthur hyd yn oed i gymmblethiad o ddrygau gydweithio er dy ddaioni tragywyddol. “Efe a ddichon,” nid yn unig gyflawni yr hyn oll a ddywedais, eithr “gwneuthur yn dra rhagorol tu hwnt i ddim yr ydym ni yn eu dymuno, neu eu meddwl.”*

heddychlawn hyny, ac “ni ddiffygiant;” eithr cyrhaeddant ben eu taith, a derbyniant gamp eu huchel alwedigaeth.

At yr athrawiaeth siriol hon, goddefer i mi ychwanegu ei gwrthgyferbyniad dim llai pryderth a hyfryd. Eliphas, gan lefaru am elynion y cyfiawn, a ddywed—לא נבחר קיטם—lo nikhad keemanoo—yr hyn a droir gan feirniad dysgedig yn y iaith sanctaidd, *Nihil excisum factio nobis adversaria*.—Dylem ystyried ein hiaith wedi gwneuthur ei rhan yn lled dda, pe, wrth ddirmygu galluoedd ein gwrthwynebwy, y disgrifiai hi hwynt, yn weinion fel “edafedd losgedig,” yn llesg fel y “mŵg yn diflanu:” ond nid yw y rhai'n ond ffurfiau oerion o ymadrodd, mewn cymhariaeth i hyawdledd y Dwyrain. Yn ol rhediad ein Bibl ni, “nid yw yr holl allu a wrthwyneba y duwiol,” ond dim; neu, i lefaru gyda mwy o ddirmyg, nid ydyw ond “dim diddymedig, dadwreiddiedig.”—Mawrhewch y dywediad hwn, chwydychwi y rhai a ymhyfrydwch mewn darluniadau hyfion, a (yr hyn a eilw Tully *verbum ardens*) geiriad gwresog a bywiog.—Cofiwch hyn, chwi y rhai a filwrwch y filwriaeth dda.—Nid yw holl nerthoedd unedig eich gelynyon, pa mor gryfion ac arswydus bynag y gallant ymddangos i lygad o gnawd, ger bron eich Gwarcheidwad Hollalluog, ond *nihil nihilissimum*, nid yn unig dim, ond “llai nâ dim,” a gwagedd. Job xxii. 20.

* Ni chwyddaswn y nodiadau yn y fan hon, oni bai i gymmeryd sylw ar y gyfran ddi-gyffelyb a goffawyd uchod, yr hon a welir yn Eph. iii. 20.—Yr hon, onid ydwyf yn camgymmeryd, sydd yn ddarluniad cyflawnaf o'r gallu dwyfol a ddichon geiriau ffurfio. Gwneuthur yr hyn oll a all ein tafod “ei ofyn,” sydd yn wyrth o nerth: ond yr ydym yn aml yn meddwl mwy nag allwn eirio, ac yn cael ein cynhyrfu gan “ochenediau annhraethadwy.” Etto, ateb y dymuniadau mawrion hyn, nid ydyw tu hwnt i gyflawniad ein Tad nefol.—Ië, cyfranu rhoddion a bendithion cyfartal â helaethrwydd mwyaf dysgwyliadau

O! druenus gyflwr y rhai drygionus, y rhai mae Arglwydd pob nerth yn elyn iddynt! O! eithafoedd gwallgoŵrwydd yr annuwiolion, y rhai a gyffroant yr Hollalluog i eiddigedd!—Greaduriaid penweinion! a ellwch chwi wrthsefyll eich Gwneuthurwr, ac ymdrechu â Hollalluogrwydd wedi ei lidio? A ellwch chwi oddef angerdd ei lid ef, neu ddal dialedd ei fraich ddyrchafedig? Rhag ei bresenoldeb, er yn ofnadwy dawel, y bryniau a doddant fel cwyr, a'r "mynyddoedd a lamant fel ŵyn defaid." Rhag yr amlygiad lleiaf o'i anfoddlonrwydd, "sigla sylfeini natur, a cholofnau'r nef a grynant." Pa fodd, ynte, gall soffyn sych ddâl, pan "fyddo ei wefusau yn llawn digofaint, a'i dafod fel tân ysol?"—Neu a all rhyw beth gysgodi pryfyn euog, pan "hogo" y Duw mawr ac ofnadwy "ei gleddyf dysclaer," a phan "ymaflo ei law mewn barn" anhyblyg? Y llaw hòno, yr hon sydd yn ergydio y planedau, pentyrau o faintioli dirfawr,* gyda'r fath fuander aruthr trwy yr wybren: y llaw hòno, yr hon sydd yn chwyrndaflu y gwibiogion i'r fath bellderau anfesurrol, tu hwnt i gylch ein planed bellaf, tu hwnt i olwg y llygad cryfaf: pan estyner y

dynol, nid yw ond peth bach gydâ Duw'r gogoniant. Efe a ddichon wneuthur tu hwnt i ddim a all yr amgyffred éangaf ddychymmyg; ie, gwneuthur yn "rhagorol" tu hwnt, yn "dra rhagorol" tu hwnt, i ddim a all y meddwl ei hun, yn ymegniad penaf ei alluoedd, ei "ddymuno," neu ddychymmygu.

* Bernir fod un o'r planedau (Sadwrn) fwy nâ 90 gwaith yn fwy nâ'r belen a gyfanneddwn ni. Yn ol yr un cyfrifiad, mae y fwyaf o'r planedau (Iau) uwchlaw 200 gwaith yn fwy nâ'r cynnulliad hwn, o wastadedd éang, mynyddoedd cribog, cyfandiroedd meithion, a moroedd difesur. Y fath faint aruthr! wedi ei adeinio â'r fath gyflymdra dirfawr! Mae'n codi syndod uwchlaw adroddiad.—"Mae yn Nuw ogoniant ofnadwy!" Job xxxvii. 22. "Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac ni ogonedda dy enw?" Dat. xv. 4.

llaw hòno, allan i gospi, a eill ymddiffynfa creigiau, cyfryngiad moroedd, neu hyd yn oed cysgod bydoedd, droi yr ergyd heibio?—Ystyria hyn, uchelgais, a chryma dy ben trahaus. Ystyria hyn, anufudd-dod, a phlyg dy ewynion haiarnaidd. O! ystyriwch hyn, y rhai oll a anghofiwch, neu a ddigiwch, y Jehofa, ofnadwy. Efe a ddichon, trwy un gweithrediad o'i ewyllys, osod y bydysawd mewn dinystr hollol: ac a all fod arno ef angen gallu i'ch dwyn chwi, mewn munud, ar darawiad amrant, i lwch y ddaear, neu i ffamiau uffern? Mae ganddo ef—nid wyf yn dywedyd, deng mil o fellt i'ch llosgi yn lludw, deng mil o daranau i'ch dryllio'n ysgyrion; ond, yr hyn sydd yn annbraethol fwy arswydus—byddin o ddychrynfeydd, yn edrychiad ei wynebpryd lliidiog: mae ei wg ef yn waeth ná distryw.

Ni allaf adael y pwngc hwn, heb fawrygu amynedd y bendigedig Dduw; yr hwn, er mor gryf a nerthol, etto sydd yn cael ei “demptio bob dydd.”—Yn ddiau, fel y mae ei fawrhydi, felly y mae ei drugaredd; ei dosturi yn gyfangwbl gymmesur â'i allu. Os gwatworaf ond enw teyrn daearol, collaf fy rhyddid, a thraddodir fi i'r daearddy. Os ymddangosaf dan arfau, a thynu'r cleddyf yn erbyn fy mhenaeth, mae fy mywyd wedi ei ddirwyo, a phrin y gwna fy ngwaed iawn am fy nbrosedd. Ond mi a'th ddianrhydeddais di, O Frenin anfarwol ac anweledig! Yn dy erbyn di meithrinodd fy mynwes elyniaeth ddiregel; fy ymddygiad a gododd mewn gwrthryfel cyhoeddus; ac etto arbedwyd fi, etto cynnaliwyd fi. Yn lle bod yn alltudiedig o'th ŵydd, yr wyf yn eistedd wrth dy fwrdd, a phorthir fi o'th law: yn lle cael fy ymlid gan fellt

dialedd, mae dy roddion yn fy amgylchu o beb tu. Y fraich hòno, y fraich ddirmygedig hòno, yr hon yn gyfiawn a allasai gwympo gyda dinystr anadferadwy ar ben teyrnfradwr, a estynir allan yn rasol i'w gofleidio gyda'r deniadau tyneraf, i'w feithrin gyda hynawsedd tadol.—O! tydi alluoccaf, tydi oreu o fodau, fel mae fy enaid yn gofidio am fy anniolchgarwch cywilyddus ac atgas! Bydded i mi ffeiddio fy hun bob amser fel y gwaelaf o greaduriaid; ond addoli dy hir-ymaros diffino di, yr hwn sydd yn gwrthod cymmeryd ei gyffroi; caru dy ddaioni di-attal, yr hwn ni allasai dim gweithredoedd o anniolchgarwch ei luddias, na chymmaint a'i leihau yn ei rediad grasol. O! bydded y galon ystyfnig hon, yr hon ni allasai un ddyled ei rhwymo, dim bygythion ei dychrynu, yn gaethes, yn gaethes wirfoddol, i'r fath haelioni buddugol!

Llawer gwaith y rhyfeddais rhag y medrusrwydd Hollalluog, yr hwn a bwysodd y mynyddoedd mewn clorianau, a'r bryniau mewn pwysau; yr hwn a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a gymhwysodd bridd y ddaear* mewn mesur. Ond pa faint mwy rhyfedd

* Esa. xl. 12. "Pridd y ddaear," yn yr ysgrythyr ddyrchafedig hon, a arwydda y sychdir, neu ranau celyd y belen ddaearol: y rhai a osodir mewn gwrthgyferbyniad i'r holl gynnulliad o sylwedd hylif, a goffhawyd yn y diweddnod blaenorol. Fe allai fod y dywediad hynod hwn wedi ei fwriadu i arwyddo, nid yn unig y manylrwydd cynnil, yr hwn a gymhwysodd fesurau y byd yn gyffredin, neu yn y cyfan; ond hefyd y cywirdeb neillduol gyda pha un y mesurwyd ac y trefnwyd y defnyddiau lleiaf, a gyfansoddant ei adail, (heb lyau cymmaint ag un llwchyn.)—Fel pe dywedasad, Bychan yw dywedyd, Ni oddefwyd i'r fath ormodedd dirfawr, neu drumau diachos o fynyddoedd, i fod: nid oes cymmaint ag un tywodya yn ormod, nac un llwchyn yn eisiau.—Megis mae prif ddyben y desgriafiad yw, mawrygu y ddoethineb berffaith, a ddangoswyd yn y grëedigaeth; a gosod allan y cyfartalwch mawr, gyda'r hwn mae pob rhan yn cyfatted, yn cyd-

yw y drefn fawryddig hòno, yr hon a bwysodd y ser gyda'r fath fanylrwydd annhraethol, ac a fesurodd y nefoedd â rhychwant! Lle mae'r cyfan yn aruthr fawr, yn ddiderfyn amrywiol, ac etto yn gywir ddiwyrni. Yn ddiâu mae doethineb Duw yn amlygedig yn yr wybrenau, ac yn llewyrchu yn y rhodau dysclaer hyny: yn llewyrchu ar y meddwl myfyrgar, gyda gloywder anghymharol ddysclaeriach nâ hwnw a drosglwydda ei llewyrch unedig ar y llygad.

Wele y lliaws afrifed accw o belau; ystyriwch eu maint dirfawr; golygwch hwynt fel penaduriaid cynifer o gyfundreithiau, pob un a'i osgordd blanedaid yn gweini arno. Ar y gosodiad hwn, y fath liosogrwydd o rodau cedyrn raid fod yn rhedeg eu cylchoedd yn barhaus yn y gororau uchod! Etto nid oes neb o honynt yn camsynied eu ffordd, neu yn crwydro oddi wrth eu nod; er eu bod yn tramwy trwy faesydd anhylwybr a diderfyn. Nid oes neb o honynt yn hedeg o'u cylchoedd i wibiadau afradus; neb yn gwasgu i mewn i'r canol-bwngc yn rhy agos. Nid oes neb o honynt yn cydgam â'u gilydd yn eu teithiau blynyddol, neu yn attal cyfraniadau hynaws dylanwadau y lleill.* Ond mae eu holl gylchdroion yn

daro, ac yn cynghaneddu, â'r cwbl; cymmerais fy nghennad i gyfnewid ein cyfieithad Saesneg ni, *comprehend*, (cynnwys,) ac yn ei le, rhoddi gair llawn mor gyfattebol i'r Hebraeg, a mwy arwyddocaol o feddwl y prophwyd.

[Fe wel y darlennydd-Cymreig, fod y cyfieithad i'w iaith ef yn ateb, heb un cyfnewidiad, i feddwl Mr. Hervey.]

* Nid yw attaliad y goleuni, trwy ddiffygiadau, yn dygwydd ond yn anfynych iawn; a phryd hyny, mae ei barhad mor fyr, fel nad yw mewn un modd yn anghyfleus; nagê, mae'r fath amgylchiadau yn cydfyned ag ef, ag sydd yn ei wneuthur yn ddefnyddiol yn hytrach nâ niweidiol.

myned rhagddynt mewn cysondeb tragwyddol; yn cadw'r fath amser, a'r fath gyfreithiau, ag sydd fwyaf gweddaidd i berffeithrwydd y cyfan.

Tra yr wyf fi yn myfyrio ar y "ddoethineb ragorol, yr hon a wnaeth y nefoedd," ac sydd yn cysoni eu holl fudiadau; fel yr wyf yn gwridio rhag y cymmysgedd o ryfyg ac ynfydrwydd, yr hwn, un amser, a'm tueddodd i rwgnach yn erbyn dy oruchwyliaethau di, O Arglwydd! Pa beth yw hyn, ond math o deyrnfradwriaeth ddirgel yn erbyn dy Ben-arglwyddiaeth, a math o wadiad dystaw o'th ddealldwriaeth anfeidrol? —A gyfleaist ti mor rheolaidd y fath amrywiaeth rhyfedd o gyfundreithiau trwy äangderau y bydysawd? A lefaraist ti hwynt, heb ddim prawf-gynnygion, heb ddim adgyffyrddiadau diwygiadol, i'r perffeithrwydd uchaf? A ydwyt ti yn eu goruchwyllo oll yn barhaus, yn eu holl amgylchiadau, gyda challineb nad yw byth yn camgymmeryd y mymryn lleiaf o briodoldeb? Ac a fyddaf fi mor annirnadwy syfrdan, ag ammau uniondeb dy ddirnadaeth, yn "nethol fy etifeddiaeth, a sefydlu terfynau fy mbreswylfod?"—Dim un gwall, yn lluniad adail, penderfyniad pellder,* a thywysiad gyrfa, bydoedd heb rifedi! Ac a gaiff fy mympwy ceintachlyd ryfygu beio dy drefn gyda golwg ar amgylchiadau un creadur anghyfrifol, yr hwn y mae

* Yr haul, yn neillduol, (a gwasanaethed hyn fel dangosiad o'r manylrywydd cywreiniaf gyda pha un y cyfansoddwyd y cyrph nefol ereill, ac y trefnwyd eu holl amgylchiadau,) yr haul a ffurfiwyd o'r fath faintioli gosodedig, ac a gyflewyd yn y fath bellder cyfaddas—"fel nad yw yn ein niweidio, eithr yn ein hadfywio ni, a meithrin y ddaear â'i wres hilbair. Pe byddai yn fwy, gosodai'r ddaear ar dân; pe yn llai, gadawai hi yn rhewedig; pe byddai yn nes attom, crasboethid ni i farwolaeth; pe ymbhellach oddi wrthym, nis gallem fyw o eisiau gwres."—*Stackhouse's History of the Bible.*

ei faintïoli, ar y fath olwg gymhariaethol, yn llai na dynfodded, a'i barhad presenol yn ychydig fwy na mynodyn?

O! dydi Dduw! "yn llaw yr hwn mae fy anadl, ac eiddo yr hwn yw fy holl ffyrdd," bydded y fath syniadau ag a lanwant fy mryd yn awr, bob amser yn fyw yn fy nghalon! Y rhai hyn a dawelant fy meddwl i foddlonrwydd siriol, ac ymostyngiad diolchgar, hyd yn oed pan fyddo trallodion yn chwerwi fy nheimladu, a siomedigaethau yn dystrywio fy nyfeisiau. Yna, fel y patriarch diolchgar,* yn holl gyfnewidiadau fy sefyllfa, ac hyd yn oed yn nyfnderoedd gorthrymder, myfi a godaf allor o ymroddiad addoliadol, ac a ysgrifenasf arni gysswynair yr apostol, "I'r *Dduw* unig ddoeth." Yna, pe caniattêid i mi drefnu fy sefyllfa fy hun, mi a ddeisyfwn yn ostyngedig gael rhoddi'r caniattad i fynu, ac ad-draddodi fy hun i ofal dy haelioni diwyrni; gan lwyr gredu, fod dy gynghorion, er yn groes i'm tueddiadau cildyn, ac hyd yn oed yn ofidus i'm cnawd, yn llawer mwy dewisol, na rhediad dall fy ewyllys fy hun, pa mor ddengar bynag i natur anifeilaidd.

Ar olwg ddiotal, ni chanfyddwch ddim cywirdeb na chysondeb yn nghyflead y cyrph nefol: maent yn ymddangos yn dryblith ardderchog, yn bentwr cymmysglyd o belau llewyrchus, heb na'u rhestru mewn trefn, nac yn mudo wrth linyr.—Ond mae yr hyn sydd yn edrych yn gymmysgedd, i gyd yn rheolgarwch; mae yr hyn sydd yn dwyn ymddangosiad esgeulusdod, mewn gwirionedd yn ganlyniad y dosparthiad mwyaf pencelfydd. Yr ydych yn meddwl, fe allai, eu bod

* Gwel Gen. xii. 7, 8.

yn crwydro yn eu hedfa awyraid: ond maent yn crwydro wrth y rheol gyannilaf, ac heb y gwyrni lleiaf. Eu cylchoedd, er yn ymddangos yn wŷr, eu bachdrofâu, er yn ddyrys i'n hamgyffred ni,* a nodwyd allan, nid yn wir â chompodau aur, ond gan drefaiadau anfeidrol fanylach yr Ysbryd holl-ddoeth.

Felly, mae'r hyn sydd yn gwisgo ymddangosiad trallod, yn nghoelbren osodedig y duwiol, mewn gwirionedd o natur fendithiol; mae yn deilliaw, o gariad tadol, ac efe a derfyna yn y daioni gwerthfawroccaf. Os cipiwyd Joseph o gofleidiau tad hynaws, os traddodwyd ef i gaethiwed mewn bro estronol, hyny a fu fel y cedwid y teulu sanctaidd rhag trengu o newyn, ac i ddiogelu yr "had yn yr hwn yr oedd holl dylwythau y ddaear i gael eu bendithio." Os yw efe yn suddo i'r anfri dyfnaf, hyny sydd fel y codo efe i'r anrhydedd uchaf. Mae hyd yn oed cyfyngder y carchardy, trwy weithrediadau anchwil-iadwy Rhagluniaeth, yn agor y ffordd i ddeheulaw yr orsedd ei hun.—Dysgwylid gwas mwyaf cystuddiol yr Iesu am derfyniad pethau: yna efe a wel ddefnyddioldeb yr holl drallodion hyny, y rhai yn awr, fe allai, ni all efe ond prin eu derbyn heb rwgnachrwydd, na'u dyoddef heb beth ymdrechladau o anfodlonrwydd: yna, y deigryn ffrydiol, a'r uchenaid chwyddedig, a droir yn ffrydiau o ddiolchgarwch, ac emynau o ryfeddod sanctaidd.

Yn y cyfamser, na feiddied un difenwr rhyfygus gyhuddo yr ymddygiad dwyfol; eithr gan addoli lle

* Bachdrofâu dyrys, gwyrog, blith dra phlith;
Ac etto trefnus, felly'n benaf, pan
Yn fwyaf didrefn ymddangosant in'. *Milt.*

ni allwn amgyffred, aroswn am ddatguddiad y drefn ddirgel: yna caiff pob llygad weled fod dyryswch ymddangosiadol Rhagluniaeth yn ffordd union a thalgrwn i weithredu ei fwriadau cyffredinol o ras, a dwyn dedwyddwch pob un o amgylch.*—Yna, hefyd, dangosir yn eglur, ger bron bydoedd moliannus, pa ham y dihoenodd rhinwedd mewn eisiau, tra gwleddai drygioni mewn llawnder; pa ham y llusgodd diniweidrwydd hawddgar gadwyn y daeardd mor aml, tra tynai euogrwydd erchyll o'i hol wisg teyrnedd.—Y dydd hwnw o wrandawriad cyffredinol, y dydd hwnw o ad-daliad tragwyddol, nid yn unig a ryddha, ond a fawryga, drefniadau y nef. Y frawd ardderchog a derfyna gyda'r cyfaddefiad unfryd, gogoneddus hwn: “Er fod ‘cymhyllau a thywyllwch,’ annhreiddiadwy gan un chwiliad dynol, weithiau o amgylch Tywysydd goruchel pethau; etto ‘cyfiawnder a barn oedd trigfa’ barhaus ‘ei orseddfaingc,’† rheol ddiwyrni ei holl weinyddiadau.”—Fel hyn (os gallaf egluro y gwirioneddau uchaf trwy ddamweiniau ts) pan edrychom ar deisban, ar ei wrthwyneb, mae yn amddifad o un ddychymmyg odidog; heb ddim llinellau cywreinion o gelfyddyd; nid yw ddim ond crug cymmysglyd o edafedd anghydlynol. Nid cynt yr edrychir ar yr wyneb iawn, nag mae'r gwrthuni lled-dybiedig yn diflanu, a'r trefniad manylaf yn cymmeryd lle: hyfrydir

- ————— Mae'r moesol fyd,
Er edrych yn derfysglyd, mewn uwch trefn,
Yn symmud rhagddo; llaw Doethineb nef
F'w gymhell a'i gymhwyso sydd, a dwyn
Daioni cyffredinol o bob peth.

Thom. Gauaf, llin. 586.

† Psal. xcvi. 2.

ni gan fwriadau yr archwaeth gynnilaf, a lluniau o'r ffurf brydfertbaf. Mae'r cwbl wedi ei ddullio yn gymmesuredd; mae'r cwbl wedi ei wisgo mewn tegwch.

Mae daioni Duw yn cael ei ddangos yn odidog yn yr wybrenau.—Pe gallem gymmeryd golwg ddeall-dwrus o bob dim a wnaeth y Pen-celfyddwr dwyfol, trwy holl feithder pethau sylweddol; swynid ein meddyliau gan eu rhagoroldeb, a gwrthseiniai ein tafodau yr arwyrain fawr, “Da, da iawn ydynt.”* Y prydferthwch † mwyaf yn ddynt eu hunain; wedi eu trefnu gan ddoethineb ddiwyrni, a'u gweithredu gan fedrusrwydd digymhar. O'r gwasanaeth mwyaf yn eu swyddau, yn gweddu yn berffaith i'r lleoedd a lanwant, ac yn ateb yn gyflawn i'r bwriadau y gwnaethpwyd hwynt erddynt.—Mae holl ranau y grëedigaeth ddi-enaidd yn cyhoeddi, trwy eu rhagoroldeb cynhenid a pherthynasol, haelioni holl-ymdaenol eu Gwneuthurwr.

Pa faint rhyfeddach yw'r amlygiadau o'r hynawsder dwyfol yn y bydoedd o fywyd!—Gan na all mater marw dderbyn hyfrydwch, am hyny cododd y Creawdwr grasol restrï aneirif o fodoliaeth syniadol: y cyfryw ag a gymhwyswyd i brofi ei haelioni, a mwynhau bob un ddedwyddwch cymhwys i'w sefyllfa

* Gen. i. 31.

† Hwn, *καλοκαγαθία* y bydysawd, a'i holl ranau, a fawrygid yn fawr ac uniawn gan yr hen ymchwilwyr i natur. Ac yr oedd, yn wir, yn olygfa ardderchog, wedi ei lledu ger bron doethion y byd paganaidd, lle gallasant fyfyrïo ar ddaioni a gogoniant y Bod Goruchaf.—Godidog y dywedwyd gan athronydd Cenhedlig ar yr achlysur hwn; *Εἰς ἔρῳτα μεταβληθῆναι τὸν Θεὸν μέλλοντα διμυρῆγειν.* ‘I Dduw, pan gymmerth efe waith y grëedigaeth mewn llaw, drawsgyfnwid ei hun yn gariad.’—Ond nid rhaid iddo gyfnwid ei hun i'r egwyddor hawddgar hōno; canys “Duw cariad yw,” fel y dywedwyd yn dra rhagorach gan un, yr hwn a gyfrifasid yn farbariad gan yr athronydd hwnw. 1 Ioan iv. 8.

neillduol. Gyda'r olwg hon, efe a lanwodd ororau i natur â threfn a rhes o fodau teimladwy. Y dyfroedd a heigiant gan liaws o breswylwyr cènog: mae'r sychdir yn heidiau o greaduriaid o bob trefn: trigfanau y ffurfafen a feddiennir gan dorfeydd adeiniog: nid oes cymmaint a deilen werdd, medd athronwyr, ar nad yw yn llettya ac yn cyfaddasu ei thrigolion bach milyn-aidd.*—Ac i ba herwydd y mae yr amrywiaeth hwn, yr afradlonedd hwn o greaduriaid byw, yn hedeg yn yr awyr, yn troedio'r llawr, ac yn ymlithro trwy ffyrdd di-ol y dyfnfor? I'r dyben gogoneddus hwn—fel y gallo'r Llywodraethwr tragywyddol gyfranau ei orhe-laethlawn ddaioni; fel yr amgylchid ei fwrdd â myrdd-ynau o fyrddiynau o westwyr; fel y llanwai efe, ar bob awr, ar bob munud, eu geneuau hwynt ag ymborth, a'u calonau â llawenydd.

Ond y fath chwareu-fwrdd bychan yw tair neu bedair elfen i weithrediadau haelioni y Jehofa! Mae

* Mae prydydd clodfawr iawn, mewn dosparth godidog ar y pwngc hwn, yn hysbysu i'w ddarlleneydd, fod holl natur yn heigio gan fywyd. Mewn ogofau tan-ddaeacol, mae'r ddaear yn cwhwfan gan fudiad bywydol. Hyd yn oed y maen callestrog, yn nghilfachau mwyaf mewnol ei gastell anghlwyfadwy, a gynnwys dorfeydd o drigolion byw. Mwydion y ffirwyth addfed, a holl gynnyrch y berllan, a borthant y llwythau anweledig. Pob hylifedd, pa un bynag ai o flas sur neu felus, sydd yn llawn o amryw ffurfiau o fywyd syniadol.—Ac nid yw'r ffwrdd bur, na'r awyr dryloyw, heb eu trefedigion o bobl anweledig.—Yn yr hwn gyfansoddiad o bethau, mae genym amlygiad rhyfedd, nid yn unig o'r Daioni dwyfol i'r bodau bychain hyny, yn ei waith yn eu gallnogi i fwynhau boddidiadau anifeilaidd; ond o'i ofal tyner am ddynolryw, yn eu gwneuthur yn annirnadwy i'n synhwyrâu ni.

Trefn hynaws nef a roes y rhai'n ynghudd
Rhag llygad dyn: can's pe ymdorra! byd
Mewn byd ynghau i'w olwg; troi oddiwrth
Ddanteithion bywiol a'r neithdaraidd win,
Gan eu ffeiddio; ac, yn nyfnder nos,
Pan huna dwfn ddystawrwydd dros y byd,
Syfrdanid ef gan swn.— Thom. Yr Haf.

ei radlonrwydd mawr yn diystyru y fath derfynau culion. Os gofynwch, Pa ham y creodd efe yr holl fydoedd, ac y llanwodd efe hwynt â lliosogrwydd o fodau anadnabyddus, yn codi y naill uwchlaw'r llall, mewn graddoliaeth ddiderfyn o ddoniau godidoccach a galluoedd ardderchoccach byth?—Yr ateb yw, Er amlygu ei ogoniant ei hun, ac yn enwedig er cyfranu ei haelder diyspydd.*—Ni allasai y Creawdwr mawr addaw un budd iddo ei hun: ni ellir ychwanegu dim at ei ddedwyddwch. “Cyn gwneuthur y mynyddoedd, na llunio'r ddaear a'r byd,” yr oedd efe yn oruchel wynfydedig ynddo ei hunan anymddibynol a holl-ddigonol. Ei ddyben mawr, gan hyny, wrth godi cynifer o adeiladau mawryddig, a'u poblogi â chynifer o dylwythau o drigolion, oedd tywallt iddynt ei hynawsder gorhelaethlawn, a chyfranu dedwyddwch yn ei holl ffurfiau. Myrdd myrdd o fydoedd, wedi eu poblogi gan fyrdd myrdd o raddau o greaduriaid syniadol â deallol, ydynt megis cynifer o erddi mawrion; y rhai, â ffrydiau o lawenydd cyfranogol, a ddyfrheir gan y ffynnon orlifeiriol hon yn wastad.

Diderfyn, ac (yr hyn sydd yn codi ein meddylddrych am yr egwyddor ddwyfol hon i'r radd uchaf o berffeithrwydd) anhunanol † yw ei haelioni! Mor

* Ysgrifenydd sanctaidd, gan ystyried y testyn hyfryd iwn, a chyfyngu ei sylw o fewn cyffiniau culion ei wlad ei hun, a lefa allan, rhwng syndod a diolchgarwch; “Pa faint yw ei ddaioni ef, a pha faint er degwch!”—Pwy all lai na cholli ei hun mewn rhyfeddod, a pherlewyrthu gan hyfrydwch, pan ledo efe ei olwg at y cyfraniadau anfeidrol helaethach o'r haelioni dwyfol; y rhai, megis ffrydiau iachus ac adfywiol, a redant trwy yr holl fydoedd, ac a barant, nid yn unig i “lynoedd bychain” un deyrnas, ond i annherfynoldeb creedigaeth, ‘chwerthin a chanu?’ Zec. ix. 17.

† Yn yr ystyr hyn, “nid oes neb da ond un, sef Duw:” neb yn gyffredinol a hanfodol dda: neb, ag y mae ei ddaioni yn ymëangu,

annhŷtaethol hawddgar yw y bendigedig Dduw, pan ystyrier ef yn y goleu prydferth hyn! Ai dichonadwy amgyffred unrhyw ragoroldeb mor addoladwy a swyn-gar a haelder anfeidrol, yn cael ei dywys gan ddoeth-ineb ddiwyrni, ac yn gosod allan hollalluog nerth, gyda bwriad i wneuthur bydysawd cyfan yn dded-wydd!—O fy enaid! y fath ddengarwch anwrth-wynebol sydd yma! y fath wrthddrych teilyngaf i'r serch gwresoccaf! A gaiff pob tegan gloyw yn awr fod yn gydgystedlydd â'r Bod tra rhagorol hael hwn, a'i ysbeilio ef o'm calon? Na chaiff. Dysged ei fraich holl-grëedigol di i ymddiried yn llawnder ei ddi-gonedd:—tuedded ei lygad holl-oruchwyliaidwrus di i ymdawelu yn ngoruchwyliaethau ei ragluniaeth:—a dened ei haelioni, a ganiatteir mor rhydd, a gyfrenir mor helaeth, di i'w garu ef, & holl wresogrwydd calon fawrhaus a diolchgar; dened di i'w wasanaethu ef, nid gydag ofn dilawenydd, neu arswyd caeth, ond gyda pharodrwydd diffuant, ac ymfoddlonrwydd hyfrydlawn.

Os yw daioni Duw i'w weled mor rhyfedd yn ngweithredoedd natur, a bendithion Rhagluniaeth, gyda pha ragoriaeth ardderchog mae efe hyd yn oed yn buddugol ymorfoleddu yn nirgelwch prynedigaeth! Prynedigaeth* yw y drych dysclaeriaf i fyfyrion ar

yn amrywiaeth anfeidrol o fendithion; i bob gwrthddrych galluog i'w fwynhau; neu, yr hwn sydd bob amser yn cyfranu ei radau, oddiar yr egwyddor *unig* o radlonedd rhydd anhunanol.

* Yn y rhan hon, ac ereill o'r Ystyriaethau, fe sylwa y darllynydd fod priodoliaethau y Duwdod yn cael eu disgrifio fel yn llewyrchu gyda dysclaerdeby hynottach yn rhyfeddodau prynedigaeth, nag yn ngweithredoedd creedigaeth. Os ymddengys y cyfryw nodiadau fel heb rag-faenor, neu yn sefyll mewn angen am ymddiffyniad; goddefer i mi ehwanegu syniadau beirniad mawr, cyfartal hyddysg yn y ddwy wybod-

briodoliaethau bywioccaf y Duwdod ynddo. Nid yw yr holl roddion ereill ond megis hadlingau o'r drysorfa ddwyfol; ond mae prynedigaeth yn agor, bum agos a dywedyd yn yspyddu, holl oludoedd tiriondeb a gras. Yn hyn, "mae Duw yn canmawl ei gariad:"* nid yn unig ei amlygu, ond ei osod allan, fel pe byddai, gyda phob addurn dysclaer a gwych: yn ei amlygu yn y fath fodd aruthr, fel y mae tu hwnt i gyffelybiaeth, tu hwnt i feddwl, "uwchlaw pob bendith a moliant."— Onid dy Fab oedd efe, dragywyddol Dduw, dy unig Fab; Mab dy fynwes trwy oesoedd tragyfyth, a phrif wrthddrych dy hyfrydwch ymserchiadol? Onid oedd dy gariad at dy Fab addoladwy yn anghymbarol fwy nâ serch tirionaf unrhyw, neu serch unedig holl, rieni marwol? Onid oedd y gwynfydedig Iesu yn ardderchocchach mewn rhagoroldeb nâ'r holl angylion, yn uwch mewn urddas nâ'r holl nefoedd? Etto tydi a'i traddodaist ef, dros farwolion truain, dros bechaduriaid gwaelion!—A allesit ti edrych arno yn disgyn o'i orsedd frenhinol, ac yn cymmeryd ei drigfa yn y beudy salw? Edrych arno yn gadael gwriogaeth seraphiaid, ac yn sefyll yn ngwyneb anmharch enllibus dynionach trahaus? Ei weled yn cael ei gyhuddo ger bron y frawdle, a'i gollfarnu i angeu; yn cael ei gyfrif gyda throseddwyr, a'i hoelio wrth y crogpren;

aeth.—"Mewn areithiwr perffaith," medd efe, "gofynai Tully ychydig fedrusrwydd yn natur y cyrph nefol; o blegid gwna hyny y meddwl yn eangach a llai cyfyngedig; a phan ddisgyno efe, i ymdrin ag amgylchiadau dynol, efe a feddylia ac a ysgrifena mewn dull mwy dyrchafedig a mawryddig. Am yr un rheswm, canmolasai y pen-campwr hwnw fyfyrdod o'r dirgeledigaethau mawrion a gogoneddus, a amlygir i ni yn y datguddiad dwyfol; 'i ba rai mae rhanau ardderchoccaf cyfundrefn y byd gymmaint ls, ag yw y creadur yn llai rhagorol nâ'r Creawdwr.'"—*Spect. Vol. viii. No. 533.*

* Rhuf. v. 8.

wedi ei drochi yn ei waed diniwed ei hun, ac yn tywallt allan ei ersaid yn loesion tristwch.—A allasai'r Tad, y Tad ei hun, gyda dyngarwch anadnabyddus, ddywedyd, 'Felly, felly fydd! Mae fy nhosturi at ddyn gwrthryfelgar yn dadleu, ac yn llwyddo. Deffro, gan hyny, O gleddyf!* wedi dy finio gan ddwyfol lid. Deffro, a gwëinier di yn y fynwes ddifrycheulyd accw, trywana'r galon hoff anwyl accw. Boddlaw'n wyf i'm Mab ddyoddef holl chwerwder angeu, yn hytrach nag i farwolion pechadurus gael eu colli byth.'—Cariad anamgyffredadwy! bydded o hyn allan yn ddewisdestyn fy myfyrdodau; yn hyfryttach i'm meddwl ystyriol nâ chlod i'r glust uchelfrydig! Bydded yn destyn hoff fy ymddiddan; yn felusach i'm tafod nâ diferiad diliau mêl i'm harchwaeth! Bydded yn gysur detholedig i mi trwy holl gyfnewidiadau bywyd; ac yn feddyglyn adfywiol, yn nghyfyngder dattodiad ei hun!

Prophwyd, gan fyfyrto o bell, ar yr anghraifft ddi-gyffelyb hyn o gariad Hollalluog, a lyngcir i fynu mewn perlewyl o addoliad a dyhewyd. Ar goll am gydnabyddiaethau cymhwys, mae efe yn galw ar yr holl fydysawd i gynnorthwyo ei fynwes ymdrechgar, a chyflawni ei ddiffyg ef o fawl. "Peraidd genwch, chwi nefoedd crymedig; gorfoledda, a llama o lawenydd, ti ddaear lwythog; chwi fynyddoedd, torrwrch eich hir ddystawrwydd, a bloeddiwch ganu yn y bonllefau mwyaf llafar; canys yr Arglwydd, trwy y rhodd werthfawr hon, a'r iachawdwriaeth fawr hon, a gysurodd ei bobl."†—Yr hanesydd sanctaidd a ddywed,

* Zec. xiii. 7.

† Esa. xlix. 13.—Ni lynais wrth ein cyfieithad cyffredin, eithr ymdrechais gadw, ychydig yn ffyddlonach, y brwdfrydedd ardderchog,

fod, ar yr amlygiad cyntaf o'r olygfa orfoleddus hon, gyda'r angel, yr hwn a ddyg y newyddion da, lliaws o lu nefol, yn moliannu Duw, ac yn gwneuthur. i guedd yr wybrenau adsain gan eu haleluia. Gyda gwawr Haul Cyfiawnder, pan oedd Efe yn dechreu codi, â meddyginiaeth yn ei esgyll, cydganodd ser y bore, a llawenychodd holl feibion Duw.—Ac a gaiff dyn, i'r hwn yn benaf y perthyn yr oruchwyliaeth rasol hon; a gaiff dyn, yr hwn yw canol-bwngc y pelydr gorfoleddus hyn; a gaiff ef fod heb un galon i addoli, un anthem i glodfori,

Y cariad maith, a'r gras difesur hwn? *Milt.*

Mor bur yw cyflwr yr wybren, ac mor glaer ei gwynebpryd! Claerach nâ'r firwd der, purach nâ'r grisial tryloyw, a mwy manwl dêg nâ'r drych cabol. Y mwd mawryddig accw, yr hwn a frithwyd ag aur, ac a ledwyd i feithder o lawer o fyrddiynau o filldir-oedd, nid yw wedi ei aflunio ag un meth: y gortho llasar fry, yr hwn a amaerwyd â ser, a digon êang i ffurfio llen i fydoedd aneirif, sydd heb na brychenyn na chrychni.—Etto ni all hwn, i'e hwn, weini i ni ond darluniad gwan iawn o'r purdeb dwyfol. Mae Duw yn Dduw o ardderchogrwydd digymhar a thra rhagorol: mae ei ffyrdd yn uniondeb ei hun: ei gyng-

a'r grym digymhar, a harddant y iaith wreiddiol —Mae cariad Duw, wedi ei amlygu trwy lachawdwr dwyfol trangcedig, y fath fendith anamgyffredadwy gyfoethog, fel y mae yn gwneuthur pob cydnabydd-iaethau yn farwaidd, a phob clod yn llesg. Etto, yr wyf yn meddwl fod y clodforedd mwyafr prydyddol a phwysig o'r daioni annhraethol hwnw, yn gynnwysedig yn monllef orfoleddus y prophwyd: yr hon sydd yn arwyddo, gyda rhagorol fawrhydi syniad, y buasai holl gylch y grëedigaeth ddifywyd, pe gallasai fod yn deimladwy o'r fendith, ac yn alluog i dderbyn hyfrydwch, yn amlygu ei ddiolchgarwch yn yr holl amlygiadau hyn o'r llawenydd helaethaf a bywioccaf.

horion a'i eiriau ydynt yn wir sancteiddrwydd doethineb a gwirionedd. Ei gyfreithiau, y rhai a roddodd efe i natur gyffredinol, a drefnwyd yn fanwl, tu hwnt i un dichonolrwydd i'w gwellhau. Y gorchymynion, y rhai a osododd efe i'r hil ddynol, ydynt yn gydgrynhoad cyflawn o bob peth anrhydeddus ynddo ei hun, a pherffeithiadol i'r meddwl dynol.—Ni bu esgeulusdod, yn nhrefniad rhes o ddygwyddiadau gogyfer a'r hyn oll a ddaw : dim camweinyddiad, wrth drin amgylchiadau pob oes er dechreuad amser, a phob cenedl dan wyneb yr holl nefoedd.—Maddener yr ymadroddion difuriaidd hyn.—Mae perffeithrwydd naccaol ymhell, ymhell islaw dy urddas, “ O dydi y Goruchaf.”* Yn yr holl anghreiffiau hyn; yn dy holl weithredoedd;

* “ O dydi y Goruchaf!” (*Most Highest! Y mwyaf Uchaf!*)—Mae yr ymadrodd hwn yn dygwydd fwy nag unwaith yn y Salmau a arferir gan yr Eglwys Sefydledig. Y mae, yr wyf yn meddwl, yn un o'r pethau godidog hyny, y rhai, o herwydd ein cynnefndra â hwynt, yn fynych a ddiangant yn ddisylw. Y mae yn uchelradd, wedi ei ffurfio ar uchelradd; ac er nad yw yn berffaith gyson â rheolau grammadegol, mae yn dra rhagorol uwchlaw iddynt oll. Mae'r iaith yn ymddangos yn ystyriol o'i phalldod, pan mae'r Jehofa anamgyffredadwy yn cael ei gyfarch, neu ei glodfori. Yn orthrymedig, fel pe byddai, gan ogoniant y gwrthddrych, mae hi yn ymgnio am ddull mwy arwyddocaol o eiriad, nag all ffurfiau arferol ymadrodd ei weini.—Mae hyn, os wyf yn iawn-farnu, yn un o'r neillduolion dedwydd a hyfion hyny o eiddo athrylith feistrolaidd, y rhai a ddesgrifia Mr. Pope; ac, wrth ei ddesgrifio, a eglurha efe:—

Gall gwych arebwyr weithiau 'n *arddarchog* fod ar fai,
A *chodi* i droseddau 'd all beirniaid mo'u gwellhau;
A thros arferol ffiniau troi gyda thêg aanhrefn,
A chipio ambell harddwch tu hwnt i gyrhaedd trefn.

Essay on Criticism.

Mae—*ελαχιωτερος παντων των αγων*—St. Paul yn gyfran hardd o'r un natur; yr hyn, yn briodol iawn, a drowyd, “ llai ná'r lleiaf o'r holl saint.”—Mae ei *πολλω μαλλον κρεισσον* yn anghraifft arall o'r un fath: mae “ llawer iawn gwell” (*far better*) yn wan iawn mewn cymhariaeth i gryfder y iaith wreiddiol: ac yr wyf yn ammau yn fawr, a yw yn ddichonadwy cyfieithu y gyfran gyda chrynodeb cyfartal, ac ysbryd cyfartal. Gwel Eph. iii. 8. Phil. i. 23.

yn dy holl briodoliaethau; yr ydwyt nid yn unig yn sanctaidd, ond “yn ogoneddus mewn sancteidd-rwydd.”

Mor anamgyffredadwy yw Arglwydd Dduw y lluoedd, fel mae Efe yn gweled halogrwydd hyd yn oed yn ngloywder y ffurfafen! Mae saphir bywiog y nefoedd, ger bron ei Fawrhydi ef, yn colli ei ddysclaerdeb: “ie, y ser (er y rhan buraf a dysclaeriaf o'r nefoedd) nid ydynt bur yn ei olwg ef. Pa faint llai dyn, yr hwn,” yn ei sefyllfa syrthiedig a dirywiedig, nid “yw” ond megis “pryf,” yr hwn sydd yn ymdrabaeddu yn y gelain lygredig; “a mab dyn, yr hwn,” ar gyfrif ei fynych bechodau gweithredol, yn rhy uniawn a gymharir i “abwydyn,” yn ymdroi mewn drewiant a phydredd?—Onid oes achos digonol, ynte, i'r mwyafr diargyhoedd a godidog o ddynolryw, i ymwadu â phob honiadau trahaus; i osod pob agwedd ryfygus o'r

* Job xxv. 5, 6. Yr ydwyf yn ymostwng i farn y dysgedigion, ai nid hyn yw iawn feddwl y testyn.—Fe allai nad all fod yn dderbyniol i'r beirniad gwrthneugar gynnif; neu i'r rhai hyn a freuddwydiant am (ni wn i pa) urddas yn ein natur syrthiedig: ond y mae yn ymddangos, uwchlaw pob deongliad arall, yn gyfattedbol i'r cyd-destynau; ac ymhell, pell o fod yn niweidiol i'r hil wrthgiledig, yr hon sydd oll “yn ffaidd,” ac “megis peth aflan.”—Ar y golygiad hwn, mae gwrthgyferbyniad, nid ymddangosiadol, ond eglur a gwirioneddol, rhwng purdeb Duw a halogrwydd dyn: purdeb y Duw goruchaf, yr hwn sy'n rhagori ar lewyrch y lleuad, ac yn cuddio dysclaerdeb y ser; a halogrwydd dyn dirywiedig, yr hwn, heb Iachawdwr, a'i gwnai yn atgasach i'r llygad oll-ganfyddol, nâ'r pryfed gwaelaf i'n golwg ni.—Heb roddi yr ystyr hyn i'r gyfran, ni allaf fi weled grym y gyferbyniath, nac, yn wir, priodoldeb y dyb. Abwydon, yn gyffredin, a roddant i ni feddylddrych gwaelder a gwendid; nid o halogrwydd ac anmhuredd; oddi eithr eu bod yn drychfil a fagwyd mewn pydredd, a chael eu hystyried yn y fath amgylchiadau gwrthwyneblyd.—Mae y ddau air gwreiddiol, *רָמָה*, *rimmah*, a *תּוֹלְעָה*, *toleeah*, yn ddilys yn cael eu harfer yn yr ystyr hyn, gan Moses ac Esaia: gan y blaenaf, am y pryfed a ddifaent y manna drewedig; gan yr olaf, am yr ymlusgiaid a heigiant yn y corph a wel lygredigaeth. *Esc.* xvi. 20. *Esa.* xiv. 11.

neilldu; a chymmeryd dim ond cythrudd a chywilydd iddynt eu hunain? Prophwyd sanctaidd, a thywysog sanctaidd, a deimlasant y fath argraffiadau gostyng-eiddlawn, oddiar gip-olwg ar y purdeb digrëedig. “Yr wyf yn ffeiddio fy hun mewn llwch a lludw,”* oedd cyhoeddiad y naill: “Gwr halogedig o wefusau ydwyf fi,”† oedd cyfaddefiad y llall.—Oni ddylai hyn ein dysgu ni oll, i addoli y trugareddau dwyfol, am y ffynnon werthfawr sancteiddhaol hõno,‡ yr hon a rag-fynegwyd er seiliad y byd; ond a agorwyd yr amser ofnadwy hwnw, pan drylliodd ffrewyll cylymog y cnawd; pan darniodd y drain pigog arleisiau; pan dorrodd hoelion llymion ddorau newydd i'r ffrwd borphor; pan gwblhaodd rhwygiad y waywffon y gwaith arswydus, ac y “ffrydiodd,” o'r galon glwyfedig, “dwfr a gwaed.”

Yn enwedig, gan na welodd Duw ei hun un bai yn ei anwyl Fab. “Mae efe yn edrych ar y lleuad, ac ni lewyrcha hi:” etto ei lygad craff ac eiddigus ni chanfu ddim o'i le, ddim yn ddiffyg, yn ein Gwardwr gogoneddus. Dim o'i le! Efe a ddyg y dystiolaeth ardderchog hon am ei sanctaidd blentyn Iesu: ‘Yn-ddo Ef i'm boddlonwyd; yr wyf yn llwyr foddlawn; yr wyf yn ymlonyddu, gyda thawelwch cyflawn, a'r hyfrydwch uchaf, yn ei berson, ei orchwyl, a holl gyflawniad ei swydd.’—Fel y dylai'r meddwl hwn fywiogi ein gobaith; tra marweiddio y llall ein balchder! Oni ddylai ein calonau lamu ynom, a neidio o orfoledd, rhag y sicrwydd mynych a roddir i ni yn y

* Job xlii. 6.

† Esa. vi. 5.

‡ “Y dydd hwnw y bydd ffynnon wedi ei hagogor i dŷ Dafydd, ac i breswylwyr Jerusalem, i bechod ac aflendid, Zec. xiii. 1.

datguddiad, fod y fath berson dwyfol ac ardderchog yn Gyfryngwr i ni? Y fath reswm dilys sydd gan bob credadyn i fabwysiadu dywediad y forwyn wynfydedig! "Fy enaid a fawrha yr Arglwydd" am ei drugaredd ragorol; a'm "hysbryd a lawenycha," nid mewn cynhauafau cnydfawr, yn chwyfio dros y tir ffrwythlaw; * nid mewn lluoedd gorchfygedig, yn gadael trysorau penaf cenedl yn anrhaith i mi; * ond mewn bendith anfeidrol werthfawroccach a rhagorach, "yn Nuw fy Iachawdwr."—Fod i berson mor uchel a pherffaith deilyngu dyfod yn fachniydd i mi; i roddi ei hun yn bridwerth drosaf, yn y byd isod; a gweithredu fel fy eiriolwr, yn y presenoldeb brenhinol uchod: ie, gwneuthur fy adferiad, yn wobr ei ddyoddefaint; fy nedwyddwch didranc, yn anrhydedd ei deyrnas gyfryngol!

Pan mae lliaws aneirif † o gyrph, llawer o honynb yn fwy ná deng myrdd o filldiroedd mewn tryfesur, ‡ i gyd yn cael eu gosod mewn mudiad:—pan mae'r cylchoedd ymha rai y cyflawnant eu chwyldroion blynyddol, yn estynedig i lawer can' buna:—pan mae gan bob un ei rod wahanol, i gyflawni ei sidell-daith ddirfawr: pan na w'yr un o honynt pa beth yw cael ei

* Mae yr ysgrifenydd ysbrydoledig, oddiar y ddwy ystyriaeth hyn o lawenydd gwahan-nodol, yn gosod allan yr hyfrydwch anghymharol fwy, sydd yn codi oddiar roddiad Iachawdwr, a bendith pryndegaeth. Esa. ix. adn. 3. cymharer ag adn. 6.

† Mae hyn yn cyfeirio, nid yn unig at y planedau sydd yn myned a dychwelyd o gylch ein haul ni, ond hefyd at y planedau ereill, a dybir fod yn gweinyddu ar yr amryw ser sefydlog.

‡ Cyfrifir tryfesur Iau yn 130,650 milldir, tra bwrir fod ei gylch yn cynnwys 895,134,000: yr hwn gyfrifiad, yn ol gosodedigaethau seryddiaeth, a deddfau cyfartalwch, a ellir, fel y cymmerir yn ganiattaol yn yr Ystyriaethau, ei gymhwyso at blanedau ereill, yn troi o amgylch haulau ereill.

gyfyngu; eithr pob un yn teithio'n rhydd, yn ei hynt antherfynedig:—pan mae pob un wedi ei sefydlu yn y fath bellder oddiwrth y llall, fel nad ydynt yn ymddangos i drigolion eu gilydd ond megis cynifer o bigynau o oleuni: mor aruthr raid fod yr äangder, sydd yn gweini lle i'r holl belau cedyrn hyny, a'u gweithrediadau dirfawr lydain! I ba bellderau anfeidrol yr estynodd yr Adeiladydd Hollalluog ei liny, pan nododd efe y wastad-len syn allan!—Yr wyf yn synu rhag y fath feithder anfesuro! mae fy meddyliau yn suddo yn llyngclyn äangder! Ond, gwybydded marwolion; byth na anghofied pechaduriaid; nad yw, yn ei holl helaethrwydd rhyfeddaf, ond prin, mewn cymbariaeth i haelioni a thrugaredd ei Wneuthurwr.

Mae ei haelioni ef yn hollol ddiderfyn* a diddiwedd. Ni all y rhoddion rhadlonaf ddiyspyddu, neu hyd yn oed leihau, ei haelder. O! chwychwi, holl lwythau dynion; neu, yn hytrach, holl ddosparthiadau creaduriaid rhesymol; nid ydych yn gyfyngedig yn haelioni eich byth-wynfydedig Greawdwr; na chyfynger chwi yn eich dysgwyliadau eich hunain. "Agorwch eich safnau yn llydain, ac efe a'u lleinw" & thraffingcau helaeth a pharhaus o gwpan gorfoledd. Mae eich Duw, ar yr hwn yr ymddibynwch, yn fwy na galluog; yn fwy nag ewyllysgar, i "ddiwallu eich

* Wrth haelioni, yr wyf yn golygu nid yr arferiad gweithredol, neu effeithiau teimladwy, y rhagoroldeb hwn yn y Duwdod. Mae y rhai hyn, a rhaid iddynt bob amser fod, o herwydd perffeithrwydd dirfawr y briodoliaeth, a bychander anocheladwy y derbynnydd, yn derfynedig. Ond mi a fynwn gael fy neall, fel yn llefaru am y Gallu Dwyfol, a'r Ewyllys Ddwyfol, i gyfranu y Rhadlonedd Ddwyfol. Ni all fod un terfyn gwirioneddol na dychymmygol i'r rhai hyn. Y rhai hyn, ar ol äfradlonedd o fendithion, wedi eu cyfranu i fydoedd aneirif, a'u parhau trwy oesoedd aneirif, ydynt yn alluog byth i gyfranu rhagor; anfeidrol ragor, nag all y grëedigaeth ei hun dderbyn.

holl angen, yn ol goludoedd ei ogoniant.”—Pan yw yr Arglwydd Jehofa y rhoddwr, a'i ras* y rhodd; bydded eich dymuniadau yn ddidderfyn, a'ch awydd yn anniwalladwy. Nid yw yr oll a all bodau creëdig ei drachwantu, ond dogn bychan iawn o'r dedwyddwch anadnabyddus mae'r Cymmwynaswr tragywyddol yn barod i'w gyfranu. Meddylwch fod pob tymber garuaidd, sydd yn cynhesu calonau yr hil ddynol, wedi eu hychwanegu at y serchiadau äangach, a fflamiant mewn mynwesau nefol; pa beth fyddent oll, hyd yn oed yn eu gweithrediad uchaf, mewn cymhariaeth i diriondeb y natur Ddwyfol?—Bendithia fi, ynte, tydi ffynnon dragywyddol cariad; bendithia bawb a anrhydeddant dy enw sanctaidd; yn ol dy ddaioni haelionusaf; rhagorfraint fawr yr hwn yw diystyru pob mesur. O! bendithia ni, mewn cyfartalwch i'r gras hwnw; goludoedd yr hwn (yn annhraethadwy gan dafodau dynion ac angylion) a lefarwyd unwaith yn ngriddfanau, ac a ysgrifenyd yn nghlwyfau, dy Fab trangcedig!

Eang yn wir yw y nefoedd hyn! Pa le maent yn dechreu? Pa le maent yn diweddu? Pa beth yw eu hŷd a'u lled? A all angylion ateb fy holiad? A deithiodd angylion y cylchedd maith? A all angylion fesur ffiniau ysdod? Na allant; y mae'n ddiderfyn, mae'n adnabyddus, mae oll yn rhyfedd!—Mor hyfryd, ynte, yw myfyrio, fod trugaredd *Duw* yn “fwy ná'r

* 2 Cor. ix. 8. “Y mae *Duw* yn abl i beri i bob gras fod yn helaeth tuag attoch chwi; fel y byddoch chwi, ymhob peth, bob amser, a chenyh bob digonoldeb, yn helaeth i bob gweithred dda.”—Mor hardd a chynnwysfawr yw y disgrifiad hwn! Irlaw dim, ond y meithder hwnw o allu, a'r goludoedd hyn o haelioni, a glodforit mor hyawdl yaddo. Onid yw efe yn diyspyddu galluoedd iaith, wrth gyanyg rhoddi cynllun o rad *Duw*?

nefoedd," yn äangach nâ meithderau'r wybren. Fyfyrdod perlewygol! bydded i mi sefyll arnat unwaith etto.* Bydded i mi ystyried amlygiadau hyfrydlawn y briodoliaeth hawddgar hon; ac, wrth ryfeddu cofnodau daioni maddeuol, ychwanegu un at eu rhifedi.— Gyda pha liwiau hygar a chyffrous mae hyn wedi ei arddangos yn nammeg yr afradlawn! Pa beth allasai ddenu y gwr ieuangc anystyriol hwnw i adael tŷ ei dad?—Oni feithrinasiid ef yn dyner gan ei dad tirion, ac oni lwythasiid ef â bendithion ei law hynaws? Onid oedd attaliadau llywodraeth dadol yn iau esmwyth? neu, yn hytrach, yn ddiogelwch rhag dinystr? Ond er pob rhwymedigaeth hoff, mae efe yn gwrthgilio oddiwrth ei ddyledswydd, ac yn ynwthio i'r fath afreolaeth gywilyddus, ag oedd yn warth i'w deulu, a dinystr iddo ei hun.—Pan yrrodd angen, nid dewisiad, angen llym, ef i ddychwelyd yn ostyngedig; a yw ei dad a sarhawyd yn sefyll o hirbell, neu yn cau ei ddrysau? Yn llwyr groes. Mae efe yn ei ganfod, tra mae efe etto "ymhell;" a'r funud y mae efe yn gweled y gwr ieuangc gwastrafflyd, mae efe yn "tosturio wrtho." Mae ei ymysgaroedd yn cynhesu; maent yn "swnio fel telyn," wedi ei chyffwrdd â seiniau dwyfol dyner. Nid yw efe unwaith yn meddwl

* "Unwaith etto," a gyfeiria at tudal. 91 o'r Adfyfyriadau ar Ardd Flodau.—Y tudalenau canlynol, hyd 364, a arddangosant olwg ddi-arffordd o'r Drugaredd Ddwyfol. Mi a feddyliais yn gymhwys hysbysu'r darlennydd o'r crwydriad hyn; er, yr wyf yn gobeithio, na raid i mi ymesgusodi am helaethu ar destyn anghymharol orfoleddus. Pwy all gwyno ar feithder, tra llefarwyf ddyddanwch i greaduriaid gorthrymedig, ac adferiad i'r dinystriol? Y drugaredd Ddwyfol yw unig ffynnon ein bendithion presenol a dyfodol. Mewn cydffurfiad â'r briodoliaeth dirion hon, mae gobaith dynol yn codi, a gwynfyd dynol yn llifo. Pwy, gan hyuy, all fino ar edrych ac ail-edrych, pan mae hŷd a lled gras maddeuol yw yr olygfa swyngar?

am ei ymadawiad anniolchgar, a'i drythyllwch gwaradwyddus. Mae tosturi tadol yn eu claddu mewn anghof, ac yn dileu ysgrif y cynhyrfiadau hirion.—Mor gryfion yw gweithrediadau serchogrwydd tadol, fel y mae efe yn awyddus i gofleidio yr adyn noeth amddifad. Mae'r mab yn cerdded yn araf; "efe a gododd ac a ddaeth:" mae'r tad yn gyflym? efe a neidiodd (er ei fod yn oedranus) ac "a redodd." Ac a oes cymmaint ag un gwg ar ei ael, neu un gair edliwgar ar ei dafod?—Yn lle ffieiddio'r creadur gwael, neu ddannod ei ormod-rhysedd atgas, mae efe yn "syrthio ar ei wddf ef," yn ei gofleidio yn ei freichiau, a'i wasgu at ei fynwes. Yn lle diarddel y gwastraffwr gloddestgar, neu ei wrthod am ei ymddygiad annyladwy, mae efe yn ei dderbyn a'i roesawu â "chusanau" hyfrydwch; mae efe yn llawenychu ar ei ddychweliad oddiwrth ei afradlondeb a'i ddrygioni, fel y llawenychodd efe gynt ar ddydd ei enedigaeth. Pan mae hwn, cyfaill putteiniaid, yn agor ei enau, "cyn llefaru o hono, mae ei dad yn clywed:" mae efe yn ei attal ynghanol ei ymadrodd a fwriadasai. Ni all gorlifiadau ei galon dosturiol oddef un oediad. Mae efe yn ymddangos yn anesmwyth ei hun, hyd oni wnelo efe yr edifeiriol gorthrymedig yn llawen, â sicrwydd o'i dderbyniad, a'r penaf o'i roddion. Tra nad yw y troseddwr, truan, cywilyddgar yn ceisio dim rhagor nâ pheidio cael ei ffieiddio; mae efe yn cael ei gymmodi yn drwyadl, a'i anrhydeddu gerbron yr holl deulu: tra nad yw efe yn gofyn un hynawsedd, namyn yn unig cael ei drin fel y "gwaelaf o'r gweision;" mae efe yn cael ei ddilladu yn y "wisg oreu;" ei wledda â'r "llo pasgedig:" a'i

fawrhau fel yr anwylaf o'r plant.—A fu erioed ddys-claeriach a mwy ynnillgar darlun o'r drugaredd dyneraf, yn cael ei theilyngu yn barottach, a hyny i'r creadur annheilyngaf? Etto fel hyn, fy enaid, ac fel hyn, fy nghyd-bechadur, i'th dderbyn Arglwydd Dduw tosturi tragywyddol; os yn deimladwy o'th drueni, ac yn sychedig am iachawdwriaeth, y troi di atto ef trwy Iesu Grist.

“Lle yr amlhaodd pechod,” medd cyhoeddiad o lys y nef, “y rhagor amlhaodd gras.”—Yr oedd Manasseh yn anghenfil mewn barbariaeth, canys efe a barodd i'w blant ei hun fyned trwy'r tân, ac a lanwodd Jerusalem â gwaed gwirion. Yr oedd Manasseh yn berffaith mewn drygioni; canys efe nid yn unig a liosogodd, i radd bell iawn, ei annuwiolderau cyssegrledradol; eithr efe a lygrodd egwyddorion, ac a wyrdrôdd foesau, ei ddeiliaid, “gan beri iddynt wneuthur yn waeth” nag eilun-addoliaeth ffeiddiaf y cenedloedd.* Etto, trwy y gras gorhelaethlawn hwn, efe a ddarostyngwyd, efe a ddiwygiwyd, ac a ddaeth yn blentyn cariad maddeuol, yn etifedd gogoniant anfarwol.—Wele yr erlidiwr chwerw a gwaedlyd hwnw, Saul; pan, yn chwythu bygythion,† ac yn

* Gwel 2 Cron. xxiii.

† Act. ix. 1. *Σαυλος ετι εμπνεων απειλης και φωνη*, “Saul, etto yn chwythu bygythiau a chelanedd.” Y fath ddesgrifiad sydd yma o feddwl, gwallgof gan gynddaredd, ac wedi ymroddi i eithafoedd y barbariaeth creulonaf! Prin y gwn pa un ai tymher waedlyd yr erlidiwr sydd yn fy nghyffroi, ai desgrifiad bywiog yr efengylwr sydd yn fy hyfydu, fwyaf. Mae'n ymddangos fod y rhagferf *ετι* yn cyfeirio at pen. viii. adn. 3. ac, yn y cyssylltiad hwn, mae grym neillduol ynddi. Nid oedd y difrod a wnaethai, a'r teuluoedd diniwed a ddi-fethasai, yn ddigon i dawelu ei ysbryd ymddialgar: nid oeddent ond blas, yr hwn, yn lle digoni yr huad gwaedlyd, a'i gwnaethant i ddilyn eu hol yn agosach, a hiraethu yn fwy awyddus am ddinystr. Mor

Hawnfrydig ar gelanedd, y llarpiodd efe ŵyn, ac y gosododd ddysgyblion yr Iesu i farwolaeth. Pwy, ar egwyddorion barn ddynol, na chyhoeddasai ef yn llestr digofaint, wedi ei ragddarparu i golledigaeth anocheladwy? nagê, na fuasai yn barod i benderfynu, os oes cadwyni trymach, a chelloedd dyfnach yn myd y gwae, ei bod yn sicr yn nghadw i'r fath elyn anheddychol i wir dduwioldeb? Etto (rhyfedder a mawryger trysorau diyspydd gras) mae'r Saul hwn yn cael ei dderbyn i gymdeithas ddaionus y prophwydi, ei gyfrif gyda llu ardderchog y merthyron, ac yn un o'r hynottaf yn ngogoneddus gôr yr apostolion.—Yr oedd y Corinthiaid yn ddiareb o ysgeler; rhai o honynt a ymdrabaeddent yn y fath bechodau ffiaidd, ac a ymreddfent yn y fath weithredoedd creulawn o anghyfiawnder, ag oedd yn warth i'r natur ddynol: etto, hyd yn oed y rhai hyn, meibion gorddwy, a chaethion cnawdolrwydd, “a olchwyd, a sancteiddiwyd, ac a gyfiawnhawyd:”* a olchwyd yn ngwerthfawr waed y Gwardwr trangcedig, a sancteiddiwyd trwy weithrediadau grymus ei wynfydedig Ysbryd, ac a gyfiawnhawyd trwy drugareddau anfeidrol dirion y grasol Dduw: y rhai hyn, y rhai unwaith oeddynt yn faich i'r ddaear, yn awr ydynt yn llawenydd y nef, a hyfrydwch angylion!

awchlwm ac anniwalladwy yw ei syched, fel y mae efe hyd yn oed yn chwythu bygythion a chelanedd. Mae ei eiriau yn waywffyn a pnicecellau; a'i dafod yn gledlyf llym. Mae mor naturiol iddo fygwth y Crist'nogion ag anadlu'r awyr.—Nagê, maent hwy yn gwaedu bot munud yn mwiadau ei galon ddigasog. Eisiau gallu yw'r unig achos, nad yw pob gair a lefara, pob ffôn a dŷn, yn taenu marwolaethau, a pheri i rai o'r dysgyblion dinewed syrthio.

* 1 Cor. vi. 9, 10, 11.

Y mae siampl arall yn yr ysgrythyr, pa un sydd yn uchel gyhoeddi y melusaf o'r enwau dwyfol: "Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i lid, ac aml o drugaredd a gwirionedd; yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod."* Siampl yw hon sydd yn rhagori ar y cwbl o'r blaen, yn rhagori ar bob dim a ellir ei ddychymmygu; yr hon pe anghofiwn i, gallai'r cerrig ei llefain yn fy nghlustiau. Yr wyf yn meddwl, achos y pechaduriaid hyny, y rhai a laddasant Dywysog Tangnefedd, ac Arglwydd Gogoniant.—Prin y gallasai y dynion hyn fod & chysgod o esgus, prin ag amgylchiad i leihau eu heuogrwydd. Yr oeddynt yn eithaf cydnabyddus â'i ymarweddiad dilynwiw; mynych glywsent ei athrawiaethau nefol; yr oeddynt braidd yn llygad-dystion beunyddiol o'i wyrthiau digymbar: yr oedd ganddynt, gan hyny, bob rheswm dichonadwy i'w anrhydeddu ef fel y Bod ardderchoccaf, a derbyn ei efengyl fel y fendith werthfawroccaf: etto, er yr holl annogaethau hyn i'w garu, i'e, uwchlaw eu bywydau eu hunain, maent yn gafaclu yn ei berson, yn drwgliwio ei enw, yn ei lusgo gerbron brawdle genhedlig, ac yn tynu collfarn angeu yn erbyn diniweidrwydd a sancteiddrwydd ei hun! Erioed ni thrafodwyd y caethwas gwaclaf mor ddirmygus, ni ddienyddiwyd y drwg-weithredwr ysgymmunaaf mor farbaraid. Yr olygfa echryslawn a gythruddodd yr haul; ac ni all un lai ná rhyfeddu i fellt dialedd attal eu lluchedeniad ysol. Crynodd y ddaear rhag y weithred erchyll; a phaham, paham na holltodd hi, ac agor ffordd i'r dihirwyr gwaedlyd i waelodion

* Ecsod. xxxiv. 6, 7.

uffern? A all y rhai hyn byth obeithio derbyn madd-euant gan y Barnwr cyfiawn? Oni thraddodir y rhai hyn i lid didosturi, a'r poenau llymaf?—O effeithiau gwyrthiol Dwyfol ras! O ddaioni buddugol Duw ein Hiachawdwr! Llauer, hyd yn oed o'r trueiniaid ysgeler hyn, ar ddisgyniad yr Ysbryd Glân, a argyhoeddwyd o'u cyflwr adwythig; a glwyfwyd â gofid edifeiriol; a ffoisant i noddfa'r groes; a gawsant eu maddeuant wedi ei sicrhau ag insel bedydd, a chan ddyfal-bara yn athrawiaeth yr apostolion, a wnaethpwyd yn gyfrannogion o deyrnas nefoedd; lle yr ymddysclaeriant yn awr fel cynifer cofadail dragwyddol o'r drugaredd hynottaf; ac y derbyniant wynfyd annhraethol oddiwrth y Gwaredwr hwnw, yr hwn "unwaith, â dwylaw anwir, a groeshoeliasant ac a laddasant hwy."

Iawn y gallasai'r prophwyd lefain allan, gyda syndod boddhaus, "Pa Dduw sydd fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i gamwedd!"* —Gwybydded pob cnawd yn ddiogel, llawenyched pob cnawd yn ddirfawr, fod gyda'r Arglwydd y "fath drugaredd," a chyda Christ y "fath iachawdwriaeth helaeth."—Ac O! am lef archangel! i daenu'r newyddion da trwy'r bydysawd! fel y gallo gwylltion yr Amerig, yn gystal a doethion Ewrob, ddysgu "rhag-orol oludoedd gras" yn Nghrist Iesu; trwy iawn anfeidrol ddigonol yr hwn y maddeuir yn rhad i ddynion, pob pechod, creulondeb, a chabledd.

Y fath adail fawryddig a gwych yw yr wybr! Pa le mae'r colofnau a gynnaliant y ceuedd rhwysgus? Pa gelfyddyd, fanylaf gywir, a fantola'r gwasgiad?

* Mica vii. 18.

Pa atgigion o gadernid anorfod a gynnaliant y pwys? Pa fodd y delir y cylch anfesuroi, yn ddisigl a diadfeiliad, tra mae cynifer cenhedlaeth o farwolion dyfal wedi suddo a diflanu, fel byrlymau ar y ffrwd? Os yw y ser o'r fath faintioli aruthr, pa fodd y sicheir hwynt oll yn eu sefyllfaoedd uchel? Trwy ba wyrth mewn peiriannyddiaeth y cedwir cynifer myrddiwn o belau trymion rhag syrthio am ein penau; eu cedwir rhag llethu'r byd yn ddrylliau, a'i drigolion i farwol-aeth? A grogwyd hwynt mewn cadwyni auraidd neu adamantaidd? A yw eu llwyth dirfawr yn gorphwys ar greigiau marmor, neu golofnau pres?—Na; maent ynghrog yn yr awyr hylif; etto gosodwyd hwynt yn fwy digryn, nâ phe rhoddasai y mynyddoedd tragwyddol eu coedydd yn echel, neu eu trumau yn sylfaeni. “Y mae'r” Pen-saer Hollalluog “yn taenu y gogledd,” a'i holl osgordd serenog, “ar y gwagle; mae efe yn crogi'r ddaear,” a'r holl fydoedd wybrenol, “ar ddiddym!”* etto mae eu seiliau mor gedyrn, fel na ellir eu “symmud un amser.”

Nid darluniad anghymbwys, i'r Cristion didwyll, o'i barhad hyd y diwedd;† y cyfryw ag sydd yn

* Job xxvi. 7.

† O barth parhad y gwir gredadyn mewn gras, yr wyf yn gwybod fod llawer o ddadleu ynghylch y pwngc hwn.—Y syniadau a ganlynant yw fy nghred sefydlog i. Nid yw mewn un modd yn briodol, mewn gwaith o'r natur hyn, i chwilio'r mater. Nid oes genyf le ychwaith i gymmaint a chrybwyll yr hyn a allesid ddwyn i brofi'r pwngc.—Sylwed y darlennydd fy mod ymhell o'i draddodi fel peth hanfodol i Grist'nog-rwydd, neu angenrheidiol i iachawdwriaeth. Mae myrddiynau o gred wahanol, yn ddiammau, yn uchel yn ffafr Duw; ac yn cynnyddu mewn parodrwydd am ei deyrnas nefol. Megis nad wyf yn beio ar neb am wrthod, ni anfoddlona neb wrthyf fi, gobeithio, am dderbyn yr athrawiaeth hon.—Mae bod o wahanol dybiau, o leiaf mewn rhai pethau bychain, yn ymddangos yn ganlyniad anocheladwy ein cyflwr presenol; lle mae anwybodaeth, i raddau, yn glynu wrth y meddyliu doethaf;

nodi yr achos sydd yn ei effeithio, ac yn gwneuthur i fynu y gwystl sydd yn ei sicrhau.—Mae ei natur ef i gyd yn egwan; ni all efe, o hono ei hun, gymmaint a meddwl un meddwl da: nid oes ganddo un amddiffynfa weledig, nac un digonolrwydd o hono'i hun: ac etto mae llengau lawer o elynion cedyrn mewn cydfwriad i'w ddinystrio. Mae'r byd yn gosod maglau aneirif i'w draed; mae'r diafol yn gwasgu'r gwarchae ymlaen yn ddibaid â lliaws o biccellau tanllyd, neu brofedigaethau twyllodrus: mae'r cnawd, fel cydtý

a rhagfarn yn dymchwelyd y farn fwyaf ddiduedd yn hawdd. Gall hyn droi i'n mantais gyffredinol; a rhoddi lle i'r rhinweddau iachâol hyn—cymhedroldeb, llarieidd-dra, a chyd-ddygaeth.—Yn unig goddefwr i mi ofyn, A yw'r daliad hwn ddim yn tueddu yn amlwg i sefydlu cysur y Cristion, ac i fawrygu ffyddlondeb Duw ein Hiachawdwr? Pa un, ymhell o feithrin diogi, a chefnogi esgeulusodod, a yw gwybod nad yw cin llafur ni yn ofer, ddim yn annogaeth gref i fod yn helaethion yn ngwaith yr Arglwydd? 1 Cor. xv. 58.

A oes rhyw un barod i chwilio y rhesymau a wnaethant yr awdwr yn broseltyt i'r gred hon? Geill eu gweled yn cael eu dangos yn y goffadwriaeth a draddodwyd gan amr o dduwinyddion detholedig ac enwog Eglwys Loegr, yn Nghymmanfa glodfawr Dordt.—(Gwel Acta Synod. Dordrech. Par. II. tudal. 246, 'r cyhoeddiad Lladin, a argraffwyd mewn un gyfrol bedwar-plyg.)—Y rhai nid oes ganddynt gyfleusdra i chwilio cofion y gymmanfa hybarch hono, a gyfeiriwn at waith y diwyd a'r tra dysgedig Turretin, neu eiddo y rhydd a'r godidog Witsius.—Turret. Tom. II. Q. xvi. Wits. Econ. Lib. III. cap. xiii.

Mae'r olwg olaf a diweddaraf ar y pwngc, wyf fi yn gofio i mi ei weled yn ngwaith ein duwinyddion Seisnig, yn y *Lime-street Lectures*: y rhai sydd yn ddiffyniad o amryw o athrawiaethau mwyaf pwysig yr efengyl, ac yn gynnwysedig mewn dwy gyfrol wyth-plyg; llafur unedig wyth o'n duwinyddion diweddar; y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn adnabyddus i'r byd trwy eu hysgrifeniadau defnyddiol ac efengylaidd ereill. Yn y pregethau hyn, mae-parhad y saint mewn gras yn cael ei sefydlu yn neillduol iawn; ac, i'm meddwl i o leiaf, yn cael ei brofi i foddlonrwydd: mae'r rhesymau a ddygir yn gyffredin yn ei erbyn, yn cael eu hystyried yn ddiduedd, ac ni allaf lai nâ meddwl (gyda phob gostyng-eiddrwydd dyladwy i farn ereill) eu hatteb yn llawn.

Ac yma (i beidio chwyddo'r nodau ymhellach) ni chaf ond crybwyll, fod Hooker ddeallus (awdurdod, se allai, mor bwysig a dieithriad ag ellir ddwyn) yn rhoddi tystiolaeth ddifrif i'r daliad hwn, mewn traethawd byr ar Barhad Ffydd, ynglyn â'i Lywodraeth Eglwysig, *fol. edit.*

dichellgar, dan hug cyfeillgarwch, a'r eagus golygus o bleser, bob amser yn barod i fradychu ei ddiniweidrwydd. Ond, ymhlith yr holl amgylchiadau bygythiol o wendid personol, a pherygl cyfagos, mae nerth anweledig yn ddiffyn iddo.—“Myfi a'th gynnalaf di,” medd y bendigedig Dduw, “â deheulaw fy nghyfiawnder.”* Wirionedd cysurus! mae'r fraich, yr hon sydd yn gosod y ser yn eu trefn, ac yn tywys y planedau yn eu hynt, yn estynedig i ddiogelu etifeddion gogoniant.—“Fy nefaid,” a ychwanega y Gwaredwr mawr, “ydynt eiddof fi, ac ni chyfrgollant byth, ac ni dddwg neb hwynt allan o'm llaw i.”† Pa eiriau yw y rhai hyn! Ac a ddaethant hwy oddi wrtho Ef, yr hwn sydd â phob gallu yn y nef a'r ddaear? Ac a lefarwyd hwynt wrth weiniaid y praidd, wrth bob canlynwr diffuant i'r Bugail mawr? Yna rhaid maeddu Hollalluogrwydd ei hun, cyn y gellir eu dyfetha, na thrwy hudoliaethau twyll, na thrwy ymosodiadau gormes.

Os gofynir, gan hyny, pa sicrwydd sydd genym o barhau yn ffyddlawn hyd anghydwylled?—Yr un ag sydd yn sefydlu'r nefoedd, ac yn trefnu defodau'r bydysawd. A ellir taflu'r rhai hyn i gythrwf?‡ yna gall y gwir gredadyn dynu yn ol i golledigaeth. A ellir tynu'r haul o'i gylch, a'i dafu yn ddirreftu trwy'r wybr? yna, ac yna yn unig, y dichon ffydd etholedigion§ Duw gael ei dymchwelyd o'r diwedd.—Ymgysura, ynte, fy enaid; ymorphwys ar y cynnorthwyon dwyfol hyny, y rhai a ammodwyd mor bwysig, a addawyd mor ffyddlawn. Er fod dy ras yn wan fel y wreichionen

* Esa. xli. 10.

† Ioan x. 28.

‡ Jer. xxxi. 35, 36.

§ Titus i. 2.

odywynol, er i orlifiadau halogrwydd fygwth ei lwyr ddiffodd; etto, gan fod y Jehofa mawr wedi addaw meithrin yr egwyddor lesg, “dyfroedd lawer ni allant ei diffoddi, ac afonydd nis boddant.” Ië, pe byddai mor egwan a llin yn mygu,* mae daioni a ffyddlondeb wedi ymrwymo i gynnyddu'r gwres, i ddyrchafu'r tân, a phorthi'r fflam, nes pelydro hi yn lamp gogoniant anfarwol yn y nefoedd.

Am ffyddlondeb Duw cyfammedol, mae hyn i'w weled yn gysgodol, yn niysgogrwydd y cyrph nefol, a pharhad eu mudiadau.†—Mae'r rhai sefydlog yn cadw yn ddigyfnawid yn eu huchelderau mawrion. Ni all ysgyttiadau niweidiol, dim rhuthriadau elfenau ymrysongar, symmud y colynau tragywyddol ar ba rai mae'r bydoedd crogedig yn troi. Trwy holl hediad amser, nid ydynt yn ymgilio gymmaint a thrwch y blewyn, o ganol-byngciau gosodedig eu cyfundreithiau

* Mae tiriondeb a ffyddlondeb Duw at ei bobl yn cael ei ddarlunio yn hardd gan y prophwyd Esaia, pen. xlii. 3. yr hon gyfran, ar gyfrif ei dyddanwch gwerthfawr, a'i thegwch anarferol, a fabwysiadwyd yn haeddiannol gan St. Mathew, ac a blawyd yn nghyfundrefn gwirioneddau efengylaidd.—“Efe ei hun ni ddryllia,” ac ni oddef neb arall i ddryllio, “y gorsen ysig, a'r llin yn mygu ni ddiffydd.” A allesid dewis dwy gyffelybiaeth mor dyner ac arwyddocaol?—A allasai un ddelw fod mor ddarluniadol o fydd ddinerth a gwan iawn. a chorsen hyblyg, yn gogwyddo gyda phob awel? yr hon, heblaw ei gwendid naturiol, a wnaed yn llawer gwanach trwy gael ei hysigo ac felly yn barod i syrthio'n ddrylliau o honi ei hun.—Neu a allasai un peth, gyda chywirdeb mwy pwysig, ddesgrifio llwfrdra eithaf egwyddor arall y bywyd dwyfol, cariad? Mae cyflwr y llin, yn dechreu llosgi, yn agored i gael ei ddiffodd gan yr awel leiaf: mwy agored byth yw pabwryn y lamp, pan nad yw wedi cymmaint a chynneu yn fflam odywynol, ond yn unig yn fyw anadlol, pan mae yn annilys pa un a gymmer hi dân neu beidio.—Etto gwir ffydd, a chariad nefol, er yn bodoli ymysg y fath wendidau tosturadwy, ni roddir i fynu gan eu Hawdwr mawr; ni ddiffoddir gan neb temtasiynau; eithr a gynnelir, a fywioceir, ac a wneir yn fuddugol. Mat. xii. 20.

† Psal. cxix. 89, 90.

priodol.—Tra mae y rhai cylchredol, neu blanedaid, yn cyflawni eu hyntiau aruthr, heb un dyspaid, ac heb y rhwystr lleiaf. Gynted a hawdded y gosodir y darn perffeithiaf o beiriannyddiaeth ddynol allan o hwyl! Ond mae yr holl fudiadau nefolion wedi eu cymhwysio mor gynnil, eu holl weithrediadau wedi eu cyfartalu mor feirniadol, a'u holl ddibyniadau ar eu gilydd wedi eu cyssylltu mor gedyrn, fel y parhasant eu cylchdroion bendithiol trwy yr holl oesoedd.—Tra dymchwelir dinasoedd cedyrn a dinystr, ac y cleddir hyd yn oed eu henwau yn llwch anghof: tra ysgubir ymerodraethau meithion o'u sylfaeni, heb adael cymmaint ag ôl cysgodol eu mawredd gynt: tra mae pob peth daearol yn ddarostyngedig i gyfnewidiad, ac yn ymdòni mewn ansicrwydd: mae y rhai hyn yn arosol yn eu parhad—mae y rhai hyn yn anamrywiol yn eu swyddau. “Nid oes un yn pallu.”—Pwy sydd yn ammau olyniad cyson dydd a nos, neu adchweliadau rheolaidd gauaf a haf? A phabam, O! phabam, yr ammeuwn wirionedd Duw, neu y petruswn am gyflawniad o'i air sanctaidd? A all defodau'r nef ymgilio? Yna yn unig y dichon Duw anghofio bod yn rasol, neu esgeuluso cyflawni ei addewid.—Nagê, mae ein Harglwydd yn rhoddi sail gryfach i'n hymddiried etto: mae Efe yn gweini gwaelod sicrach i'n ffydd, nâ deddfau sylfaenol y bydysawd. “Nef a daear,” medd efe, “a ânt heibio; ond fy ngeiriau i,” mewn un siampl, nac yn y iot leiaf o'u cynnwysiad, “nid ânt heibio ddim.” Na: Ei air sanctaidd, pa beth bynag a'i rhwystro, pwy bynag a'i gwrthwynebo, a gyflawnir hyd yr eithaf.

O air nerthol! Mor rhyfedd yw ei effeithioldeb!

Pan roddwyd y gair hwn allan, mil o fydoedd a darddasant o ddiwym. Pe adroddid y gorchymynion cedyrn, mil eilwaith a neidient i fodoliaeth. Trwy y gair hwn, y cynnelir cyfundrefn faith pethau crëedig mewn perffeithrwydd digyfnwid. Pe gorchymynai, neu attal ei rym, dadgylymmid y cyfansoddiad cyffredinol, a holl natur a ymchwelai i'w thryblith cyssefin. A gwystlwyd y gair hwn am ddiogelwch, cysur, a dedwyddwch y duwiolion. Y gair dihalog, hollalluog hwn, sydd yn llefaru yn holl addewidion yr efengyl.—Mor ddyeithr orphwyllog yw ein heneidiau, ein bod yn ei werthfawrogi cyn lleied! Y fath anghredinwyr ydym mewn gwirionedd, nad y'm yn ymddibynu mwy arno! A greodd efe bob peth mewn bod; ac oni weithreda efe fydd yn ein mynwesau? A oes miloedd o fydoedd yn cael eu hattegu gan y gair hwn; ac oni fydd efe yn ddigon i ddal ein heneidiau i fynu mewn trallodion, neu eu sefydlu mewn profedigaethau? A yw efe yn fywyd y bydysawd, ac a fydd efe yn llythyren farw i ddynolryw?

Os dymunaf gael fy ngwrandaw, pan erfyniwyf fendithion nefol, onid yw y rhagorffaint hōno wedi ei gwneuthur yn amlwg i'm mwynhad, yn y testyn adnabyddus hwnw, "Gofynwch, a rhoddir i chwi?"*—Os hiraethaf am i'r Dyddanydd tragwyddol breswyllo yn fy nghalon, a sancteiddio fy natur; onid oes genyf hawl eglur i'r uchelfraint hon, wedi ei rhoddi yn y gofyniad melus cadarnhaol hwnw, "Pa faint mwy y rhydd eich Tad nefol yr Ysbryd Glân i'r sawl a'i gofynant ganddo?"†—Os difrif ewyllysiaf y trysorau amhrisiadwy a gynnwysir yn nghyfyngdod yr Em-

* Mat. vii. 7.

† Luc xi. 13.

manuel mawr; a allaf fi gael cryfach hawl i'r rhan ardderchog nag a ganiatteir yn yr ysgrythyr werthfawr hõno, " Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, nis bwriaf allan ddim?"*—Pa sicrwydd o'm rhan yn y trugareddau anbraethol hyn a ddymunwn? Pa fath drosglwyddiad, pa weithred o sefydliad, pe'i gadewid i'm dewisiad fy hun, a ddedholwn? Dyma air Brenin; y Brenin anfarwol ac anweledig; yr hwn mae ei gyhoeddiadau oll yn wirionedd ei hun.†—Os cyfrana teyrn freiniau ar gorph o ddynion, a'u cadarnhau trwy freinsgrif awdurdodol; nid oes neb yn dadleu, neu yn ammau ei hawl i'r cedau brenhinol. A phaham y drwgdybiwn ni ddilysrwydd y cyfraniadau a wnaed i ni gan Arglwydd natur; y rhai a gadarnhaodd efe â llw, ac a seliodd â gwaed ei Fab?—Gall bwrdeisdrefi gael eu difreinio, a breinsgrifiau eu galw'n ol; i'e, gall mynyddoedd gael eu symmud, a'r ser syrthio o'u rhodau: ond y mae daliad, a seiliwyd ar yr addewid ddwyfol, yn annhrosadwy ddilys, mor barhaus a thragwyddoldeb ei hun.

Nyni a ymdrechasom sillafu sill o'r Enw tragwyddol, yn hen law-'sgrifen yr wybr: nyni a ddaliasom odywyn o'r gogoniant Hollalluog, oddiwrth lewyrch y ser aneirif: ond a fynem ni ganfod ei holl ragoriaethau, wedi eu darlunio i lawn berffeithrwydd, a'u tynu i wir fywyd; manwl ystyriwn y Gwardedwr.—Yr wyf yn sylwi, fod rhanau o'r ffurfafen, lle mae'r ser yn ymddangos, fel pe byddai, yn bentyrau. Hauwyd hwynt yn dewach, a gorweddant yn nes, nag arfer; a tharaw-

* Ioan vii. 37.

† Os metha'r rhai'n, nid yw colofnau'r nef
Ond pydredd, a sylfaeni'r byd ond sofr. *Milt. Comus.*

ant y llygad â dysclaerdeb deublyg. Fel perlau mewn corou, cymmysgant eu pelydr, ac adlewyrchant glaerder ychwaneg ar eu gilydd.—Onid oes y fath gasgliad, y fath gydgynnulliad o anrhydedd dwyfol, yn tywynu gyda'r hawddgarwch mwyaf yn y bendigedig Iesu?

Onid yw doctineb* anfeidrol yn llewyrchu, gyda dysclaerdeb rhagorol yn Nghrist? I wneuthur byd, nid oedd rhwystr; ond i achub dyn, yr oedd attaliadau anorfod yn ymddangos. Os goddefir i'r gwrthryfelwr ddiangc; pa le bydd y cyfiawnder anhyblyg, yr hwn sydd yn datgan "marwolaeth fel cyflog pechod?" Os llwyr faddeuir i'r drwg-weithredwr; pa beth a ddaw o'r gwirionedd a ddifrif gyhoeddodd, "Yr enaid a becho a fydd marw?" Mae'r priodoliaethau hyn yn ymfyddino'n arswydus; ac, fel llu anghlwyfadwy, yn gwrthwynebu iachawdwriaeth dynolryw. Pwy all ddyfeisio trefn i ryddhau yr hil deyrnfradwrus, etto amddiffyn Pen-arglwyddiaeth Hollalluog? Dyma ddyrswch, na allasai y mwyaf dyrchafedig o ddealldwriaethau meidrol ei ddattod. Ond, wele y dirgelwch anchwiliadwy wedi ei ddatguddio yn y iachawdwriaeth ryfeddol a effeithiwyd trwy Iachawdwr trangcedig! Ei ddatguddio mor eglur, fel y gall "y sawl a redo ei ddarllen;" ac hyd yn oed mabanod ddeall, yr hyn ni allasai meddyliau o'r treiddgarwch mwyaf drefnu.—Mab Duw, gan gymmeryd ein natur ni, a ufuddhaodd i'r gyfraith, ac a ddyoddefodd angeu, yn ein lle. Trwy'r moddion hyn, cyflawnwyd y felldith fgyythiedig yn ei holl lymdra, a gweithredir rhad ras yn ei holl oludoedd. Mae cyfiawnder yn dal ei iawnderau; ac, â llaw

* Gwel y nodiad nesaf.

ddiysgog, yn gweinyddu dialedd amhleidgar; tra mae trugaredd yn cyfranu maddeuant, ac yu groesawu y troseddwr edifeiriol i'r coffeidiau tyneraf. Trwy hyn mae priodoliaethau croes-y addeddangosiadol, wedi eu cymodi. Achubir y pechadur, nid yn unig mewn llawn gysondeb a'r perffeithderau goruchel, ond i'r amlygiad ardderchoccaf o honynt oll.

Pa le mae'r gallu * dwyfol yn gweithredu mor hynod ag yn nghroes Crist, a buddugoliaeth gras?—Ein Harglwydd, yn nghyflwr isaf ei ddarostyngiad, a ynnillodd oruchafiaeth fwy gogoneddus, uâ phan, trwy'r môr ymranedig, a'r anialwch gwyllt udfawr, “y marchogodd Efe yn ngherbydau a meirch iachawdwriaeth.” Pan oedd ei ddwyllaw yn boeliedig â heyrn wrth y pren gwaedlyd, efe a ddarfogodd angen o'i golyn, ac a gipiodd yr ysglyfaeth o gildannedd uffern. Pryd hyny, i'e, pryd hyny, tra croeshoeliwyd ef yn ei wendid, efe a faeddodd yr un cadarn, ac a ddarostyngodd ein gelynyon mwyaf brawychus. Hyd yn oed pryd hyny, efe a ysbeiliodd y tywysogaethau, a orfoleddodd ar alluoedd y tywyllwch, ac a ddyg gaethiwed yn gaeth.—Yn awr pan mae efe yn ddyrchafedig ar ei orsedd nefol, gyda pha effeithioldeb llwyddiannus mae ei ras yn myned allan, “yn gorchfygu ac i orchfygu!”—Trwy hyn, mae caeth-weision pechod yn cael eu rhyddhau o'u caethiwed, a'u hadferu i ryddid cyfiawnder. Trwy hyn, mae trueiniaid dirywiedig, y rhai yr oedd eu chwantau yn gnawdol,

* “Crist, doethineb Duw, a gallu Duw,” 1 Cor. i. 24.—“Fel y byddai yr awrhon yn hysbys i'r tywysogaethau a'r awdurdodau, yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys (trwy drefniad a chyflawniad rhyfedd ei phrynedigaeth) ddwfn, eang a—πολυποικίλος—mawr amryw ddoethineb Duw,” Eph. iii. 10.

a'u tymberau yn ddieffig, yn cael nid yn unig eu hadferu, ond eu hadferu yn ol delw Duw, a'u gwneuthur yn gyfranogion o'r dduwiol anian. Mae myrddiynau o fyrddiynau o greaduriaid colledig, yn cael eu cipio, trwy gyfryngiad gras, fel pentewynion o'r gynnud dân; ac, wedi eu trosglwyddo i'r trigfanau nefol, yn llewyrchu yn ddysclaeriach nâ'r ser, yn llewyrchu fel dysclaerdeb yr haul, yn nheyrnas eu Tad.

A fynech chwi weled datguddiad anghymharol ddysclaeriach o'r rhagoroldeb Dwyfol, nag y mae ffurfafen ddifrycheulyd, pigynau y nef, neu ffynnon euraidd y dydd, yn ddangos? Myfyriwch ar Iesu o Nazareth. Efe yw dysclaerdeb gogoniant ei Dad, a gwir lun ei berson. Yn ei natur bur; yn ei dymherau nefol; yn ei fywyd sancteiddiaf; mae perffeithderau moesol y Duwdod yn cael eu harddangos yn yr olwg benaf.*—Clywch! fel mae trugaredd, â'i llais peraid, yn llefaru yn ei holl eiriau Ef. Gwelwch! fel mae ewyllys da yn tywallt ei dewis drysorau, yn yr oll y mae Efe yn ei wueuthur. A edrychodd tosturi erioed mor hawddgar dirion, ag yn y dagrau mwynion hyny, a chwyddent ei lygaid, ac a dreiglent dros ei ruddiau, i wlithio cynfigen ei eilynion llidiog?—A allasai amynedd gymmeryd ffurf mor hygar, a'r ymddygiad melus ennillgar, yr hwn a gyd-ddyg â gwrthwynebiad pechaduriaid? a ymbiliodd ar y gwrthnysig, i ymgymmodi? a erfyniodd ar yr euog, na byddai efe marw?—Mewn pethau ereill gallwn weled rhai pelydr o ogoniant Jehofa;—ond yn Nghrist maent oll yn gynnulledig ac unedig. Yn

* Yn yr ystyr hyn, mae dywediad ein Harglwydd yn odidog wir, "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad," Ioan xiv. 9.

Nghrist, maent yn llewyrchu gyda'r dysclaerdeb cryfaf, gyda'r tanbeidrwydd hyfryttaf. "Allan o Sion," ac yn Ngwardwr mawr Sion, "yr ymddangosodd Duw yn mherffeithrwydd tegwch."

Chwilia, ynte, fy enaid, uwchlaw pob ymgais arall, chwilia gofrestrau cariad achubol. Bydded y pethau hyn yn brif destynau dy fyfyrdod. Yma ymarfer dy hun gyda'r dyfalwch mwyaf diflin.—"Yn y rhai hyn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig."* Y fath ddoethineb ag sydd yn hyfrydu a synu yr angylion; yn tynu eu sylw manylaf, ac yn eu llanw â'r addoliad † a'r parch dyfnaf: y fath wybodaeth, ag sydd yn cymhwyso y meddiannydd, os nid i swyddau anrhydeddus ar y ddaear, etto i'r dyrchaf-

* Colos. ii. 3.—Y mae, nid gradd fechan, ond trysor; nid un trysor, ond llawer; nid llawer yn unig, ond holl drysorau, gwir ddoethineb, a gwybodaeth achubol, yn Nghrist, a'i efengyl ogoneddus. Y mae godidogrwydd tra rhagorol y trysorau hyn yn cael ei nodi yn brydferth, yn y gair arall hwnw *αποκρυφοι*, "yn guddiedig;" (yr hwn a ellir ei ddeongli trwy y gair Hebraeg *מטמועם* *matmoneem*, Job iii. 21.) "cuddiedig," neu "trysoredig," gyda'r gofal penaf, a'r diogelwch mwyaf. Nid wedi eu gadael i bob crwydrydd, ar bob hynt, i dramgwyddo wrth-ynt; neu i syrthio i freichiau llydain pob diogyn; ond, fel perlau o'r gloywder cleraf, neu oludoedd o'r gwerth mwyaf, ynghadw i addurno a gwobrwyo y chwiliwr diwyd.

† Hyn, yr wyf yn meddwl, yw ystyr iaith yr apostol, er nid cyfieithiad llythyrenol o'i *εις α επιθυμωσιν αγγελιοι παρακυψαι*. 1 Pedr i. 12. Ni chefais i erioed y fath amgyffred o arwyddocâd y gair olaf, a phan oeddwn yn bresenol yn ddiweddar ar ddifyniad rhan o'r corph anifeiliaidd. Mewn trefn i ganfod manion y cyfansoddiad aruthr; rhyfeddodau cudd celfyddyd a pheiriannyddiaeth; mae'r llygad yn cael ei lymbau gymmiant, a'i sylw yn cael ei dynu mor fanwl, fel y mae yn rhoddi deongliad profiadol iawn ar yr ymadrodd cynnwysfawr hwnw, *παρακυψαι*.—Gyda'r fath sylw difrif y myfyr ar yr efengyl dragywyddol, yn y graddau angylaidd! Pa faint mwy, pe byddai yn ddichonadwy, y mae hi yn haeddu ystyriaeth barchus a dibaid meddyliau dynol? gan, ganddynt hwy, nid yw hi yn unig i syllu arni, fel amlygiad dysclaer a hyfryd o'r priodoliaethau Dwyfol; ond i'w chymhwyso at eu natur syrthiedig fel cyfundrefn dirionaf o ras adferol; fel ffordd ddiogel ac unig i gyrhaedd bywyd ac anfarwoldeb.

iadau mwyaf urddasol yn nheyrnas nefoedd. Yn ysgaredig oddiwrth yr hon wybodaeth, nid yw pob ymroad ond ffoledd llafurus: a phob gwyddiad, ond anwybodaeth rwysgus.—Mae'r coffaon hyn yn cynnwys y cynllun mwyaf difai o ddyledswydd, a'r annogaethau ardderchoccaf i ufudd-dod. Nid oes dim mor nerthol i weithio ffydd fywiog, a gobaith gorfoleddus, ag ystyriaeth esgud o rinweddau annhraethadwy ein Harglwydd: dim mor ddifeth, i wrthgyfareddu effeithiau heintus y byd, a gwared ein serchiadau rhag caethiwed gwael i wrthddrychau isel, a choffadwriaeth reddfol o'i loesion poenusaf. Gwreiddyn pur a byth-ffrwythlawn pob moesoldeb, yw cariad diffuant at Grist; a'r groes, y groes yw yr allor* osodedig, oddi ar yr hon y gallwn gyrhaedd marworyn† i ennyn y tân sanctaidd hwn.

“Wele,” gan hyny, “y gwr;” y gwr rhyfedd a digymhar; yr hwn yr oedd ei ymddygiad yn gynllun o bob rhinwedd ardderchoccaf, a'i berson yn ddrych o bob perffeithrwydd dwyfol. Chwiliwch goffaon ei dymher nefol, a'i ymarweddiad dilynwiw. Myfyriwch ar y côr hwnw o rasau, y rhai a gydgasglesid yn ei feddwl, ac a dywalltent y llewyrch uchaf ar ei holl weithredoedd: cynnefinwch eich meddyliau ag ymadroddion addysgiadol, ac ewch i mewn i ysbryd ei athrawiaethau pur: fel y trawsdywallter y grasau i'ch mynwesau, ac y trawsysgrifener yr athrawiaethau yn eich bywyd.—Dilynwch ef i ben erchyll Calfaria, i

* “A minnau,” medd ein Harglwydd, “os dyrcheir fi oddiar y ddaear,” a'm hestyn ar y groes, “a dynaf bawb attaf fy hun:” a roddaf y fath amlygiad tra rhagorol o'm cariad, ag a fydd, yn y modd mwyaf nerthol a llwyddiannus, yn tynu'r eiddynt hwy. Ioan xii. 32.

† Cyfeiriad at Esa. vi. 6.

ddiweddiad angeuol Calfaria; lle “perffeithiwyd” diniweidrwydd, urddas, a theilyngdod, “trwy ddyoddefaint;” pob un yn llewyrchu, gyda phob dysclaerdeb dichonadwy, trwy yr olygfa echryslon; yn gyffelyb i’w enfys loyw ei hun, yn fflamio gyda’r tegwch mwyaf, pan yn ymddangos ar y cwmwl duaf.—Sefydler eich sylw cysonaf ar y drych hawddgar a galarus hwnw.—Gwelwch yr aberth difrycheulyd wedi ei hoelio wrth y pren, a’i frathu i’w galon. Clywch ef yn tywallt allan griddfanau dros ei lofruddwyr, cyn iddo dywallt allan ei enaid dros droseddwyr. Gwelwch y clwyfau a ffrydiant faddeuant, ac a waedant feddyglyn i fyd anhwylyd. O! gwelwch gyfiawnder yr Hollalluog, a’i ddaioni; ei drugaredd a’i ddialedd; pob priodoliaeth arswydus a grasol yn amlygedig; yn amlygedig gyda gogoniant annhraethol, yn hwnw, y gwarthusaf, etto, y mawryddicaf, o’i weithredoedd.

Gan fod Duw mor anamgyffredadwy fawr, ag y mae ei weithredoedd rhyfedd hyn yn ei ddatgan;

Gan fod Jehofa’n anfon bydoedd fyrdd,
I dd’wedyd, fod ei drigfa fry, yn nghil
Anhysraidd urddas, oddi arnynt oll;*

pa fodd y gallwn ni lai nâ brysiu, gyda Moses, ymgyrnu tua’r ddaear, ac addoli!

* Am y difyniad uchod, ac amryw bethau ereill, yr wyf yn cydnabod fy hun yn ddyledus i’r cerddi godidog a dyrchafedig, a elwir *Night Thoughts*, (Nos Feddyliau.)—Am y rhai, ni ddywedaf ond yn unig, fy mod yn derbyn hyfrydwch newydd, a lleshad rhagorach, bob tro y darllenwyf hwynt. Ac, yr wyf yn meddwl, y caf achos i fendithio Cyfranwydd tirion pob doethineb, am y cyfansoddiadau bywiocael ac addysgiadol hyn, i.e., yn fy oriau diweddf. Nâ’r hyn, ni all dim ddatgan eu rhagoroldeb yn fwy pwysig, na rhoddi boddlonrwydd mwy sylweddol i’w hawdwr teilwng.—Dedwydd y barnwn fy hun, pe anrhydeddid y traethodau bychain hyn o addoliad myfyrdodol â’r radd leiaf o’r un llwyddiant; pe derbyniant dystiolaeth, nid oddiwrth lais enwogrwydd, ond oddiwrth wefusau trancedig rhyw Gristion a adeiladwyd trwyddynt.

O! y fath orchwyl anrhydeddus, yn gystal a manteisiol, yw gweddi!—Manteisiol: trwy weddi, yr ydym yn coleddu yr ohebiaeth werthfawr hòno â'r *Jehofa*, yr ydym yn dwyn ymlaen y gynnadledd siriol hòno â'i *Ysbryd* ef, yr hon y rhaid ei dechreu yma, mewn trefn i'w pherffeithio yn nhragywyddoldeb.—Anrhydeddus: trwy weddi, mae i ni ddyfodfa at y Brenin cadarn hwnw, yr hwn y mae ei deyrnwialen yn llywio natur gyffredinol, a'i deyrn-addurniadau yn llanw yr wybrenau â llewyrch. Mae gweddi yn ein gosod yn ei ŵydd-gell, tra mae "gwaed y taenelliad" yn rhoddi i ni wrandawriad grasol.

A wridiaf fi, ynte, fy nghael yn ymgrymu ger bron gorsedd gras? A gywilyddiaf fi, ynte, ei fod yn wybodus, fy mod yn offrymu ymbiliau cymdeithasol yn fy nheulu, neu yn gydwybodol yn nghadw fy ymneillduadau dirgel? Yn hytrach bydded i mi ymogoneddu yn y rhagorfraint hon: bydded i mi ei hystyried y swydd ardderchoccaf, i syrthio'n isel ger bron lleithig ei draed ef; a'r anrhydedd uchaf i fwynhau cymmundeb â'r Mawrhydi mwyaf dyrchafedig.—Anghymharol ardderchoccach, nag eistedd, yn bersonol, yn ngerbyd buddugoliaeth; neu sefyll, mewn llun, ynghanol teml y rhai rhyglyddus.

Llwyr anmhrisiadwy, yn y gyfryw olwg, yw yr addewid hòno, yr hon a ddygwydd mor aml yn ysgrifenedau y prophwydi, a'r hon yw rhodd goronol y cyfammod newydd; "Myfi a fyddaf yn Dduw i ti."*—A deilynga y Bod tra rhagorol a hollalluog fod yn rhan i mi? Osod i bechadur tlawd, nid treftadaeth swydd, nid yr holl ddaear yn feddiant, ond ei fyth-

* Heb. viii. 10

wynfydedig hunan? A allaf fi, ynte, trwy ei ras rhad ymostyngar, a rhinweddau anadnabyddus ei Fab, edrych ar y priodoliaethau anfeidrol ardderchog hyn fel fy nbrysor? A allaf fi ystyried y ddoethineb, yr hon sydd yn goruwch-wylled y fath liaws o fydoedd, fel fy arweinydd; y gallu, yr hwn a'u creodd hwynt, ac sydd yn eu cynnal, fel fy ngwarcheidwad; y daioni, yr hwn, trwy gyfraniad diderfyn o ddoniau, sydd yn eu gwneuthur oll yn breswylfeydd dedwyddwch, fel fy ngwobr mawr iawn?—Pa drysorfa o wynfydedigrwydd a gynnwysir yn y fath fendith! Mor fynych mae brenin Israel yn ymorfoleddu yn y sicrwydd, fod y daioni annhraethol a diderfyn hwn yn eiddo iddo! A chanddo hawl yn hwn, mae efe yn herio pob drwg a ellir ei arswydo, ac yn gorphwys mewn dysgwyliad diogel am bob bendith a ellir ei dymuno. “Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm iachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? Yr Arglwydd,” gydag agwedd o orfoledd, a adrodda efe fel ei ymddiried a'i her, “yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf?”* Nid oes dim mor effeithiol a'r ffydd gymbwysiadol hon i gynhyrfu urddas meddwl uwchlaw pob teganau darfodedig, neu i greu tawelwch tymber na ddigalonir gan ofnau y werinos, na ddychrynir gan angeu ei hun.—“Yr Arglwydd yw fy mugail,” medd yr un person gwir ddewr ac arwr-aid, “ni bydd eisiau arnaf.”† Pa fodd y gall fod eisiau arno ef, yr hwn y mae llawnder holl-ddigonol at ei gynnalïaeth? Cyhyd ag y gallo doethineb ddi-wyrni drefnu moddion; cyhyd ag y gallo nerth anwrthwynebol eu gweithredu, ni all y cyfryw un lai nâ bod yn ddiogel a dedwydd, pa un bynag a wnel ai

* Psal. xxvii. 1.

† Psal. xxiii. 1.

aros ymysg cyfnewidiadau amser, neu ymadael i'r tragywyddoldeb anghyfnewidiol.

Yma safwn am funud, a myfyriwn yn ostyngedig ar y Duw mawr hwn, ynghyd â ni ein hunain, mewn golwg berthynasol.—Os sylwn ar weithredoedd natur sylweddol, eu rhif yn anamgyffredadwy, a'u meithder yn anfesurol: pob un ar ei ben ei hun wedi ei ffurfio mor rhyfedd; cyssylltiadau y cwbl wedi eu trefnu mor fauwl, a'r cyfan wedi deillio oddiwrth yr un gweithredydd gogoneddus.—Os ystyriwn y tra ardderchocchach perffeithderau o archwaeth odidog, a barn ddirnadol, o serchiadau pur, a syniadau dyrchafedig, a geir ymblyth amrywiol raddau bodoliaeth ddeallol; a phob un o honynt yn ffrydio, mewn gorlifiadau llawnion, o unig Ffynnon goleuni dealldwriaethol.—Os craffwn ymbhellach ar Awdwr tegwch sylweddol, a rhagoroldeb moesol, fel gwarcheidwad, llywodraethwr, a chymmwynaswr, ei holl greaduriaid; yn cynnal yr holl gyfundrefn, ac yn diffyn pob creadur, trwy Ragluniaeth byth-wyliadwrus; yn goruchwylied yr amgylchiadau lleiaf, ac yn peri i bob damweiniau derfynu yn y daioni helaethaf; yn pentyru, gyda haelder dibaid, ei roddion ar bob gwrthddrych cymhwys i'w mwynhau, ac yn gwneuthur holl gylch y bydysawd yn feithrinfa dedwyddwch:—A all y galon ddynol, yn y fath olwg berlewygol, fod yn ddifater tuag at hwn, tirionaf, a haelionusaf Ddechreuad bodoliaeth a gwynfyd? A all rhyw un fod wedi suddo mor ddwfn mewn penwendid, a dywedyd wrth yr Hollalluog—yn iaith tymher anghrefyddol a bywyd penrhydd, dywedyd—“Cilia oddi wrthym; nid ydym yn eeisio dy ffiafr, nac yn ewyllysio gwybod dy ffyrdd?”—

Synwch, O nefoedd! rhyfedda yn aruthr, O ddaear!
ac amlyged trigolion y ddau eu syndod rhag y fath
gymmhlethiad digyffelyb o gildynrwydd annheg, an-
niolchgar, a dinystriol!

Os ystyriwn ein sefyllfa syrthiedig ac amherffaith
ein hunain; yn frau yn ein cyrph, yn egwan mewn
meddwl, ymhob rhan o'n cyfansoddiad, ac yn holl
ddygywddiadau bywyd, "fel mur sigledig, neu gae
drylliedig:"—Os golygwn ein sefyllfa anghenus, ddi-
rym; heb sancteiddrwydd, heb nerth ysbrydol; ein
meddiant o'n cysuron presenol yn dibynu yn hollol
a'r ewyllys da Duw, i'e, wedi eu dirwyo, eu dirwyo yn
gyfiawn, gyda phob gobaith i ddyfod, trwy filoedd o
anwireddau ysgeler:—Os ychwanegwn anffodion am-
rywiol ein cyflwr; yn gynhyrfedig fel yr ydym gan
nwydau tymhestlog, yn orthrymedig gan ofnau gwan-
galon, mewn petrusdod gan ofalon cythryblus,* yn
agored i boenau, yn ddarostyngedig i drallodion,
trallodion o bob tu, trallodion o bob rhyw—A allwn
ni, ymblith cynifer o anghenion, dan y fath wendidau
gresyn, yn ddarostyngedig i'r fath ddamweiniau

* Cythryblus.—Y rhai a ddarllenent iaith wreiddiol y Testament
Newydd, a wyddant yn dda, mai hyn yw meddwl y cynghor tirion, a
annogir gan ein Harglwydd, *μη μεριμνατε*, Mat. vi. 35.—Yr wyf yn
crefu caniattad, er mwyn y darlennydd annysgedig, i sylwi, fod ein
cyfieithiad ni, er fynychaf yn rhagorol a ffyddlawn, yma wedi cam-
ddarlunio meddwl ein Hathraw dwyfol. "Na ofelwch" (*Take no
thought*) am eich bywyd, am ddillad, am eich daioni corphorol, nid yn
unig nid yw yn wir ystyr, ond mae yn hollol wrthwyneb i'r athrawiaeth
ysgrythyrol. Gorchymynir i ni ofalu yn gymhedrol a doeth am
angenhidiau bywyd. Ceryddir y diogyn yn llym, yr hwn sydd yn
esgeuluso hyn; anfonir ef at un o'r creaduriaid gwaelaf, i wridio am ei
ynfydrwydd, a dysgu doethineb oddiwrth ymddygiad y morgrugyn,
Diar. vi. 6. Gorchymyn ein Harglwydd, a iawn ystyr yr ymadrodd,
yw, Na ofelwch yn bryderus; na chymmerwch yn gofal cythryblus;
dim o'r fath ofal, ag a ddangosai anghrediniaeth afresymol yn Rhag-
luniaeth; neu a rwygai eich meddwl â phryder cyfyng, niweidiol.

alaethus—a allwn ni fod yn ddifater pa un ai gyda ni, ai yn ein herbyn, y mae llaw hollalluog, anwrthwyn-ebol, holl-dywysol, Duw? Mae dychymmyg ei hun yn ysgrydu rhag y meddwl!—A allwn ni orphwys yn dawel, heb grediniaeth wedi ei iawn seilio, ein bod wedi ein cymmodi â'r pen Arglwydd hwn, a'n bod yn wrthddrychau ei gariad anghyfnewidiol?—Os oes rhyw adyn gwrthodedig yr hwn y mae ei amgyffred-iadau wedi eu dallu mor angheuol, yr hwn sydd mor llwyr ddeidmlad o'i ddyledswydd a'i leshad; galared ei drueni, tra ffeiddiwyf fi ei annuwioldeb: galaru ei drueni, er fod poblogrwydd, â'i dewis lawryf, yn coroni ei ael; er fod llwyddiant, â'i danteithion melusaf, yn llwytho ei fwrdd; er fod hanner cenedl, neu hanner byd, yn cyttuno i'w alw yn ddedwydd.

A allaf fi, trwy gymhwysiad crediniol, gysuro fy hun yn y ffynnon dragywyddol hon o gariad, perffeithrwydd, a gorfoledd! Caniatta i mi y dymuniad hwn, ac ni cheisiaf ragor—dim, ond fod i mi allu dysgwyl, nid gyda phryder gwrthymdynol, ond gyda sirioldeb parod, dyfodiad yr awr bwysig hõno, pan syrthio'r llen hon o gnawd, ac y cilio cysgodau marwoldeb; pan na byddo i mi mwyach achwyn ar ddeall tywyll, serchiadau marwaidd, a mwynhad amherffaith—eithr gweled y Mawrhydi digrëedig ac anfarwol: ei weled Ef, nid gyda'r dull pell aneffeithiol, o ymresymu oddi wrth ei weithredoedd; ond gydag edrychiad mwyaf eglur a digyfrwng y meddwl;—pan garwyf Ef, nid gydag ysbryd oerllyd a sych, ond gyda chynhyrfiadau bywioccaf ac ëangaf diolchgarwch:—pan fwynhawyf oleuni ei wyneb yn ddibaid, ac yr uner fi, yr uner fi yn anysgaradwy, â'r holl-ogoneddus Ddrindod.—

Cymmerwch, chwi uchelgeiswyr, yn ddieiddigedd, a diwrthwynebiad, cymmerwch i chwi deganau teyrnedd. Galluoger fi i lawenychu yn y gobaith gwynfydedig hwn, ac i orfoleddu yn yr enw hawddgar, yr enw addoladwy a hyfryd hwnw, yr Arglwydd fy Nuw! A phrin y taflwn olwg ar goeg-ymddangosiadau gwychion y byd, oddi eithr i ddirmygu ei rwysg gwag, a thos-turio wrth ei fawrygwyr hudoledig.

Mae yr holl fodau hyn, er mor ddirfawr mewn maint, ac agos yn anfeidrol mewn rhifedi, yn ufudd i'r gorchymyn Dwyfol. Mae Duw doethineb yn "cyfrif eu rhifedi hwynt," ac yn eithaf cydnabyddus â'u priodoliaethau amrywiol; mae Duw gallu yn eu "galw hwynt wrth eu henwau," ac yn rhoddi iddynt y swydd a fyno.—Mae efe yn cofrestru yr holl fyrddiynau serenog, gyda rhwyddineb anfeidrol fwy, a threfn anfeidrol gynnilach, nag mae'r cadfridog medrusaf yn cyfleu ei luoedd dysgybledig. Mae efe yn pènu eu sefyllfaoedd, yn nodi eu hyntiau, yn gosod amser eu dychweliad. Y sefyllfa mae efe yn bèn, maent yn ei chadw yn ddifeth; yr hynt mae efe yn nodi, maent yn ei chanlyn yn ddiwyrni; ac i'r funud* mae efe yn osod i'w dychweliad, maent yn bendant fanwl. Efe a roddes ddeddf iddynt, yr hon, trwy chwyldroad o oesoedd, ni throesddir, oni rynga bodd i'w ben-arglwyddiaethol ewyllys ei galw yn ol. Yna, yn wir, attelir mudiad y rhodau nefol, gohirir eu gweithrediad, neu eu heffeithioldeb a dderbyn gyfeiriad newydd.—

* "Mae'r planedau, a holl lu afrifed y cyrph nefol, yn cyflawni eu cylchrediadau a'u chwyldroion gyda'r fath sicrwydd a manylder, fel na fethasant unwaith; ond, dros agos 6000 mlynedd, maent yn dyfod o amgylch yn gyson ar yr un amser, i'r ganfed ran o funud."

Stack. History of the Bible.

Daeth yr haul allan, ar ei grëedigaeth, gyda gorchymyn i deithio yn ddiattal trwy y nefoedd; er yr amser hwnw ni esgeulusodd efe erioed gyflawni ei gylchrediad, gan lawenhau fel "cawr i redeg gyrfa:" ond, pan mae yn ofynol cyflawni bwriadau y cariad dwyfol, mae ei ddeddf yn cael ei gwrthorchymyn, mae'r rhedegwr tanllyd yn oedi ei hynt, "yn sefyll yn Gibeon,"* ac, er cyfaddasrwydd ei bobl dewisol, yn dal y dydd rhag machlud.—Prysurwyd y lloer gyda gorchymyn, i beidio newid ei hynt gylchredol nes terfynai dydd a nos: ond pan mae plant Rhagluniaeth i gael eu ffafrio â pharhad angbyffredin o oleuni, mae hi yn oedi ar ei hymdaith, yn sefyll yn syn "yn nyffryn Ajalon,"† ac yn gohirio dwyn ei gosgordd weinyddol o gysgodau ymlaen.—Pan mae gelynion yr Arglwydd i gael eu terfysgu, cyflogir y ser i'r gwasanaeth; arfogir y ser, a chymmerant y maes; "y ser, yn eu graddau, a ymladdasant yn erbyn Sisera."‡

* Llefaryd hyn mewn cydffurfiad â iaith yr ysgrythyr, ac yn unol â'r dyb gyffredin. Am y gallu a barodd y cyfnewidiad, yr un fath yw, a'r un modd yn wyrthiol, pa un bynag ai yr haul, ai y ddaear, a fernir fod yn symmud.

† Jos. x. 12, 13.—Mae'r prophwyd Habaccuc, yn ol ei ddull uchel, yn clodfori y dygwyddiad hwn; ac yn nodi, mewn iaith brydyddol iawn, dyben gwyrth mor rhyfedd.—"Yr haul a'r lleuad a safodd yn eu preswylfa: wrth y goleuad," y goleuad hir a gwyrthiol, "dy saethau," a finiasid â dinystr, "a aethant" ar eu neges ofnadwy: "yn llewyrch" y dydd, a estynasid i'r dyben, "dy waywffon ddysclaer," a wthiasid gan dy bobl, ond a dywysasid gan dy law di, a neidiodd at ei hanrhaith. Hab. iii. 11.

Barn. v. 20.—Yr wyf yn hyderu, y bydd yr ymadrodd ysgrythyrol, "a ymladdasant yn erbyn," yn awdurdod digonol i mi am bob gair a arferais ar yr amgylchiad hwn.—Meddylir yn gyffredin mai ystyr y gyfran yw, mai rhyw oruchiaid, (y rhai y tybid bod y ser yn effeithio arnynt,) megis meltt angerddol, cawodydd chwyrnion o wlaw, tymhestloedd ffyrnig o genllysg, a ddefnyddiwyd gan yr Hollalluog, i frawychu, rhwystro, a dymchwelyd gelynion Israel. Os felly, ni all fod aralliad eglurach a bywiocach ar y testyn, nâ llinellau prydferth canlynol

Mor ufudd yw natur ddifywyd! mor ostyngedig yn ei holl ffurfiau i ewyllys ei Chreawdwr!—Mae'r taranau rhoadgroch yn clust-ymwrandaw â'i leferydd, a'r mellt tanllyd yn sylwi ar gyfeiriad ei lygad: mae'r dymhestl hedegog, a'r corwynt chwyrn, yn dwyn ei iau: mae'r tönau cynddeiriog yn parchu ei awgrym; ysgydwant y ddaear; ac ysgubant yr wybrenau; etto byth ni chynnygant fyned dros y terfynau a osododd efe iddynt.—Mae hyd yn oed y rhodau planedaidd, er yn llawer meithach ná'r ddaear lydan hon, yn ei law, fel y clai yn nwyllaw'r crochenydd: er iddynt wrthymgroesi gororau meithion yr awyr, yn gyflymach ná'r gogleddwynt; etto tywysir hwynt gan ei awenau, a chyflawnant yr oll a fyno efe.—Yr holl belau dirfawr hyn o ganol-byngciau tanllyd, y rhai a belydrant trwy'r llasar annberfynol; mewn cymhariaeth i ba rai, byddai llu o blanedau megis haid o bryfed haf; mae y rhai hyn, i'e, y rhai hyn, yn cydffurfio á'i ewyllys, fel y cŵyr toddedig i'r sel arwasgedig.—Gan fod y cwbl, y cwbl yn ufudd, trwy holl esgyniad pethau, a gaiff dyn fod yr unig wrthryfelwr yn erbyn y Gwneuthurwr hollalluog? A gaiff y blys afreolus hwn wrthod ei lywodraeth, a grwgnach ufuddhau? A gaiff y nwydau talgryfion hyn ddryllio yr attaliad dwyfol, a rhedeg yn wylltion, mewn rhuthriadau penrhydd, ar ol eu dychymmygion eu hunain?

ysgrifenydd Iuddewig: "Efe a hoga ei ddigter tost yn gleddyf; a'r byd a ryfela gydag ef yn erbyn ffyliaid. Yna byllt y mellt a ánt yn uniawn, ac o'r cymhylau, megis o fwa annellog, cyrchant at y nod. A chenllysg, yn llawn llid, a deffir o fwa meini; dwfr y môr a ymgyn-ddeirioga yn eu herbyn; a'r llifeiriant (megis afon Cidron) a'u boddant hwynt yn dost. Gwynt nerthol a saif yn eu herbyn hwynt, ac a'u nithia hwynt ymaith fel trowynt." Doethi. v. 20—23.

O! fy enaid, brather di gan ofid, a gorchuddier di â chythrudd rhag y meddwl! Onid cyfiawn yw, i'r gwynfydedig Dduw ysgwyd y deyrnwialen, gydag awdurdod diattaliad, dros yr holl creaduriaid a greodd ei allu? yn enwedig dros y creaduriaid, y rhai a gyn-nysgaeddodd ei ewyllys da gwahan-nodol â'r egwyddor ardderchog o reswm, ac a wnaeth efe yn gymhwys i fwynhau anfarwoldeb gwynfydedig? Yn ddiâu, os yw holl raddau y grëedigaeth ddienaidd yn cydffurfio â deddf eu Creawdwr, oddiar angenrheidrwydd natur, dylai yr hil ragorol hon dalu gwriogaeth gyfartal oddi ar gydsyniad gwirfodd eu serchiadau.*—Deuwch, ynte, holl swyddgynheddfau fy meddwl; deuwch holl alluoedd fy nghorph; rhoddwch eich hunain i fynu, heb funud o oediad, heb yr attaliad lleiaf, i'w lywodraeth ef: sefwch, fel gweision ufudd, wrth ei 'stol-droed ef, mewn parodrwydd tragywyddol i wneuthur pa beth bynag a ofyno, i fod yr hyn bynag a drefno; i ddwyn ymlaen, gyda nerthoedd unedig, fwriadau ei ogoniant

* Yr wyf yn cydnabod, nad yw'r rheswm hwn yn hollol benderfynol: ond mae yn boblogaidd a chyffrous. Ac nid allaf feddwl fy hun yn rhwym, mewn gwaith o'r natur hyn, lle mae'r ddychymygydd yn dwyn rhan fawr, i fyned rhagof bob amser gyda gofal a manylrywydd dadleuwr yn yr ysgol. Od oes rhyw berthynas rhwng y gosodiad â'r casgliad, mae yn ddigon i ateb fy mwriad; er nad yw y casgliad yn anocheladwy, na'r dull yn eithaf rhesymol. Mae gan un o'r tadau apostolaidd ddosparth goruchel a chyffrous, yr hwn sydd yn rhedeg yn gywir fel hyn: *Ἡλιος τε και σεληνη, αστερων τε χοροι, κατα την διαταγην αυτου εν ομοιοια, διχα πασης παρεκβασεως, εξελισσουσιν τας επιταγμενους αυτοις ορισμους.* "Mae'r haul, a'r lloer, a'r côr serenog, heb y gwyriad lleiaf, a chyda chysondeb perffaith, yn cyflawni y cylchrediadau a osodwyd iddynt gan y ddeddf oruchel." Oddiw'rth ba nodiad, gyda helaethrwydd o bethau tebyg, mae efe yn annog Crist'nogion i undeb gwresog yn eu plith eu hunain, ac ufudd-dod dyledus i Dduw. Vid. Clem. Roman. 1 Ep. ad Corinth. Sec. 20.—Gwel hefyd awdl odidog yn Ngherddi Telynaidd Dr. Watts, a elwir, *The Comparison and Complaint*, (Y Gymhariaeth a'r Gwyufan,) yr hon sy'n troi ar yr un meddwl.

ar yr olygfa ddaearol hon; neu ynte i ysgaru, heb wrthymdyniad, ar ei wysiad; y naill, i gysgu yn y llwch dystaw; y llall, i ddwyn ei anrhydedd ymlaen mewn rhyw ardal bellach o'i deyrnas.—Fel hyn uner fi, â holl waith yr Arglwydd, ymhob cwr o'i lywodraeth, i gydnabod ei awdurdod cyffredinol, a'i ddatgan yn Arglwydd eneidiau, gystal a Llywiawdwr bydoedd.

Ar fy nyfodiad cyntaf allan, cuddiasid yr holl oleuadau hyn, gan lewyrch gorthrechol yr haul. Yr oeddynt oll yn yr un sefyllfaoedd, ac yn chwareu yr unrhyw belydr bywiog; etto nid oedd un o bonynt yn weledig. Fel y treuliodd goleuni y dydd ymaith, ac yr agoshaodd cysgodau difrif yr hwyr, y seren hwyrol, (Hesperus,) yr hon sydd yn tywys yr osgordd serenog, a ddangosodd ei thalcen dysclaer, ac a ddaliodd fy llygad. Tra sefais yn syllu ar ei phryd llewyrchus a phrydferth, llawer o'i chymdeithion a lygagent trwy y lleni llasar. Prin y tröaswn i sylwi ar y dylifiadau newyddion o ddysclaerdeb, na ollyngodd ereill eu gorchudd, na ymledrattaodd ereill i'r golwg: pan, wele! yn gyflymach a lliosoccach, torfeydd a godasant o aneglurdeb; ymdywalltent, yn fyddinoedd claerion, ac, yn dryblith brydferth, dros yr holl wastadedd nefol; nes ymddangosai yr holl ffurfafen fel un cydgynnulliad maith o ser, a "thorrodd ffrwd o ogoniant o'r wybren i gyd."

Onid y fath yw dechreu, a'r fath yw cynnydd, gwir ddychweliad, yn y digred rhagfarnllyd, neu'r pechadur esgeulus? Trwy ysbaid ei flynyddoedd ofer, yr oedd mil o wirioneddau gwerthfawr yn gorwedd heb eu canfod, mil o ofalon pwysig yn cael eu llwyr ddibrisio: ond, pan mae Dwyfol ras yn chwalu y llewyrch

twyllodrus, yr hwn a ddallai ei ddealldwriaeth, a lithiai ei serchiadau, yna mae efe yn dechreu canfod, canfod yn wanaidd, y pethau a berthynant i'w heddwch; mae rhyw gynghor o'r ysgrythyr yn ergydio argyhoeddiad i'w enaid, fel mae godywyniad seren yn saethu trwy dywyllwch y nos:—yna, fe allai, mae rhyw destyn ofnadwy, neu gysurus arall, yn argraffu dychryn, neu yn tywallt dyddanwch; mae bygythiad yn cyffroi ei ofnau, neu addewid yn deffroi ei obaith: canlynir hyn, fe allai, gan ryw oruchwyliaeth drallodus o eiddo Rhagluniaeth, a dygir ef ymlaen ymbhellach gan ymddiddan addysgiadol; sefydlir y cwbl gyda golwg ar ei barhad, ac äangir ef yn ei ddylanwadau, trwy fyfyrdod dyfal yn y gair sanctaidd.—Trwy'r moddion hyn, mae gwirioneddau newyddion yn tywallt eu tystiolaeth yn barhaus; mae golygfeydd o hyfrydwch pur a dyrchafedig, ond anadnabyddus hyd yn hyn, yn eu hannerch yn barhaus â'u deniadau: mae dymuniadau newyddion yn cymmeryd yr adain, a chanlyniadau newyddion yn cael eu gosod ar droed: mae agwedd newydd o feddwl yn ffurfio ei dymher; a dull newydd o ymarweddiad yn rheoleiddio'i fywyd: mewn gair, “ yr hen bethau a aethant heibio, a gwnaethpwyd pob peth yn newydd:” efe, yr hwn gynt oedd yn dywyllwch, a wnaed yn oleuni, yn fywyd, a llawenydd yn yr Arglwydd.

Po manylaf y syllwyf ar y ceuedd grisialaidd, mwyaf yr wyf yn canfod gwychder ei addurniadau: mae helaethrwydd o oleuadau llai, y rhai a orweddent yn nghudd ar olwg arwynebol, yn weledig wrth sylwi yn fwy craff; yn enwedig yn y rhan hòno o'r wybr a elwir y Caergwydion, a gwelir hwynt yn fath o lwybr

llaethog. Yno mae'r ser wedi eu pentyru, yn hytrach ná'u taenu ar led; mae'r holl oror yn ymddangos yn fflag gan eu pelydr unedig.—Heblaw yr afradlonedd maith hwn, a we' fy llygad yn fy sefyllfa bresenol; pe cymmerwn olwg oddiar ryw fan arall yn nes i'r dehau, canfyddwn gôr newydd o gyrph serenog, y rhai ni ymddangosasant erioed yn ein terfyngylch ni.—Pe edrychwn ar yr wybrenau (yr hyn sy'n rhyfeddach etto) yma neu yno, trwy wydrau y sywiedydd, mi a gawn allan dorf aruthr o belau fflamlyd, y rhai, yn suddedig yn nyfnderau'r awyr, a ddiangant sylw y llygad craffaf heb gynnorthwy:*—etto, yn y sefyllfa oedd gwahanol, a thrwy gynnorthwy y drych pell-ganfyddol, ni allwn ganfod hanner, fe allai, mo'r filfed ran, o'r goleuadau mawryddig hyny, a gynnwys y nefoedd äang llydain: †—felly, po manylaf y chwiliwyf oraclau tragywyddol y gwirionedd, yr ysgrythyrau, yr wyf yn cael ystor llettach, dyfnach, cynnyddol, o drysorau ysbrydol: yr wyf yn canfod llinellau dys-claeriach o ddoethineb, ac amlygiadau cyfoethocchach

- Tyr'd allan, ddyn, golyga'r äangder llasar fry,
A'r lampau aur yn tywallt tragwyddol ddydd y sy.
Dwg allan dy bell-ddrychau; a sych dy lygaid syn:
Mil miloedd a ymgodant tu hwnt i'r miloedd hyn:
Edrycha 'mhellaach etto:—mae rhif myrddiynau'r gwllth
Yn fflamio mewn wybrenau anfeidrol bellach byth.

Gwel Gerdd gywrain, a elwir *The Universe*.

† Mor ardderchog, a'i hystyried yn yr olwg hyn, yw y glodforedd o'r Mawrhydi Dwyfol, a welir mor aml yn yr ysgrifeniadau sanctaidd! "Yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd," Psal. xcvi. 5.—Y fath urddas aruthr mae'r ystyr hyn o bethau yn roddi i'r haerriad duwiol hwnw o fawl! "Tydi yn unig wyt Arglwydd; ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt," Neh. ix. 6.—A'i phrofi wrth y rheol hon, mae'r esgyniaeth yn ein hemyn ysbrydoledig yn ddi-gymhar odidog. "Molwch Ef, haul a lleuad: molwch Ef, yr holl ser goleuni: molwch Ef, nef y nefoedd," Psal. cxlviii. 3, 4.

o ras; tra rhagorach godidogrwydd yn y Messia ardderchog, a thra gresynach gwaelder mewn dyn syrthiedig; purdeb mwy difrycheulyd yn nghyfraith Dduw, a rhagorfreintiau gwerthfawroccach yn yr efengyl: etto, ar ol hynt o'r myfyrdod dyfalaf a hwyaf, byddai genyf reswm i gydnabod fy hun yn unig yn faban mewn gwybodaeth nefol; neu, o fwyaf, ond ysgolhaig bachgenaidd yn ysgol Crist.

Ar ol y sylliad manylaf, nid yw'r pelau serenog yn ymddangos ond megis pigynau llewyrchus: hyd yn oed y planedau, er cymmaint yn nes at ein trigfa ddaearol, ni ymddangosant ond fel boglynau tanllyd. Os yw ein hamgyffrediadau am bethau sylweddol a gweledig, gan hyny, mor amherffaith, pa faint mwy prin ac anghyfartal raid fod ein syniadau am wrth-ddrychau anweledig ac anfarwol?—Yr ydym yn gweled y ser: er fod pob un yn anghymharol fwy na'r belen a gyfanneddwn ni; etto maent yn darfod, pan edrychom arnynt, i'r ffurfiau lleiaf. Fel hyn, trwy ffydd, yr ydym yn gweled gogoniant y bendigedig Iesu; effeithioldeb iawnol ei farwolaeth; teilyngdod cyfiawnhaol ei gyfiawnder; a'r llawenydd sydd yn nghadw i'w ganlynwyr. Ond, Och! mae ein drychfeddyliau uchaf ymhell islaw'r gwirionedd; gymmaint islaw'r gwirionedd, ag yw adroddiad ein llygaid am y cyrph nefol hyn, islaw eu rhwysg-fawredd gwirioneddol.—Pe cymmerem i mewn yr holl gynnorthwyon a drefnodd celfyddyd, y cyrph goleu hyn a ogelent ein medr, ac a ymddangosent cyn lleied ag erioed. Pe teithiai un o breswylwyr y ddaear tua gortho y nef, a chael ei gludo rhagddo ar ei daith awyrol dros gant a thrugain buna o filldir-

oedd;* etto ar ol myned mor bell, ni ymddangosai y moroedd hyn o dân ddim mwy ná brychau gloywon. —Yr un modd, meddylwch mor fawr ag y mynoch am anrhydedd y Gwaredwr, ac am y gwynfyd a bwrcasodd efe i'w bobl, etto chwi a fyddwch yn rhy fyr. Codwch eich amgyffred yn uwch; estynwch eich dyfais ymbellach; rhoddwch iddynt yr holl ryddid a ddichon dychymmyg esgynol a chrwydrol ei gymmeryd; byth byddai eich syniadau yn anghyfartal iawn â'u perffeithderau pur.—Meithion yw y cyrph a dreiglant yn äangder y nef; llawer meithach yw y maesydd o awyr trwy y rhai y rhedant eu cylchoedd diderfyn; ond mae rhagoroldeb Iesu, a'r dedwyddwch a barottodd efe i'w weision, yn fwy nag un, ná'r ddau, ná'r cwbl! Mae ysgrifenydd ysbrydoledig yn galw'r blaenaf, yn "Anchwiliadwy olud Crist;" a'r olaf, yn "Dra rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant."

Os yw y ser hyny yn gynifer o ystordai diyspydd o dân, a chronfâau dirfawr o oleuni; nid oes lle i ammau nad oes iddynt ryw ddybenion mawr, cymbwys i'w rhwysg. Mae yn annichonadwy nodi ac egluro y bwriadau neillduol a atebant, yn ein sefyllfa bresenol o bellder ac anwybodaeth. Hyn, pa fodd bynag, a ellir ei ddirnad yn amlwg; maent wedi eu trefnu yn y dull mwyaf boddhaus a gwasanaethgar i ddynolryw.—Ni chyflewyd hwynt mewn pellder anfeidrol, yn y fath fodd ag i fod tu hwnt i'n golwg; ni ddygwyd

* Pa mor anghredadwy bynag y dichon hyn ymddangos, nid llettyb yn unig ydyw, eithr gwirionedd sicr: canys yr ydym ni, o ddeutu yr 21ain o Ragfyr, uwchlaw 160,000,000 o filldroedd yn nes i ranau gogleddol yr wybr, nag ydym ar yr 21ain o Fehefin: ac etto, gyda golwg ar y ser yn y parth hwnw, nid ydym yn gweled un cyfnewidiad yn eu pryd, nac un cynhyddiad yn eu maintoli.

nwynt ychwaith mor agos i'n trigfa ag i'n niweidio â'u pelydr. Yr ydym yn eu gweled yn llewyrchu o bob tu: mae'r llasar dwn, sydd yn gwasanaethu fel gwaelod iddynt, yn ychwanegu eu dysclaerdeb; ar yr un pryd, mae eu heffeithioldeb yn araf, a'u pelydr yn amddifaid o wres: fel yr ydym yn cael ein hamgylchu gan dorfeydd o belau tanllyd, y rhai a addurnant ac a oleuant y ffurfafen, heb un enbydrwydd, nac i oerni y nos, nac i lonyddwch ein gorphwysdra.—Pwy all fawrygu y tiriondeb rhyfedd hwnw yn ddigonol, yr hwn, er ein mwyn ni, a daenodd y ddaear â bendithion o bob rhyw, ac a deilyngodd wneuthur y nefoedd eu hunain yn wasanaethgar i'n hyfrydwch?

Nid yn unig i harddu crommen ein palas â goreur-adau gwerthfawr, y gorchymynodd Duw i'r goleuadau nefol i serenu trwy'r tywyllwch: yr ydym yn medi lles nid bychan oddiwrth eu gwasanaeth.—Maent yn rhanu ein hamser, ac yn sefydlu ei dymhorau pwysig: maent yn penu trefn ein gwaith; ac y maent, yn ol y bwriad a grybwyllwyd yn y gair sanctaidd, “ yn arwyddion a thymhorau; yn ddyddiau a blynyddoedd.” Buasai dychweliad gwres ac oerni yn unig yn rheol rhy ansicr: ond mae'r cyrph goleu hyn, trwy amrywiad, a hefyd trwy drefnusrwydd, eu mudiadau, yn gweini trefn hollol sicr, a digonol eglur, o fwrw. Trwy hyn, addysgir y llafurwr pa bryd i draddodi'r had i'r rhychiau, a pha fodd i ddwyn gweithrediadau amaethyddiaeth ymlaen: trwy hyn, gwyr y morwr pa bryd i fyned ar ei fordaith gyda leiaf o berygl; a pha fodd i ddwyn morwriaeth ymlaen gyda fwyaf o fantais.

Paham na ddysgai'r Cristion, y prawfddyn am dragywyddoldeb, oddiwrth yr un addysgwyr, gyfrif—

i ddybenion ardderchocchach, gyfrif—ei ddyddiau; a gweithredu'n ddyledus amgylchiadau mawrion, mawrion ei iachawdwriaeth dragywyddol! Gan i Dduw drefnu cynifer o fesurwyr dysclaer ar ein hamser, i benderfynu ei dymhorau hwy, a manylu i lawr ei raddau cyffredin; yn ddiâu, mae hyn yn pwysig addysgu ei werthfawrogrwydd, a dylai ein grymus annog i'w iawn ddefnyddio.—Wele! mae y pen Arglwydd yn nodi rhediad ein bywyd yn yr amseryddyd egluraf uchod. Onid yw'r cyfryw drefniad yn dywedyd wrthym, a hyny yn y iaith ddifrifaf, fod ein bywyd wedi ei roddi i'w ddefnyddio, nid i'w wastraffu? Nad oes un rhan o hono yn cael ei draddodi, ond dan gyfrifiad manwl; ei fod oll, fel mae yn myned heibio, yn cael ei ysgrifenu yn y coflyfr Dwyfol; a chan hyny, fod goruchwylwyr y fath dalent i ddysgwyl cyfrif i ddyfod?—Wele! mae'r nefoedd yn cael gorchymyn i fod yn rhifyddwyr ein blynyddoedd, a'n misoedd, a'n diwrnodau. O! na ddysgai hyn ni i'w trefnu gyda'r cynnildeb mwyaf gwyliadwrus; i ymadael â hwynt fel cybyddion â'u trysor crugiedig, yn ochelgar a phwyllog; ac, os gellir, fel marchnat-tawyr â'u nwyfau gwerthfawr, nid heb gydwerth naill ai mewn gwellhad personol neu ddefnyddioldeb cymdeithasol.

Mor ddysclaer mae'r perlau serenog yn llewyrchu! Ni allasai uchelgais y brenhinoedd dwyreiniol ddychymmygu un rhagoriaeth uwch ac ardderchocchach, nâ chael eu cyffelybu i'r pelau pelydrog hyny.*—Maent yn cyfansoddi gwisg gyfoethoccaf y nos; ac yn seifianu ar ei mantell dywyll, fel gemau o'r gloywder

* Num. xxiv. 17. Dan. viii. 10.

teccaf. Fel gemau! yr ydwyf yn gwneuthur cam â'u cymmeriad. Nid oes yn y maen clauer ddim dysclaerdeb; mae ffiam y topas euraidd yn niffodd, wrth ei gymharu â'r rhai hyn, addurniadau ffaglog y nefoedd. Mor äang y taenir eu hanrhydedd llewyrchus! Nid oes un genedl mor bell, nad yw yn gweled eu tegwch, ac yn llawenychu yn eu defnyddioldeb: mawrygwyd hwynt gan y cenedlaethau a fuant; a phob oes a ddaw a sylla arnynt gyda hyfrydwch adnewyddol. —Mor gysurus, ynte, yw yr addewid hòno, a wnaed i weinidogion ffyddlawn yr efengyl! “Y rhai a droant lawer i gyfiawnder a lewyrchant fel y ser byth yn dragywydd.”* Onid yw hyn yn gefnogiad ennillgar iawn, “i dreulio ac ymdreulio,” yn ngwasanaeth eneidiau? Mi dybygwn, fod y ser yn awgrymu wrth lygedenu: mi dybygwn, eu bod yn dangos eu dysclaerderau i mi, i'r dyben i'm buanu yn yr yrfa a osodwyd o'm blaen; i'r dyben i'm bywiogi yn y gwaith a roddwyd i mi i'w wneuthur.—Ydwyf, addysgwyr mawryddig, yr ydwyf yn deall eich meddwl. Od oes dim swynion mewn anrhydedd; od oes mewn gwir ogoniant, y gogoniant sydd yn dyfod oddiwrth Dduw, ddim deniad; yr ydych chwi yn dangos yr annogaethau cryfaf i fod yn ddyfal yn fy ngalwedigaeth sanctaidd. O hyn allan, mi a sylwaf ar eich arwyddiad; a, phan elo fy sêl yn farwaidd, a ymdroaf at eich lampau nefol; os felly fydd, y gallwyf adennyn ei gwres oddiwrth eich tanau anniffoddadwy.

Sylwir, am y seren ogledd, tra mae goleuadau ereill yn newid eu sefyllfaoedd, ei bod hi wedi ei gosod yn

* Dan. xii. 3.

anamrywiadwy:* tra mae goleuadau ereill, yn awr yn esgyn i furiau'r nef, ac yn ymddangos ar ddyledswydd; yn awr yn ymgilio islaw'r terfyngylch, ac yn rhoddi gwyliadwriaethau y nos i fynu i res newydd; nid yw hon byth yn ymadael â'i lle: mae hon, ar bob tymhor, yn sefyll yn ddigyfnewid; ac i'w chael bob amser yn yr un oror o'r wybren ogleddol.— Fynyched y pelydrodd hon hysbysiaeth ddysclae'r morwr, gan dywys ei lestr i'r porthladd dymunol! Mewn oesoedd cynnar, nid oedd gan y rhai hyny, a aent i waered i'r môr mewn llongau, ac a wnaent eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion, braidd un cyfarwyddyd sicr arall i'w llestri crwydredig: ar hon, gan hyny, edrychent gyda'r sylw mwyaf gofalus; wrth hon, y gwnaent eu sylwadau, ac y rheoleiddient eu mor-daith: pan guddid hon gan gymhylau, neu pan oblygid hi mewn niwl, yr oedd y morwr crynedig bron gwylltu ar yr anial dyfrllyd: ymdônai ei feddyliau gymmaint a'r wanaf nofiadol; ac ni wyddai i ba le yr aethai, nac i ba le yr hwyliai: ond pan ymdorrai y seren ddedwyd hon trwy'r caddug, hi a chwalai bryder ei feddwl, ac a wnai ei daith amhbëus yn eglur; gyda bywiogrwydd yr ail-ymosodai efe ar drefniad y llyw, a galluogid ef i gyfeirio ei hynt gyda gradd ganolig o foddlonrwydd a sicrwydd.

Y cyfryw, ond ei fod yn llawer eglurach yn ei oleuni, a sicrach yn ei gyfeiriad, yw gair sanctaidd Duw i'r myrddiynau hyny o fodau deallol y rhai sy'n rhwym i'r glânau tragwyddol; y rhai, ar fwrdd llestr

* Yr wyf yn llefaru mewn cydfurfiad ag ymddangosiad y gwrth-ddrych: canys, er fod y seren hynod hon yn chwyldroi o amgylch y pegwn, mae'r cylch a nodâ mor fach, fel mae yn gwneuthur y chwyldroad a chyfnewidiad sefyllfa ond prin dirnadwy.

o gnawd egwan, sydd i fyned trwy dônau byd tymhestlog a pheryglus. Ymhob anhawsderau, mae'r dalenau sanctaidd yn tywallt paladr cefnogol; ymhob petrusder, maent yn ysibrwd y penderfyniad iawn, ac yn cyfeirio at yr ymddygiad priodol. Yr hyn sydd yn fwy anmhriadiadwy byth, fel y seren a dywysodd ddoethion y dwyrain, maent yn amlygu'r ffordd i ddyfod at Waredwr. Maent yn dangos ei rinweddau annhraethol; maent yn egluro'r llwybr i ddyfod i hawl yn ei iawn mawr; ac yn arwain yr enaid, a daflwyd gan drallodion, ac a ysigwyd gan brofedigaethau, i'r unig borthladd o orphwysfa heddychol.— Clustymwrandawn, gan hyny, â'u cyfeiriad diwyrni, gyda'r un diysgogrwydd gofal ag y sylwa'r morwr ar ei gompod: byddwn mor drwyadl gydnabyddus â'r argraff-len sanctaidd hon, ag yw'r llywydd â phob nod cywir a rydd rybudd o graig guddiedig, ac â phob ffordd agored a weina daith ddiogel i'r aber. Uwchlaw pob peth, traddodwn ein hunain i'r tywysiad difeth hyn, gyda'r unrhyw ymostyngiad ymddibynol; cydffurfiwn ein hymddygiad â'i orchymynion dyrchafedig, gyda'r un gofal diwyd ag y canlynai meibion Israel, pan yn ymdeithio yn yr anialwch anbyffordd, y golofn dân, a mudiadau y cwmwl gwyrthiol.— Felly yr arwain efe ni, nid i Ganaan ddaearol, yn llifeirio o laeth a mêl; ond i baradwys anfarwol, lle mae digonolrwydd llawenydd, a hyfrydwch yn dragywydd. Efe a'n dwg i mewn i'r gororau dedwydd, dedwydd hyny, lle “ni fachluda ein haul mwyach, a'n lleuad ni phalla; canys yr Arglwydd a fydd i ni yn oleuni tragywyddol, a dyddiau ein galar,” ynghyd â lludded ein pererindod, a “ddarfyddant.” (Esa. lx. 20.)

Yr wyf yn canfod gwahaniaeth mawr yn maint a dysclaerdeb gemau y nefoedd: mae rhai o'r maintioli blaenaf; mae ereill o radd is: mae rhai yn siaglo gyda fflamiau gwridiog; ereill yn godywyntu gyda gwânach pelydr; etto maent oll yn hardd; mae i bob un ei phriodol loywder, a'i defnydd gwahanol; maent oll yn tueddu, yn eu hamryw raddau, i owmalu gortho'r nef, a brodio mantell y nos.—Cymmerff sylw o'r amgylchiad hwn gan awdwr, yr hwn mae ei syniadau yn ffynnon o ddoethineb, ac yn rheol gwirionedd: “Y mae rhagor,” medd apostol y cenedloedd, “rhwng seren a seren mewn gogoniant: felly hefyd y mae yn adgyfodiad y meirw.”

Yn y byd a ddaw, mae amryw raddau o ddedwyddwch, amryw eisteddfâau o anrhydedd: cyfyd rhai i ragoriaethau ardderchocchach, a chryfach gorfoledd:* rhai, fel llestri o ängder mawr, a dderbyniant ddylifiadau helaethach o oleuni a rhagoroldeb: etto ni bydd dim eisiau, dim diffyg, ar neb; eithr cyflawnder o foddiaidau dwyfol, a pherffeithderau personol: mwynha pob un yr holl ddaioni, ac addurnir ef â'r holl ogoniant, a ddichon ei galon ddymuno neu ei sefyllfa ei dderbyn.—Ni bydd neb yn gwybod pa beth yw cenfigen. Ni bydd y drwg ewyllys lleiaf, nâ'r hunanoldeb lleiaf, eithr cyfeillgarwch tragwyddol a deyrnasa, ac ymfodddhad cyffredinol yn hyfrydwch eu gilydd. Cariad, cariad gwresog, a rydd i bob sant neillduol gyfranogiad o'r holl fwynhad,† a dywelltir

* 1 Cor. xv. 41, 42. Mae'r enwog Dr. Mede yn rhoddi'r flaenoriaeth i'r ystyr a roddwyd uchod; a'r dysgedig Dr. Hammond yn ei dderbyn i'w aralliad: awdurdod unedig y rhai, er ymhell o gau allan un ystyr arall, sydd yn ddigonol dros gymhwyso y geiriau fel hyn.

† Tolle invidiam, et tuam est quod habeo. Tolle invidiam, et meum est quod habes. *Augustine.*

trwy holl gynnulleidfa y rhai gwynfydedig.—Nid oes un yn cymhylu, eithr pob un yn adlewyrchu goleuni ar ei frawd. Mae yno gydnewidiad melus o belydr; pawb yn cael eu goleuo gan y ffynnon fawr, a phawb yn goleuo eu gilydd. Trwy yr hwn gymmundebylchgyfnewidiol o hyfrydwch a chariadoldeb, bydd pob un yn barhaus yn derbyn oddiwrth, ac yn ychwanegu at, y dedwyddwch cyffredinol.

Dedwydd, rhagorol ddedwydd, ydynt hwy, y rhai a dderbynir i'r trigfanau nefol. Gwell yw cadw'r drws yn "y palasau ifori" hyny,* nâ llanw'r orsedd fwyaf rhwysgfawr ar y ddaear. Mae'r lle isaf ar ddeheulaw Duw yn anrhydedd uchel, a gwynfyd perffaith.—O! na ragbrofem, i ryw fesur, y sefyllfa wynfydedig, tra yr ymdeithiom yn ein alltudiaeth yma isod! Na byddai i ni, trwy lawenychu yn rhagorach llwyddiant y llall, ei gwneuthur yn eiddom ni! A chan fod y canlyniad cyffredinol yn beroriaeth, fod yn dawel, yn foddllawn, i'n rhan yn nghydrerdd fawr ein hamgylchiadau.

Tra'r ydwyf yn ystyried y cyrph nefol, rhaid i mi beidio llwyr anghofio cyfreithiau sylfaenol ein seryddiaeth ddiweddar, tafliad allan a thyniad: y naill o'r rhai yw cydiad holl-gyssylltol, a'r llall gwrthiedydd holl-weithredol, y cyfansoddiad cadarn.—Yn y dechreuad, y 'bydded' mawr holl-grëedigol a argraffodd radd briodol o fudiad ar bob un o'r rhodau chwyldroiol hyn: yr hwn, heb ei oruwch-reoli, a'u dygai hwynt ymlaen, mewn llinellau cywir, i bellderau diddiwedd, nes collid hwynt yn nyfnderoedd ängander: ond y briodoledd ddyscyrchaid, wedi ei hychwanegu at y grym tafliadol, a benderfynodd eu teithiau i ffurf

* Psal. xlv. 8.

gylchaidd,* ac a rwymodd y crwydrwyr gwrthymdynol i gyflawni eu sidell-droion gosodedig.—Pe peidiai un o'r achosion hyn a gweithredu, annhrefnid yr holl rodau cyson-fudol, a dirywient yn bentyrau marwaidd syrthlyd; a chan syrthio i'r tân canol-byngciol, a losgid yn lludw: neu ynte a gyfeiliornt i gymmysgedd wyllt; a phob un, trwy chwynder ei chwyldro, a chwelid yn ddrylliau. Ond gan fod y grym taffiadol a dyscyrchol, wedi eu cyd-dymheru mor gynnill; ac yn gweithredu mewn cysondeb parhaus â'u gilydd, dan olygiad digyfrwng yr Arglwydd; mae'r pelau llewyrchus yn rhedeg eu cylchoedd amrywiol yn barhaus, heb y rhwystr nâ'r gwyrni lleiaf; fel y maent yn creu cyfnewidiadau cylchredol dydd a nos, ac yn rhanu cylchgyfnewidiadau defnyddiol y tymhorau olynol; fel ag i ateb dybenion grasol Rhagluniaeth, a dwyn pob cyfaddasiad cysurus i natur gyffredinol.

Onid yw y cyfansoddiad hwn yn y byd sylweddol, yn tywys ein meddyliau yn naturiol iawn at y prif egwyddorion hyny yn y byd moesol a chrefyddol, ffydd a chariad?—Clodforir y rhai hyn yn aml, gan yr

* Yr wyf yn gwybod, nad yw rhodau y planedau yn eithaf cylchaidd, eithr yn hytrach yn hirgrwn; pa fodd bynag, gan nad oes fawr rhyngddynt a bod yn berffaith grynion, a'u bod yn anghymharol fwy felly nâ thaffiadau y ser gwibiog, myfi a ddewisais ddangos y peth yn yr olwg hyn; yn enwedig, gan fod y dyb o gylch yn fwy dealladwy i'r darllenywyr yn gyffredin, nâ dull hirgrwn; ac o herwydd i mi ei wneuthur yn rheol, i beidio arfer un syniad anhawdd, neu ymadrodd aneglur, a ofynai sylw poenus, yn lle cyffroi meddwl hyfryd. O blegid yr un rheswm, mi a ochelais eiriau celfyddus; ni chymmerais un sylw o leuadau Iau, na modwy Sadwrn; na chymmaint a chrybwyll enwau y planedau, na chynnyg rhydio i ddyfnderau gwyddiad: rhag i mi ymddangos i'r rhai nid oes ganddynt gyfleusdra i ddefnyddio y pell-ddrych, neu ddyfod yn gydnabyddus â chyfundrefn seryddiaeth, yn ddyfeisydd adamhegion, yn hytrach nag eglurydd gwirioneddau buddiol ac addysgiadol.

apostol ysbrydoledig, fel crynodeb cynnwysfawr o'r efengyl:* y rhai hyn sy'n bywiogi mynwes, ac yn trefnu ymddygiad, pob Cristion neillduol. Y rhai hyn sy'n uno holl gynnulleidfa'r ffyddloniaid â Duw, ac â'u gilydd: â Duw, y canol-bwngc mawr, yn rhwymau diolchgarwch ac addoliad; â'u gilydd, trwy gyweithas gylchgyfnewidiol serchiadau a swyddau cyfeillgar.— Os gofynir, Paham nad all y gwir gredadyn fyw ar bob antur? ceulo mewn diogi, neu wro'n reddfol oddiwrth bob dyledswydd?—Yr wyf yn ateb, o herwydd ei “ffydd, yr hon sydd yn gweithio trwy gariad;”† mae yn hyderu yn ddiogel, fod Crist wedi dwyn y gwarth, a dyoddef y boen, dyledus i'w bechodau: mae efe yn ymorphwys yn ddiysgog ar y iawn Dwyfol hwnw, am faddeuant o'i holl euogrwydd; ac yn dysgwyl yn ostyngedig am iachawdwriaeth dragywyddol, fel pwrcas teilyngdod ei Iachawdwr. Mae hyn yn ennyn y fath ysbryd o ddiolchgarwch, ag sydd yn puro ei dueddiadau, ac yn bywiogi ei holl ymddygiad. Ni all, ni ddichon efe redeg i ormod-rhysedd; canys mae cariad ei Waredwr addoladwy fel genfa gref, ond sidanaidd, yn ei felus attal: ni all, ni ddichon efe orwedd wedi ei suo i ddiogi marwaidd: canys mae cariad yr unrhyw gymmwynaswr anfeidrol, fel yspardyn llym, etto hoff, yn ei gymhell ef yn foddhaus.—Mewn gair, mae ffydd yn gweithredu fel cymhelliad galluog, tra mae cariad yn penderfynu'r cyfeiriad, ac yn tywys y camrau ewyllysgar trwy holl gylch gorchymynion Duw. Trwy effeithioldeb unedig y grasau nefol hyn, mae ymddygiad y Cristion yn cael ei ddiogelu yn unffurfiad a harddwch sancteiddrwydd;

* Col. i. 4. Philem. adn. 5. † Gal. v. 6.

megis y mae y gyfundrefn heulog, trwy rym cyssylltiedig yr egwyddorion Newtonaidd hyny, yn chwyldroi mewn trefnusrwydd diysgog a mawryddig.

Mor rhyfedd, mor llydan, mor amrywiol, yw grym yr un egwyddor hon, tyniad!*—Mae hon yn treiddio i hanfod yr holl gyrph, ac yn ymledu trwy derfynau pellaf y gyfundrefn fydol.—Trwy hon mae'r bydoedd, wedi eu bargraffu â mudiad, yn dibynu yn hunainfantolaidd ar eu canolau;† ac er yn rhodau o faint dirfawr, heb lysu dim ond y briodoledd ryfedd hon, er eu cynnal.—I hyn yr ydym yn priodoli rhyfeddod arall o natur wahanol iawn, gwasgiad yr awyrgylch; yr hon, er yn hylifedd ymollyngar ac ymdaenol, etto, wedi ei thewychu ynghyd gan y grym tyniadol hwn, mae hi yn amgylchu yr holl belen, ac yn amgaead pob creadur, megis mewn rhwymyn tyn: mae hyn yn beth anhepgorol angenrheidiol i ddiogelu cymblethiad ein cyrph, ac, yn wir, i gynnalïaeth pob rhyw o fodoliaeth fywydol.—Tyniad! trwy gymhelliad yr egni rhyfedd hwn, mae'r afonydd yn rhedeg, yn llawnion a dibaid, ymysg holl genhedloedd y ddaear; yn ysgubo gyda chwyrnder dros y llethri, neu yn llifo'n araf trwy'r gwastadedd. Trwy gymhelliad yr un grym dirgelaidd, y didolir y noddau maethlawn o'r tir; a esgyn i'r coed, y cânt allan eu ffordd trwy fyrddiynau o droellau manylion, mewn trefn i dywallt bywyd llysieuog trwy'r canghenau.—Hwn sydd yn cyfyngu y môr o fewn ei derfynau priodol: er i'w dônau ruo; er iddynt dafu eu hunain gyda holl wallgofrwydd lliid cynddeiriog; etto, wedi eu hattal gan yr enfa nerthol

* Yr ydwyf yn golygu tyniad *dyscyrchiad* a *chydlyniad*.

† *Ponderibus librata suis.*

anocheladwy hon, ni allant fyned dros derfyn distadl y tywod. I hyn mae'r mynyddoedd yn ddyledus am y cadernid digryn hwnw, yr hwn a chwardd am ben rhuthr corwyntoedd chwyrnion, ac a bair i'r dymhestl, gyda'i holl ddychrynfeydd cymmysgedig, i lidio'n egwan.

Trwy rin y peiriannyddiaeth anweledig hwn, heb gynnorthwy dirwynlath na chwerfan, nac un offeryn o ddyfais dyn, codir llawer mil o dynelli o ddwfr, bob munud, i ororau'r ffurfafen. Trwy hwn arosant yn nghrog yn yr awyr deneu, heb un pydew äang i gynnwys eu sylwedd, na dim colofnau cedyrn i ddal eu pwysau. Trwy weithrediad arall o eiddo'r un gallu, dychwelant i le eu preswylfod enedigol, wedi eu defnyddu yn ddiferiadau araf o wllith, neu eu prysuro yn gawodydd chwyrnion o wlaw; llithrant i'r maesydd yn hediadau cnuog o eira, neu chwyrnellir hwynt ar ein tai yn dymhestloedd trystiog o gesair.—Hwn sydd yn achosi cydlyniad cadarn cyrph celyd; heb yr hwn, gallai ein peiriannau mawrion ymegnio yn ddirym, a dodrefn cynnilach bywyd a dwyllai ein dysgwyliadau am wasanaeth oddi wrtho. Hwn sydd yn gweini sylfaen i'r holl gelfyddydau dybanaidd manwl neu odidog, y rhai a gynnysgaeddant ddynolryw â chyffaddasiadau aneirif er addurn a hyfrydwch. Yn fyr, dyma'r balaswrn aruthr sydd yn gwneuthur i fynu gydbwys, ac yn cyfansoddi diysgogrwydd pethau: dyma'r gadwyn fawr sydd yn ffurfio cyssylltiadau natur gyffredinol; a'r ermyg cadarn sydd yn cymbell, yn rhwyddhau, ac, mewn mesur mawr, yn cyflawni ei holl weithrediadau.—Pa effeithiau cymblethedig oddiwrth yr un achos! pa afradlonedd ymysg cyn-

nildeb! Afradlonedd anadnabyddus o fendithion, gydag eithaf cynnildeb traul!*

A pha beth yw'r tyniad hwn? A yw efe yn briodoledd yn ei fodoliaeth anysgaradwy oddiwrth sylwedd, ac yn ei weithrediad anymddibynol ar y *Duwodod*?—Llwywr wrthwynebol. Bys Duw yw efe; argraff gyson y gallu dwyfol: egwyddor heb fod nac yn gynhenid mewn sylwedd, nac yn ddealladwy i farwolion.—Onid yw efe, pa fodd bynag, yn dwyn cyffelybrwydd mawr i oruchwyliaeth yr *Ysbryd Glân*, yn y gyfundrefn Grist'nogaidd? Onid yw gweithrediadau y gwynfydedig Ysbryd fel hyn yn äang, yn rhyfeddol, ac amrywiol?—Mae'r Bod hollalluog hwnw yn taenu ei roddion trwy bob oes, ac yn cyfranu ei rasau i bob un a lyna wrth y Gwardwr: i gyd, naill ai o goffadwriaeth ardderchog, neu o duedd fendithiol; mewn gair, "yr holl ddaioni a wneir ar y ddaear, mae efe yn ei wneuthur ei hun." Yn gryfion yn ei gymhorth, ac yn nerth ei gadernid ef, y saint ymhob oes a sathrasant ddrygioni dan eu traed, a ymorfoleddasant dros y byd gwael hwn, ac a rodiasant â'u hymarweddiad yn y nef, tra preswyliant ar y ddaear. "Nid myfi, ond gras Duw yr hwn a roddwyd i mi,"* yw eu cydnabyddiaeth hwynt oll o unfryd.—Trwy yr unrhyw gynnorthwyon y goleuir, bywiocceir, a llywodraethir yr holl eglwys byth. Trwy ei ddylanwadau tirion ef, mae cèn anwybodaeth yn syrthio oddiar y deall; glanheir gwa-hanglwyf trachwant pechadurus oddiar yr ewyllys; ac mae'r llyfetheiriau, llyfetheiriau mwy nag adamant-

* Gwel anghraifft nodedig arall o'r natur hyn yn yr Adfyfyriadau ar Ardd Flodau, tu dal. 134—ynghyd â sylwad godidog, wedi ei ddifynu yn y nodiad perthynol.

* 1 Cor. xv. 10.

aidd anwiredd greddfól, yn cwympo oddiwrth yr ymarweddiad. Mae efe yn anadlu ar yr esgyrn sychion,* ac y maent yn byw: bywioceir hwynt á ffydd; hiraeth gyda dymuniad gwresog a sanctaidd; maent yn ymarfer eu hunain yn holl ddyledswyddau duwioldeb.—Mae ei ysbrydoliaeth sylweddol, er yn ddirgel, yn toddi'r gallestr yn y fynwes anedifeiriol, ac yn rhwymo tristwch y galon ddrylliedig; yn codi y meddyliau yn uchel, yn nyrchafiad gobaith sanctaidd; etto yn eu gosod yn isel, yn narostyngiadau gostyng-eiddrwydd tufewnol: yn caledu'r enaid a phenderfyniadau annbreiddiadwy, a chalondid dyfalbarhaus; ar yr un pryd, yn ei feddalhau i larieidd-dra colommenaid, ac yn ei doddi mewn tristwch edifeiriol.

Tra'r ydwyf yn myfyrio ar yr adeiladau meithion a mawryddig, a godwyd dros yr holl wastadedd wybrenol:—tra'r ydwyf yn edrych ar gynifer o drysorffâu dysclaer o oleuni, neu drigfanau ffrwythlawn bywyd:—tra'r ydwyf yn cofio, gall fod rhodau ereill, llawer pellach ná'r rhai hyn a ymddangosant i'n golwg ddi-gynnorthwy ni; rhodau, y rhai mae eu goleuni, er teithio er dechreu'r grëedigaeth, heb gyrhaedd ein byd ni etto:†—tra'r ydwyf yn estyn fy meddyliau at y

* Gwel y darn prydferth hwnw o arluniaeth sanctaidd allegol yn cael ei arddangos, Ezec. xxxvii.

† Os yw y dyb hon (awdwr yr hon nid yw yn llai person ná'r clod-fawr Mr. Huygens) ynghylch ser anweledig, yn wir—os ychwanegir at hyn, yr hyn a ddywed ein seryddion celfydd, fod mudiad pelydr y goleuni mor gyflym, fel y mae'n tramwy dros ddeg buna (10,000,000) o filldroedd mewn un funud—morfaith, maith tu hwnt i ddychymmyg, yw éangderau y bydysawd!—Tra mae'r meddwl yn lledu ei hun gyda'r meddyldrych mawryddig; neu, yn hytrach, tra mae efe yn egnio ei alluoedd cryfaf o farn dreiddgar, a dychymmyg grwydrol; ac yn eu cael oll yn rhy fyr, oll wedi eu siomi gan y testyn aruthr; goddefer i mi gymhwyso y dywediad bywiog, a'r nodiad ardderchog hwnw—

graddau aneirif o fodau a gyfanneddant yr holl gyfundreithiau hyn, o'r seraph uchaf i'r ymlusgiad isaf; o'r lluoedd angylaidd a amgylchant orsedd Jehofa, at y cenedloedd bychain a drwythant wyneb yr eirinen* & glasni, neu a fantellant y llyn llonydd & gwyrddni:—mor amrywiol yw y tyrch yn y gadwyn fawr hon! mor faith yw y graddau yn ngblorian gyffredinol bodoliaeth! Etto mae y rhai hyn oll, pa mor faith ac amrywiol bynag, yn weithredoedd llaw Duw, ac i gyd yn llawn o'i bresenoldeb.

Yn nghledr ei law y crynnodd efe y pelau arswydus fawrion hyny, y rhai sydd ynghrog yn mwd y nef: efe a ennynodd y fflamiau aruthr ddysclaer hyny, a lanwant y ffurfafen & ffrwd o ogoniant. Ganddo ef y dibynwyd hwynt yn yr awyr hylif, fel nad ysgoger: trwyddo ef maent yn cyfranu llanw parhaus o belydr, na ddiffoddir un amser.—Efe a ffurfiodd, gyda chynnilddeb anbraethol, y cynnulliad manyldeg hwnw o bibelli, y lliosogrwydd anadnabyddus hwnw o ffynnonau meindeg, y rhai a gydosodant ac a weithredant gyfansoddiad y pryfed lleiaf. Mae efe yn peri i'r ffrwd borphor

————— Gylch balch, dywed,
 A wnaed gan ddwyfol uchel-gais; a wnaed
 Yn wawd ar derfyn; wnaed wrth archwaeth nef;
 Faith geuedd! adail faith! A drefnwyd ti
 Yn rhandy cymhwys i'r anfeidrol Dduw?
 Nid felly; nafa'r meddwl hwnw'th rwyg:
 Dy uchel sudda; a basha dy ddwfn;
 A'th eang a gyfynga—

Night Thoughts, No. ix.

- * Yn nglasni'r eirinen ddanteithiol ei hun,
 Mae byd ☉ fywiqlion nas gwelir gan ddyn;
 Ei hannedd drigiannol ganfyddir gan Dduw,
 Lle profa myrddiynau ei haelder a byw.

Gwel Gerdd addysgiadol a hardd, a elwir *Deity*.

redeg, y mudiadau bywydol chwareu, ac yn cydgrynhoi byd o ryfeddodau mewn pigyn bywydol.*—Yn y rhai hyn oll mae amlygiad nodedig o allu crëedigol; i'r rhai hyn oll lledir gofalon hynod daioni diogelol. Oddiwrth hyn, dysgwyf ymorphwys ar ragluniaeth, a mawrhau presenoldeb, y Mawrhydi goruchel.

I ymorphwys ar ei ragluniaeth.—Canys, ymysg yr holl amrywiaeth o fodau a heigiant trwy ororan y grëedigaeth, nid oes un yn cael ei anghofio, nid oes un yn cael ei esgeuluso, gan Achos mawr hollalluog pob peth: pa mor ddistadl bynag yn ei gymmeriad, neu fychan yn ei faint, byth mae efe yn gynnyrchiad y Gwneuthurwr cyffredinol, ac yn perthyn i deulu y Tad hollalluog.—Er fod archangylion gorseddedig yn mwynhau gwenau ei wyneb, etto nid yw trigolion isel y ddaear, abwydon gwaelaf y llawr, yn cael eu cau allan o'i ofal rhagluniaethol: er fod amlygiad ei berffeithderau yn cael ei deilyngu i hanfodau pur a deallol, mae ei glust yn agored i lef cyw y gigfran; mae ei lygad yn sylwi ar anghenion a daioni crëaduriaid gwaelaf natur.—Pa faint llai yr esgeulusa efe ei bobl ei hun? Y rhai hyny y traddododd efe ei anwyl Fab i farw drostynt, ac i'r rhai y parottodd efe drigfanau

* Mae creaduriaid byw llawer llai nâ'r gwyddon. Mae Mr. Bradley, yn ei Draethawd ar Arddwriaeth, yn crybwyll am drychfilyn, yr hwn, ar ol manwl sylw, a gafodd efe fod fil o weithiau yn llai nâ'r tywodyn gweledig lleiaf: etto mae'r cyfryw drychfilyn, er yn hollol annirnadwy i'r llygad noeth, yn gawrfil, yn forfil, mewn cymhariaeth i filod, agos anfeidrol lai, a ddarganfu Mr. Lewenhoeck.—Os ystyriwn ni yr amryw aelodau, a gyfansoddant y fath ronyn rhanol; y gwahanol wythi, a weithredant y cyfryw aelodau; a'r ffrydiad o ysbrydoedd, anghymharol deneuach, a osodant y gwythi hyn ar waith; y didoliadau gwahanol a gyflawnir; ynghyd â bychander y sylweddau, cyn y cyrhaeddont lawn dwf; heb grybwyll ereill rhyfeddach o leihad; yn ddiau bydd genym y rheswm mwyaf i gydnabod, fod y Gwneuthurwr addoladwy—*maximus in minimis*—yn dra gogoneddus yn ei weithredoedd lleiaf.

llawenydd tragywyddol? Eu hesgeuluso hwynt! na: cedwir hwynt “fel canwyll ei lygad.” Mae gwallt eu pen dan rif. Gall y fam dyneraf anghofio'r maban a faldodir ar ei gliniau, ac yn sugno'i bronau,* yn gynt o lawer nag y gall Tad y tosturiaethau attal neu laesu ei dynerwch gwyliadwrus am ei bobl—ei blant—ei etifeddiion.

Dysged hyn i mi hefyd ystyriaeth fywioccaf o'r presenoldeb Dwyfol.—Mae'r holl fydoedd a dreiglant uchod, yr holl ronynau byw isod, ynghyd â'r holl fodau a gyfryngant rhwng yr eithafoedd llydain hyn,

* Esa. xlix. 15. “A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturia wrth fab ei chroth? Ië, hwy a allant anghofio; ond myfi ni'th anghofaf di.”—Mor dyner a ddesgrifiadol yw y darluniadau yn yr ysgrhythyr hyfryd hon! Mor hardd, os edrychir arni mewn golwg feirniadol; mor llawn o ddyddanwch, os ystyrir hi mewn golwg grediniol! A all “gwraig?” un o'r rhyw dyneraf, yr hon mae ei natur yn fwy meddal, a'i theimladau yn neillduol dirion—a all y gyfryw un, nid yn unig fod yn ddiolaf am, ond llwyr “anghofio;” nid attal ei swyddau tyner am ychydig, ond hollol ddileu o'i chof—ei “phlentyn;” ei heiddo ei hun, nid eiddo arall; ei phlentyn, a ffurfiwyd yn ei “chroth,” yr hwn sydd yn rhan o honi ei hun?—Ei “mab;” un o'r fath fwyaf o bwys, a chan hyn y mwyaf dymunol; i'r hwn y perthyn yn neillduol i ddiogelu'r teulu, a chadw'r enw i fynu?—Ei “hung” fab; canys mae'r gair yn y rhif unigol; ac yn perthyn i amgylchiad, lle mae'r hil, am nad yw yn lliosog, eithr yn canoli mewn un enedigaeth, yn gynnyrchol o'r hoffder anwylaf—a ddiosga hi ei hun o bob gofal am y fath blentyn; nid pan dyfo efe i'w faintioli, ond tra mae efe yn ei sefyllfa fabanaidd, ac yn ymddibynu am ei holl dynerwch i'w gofal hynaws; tra gorwedd efe yn ei mynwes, y gorphwys ar ei braich, ac y “sugna” ei bron?—yn enwedig os bydd y truan diniwed mewn rhyw boen mawr, neu gystudd llym; ac felly yn wrthddrych “tosturi,” yn gystal a chariad. A wrendy hi ei lefau treiddgar; a edrych hi arno yn aflonydd, yn ddinawdd, a than ei doster; ac heb deimlo cyffroadau tosturi mam?—Os ceir un anghenfil diddynoliaeth o'r fath, a all pob, (yma mae'r prophwyd, i roddi'r grym mwyaf i'r gymhariaeth, yn cyfnewid yr unigol i'r rhif lliosog. Nid מן בן, *gam hia*, neu מן בן, *gam acheth*; ond, מן בן, *gam elleh*), a all pob mam fod mor ysgeler? Yn ddiâu, ni ellir meddwl hyn, nid rhaid ofni hyn. Llauer llai rhaid i'r gwir gredadyn ofai y palla fy nhwynerwch i. Haws credu y diffydd holl serchiadau cryfaf natur, nâ meddwl y byddaf fi byth yn ddifater am fy mhobl, neu yn ddiolaf am eu llea.

yn dystion o Dduwdod byth-bresenol. "Ni adawodd Duw mo hono ei hun yn ddiyst." Canfyddir ôl ei draed ymhob lle, a gwelir cyffyrddiadau ei fysedd ar bob creadur. "Agos yw dy enw," O dydi holl-gyn-naliol, holl-dywysol Arglwydd, "a'th ryfeddodau a fynegant hyny."* Mae dy ddaioni yn cynnesu yn haul y bore, ac yn adfywio yn awel yr hwyr: mae dy ogoniant yn llewyrchu yn lampau canol-nos, ac yn gwenu yn mhlagur gwanwyn; yr ydym yn olrhain dy fawredd anamgyffredadwy yn meithder diderfyn pethau, a llinelliad o'th fedrusrwydd celfydd yn y gwreichion bywyd hyny ar ddiffodd, yr hil drychfil-aid.—Mor syfrdan yw fy nghalon, yr hon, ymhlith y fath dorf o goffiawyr, yn tyrru ar bob tu, a'th anghofiai di am un funudyn! Caniatta i mi, tydi yr YDWYF mawr; tydi dechreuad a chynnaliaeth bodoliaeth gyffredinol—O! caniatta i mi lygad wedi ei oleuo, i'th ganfod di ymhob gwrthdritch; a chalon wresog i'th addoli ar bob amgylchiad. Yn lle byw heb Dduw yn y byd, byddwyf bob amser gydag ef, ac yn gweled pob peth yn llawn o hono ef!—

————— Y dysclaer ser,
 A glyw'd gan glust myfyrdod, iddo *Ef*
 A ganant yn ngwylfâau canol-nos ddofn,
 Awgryma ganllaid. Chwyth y 'storm ei lid;
 Y daran yw ei lef; a'r cochion felt
 Yw cleddyf ei gyfiawnder. Rhag ei fin
 Y mynydd ffamia. Efe a sigla'r byd,
 A chryn y bobloedd. Nid yn hyn ychwaith,
 Ond ymhob peth cyffredin, gwelir Duw. *Thomson.*

Os yw y pigynau prydfferth, a dywallt noswaith ddigwmwl ar lygad yr edrychyd; os yw y goleuadau

* Psal. lxxv. 1.

ereill hyny, a belydrant o bellach wybrenau, ac nas canfyddir ond yn unig trwy'r datguddiad hwnw i'r olwg, y pell-ddrych; os yw yr holl fyrddiynau dysclaer hyny yn gynifer o ffynhonau dydd, wedi eu cyfoethogi â dysclaerdeb cynhenid ac anymddibynol, gan oleuo planedau, a bywiogi cyfundreithiau o'u heiddo eu hunain;* pa rwysg, mor fawryddig ac ardderchog, a ddangosir yn ngolygfa canol-nos! Pa oludoedd a daenwyd trwy'r holl ororau aneirif hyn o deyrnas y Jehofa mawr! Mawrhydi tu hwnt i ymadrodd!—Etto mae'r caethwas gwaelaf yn dwyn trysor gwerthfawroccach yn ei fynwes ei hun, yn meddu uwch urddas yn ei berson ei hun. Yr enaid, yr hwn sydd yn rheoli ei glai; yr enaid, yr hwn sydd yn ei ddysgu i feddwl, a'i alluogi ef i ddewis, yn ei addasu i archwaethu hyfrydwch rhesymol, ac anadlu dymuniad dyrchafedig;†—yr enaid, yr hwn a gynnysgaeddwyd â'r fath swydd-gynneddfau ardderchog; ac, uwchlaw pob peth, a wahan-nodwyd â'r cymhwysder arswydus, gogoneddus, o fod mewn poen neu wynfyd dros byth—mae yr enaid hwn yn tra-rhagori mewn gwerth ar ddim eill y llygad ei ganfod, ar ddim sylweddol a eill y ddychymmyg ddyfeisio. O flaen un bod deallol, mae holl drysor a holl fawryddigrwydd y grëedigaeth ddiddeall yn dlawd

- * A rheswm ymgynghora, d'wed rheswm yn ei iaith,
 Pob pigyn dysclaer fflemiog, fry yn yr wybren faith,
 Sy'n brawf o dëg gyfundrefn yn éangderau'r ne',
 A llanw, â gogoniant, ei osodedig le;
 A'i wawl ei hun goleua wybrenau ereill fry,
 I fydoedd, nad adwaenost, gwres a bywiogrwydd rhy'.

The Universe.

† Ar y golygiad hwn, fel wedi ei gynnysgaeddu â galluoedd, mae enaid dyn syrthiedig yn meddu mawredd ac urddas diammeuol; yn "fawryddig, er yn ddinystriol."

a dirmygus.* Dros yr enaid hwn, Hollalluogrwydd ei hun a wylodd ac a weithiodd trwy bob oes. I argyhoeddi yr enaid hwn, goruwch-reolwyd cyfreithiau sylfaenol natur, a'r gwyrthiau rhyfeddaf a synasant holl derfynau'r ddaear. I ddysgu'r enaid hwn, trawady-walltwyd doethineb y Nef i'r tudalen sanctaidd, ac anfonwyd cenhadon oddiwrth y Brenin mawr, yr hwn a drig mewn goleuni annyfodadwy. I sancteiddio'r enaid hwn, mae'r Dyddanydd hollalluog yn cymmeryd adenydd colommen, a, chyda dylanwadau melus trawssffurfiol, yn gori ar y galon ddynol. Ac, O! i waredu yr enaid hwn oddiwrth euogrwydd, i'w achub rhag uffern, crymwyd nef y nefoedd, a daeth Duw ei hun i breswlyio yn y llwch.

Bydded i mi aros ychydig ar y pwngc pwysfawr hwn.—Pa beth yw y dyfeisiau a dynant ystyriaeth teyrnolion godidog, a brenhinoedd cedyrn, mewn cymhariaeth i ddaioni mawr enaid anfarwol? Nid yw cynhaliaeth marchnattäaeth, a llwydd byddinoedd, er yn amgylchiadau pwysig iawn; etto, os gosodir hwynt yn y glorian gyferbyn â iachawdwriaeth enaid, nid ydynt, meddaf, ond ysgafnach nâ'r plufyn a bwysir yn erbyn talent o aur. Mae achub llynges rhag llong-ddrylliad, neu deyrnas rhag caethiwed, yn waredig-aethau o'r natur fwyaf pwysig ymhlith gweithrediadau

* Yr wyf yn crefu cennad i osod cyfran berthynasol ger bron, o'r campwr clodfawr hwnw mewn rheswm, a llenyddiaeth gyffredinol, Dr. Bentley; yr hwn ni all neb ddrwg-dybio ei fod dan effaith coelgrefydd nâ phenboethni.—“Os ystyriwn,” medd efe, “urddas creadur rhesymol, a'i osod yn y glorian gyferbyn a sylwedd anifeilaidd a di-enaid, gallwn hõni, heb orbriso natur ddynol, fod enaid un dyn rhinweddol a chrefyddol o lawer mwy gwerth a rhagoroldeb, nâ'r haul, a'r planedau, a'r holl ser yn y bydysawd.”—Gwel ei Bregethau yn *Boyle's Lectures*.

marwolion. Ond, O! fel y diflanant yn ddiddym, os (ac anghofio eu hargraff ar anfarwoldeb) gosodir hwynt mewn cyfartalwch â gwaredigaeth un enaid rhag poenau a dychrynfeydd tragywyddoldeb trallodus!*

A yw yr enaid anfarwol o'r fath bwys? Pa wyliadwriaeth, ynte, all fod yn ormod? yn hytrach, pa ofal sanctaidd all fod yn ddigon i oruchwylwyr praidd y Iachawdwr, a gwarcheidwaid y gadwraeth hybarch ac anmhrisiadwy hon?—Gan fod yr enaid o'r fath bwys-fawrogrwydd, oni fyddi di, O ddyn! yn wyliadwrus yn nghadwedigaeth yr eiddot dy hun? A ddeffroa pob dygwyddiad achlysurol dy sylw, pob tegan darfodedig dynu dy ofal? Ac a gaiff daioni dy enaid, gwaith sy'n cymmeryd lle yn barhaus; gwaith o ganlyniad diddiwedd, erfyn yn ofer am dy ystyriaeth ddifrif?—Dy enaid, dy enaid yw dy oll. Os diogelir hwn, yr wyt yn gyfoethog iawn, a byddi yn annhraethadwy ddedwydd: os collir hwn, yr holl fyd, er ei ennill, a'th âd mewn tlodi; a'i holl hyfrydwch, a fwynheast, a'th draddoda i drueni.

Mynych i'm hyfrydodd ac i'm dychrynodd golwg y nefoedd nosol, hyd yn oed cyn y gwyddwn pa fodd i'w hystyried yn eu hamgylchiadau priodol o fawrhydi a harddwch. Rhywbeth fel dewiniaeth a darawodd fy meddwl ar sylw byr a difeddwl o'r mwd awyrol; wedi ei drwytho trwyddo â'r llasar puraf, a'i addurno â lampau serenog heb rifedi. Myfi a deimlais nis gwn pa weithrediad cadarn a mwyhaol, yr hwn a

* Yr holl ser fry, pe 'nghyd diffoddid hwynt,
Mor brudd ni byddent, ag un enaid gwyll,
A gais ddedwyddwch, ac anobaith gaiff.

ymddangosai fel yn fy nghipio o ddyryswch gwagedd isel, ac annog uchenaidd wresog am wrthddrychau uwch. Mi dybygaswn y clywn, o'r rhodau dystaw, alwad orchymynol, i ddiystyru y ddaear wael, a hiraethu am hyfrydwch anweledig.—O hyn allan, yr wyf yn gobeithio yfed yn helaethach o orlifiadau hyn yr wybrenau, pan, i ryw radd, fel yn y blaenorol, y gwelir hwynt yn rhesymol, ac y defnyddir hwynt yn ddyladwy. Yr wyf yn gobeithio, y dysg y ser gystal a llewyrchu, ac y cynnorthwyant i chwalu tywyllwch fy nealldwriaeth, gystal a chaddug natur. Nid ydynt o un gwasanaeth i rai, namyn dal fflam-dorch i'w traed, a thirioni erchyllderau'r nos. I mi a'm cyfeillion gwasanaethent fel gweinyddwyr o radd uwch; fel cynghorwyr doethineb, a thywyswyr i ddedwyddwch! Ni fethant gyflawni y swydd ardderchog hon, os araf oleuant ein ffordd i wybodaeth o'u Gwneuthurwr addoladwy; os nodant â'u pelydr ariannaidd ein llwybr i'w bresenoldeb gwynfydedig.

Yr wyf yn syllu, yn ystyried; yn ystyried, yn syllu, ac yn meddwl pethau annhraethol. Yr wyf yn treiglo llygad o fraw a syndod. Drachefn a thrachefn yr wyf yn mynychu yr olwg hyfryd, ac ni allaf ddigoni fy nghyweirinwydd, na'm hymchwil. Yr wyf yn lledu fy meddyliau i'r maes dirfawr hwn, nes mae dychymmyg ei hun yn blino ar yr adain. Yr wyf yn cael rhyfeddodau o newydd; rhyfeddodau mwy a mwy aruthr.—Etto, ar ol fy holl ymchwiliadau presenol, y fath ddim a wn i; trwy fy chwiliadau i ddyfod, leied allaf fi ddysgu, am yr heulau dirfawr bell hyny, a'u gosgordd amgylchynol o fydoedd! Pe gallwn syllu gyda synwyr-lymder treiddiol Newton, neu ymwthio

i'w ddarganfodiadau meithion ef; etto ni byddai fy amgyffrediadau fawr gwell nâ'r delwau tywyll a phrin hyny mae'r wadd, newydd godi o'i hogof, yn dderbyn ar ei golwg wanaidd.—Dylai hyn, yn ddiau, rwystro pob awydd diamynedd neu anghymbhedrol i syllu i ddirgelion yr adeiladau serenog, a'm gwneuthur yn fwy gôfalus i wrteithio fy nghalon. Mae cynnyg gwrhydio dyfnderoedd yr hanfod Ddwyfol, neu fesur natur gyffredinol, gyda manyldra cynnil, yn gosod yr athronydd llymaf, ymron yn gydwastad â'r symlyn; gan ei fod agos, os nid yn hollol, mor annichonadwy i'r naill a'r llall.

Bydded fy mhrif ymgais i, ynte, nid i ganlyn yr hyn sydd yn hollol anghyraeddadwy; eithr yn hytrach i geisio yr hyn sydd yn amlwg i'w ganfod, yn hawdd i'w gyrhaedd, ac o werth amhrisiadwy pan ei medder. O! bydded i mi geisio'r cariad sydd yn adeiladu,* â'r ffydd sydd yn puro.—Cariad, cariad gostyngedig, nid gwyddiad ffroenfalch, sydd yn cadw drws y nef.—Ffydd, ffydd iselfrydig yn Iesu, nid ysbryd trahaus hunan-ddigonol, yr hwn a ddirmyga fod yn aawybodus mewn an peth, sydd yn rhoddi yr agoriad † euraidd i'r

* 1 Cor. viii. 1. Ni raid i mi hysbysu i'r darlennydd, fod y gair cariad, (*charity*,) yn yr adnod hon, yn y bennod ryfedd hono, 1 Cor. xiii. ac yn amryw ranau ereill o'r ysgrythyr, nid yn unig yn arwyddo y weithred neillduol o roddi elusen, neu ewyllys da allanol: y mae o natur lawer mwy dyrchafedig ac âng: mae yn arwyddo y gras tra rhagorol werthfawr a gwresog hwnw yn yr enaid, cariad at Dduw, yr hwn a ângar enaid hefyd â serchogrwydd anhunanol at ddynion; yr hwn sydd yn ei wneuthur yn ofal penaf y bywyd, a phrif hyfrydwch y galon, i ddwyn ymlaen ddedwyddwch y naill, a gogoniant y llall.—Dyma, dyma'r cariad (*charity*) y lleferir cynifer o bethau rhagorol am dano ymhob lle; yr hwn nis gellir byth ei ddirchafu yn rhy uchel, neu ei chwenych yn rhy awyddus, gan ei fod yn ddelw Dduw, ac ysbryd y nef.

† Cyfiawnder Crist. Geilw Milton hwn,

— — — — — Yr allwedd aur

A egyr balas y trag'wyddol fyd.

trigfanau hyny o wynfyd.—Y sefyllfa bresenol yw yr olygfa i weithredu duwioldeb; y byd anweledig yw y lle a drefnwyd i fwynhau gwybodaeth. Yno, dygir gwawr ein meddyliau mabanaidd ymlaen, i gyflawnder dydd perffaith; neu, yn hytrach, cysgodau ein canol-mos a oleuir yno i holl ddysciaerdeb hanner dydd; yno, yr eneidiau a ddeuant o ysgol ffydd, ac a ddygant egwyddorion cariad gyda hwynt, a breswylant mewn goleuni ei hun, ni chymhyllir â dim tywyllwch; a adnabyddant megis yr adwaenir hwynt.*—Y cyfryw gydaabyddiaeth, gan hyny, wyf yn ddymuno ffurfio, a dwyn ymlaen y gyfryw ohebiaeth â'r cyrph nefol, ag a dywallto ddylanwadau tirion ar hadau gras a blawyd yn fy mynwes. Sudded gororau dyrchafedig y ffurfafen fy enaid yn ddwm mewn gostyngeddwydd: ennyded y fflamiau tragywyddol hyny ddiolchgarwch addoliadol yn fynghalon i'w Pen-Arglwydd hollalluog: dysged y pelau pwysig a dirfawr acw, y rhai a ym-orphwysant ar ei fraich gynnaliol, i mi ymddiried disigl yn eu Gwneuthurwr cnawdoledig.—Pryd hyny y byddaf—os nid yn ddysgawdwr doeth mewn ser-yddiaeth—etto yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Ar ol rhodio ac addoli yn y deml gyffredinol hon, yr hon a grommenwyd ag wybrenau, a addurnwyd â ser, ac a daenwyd i annherfynoldeb—ar ol taflu llygad, fel y patriarch perlewygol; † llygad rheswm ac addoliad, dros yr olygfa fawreddog: gyda'r blaenaf, wedi darganfod anfeidroldeb o fydoedd; a chyda'r olaf, wedi cyfarfod â'r Duwdod ymhob golwg—ar ol gwel- ed, fel Moses yn y berth yn llosgi, trem ar ragoriaethau Jehofa! yn attywynu oddiwrth y gwahanol

* 1 Cor. xiii. 12. † Gen. xv 5.

blanedau, ac yn ffrydio mewn myrddiynau o oleuadau nefol—ar ol darllen amryw wersi yn llyfr aruthr doethineb,* yr hwn mae ei lèni dirfawr o asur yn gwneuthur y tudalen; a rhodau dysclaerdeb yn ygrifenu mewn llythyrenau tragywyddol deongliad ar ein cred—pa beth sydd yn ol, ond fod i mi derfynu y difrifwch canol-nos ag emyn, fel y dybenodd ein Harglwydd osodiad y swper sanctaidd, â chân o fawl?—Ac wele emyn, yn cyfatted i'r amgylchiad goruchel, a draethwyd gan ysbrydoliaeth† ei hun, ac a drowyd i'n hiaith ni gan un‡ o ymegniadau dedwyddaf awen ddynol.

* Y nef fel llyfr Duw a roed o'th flaen,
I ddarllen ynddo ei weithredoedd syn.

Milton.

† Psal. cxix.

‡ *Addison, Spect. Vol. vi. No. 465.*—Dymuna'r cyfieithydd i'r darlennydd Cymreig sylwi, mai am droad Psalm xix. i'r Saesneg, gan awen Addison, y llefara Mr. Hervey uchod.

YR EMYN.

Y FAITH ffurfafen oddi fry,
 Yr awyr las a'i thanllyd lu,
 A'r äang nef, mewn dysclaer wawr,
 Gyhoeddant eu prif Achos mawr :
 Y diflin haul, o ddydd i ddydd,
 Yn datgan nerth ei Gröwr sydd ;
 Ac yn cyhoeddi yma a thraw
 Gweithredoedd Hollalluog law.

Pan ledo'r hwyr ei mantell brudd,
 Y lloer yn dechreu'i chwedl sydd ;
 Gan ddatgan, o'r äangder mawr,
 Ei tharddiad, i'r gwrandaengar lawr ;
 A'r ser o'i chylch sy'n llosgi'n dân,
 A'r holl blanedau fawr a mân,
 Yn tystio'r newydd o unfryd,
 A thaenu'r gwir o gylch y byd.

Beth, os yn ddystaw brudd y cyd
 Amgylchant ein daearol fyd ;
 Beth, er nad oes gwir sain na iaith
 Ymysg aur belau'r wybren faith ;
 I glustiau rheswn treiddia'u llef,
 O uchelderau dysclaer nef ;
 A chanant byth, gan foli Duw,
 " Y llaw a'n lluniodd dwyfol yw."

BLACKMORE AR GREEDIGAETH.

O AMGYLCH y bydysawd tro'th olwg i bob man,
 Gwel pa fedrusrwydd cywrain lewyrcha trwy bob rhan :
 Yr haul yn belen fflemiog, yn fyd o dân, mwy poeth
 Na challestr doddedig, neu wydr ffrydiol coeth,
 Yn mherfedd ein cyfundrefn yn dal ei safte sydd :
 Ei hirgrwn gylch rhed Mercher yn nesa'i dad y dydd ;
 Ond gan y llygad dynol anfynych gwelir hi,
 Cudd ydyw mewn goleuni, a choll mewn tanbaid li'.
 Yn nesaf treigla Gwener, yr hon yn addurn sydd,
 Yn awr i'r hwyr awelog, yn 'man i dorriad dydd.
 Ac yna'r bel ddaearol, trwy äangderau'r nen,
 Gan ddwyn ei llwyth heb flino, ddirwyna'i thro i ben.
 Yn nesaf Iau a welwn yn symmud ar ei thaith,
 Fry trwy'r äangder llasar mewn rhod anfeidrol faith ;
 O ail blanedau pedair sy'n osgordd iddi hi,
 Gan ei hamgylchu'r unwedd a'r lloer ein daear ni .
 Yn olaf chwyldry Sadwrn yn uchaf yn y nen,
 A chyda llafur hirfaith ei blwyddyn dwg i ben.

Ond etto er mor nerthol yw ein cyfundrefn ni,
 Er amled treigla'i bydoedd trwy'r maith äangder fry,
 Nid yw ond un o fyrddiwn yn ffurfio'r cyfan gawn,
 Mor ogoneddus f'allai, o fydoedd oll mor llawn.
 Y ser a dëg addurnant y claer äangder fry,
 A'u pelydr anfentycciol eu hun yn t'wynu sy ;
 Ac er fod rhai'n ymddangos yn agos at ein byd,
 A rhai'n y llwybr llaethog yn uno'u goleu 'nghyd,
 Ymhell oddiwrth eu gilydd rhanedig ydynt hwy,
 Gan faesydd anfesuroi o awyr fwy na mwy :
 Y bydoedd hyn a rhagor o fydoedd dysclaer wych,
 A welir gan seryddion trwy'r pell ganfyddol ddryeh,
 A myrdd o fyrdd yn rhagor, o rif defnynau'r gwllith,
 Yngholl mewn anfeidroldeb na wel ein byd ni byth,
 Ynt ganol-byngciau heulog, a bydoedd fwy na rhif
 Yn troi o'u cylch i dderbyn gwres a goleuol lif.

Pe gwelem ar un olwg yr holl rai hyn ynghyd,
 Y nerthol gyfundreithiau a'r rhodau goleu 'gyd ;
 Eu trefn a'u hymddibyniad pe gallem ganfod trwy,
 A gwybod eu mudiadau a'u holl ddybenion hwy ;
 Ynghyd â'r holl wibiogion sy'n crwydro'r gwagder maith,
 Ond etto'n faawl ffyddlawn i'w hamser ac i'w taith ;
 Y rhai'n debygol ydynt blanedau gwychion oll,
 O'n golwg weithiau'n rhewi fry yn y pellder coll,
 Ac weithiau at yr haulwen yn agoshau yn nes,
 Gan ennyn yn gynffonau mewn annyoddefol wres,
 A fyddai mo'r fath olwg yn brawf diwad a noeth,
 O wir berffeithrwydd medr a chelfyddydwr doeth ?

GAUAF-DRAITH.

MAE yn wir, yn y tymhorau hyfryd, mae ei diriondeb *Ef* a'i gariad yn cael eu gosod allan ragoraf.—Yn misoedd y gwanwyn, mae pob peth yn degwch i'r llygad, a pherioraeth i'r glust. Y cymhylau a ddefnynant frasder; yr awyr a feddalha yn enaint; a'r blodau, mewn helaethrwydd goludog, a darddant pa le bynag y sangom, a flagurant pa le bynag yr edrychom.—Dan wres crasboeth yr haf, mae *Efe* yn lledu'r dail, ac yn tewhau y cysgodau: mae *Efe* yn taenu y wasgod oer i'n derbyn; ac yn deffroi yr awel araf i'n gwyntyllio. Y mwsogl a ymchwydda yn orweddle, i'n cyrph orphwys arno; tra treigla'r ffrwd yn chwerian, ac y tyrdda'n felus i ddifyru ein dychymmyg.—Yn yr hydref, mae ei haelioni *Ef* yn gorchuddio'r maesydd â chyflawnder o drysor maethlawn, ac yn plygu'r canghenau dan lwythi o ffrwyth dant-eithiol. Mae *Efe* yn hulio ei fwrdd llettygar â digonedd yn bresenol, ac yn darparu trysordy helaethlawn ar gyfer ein hanghen i ddyfod.—Ond, ai yn y tymhorau hawddgar hyn o'r flwyddyn yn unig, mae Duw, yr oll-rasol Dduw, i'w weled? A oes dim arwyddion o'i bresenoldeb yn y gauaf, y gauaf gerwin? Oes: mae pob peth yn datgan ei fawl. “Mae ei ffordd yn y corwynt.” Ystormydd a thymhestloedd a gyflawnant ei air, ac a ddyrchafant ei allu. Ie, mae y rhew llym yn dwyn tystiolaeth i'w ddaioni; tra mae yn peri i'r cenhedloedd ysgrydol grynu rhag ei

ddigofaint.—Bydded y gauaf, ynte, am ronyn, yn destyn* i ni. Fe allai, gall y golygfeydd diffwrth hyny fod yn ffrwythlawn o addysg i'r deall: fe allai, gall yr oerni awchlym, yr hwn sydd yn rhwymo'r ddaear mewn cadwyni iâ, fod yn wasanaethgar i äangu ein calonau, a'u cynhesu â chariad sanctaidd.

Wele! fel mae'r dydd wedi byrhau!—Mae yr haul, gan gael ei attal mewn gororau teccach, neu ymrwymo mewn gwasanaeth mwy boddhaus, yn codi, fel ymwelydd anewyllysgar, gyda chamrau musgrell a hwyrfrydig. Mae efe yn rhodio, gydag oerfelgarwch osgoilyd, hyd ymlau yr wybren ddeheuol; gan daflu trem leddf, nid yw efe ond prin edrych ar y byd darostyngedig, ond prin taenu'r goleuni trwy yr awyr dew. Tywyll yw ei ymddangosiad, llesg yw ei lewyrch, tra mae efe yn parhau. Neu, os dygwydd iddo wisgo gwedd ddysclaeriach, ac ael ddigwmwl; etto, fel y ieuaugc a'r hoenus yn nhý galar, mae efe yn ymddangos yn anesmwyth nes elo ymaith; mae efe mewn brys i ymadael.—Ac ymadawed. Paham y dymunwn iddo aros yn hwy; gan na all efe ddangos dim i ni ond y grëedigaeth mewn cyfyngder? Mae'r teuluoedd blodeuog yn gorwedd yn feirw, a'r llwythau cerddgar wedi eu taro yn fudion. Y coedydd, wedi eu diosg, o'u gwyrddni, a'u ffrewyllu gan yr ystormydd,

* Mae darn o'r natur hyn, rhaid i mi gydnabod, yn llwyr amherthynasol i destyn y llyfr; ac ni allaf lai ná dywedyd, ei fod mor bell oddiwrth feddwl yr awdwr. Ond dymuniad llawer o'm cydnabod, ynghyd ag arwyddiad o'i ddefnyddioldeb mewn llythyr boneddigaidd iawn oddiwrth law anadnabaddus, a lwyddasant gyda mi i ychwanegu ychydig linellau darluniadol, a dywediadau addysgiadol, ar yr hyn a deimlir mor fynych yn y gwledydd gogleddol hyn. Gobeithio bydd i'r hyn a wnaethum i foddioni y bonheddigion hyn, dderbyn cymmeradwyaeth, neu o leiaf esgusodiad, fy narllenwyr ereill.

a ledant eu breichiau noethion i'r nefoedd cynddeiriogion a didosturi. Nid oes perarogl yn nofio yn yr awyr mwyach; eithr tARTH fferlyd a gyhwfana, a chythymau awchlym a chwythant. Natur, wedi ei dihatru o'i holl wisgoedd hardd, a eistedd, fel gweddw ddiobaith annyddan, yn ei chwyn; tra mae gwyntoedd, mewn accenion alaethus, yn udain; a gwlawogydd, mewn cawodydd mynych, yn wylu.

Nid yw yn ffin genym, gan hyny, fod y dydd yn ymadael mor fuan. Pan fyddo'r ystafell wedi ei chrogi â du galar, a gwrthddrychau gresyn i gyd o amgylch, pwy a ddymunai i'r ganwyll gael ei chadw yn fyw? yr hon ni all ond dangos drychau o dristwch, ni all ond gwneuthur yr erchyllod yn weledig.—Ac, gan nad yw y bywyd marwol hwn ond ychydig gwell nag ymdrech parhaus â phechod, ond ymorchestiad diattal â thrueni, onid grasol yw y trefniad a gyfyngodd ein hoedl i ddyrnfedd? Mae pedwar ugain mlynedd o brawf, i'r rhinweddol, yn ddigon hir; a rhagor nâ hyny, i'r rhai drygionus, a'u gwngai yn wael tu hwnt i fesur. Mae ein ffordd o deyrnas nefoedd yn gorwedd trwy orthymderau: a gyhuddwn ni, ynte, yn hytrach oni fendithiwn ni, y Rhagluniaeth, yr hon a wnaeth ein mynedfa cyn fyred? Buan, buan y croeswn ni lyn wylofain, ac yna ni a diriwn ar y bryniau dedwydd, lle mae goleuni yn llewyrchu yn dragywydd, a gorfoledd tragywyddol yn gwenu.

Weithiau gwneir y dydd yn fyrach byth, a dilëir ef agos o'r flwyddyn.* Y tARTH a ymgasgl; efe a dewha yn dywyllni annhreiddiadwy, ac a ddua wyneb yr

* *Involvère diem nimbi, et nox humida cœlum
Abstulit—* Virg.

wybren. Ar fyr, disgyn y gwlawogydd; agorir dyfrddorau y ffurfafen; a'r cymhylau isel-grog a dywalltant eu trysorau cynnalledig. Yn helaethlawn a dibaid y tywalltant byth, a byth maent yn ddiyspydd. Diferu'r dyfroedd yn ddiattal oddiar y bargod, a rhuthrant yn ffrydiau chwynrwyllt o'r pistyllau: rhuant hyd y palmant camlasog, a safant yn llynoedd ffaidd hyd heolydd y pentref. Yn awr, os gadawodd y llygad disylw, neu y llaw esgeulus, y grommen wedi ei gorchuddio yn brin, mae'r elfen dreiddgar yn gwneuthur ei ffordd trwy bob agen, a chan darddain trwy'r nen, yn edliw ac yn ceryddu y preswlydd diofal. Yr arddwr, wedi gwlychu hyd y croen, a âd ei gyfair hanner-achlesedig. Y ieir druain, yn diferu, a ymdyrant i'r diddosrwydd. Trigolion y canghenau a blygant i fynu eu hadenydd, gan ofni ymwithio i'r awyr ffrydiol. Yr anifeiliaid, yn drymlyd a dihoen, a gnoant y cil dan eu pentai. Mae'r ffyrdd yn nofio, a'r nentydd yn ymchwyddo.— Yr afon, ymhlith yr holl ymchwydd dyfrllyd hyn, a gadwodd ei hun yn hir o fewn ei therfynau gosodig; eithr, wedi ei chwyddo gan ffrydiau afrifed, a'i chyffroi o'r diwedd i gynddeiriogrwydd anwrthwynebol, mae hi yn torri dros ei glenydd, yn ymruthro i'r gwastadedd, yn darostwng pob gwrthwynebiad, yn ymdaenu ymhell a llydan, ac yn claddu'r doldir dan ddylif llwyd, swrth, moglyd.

Mor ddedwydd i ddyn, fod y diluw hyn yn dyfod pan nad oes dim cnydau blodeuog yn y dyffryn i'w gorchuddio; dim maesydd, breisgion gan ŷd, i'w gosod yn anrheithiedig! Ar y fath amser, byddai yn ddinystyr i'r llafurwr a'i deulu; ond, wedi ei amseroli fel hyn, mae yn achlesu ei dir, ac yn addaw goludoedd mewn

atchweliad. — Amled a chyhyd y cyd-ddygodd y Mawrhydi dwyfol â sarhad camweddus pechaduriaid! Fel y gorfoleddodd daioni dros eu cildynrwydd, gan wrthod yn rasol cymmeryd ei gyffroi i lid! Ond, O greaduriaid rhyfygus! na ychwanegwch mwyach ei gynhyrfu: na chymbellwch, trwy eich mynych bechodau, y fraich Hollalluog i daro, rhag i'w hir amynedd ballu, rhag i angerdd ei lid dorri allan, dorri allan fel “llifeiriant dyfroedd,”* a'ch ysgubo i ddystryw anadferadwy a thragywyddol.

Mor rymus! mor fawryddig! ac, O! mor ddirgelaid, yw dy weithredoedd di, O *Ddu* y nefoedd, ac *Arglwydd* natur! Pan mae'r awyr yn dawel, pa le mae'r gwyntoedd tymhestlog yn cysgu? Ymha ystafelloedd maent hwy yn gorphwys, neu ymha ddaear-dai y cyfyngir hwynt, hyd oni rynga bodd i ti ddeffroi eu cynddaredd, ac agor eu carchar-byrth? Yna, gyda ehwynder anwrthynebol, maent yn hedeg allan, gan daenu dychryn, a bygwth dystryw.

Chwyrn-deffir yr awyrgylch i'r cythrwfl mwyaf tymhestlog. Y ffrwd awyraidd a ddryllia ei ffordd dros fynyddau, dros foroedd, a thros gyfandiroedd. Mae pob peth yn teimlo'r ysgydwad arswydus; pob peth yn crynu o flaen y cythwm ffyrnig. Y goedwig, gan gael ei blino a'i rhwygo, a riddfana dan y fflangell: ei meibion ystyfnig a ysigir i'r gwraidd, a braidd na ysgubant y tir a arferent gysgodi. Y dderwen gyndyn, yr hon a ddirmyga blygu, a deffir bendramwnwgl i'r llawr, ac, â breichiau drylliog, ac â choroph estynedig, a gaua'r ffordd i fynu.—Tra mae'r gorsen hyblyg, yr hon a dardd o'r morfa, gan ymollwng gyda'r awel,

* Hos. v. 10.

(fel y dymher lariaidd ac ystwyth gyda sarhad, neu'r ysbryd ymroddol ac amyneddgar gydag anffodion,) yn gochelyd grym y dymhestl, ac yn dal yn wyneb y difrod maith.

Dros funud mae'r wybr lidiog a therfysglyd yn ymddangos fel yn ymdawelu; ond nid yw hi ond attal ei llid i chwanegu grym. Yn fuan mae byddinoedd trystiog yr awyr yn ail ymosod, ac yn adnewyddu yr anrhaith gyda ffyrnigrwydd deublyg. Mae'r adail fawryddig yn siglo ymhlith cymhylau chwyldroiol. Mae'r tŵr anghlwyfadwy yn crynu ar ei sail, ac yn bygwth claddu y rhai y bwriadwyd ef i'w diogelu. Y creigydd cribynog a ddryllir yn ddarnau;* a phrin mae'r bryniau, hyd yn oed y brynian oesol, ar eu sylfaeni dyfnion, yn ddiogel.—Pa le yn awr mae diogelwch? Pan mae'r ddinas yn siglo, a thai yn dyfod yn garneddau, cwsg a ffy yn ddychrynedig. Difyrwch a droir yn fraw. Mae'r cwbl yn derfysg yn yr elfen, mae'r cwbl yn gythrwfl ymysg marwolion, ac nid oes dim ond un olygfa faith o ddifrod alaethus trwy'r tir.—Etto nid yw hyn ond un o is gweinidog anfoddlonrwydd dwyfol, ond cyflawnydd llareiddiach digofaint. Pa fodd, ynte; O! "pa fodd yr iselir uchel-drem dyn, ac y gostyngir balchder dynion,"†

* 1 Bren. xix. 11.

† ————— Mortalia corda
Per gentes humilis stravit pavor—

Braidd na allai un feddwl fod Virgil wedi darllen Esaia, a benthycia ei feddylddrychau o pen. ii. adn. 11. Mae *humilis* a *stravit* y naill yn ateb mor gywir i *iselir* a *gostyngir* y llall. Ond mewn un amgylchiad mae'r prophwyd yn tra-rhagori ar y prydydd. Mae'r prophwyd, trwy roddi cyferbyniaeth gyffrous i'w syniadau, yn eu gosod allan gyda grym anghymbarol fwy. Nid yw efe yn dywedyd, dynion gyda'u gilydd, neu y galon ddynol yn gyffredinol: ond dynion o'r drem uchaf;

pan fyfyrion yr Arglwydd Dduw Hollalluog ddychryn—
pan fyddino efe ei holl ddychrynfeydd—pan godo efe i
farnu y cenhedloedd, ac ysgwyd y ddaear yn ofnadwy!

Mae'r môr yn ymchwyddo gan gynhyrifiadau aruthr:
mae'r tônau trymion yn cael eu taflu o'u gwely cyn-
nwysfawr, a braidd na adawant y dyfnder anwrhydol
yn noeth. Wedi eu gyru i'r cyffro gwylltaf, maent yn
ysgubo dros y creigiau; maent yn fflangellu y clog-
wyn dyrchafedig, ac yn taflu eu hunain i'r cymhylau.
Llyngesi a ddryllir oddiwrth eu hangorion, a chyda'u
holl lwyth dirfawr, a chwyrnellir, yn gyflymach nâ'r
saeth, yn wylltach nâ'r corwynt, ar fyd y llynclyn
mawr.—Yn awr, dringant y mynydd ymdreiglog,
arddant y drum ddychrynedig, ac ymddangosant yn
nofio'r wybrenau. Ar fyr, suddant i'r gagendor safn-
lydan; maent yn colli yr olwg ar y dydd, ac yngholl
eu hunain i bob llygad. Ofered yw medr y llywydd!
mor ddinerth grym y morwr! Rhygyngant yma ac
accw, siglant yn yr afael ymrysongar, neu ymlynant
wrth y rhaffau, tra mae'r môr, gan ymdorri, yn ewynu
dros y bwrdd. Mae anobaith ymhob gwedd, ac angeu
yn eistedd yn fygythiol ar bob tôn.—Ond paham, O
forwyr dychrynedig! paham yr ymollyngwch i an-
obaith? A fyrbawyd llaw yr Arglwydd, o herwydd
fod tônau'r môr yn cynddeiriogi yn erchyll? a fyddar-
wyd ei glust ef gan ruad y taranau, neu feichiad y
gwanafau? Llewch, llewch arno *Ef*, “yr hwn sydd yn
dal y gwynt, ac yn mesur y dyfroedd yn ei ddwrn.”
Mae *Efe* yn holl-rasol i wrando, a hollalluog i achub.

catonau chwyddedig gan ddychymlygion trahaus. Hyd yn oed y
rhai'n a grymant o'u huchelderau ffroenfalch; y rhai'n a ymlusgant
yn llwch darostyngiad, ac a grynant gan holl eithafoedd digalondid
llwfr.

Os gorchymyn *Ef*, mogir y dymhestl i ddystawrwydd, ymdawela y tònau yn ganllaid, y mellt a osodant eu byllt tanlyd heibio; ac, yn lle soddi mewn bedd dyfrllyd, dygir chwi i'r porthladd dymunol.

Weithiau, ar ol dydd dilawenydd, mae nos erchyllach yn canlyn. Gwēasai y tARTH swrth, cadduglyd, lèn mor dew, fel mai prin y gallasai haul canol-ddydd dreiddio trwyddi. Pa dywyllni, ynte, raid orchuddio oriau'r nos! Attaliodd y lloer ei llewyrch: nid oes un seren yn alluog i ymdrechu trwy restri'r cysgodau. Mae'r cwbl yn dywyllwch pyglyd, heb un paladr adfywiol. Mor Ædifrif! mor ofnadwy! Y mae megis amdo natur, neu ddychweliad tryblith. Nid wyf yn rhyfeddu ei fod yn cenhedlu dychrynfeydd, ac yn dueddol i ymddwyn prudd-der.—Yn ddiweddar nodai y dymhestl ei ffordd chwyrn â dinystr; yn awr mae'r nos yn gwisgo ei phabell ddystaw â dychryn.

Weithiau myfi a adewais y canwyllau pelydrus, a ymdynais oddiwrth y tân gwridgoch, ac a suddais i dewder y cysgodau huddyglyd hyn, heb ofdio am y cyfnewidiad, yn hytrach gan ymorfoleddu ynddo megis gwaredigaeth. Yr oedd y tywyllwch yn hyfryd, yn siriol, mewn cymbariaeth i'r ymarweddiad a adawswn. Yr oedd iaith fy nghydymdeithion (mor flin yw genyf, fod i mi achos i'w galw unwaith wrth yr enw hwnw!) yn iaith y tywyllwch, yn ddychryn i'r enaid, ac yn boen i'r glust.—“Gwaywffyn a saethau oedd eu danedd, a'u tafod yn gleddyf llym,” i frathu a llofruddio enw da eu cymmydogion. “Bedd agored oedd eu ceg,” yn rhwth i ddifa cymmeriad y diniwed, neu yn llygru yr awyr â'u hanadl gwenwynig a halogedig.—Weithiau saethai eu penrhyddid a'u hymddiddanion

afreolus biccellau cabledd yn erbyn y Nef ei hun, ac mewn her ffroenfalch, beiddient ddigofaint Hollalluogrwydd.—Weithiau, fel pe gogoniant y natur ddynol fyddai meithrin chwantau gwaelaf anifeiliaid, neu nod bonheddigeiddwr ei fod wedi gwasanaethu prentisiaeth mewn putteindy; cellwair atgasaf anlladrwydd (os dichon aflendid isel gael ei alw yn gellwair) a draws-gymhellid yn wrthwynebus ar y gyfeillach.—Yr holl ran wylaidd a dramgwyddid ac a ofidient, tra chwaddai y creaduriaid penfeddwon ereill yn uchel, er fod gwahanglwyf halogrwydd yn amlwg ar eu gwefusau!—Onid yw y rhai hyn yn garcharorion y tywyllwch, er fod caing-ganhwyllwyr fflaglog yn tywallt dydd celfyddol trwy eu hystafelloedd? Onid yw eu heneidiau ynghau yn y cysgodau alaethusaf, er fod haul canol-ddydd yn cael ei ddysclaerio trwy ffamio ar eu cerbydau goreuredig?—Nid ydynt yn canfod y Bod addoladwy, yr hwn sydd yn llanw y bydysawd â'i bresenoldeb gogoneddus; yr hwn sydd oll yn llygad, i sylwi ar eu gweithredoedd; oll yn glust, i brofi eu geiriau. Nid adwaenant y Gwardwr holl-ddigonol, na gwynfydedigrwydd annhraethadwy ei deyrnas nefol. Maent yn ymbalfalu am gamp dedwyddwch, ac yn gafaelu yn nrain pryder. Maent yn ymddigryfu yn drythyll ar fin y dibyn, a phob munud mewn enbydrwydd o syrthio bendramwnwgl i ddystryw anadferadwy, ac anobaith diddiwedd.

Hwy a'm gyrrasant i allan, ac y maent, fe allai, yn fy ngwatwar yn fy absenoldeb; yn cyhuddo fy mbarch i'r Duw byth-bresenol, a'm gofal am urddas ein natur resymol, fel mympwy a neillduolrwydd; fel culder meddwl, neu surni tymher. Bydded felly: ni feithrinaf

fi un digofaint yn eu herbyu. Os cyfyd dim tebyg yn fy meddwl, myfi a'i troaf yn weddi.—‘Tosturia wrth-ynt, O Dad y trugareddau! Dangos iddynt wallgof-rwydd eu cabledd; dangos iddynt waeledd eu serthedd isel; tröer eu gwag siarad halogedig yn dristwch dystaw a chythrudd; nes agoront eu gwefusau i addoli dy Fawrhydi a sarhawyd, ac i erfyn dy rasol faddeuant: nes cyflwynont i'th wasanaeth eu horiau cymdeithasol, y rhai a gamdreuliant yn awr—i ddiannhydedd dy enw—i halogiad eu heneidiau eu hunain—ac (oni chyfrynga edifeirwch amserol) i'w gwarth a dinystr tragwyddol.’

Yr ydwyf yn marchogaeth adref trwy'r tywyllwch gwag. Yn unig ac yn y caddug, prin y gallaf ganfod pen fy march, ac nid oes genyf ond bwrw amcan am fy ffordd ddall. Dim un cydymaith ond enbydrwydd; neu, fe allai, “dinystr yn barod wrth fy ystlys.”*—Ond paham yr wyf yn dychymmygu fy hun yn unig? Onid yw Tad y goleuni, Duw fy mywyd, y cyfaill mawr a thragywyddol, bob amser ar fy neheulaw? A arloeswyd ei holl-bresenoldeb ef, o herwydd fod y dydd wedi ei gau allan? Er nad oes genyf un cydnabod daearol yn agos, i'm cynnorthwyo pe dygwyddai rhyw anffawd; neu i ddifyru yr amser, a chwalu fy ofnau anesmwyth, trwy gydymddiddan siriol; oni allaf fi osod fy nghymhorth ar yr Hollalluog, a chyfeillachu â Duw trwy ymbiliau gostyngedig? Nid oes un lle yn anmbriodol, un awr yn anamserol, nac un ystum yn anghymhwys, i hyn yma. Dyma gymdeithas, y gymdeithas oreu, hyd yn oed mewn neillduaeth; dyma drysorfa o hyfrydwch, hawdd i'w gludo, a hollol ddi-

* Job xviii. 12.

yspydd: trysor yw hwn o werth anadnabyddus; nad yw yn ddarostyngedig i un perygl oddiwrth drais ysbeilwyr, eithr yn berffaith ddiogel i'r crwydrydd unig yn y llwybrau tywyllaf.

A phaham y blinwn fy hun ag ofn perygl? Mae'r ddyfodfa hon at Dduw, nid yn unig yn rhagorfraint anniddymadwy, ond yn fath o amddiffynfa rodianol. Y rhai hyny a wnant eu hymbiliau yn adnabyddus i Dduw, ac a ymddiriedant yn ei ofal diffynol; mae efe yn rhoddi gorchymyn i'w angylion am eu diogelwch. Mae efe yn awdurdodi ei angylion i'w canymdoi yn eu hymdaith, a chynnal eu cerddediad, fel na tharawont eu troed wrth garreg.* Nagê, mae Efe ei hun yn ymostwng i fod yn warcheidwad iddynt, ac yn "cadw eu holl esgyrn, fel na thorrer un o honynt."—Rhwyg y personau hyn, a'r gwrthddrychau mwyaf niweidiol, mae ammod o heddwch wedi ei gwneuthur. Mae erthyglau y cyttundeb mawr hwn wedi eu cofrestru yn llyfr Datguddiad; a phan fyddo er lleshad gwirioneddol y credinwyr, cyflawnir hwynt yn ddiogel yn ngweinyddiadau Rhagluniaeth. "Y dydd hwnw," medd yr Arglwydd, "y gwnaf ammod drostynt ag anifeiliaid y maes, ac ag ehediaid y nefoedd, ac ag ymlusgiaid y ddaear; a bydd cyngrair rhyngddynt â cherrig y maes."† Er syrthio o honynt bendramwnwgl ar y cellystr; y cellystr, cymbwys i ddryllio eu penglogau, a'u derbyniant megis yn mreichiau cyfeillgarwch, ac ni chynnygant niweidio y rhai y mae yr Arglwydd yn rhyngu bodd i'w diogelu.

Bydded i mi, ynte, fwynhau presenoldeb y Duw grasol hwn, ac un ffunud fydd tywyllwch a goleuni.

* Psal. xci. 11, 12. † Job v. 23. Hos. ii. 18.

Bydded iddo *Ef* ysibrwd tangnefedd i'm cydwybod, a bydd y dystawrwydd arswydus hwn yn hyfryttach nà llais hyawdledd, neu odlau peroriaeth. Eglured *Ef* ei berffeithderau grasol i'm henaid, ac ni chwen-nychaf degwch gwridgoch y bcreu, gogoniant euraidd canol-ddydd, nac wybr gochliw yr hwyr. Ni ochen-ediaf ond yn unig am y gororau goruchel a dymunol hyny, lle mae goleuni ei wyneb yn llewyrchu yn wastadol, ac o ganlyniad—"nid oes dim * nos yno."

Ryfedded yw cyfnewidiadau natur! Myfi a'i gadewais, yr hwyr blaenorol, yn syml a diaddurn. Ond yn awr y mae barrug tew wedi tywallt ei anrhydedd llwydwyn dros bob peth. Efe a gedenodd gnuau y defaid, ac a grychodd wallt y teithiwr. Efe a siderodd y perthi yn helaeth, ac a blurodd y llawr yn afradus. Y canghenau pendrymion a duswywyd ag arian, a'r rhai sythion a blufiwyd á'r waneg asgellog.

Nid yw yr hardd bob amser yn werthfawr. Yr awyr, ymysg yr holl addurniadau coegion hyn, a gyhuddir o darth fferllyd ac afiachus. Mae'r dylanwad tew niwlog yn ymdaenu ymbell, yn eistedd yn ddwfn, ac yn dibynu yn drwm a gormesol ar ffynnonau bywyd. Mae llesgedd nychlyd yn llyfetheirio y gweithrediadau bywiol; ac nid yw'r firwd las yn llithro ond yn farwaidd rhwng ei glânau. Yn ofer mae llywiwr y dydd yn egnio ei allu pelydrol; yn ofer mae efe yn ymdrechu chwala ymgodiad y tarth. Mae'r cwmwl cuchiog digofus yn gwrthod ymadael: mae efe yn amdoi y byd, ac yn attal yr olygfa. Yr wyf yn edrych o amgylch am y pentref cymmydogol,

yr wyf yn anfon fy llygad i chwilio am y tŵr ymddyrchol; ond prin y gallaf ganfod y tŷ nesaf. Pa le mae cylchoedd gleision y nef? pa le mae gwynebpryd dysclaer yr haul? pa le mae golygfeydd diderfyn y grëedigaeth? Yngholl; yngholl mae eu holl degwch, ac anhuddwyd eu holl ogoniant. Mae chwareufwrdd pentyredig y bydysawd yn ymddangos yn anial gwag, a'i holl luniau prydferth yn ddiidym anwahanodol.—Fel hyn y buasai gyda'n golygiadau dealldwriaethol, oni buasai i'r efengyl ddyfod yn borth i ni: ni adnabyddasem ein da sylweddol, na'n drwg gwirioneddol: buasem yn adammeg i ni ein hunain, y sefyllfa bresenol i gyd yn gythrudd, a'r sefyllfa a ddaw yn dywyllwch annhreiddiadwy. Ond Haul cyfiawnder, gan godi gyda phelydr cedyrn a gorfoleddus, a chwalodd y cwmwl cyfryngol; a agorodd olygfa fwy prydferth ná blagur y gwanwyn, siriolach ná thrysorau yr hydref, a llawer ëangach ná meithder y gyfundrefn weledig: pa un, ar ol arwain llygad y meddwl trwy faesydd gras, dros afonydd cyfiawnder, a thros fryniau a goronwyd â gwybodaeth, sydd yn terfynu, o'r diwedd, yn y nefoedd; ac yn melus ymgolli yn ngororau gwynfyd anfeidrol a gogoniant diddiwedd.

Wrth rodio rhagof, mae'r nifwl yn ymddangos, o ychydig bellder, agos yn dywyllwch sylweddol; y cyfryw ag a gauai allan bob godywyn o oleuni, ac a'm llwyr garcharai mewn tywyllwch. Ond, pan nesawyf, a myned iddo, yn foddhaus yr ydwyf yn cael fy hun yn gamsyniol, a'r tarth yn llawer teneuach nag y tybiaswn.—Fel hyn y mae gyda golwg ar ddyoddefiadau y bywyd presenol; nid ydynt, pan brofer hwynt, mor arswydus ag y dychymmygasai meddwl ofnus eu bod.

Yr un modd y mae hefyd o barth boddiadau teimlad-rwydd; nid ydynt, pan eu mwynheir, mor sylweddol ag y darluniasai dysgwyliad awyddus hwynt. Gyda golwg ar y ddau yr ydym yn cael ein siomi yn rasol. Mae min awchus cystuddiau yn cael ei bylu, fel na chlwyfer ni â chyfyngder angwelladwy: mae melusder manwl llwyddiant yn diflasu, fel na ormod-sugner ein serchiadau, ac na chaethiwer hwynt gan hyfrydwch gwael darfodedig.

Weithiau mae wyneb pethau yn gwisgo ffurf fwy boddhaus, llwyr wrthwyneb i'r blaenorol. Mae'r hwyr ddirif yn agoshau i derfynu y dydd byrhoedlog. Mae'r ffurfafen, glaer ac anniwynedig, yn ymddilladu yn ei glas puraf. Y ser, yn dorfoedd pentyredig, a chyda dysclaerdeb neillduol, a lewyrchant trwy'r äangder têt; tra tywallta'r rhew ei effaith manwl a threiddiol o amgylch oll. Yn llym ac awchus iawn, trwy gydol y nos, mae'r awyr syth yn parhau ei gweithrediadau. Pan, yn araf a diweddar, mae'r bore yn agor ei lygad gwan-aid, yn y fath dwyll cywrain a difyr mae natur wedi ymwisgo! Mae'r clochiâ, rhynog ac anwastad, yn nghrog wrth y tai. Mae pilenau gwynaidd yn crofenu y ffenestri, lle mae tir-ddarluniau dynwardol yn ymgodi, a ffurfiau dychymmygol yn ymchwyddo. Y maesydd ffrwythlawn a galedwyd yn haiarn, y gweunydd dyfredig a geulwyd yn farmor; a phob un a adseiniant (effaith anadnabyddus o'r blaen) gyda throediad y gwladwr. Daliwyd y ffrwd yn ei hynt, a chadwynwyd yr wyneb byth-lifeiriol wrth y glânau. Mae'r llwybrau hylif yn ffordd galed; lle arferai yr heigiau cènog wibio, mae'r ieuengctyd llawen yn lithro, neu'r cerbydau chwyraion yn

treiglo.* Ac (yr hyn a ymddangosai, i un o breswylwyr y byd debeuol, mor ddyeithr a'r dirgelwch dyfnaf yn ein crefydd) mae yr un anadliad o eiddo'r nef, yr hwn sydd yn caledu'r llynoedd yn balmant grisialaidd, yn hollî'r deri, fel pe byddai, â geingion anweledig; yn dryllio yn chwilfriw "haiarn a dur y gogledd," hyd yn oed tra yr adeilada bont iâ dros y moroedd.†

Mae'r awyr oll yn dawelwch. Wedi ei phuro gan y gronynau nitraidd, mae hi yn gweini yr olwg egluraf a'r gwelediadau ängaf. Lladdwyd hadau llygriad, a difethwyd yr haint, yn y milrhith. Felly mae oerfel gorthrymder yn tueddu i farwhau ein llygredigaethau, a darostwng ein greddfau halogedig. Mae'r awyrgylch gynnulledig yn cydgylymu ein cyrph, ac yn llinynu ein gewynion. Mae'r ysbrydoedd yn hynawf, ac yn llithro yn wisgi ar gyflawniad eu swydd. Yn y misoedd haf-aidd, y fath wybr ddigwmwl, a'r fath haul dysclaer, a'n toddasent gan wres, ac a'n meddalhasent i ddiogi: buasem yn barod i daflu ein gliniau dan y ffawydden lydanfrig, a gorwedd yn syrthlyd yn min y gornant dyrddol. Ond yn awr nid oes neb yn gohirio ar ei ffordd, neb i'w weled yn plygu ei freichiau: mae'r cyfan yn ymsymud, y cwbl yn fywyd. Mae dewisiad, wedi ei gymhell gan yr hin, yn gwasanaethu yn lle yspardyn angen. Fel hyn mae ysgol sarrug gorthrymder yn fynych yn dysgu'r meddwl i fynu at ymegniad bywiog

* Undaque jam tergo ferratos sustinet orbes,
Puppibus illa prius patulis, nunc hospita plaustris.
Æraque dissiliunt vulgo. *Virg.*

† Job xxxviii. 30. "Cuddiwyd y dyfroedd," clowyd hwynt oddiwrth eneuau yr anifeiliaid, a diogelwyd hwynt rhag rhwyd pysgottwr, "megis" yr arferir caead ffynnonau "â charreg" drom anhydraid. "Ac" nid yn unig llynoedd ac afonydd, ond "wyneb y dyfnder" mawr, a'i holl ddonau afonydd a chynddeiriog, "a ddaliwyd yn gaeth"—*אִתְּלַצְדָּוּ*,—*aithlaccadoo*,—gan y rhew, ac a rwymwyd mewn llyfetheiriau dysclaer.

o'i swyddgynheddfau: mae hinsawdd rhewllyd trallod yn aml yn ennyn ynom lawer penderfyniad gwrol; tra buasai llwyddiant feddal ar ei gwely manblu, fe allai, yn gollwng holl ffynnonau hael-rydd yr enaid, ac yn ei adael wedi ei wanbau gan bleser, neu ymroddi i ddiogi.

"O'r gogledd y daw oerni." Y gwyntoedd, wedi ysgubo dros y gwylltion hyny o iâ, a arfogant eu hunain â miloedd o'r gronynau rhewllyd, ac a ymosodant yn lliديوg ar ein hynys. Dan y cymhylau duon a chuchiog, gygrant, gan sio'n ofnadwy trwy yr awyr dywyll. Maent yn ubain o amgylch ein tai, yn ymosod ar ein drysau, ac, yn awyddus am ddyfod i mewn, yn sicrhau wrth ein ffenestri. Prin y geill muriau eu hattal; mae bolltau yn analluog i'w cadw allan; maent yn gwthio eu ffordd trwy bob agen. Ar eu hadenydd y mae iâ; maent yn taenu poenau trwy yr holl dir; ac y mae gauaf, yr holl auaf, yn ymgynddeiriogi gyda'u mynediad. Mae eu hanadl fel haiarn poeth* i'r ychydig wyrddlesni a adawyd yn y dyffrynoedd: yn llawer mwy niweidiol i'r planhigion tyner nâ'r gyllell lemaf; maent yn lladd eu canghenau, ac yn clwyfo eu gwraidd. Na anturied ymddangos yn rhy barod o amglawdd y rhych; na feiddied y blagur ffrwyth-ddygol ddyfod allan o letty y rhisgl; rhag i'r cythymau deifiog hyn attal a gafaelu yn y dyeithriaid anochelgar, a dyfetha gobaith y flwyddyn sy'n agoshau.

O, mae'n awchlym o oer! Pwy mor galed nad ysgryda rhag yr hin fferllyd? Wele! mae pob wyneb yn

* Dyma, yr wyf yn meddwl, ystyr yr ymadrodd ffigwraidd hwnw yn y prophwyd Habaccuc; yr hwn, gan lefaru am y Caldeaid yn ymgyrchu i Judea, a ddywed—"Eu hwynebau," neu y rhuthriadau a wnant, "a sugna," a draflyngca'n awyddus, a lwyrr ddufa, drigolion, a'u meddiannau gwerthfawr; "fel" mae cythymau llym ysol "gwynt y dwyrain" yn dyfetha pob peth gwyrdd yn y maes. Hab. i. 9.

welw : mae hyd yn oed y gruddiau gwridgoch yn ymddangos yn lasddu, a phrin gall y dannedd lai nâ churo ynghyd.—Chwi y rhai a eisteddwch yn esmwyth a llawen yn eich ystafelloedd cyfleus, gan gysuro eich hunain yn ngwres ymdaenol eich tân, cofiwch am eich brodyr, yn anneddau pruddion tlodi. Mae eu ffenestri drylliog yn agored i'r gwyntoedd treiddgar; gwisg garpiog ni chuddia eu cnawd ysgrydol ond prin; tra mae ychydig dywynion llesg ar ddiffodd, ar yr aelwyd fawlyd, yn hytrach yn gwatwar eu dymuniadau, nâ thwymo eu haelodau.—Tra mae nodd melus *Oporto* yn serenu yn eich gwydrau; neu'r ffrydiau, a wawriwyd yn hardd, ac a wnaed o flas deintus, gan ddalen *China*, yn mygu mewn pridd-ddysglau tryloywon o'r un wlad; O! cofiwch, fod llawer o'ch cyd-greaduriaid, dan holl lymder yr wybrenau sarrugion hyn, yn curio gan afiechyd, yn llesg gan henaint, ac yn dihoeni gan newyn. Bendithied "eu lwynau chwi," am ddillad cysurus. Adferwch hwynt â meddyginiaeth, adfywiwch hwynt ag ymborth, a diddymwch gynddeiriogrwydd y flwyddyn. Felly byth na wybyddoch am eu cyfyngderau, ond yn unig trwy eu clywed â'ch clustiau, eu gweled â'ch llygaid, neu eu teimlo mewn tosturi tirion!—Mi dybygwn fod y gwyntoedd rhuadwy yn dadleu dros y truaïn tlodion. Na anadlent hwy gydymdeimlad i'ch mynwesau chwi, tra chwythant galedi i'w bythod hwynt!—Sylwch ar y fflamiau gleision a'r marwor cochion yn eich ffumerau; wedi eu bywiogi gan yr oerfel, maent yn edrych yn wridoccach, ac yn fflaglo'n gryfach. Cynghor amserol, er dystaw, i'r cylch hoenus, a ymddiddanant ac a wenant o'u hamgylch! Fel hyn, ar y fath dymhor o angen, yr ennyno eich calonau

chwithau gan ewyllys da neillduol! Na chadwch eich crugiau arddigonol o gynnud; brysient i gynnorthwyo y teulu fferlyd: perwch iddynt losgi gyda llawer fflagl ewyllysgar, i laesu awchlymder y tymhor, a siriohi trigfanau tywyll eisiau. Felly yr esgynant yn gymmysgedig â diolchgarwch at Dduw, a gweddiau taerion am eich dedwyddwch—esgyn yn fwy derbyniol i'r nef na cholofnau o'r arogl-darth gwerthfawroccaf.

Yn awr mae'r gwyntoedd yn tawelu: ar ol dwyn eu baich, rhyddheir hwynt o'u gwasanaeth. Hwya a gludasant lwyth dirfawr o gymhylau, y rhai a ymarllwysant yn eira. Ar y cyntaf ychydig drychion gwasgaredig a ddeuant gan grwydro i lawr o'r wybr brudd. Yr ysgarmes ysgafn hyn a ganlynir gan ymosodiad cyffredinol. Y gwanafau, yn fawrion, yn lliosog, a chan chwyfio yn dew, a ddisgynant: maent yn tywyllu'r awyr, ac yn prysuro dyfodiad y nos. Trwy'r nos mae'r dystawrwydd tawelaf, a chyda ffrydiad parhaus mae'r gafod gnuog yn cwmpo. Yn y bore, pan ddeffrôm, y fath gyfnewidiad rhyfedd sydd yn ymddangos!—Ai yr un byd yw hwn? Nid oes yma ddim amrywiaeth lliw: prin y gallaf wahaniaethu rhwng y coedydd a'r bryniau ar y rhai y tyfant. Pa rai yw y dolydd, a pha rai y dyffrynoedd? Pa le mae'r porfeydd gwyrddleision, a pha le y braenar? Mae pob peth yn gorwedd yn gymmysgedig mewn anhrefn dysclaer; mor ddysclaer fel y mae yn cynnyddu llewyrch y dydd, ac hyd yn oed yn byriallu y peiriannau gweled.—Nid yw'r bliant mor dêg a'r fantell eiryog hon, yr hon sydd yn dilladu'r maesydd; ie y lili, pe ymddangosai'r lili, a edrychai yn llychwiniedig yn ei gŵydd. Ni allaf feddwl am ddim ond un peth yn rhagori ar wisg

glaerwen gauaf. A oes rhyw un yn dymuno gwybod fy meddwl? geill weled deongliad arno yn yr emyn rhyfeddol hwnw,* a gyfansoddwyd gan y brenin edi-feiriol. A ewyllysiai rhyw un feddiannu yr addurn digymbar hwn? mae yn cael ei gynnyg yn rhad iddo ymhob tudalen o'r efengyl.

Wele! (canys ni foddlonir y llygad heb edrych drachefn a thrachefn ar yr olygfa gywrain, fanwl,)—wele! fel mae'r perthi wedi eu gwisgo fel gwryfon difrycheulyd! Crommenwyd y tai â chlaerder unffurf; a gorchuddiwyd y dolydd â llawrlen o'r pali teccaf; † mae'r coedydd yn crymu dan y baich hawddgar; a'r cyfan, y cyfan isod yn un gwyllt llydan, dirfawr, a dysclaer o eira.—Trwy eira dwfn a gwlaw trwm mae Duw yn “selio llaw pob dyn.” a chyda'r bwriad hwn, ychwanega ein naturiaethwr sanctaidd, “fel yr adwaeno pawb ei waith ef.” ‡ Mae efe yn eu cyfyngu o fewn eu drysau, ac yn gosod attaliad ar eu gorchwylion amserol, fel yr ystyriont y pethau a berthynant i'w heddwch ysbrydol; fel, a chanddynt hamdden oddiwrth eu galwedigaeth arferol, y sylwont ar weithredoedd ei allu, ac yr adnabyddont ddirgeledigaethau ei ras.

A theilwng, teilwng o bob sylw yw gweithredoedd y Creawdwr mawr: maent yn aruthr amrywiol, a pherffaith ryfedd. Mor ystwyth a hyblyg yw natur dan y fath law ffurfiol! Ar ei orchymyn ef mae yr

* A all dim fod yn wynach nâ'r eira? Gall, medd Dafydd; os rhynga bodd i Dduw fy ngolchi oddiwrth fy mhechodau yn ugwaed Crist, “Byddaf wynach nâ'r eira.” Psal. li. 7.

† Mae'r creadur hwn cyn wyned a'r llaeth. Am y mânau duon a welir ar yr ermin, chwanegir hwynt gan y panydd, er mwyn amrywio ymddangosiad, neu ddyrchafu tegwch, y lliw cynhenid.

‡ Job xxxvii. 7.

unrhyw sylwedd yn cymmeryd arno yr amrywiaeth mwyaf o ddulliau, ac yn cael ei ffurfio i liosogrwydd diddiwedd o luniau. Os rhydd *Efe* orchymyn, caledir y dwfr yn genllysg, a thywelltir ef ar y ddaear yn gawod o belau; neu, rhewir ef yn iâ, ac efe a ddiffyn yr afon, “megis â dwyfroneg.” Ar amlygiad o’i ewyllys, gwasgerir ef yn llwydrew, fel taenelliad o’r lludw teccaf; neu taenir ef dros y llawr fel hyn yn welyau o fanblu ymchwyddog a gwanafog.

Mae’r eira, pa mor oer bynag y dichon ymddangos, yn cynnysgaeddu yr ŷd â gwisg gynnes, yn ei ddiogelu rhag y rhew deifog, ac yn meithrin ei gynnydd mabanaidd. Efe a erys dros ychydig, i weithredu effaith fagwriaethol: yna, wedi cyffwrdd ag ef gan yr haul, neu ei ddadleitho gan awel feddalhaol, y wisg banaidd a dawdd yn irder hilibair, a sudda’n ddwfn yn y tir, ac a ddigona ei fandyllau â’i neitr toddiadol; gan lenwi’r briddell â’r egwyddorion hyny o fywyd llysienuog, yr hwn a egyr yn flagur y gwanwyn, ac a addfeda yn ffrwythau hydref.—Arwyddlun prydferth yw hwn o’r gair dwyfol, a darluniad cysurus o ganlyniad llwyddiannus a llesol ei weithrediad! “Fel y disgyn y gwlaw a’r eira o’r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha’r ddaear, ac a wna iddi darddu, a thyfu, fel y rhoddo had i’r hauwr, a bara i’r bwyttawr: felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o’m genau; ni ddychwel attaf yn wag, eithr efe a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o’i blegid.”*

Mae natur, o’r diwedd, yn rhoddi ei gorchudd dysclaer heibio; mae hi yn ei ollwng i lawr mewn dadleithiad defnydol. Mae yr eira a ryddhawyd yn treiglo

* Esa. lv. 10, 11.

yn llëni oddiar y tai Mae amryw agoriadau yn britho'r brynian, y rhai, tra yr ydym ni yn edrych, a ymledant, ac a amlhant. Mae'r coedydd yn raddol yn rhyddhau eu hunain oddiwrth eu baich llwydwyn. Wedi ei ysgwyd oddiwrth y canghenau neidiol, mae rhan yn syrthio'n drwm ar y ddaear, mae rhan yn hedeg ym-aith yn ronynau gloywon. Mae ein maesydd a'n gerddi, a gladdesid yn ddiweddar dan y pentyrau lluwchog, yn codi'n eglur i'r olwg.—Gan ein bod yn gweled natur unwaith etto, a oes ganddi ddim olion gwyrddlas, dim pryd hardd, wedi eu gadael? Y maent, fel cyfeillion cywir, yn brin iawn; ac am hyny yn teilyngu sylw mwy neillduol, a'u gwerthfawrogi yn uwch.—Yma ac accw mae'r gelynen yn dibynu ei chrawel fflamgoch; mae'r *lauristinus* yn lledu ei duswyau prydferth, a'r ddau dan gysgod y dail anwywedig.—Mae'r eiddiorwg syml, ond caled, yn dilladu ein hen furiau agenog; ac nid yw'n cilio oddiwrth y swydd gyfeillgar, er gwgu o'r wybrenau, er i'r dymhestl ruo.—Mae'r llawryf, yn gryf, yn syth, ac yn hy, yn lledu ei ddail gyda gwyrddni bywiog. Er gwaethaf ymosodiadau unedig a mynych y gwynt, y gwlaw, a'r rhew, mae efe yn cadw golwg fywiog a chalonog, ac yn dal ei dir tra mae myrddiynau gwywedig yn syrthio o bob tu; teilwng yw efe, trwy faeddu gallu cuchiog y gauaf, teilwng i addurno ael y goresgynwr gofoleddus.—Rhaid i mi beidio anghofio y llawrwydden, yr hon a ddirmyga fod yn ymddibynydd gwael ar ychydig odywyniadau heulog darfodedig; neu, gydag ymddarostyngiad isel, gyfnewid ei hymddangosiad mewn cydffurfiad â chyfnewidiadau y tymhorau: trwy y fath ddangosiad o werth cynhenid, mae hi yn darllen llith

i awen y prydydd, tra mae hi yn plethu talarth i'w arleisiau.—Mae y rhai hyn, a rhai planbigion ereill, wedi eu dilladu yn eu gwyrddni naturiol, yn cadw eu gwedd brydferth yn y gwledydd mwyaf anwydog, ac yn y misoedd oeraf.

Y fath, ac mor barhaus, yw perffeithiadau deall coethedig, a thymher hawddgar. Addurniadau tlysiion gwisgiad, y rhai a gaethiwant y werinos anystyriol, a fyddant yn fuan yn ddiflas a dirmygus : y wefus gwrel, a'r rudd rosynaidd a wywant ; arabedd (*wit*) serenog,* yn gystal a'r llygad serenog, ni foddiant ond dros funudyn. Ond y mae gan y meddwl rhinweddol swynion y rhai a orfucheddant yr addurniadau isel hyn oll : swynion, y rhai a ychwanegant at berarogl llysieuyn, barhad y byth-wyrddion.

Y fath, hefyd, yw dedwyddwch y gwir grefyddol ;

* “ Leied mae Duw yn cyfrif y pethau mae dynion yn ystyried yn fawrion ; y doniau o arabedd a hyawdledd, a fawrha dynion mewn rhai ! Och ! mor dlawd ydynt iddo ef ! Nid yw efe yn anrhydeddu y rhai sydd ddoeth o galon : nid ydynt ddim, ond llai na dim yn ei olwg. Mae hyd yn oed dynion yn rhyfeddu, leied wyr dynion ; fychaned peth sydd yn gorwedd dan swm y rhyfeddodau poblogaidd hyn, dyn dysgedig, ysgolhaig mawr, teyrnwr mawr. Pa faint mwy mae'r Duw holl-ddoeth yn gwneuthur cyfrif gwael o'r rhai hyn ! Mae efe yn dangos yn aml, hyd yn oed i'r byd, eu gwaeledd : yn gwneuthur ffyliaid o honynt. Felly, gwroldeb, neu enedigaeth uchel, neu fawredd bydol, mae efe yn rhoddi y rhai hyn, a'u rhoddi fel pethau digyfrif yn ei olwg, i'r rhai ni chant byth weled ei wyneb ; ac yn galw i etifeddiaeth gogoniant, creaduriaid gwael dirmygedig, a edrychir arnynt fel ysgubion a sorod y byd.”

Fel hyn y dŵed awdwr rhagorol ; yr hwn sydd yn ysgrifenu gydag ysbryd hawddgaraf ewyllys da ; gyda'r gostyngeddwrdd mwyaf diffuant ; ac, fel yr ysgrifenywyr sanctaidd, y rhai mae efe yn eu hefelychu, gyda symlder ardderchog dull :—dethol waith yr hwn allaf anturio ganmawl, nid yn unig fel trysor, ond fel gwythen gynhenid o dduwioldeb pur, efengylaidd.—Gwel tudal. 520 o dethol Waith Archesgob Leighton, argraffiad Edinburg, wyth-plyg ; yr hyn a ddylyn grybwyll, am nad yw y rhan hono o'i ysgrifeniadau, a'm cynnysgaeddodd a'r difyniad uchod, yn argraffiad Llundain.

“fel pren,” medd y moesdraethwr ysbrydoledig, “yr hwn ni wywa ei ddalen.” Nid yw efe yn benthycia ei heddwch oddiwrth amgylchiadau allanol, ond mae ganddo drysorfa o mewn, a “digonedd o hono'i hun.”* Er ei dlodi gan ddamweiniau helbulus, mae efe yn gyfoethog mewn meddiant o ras, ac yn gyfoethocach yn ngobaith gogoniant; mae ei orfoledd yn anfeidrol uwchlaw, yn gystal ag ardderchog anymddibynol ar, fflagiad ansafadwy hyfrydwch cnawdol, neu ewyllys da a rhoddion gwammal (yr hyn a eilw'r byd) ffawd.

Os yw yr eira yn cyfansoddi lluoedd eirf-ysgafn yr wybr, mi dybygwn fod y cenllysg yn gwneuthur i fynu ei chyflegrau trymion.† Pan yrer hi gan wynt angerddol, gyda pha chwynder arswydus y disgyn y gafod garregog! fel yr adlama oddiwrth y llawr rhewedig, ac y trystia ar y tŷ gwrthlefog! Mae hi yn gwneuthur i'r afon fygu, ac yn ei fflangellu yn anwedd. Mae hi yn llethu pob blodeuyn mabanaidd, yn dryllio planhigion cynnar y garddwr yn ddarnau, ac yn curo ei amddiffynfa egwan o wydrau yn ysgyrrion. Mae hi yn ergydio yn wyneb y teithiwr; mae efe yn troi yn frysio oddiwrth yr ergyd, neu yn teimlo am y gwaed yn ffrydio ar ei rudd. Os ymgilia efe i'r tŷ, hi a'i canlyn yno; ac, fel gelyn penderfynol a barha i erlid, hi a ymddryllia trwy'r ffenestr glindarddog.—Ond mae'r ymosodiad lliidiog yn fuan drosodd; mae'r cymbylau ar fyr yn treulio'u saethau, ar fyr yn llaesu eu bwa.

* Diar. xiv. 14.

† “Mae efe yn bwrw ei ia fel tammeidiau,” Psal. cxlvii. 17. yr hyn, mewn iaith ddiweddar, a ellid eirio—“Mae efe yn tywallt ei genllysg fel cawod o belau. Mae'r gair *עַרְבָּ*, *pitteem*, a gyfieithir yn anunion tammeidiau, yr wyf yn meddwl yn cyfeirio at y rhanau mân hyn o'r graig, neu'r cerrig llyfnion o'r afon, y rhai, yn nydd rhyfel, a ergydiau'r ymladdwyr o'u ffyn-taf.

Da i drigolion y ddaear, fōd rhuthr mor arswydus ffyrnig mor neillduol ddibara! Pe amgen, pa beth allai ddal yr ergyd, neu ddiangc dinystr?

Ond, wele enfys heddychlawn! enfys, a liwiwyd ag amrywiaeth o liwiau ar y cwmwl a ddadlwythwyd. Mor fawr yw meithder, mor brydferth yw cymhlethiad, y bwa gwlawiog hwnw! Mae efe yn amgylchu y nefoedd â chylch gogoneddus, ac yn ein dysgu i anghofio dychrynfeydd y dymhestl. Prydferth yw ei ffurf, a hardd yw ei wawr; ond hyfryttach yw ei arwyddocâd sanctaidd. Tra gwridia y crinllys a'r rhosyn yn ei bryd tēg, gwena'r balmwydden yn ei ystyr grasol. Mae efe yn ysgrifenu, mewn lliwiau dysclaer, yr hyn a ganodd yr angylion mewn odlau peroriaethol: "Ar y ddaear, tangnefedd; i ddyinion ewyllys da." Sel sicrwydd yw, am barhad amser hau a medi, am gadwedigaeth a diogelwch y byd gweledig.* Arwydd cysurus † yw am sefyllfa well, a dedwyddach teyrnas—teyrnas, lle paid pechod, ac y dilëir trueni; lle ni chur tymbestloedd, ac ni threiddia gauaf mwyach: eithr sancteidrwydd, dedwyddwch, a llawenydd, fel gwanwyn diderfyn, a flagurant yn oes oesoedd.

* Gen. ix. 12—16.

† Dat. iv. 3.

TERFYN.

ydu
alla

'd ag
wyd.
cym-
e yn
ein
ferth
;w ei
s ar
n ei
riau
llau
nion
hau
ig.*
ach
ni;
vy-
ld,





Call 5122.2.30
Myfyrdodau ac ystyriaethau, ... /
Widener Library 005254345



3 2044 080 767 668